Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

10189 e. 110

David Jenkin Davies

8 Great Dark Gate St

Aberystwyth

July 10. 1866.

1/6 = 8$^{P.}$

# NODIADAU

## EGLURHAOL AC YMARFEROL

AR YR

# EPISTOL AT YR HEBREAID.

GAN W. REES,
LIVERPOOL.

---

DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM HUGHES & Co.
MDCCCLXVI.

BODLEIAN
P
23 SEP 1975
LIBRARY

# AT Y DARLLENWYR.

---

GYDWLADWYR A CHYFEILLION:

Hysbys yn ddiau i'r rhan fwyaf, os nid i bawb o honoch y dygwydda ddyfod y Gyfrol fechan hon i'w dwylaw, ddarfod i'r nodiadau a gynnwysir ynddi ar yr Epistol gogoneddus at yr Hebreaid, ymddangos o dro i dro yn y DYSGEDYDD, yn ystod y tymmor o'r flwyddyn 1856 hyd 1860. Y rheswm dros eu cyhoeddi yn gyfrol fel hyn ydoedd, ddarfod i lawer a'u darllenasant yn y DYSGEDYDD, ac eraill hefyd, annog yr awdwr yn daer a pharhaus i wneuthur felly; gan eu bod yn wasgaredig, ac oblegid hyny yn anghyfleus i droi atynt, a gwneud defnydd o honynt, fel yr oeddynt yn y misolyn; ac y gallasai fod llaweroedd a ewyllysient eu cael, na chawsent y cyfleusdra i'w gweled yn y DYSGEDYDD. Yn awr, wele eu dymuniad hwnw wedi ei gyflawni iddynt. Yr oedd, ac y mae yn gryn gysur i feddwl yr awdwr, gael na bu ei lafur yn hyn o beth yn anghymeradwy gan ddosbarth lled luosog o'i gydwladwyr darllengar. Ni raid iddo ddweyd ddarfod i'r gwaith gostio cryn lawer o ymchwil a myfyrdod, dros amser lled faith, a hyny yn gymysg â thrafferthion llawer o

orchwylion eraill; ond, "Yn mhob llafur y mae elw," a hydera ddarfod i'w feddwl ef ei hun elwa peth oddiwrtho, ei fod ar y diwedd yn deall y gyfran ardderchog hon o'r gair santaidd ryw gymaint yn well nac yr oedd cyn dechreu; a meiddia obeithio y gall y bydd y gwaith, er ei holl ddiffygion a'i anmherffeithrwydd, o ryw gymhorth i ambell ddarllenydd, beth bynag, i ddeall a mwynhau gwirioneddau mawrion a gogoneddus yr Epistol yn well trwyddo.

Y mae y nodiadau ar y cyfan yr un a'r unrhyw ac a ymddangosodd yn y DYSGEDYDD. Cywirwyd amryw wallau argraffyddol, dodwyd ambell i nodiad newydd i mewn yma ac acw, helaethwyd peth ar y nodiadau mewn rhai manau, a chyfnewidiwyd amryw frawddegau, lle y bernid fod tywyllni neu gloffni yn y geiriad yn galw am hyny.

Yn ddiarwybod iddo ei hun, ryw fodd, yr ymgymerodd yr awdwr â'r anturiaeth fawr hon, ac nid oddiar ragfwriad, neu oddiar dybiaeth ei fod yn gymhwys i ymaflyd ynddi. Wedi cydio yn y gwaith, penderfynodd wneud ei oreu yn ol hyny o gymhwysderau oedd ganddo, gan ei draddodi i gymeryd ei dynged yn nwylaw y cyhoedd. Nid oedd ganddo olwg ar y cychwyn, ond yn unig cynnyg deongliad ar y gyfran gyntaf o'r chweched bennod o'r Epistol, yr hwn oedd yn gryn wahanol i ddim a welsai efe gan neb arall. Ymddangosodd hwnw yn Rhifyn Mai o'r DYSGEDYDD am 1853; a thynodd gryn sylw ar y pryd, a chymeradwyaeth nifer o ddarllenwyr deallus; ac yn eu mysg y duwinydd dwfngraff, un o'r rhai penaf a fagodd Cymru yn yr oes hon yn ddiau, y diweddar Barch. D. Morgan o Lanfyllin, yr hwn a daer annogai yr awdwr droion, i ymgymeryd â'r gorchwyl o ysgrifenu nodiadau ar yr holl Epistol. Aeth tair blynedd heibio, modd bynag, cyn iddo ymaflyd yn y gorchwyl; a phan ddechreuodd arno, ni fwriadai fyned yn mhellach yn mlaen gydag ef yn y DYSGEDYDD na diwedd yr wythfed bennod. Wedi myned gan bellach a hyny, gadawyd ef yn

y fan hòno am yn agos i flwyddyn; ac y mae yn debygol mai yno y buasai hyd heddyw, ond fel yr yspardunid ef i'w gwblhau. Dyna i chwi, ddarllenyddion hynaws, sylwedd hanes hyn o lafurwaith, a gyflwynir yn awr i'ch sylw, gyda dymuniadau goreu yr awdwr i chwi oll; ac yn yr hyder na bydd yn gwbl anghymeradwy yn eich golwg, nac yn hollol ddifudd chwaith.

Y mae ynddo olygiadau hollol newyddion ar rai rhanau o'r Epistol; ni fynwn i neb feddwl yn uwch nac yn is am y gwaith ar y cyfrif hwnw—profed a barned pob darllenydd hwynt drosto ei hun; na dderbynied, ac na wrthoded hwynt chwaith yn unig ar gyfrif eu newydddeb. Ymgynghorwyd â phob esboniwr ar yr Epistol oedd o fewn cylch cyrhaedd yr awdwr, pan oedd yn ysgrifenu ei nodiadau; ond ni ddilynwyd yr un o honynt yn fwy na'r llall ganddo, a chymerai ei ryddid i ddweyd ei fod yn anghytuno â hwn ac â'r llall o honynt mewn llawer o fanau, ac â hwynt oll mewn rhai manau. A meiddia hòni, fod ei esboniad, beth bynag arall am dano, yn gymaint eiddo iddo ef ei hun, ac yr un a gyhoeddwyd ar yr Epistol o ddyddiau Theophylact a Theodoret hyd yn awr; ond gwyr yn dda, a chydnebydd yn rhwydd, ei fod yn mhell iawn yn ol i laweroedd o esboniadau dysgedig a gyhoeddwyd ar yr Epistol, a hyny mewn llawer o bethau. Nid oedd esboniad anghymharol yr anfarwol Dr. Owen gan yr awdwr pan yr ysgrifenai ei nodiadau; ond y mae yn awr yn ei feddiant, a gwnaeth beth defnydd o hono wrth barotoi y gyfrol hon i'r wasg, fel y gwel y darllenydd. Yr oedd y sylw dibrisiol a wna Moses Stuart ar waith Owen wedi crëu mesur o ragfarn yn meddwl yr awdwr tuag ato; ond wedi iddo gael y gwaith, ac edrych ychydig i mewn iddo, symudwyd y rhagfarn hwnw yn llwyr o'i feddwl yn fuan, a chreda yn awr nad oedd Stuart ei hun, er yr holl barchedigaeth a delir i'w ddysg a'i graffder beirniadol, ond corach yn ymyl cawr, pan y'i cymherir â'r

hen Buritan, a chymeryd pob peth gyda'u gilydd dan ystyriaeth. Y tebycaf i Paul ei hun, fe ddichon, o holl dduwinyddion yr Eglwys Gristionogol, o ran ei "ddeall yn nirgelwch Crist," oedd Dr. Owen; a chredwn mai ei esboniad ef ar ei Epistol at yr Hebreaid a gymeradwyai Paul ei hun fel y goreu un o'r oll a ysgrifenwyd arno, pe ceffid cyfleusdra i ofyn ei farn ar y mater.

Yn awr, ddarllenwyr, byddwch wych! Bendithier chwi oll, a ninnau yr un modd, â gwybodaeth helaeth, gywir, a phrofiadol, o'r gwirioneddau dyfnion, gogoneddus, efengylaidd, a santeiddiol a gynnwysir yn yr Epistol ardderchog, y cynnygir y nodiadau arno yn y tudalenau canlynol. Amen.

W. REES.

LIVERPOOL, *Rhag.* 28*ain*, 1865.

# RHAGDRAETH.

## DOSBARTH I.

Y MAE wyneb yr ysgrythyrau rywbeth yn debyg i wyneb y ddaear, yn llawn o amrywiaeth golygfeydd ac ansoddau tir ac awyr. Wele acw fynyddoedd uchel, creigiau anhygyrch, a bryniau serth; rhyngddynt y gorwedd dyffrynoedd breision, porfaog, a ffrwythlawn; ac afonydd gloewon yn araf ymdreiglo trwyddynt, gan amgylchu a dolenu, megys pe byddent yn anewyllysgar i ymadael, ac am gymeryd hamdden i ymrolio a mwynhau tawelwch y dyffryn cyn ymdywallt i, ac ymgolli yn nghyflawnder yr eigion. Wele, yna y mae glynoedd culion a dyfnion, ac aberau bychain yn prysur redeg dros y cèryg ar eu gwaelodion, fel pe yn dianc ymaith mewn ofn a phryder, rhag i neb na dim eu hattal i gyrhaeddyd y nôd y cyfeiriant ato. Gallai sylwedydd arwynebol dybied y buasai yn well bod heb y mynyddoedd, y bryniau, a'r creigiau diffrwyth, ac mai mwy dymunol fuasai bod wyneb y ddaear oll yn wastad-dir ffrwythlon; ond gwel gwir ddysgybl natur ddoethineb a gogoniant y Creawdwr a'i waith yn gymaint yn y mynyddau uchel ag yn y dyffrynoedd isel, yn y creigiau a'r bryniau moelion yn gystal ag yn yr iseldiroedd breision; canys heblaw eu bod yn peri amrywiaeth hyfryd yn yr olygfa i'r llygad a fydd *yn gweled anian*, y maent hefyd yn ddefnyddiol er cydnawseiddio yr awyr-dymher, y maent megys yn gohebu â'r cymylau dros y gwastad-diroedd obry, ac yn pwrcasu gwlaw iddynt. Ac heblaw hyny, hwynt-hwy ydynt drysorgelloedd y mwnau cuddiedig, gan mwyaf, ac o honynt y cloddir y pres, y plwm, yr haiarn, a'r glo.

Ymgyfyd rhanau o'r ysgrythyr fel mynyddoedd a bryniau uchel, a rhanau eraill ydynt yn gorwedd fel dyffrynoedd teg a ffrwythlawn; ambell i dwmpath o graig serth megys, yn anhawdd ei dringo, na gwneud dim o honi; a rhan arall yn gyffelyb i ddoldir gwastad a meillionog, lle y gall yr ŵyn "bori yn ol eu harfer"—rhai bychain yn Nghrist gasglu blodau a ffrwythau. Ymgyfyd gweledigaethau aruthrol Ezeciel, Daniel, ac Ioan, fel mynyddoedd a bryniau, a chreigiau mawrion, tra y mae Salmau Dafydd, a rhanau o'r prophwydi, yr efengylau, a'r epistolau, fel gwinllanoedd teg, a gerddi dyfradwy, yn dwyn pob math o lysiau ac aeron hyfryd eu harogl, a pheraidd i'r archwaeth. Gallai y tybia ambell ddarllenydd o'r Beibl, mai mwy dymunol fuasai fod holl wyneb y dadguddiad yn wastadedd teg—bod llawer o farnedigaethau Moses, llawer o achau yr Hen Destament, a llawer o weledigaethau y prophwydi yn bethau y gallesid eu hebgor, ac nad oes nemawr i ddim o fuddioldeb ysbrydol i'w gael ynddynt;

ond erbyn cloddio i mewn iddynt, ceir fod ynddynt drysorau cyfoethog o fwnau gwerthfawr—eu bod oll yn gwasanaethu pwrpas a dyben priodol.

Y mae yr Epistol hwn at yr Hebreaid yn un o ddyffrynoedd breision yr ysgrythyr, lle y mae rhai o brif athrawiaethau yr efengyl, fel afonydd dyfnion o ddwfr y bywyd yn rhedeg trwyddo. Yma cawn ddeddfau Moses wedi eu hesbonio a'u hegluro. Y mae yr awdwr ysbrydoledig megys yn myned i winllan yr hen gyfammod, (llyfr Lefiticus yn neillduol,) ac yn casglu grawnsypiau oddiar ei gwinwydd, ac yn distyllio o honynt y gwin goreu, yr hwn sydd wedi ei roddi i gadw at wasanaeth yr eglwys trwy yr holl oesau yn nghostrelau yr Epistol hwn. Yr oedd pin yr apostol megys gwialen yn ei law, â'r hon y tarawai efe hen greigiau Horeb a Sinai—y deddfau a'r barnedigaethau, y cysgodau a'r seremonïau, fel y ffrydiai dyfroedd iachusol o honynt, "megys o ddyfnderau dirfawr."

### DOS. II. CANONIAETH YR EPISTOL.

1. "Gellir olrhain yr arferiad o'r gair *canon*," medd Gaussen, "yn yr ystyr y defnyddir ef yn awr, yn ol i henafiaeth pell iawn. Yn Hebraeg, Groeg, a Lladin, y mae y geiriau κανη, καννα, κανών, *canna*, oll yn deilliaw o'r un gwreiddyn; yn llythyrenol, yn arwyddo *corsen, gwialen unionseth, mesureg, rheol.* Yn ffugrol, arwydda κανών, yn benaf, rheol gywir a pherffaith. Yn yr ystyr lythyrenol, defnyddid y geiriau κανών, a *gwialen*, am y twban *(tubes)*, pibellau i ergydio pelenau â phylor trwyddynt. Yn yr ystyr ffugrol y mae gan Paul pan y dywed wrth y Galatiaid, "A chynnifer ag a rodiant yn ol y rheol *(canon)* hon, tangnefedd arnynt;" ac wrth y Philippiaid, "Cerddwn wrth yr un reol" *(canon)*. Mor fore a dyddiau Paul arferai gramadegwyr Alexandria yr un ymadrodd i ddynodi yr holl lyfrau a gyfrifid yn safonau teilyngdod a rhagoroldeb mewn llenyddiaeth; a mabwysiadodd ysgrifenwyr eglwysig y term yn fuan iawn wedi hyny, i osod allan, weithiau, holl gorff yr athrawiaeth Gristionogol—ein rheol bywyd; weithiau, y gyfrol santaidd—unig reol ein ffydd; ac weithiau, y restr o lyfrau yr ysgrythyr a gynnwysant y reol hòno. A'r olaf yw yr ystyr gyffredinol a roddir i'r gair yn awr." *

2. Y mae holl hanesiaeth canoniaeth yr ysgrythyr, yr Hen Destament a'r Newydd—pa lyfrau a gydnabyddid o awdurdod ddwyfol, a pha rai a wrthodid eu cydnabod felly, yn llawn o'r profion mwyaf amlwg a hynod o ofal Duw am ei air, a'i oruwchlywodraeth ar feddyliau a phenderfyniadau dynion mewn perthynas iddo. Mynai ef gadw a diogelu y trysor gwerthfawrocaf hwn a roddasai i'r eglwys a'r byd yn gyflawn, yn bur, a digymysg. Ymddiriedwyd oraclau santaidd y gyfrol gyntaf—yr Hen Destament, i'r eglwys Iuddewig i'w cadw. Y

* Gaussen on the Canon of the Holy Scriptures, p. 5.

benaf o ragorfreintiau yr enwaediaid, medd Paul, oedd, "ddarfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw," (Rhuf. iii. 2). Er mai "pobl gyfeiliornus yn eu calon" oeddynt; "cenedlaeth gyndyn a gwrthryfelgar—cenedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn, ac nad oedd ei hysbryd yn ffyddlawn gyda Duw;" cenedlaeth a dòrai ac a ddrylliai bob cyfammod a deddf a osodai Duw iddi: er hyn oll, bu y genedl hòno yn ei holl genedlaethau yn ffyddlon i'r ymddiried hwn. Cyhuddir hwynt beunydd, y naill genedlaeth ac oes ar ol y llall o honynt, o ddiystyru deddfau a gorchymynion yr Arglwydd yn ei air, trwy eu gwrthryfel a'u hanufudd-dod; ond ni chyhuddwyd hwynt unwaith erioed o wadu awdurdod ddwyfol un ran o'u hysgrythyrau, nac o dynu oddiwrthynt, nac ychwanegu atynt, na cheisio cyfnewid dim un iod o honynt, nac o ddodi un llyfr anysbrydoledig yn eu canon. Y bobl a labyddient ac a laddent brophwydi Duw, a ddibrisient ac a wawdient eu cenadwri pan oeddynt yn ei thraddodi wrthynt; er hyny, a gadwent yr un genadwri yn ysgrifenedig gyda'r gofal a'r parch mwyaf cysegredig! A'r un bobl a anrhydeddent ac a fawrygent eu gau-brophwydi, y rhai a draethent weniaith, ac a brophwydent dwyll a siomedigaeth, gan addaw digonedd o ŷd a gwin, a heddwch a llwyddiant iddynt i'w mwynhau, ni cheisiasant, er hyny, erioed osod ymadroddion y gau-brophwydi hyny yn mysg eu horaclau bywiol! Yr ysgrifeniadau hyny oeddynt yn eu cyhuddo ac yn eu condemnio fel y fath waethaf o ddynion, yn tystiolaethu am danynt eu bod *yn waeth na'r cenedloedd*, yr edrychent hwy arnynt gyda'r dirmyg mwyaf, a anrhydeddid ganddynt wedi'r cwbl fel oraclau dwyfol; tra y gollyngent enwau a geiriau y gau-brophwydi a wenieithient iddynt i syrthio i ebargofiant. I ba beth y priodolir hyn, ond i ofal arbenig Duw am ei air, a'i oruwchlywodraeth ar feddyliau a gweithrediadau y bobl hyny yn eu perthynas âg ef?

3. Y mae tystiolaeth Josephus ar y mater hwn yn deilwng o'i choffâu:—"Nid oes dim erioed wedi ei dystio a'i brofi yn gadarnach," medd efe, "na'r ysgrifeniadau awdurdodedig yn ein mysg ni (yr Iuddewon). Yn wir, ni buont erioed yn wrthddrych o un ammheuaeth yn ei gylch; oblegid hyny yn unig a gydnabyddwyd yn ein plith—yr hyn a ddysgodd y prophwydi lawer o oesau yn ol drwy awdurdod ysbrydoliaeth Duw. Y mae, gan hyny, yn anmhosibl cael yn ein mysg ni, fel yn mysg y Groegiaid, luaws mawr o lyfrau yn anghytuno, ac yn gwrthdaro y naill yn erbyn y llall. Nid oes genym ni ond dau ar hugain yn unig o lyfrau, y rhai sydd yn cynnwys yr oll a ddygwyddodd yn ein plith ni, a'r rhai y mae genym y seiliau goreu i'w credu. Pump o honynt gan Moses; ysgrifenodd y prophwydi a ddeuent ar ol Moses driarddeg o lyfrau eraill, yn cynnwys yr hyn a ddygwyddodd ar ol ei farwolaeth ef hyd deyrnasiad Ahasferus: cynnwysa y pedwar llyfr arall, (y Salmau, y Diarhebion, y Pregethwr, a'r Caniadau), hymnau o fawl i Dduw, a chyfarwyddiadau buchedd.

Ond yn mhellach, ysgrifenwyd yr hyn oll a ddygwyddodd wedi dyddiau Ahasferus hyd ein hamser ein hunain hefyd; ond gan na buasai olyniad rheolaidd o brophwydi, ni chyfrifwyd y llyfrau hyny yn deilwng o'r un derbyniad ac ymddiried a'r rhai o'r blaen. *

"Y mae yn ddigon amlwg oddiwrth y ffeithiau hyn pa mor belled y rhoddem hyder yn ein hysgrythyrau ein hunain; canys yn ystod cynnifer o ganrifau ac sydd wedi myned heibio, ni feiddiodd un dyn erioed gynnyg ychwanegu at, na thynu oddiwrth, na chyfnewid dim oll arnynt. Y mae wedi bod yn feddwl gwreiddiol yn yr holl Iuddewon, o'r genedlaeth gyntaf, neu o'u genedigaeth, i alw y llyfrau hyny yn *ddysgeidiaeth Duw*, a glynu wrthynt; ac os b'ai raid, i farw yn llawen drostynt."

"*Nid eiddo dyn ei ffordd; nid ar law gwr a rodio y mae llywodraethu ei gerddediad.*" Nid oedd genym un olwg na bwriad pan yn ysgrifenu teitl y dosbarth hwn, i fyned y ffordd yr aethom; amcenid dweyd ychydig o berthynas i awdurdod ganonaidd yr Epistol at yr Hebreaid yn unig; ond gan mai fel arall y bu, awn rhagom beth yn mhellach etto yn y ffordd a gychwynasom.

4. Y mae hanes canoniaeth llyfrau y Testament Newydd yn dwyn llawer o gyffelybrwydd i hanes yr eiddo llyfrau yr Hen. Gallai y cyfyd yr ymofyniad yn meddwl ambell ddarllenydd, Pa safon oedd gan yr Iuddewon i farnu a phenderfynu wrthi, pa lyfrau oedd i gael eu derbyn ganddynt i'w *canon?* Beth oedd canon eu canon? Moses oedd y cyntaf erioed a hònodd wrthynt ei fod yn genad anfonedig gan Dduw atynt, a'i fod yn llefaru geiriau Duw wrthynt, ac yn ysgrifenu meddwl Duw iddynt. Profodd a chadarnhaodd yr hòniad hwnw trwy lawer o arwyddion a rhyfeddodau. Gwyddai, credai, a chydnabyddai y genedl yn mhob oes o honi, "lefaru o Dduw wrth Moses." Moses, a'i ysgrifeniadau, gan hyny, oedd eu safon i brofi yr ysbrydion wrthynt, sef pob un a ddeuai atynt ar ei ol, gan gymeryd arno ei fod wedi ei anfon gan Dduw. Yr oedd raid iddo anrhydeddu Moses a'i ddeddfau, a bod ei ddysgeidiaeth yn gyson â'r hyn oll a lefarasai efe, neu yr oedd yn brin yn mesur a chlorianau y canon, ac yn wrthodedig; ac y mae yr holl brophwydi a'r ysgrifenwyr santaidd o hyd yn anrhydeddu Moses. Am adael a gwrthod deddfau Moses yr oeddynt bob amser yn ceryddu ac yn argyhoeddi y bobl; ac i ufudd-dod i ddeddfau Moses yr oeddynt yn wastad yn eu galw, ac yn eu cymhell: "Cofiwch gyfraith Moses fy ngwas, yr hon a orchymynais iddo ef yn Horeb i holl Israel, y deddfau a'r barnedigaethau," oedd geiriau olaf prophwyd diweddaf yr Hen Destament. Mesurwyd a phwyswyd llyfrau yr Apocrypha wrth ac yn y *ganon* hon—Moses a'r prophwydi, a chaed

* Cyfrifai'r Iuddewon y Barnwyr a Ruth fel un llyfr, a'r un modd llyfrau Samuel, y Brenhinoedd, a'r Croniclau; Prophwydoliaeth a Galarnad Jeremiah, a'r deuddeg prophwydi lleiaf, yn un llyfr bob un: yn gwneud felly driarddeg yn ol eu cyfrif hwy, ac unarddeg ar hugain fel y cyfrifwn ni.

hwynt yn brin, fel yr awgrymai Josephus, yn y geiriau a ddyfynwyd o'r blaen. Nacaodd yr Eglwys Iuddewig drwydded iddynt i fyned i blith ei llyfrau canonaidd. Os cynnygid byth lyfr neu lyfrau gyda'r hòniad o awdurdod ysbrydoledig, yr Hen Destament, Moses a'r prophwydi, mewn rhan, oedd i fod y safon, neu y ganon i'w profi. Mewn rhan, meddwn, canys dysgwylid yn rhesymol hefyd iddynt ddwyn ac arddangos profion eu hunain, yn annibynol ar y lleill, a'r cyffelyb brofion a ddygasai Moses ac amryw o'r prophwydi i'w tystiolaethau, sef gwyrthiau. Terfynodd gwyrthiau yr Hen Destament gyda pherffeithiad llyfrau ei brophwydoliaeth, a bu yspaid o bedwar can' mlynedd heb na phrophwyd na gwyrth.

5. Yn ngenedigaeth y Gwaredwr, cyflawnwyd y wyrth benaf o'r gwyrthiau oll—"morwyn yn esgor ar fab;" ac egyr yr ail gyfrol ganonaidd gyda hanes y wyrth ryfeddaf hòno. Ysgrifenwyd hanes ei enedigaeth, ei fywyd a'i farwolaeth, ei adgyfodiad a'i esgyniad ef, gan bedwar o dystion, dau o honynt yn apostolion, a'r ddau arall yn weinidogion y gair; un o honynt, Marc, yn ysgrifenu dan arolygiaeth Pedr; a'r llall, Luc, dan gyfarwyddyd a chymeradwyaeth Paul: felly yr oedd y sel apostolaidd arnynt oll. Rhoddodd y Gwaredwr i'r Iuddewon yr un profion o ddwyfoldeb ei anfoniad atynt, ac a roddasai Moses o'i awdurdod ddwyfol ef i'w tadau gynt, sef gwyrthiau, a gwyrthiau mwy, a mwy o honynt, nac a wnaethai Moses; a dywedai y buasai ganddynt esgus dros eu hanghrediniaeth ynddo, a'u gwrthodiad o hono, oni buasai wneuthur o hono yn eu mysg weithredoedd na wnaethai neb arall.[1] Ond heblaw hyny, efe a appelia yn barhaus at ysgrythyrau yr Hen Destament, Moses a'r prophwydi, fel tystion iddo. Y mae yn foddlon, ïe, yn annog yr Iuddewon i'w gymeryd ef a'i hòniadau a'i athrawiaeth at eu canon eu hunain i'w brofi. Yr un modd y gwna'r apostolion yn barhaus; nid oeddynt, meddent, yn tystiolaethu dim ond yr hyn a ddywedasai Moses a'r prophwydi y delent i ben.[2] Felly, mewn rhan fawr, gwna y Testament Newydd yr Hen Destament yn safon i'w brofi ei hun wrtho, gan arddangos ei brofion annibynol, gwyrthiau Crist a'i apostolion, yn dystiolaethau hefyd.

6. Yn ngoruchwyliaeth dydd y pentecost, dechreuwyd sefydlu eglwys newydd dan gyfammod, cyfansoddiad, a threfn newydd, neu yn hytrach, y toddwyd ac y bwriwyd eglwys yr Hen Destament i fold y newydd. O herwydd paham, angenrhaid oedd bod i hon drachefn ei llyfrau canonaidd, i ddiogelu purdeb ei hathrawiaeth a'i threfn, ei sefydlogrwydd a'i pharhad, i fod yn safon i brofi pob ysbryd, pob athrawiaeth wrthi, yn mhob man ac yn mhob oes; ac yn wir, ni buasai canon yr Hen Destament wedi ei chadarnhau byth heb y llall, canys y newydd yw cyflawniad yr hen, a thrwy y newydd y mae yr hen wedi ei pherffeithio. Tystiolaeth y tystion etholedig o'r blaen, yr apostolion, yn y pregethiad cyntaf o'r efengyl i'r byd, fel y crynhoid ac y gosodid hi

[1] Ioan xv. 24. [2] Act. xxvi. 22.

allan gan Matthew yn ei efengyl—a'r hon efengyl a dderbyniwyd fel oracl o ddwyfol awdurdod gan yr eglwysi cyntaf yn mhob man, a hyny ar ei hymddangosiad cyntaf; yr efengyl hon (megys yr oedd llyfrau Moses i'r Hen Destament) ydoedd cynsafon canoniad pob llyfr a phob ysgrifen ar ei hol a gynnygid i'w gydgorffori â hi. Ysgrifenwyd y tair efengyl arall pen yspaid lluaws o flynyddau ar ol yr un gan Matthew; a'r tair hyn yn un y maent yn cytuno i gadarnhau tystiolaeth y gyntaf—yn holl brif ddygwyddiadau bywyd a marwolaeth Crist; ac yn gystal a hyny, ei athrawiaeth. Yr oedd amryw o'r epistolau wedi eu hysgrifenu gan Paul, a'r eiddo Pedr, hwyrach, a'r rhai hyny wedi eu derbyn a'u cydnabod gan yr eglwysi o flaen amser yr efengylau olaf hyny; ond yr efengyl fel y pregethasid hi yn gyntaf, wedi ei thraddodi i'w ffurf o draethawd ysgrifenedig gan Matthew, ac a gadarnheid drachefn yn yr efengylau a ganlynent, ydoedd y safon i brofi awdurdod lenyddol pob epistol neu draethawd a gynnygid i'r eglwys. Yr oedd anrhydeddu Crist yn ei berson, ei burdeb, ei swyddau, ei ufudd-dod perffaith hyd angeu, mewn gair, bod perffaith gysondeb rhyngddo â'r dystiolaeth ysgrifenedig oedd eisoes wedi ei derbyn gan yr eglwys fel oracl o awdurdod ddwyfol, yn nôd anhebgor er canoniad y cyfryw. Yr oeddynt i ddwyn dysgeidiaeth Crist ynddynt, i'w anrhydeddu ef fel unig Arglwydd ac Athraw yn mhob peth a berthynai i grefydd a gwasanaeth Duw, i ddysgu ufudd-dod i'w orchymynion a'i osodiadau ef, fel yr anrhydeddai prophwydi ac ysgrifenwyr yr Hen Destament Moses a'i ddeddfau; a hyny a wnant yn ddieithriad, gan ddangos ei fod ef "yn haeddu mwy gogoniant na Moses," fel y dywed Paul yn yr Epistol hwn, (pen. iii. 4). Yn unol â thystiolaeth Crist am dano ei hun yn ei ddysgeidiaeth, lle y dywed ei fod ef a'r Tad yn un, a bod pawb i'w anrhydeddu ef *fel y maent yn anrhydeddu y Tad*, ac mai am dano ef yr ysgrifenasai Moses.[1]

Y mae deddf canon athrawiaeth y Testament Newydd yn cael ei gosod i lawr gan yr apostolion—Paul ac Ioan—yn yr ymadroddion hyn:—"Am hyny yr wyf yn hysbysu i chwi," medd Paul, "nad oes neb yn llefaru trwy Ysbryd Duw, yn galw yr Iesu yn ysgymunbeth (yn dwyllwr): ac ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, (ddwyn tystiolaeth awdurdodedig ar y pwnc) ond trwy yr Ysbryd Glan."[2] Ac, medd Ioan, "Anwylyd, na chredwch bob ysbryd, eithr profwch yr ysbrydion ai o Dduw y maent: oblegid y mae gau-brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd. Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae. A phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw."[3] A thrachefn, "Pob un a'r sydd yn troseddu, ac heb aros yn nysgeidiaeth Crist, nid yw Duw ganddo ef. Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, hwnw y mae y Tad a'r Mab ganddo. Od oes neb yn dyfod atoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon, na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch, Duw yn rhwydd,

[1] Ioan v. 23, 46; a x. 30. [2] 1 Cor. xii. 3. [3] 1 Ioan iv. 1, 2, 3.

wrtho."[1] Dyna y reol osodedig i'r eglwysi i brofi pob ysbryd, pob dysgawdwr, a phob dysgeidiaeth, a hònent awdurdod ysbrydoledig, wrthi. Yn ol fel y safent yn wyneb y prawf hwn, yr oeddynt hwy i ymddwyn tuag atynt—eu derbyn neu eu gwrthod. "Yn gymaint a darfod i lawer gymeryd mewn llaw osod allan mewn trefn draethawd am y pethau a gredir yn ddiammheu yn ein plith, megys y traddodasant hwy i ni, y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair: minnau a welais yn dda, wedi i mi ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad, ysgrifenu mewn trefn atat, O ardderchocaf Theophilus, fel y cait wybod sicrwydd am y pethau y'th ddysgwyd ynddynt," medd Luc ar ddechreu ei efengyl. Dïogelid yr efengyl fel hyn mewn traethodau ysgrifenedig, rhag cael ei chymysgu na'i chyfnewid gan fympwyon dynion, yr hyn a fuasai yn sicr o gymeryd lle pe gadawsid hi i ofal traddodiad. Yr ydym yn ei chael yn yr efengylau o dan ddwylaw dynion oeddynt *yn gweled o'r dechreuad*, yn dystion eu hunain o'r pethau a dystiolaethent, ac yn *weinidogion y gair*, yn bregethwyr o'r efengyl hon i'r byd, ac, lawer o honynt, yn y diwedd, yn ferthyron dros eu tystiolaeth, yr hyn a brofa i'r byd am byth eu bod eu hunain yn gredinwyr diymmod o wirionedd y dystiolaeth hòno. Yr efengyl ysgrifenedig mewn traethawd, gan hyny, ydoedd sail a safon prawf pob traethawd neu epistol a hònai awdurdod ysbrydoledig. Nid oedd fod traethawd neu epistol yn cael ei gynnyg i'r eglwys âg enw apostol wrtho, ïe, gyda'r sicrwydd mai apostol oedd ei awdwr, yn unig, yn ddigon o reswm iddi ei dderbyn a'i gydnabod fel o awdurdod ysbrydoledig. Canmola Paul foneddigeiddrwydd y Bereaid am eu bod yn "*chwilio beunydd yr ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly*"—am na fynent dderbyn dim a bregethid ganddo, heb yn gyntaf ei chwilio a'i brofi yn wyneb ysgrythyrau yr Hen Destament, ac fe ddichon, efengyl Matthew. Yr oedd yn ddyledswydd arbenig ar yr eglwysi cyntaf, pan oedd canon y Testament Newydd yn cael ei ffurfio megys yn eu llaw, pa dystiolaeth a adawent hwy i'r eglwysi a ddeuent ar eu hol am awdurdod ysbrydoledig y llyfrau a gyflwynid iddynt—pa rai a gydnabyddent a pha rai a wrthodent. Buasai enw apostol wrth draethawd, gyda'r sicrwydd mai efe a'i hysgrifenasai, yn gymeradwyaeth uchel iddo, y mae yn wir; buasai y tebygolrwydd yn gryf ei fod o awdurdod ysbrydoledig, ond nid yn ddigon o reswm chwaith i'w dderbyn fel y cyfryw heb ei brofi wrth y safon. O'r tu arall, ni buasai traethawd neu epistol heb enw un apostol, nac enw neb wrtho, i'w fwrw ymaith fel peth anysbrydoledig ar y cyfrif hwnw yn unig. Buasai felly dan anfantais fawr, y mae yn wir; ond teg fuasai iddo gael ei chwilio a'i brofi cyn ei gollfarnu a'i wrthod. Ond yn mhellach, y mae genym yn nghanon y Testament Newydd dri, yn wir bedwar, o'r cyfryw epistolau; sef hwn at yr Hebreaid gan Paul, a thri gan Ioan, fel y credir. Bu y ffaith iddynt ddyfod allan felly heb enw-

[1] 2 Ioan 9, 10.

au yr ysgrifenwyr wrthynt yn achos i lawer ammheu a phetruso yn nghylch eu hawdurdod am dymmor. Cedwid hwynt am ryw hyd mewn rhai manau megys ar drothwy teml y canon; ond gweithiasant eu ffordd i mewn gyda chymeradwyaeth unleisiol yr eglwysi yn nerth eu profion mewnol eu hunain—perffaith gysondeb eu dysgeidiaeth athrawiaethol ac ymarferol â dysgeidiaeth Crist.

8. Yn Nadguddiad Ioan perffeithiwyd canon y Testament Newydd, a chyflawnwyd y dadguddiad ysbrydoledig am byth. Dyma drysor dwyfol yr Eglwys Gristionogol yn gyflawn yn cael ei draddodi i'w gofal a'i chadwraeth, megys yr ymddiriedasid yr ymadroddion bywiol yn yr Hen Destament i'r Eglwys Iuddewig. Dechreuwyd ffugio llyfrau ysbrydoledig yn fuan wedi hyny; ac yn wir, cyn marwolaeth yr apostolion diweddaf. Yr oedd *llawer wedi cymeryd mewn llaw* ysgrifenu efengylau, hanes y Gwaredwr, cyn i Luc ysgrifenu ei efengyl ef, medd efe. Ni buasai yn dywedyd fod *llawer* wedi gwneuthur felly pe Matthew a Marc yn unig (y rhai a ysgrifenasent o'i flaen) a olygai; ond aeth y rhai hyny oll, ond yr eiddo Matthew a Marc, ar goll, am nad oeddynt o ysbrydoliaeth Duw. Cymerodd llawer yr un gwaith mewn llaw ar ol hyny drachefn, gan ffurfio efengylau yn cynnwys llawer iawn o bethau croesion a gwrthwynebus i'r efengylau awdurdodedig, i geisio gweithio syniadau cyfeiliornus yr hereticiaid a'u hysgrifenent i dderbyniad a chymeradwyaeth yr eglwysi. Mewn rhai, gwedid priodol Dduwdod y Gwaredwr; ac mewn rhai eraill, gwedid ei briodol ddyndod; ac yn y naill a'r llall, yr oedd lluaws mawr o fympwyon ffol, ac o wrachïaidd chwedlau; "ond ni wrandawodd y defaid arnynt." Ysgrifenid hefyd luaws o epistolau, y rhai a dadogid naill ai ar un o'r apostolion, neu ryw un o'u cydlafurwyr, o'r un ddelw ac argraff a'r efengylau ffugiol, megys yr un a briodolid i Barnabas, (yr un modd ac y cyhoeddasid efengyl dan enw Nicodemus, ac un arall a briodolid i Joseph o Arimathea), yn y rhai y lleferid *pethau gŵyrdraws*, i dynu dysgyblion ar eu hol; ond ni lwyddodd yr un o'r offerynau hyny. Methodd eu llunwyr a'u pleidwyr yn eu hamcan a'u cais i'w gwthio i'r canon. Erbyn canol y drydedd ganrif, yr oedd yr Eglwys Gristionogol wedi llygru yn fawr iawn drwy *roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac athrawiaethau amryw a dyeithr* lawer. Gwneid y swydd esgobawl yn rhywbeth hollol wahanol i'r peth ydyw yn y Testament Newydd, a'r hyn a fuasai yn yr eglwys cyn hyny—yn eulun, ger bron yr hwn y gelwid ar y bobl i ymgrymu gyda gwylder a pharch; a gwisgid hi âg urddas a rhwysgfawredd clasurol. Erchid ufudd dod i'r esgob megys i Dduw, yn mhob peth a ordeiniai ef. Telid parch coelgrefyddol i enwau ac i esgyrn seintiau a merthyron, a dechreuid gweddïo arnynt. Ffugid epistolau ar enwau apostolion, neu rai o'u dysgyblion, i gefnogi y syniadau hyny a'u cyffelyb, fel y gwasgwyd y mater, pa rai oedd yr ysgrifeniadau ysbrydoledig a pha rai nad oeddynt, ar yr eglwysi. Ymdrinid âg ef mewn cynghor ar ol cynghor; ac

erbyn dechreuad y bummed ganrif yr oedd y pwnc wedi ei benderfynu, ac ni chododd dadl o bwys arno yn yr eglwys byth wedi hyny.

9. Ond trwy ba awdurdod y penderfynwyd y canon? Ai trwy awdurdod y cynghorau boreuol? Nage. Ni wnaeth y cynghorau hyny ond dwyn tystiolaeth i fater o ffaith; sef, ddarfod i'r eglwys gyffredinol, am y ddwy ganrif a hanner cyntaf, dderbyn a chydnabod awdurdod ysbrydoledig y cyfryw lyfrau, a'r cyfryw lyfrau yn unig, ag ydynt yn cyfansoddi y Testament Newydd fel y mae genym ni. Rhoddodd amryw o dadau yr eglwys yn yr ail, a thrachefn yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif, restr o'u llyfrau canonaidd, yr un rhai, ac agos oll yn yr un drefn ag y maent yn awr, gyda'r dystiolaeth mai y llyfrau hyny yn unig a dderbyniasid gan yr eglwys gyffredinol o'r dechreu. Appeliai y tadau at y naill a'r llall o'r llyfrau hyny fel awdurdodau anffaeledig yn eu dadleuon yn erbyn hereticiaid, ac ni chyfeiriant byth yn y modd hwnw at unrhyw lyfr arall, mwy nac y cyfeiria yr un o ysgrifenwyr y Testament Newydd at lyfrau yr Apocrypha, ond yn wastad at lyfrau yr Hen Destament. Yr awdurdod a sefydlodd y ganon, gan hyny, ydoedd awdurdod gwirionedd dwyfol y llyfrau ar gydwybod yr eglwys gyffredinol. Yr oedd y llyfrau santaidd yn dyfod ger bron y cynghorau gyda'r dystiolaeth sicr hon o'u derbyniad a'u cymeradwyaeth yn yr eglwys gyffredinol yn y Dwyrain a'r Gorllewin o'r dechreuad, fel nad oedd gan y cynghorau ddim i'w wneud ond gwrando y dystiolaeth, a dwyn eu tystiolaeth iddi. Ond pa beth a ddiogelodd gydwybod yr eglwys yn niwedd y drydedd a'r bedwaredd ganrif, a hithau wedi ymlygru mor fawr oddiwrth ei phurdeb a'i symledd cyntefig, rhag ymollwng i roddi derbyniad i'r ysgrifeniadau ffugiol a gefnogent y golygiadau gŵyrdraws y gogwyddai hi atynt yn yr oesau yr oedd pwnc y canon dan ymdriniaeth? Pa beth hefyd ond goruwchlywodraeth Duw ar ei chydwybod—ei ofal am ei air ei hun? Yr un modd yn union ag y cadwodd gydwybod yr Iuddewon o ddyddiau Moses a'r prophwydi hyd y dydd heddyw, i gydnabod awdurdod ddwyfol llyfrau yr Hen Destament, a hwynt-hwy yn unig, er eu holl lygredigaethau a'u hymraniadau. Y rhywbeth hwnw sydd yn yr ysgrythyrau nad yw mewn neb ysgrifeniadau eraill—y rhywbeth hwnw nas gellir ei efelychu, sef yr *ysbrydoliaeth ddwyfol* sydd ynddynt—ydoedd y moddion trwy yr hwn y gweithredai y *gallu dwyfol* ar gydwybodau yr Eglwys Iuddewig a'r Eglwys Gristionogol er diogelu cadwraeth yr ysgrifeniadau santaidd yn bur a dihalog. "Beth yw yr us wrth y gwenith? medd yr Arglwydd." Gofalodd "yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law" am "lwyr lanhau ei lawr dyrnu, a chasglu ei wenith i'w ysgubor." Y mae cynhauaf ysbrydoliaeth wedi ei ddiogelu yn gyflawn ac am byth yn ein Beibl, ac us y ffug-efengylau a'r ffug-epistolau wedi ei losgi yn lludw, a'i wasgaru gyda phedwar gwynt y nefoedd i ebargolliant bythol, a'r gweddill sydd ar gael o'r ysgrifeniadau boreuol hyny a wasanaetha yn benaf i ddangos y rhagoriaeth dir-

fawr sydd rhwng yr us a'r gwenith. Y mae ysgrifeniadau y tadau boreuaf, rai o honynt yn gydoeswyr â'r apostolion, yn annhraethol israddol yn mhob ystyr i ysgrifeniadau y dynion ysbrydoledig hyny. Epistol Clement o Rufain, y cyntaf o'r tadau, sydd yn dwyn mwyaf o'r ddelw apostolaidd arno; ond y mae yntau yn mhell iawn yn ol; a dyledus yw crybwyll na hònodd efe, na'r un o'r rhai a elwir y tadau, awdurdod ddwyfol i'w hysgrifeniadau, ac ni chafodd yr un o honynt eu derbyn a'u cydnabod felly gan yr eglwysi cyntefig.

10. Drachefn, y mae yn wir ddarfod i'r Eglwys Iuddewig, yn nyddiau ei llygredigaeth, yn amser Crist, a chyn hyny, ac o hyny hyd yn awr, ddyrchafu traddodiadau ei thadau i ogyfuwch awdurdod a'r ysgrythyrau, am yr hyn yr argyhoeddai yr Arglwydd Iesu hwy yn llym: etto ni chynnygiasant erioed gorffori y traddodiadau yn y Talmud yn eu canon. A'r un modd y gwnaeth ac y gwna eglwys lygredig Rhufain hithau, anrhydeddu traddodiadau, trwy briodoli iddynt hwy ac i'r Pab awdurdod ogyfuwch, ac mewn ffaith, uwch awdurdod mewn cref ydd na'r eiddo y Testament Newydd; ond ni feiddiai hithau chwaith, er ei holl haerllugrwydd, ei rhyfyg, a'i digywilydd-dra, geisio gosod ei thraddodiadau yn y canon. Y mae rhyw "Hyd yma y deui, ac nid yn mhellach," yn attal ymchwydd tònau ei rhyfyg a'i chableddau hithau hefyd.

11. Mewn perthynas i awdurdod ganonaidd yr epistol at yr Hebreaid—y derbyniad a gafodd yn yr eglwysi cyntefig, y mae genym y tystiolaethau egluraf; ond yn—

(1.) Y mae genym air sicrach yr apostol Pedr, yr hyn a ddylai gael ei dderbyn a'i gydnabod yn awdurdod ddigonol ar y pwnc, yn annibynol ar bob tystiolaeth arall: "A chyfrifwch hir amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth, megys yr ysgrifenodd ein hanwyl frawd Paul atoch, yn ol y doethineb a rodded iddo ef; megys yn ei holl epistolau hefyd, yn llefaru ynddynt am y pethau hyn; yn y rhai y mae rhyw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, megys yr ysgrythyrau eraill, i'w dinystr eu hunain."[1] Cyfeiria Pedr at ryw epistol neillduol o eiddo Paul, ar wahan oddiwrth *ei epistolau* eraill; epistol a ysgrifenasai efe at yr enwaediaid, y rhai yr oedd efe ei hun, Pedr,* yn ysgrifenu atynt; a

[1] 2 Pedr iii. 15, 16.

* Y mae yn wir, os fel y barna amryw feirniaid, rhai hen, a rhai diweddar, mai at Gristionogion yn gyffredinol, ac nid at y credinwyr o'r Iuddewon, yr ysgrifenai Pedr ei Epistol, bod grym y ddadl hon dros awdurdod ganonaidd yr Epistol dan sylw, yn colli. A dichon, felly, mai at ryw grybwylliadau a wna Paul yn ei Epistol at y Galatiaid, a'r un at yr Ephesiaid, y cyfeiria Pedr; fodd bynag, y mae llawer mwy o gyfeiriadau pwrpasol i'r pwynt sydd gan Pedr mewn llaw yn yr Epistol hwn, nac sydd yn yr un o'r Epistolau sydd ag enw Paul wrthynt. Llawer mwy tebyg, debygem ni, yw, ddarfod i Pedr, ac efe yn apostol yr enwaediaid, ysgrifenu ei Epistolau atynt hwy, yr un modd a Iago. "Y deuddeg llwyth sydd ar wasgar," a gyfarcha Iago. "Y dyeithriaid sydd ar wasgar," medd Pedr.

chydnebydd yr epistol hwnw, a holl epistolau eraill ei *anwyl frawd Paul* yn gystal a hyny, fel ysgrythyrau o awdurdod dwyfol; ac wrth *y doethineb a rodded iddo ef*, golygir yr un peth ag a ddywed efe mewn lle arall am ysgrifeniadau yr Hen Destament—"Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion santaidd Duw a lefarasant, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan."[1] Rhaid mai at yr epistol hwn at yr Hebreaid y cyfeiriai Pedr, canys nid oes yr un arall atynt hwy yn y Testament Newydd ond epistol Iago, ac epistol Judas, ac epistolau Pedr ei hun. Rhaid, meddwn, mai at yr epistol hwn y cyfeiria Pedr, neu y mae yn rhaid fod y rhan hòno o'r ysgrythyr, os nade, wedi myned ar goll; ond ni allwn oddef y dyb hòno; "Canys nid posibl myned gair Duw yn ddirym, a'r ysgrythyr nis gellir ei thòri," na'i cholli.

Y mae tystiolaeth Pedr yn llawn ddigon o awdurdod ar y mater i bob un a'r sydd yn credu ac yn cydnabod awdurdod ysbrydoledig ei ail epistol, ac y mae pawb yn Nghymru yn gwneuthur hyny ni a gredwn. Bu rhai gynt yn ceisio gwadu, a dichon fod rhai etto yn ammheu, nad Pedr a ysgrifenodd yr ail epistol sydd a'i enw wrtho; ond y mae y tystiolaethau o blaid dilysrwydd ei awduriaeth yn gorbwyso i'r llawr bob dadleuon a geisid eu llunio yn ei erbyn.

(2.) Y tyst nesaf dros awdurdod ganonaidd ein hepistol ydyw Clement o Rufain, gwr oedd yn gydoeswr á'r apostolion. Cydnebydd ef awdurdod dwyfol yr epistol yn ddibetrus, a dyfyna yn helaeth o hono yn ei lythyr a ysgrifenodd efe at yr eglwys yn Corinth, yr hwn sydd ar gael etto; a'r un modd gwna y tadau eraill ar ol Clement—Justin Ferthyr, Clement o Alexandria, Origen, Ephrem y Syriad, a llawer eraill.

(3.) "Cafodd canoniaeth yr epistol ei gydnabod," medd Gaussen, "yn union ar ei ymddangosiad cyntaf, yn y Gorllewin yn gystal ag yn y Dwyrain, yn Rhufain fel yn Jerusalem.

(4.) "Parhaodd y gydnabyddiaeth hon o hono yn ddidòr yn eglwysi y Gorllewin, yn gystal ag yn eglwysi y Dwyrain, drwy yr ail ganrif, ac hyd hanner y drydedd ganrif.

(5.) "Er ddarfod i'r eglwysi Lladinaidd, yn enwedig yr eglwys yn Rhufain, betruso mewn perthynas iddo, ac hyd yn nod ei wrthod yn ystod hanner olaf y drydedd ganrif, a hanner cyntaf y bedwaredd; dychwelasant yn ol drachefn i gydnabod awdurdod tystiolaeth gyntefig yr eglwys gyffredinol, yr hon a fuasai cyffes unol a gwastadol yr eglwysi yn y Dwyrain."

Am brofion mewnol dwyfoldeb yr epistol hwn, dywed Dr. Owen:— "At yr ystyriaeth *gyffredinol*, gallwn ychwanegu, fod y mater neillduol sydd yn cael ei drafod yn yr epistol, yn perthynu i'w Γραφη, fel prawf pellach o'i ddeilliadaeth ddwyfol, yr hwn gan mwyaf sydd yn gynnwysedig o bethau *datguddiad pur*. Y mae rhai llyfrau yn yr ysgrythyr ei hun nad ydynt yn cynnwys dim ond adroddiadau am y

[1] 2 Pedr i. 21.

pethau a ddygwyddent yn mysg dynion, y rhai, o ran y sylwedd o honynt, a allasent gael eu croniclo yn gyffelyb gan hanesydd gofalus cyffredin. Ond y mae y pethau cynnwysedig yn yr epistol hwn yn bethau dwyfol ac ysbrydol, nad ellid eu gwybod mewn un modd ond trwy ddatguddiad. Ac nid hyny yn unig, ond y mae hefyd o'r pethau hyny bedwar pwynt arbenig yn mater yr epistol hwn:—

(1.) "Y mae y prif bethau yr ymdrinir â hwynt ynddo, yn bethau o'r *pwys mwyaf* yn y grefydd Gristionogol, yn gyfryw ag sydd yn dal perthynas â sylfeini ffydd. Y cyfryw ydynt yr athrawiaethau am berson, swyddau, ac aberth Crist; am natur addoliad efengylaidd, a'n rhagorfraint ynddo, a'n cymundeb â Duw trwyddo. Y mae y pethau hyn yn cynnwys hanfodion bywyd ein cyffes; ac y maent yn cael eu hagor a'u hegluro yn y modd mwyaf gogoneddus a nefolaidd yn yr epistol hwn, ac mewn perffaith gysondeb â'r hyn a ddysgir mewn rhanau eraill o'r ysgrythyr.

(2.) "Y mae rhai pethau ag ydynt o'r pwys mwyaf mewn crefydd er gwasanaeth ffydd a dyddanwch yr eglwys, nad ydynt yn cael eu dysgu ond yn brin a chynnil mewn rhanau eraill o'r gair santaidd, yn cael yma eu dysgu a'u gosod allan yn llawn ac eglur—megys, athrawiaeth *offeiriadaeth* Crist; natur, gwiwdeb, a gwerth *ei aberth;* a'r gweinyddiad o ran o'r swydd offeiriadol ganddo yn y nefoedd, a'r modd yr oedd y cwbl yn cael eu portreadu o dan yr Hen Destament. Bydd efe, yr hwn a ddealla bwysfawredd y pethau hyn yn briodol—eu defnydd i wasanaeth ffydd a dyddanwch yr eglwys—eu dylanwad ar holl gwrs ein hufudd-dod—y rhagorfreintiau ysbrydol y mae ffydd ynddynt yn gwneud yr enaid crediniol yn gyfranog o honynt—y nerth a'r cynnaliaeth a roddant dan groesau a phrofedigaethau, yn barod i gydnabod y gallai y byd wneud cystal heb yr haul yn y ffurfafen, ac y gallai yr eglwys wneud heb yr epistol hwn.

(3.) "Y mae ffordd Duw yn addysgu eglwys yr Hen Destament, yn nghydag amcan a dyben holl osodiadau Moses, gan eu harddangos yn llawnion o ddoethineb, gras, a chariad, yn cael eu hegluro yn llawn yma; a holl offeiriadaeth Aaron, gyda'i holl swyddau a'i dyledswyddau, yn cael eu troi at wasanaeth credinwyr dan yr efengyl. Pa mor dywyll oedd y sefydliadau Moesenaidd ynddynt eu hunain sydd amlwg oddiwrth holl hanes yr eglwys yn nyddiau Crist a'i apostolion, pan na allent weled dyben y pethau oeddynt i gael eu dilëu. Yn eu natur, yr oeddynt yn *anianol;* yn eu nifer, yn *llawer;* yn eu dybenion, yn *guddiedig;* yn yr ymarferiad o honynt, yn *drymion* a blinderus; yn eu gwedd allanol, yn *rhwysgfawr* ac ardderchog: oblegid yr holl bethau hyn, ni allai ond ychydig iawn ganfod yr amcan, y dyben, a'r defnydd o honynt. Ond yn yr epistol hwn, tynir y gorchudd oddiar wyneb Moses, a gosodir allan ddirgelwch ei osodiadau yn eglur—rhoddir cyfarwyddyd eglur i gredinwyr i fyned yn ddiogel trwy eu holl droiadau dyrys i'r gras a'r gwirionedd yn Iesu Grist. Ymddengys y pethau

cuddiedig hyny yn yr Hen Destament i ni yn awr yn llawn goleuni ac addysg; ond yr ydym yn ddyledus am yr oll a welwn ynddynt, a'r llesiant a dderbyniwn trwyddynt, i'r eglurhad a'r cymhwysiad o honynt a wna yr Ysbryd Glan yn yr epistol hwn.

(4.) "Y seiliau, rhesymau, achosion, a dull y cyfnewidiad mawr a wnaeth Duw yn nhrefn ei addoliad a'i wasanaeth, trwy dynu i lawr yr hen drefn ogoneddus o hono, yr hon a osodasid i fyny trwy ei appwyntiad ei hunan, a osodir allan yma yn llawn, a phenderfynir felly y ddadl fwyaf a fu yn eglwys Dduw erioed."

"O'm rhan i," medd y Dr. drachefn, "gallaf ddywedyd oddiar brofiad, na wn am un gyfran o'r gair santaidd yn fwy effeithiol i ddyrchafu calon darllenydd *deallus* i santaidd fawrygu daioni, cariad, a doethineb Duw, nac y gwna'r epistol hwn. Y cyfryw, meddaf, ydyw ei fater. Mor ddwyfol, mor ardderchog ac arbenigol ydyw. Ac wrth ymdrafod âg ef, nid ydym yn cael dim cymysgedd achlysurol o unrhyw fater, geiriau, brawddegau, chwedlau, rhesymau, neu athrawiaethau anghydnaws, fel ac i beri i ni ammheu bod ysbrydoliaeth ffaeledig yn ymrithio. Felly y mae, ni a wyddom, wedi bod yn holl ysgrifeniadau Cristionogion yr oesau cyntaf wedi seliad canon yr ysgrythyr. Y mae ynddynt lawer o bethau yn ymddangos fel yn deilliaw o ysbryd santaidd a nefolaidd yn anadlu yn yr awdwyr; a'r rhan fwyaf o'r hyn a gynnwysant, hwyrach, yn gyson â meddwl Duw, ac etto, y maent oll yn dwyn profion amlwg bod yr awdwyr yn agored i gamgymeriadau am y pethau yr ysgrifenent yn eu cylch. Ac y mae eu mynych ffaeleddau yn eu hysgrifeniadau, y rhai y mae yn hawdd eu dynoethi, yn gwasanaethu er dangos doeth ragluniaeth Duw, a'i ofal am ei eglwys, rhag y byddai iddi mewn oesau dilynol gael ei thwyllo gan y pwys a roddid ar eu *henafiaeth*, i ganiatau iddynt ogyfuwch awdurdod a'r oraclau hyny a roddasai efe ei hun iddi yn rheol *anffaeledig;* a chan hyny, yr *unig* reol. Nad oes dim o'r natur yma, dim dynol, dim yn ol dull dyn, yn ysgrifenydd yr epistol hwn a'i waith, a gaf ddangos, hyderaf, trwy gynnorthwy ei brif Awdwr (yr Ysbryd Glan) wrth ymdrin â gwahanol ranau yr epistol yn yr esboniad."

## DOS. III. AWDURIAETH YR EPISTOL.

1. Yn nesaf at ganoniaeth yr epistol, ac yn nglŷn â'r cwestiwn hwnw, bu ei awduriaeth yn fater y codai amryfal opiniynau yn ei gylch, mewn amseroedd hen a diweddar. Derbynid ef ar ei ymddangosiad cyntaf yn y Dwyrain a'r Gorllewin fel yr eiddo Paul, yn ddilys. Dechreuodd rhai yn yr ail ganrif, Tertullian, a rhai eraill, ammheu hyny, gan fod enw Paul yn sefyll ar ben pob un o'i epistolau, a hwn heb un enw wrtho. Elid bellach i chwilio am dad iddo, a lluosog oedd y gwahanol dybiau a ffurfid yn nghylch pwy allasai hwnw fod. Pe gofynasai'r epistol, Eiddo pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i? Gallesid ateb, Rhai, mai'r eiddo Paul; a rhai, mai'r eiddo Apolos; a

rhai, Barnabas; a rhai, Silas; a rhai, Luc; a rhai Clement o Rufain; ac un dwlyn dylach na Herod, a fynai haeru mai yr eiddo Tertullian, er ddarfod i'r Tertullian hwnw ei hun ei briodoli i Barnabas.

2. Tua chanol y drydedd ganrif, cafodd dysgedigion Ysgol Alexandria allan, meddynt hwy, nad allasai Paul fod ei awdwr, am fod yr arddull yn yr epistol hwn yn llawer rhagorach, a'r iaith yn burach a mwy clasurol na'r eiddo ef yn ei epistolau; a gosodir cryn bwys ar yr wrthddadl hon gan amryw etto. Dadleuai, a dadleua eraill, nad oes un sail iddi, gan ddwyn profion o epistolau eraill Paul yn dwyn cyffelybrwydd mawr i ddullweddiad yr epistol hwn; a nodant luaws o eiriau ynddo nad oes un ysgrifenydd arall yn y Testament Newydd ond Paul yn eu defnyddio yn yr un ystyr ag y mae efe yn eu harfer yn ei epistolau yn gyffredin; a nodant luaws o frawddegau hefyd ynddo, nad oes neb ond Paul yn ei ysgrifeniadau yn eu ffurfio yn yr un dull: mewn gair, bod y dull o osod yr athrawiaeth yr ymdrinir â hi allan, a'r modd y profir ac y cymhwysir hi, yn dwyn delw Paul, ac nid neb arall.

3. Etto, addefa pawb fod y teitl uwchben yr epistol—"*Epistol Paul yr Apostol at yr Hebreaid*," er nad wedi ei ddodi gan yr awdwr, etto o henafiaeth foreuol, a chan hyny, yn dystiolaeth o gryn bwys ar y mater, gan ei fod yn profi beth oedd cred yr amser boreuol hwnw am awduriaeth yr epistol. Ond y mae yr anerch ar ei ddiwedd yn dystiolaeth gryfach ar y pwynt. [1] "Os nad yw enw Paul ar ddechreu yr epistol," medd Dr. Wordsworth, "etto y mae ei arwyddair ef ar ei ddiwedd. Y cyfarchiad apostolaidd arferedig ganddo, medd efe ei hun, ydoedd ei nôd gwahaniaethol yn ei holl epistolau: 'Yr anerch â'm llaw i Paul fy hun, yr hwn sydd arwydd yn mhob epistol, fel hyn yr wyf yn ysgrifenu.' 'Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda chwi,' neu eiriau cyffelyb, ydoedd y ffurf-anerchiad y cymerai efe ofal bob amser, ar ddiwedd pob epistol, i'w ysgrifenu *â'i law ei hun.* Gwyddom yr arferai efe yn wastad osod arall ar waith i ysgrifenu ei epistolau o'i enau ef, gyda'r unig eithriad o'r Epistol at y Galatiaid. Yr oedd yr anerch, meddai, yn arwydd sicr, wrth yr hwn y gellid adnabod ei epistolau. Dylid sylwi, tra y mae y ffurf-gyfarchiad hwn yn cael ei arfer yn mhob un o'r triarddeg epistolau gan Paul, nad ydyw yn dygwydd bod yn yr un o'r epistolau a ysgrifenwyd gan apostolion eraill tra yr oedd Paul yn fyw; ond yr ydym yn ei gael ar ddiwedd Llyfr y Datguddiad, yr hwn a ysgrifenwyd wedi ei farwolaeth ef, ac yn epistol Clement o Rufain at y Corinthiaid. Defnyddir ef yn fynych iawn yn homiliau y tadau, gan eu bod yn awyddus i efelychu Paul. Y mae yr arwydd hwn sydd wrth holl epistolau Paul yn ddieithriad, wrth yr Epistol hwn at yr Hebreaid hefyd," (pen. xiii. 24—26.)

4. Y mae y rheswm yna, feddyliem, yn llawn ddigon i benderfynu y ddadl yn nghylch awduriaeth yr epistol am byth. Os nad Paul a'i

[1] Dr. Wordsworth on the Canon, p. 234.

hysgrifenodd, neu, a'i cyfansoddodd, rhaid mai rhyw lendwyllwr, gwaeth na holl lendwyllwyr yr oesau, oedd ei awdwr; gan fod yn berffaith amlwg yr ewyllysiai efe roddi ar ddeall i'w ddarllenwyr mai Paul yn wir ydoedd yr ysgrifenydd, wrth ddefnyddio y nôd-arwydd a arferai Paul yn benodol yn mhob epistol o'i eiddo, fel y gallai yr eglwysi fod yn sicr mai efe ei hun oedd yn llefaru wrthynt ynddynt. Os nad efe yw awdwr yr epistol hwn, gan hyny, rhaid mai rhyw dwyllwr dichellgar a'i hysgrifenodd; ac y mae addef ei awdurdod ysbrydoledig, a gwadu nad Paul ydoedd ei awdwr, fel y gwna rhai, yn dybiaeth nas gellir ei choledd am fynyd. Os gwrthodir yr epistol fel yr eiddo Paul, dylid ar unwaith wadu a gwrthod ei awdurdod ganonaidd hefyd.

5. Ond paham na ddodasai yr awdwr ei enw wrtho sydd gwestiwn, fel llawer o gwestiynau eraill, yn haws ei ofyn na'i ateb. Ni allwn weled bod dim grym yn y rheswm a gynnygid gan luaws o feirniaid hen a diweddar—yr ewyllysiai Paul gadw ei enw, o herwydd bod gan yr Iuddewon ragfarn gref yn ei erbyn fel apostol y cenedloedd, ac fel gwrthwynebwr i ddefodau cyfraith Moses; ac y buasai y ragfarn hòno yn peri na roddasent ystyriaeth deg i athrawiaeth a rhesymau yr epistol, ped aethai atynt gyda'i enw ef wrtho. Gan fod yr ysgrifenydd mewn amryw fanau yn llefaru fel un oedd yn adnabyddus i'r rhai yr ysgrifenai atynt—megys, "Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, (gweddïo drosto,) i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt. Gwybyddwch ollwng ein brawd Timothëus yn rhydd; gyda'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf â chwi," (pen. xiii. 19, 23); nid all mai hyny oedd yr achos a barai iddo attal ei enw.

Yr amser a ballai i ni olrhain y mater hwn gyda mwy o fanylrwydd, a difudd i'r darllenydd a fyddai hyny. Ychwanegwn yn unig, bod nerth y tystiolaethau hanesyddol, a nerth y rhesymau a'r dadleuon, yn mhlaid awduriaeth Baulenaidd yr epistol, yn gryfach o lawer, ac yn gystal a hyny, yn *amlach* o lawer, na'r rhai a ddygid yn ei erbyn.

### DOS. IV. YN MHA IAITH YR YSGRIFENWYD EF.

Nid yw y cwestiwn hwn o nemawr bwys, ond priodol oedd talu sylw iddo. Ni chaf yma ond yn unig cyflwyno i'r darllenydd ar fyr eiriau, yr hyn a ddywed Dr. Gaussen ar y mater:—"Tybia amryw o'r tadau, y rhai oeddynt bleidwyr gwresog i ganoniaeth yr epistol hwn, (megys Dionysius, a Chlement o Alexandria, Euthalius, Theodoret, Theophylact, a Jerome), ar gyfrif gwychedd ei arddull, ddarfod iddo gael ei gyfansoddi yn Hebraeg gan Paul, a'i gyfieithu i'r Groeg gan Luc neu Barnabas. Nid yw hyn yn ddim amgen na thybiaeth, nid yw yn effeithio dim oll ar ei ganoniaeth. Ond yr ydym yn ymwrthod â'r dybiaeth, oblegid fod tri o resymau cryfion iawn yn ei herbyn:—

"1. Nid yw y personau a soniant am ei gyntefigrwydd Hebreig yn enwi un tyst a'i gwelodd.

"2. Gellir rhoddi cyfrif am ragoroldeb y cyfansoddiad o ran iaith ac arddull, fel y caf ddangos etto.

"3. Byddai yn brawf o anwybodaeth mewn hanesyddiaeth i haeru bod yr iaith Hebraeg yn nyddiau Paul yn gymhwysach na'r Groeg at wasanaeth yr holl genedl Iuddewig. Deallid Groeg yn gyffredinol ganddynt, hyd yn nod yn Jerusalem. Llefarid hi yn y ddinas hòno tua phedwar can' mlynedd cyn hyny; ni wyddai yr Iuddewon gwasgaredig, y rhai a'i defnyddient yn holl wledydd y Dwyrain, ddim Hebraeg, lawer o honynt. Yr oedd gan yr Iuddewon Cristionogol yn Jerusalem synagogau i gyflawni eu haddoliad yn Groeg.

"4. Nid oes dim yn yr epistol yn dwyn nodau cyfieithiad arno; ond yn y gwrthwyneb, y mae gwir ddelw gwreiddioldeb arno oll.

"5. Y mae sylwadau yr awdwr ar y rhanau o'r Hen Destament a goffeir ganddo, yn dwyn tystiolaeth i'r un peth; oblegid y maent wedi eu cymeryd, nid o'r Hebraeg gwreiddiol, ond o gyfieithiad y Deg a Thriugain."[1]

### DOS. V. AT BWY YR YSGRIFENWYD EF.

Gwasanaetha ychydig eiriau ar y mater hwn etto. Mynai rhai mai at yr Iuddewon crediniol trwy y byd yn gyffredinol y cyfeirid ef: eraill, mai at yr holl eglwysi Cristionogol o Iuddewon yn Judea; eraill, at yr eglwys yn Jerusalem; eraill, yr eglwys yn Cesarea; eraill, yr eglwys Iuddewig yn Antioch; eraill, ei fod yn epistol cyffredinol at Iuddewon a Chenedloedd yn ddiwahaniaeth. Ni wasanaethai nemawr ddyben i grybwyll y rhesymau a gynnygid i attegu y naill a'r llall o'r gwahanol dybiau uchod. Yn unig, ymddengys i ni, os anfonwyd ef i ryw eglwys neillduol, mai yr eglwys yn Jerusalem ydoedd y debycaf, gan mai y hi oedd y fam eglwys, ac mai oddiwrthi hi y taenwyd ef trwy yr eglwysi yn Judea, ac yn mysg yr holl eglwysi o Iuddewon a Chenedloedd yn y Dwyrain; ac iddo gael ei ysgrifenu yn Rhufain tua diwedd carchariad cyntaf Paul yno, neu o ryw gŵr o'r Ital yn fuan wedi ei ryddhad, o'r flwyddyn O. C. 64 i 66, o bedair i chwe' blynedd cyn dinystr Jerusalem a'r deml; canys amlwg yw oddiwrth ranau o'r epistol, ddarfod iddo gael ei ysgrifenu cyn y dinystr hwnw, ond bod arwyddion eglur ei fod yn agos. Gwel pen. viii. 7, 8; a x. 37.

### DOS. VI. AMCAN YR EPISTOL—ALLWEDD EI DDEONGLIAD.

1. Gellir dweyd fod dau amcan mawr yn ngolwg yr apostol yn yr epistol hwn, sef, ateb gwrthddadleuon yr Iuddewon anghrediniol yn erbyn Cristionogaeth; a chadarnhau eneidiau y credinwyr yn y ffydd, gan eu gwaredu o'r perygl yr oeddynt yn agored iddo—o lesgâu, digaloni, a chilio yn ol o herwydd y blinderau a ddyoddefent yn achos eu cyffes o Grist a'i efengyl oddiwrth eu brodyr anghrediniol. Yr olaf

[1] Dr. Gaussen on the Canon, p. 325.

yw amcan mawr uniongyrchol yr apostol; ond y mae y dadleuon a ddygir yn mlaen ganddo i'r perwyl hwn, yn gwasanaethu yn dda i'r llall, sef argyhoeddi yr Iuddewon anghrediniol, drwy ddangos mai yr Iesu hwnw a groeshoeliasant hwy ydoedd yn wir y Messïa a addawsid i'w tadau yn yr Hen Destament, awdurdod dwyfol yr hwn a berchid ganddynt.

2. Y prif bwnc yr ymdrinir âg ef yn yr epistol ydyw archoffeiriadaeth Mab Duw, gan ei osod ef allan fel gwrthgysgod, neu sylwedd a dyben archoffeiriadaeth Aaron a'i olynwyr. Dygir ef yn achlysurol i'r golwg fel y Prophwyd a'r Brenin y rhagfynegasid am dano yn yr Hen Destament; ond yn benaf, fel Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec. Yr oedd yr archoffeiriad yn Israel yn gysgod mwy urddasol, arbenig, a chyflawn, o hono, nac oedd yr offeiriaid cyffredin. Yr oedd yn rhydd iddo ef gyflawni holl ddefodau gwasanaeth yr offeiriadaeth, ond nid oedd yn rhwym i hyny; gadewid y gwaith mwyaf llafurus i'r offeiriaid i'w gyflawni dan ei arolygiaeth ef. Ond yr oedd gorchwylion yn perthyn i'r archoffeiriad nad oedd rydd i neb ond iddo ef eu cyflawni—megys, ymgynghori â Duw trwy yr Urim a'r Thummim, ac yn enwedig gweinidogaeth dydd mawr y cymmod unwaith bob blwyddyn, pan yr elai i'r cysegr santeiddiolaf yn ei liain-wisg i ymddangos ger bron Duw, i losgi yr arogldarth, a thaenellu gwaed yr aberth dros bechod o flaen y drugareddfa. Gwel Lef. xvi.

3. Dengys athrawiaeth yr epistol, ei fod ef, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec, yn cymeryd y swydd a'i gwaith yn ei holl ranau arno ei hunan i'w gyflawni. Nid oedd ganddo ef, fel yr archoffeiriaid Iuddewig, is-offeiriaid i weini dano. A mwy na hyny, yr oedd ganddynt hwy, yr offeiriaid dan y gyfraith, *yr hyn a offryment.* Trefnai yr awdurdod a'u galwasai i'r swydd ac at y gwaith o aberthu, aberthau iddynt i'w hoffrymu. *Rhaid oedd bod gan hwn hefyd yr hyn a offrymai.* Trefnodd yr awdurdod a alwodd ac a osododd Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd, iddo yntau hefyd ddefnydd ei aberth. Nid o'r tu allan iddo ei hun, megys yr oedd eu haberthau hwy; ond, *Corff a gymhwysaist i mi.* Efe ei hun oedd i offrymu, ac i fod yn offrwm hefyd—yr Aberthwr a'r aberth. Yr oedd ef, fel gwrthgysgod yr archoffeiriad Iuddewig hefyd, i fyned i'r *cysegr, nid o waith llaw, portread y gwir gysegr,* ond *i'r nef ei hun,* i daenellu ei waed ei hun o flaen yr orsedd ddwyfol, i *ymddangos yno ger bron Duw trosom ni,* fel yr arferai y llall, yr archoffeiriad cysgodol, fyned gydag arogldarth a gwaed aberth cysgodol i'r cysegr cysgodol, ar wyl gysgodol y cymmod, i ymddangos ger bron Duw dros y bobl. Ond yr oedd yr Archoffeiriad mawr i eistedd ac aros yn dragywydd yn y cysegr nefol, gan iddo âg *un aberth* ateb holl ddybenion aberthu ac aberthau am byth; a chan hyny, nad oedd un angen am barhau gweinyddiadau yr hen gyfammod ar y ddaear mwyach. Profa'r apostol yr athrawiaeth hon am archoffeiriadaeth y

Messïa yn anwrthwynebol allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, ac etyb ei ymdriniaeth â hi y ddau bwrpas, sef argyhoeddi yr Iuddewon anghrediniol, a chadarnhau eneidiau y rhai crediniol, eu gwreiddio a'u sefydlu yn ffydd yr efengyl, a'u calonogi i lynu yn ddianwadal yn eu proffes o honi; gan ddangos iddynt y mawr ddrwg a'r mawr berygl o ddirywio a thynu yn ol.

4. Yr hyn a gymhellai'r apostol i ysgrifenu felly at yr Hebreaid, oedd eu bod hwy, mewn modd neillduol, yn y perygl a ddysgrifir ganddo. Yr oedd yr afiechyd ysbrydol o ymollyngiad a llacrwydd crefyddol wedi ymaflyd ynddynt, eu cariad a'u sel efengylaidd wedi oeri llawer, fel yr oedd achos i ofni am danynt, rhag y buasai iddynt gael eu dal a'u dwyn drachefn dan iau caethiwed y ddeddf a'r traddodiadau Iuddewaidd. Cymhwysa'r apostol y feddyginiaeth gref effeithiol hon atynt yn brydlon, cyn i'r pla gynnyddu i nerth anwrthwynebol a marwol yn y cyfansoddiad.

5. Rhagfynegasai yr Arglwydd Iesu am y tymmor hwn o ddirywiad crefyddol yn mysg Cristionogion yn Judea, pan ddysgrifiai y dinystr ofnadwy a ddeuai ar Jerusalem a'r genedl. Un o'r pethau a roddasai i'w ddysgyblion i graffu arnynt, fel rhagarwyddion fod y dinystr hwnw yn agosâu, oedd, *yr oerai cariad* llawer, ac y syrthiai rhai ymaith yn llwyr oddiwrth eu proffes o'r efengyl. Canfyddai'r apostol oddiwrth agwedd ddirywiedig crefydd ar y pryd yn mysg yr Hebreaid, (a phethau eraill hefyd,) fod y trychineb arswydlawn hwnw weithian gerllaw; a rhydd aml awgrymiad o hyny yn yr epistol.

6. Y dirywiad a ddynodir gan y Gwaredwr â'r ymadrodd, *oeri cariad,* a eilw yr apostol yn *llaesu dwylaw, ymollyngiad gliniau, blino ac ymollwng yn yr enaid.* Yr oedd amryw bethau yn cydweithio er peri yr *oeri*, y *llaesu*, a'r ymollwng yma ar ran yr Hebreaid: rhai pethau ynddynt hwy eu hunain, a rhai pethau o'r tu allan iddynt.

(1.) Yr oedd gweddillion eu rhagfarnau Iuddewaidd, adgofion serchus am yr hen grefydd a'r defodau a draddodasai Duw trwy Moses i'w tadau, yn un elfen gref iawn er attal eu cynnydd, ac oeri eu cariad efengylaidd. Yr oedd yn anhawdd iawn ganddynt, ac yn wir, yr oedd yn anhawdd iddynt droi eu cefnau yn llwyr ac ar unwaith ar eu teml, eu hallor, a'r defodau hyny y dysgasid hwynt o'u mabandod i edrych arnynt gyda'r barchedigaeth fwyaf cysegredig, ac am y rhai yr ymblethasai eu teimladau tyneraf, a'u gobeithion uwchaf. Nid peth bychan oedd iddynt allu ymddyosg o'u holl syniadau cenedlaethol, a gollwng eu gafaelion yn gwbl ar yr egwyddorion hyny a feithrinasid yn mynwes y genedl am oes ar ol oes, ac a fuasent yn fywyd ac yn ogoniant iddi ger bron yr holl genedloedd o genedlaeth i genedlaeth, a derbyn teyrnas nefoedd fel plant bychain—cofleidio ac arddel crefydd oedd yn ymddangos yn dra gwahanol i'r hen i'w golwg hwy, gan nad oedd ganddi na theml, nac allor, nac offeiriad, nac aberth, na dim oll o'r pethau a wisgent eu hen grefydd a'i gwasanaeth â'r fath urddas a gwychder.

Yn araf iawn y gweithiwyd yr apostolion eu hunain i hynyma. Un o'r pethau anhawddaf yn natur ydyw diwreiddio o'r meddwl yr egwyddorion a'r argraffiadau a dderbyniai pan yn ieuanc. Ac felly, gwaith mawr iawn oedd symud yr Hebreaid yn llwyr o dir y cyfammod cyntaf, a'u hadblanu yn nhir y cyfammod newydd, yn enwedig gan na ddarfuasai iddynt erioed ddirnad cyfrinach pethau y cyfammod cyntaf hwnw, fel yr oedd yn unig yn *bortreadau—pethau wedi eu gosod dros amser*, hyd oni osodid yr ail. Mawrygent hwy eu teml, eu hallor, eu hebyrth, a'u defodau, &c., nid fel cysgodau *o ddaionus bethau a fyddant*, ond ynddynt eu hunain, yn annibynol ar yr ystyr gysgodol a berthynai iddynt. Pe deallasent mai i fod yn bortreadau, arwyddluniau, a chysgodau, yn unig o Grist, a daionus bethau yr efengyl, y trefnasid holl ddefodau y gwasanaeth dan y gyfraith, buasai yn hawdd, mewn cymhariaeth, iddynt ymddyosg oddiwrthynt ar unwaith, yn hollol, ac am byth; canys gwelsent y ffoledd o ymlynu wrth, ac ymarfer â'r cysgodau wedi iddynt gael eu sylweddau—*gwir ddelw y pethau.* Nid oeddynt cyn iddynt dderbyn yr efengyl wedi dirnad ond y nesaf peth i ddim, os dim oll, o gyfrinion efengylaidd goruchwyliaeth y gyfraith, ac nid oeddynt etto ond prin wedi agor eu llygaid i ganfod y peth; gan hyny, cymera'r apostol ofal mawr i egluro ystyrion efengylaidd defodau y gyfraith iddynt.

(2.) Peth arall a effeithiai ddylanwad niweidiol ar eu crefydd y pryd hwnw ydoedd, amlhad a chynnydd anwiredd a llygredigaeth yn y wlad, ac yn mysg y genedl yn Judea yn gyffredinol. Llefara Crist am hyn fel un achos o ddirywiad crefydd yn mysg ei ganlynwyr yn y tymmor y cyfeirir ato:—"A gau-brophwydi lawer a godant, ac a dwyllant lawer. Ac o herwydd yr amlha anwiredd, fe a oera cariad llawer," Mat. xxiv. 11, 12. Yr oedd y genedl anghrediniol weithian yn cael ei rhoddi i fyny i'r farn fygythiedig. Yr oedd elfenau braenedd ac ymddattodiad ar lawn waith yn ei chyfansoddiad gwladwriaethol a moesol. Aethai yn gelain bwdr o lygredigaeth trwyddi oll. Magai pryfaid difaol o gau-brophwydi o'i mewn; ac o herwydd y gwrthodasai wrando ar lais "*y Prophwyd hwnw*," ac na "dderbyniasai gariad y gwirionedd fel y byddai cadwedig," rhoddid hi i fyny "i amryfusedd cadarn, fel y credai gelwydd," ac y byddai y gau-brophwydi hyny, megys ffrwyn yn ei genau yn ei gyru ar gyfeiliorn, ac i ddinystr. Effeithiodd y llygredigaeth cyffredinol i gryn raddau ar y dysgyblion, fel y llychwinid eu purdeb, ac yr anmharid eu hysbryd crefyddol. Gorchestgamp Noah fel crefyddwr, oedd iddo allu ymgadw mor bur yn nghanol byd mor lygredig: "Ti yn unig a gefais i yn gyfiawn ger fy mron yn yr oes hon," meddai Duw wrtho. Clod uchel i'r bachgen Abïa oedd y dystiolaeth am dano, fod "ynddo ef beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel yn nhŷ Jeroboam." Canmolir yr eglwys yn Pergamus, (Dat. ii. 12, 13), am iddi ddal enw, ac na wadodd ffydd Crist, a hithau yn trigo lle yr oedd "gorseddfainc Satan," lle yr

oedd Satan yn teyrnasu mewn rhwysg ac awdurdod mawr. Arwydda y cyfryw ganmoliaethau a roddir yn y Beibl, mai gorchest fawr oedd i'w gwrthddrychau hyny i gadw bywyd a phurdeb crefyddol mewn ymarferiad yn nghanol y dylif o lygredigaeth ac anwiredd a'u cylchynent, o herwydd hyny codir hwynt i sylw fel esiamplau hynod ac enwog mewn crefydd.

(3.) Peth arall etto a barai yr *oeri*—yr *ymollyngiad* hwn yn eneidiau'r Hebreaid, oedd yr erledigaeth a ddyoddefent oddiwrth eu cydgenedl anghrediniol. Rhagfynegasid am hyn hefyd gan Grist, fel un o arwyddion dyddiau diweddaf y genedl, a'r oruchwyliaeth hòno: "Yna y'ch traddodant chwi i'ch gorthrymu, ac a'ch lladdant: a chwi a gaseir gan yr holl genedloedd er mwyn fy enw i. Ac yna y rhwystrir llawer, ac y bradychant eu gilydd. Eithr y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig," Mat. xxiv. 9, 10, 13. Ymddengys yn amlwg bod llygad yr apostol ar y rhagfynegiadau hyn wrth ysgrifenu amryw ranau o'r epistol hwn: a'r un modd yr apostol Pedr hefyd, wrth ysgrifenu ei lythyr cyntaf at yr Hebreaid gwasgaredig ar hyd yr amrywiol daleithiau a enwir ganddo. Ysgrifenodd Pedr ei lythyr ef, fel y tybir, ychydig o flaen y llythyr hwn o eiddo Paul. Annoga Pedr ei frodyr Cristionogol i fod yn ddyoddefus ac amynedd gar dan yr erlidiau a'r trallodau a wasgent yn drwm arnynt; gan sicrhau iddynt, fod "diwedd pob peth yn nesâu"—diwedd oes yr oruchwyliaeth a'r genedl; ac y dygid gwaredigaeth iddynt yn fuan o'u trallodau. Bod yr amser wedi dyfod i "ddechreu o'r farn ar dŷ Dduw," sef yr Eglwys Gristionogol, yn yr erlidiau oedd arni; ond y byddai y gawod hòno trosodd cyn hir—y cymerid y cwpan o law yr Eglwys i'w roddi yn llaw ei gelynion, ac y disgynai cawod o ddinystr llwyr ar y rhai "nid oeddynt yn credu i efengyl Duw," sef eu brodyr yn ol y cnawd, y rhai oeddynt yn erlid ac yn cystuddio'r eglwys, ac yn annog y cenedloedd eulunaddolgar hefyd yn mhob lle i'w herlid yr un modd.

(4.) Hwyrach yr ymddengys ein bod yn crwydro o'r ffordd i dir dyeithr, yn y sylwadau blaenorol; ond tybiem eu bod yn angenrheidiol er arloesi y llwybr i fyned i'r maes sydd yn gorwedd o'n blaen. Y mae craffu ar berthynas a chysylltiad y naill ran o'r ysgrythyr â rhan arall o honi, yn angenrheidiol er iawn ddeall y rhanau hyny. Cymhariad teg ysgrythyr âg ysgrythyr, ydyw y ffordd oreu i'w hegluro, ac i ddangos gogoniant, gwirionedd, a dwyfolder y llyfr santaidd.

Rhagfynegasai yr Arglwydd Iesu yn fanwl am holl amgylchiadau dinystr Jerusalem a'r deml, a gwasgariad y genedl, ddeugain mlynedd cyn i'r pethau hyny ddygwyddo; a dengys y crybwylliadau a wneir yn achlysurol yn yr epistol hwn, ac yn epistol Pedr, pa mor fanwl y cyflawnid y rhagfynegiadau hyny—fel yr ymddangosai pob un o'r arwyddion a roddasai efe, ar ddynesiad y dinystr—eu bod, lawer o honynt, i'w gweled yn amlwg pan oedd yr apostolion yn ysgrifenu eu hepistolau. Wrth ddal rhagfynegiadau Crist, a chrybwylliadau yr

apostolion, y naill ar gyfer y llall, llewyrchant oleuni ar eu gilydd, ac ar ystyr llawer o'r ymadroddion yn yr epistolau. Ceir achlysuron i gyfeirio at hyn etto, fel yr elom yn mlaen i gynnyg deongli y llythyr.

(5.) Yn awr, dyna oedd agwedd grefyddol, ac amgylchiadau tymmorol yr Hebreaid, pan ysgrifenid yr epistol atynt. Yr oeddynt o dan erledigaeth o achos eu crefydd. Yr oeddynt, lawer o honynt, wedi oeri, *blino*, *llaesu*, ac *ymollwng yn eu heneidiau;* yr oeddynt yn barod megys i edrych drach eu cefnau, gyda gradd o serch-dyniad at eu hen grefydd a'i defodau. Amcan yr apostol, gan hyny, ydyw codi gwrthglawdd uchel, cadarn, i'w hattal rhag tynu yn ol; ail ennyn eu cariad a'u sel efengylaidd, cadarnhau eu dwylaw llesg, cryfhau eu gliniau gweiniaid, ac adnewyddu eu heneidiau ymollyngol. Saif yr epistol byth megys goleudy uchel amlwg i ddangos i'r Eglwys Gristionogol y creigiau peryglus, er ymgadw o honi yn mhell oddiwrthynt, rhag gwneuthur o honi "longddrylliad am y ffydd a chydwybod dda," ac er annogaeth rymus i bob credadyn i "ddal cyffes ei obaith yn sicr hyd y diwedd." Y mae yn gaerau ac yn rhagfur o rybuddion pwysig, dadleuon cryfion, ac annogaethau cysurlawn o amgylch yr eglwys, i'w chadw rhag dirywio, tynu yn ol, nac oeri a marweiddio mewn crefydd; ei chymhell a'i nerthu i fyned rhagddi mewn ffydd ac amynedd dianwadal, nes etifeddu yr orphwysfa sydd "etto yn ol i bobl Dduw."

Dechreua yr apostol ei draethawd yn hynod ddisymwth. Cydia yn ei fater ar unwaith, heb air o ragymadrodd mewn ffordd o arweiniad i mewn, nac mewn ffordd o gyfarchiad, megys yn ei epistolau eraill. Gedy bob peth amgylch adol hyd ddiwedd ei epistol, heb grybwyll dim am danynt. Yn ei lythyrau eraill yn gyffredin y mae yn gyffelyb i un yn myned i ymdrochi, gan araf rodio i'r dwfr—myned yn ddyfnach ddyfnach yn raddol, nes cyrhaedda y dwfr y gliniau, y lwynau, ac o'r diwedd, yn ddyfnder nofiadwy. Yma y mae efe yn gyffelyb i un yn ymfwrw i'r llyn yn ddirybudd, oddiar ben rhyw glogwyn uwchlaw; nid ydys wedi cael golwg arno, hyd nes clywir ei swn yn disgyn ac yn ymgladdu yn y dyfroedd.

## CRYNODEB O'R EPISTOL.

I. Rhagoriaeth urddas a gogoniant gweinidogaeth y dyddiau diweddaf dan yr efengyl, ar weinidogaeth y dyddiau gynt dan y gyfraith—ar gyfrif rhagoriaeth urddas person y Mab, ei sylfaenydd, a'r prif oruchwyliwr ynddi, ar y prophwydi a'r angylion trwy y rhai y llefarai Duw wrth y tadau dan yr Hen Destament. Cyferbyniad y Mab a'r angylion o ran eu sefyllfa a'u swyddau yn ngoruchwyliaeth y llywodraeth ddwyfol, ac yn nhrefn iachawdwriaeth—efe yn etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt oll, yr enw Mab—hwynt-hwy yn cael eu gorchymyn i'w addoli ef—efe yn Greawdwr, Cynnaliwr, a Llywodraethwr y nef a'r ddaear, a hwythau yn weinidogion iddo fel Cyfryngwr. Oddiwrth hyn dadleuir rhwymedigaeth bwysig deiliaid gweinidogaeth yr efengyl, i ymostwng ac ufuddhau i awdurdod Crist ynddi; pen. i. a ii.

II. Rhagoriaeth Crist, Cyfryngwr y cyfammod newydd, ar Moses, cyfryngwr yr hen gyfammod. Moses yn was, Crist yn Fab yn ei dŷ ei hun; ac yn adeiladydd y tŷ. Cosbedigaeth sicr ac ofnadwy yr anufuddion dan weinidogaeth y cyfammod cyntaf, yn rhybudd ac esiampl i ddeiliaid rhagorfreintiau helaethach gweinidogaeth yr efengyl, er dangos y bydd eu pechod yn fwy, eu heuogrwydd a'u cosb yn drymach, os diystyrent ac yr esgeulusent y rhagorfreintiau amgenach hyny; pen. iii., a rhan o'r iv.

III. Archoffeiriadaeth Crist, yn ol urdd Melchisedec. Ei neillduad a'i osodiad yn y swydd gan y Tad, megys yr oedd Aaron wedi ei neillduo a'i osod yn ei swydd fel archoffeiriad, gan Dduw dan y gyfraith. Ei berffeithiad trwy ddyoddefiadau i fod yn Awdwr ac yn Dywysog iachawdwriaeth i'r rhai oll a ufuddhant iddo. Cerydd i'r Hebreaid am eu hwyrfrydigrwydd i ddysgu a deall pethau yr efengyl, a'r perygl o aros a pharhau yn y cyflwr digynnydd hwnw—sefyllfa ofnadwy ac anobeithiol gwrthodwyr a dirmygwyr yr efengyl. Annogaethau i lafur a diwydrwydd crefyddol; rhan o pen. iv., a v. a vi.

IV. Helaethir ar offeiriadaeth ac urdd archoffeiriadol Crist—urdd Melchisedec—y gwahaniaeth rhwng hòno ag urdd Aaron, cymhwysiad o'r athrawiaeth hon at brif amcan yr epistol—y ddau gyfammod, cyfammod Sinai, a'r cyfammod newydd—rhagoriaeth yr olaf ar y blaenaf yn gymhelliad i lynu wrtho; pen. vii. a'r viii.

V. Y tabernacl cyntaf, ei ddodrefn, defodau ei wasanaeth, y cysegr santeiddiolaf, a'i ddodrefn, mynediad yr archoffeiriad i mewn iddo unwaith yn y flwyddyn—yr aberthau gwastadol, y cwbl yn gysgodau o Grist yn ei archoffeiriadaeth a'i aberth—efe yn myned i mewn i'r nef ei hun, fel Archoffeiriad—anfeidrol ragoriaeth teilyngdod ei berson, a'i aberth ef, ar archoffeiriaid ac aberthau y gyfraith—cymhwysiadau; pen. ix. a x.

VI. Ffydd—ei natur, a'i gwrthddrychau; esiamplau y ffyddloniaid dan yr Hen Destament yn annogaethol i Gristionogion dan yr efengyl, esiampl Crist yn dyoddef—helaethir etto ar ragoriaeth breintiau yr eglwys dan y Testament Newydd, ar freintiau deiliaid gweinidogaeth yr hen gyfammod, er eu cymhell i'w gwerthfawrogi a'u defnyddio, a gochelyd eu hesgeuluso a throi oddiwrthynt—cymhelliadau pellach i ddianwadalwch Cristionogol oddiar amryw ystyriaethau—annogaethau i amrywiol rinweddau a dyledswyddau—diweddglo; pen. xi., xii., a xiii.

## GORUCHWYLIAETHAU YR EGLWYS.

GELWIR y ffurfiau o grefydd, drwy ba rai y mae Duw wedi bod yn llywodraethu ei eglwys mewn gwahanol gyfnodau, yn *oruchwyliaethau.* Y rhai goreu oedd yn bosibl i'w deiliaid eu mabwysiadu oeddynt bob amser. Yr oedd pob goruchwyliaeth o flaen yr oes—wedi ei chyfaddasu i ddiwyllio dynion, ac i ragflaenu un well na hi ei hun. Nid arddangosant un cyfnewidiad yn amcanion Duw, ond amlygiad graddol o'i feddwl, megys yr had—y blaguryn—a'r blodeuyn; ac nid ydyw Patmos ond yn perffeithio yr hyn a ddechreuodd Paradwys. Gosodwyd Adda yn Eden, a rhoddwyd prawf ar ei uniondeb. Tra yr oedd yn lan oddiwrth bechod, nid oedd arno angen aberth. Wedi i bechod gael ei gyflawni, dysgwyd yr athrawiaeth o iawn; ac yr oedd cyfres o ddyledswyddau gwahanol i'w dilyn. O hyny allan, yr oedd yn rhaid i bob penteulu, neu benaeth pob llwyth, wasanaethu fel offeiriad i'r rhai a fyddent dano. Ar ol yr oruchwyliaeth batriarchaidd, appwyntiwyd yr un Lefiaidd. Yn hon, meibion Lefi oedd i fod yn offeiriaid i'r holl genedl. Gwirioneddau crefyddol mewn gweithrediad oedd eu seremonïau crefyddol. Rhaglawiaid i'r Iehofah oedd y brenhinoedd. Yr oedd yr Arglwydd yn Frenin mewn pethau gwladol, ac yn Dduw mewn pethau cysegredig. Nid oedd Palestina i fod yn ddysgedig megys Groeg, nac yn rhyfelgar megys Rhufain, ond yn "gysegredig i'r Arglwydd," gan ddyrchafu ei llais yn erbyn eulunaddoliaeth y byd, ac ymgadw rhag cymysgu âg eraill drwy arferion neillduol. Wedi hyny, daeth yr oruchwyliaeth Gristionogol, yr hon a ddechreuodd ar ddydd y Pentecost. Llyncodd hon ei rhagflaenoriaid, gan gwblhau eu cysgodau a chyflawni eu haddewidion. Dyma y ddiweddaf i'r ddaear. Dadblygwyd gwirionedd yn raddol, wrth fel yr ymddyrchafai yr hil ddynol, hyd nes yr ymddangosodd Crist, perffeithrwydd ein natur, gan gwblhau y datguddiad dwyfol, a chan selio y llyfr cysegredig. Gan y rhaid fod pob cyfundrefn o grefydd yn bresenol a wahaniaetha oddiwrth yr un Gristionogol. Cyfundrefn am dymmor oedd yr un Iuddewig, ac nid un barhaus—un arwyddluniol, ac nid un wirioneddol—un ragarweiniol, ac nid un derfynol—un geidwadol, nid un ymeangol—un leol, ac nid un gyffredinol. Byddai Duw, ei brenin, yn rhoddi gorchymyn yn aml gyda golwg ar ryfeloedd, degymau, &c.; a chan mai efe oedd yn eu rhoddi, yr oeddynt yn briodol. Y mae y gyfundrefn Gristionogol yn tra ragori arni. Y mae hon yn ysbrydol—yn gofyn y galon. Y mae yn un gyffredinol; a thrwy ei symlrwydd nodedig, y mae yn gyfaddas i lanw y ddaear. Y mae yn un barhaus—wedi ei bwriadu i gyrhaedd hyd ddiwedd amser. Y mae yr hyn sydd foesol yn rhedeg drwy bob goruchwyliaeth; ond dilewyd yr hyn oedd seremonïol. Rhed y seremonïol i'r moesol; y moesol i'r efengylaidd; a'r efengylaidd i'r nefol. Ag un dyn yr ymdrafododd Duw gyntaf;

yna â theulu; wedi hyny â chenedl; ac yn ddiweddaf â byd. Yr oedd llawer o bethau yn iawn gynt, na byddent felly yn bresenol. Y mae rhai gwirioneddau ysbrydol wedi bod yn cael eu dysgu dan bob goruchwyliaeth, er mwyn gwahanol raddau o eglurder. Y mae bywyd a nerth duwioldeb, gallu ffydd, hawliau plant i addysg grefyddol, gwirfoddoldeb ein rhoddion i Dduw, yn nghydag egwyddorion eraill, i'w gweled yn treiddio trwy bob oes. Gwneir niwaid ofnadwy trwy drosglwyddo hen ddeddfau i amseroedd diweddar. Y mae llawer o'r seremonïau Iuddewig yn ymddangos yn brydferth pan y teflir goleuni yr efengyl i lewyrchu arnynt—y maent fel cymylau y boreu yn mhelydrau yr haul; ond y mae yr ordinhadau Cristionogol yn gyffelyb i gymylau y prydnawn, yn dysgleirio yn ysplander cyflawn arglwydd y dydd. Fel y gall bathodau o wahanol fetelau a gwerth ddwyn yr un ddelw ac argraff, felly y mae argraff yr un ddoethineb ddwyfol i'w gweled ar y gwahanol oruchwyliaethau. Y mae holl drefniadau rhagluniaethol y byd wedi bod yn iswasanaethgar iddynt, ac fe ellir gweled hanes y byd yn rhedeg i hanes yr eglwys. Pan y cydgyfarfu gwareiddiad yr Hebreaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid—dyna'r pryd y sefydlwyd teyrnas Crist. Nis gallai y fath gynnulliad o ddygwyddiadau gymeryd lle ond unwaith yn oes y byd.

## CYNNWYSIAD Y RHAGDRAETH.


Dosbarth I. . . . . . . . . vii

Dos. II. Canoniaeth yr Epistol . . . . . viii

Dos. III. Awduriaeth yr Epistol . . . . . xix

Dos. IV. Yn mha iaith yr ysgrifenwyd ef . . . . xxi

Dos. V. At bwy yr ysgrifenwyd ef . . . . . xxii

Dos. VI. Amcan yr Epistol—Allwedd ei Ddeongliad . xxii

Crynodeb o'r Epistol . . . . . . . xxviii

Goruchwyliaethau yr Eglwys . . . . . xxx

YR

# EPISTOL AT YR HEBREAID.

## PENNOD I.

1 *Duw yn y dyddiau diweddaf a lefarodd wrthym ni trwy ei Fab ei hun:* 4 *yr hwn, o ran ei berson a'i swydd, sydd yn rhagori ar yr angylion.* 14 *Swydd yr angylion.*

DUW, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a [a]llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a [b]lefarodd wrthym ni yn *ei* Fab;

[a] Num. 12. 6, 8. [b] Deut. 18. 15.

Fel y mae sylwedd y dderwen yn y fesen, felly y mae sylwedd holl athrawiaethau a defnydd holl gymhwysiadau yr epistol yn gynnwysedig yn y wers gyntaf hon. Dyma ddwy weinidogaeth ddwyfol, neu ddwy gangen o weinidogaeth oddiwrth Dduw at ddynion. Y mae y ddwy o'r un natur—gweinidogaethau trwy *lefaru*, yn wahaniaethol oddiwrth oruchwyliaethau Duw tuag at y byd yn y datguddiadau a wna o hono ei hun trwy ei weithredoedd, a gweinyddiadau ei lywodraeth gyffredinol ar, a thuag at ei greaduriaid. Yn ngweinidogaeth y *gair*—y *llefaru*, efe a ddaeth yn nes at ei greadur nac o'r blaen—i egluro pethau oeddynt dywyll ac annealladwy iddo yn y lleill, ac i ddatguddio pethau dyfnion ei gynghor a'i ewyllys nad oedd un awgrym yn cael ei roddi am danynt trwy y rhai hyny.

Y mae y ddwy weinidogaeth trwy *lefaru* hefyd yn wahaniaethol, er eu bod ar amryw ystyriaethau yr un a'r unrhyw. Duw sydd yn llefaru yn y ddwy—wrth ddynion y mae yn llefaru—yr un amcan a dyben sydd i'r naill a'r llall. Ond y maent er hyny yn wahaniaethol. Llefarodd "wrth y tadau gynt trwy y prophwydi."—"Llefarodd wrthym ni, yn ngweinidogaeth y dyddiau diweddaf hyn, yn ei Fab." Llefarodd gynt trwy y prophwydi "lawer gwaith," ar wahanol amserau, ac mewn gwahanol oesau; ac mewn "llawer dull a llawer modd"—trwy weledigaethau a chyffelybiaethau, arwyddluniau a breuddwydion, mewn rhyddiaith, barddoniaeth, diarhebion, &c. "Yn y dyddiau diweddaf hyn," efe a ddaeth yn nes atom ni drachefn—"yn ei Fab." "A chanddo un Mab, ei anwylyd, efe a anfonodd hwnw hefyd atynt yn ddiweddaf;" ac yn *hwnw*, efe a "ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder,"—efe a hysbysodd i ni ddirgelwch ei gynghor a boddlonrwydd ei ewyllys mewn *un* dull a modd—un ffurf syml ac eglur, yn gyferbyniol i'r *llawer dull a modd* y llefarasai *wrth* y tadau *gynt trwy y prophwydi.* Cynnwysa yr ymadrodd yn

1. Mai hon yw y weinidogaeth olaf oddiwrth Dduw at y byd byth.

2. Mai hi yw y weinidogaeth uchaf a mwyaf ei hurddas a'i gogoniant o'r holl weinidogaethau dwyfol, ar gyfrif mawredd ac urddas rhagorach y prif oruchwyliwr a'r cenadydd y lleferir wrth y byd ynddo a thrwyddo; ac hefyd ar gyfrif mater a sylwedd, a dull gweinyddiad y weinidogaeth.

3. Bod yr holl bethau hyn yn nghyd yn gosod deiliaid y weinidogaeth hon dan y rhwymedigaethau cryfaf i'w derbyn, ei pharchu, ymostwng i'w hawdurdod, glynu wrthi, ac ufuddhau iddi: ac y bydd eu heuogrwydd a'u cosbedigaeth yn fwy, ac yn drymach, os gwrthodant ei gwrando, gan droi ymaith oddiwrthi, nag ydoedd euogrwydd a chosb deiliaid anufudd y weinidogaeth gynt. Helaethir ar hyn laweroedd o weithiau yn nghorff y llythyr.

Yn awr, dyma gâreg sylfaen yr adeiladaeth wedi ei gosod i lawr—sylwedd, mater, ac amcan yr epistol wedi eu crynhoi yn nghyd yn yr ychydig

ymadroddion cyntaf hyn o hono. Dechreua yr apostol adeiladu trwy ymhelaethu, yn ol ei arfer, ar urddas a gogoniant person Mab Duw, yr hwn y llefarodd Duw wrthym ni yn y dyddiau diweddaf hyn ynddo.

2 [c]Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, [d]trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd:

3 Yr hwn, [e]*ac* efe yn ddysgleirdeb *ei* ogoniant *ef*, ac yn wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, [f]wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, [g]a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd;

[c] Salm 2. 8. [d] Ioan 1. 3. [e] Ioan 1. 14. [f] Heb. 7. 27; 9. 12—14. [g] Salm 110. 1.

Dyma efe, yr hwn y llefarodd Duw wrthym ni ynddo. Edrychwch arno yn

1. Yn adnoddau diderfyn ei gyfoeth, ei feddiannau, a'i awdurdod—"etifedd pob peth." Ei etifeddiaeth fel Cyfryngwr a olygir. "Yr hwn a wnaeth efe"—y Tad, yn nghyfansoddiad ei gyfammod—y drefn fawr o brynedigaeth y byd trwyddo, yn etifedd ar ei holl eiddo, nid fel y mae y mab hynaf yn dyfod i'r etifeddiaeth ar ol marwolaeth ei dad; canys yna nid oes i'r tad daearol ran na chyfran yn yr etifeddiaeth, nac "mewn dim oll a wneir dan yr haul." Ond gwnaeth y Tad nefol ef "yn etifedd" mewn ystyr arbenigol perthynol i gyfammod yr oruchwyliaeth brynedigol yn unig. Nid yw y Tad yn y *gwneuthur* hwn yn peidio etifeddu pob peth, ond yn eu hetifeddu yn y Mab—yn ei gyfryngdod ef y mae. Y mae llygad yr apostol yma ar amryw o ymadroddion y Tad wrth y Mab, megys Salm ii. 8, "Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant;" a Salm lxxii. 8, 9, 10, a manau eraill: a hefyd ar amryw o ymadroddion y Mab wrth, ac am y Tad, megys Ioan xvii. 2, "Megys y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd;" a Mat. xi. 27, "Pob peth a roddwyd i mi gan y Tad;" a Mat. xxviii. 18, "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear;" a manau eraill.

2. Yn ei berthynas â gwaith creadigaeth, cynnaliaeth, a llywodraeth pob peth,—"Trwy yr hwn y gwnaeth efe [y Tad] y bydoedd."—*Ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth.* Ymddengys fod Paul ac Ioan yn dra hoffus o'r golygiad hwn ar gyfryngdod Emmanuel, sef ddarfod crëu pob peth ar y cyntaf trwyddo, ac er ei fwyn ef. "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth, ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd," Ioan i. 3. "Canys trwyddo ef y crëwyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef," Col. i. 16. Yn Dat. iii. 14, gelwir ef, "Dechreuad creadigaeth Duw." Pa ymadroddion mwy pendant, cedyrn, ac eglur, i osod allan Dduwdod y Gwaredwr, a allesid ddefnyddio? Priodolir iddo yma greadigaeth a chynnaliad pob peth—*y bydoedd.* Yn eu cynnal trwy air ei nerth—trwy awdurdod a nerth ei orchymyn,—"Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy ysbryd ei enau ef.—Canys efe a ddywedodd, ac felly y bu: efe a orchymynodd, a hyny a safodd," Salm xxxiii. 6, 9. Y gwaith a briodolir i Iehofa yn y Salm a briodolir gan yr apostol i'r Mab, a'r etifedd, yn y lle hwn. Oni raid, gan hyny, fod yr hwn a greodd ac sydd yn cynnal pob peth trwy nerth ei air a'i orchymyn uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig? Rhaid, meddwn, ei fod ef yn wir ac yn briodol Dduw yn ystyr uchaf a llawnaf y gair, neu rhaid fod yr apostol yn cyfeiliorni yn fawr wrth ddywedyd y pethau hyn am dano. Ond yn wir, efe a actiodd y Duwdod ar gylch llai pan oedd ar y ddaear, ac ar agwedd gwas, pan geryddodd y gwynt a'r môr, fel y bu tawelwch mawr yn y fan ar ei air, pan oedd yr elfenau hyny yn y cyffroad mwyaf; a'r un modd pan y cyfododd y meirw, ac y cyflawnodd eraill o'i weithredoedd nerthol. Byddai meddwl y gallai neb llai na Duw grëu, cynnal, a llywodraethu y bydoedd—eu helfenau a'u creaduriaid,

yn ynfydrwydd o'r mwyaf. Cawn dystiolaethau chwanegol ar hyn etto yn y bennod hon.

3. Gosodir urddas y Mab allan hefyd fel y mae yn gyfrwng pob dadguddiad o Dduw i'w greaduriaid: *Yr hwn ac efe yn ddysgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef.* Lleferir yma am ei natur ddwyfol bersonol, fel yr ymddadguddiodd—yr ymddangosodd yn y cnawd—"A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Unig-anedig oddiwrth y Tad) yn llawn gras a gwirionedd," Ioan i. 14.—Dysgleirdeb neu belydrau ei ogoniant ef. Yr oedd holl fywyd y Gwaredwr yn y byd yn tywynu allan ddysgleirdeb, neu belydrau gogoniant y Duwdod. "Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef," Ioan i. 18.—"A'i hysbysodd ef" mewn modd ac ystyr uwch a chyflawnach nag yr oedd wedi ei hysbysu i'r byd erioed cyn hyny. Hysbysodd Dduw yn ei natur a'i hanfod yn drindod o bersonau, ei nodwedd fel gwrthddrych addoliad, a natur yr addoliad dyledus iddo, a chymeradwy ganddo—ei briodoliaethau moesol—ei gariad, ei drugaredd, a'i raslonrwydd—ysbrydolrwydd, purdeb, a chyfiawnder ei gyfraith a'i lywodraeth—llwybr y cymmod a chyfiawnhad pechadur gyda Duw—person, swydd, a gwaith yr Ysbryd Glan—sicrwydd hanfodiad byd ysbrydol a thragwyddol, a gwobr a chosb yn ol yr hyn a wnaed yn y corff yn y byd hwnw—adgyfodiad y meirw, a barn y dydd olaf. Dysgodd ef y pethau hyn ac eraill am Dduw ei hunan, a thrwy ei apostolion, i'r byd mewn modd annhraethol ragorach ac eglurach nag yr oeddynt erioed wedi eu cyhoeddi i'r byd cyn hyny. Dysgodd ef hwynt yn ei enw a'i awdurdod ei hun, nid megys y prophwydi, y rhai a lefarent yn enw Duw, gan ddywedyd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd;" ond llefarai fel Duw—"Yr wyf fi yn dywedyd i chwi"—"Yn wir, yn wir, meddaf i chwi." Ni arferodd unwaith yr ymadrodd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Arferodd briod-ddull gwreiddiol o'i eiddo ei hun i dystiolaethu pethau dwyfol. Yr oedd ei reolau o foesoldeb yn burach, yn uwch, ac yn goethach na dim a ddysgodd un athraw na dysgawdwr i'r byd erioed. Gosodir gelynion gwaethaf Cristionogaeth dan orfodaeth i gydnabod hyn. Gwatwarwyr ac annuwiaid y dyddiau presenol ydynt y rhai cyntaf erioed i geisio gwarthruddo y rheolau o foesoldeb a ddysgodd Mab Duw. Yn ei holl fywyd a'i ymddygiad yn mhob man, ac yn wyneb pob amgylchiad, y mae dysgleirdeb gogoniant dwyfol yn pelydru ynddo.

*A gwir lun ei berson ef*—ei hanfod a'i sylwedd ef, yn dwyn ei argraffnod ef arno, fel y mae y cwyr yn dwyn llun, delw, ac argraff y sel a wasger arno. Y mae felly, nid yn unig fel yr oedd yn gydgyfranog â'r Tad yn holl ogoniant priodoliaethau y ddwyfol natur, ond hefyd fel yr ymddangosodd yn y byd yn gynnrychiolydd Duw, fel y gallai ddywedyd, "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad?" Ioan xiv. 9. Llefarodd ac ymddygodd yn mhob man, yn mhob modd, ac yn mhob peth, yn deilwng o Dduw—fel y gallesid dysgwyl i Dduw lefaru ac ymarweddu. "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb." Y mae tystiolaeth Rosseau, anffyddiwr nodedig yn Ffrainc yn y ganrif ddiweddaf, yn hynod ar y mater. Mewn llythyr at gyfaill efe a ddywed fel hyn:—

"Yr wyf yn addef fod mawrhydi yr ysgrythyrau yn fy nharo â syndod, fel y mae purdeb eu tystiolaeth yn effeithio ar fy nghalon. Chwiliwch weithiau ein hathronyddion, gyda'u holl wychedd ymadrodd. Pa mor wael ydynt mewn cymhariaeth â'r ysgrythyr! A ydyw yn bosibl bod llyfr ag sydd mor syml, ac ar yr un pryd mor aruchel, yn ddim amgen na gwaith dyn yn unig? A ydyw yn ddichonadwy nad yw y person hynod y rhoddant hanes am dano yn neb amgen na dyn? Pa mor brydferth a phur ydyw ei foesau? Y fath raslondeb ac effeithioldeb sydd yn ei ddull o draddodi ei athrawiaeth! Y fath ogoniant sydd yn ei egwyddorion—y fath ddoethineb orddofn yn ei bregethau—y fath bresenoldeb meddwl—y fath gallineb, a'r fath wiredd yn ei atebion! Pa mor berffaith ydyw ei lywodraeth ar ei nwydau! Pa le y mae y dyn—yr athronydd, a allai fyw fel hyn, a marw fel hyn—heb wendid na gwagogonedd! Pan dynai Plato ei ddysgrifiad dychymygol o ddyn perffaith rinweddol, dysgrifiai nodweddiad Iesu Grist yn gywir. Yr oedd y tebygolrwydd mor hynod fel y canfu yr holl hen dadau ef.

"Pa ragfarn a dallineb oedd cymharu mab Sophronicus â mab Mair? Y fath anfeidrol anghyfartalwch sydd rhyngddynt! Bu Socrates farw heb boen na gwaradwydd. Yr oedd yn beth hawdd iddo ef gynnal ei nodwedd hyd y diwedd; ac oni buasai i'w farwolaeth (er ei bod yn un esmwyth) goroni ei fywyd, hwyrach yr ammheuasai rhai nad oedd Socrates, er ei holl rinweddau, yn ddim amgen na chloeg-ymhônwr. Dywedir iddo gyflunio athrawiaeth o foesoldeb, ond yr oedd eraill wedi ei gosod mewn ymarferiad yn flaenorol; nid oedd ganddo ef, gan hyny, ond llefaru yr hyn oedd eraill wedi ymarferu, a threfnu eu siamplau yn rheolau. Buasai Aristides fyw yn gyfiawn cyn i Socrates egluro natur cyfiawnder. Rhoddasai Leonidas ei fywyd dros ei wlad cyn i Socrates ddysgu bod gwladgarwch yn rhinwedd a dyledswydd. Yr oedd y Spartiaid yn ddynion sobr cyn i Socrates arganmol sobrwydd. A chyn i Socrates egluro natur rhinwedd, yr oedd gwlad Groeg yn llawn o ddynion rhinweddol. Ond, gan bwy y gallasai Iesu Grist ddysgu y moesoldeb pur a digyffelyb hwnw, o'r hwn y rhoddai efe, ac efe yn unig, reolau ac esiampl? Gwnaeth yn hysbys y ddoethineb fwyaf goruchel yn mhlith y dallbleidiaid mwyaf penboeth—llewyrchai y rhinweddau uchaf a phuraf ynddo yn nghanol y bobl waelaf ar wyneb y ddaear. Ymddengys marwolaeth Socrates, yn athronyddu yn dawel yn nghanol ei gyfeillion, yr un fwyaf cysurus a ellid ddymuno—yr eiddo Iesu Grist yn trengu mewn poenau arteithiol—yn cael ei watwar, ei ddirmygu, a'i gyhuddo gan genedl gyfan, ydyw yr un fwyaf dychrynllyd a ellid ofni. Bendithiai Socrates ei ddienyddwr anewyllysgar ac wylofus pan gyflwynai y cwpan marwol iddo, y mae yn wir; ond Iesu yn ei ddirboenau dyfnaf a weddïai dros ei boenydwyr maleisus a dideimlad. Ië, os oedd bywyd a marwolaeth Socrates yn deilwng o ddyn doeth, yr oedd bywyd a marwolaeth Iesu yn deilwng o Dduw mawr!—'Gwir lun ei berson ef.'"

4. Yn ei berthynas â gwaith mawr ein hiachawdwriaeth, a'i ddyrchafiad oddiar y ddaear i'r nefoedd yn ein natur—*Wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd.* Dyma ei waith a'i ogoniant penaf oll. "Cynnal pob peth trwy air ei nerth," ond *puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun*—trwy ei roddi ei hun trosom ni—trwy ei waed, ei aberth, a'i haeddiant ei hun. Ni allasai buro ein pechodau ni fel crëu a chynnal y bydoedd, trwy air ei nerth—rhaid oedd iddo ef roddi ei hun—ei fywyd a'i waed, i gwblhau hyn. A hyny a wnaeth efe—*puro ein pechodau ni,* sef ein puro ni oddiwrth ein pechodau—ein prynu ni oddiwrth bob anwiredd—dilëu ein pechodau—talu pris ein prynedigaeth a'n glanhad ni. Yr oedd hyn yn fwy na chrëu y bydoedd a chynnal pob peth. Wedi cyflawni y gwaith mawr hwn ar y ddaear, efe a *eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd,* i orphwys oddiwrth ei lafur, ac i fwynhau o hono. "Ar ddeheulaw y Mawredd," yn y sefyllfa fwyaf anrhydeddus ac urddasol yn y nefoedd. Efe a eisteddodd, ac y mae yn eistedd yno yn y natur hòno y gweithiodd allan ein hiachawdwriaeth ni ynddi ar y ddaear—"O hyn allan, yn dysgwyl hyd oni osoder ei holl elynion dan ei draed."

Amcan gosod allan fel hyn urddas a mawredd person a gwaith Mab Duw fel Creawdwr a Chynnaliwr y bydoedd, a Phryniawdwr dyn, yn y lle hwn, ydyw gosod mawredd ac urddas ar weinidogaeth a goruchwyliaeth yr efengyl uwchlaw pob gweinidogaeth o'r blaen yn ngolwg yr Hebreaid, er dangos iddynt eu rhwymedigaethau i ymlynu wrthi, a'u dysgu i werthfawrogi eu goruchel freintiau fel deiliaid o honi; a chael mantais i ymaflyd yn eu hystyriaethau, a gwasgu atynt y mawr berygl o edrych yn fach ar, a throi ymaith oddiwrth weinidogaeth a draddodasid trwy y fath berson goruchel a gogoneddus.

4 Wedi *ei* wneuthur o hyny yn well na'r angylion, o gymaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.

5 Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, [h]Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais di? A thrachefn, [i]Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?

[h] Salm 2. 7. [i] 2 Sam. 7. 14.

6 A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntafanedig i'r byd, y mae yn dywedyd, [k]Ac addoled holl angylion Duw ef.

[k] Salm 97. 7.

7 Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, [l]Yr hwn sydd yn

gwneuthur ei angylion yn ysbrydion, a'i weinidogion yn fflam dân.

[1] Salm 104. 4.

Dyma y symudiad neu y disgyniad cyntaf mewn ffordd o gyferbyniad personau—y Mab a'r angylion. Yr angylion, am a wyddom ni, yw y bodau creadigol uchelaf a gogoneddusaf yn llywodraeth y Brenin mawr. Y mae y crybwylliadau a wneir am danynt yn yr ysgrythyr yn dysgu i ni eu bod yn fodau ardderchog yn mhob ystyr. Ond wele un mwy nac angel yma—"yn well," yn uwch, yn fwy urddasol, na'r angylion, yn dywysogaethau ac awdurdodau, a thronau a graddau, o bob enwau ac urddau. Dangosir hyn yn

1. Yn ei fod yn "etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt-hwy," yr enw *Mab. Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, Fy Mab ydwyt ti: myfi heddyw a'th genedlais di?* Ni chyfarchodd efe yr un o honynt hwy felly un amser, mewn un lle yn ysgrythyrau yr Hen Destament: ond y mae yn dweyd felly wrtho ef, y Messïa. Cymhwysa yr un apostol yr ymadrodd hwn o'r ail Salm at adgyfodiad Crist o'r bedd, yn Act. xiii. 32, 33: "Ac yr ydym ni yn efengylu i chwi yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarfod i Dduw gyflawni hon i ni eu plant hwy, gan iddo adgyfodi yr Iesu: megys ag yr ysgrifenwyd yn yr ail Salm, Fy Mab i ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais." Drachefn yn Rhuf. i. 4, dywed ddarfod ei "*egluro*"—ei brofi tuhwnt i bob ammheuaeth, "yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd santeiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Nid yw yr ymadrodd, dybiem, yn cynnwys nac yn cefnogi y golygiad o dragwyddol genedliad yn yr hanfod ddwyfol, fel y mynai llawer o dduwinyddion hen a diweddar eu bod; sef bod yr ail berson yn Fab Duw yn annibynol ar gyfammod y prynedigaeth—yn ddeilliedig o'r Tad fel person dwyfol—yr hyn, fe sylwa Barnes, sydd yn annichonadwy iddo fod, heb olygu hanfodiad blaenorol i'r Tad ar y Mab, yr hyn, o ganlyniad, a wna y Mab yn israddol a dibynol. Ond golyga y *cenedlu* yma waith y Tad yn ei arddel ef fel y Messïa, ei Frenin gosodedig ar Seion ei fynydd santaidd, trwy ei adgyfodi oddiwrth y meirw, a'i waith yn ei ddyrchafu i urddas a gogoniant ar ei ddeheulaw, a rhoddi iddo deyrnas, llywodraeth, ac awdurdod, ar y byw a'r meirw; sefyllfa na ddyrchafwyd un angel erioed iddi, canys nid oedd yr un o honynt hwy yn deilwng o honi. "Nid oedd neb yn y nef, nac ar y ddaear, na than y ddaear, yn gallu agoryd y llyfr nac edrych arno." Nid oedd neb o honynt yn deilwng i ddarllen y llyfr nac i edrych arno, Dat. v. 3, 4. Yn mhellach, nid yn unig ni ddywedodd efe wrth yr un o'r angylion unwaith erioed, Fy Mab ydwyt ti, fel y dywed wrth y Messïa yn yr ail Salm, ond efe a ddywed yr un modd wrtho neu am dano ef mewn lle arall; "A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab." Cymerir yr ymadrodd o eiriau y cyfammod a dyngodd yr Arglwydd i Dafydd, 2 Sam. vii. 14; ac mewn golwg ar Salm lxxxix. 26, 27. Yr oedd Dafydd a'i frenhiniaeth yn gysgodau arbenig o Grist a'i frenhiniaeth; ac y mae llawer o addewidion y cyfammod hwnw mewn rhan yn briodol i Dafydd ei hun, ond yn fwy neillduol i'r Messïa, yr hwn a elwir yn *Fab* Dafydd. Yn yr ymadrodd dan sylw, golygir Solomon yn gyntaf, ond yn benaf Crist. Y mae rhai ymadroddion yn y cysylltiad nad ydynt yn briodol am Grist, a rhai eraill nad ydynt yn briodol yn eu llawn ystyr i Solomon, na neb arall, ond Crist. Y mae y geiriau, "Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac yntau a fydd i mi yn Fab," yn perthyn yn israddol i Solomon, fel yr oedd yn etholedig Duw o blant Dafydd i fod yn frenin ar ei bobl Israel—i lenwi y deyrngadair hòno ag oedd wedi ei chodi a'i hordeinio i fod yn gysgod o deyrngadair neu lywodraeth y Messïa. Gelwir Solomon yma yn *fab*, nid yn yr ystyr yr oedd yn blentyn i Dduw fel sant yn benaf, ond fel yr oedd yn gysgod o Grist—yr un modd ag yr oedd yr ymadrodd o'r ail Salm a fu dan sylw o'r blaen yn perthyn i Dafydd mewn rhan.

2. Y mae yr angylion yn cael gorchymyn i'w addoli ef *A thrachefn*—y mae ychwaneg i'w ddywedyd ar y mater hwn o gyferbyniad y Mab â'r angylion

etto—*pan yw yn dwyn y Cyntafanedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef.* Y mae, nid yn unig *yn well na'r angylion*, yn "etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt-hwy," ond yn gymaint felly fel y mae yn wrthddrych priodol eu haddoliad hwy oll, yr hyn a arwydda ei fod yn *anfeidrol well a mwy rhagorol.* Y mae yr angel yn well ac yn llawer mwy rhagorol na dyn—y dyn goreu; ond nid yn gymaint ag a'i gwna yn briodol wrthddrych addoliad dyn. Gwrthodai angel dderbyn addoliad gan Ioan, Dat. xxii. 9.

*Y Cyntafanedig.* Gelwir y Messïa yn "Fab," "unig-anedig Fab," "priod Fab," "anwyl Fab," a'r "Cyntafanedig"—"y Cyntafanedig oddiwrth y meirw"—gyda golwg etto ar ei adgyfodiad o'r bedd. Fel yr oedd i'r cyntafanedig yn nheulu Israel ragoriaeth braint, awdurdod, ac etifeddiaeth, ar yr eiddo y plant eraill, felly y mae i'r Messïa flaenoriaeth a rhagoriaeth hawliau a breintiau yn nheulu mawr y Tad nefol: "Fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth."

Y mae llygad yr apostol yma ar yr ymadrodd yn Salm xcvii. 7, "Addolwch ef, yr holl dduwiau"—yr holl nerthoedd ac awdurdodau, yn cynnwys yr holl angylion yn eu gwahanol raddau ac urddau. Cyfrifai y doctoriaid Iuddewig fod yr holl Salmau o xciii. hyd cii. yn perthyn yn hollol i'r Messïa. Cymeradwya yr apostol eu hesboniad hwy, ac ni thry ddim oddiar ei ffordd i brofi a dangos i'r Hebreaid mai at y Messïa y cyfeiria yr ymadroddion a ddefnyddir ganddo, gan eu bod hwy eisoes wedi eu dysgu i olygu felly; ond dichon na buasem ni yn meddwl byth am gymhwyso rhai o'r ymadroddion ato ef (y Messïa) oni buasai i'r apostol wneuthur felly. Y mae cryn anhawsdra yn ymddangos i gymhwyso rhai o honynt felly; ond gallwn fod yn sicr fod yr apostol yn ei le, ac na ddarfu iddo ef drawswyro un ymadrodd o'i gyfeiriad priodol. Wrth ddwyn y *Cyntafanedig i'r byd*, golygir naill ai yn

(1.) Ei ymddangosiad yn nghyflawnder yr amser—y dyfodiad i'r byd hwn yn y cnawd—y dygwyddiad mawr hwnw a ragfynegwyd gan yr holl brophwydi santaidd o ddechreuad y byd, yr hyn oedd "ysgrifenedig yn rhol y llyfr am dano"—gwrthddrych mawr ffydd, gobaith, a dysgwyliad patriarchiaid, prophwydi, a chyfiawnion yr Hen Destament. Pan gyflawnwyd hwn, yr oedd y "lluaws llu nefol" yn addoli ac yn moliannu Duw yn Nghrist uwchben lle genedigaeth y Mab bychan—neu yn

(2.) Ei ddwyn i'r byd nefol yn ei esgyniad oddiar y ddaear, pan yr oedd ugain mil o angylion yn gerbydau iddo—y "pyrth yn dyrchafu eu penau, a'r drysau tragwyddol yn ymddyrchafu, i dderbyn y Messïa i mewn fel Brenin y gogoniant;" a phan y syrthiodd yr holl angylion yn fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd, i lawr wrth ei draed i addoli, fel yr esgynai yn ein natur ni dan y cymeriad o "Oen a laddwyd" i orseddfainc nef y nef, gan gymeryd awenau llywodraeth y bydoedd i'w ddwylaw—neu yn

(3.) Pan yn ei ddadguddio, yn ei arddangos, yn y dystiolaeth am dano—yn ei ddwyn allan, yn ei gyhoeddi i'r byd—i ddynion yn y dadguddiad a roddodd o'i arfaeth dragwyddol, yr hon a "arfaethasai efe yn Nghrist Iesu cyn bod y byd." Y mae yn dywedyd pan yn gwneud hyn, *Addoled holl angylion Duw ef*—nid yn unig gelwir ar ddynion, y rhai mae'r oruchwyliaeth fawr ryfedd hon yn dal perthynas uniongyrchol â'u natur a'u cyflwr i'w addoli, ond hefyd yr holl angylion, holl ddealltwriaethau y llywodraeth ddwyfol o bob naturiaethau a graddau; y maent hwythau yn cael eu rhwymo o dan weithred arbenigol newydd *(special act)* i'w addoli ef—y Mab, y Messïa. Hwn, debygid, ydyw y golygiad penodol yn y fan hon.

3. I benderfynu pob dadl yn nghylch uwchafiaeth ac urddas y Mab rhagor yr angylion, dengys yr apostol ei fod yn cael ei alw yn *Dduw*, a hwythau yn weinidogion, yn yr ysgrythyr. Dywed Iehofa am yr angylion, Salm civ. 4, "Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn ysbrydion, a'i weinidogion yn fflam dân." Gweinidogion yn ei lys a'i lywodraeth ydynt hwy, yn gyffelyb i'r gwynt a'r tân. "Y gwynt ystormus yn gwneuthur ei air ef;" ac felly yr

angylion "cedyrn o nerth yn gwrando ar leferydd ei air ef." Y mae yn eu gwneuthur yn wyntoedd (yn ysbrydion), yn eu hanfon a'u defnyddio fel y mae yn anfon ac yn defnyddio y gwyntoedd yn genadau ei ewyllys. Dywedir am yr Iehofa ei fod yn marchog ar y cerub, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt. Yn fflam dân—yn fellt—yn gyflym, treiddiol, ac yn anwrthwynebol yn eu goruchwyliaeth. Pa mor ardderchog bynag ydynt hwy mewn natur, galluoedd, a doniau, nid ydynt yn ddim uwchlaw cenadau a gweinidogion, yn gyffelyb, ond mewn gradd yn uwch, ag y mae y gwyntoedd a'r mellt yn weision a chenadau i'r Brenin mawr.

8 Ond wrth y Mab, [m]Dy orsedd-
fainc di, O Dduw, *sydd* yn oes
oesoedd: teyrnwialen uniondeb
*yw* teyrnwialen dy deyrnas di.

[m] Salm 45. 6, 7.

9 Ti a geraist gyfiawnder, ac a
gaseaist anwiredd: am hyny y'th
eneiniodd Duw, *sef* dy Dduw di,
âg olew gorfoledd tu hwnt i'th
gyfeillion.
10 Ac, [n]Tydi yn y dechreuad,
Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear:
a gwaith dy ddwylaw di yw y
nefoedd.

[n] Salm 102. 25.

11 Hwynt-hwy a ddarfyddant;
ond tydi sydd yn parhau: a hwynt-
hwy oll fel dilledyn a heneidd-
iant;
12 Ac megys gwisg y plygi di
hwynt, a hwy a newidir: ond tydi
yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni
phallant
13 Ond wrth ba un o'r angyl-
ion y dywedodd efe un amser,
[o]Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni
osodwyf dy elynion yn droedfainc
i'th draed?

[o] Salm 110. 1.

*Ond wrth y Mab, Dy orseddfainc di, O Dduw, &c.* Cymerir yr ymadroddion hyn o Salm xlv. 6, 7. Y mae ysbrydoliaeth ddwyfol yn llefaru fel hyn wrtho ef. Ni ellir cymhwyso ymadroddion y Salm hon yn briodol at neb ond y Messïa. Felly y golygai yr Iuddewon bob amser. Ceisiai rhai eu cymhwyso at Solomon, ond nid yw y gwisgoedd yn gweddu iddo ef mewn modd yn y byd. Y mae y Mab, gan hyny, nid yn unig yn well na'r angylion—yn etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt-hwy—y mae yn wir a phriodol Dduw. Gweinidogion ydynt hwy —*Duw*, Brenin ar ei orseddfainc, ydyw ef, a'i orseddfainc, ei lywodraeth, a'i awdurdod, i barhau byth ac yn dragywydd. Helaetha'r apostol yn ngeiriau y Salmydd ar nodwedd y Brenin—ei gyfiawnder.

1. Ei deyrnwialen. *Teyrnwialen uniondeb, &c.*, yn gyfeiriedig at yr arferiad yn mysg brenhinoedd a llywodraethwyr o ddwyn a dal ffon hir addurnedig yn eu dwylaw ar achosion neillduol, yn arwydd o awdurdod a llywodraeth. Pan fynai'r Iuddewon ddirmygu Crist fel Brenin, dodasant gorsen yn ei law, yn rhith teyrnwialen; ac fel hyn bwrient arno y dirmyg atgasaf a allasai eu calonau ddyfeisio. Felly y dirmygent hwy yr hwn a eneiniasai Duw âg *olew gorfoledd y tuhwnt i'w gyfeillion*, sef holl frenhinoedd y ddaear, i'r rhai y rhoddasai awdurdod a llywodraeth dros dymmor ac amser byr yn y byd hwn. Teyrnwialen teyrnas y Messïa ydyw ei air—yr efengyl. "Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Seion." A hon y mae efe yn darostwng ei elynion, ac yn llywodraethu ei ddeiliaid. Teyrnwialen uniondeb ydyw. "Efe a farna y byd mewn cyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd." Ac "mewn cyfiawnder y mae efe yn barnu ac yn rhyfela."

2. Etto: cymhwysir ato yr ymadroddion yn Salm cii., yn y rhai y cyferchir Iehofa y Creawdwr, *Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear, &c.* Ni welai yr apostol yn ormod crybwyll hyn drachefn wedi iddo unwaith o'r blaen dystiolaethu y peth am dano. Cymerir yn y geiriau olwg ar y gwaith a'r Gweithiwr, y

cread a'r Crëwr—yr hyn a wnaeth efe yn y dechreuad, a'r hyn a wna efe yn y diwedd. Yn y dechreuad efe a seiliodd y ddaear, ac a luniodd y nefoedd; cynnalia a llywodraetha hwy â "gair ei nerth." *Ond hwy a ddarfyddant—hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant, ac megys gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir.* Y mae cyfnewidiadau mawrion yn ymweithio yn barhaus yn y greadigaeth. Y mae yn debygol nad oes un byd nac un creadur yn aros yn gwbl yr un fath am fynyd o amser. Y mae elfenau yn nerthol weithio cyfnewidiadau o hyd yn mynwes y ddaear, a phlanedau eraill yr un modd. A bydd rhyw gyfnewidiad mawr arnynt yn niwedd amser, pan y bydd iddo ef, yr hwn a'u creodd, naill ai eu gollwng yn ol i'w diddymdra cyntefig, neu eu hail ffurfio ar wedd arall a mwy gogoneddus. Y mae ganddo allu a chyflawn hawl i wneud fel y myno, canys ei eiddo ef ydynt. Y mae mawreddigrwydd arbenig yn y ffurf a ddefnyddir yma: dywedir fod y nef a'r ddaear yn heneiddo fel dilledyn, ac y bydd i berchenog y wisg ryw ddydd ei lapio i fyny, ei phlygu, a'i gosod o'r neilldu—plygu a rholio bydoedd i fyny! Y Messïa a wna hyn. Ond dan yr holl gyfnewidiadau rhyfeddol ac ofnadwy—*Tydi yr un ydwyt.* Erys efe ei hun byth yn ddigyfnewid, faint bynag o gyfnewidiadau yr â y nef a'r ddaear trwyddynt. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

3. Gwneir un cyferbyniad etto o'r Mab a'r angylion. Efe yn ei sefyllfa oruchel ar ddeheulaw y Tad, a hwythau fel gweision iddo yn y drefn achubol. *Ond wrth ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, Eistedd ar fy neheulaw? &c.* Cystal a dywedyd na ddywedodd efe felly wrth yr un o honynt hwy erioed. Ond efe a ddywed felly wrth y Messïa yn Salm cx. 1. Cymhwysa yr Arglwydd Iesu yr ymadrodd hwn ato ei hun unwaith wrth ymddyddan â'r Iuddewon: Mat. xxii. 44. Gofyna iddynt i ddangos y cysondeb i'w hysgrifenyddion alw Crist yn Fab Dafydd, a Dafydd ei hun yn ei alw ef yn Arglwydd. "Os yw Dafydd gan hyny yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn Fab iddo?" Nis gallent hwy ateb y cwestiwn. Yr oedd yn ddyryswbwnc ac yn ddirgelwch iddynt. Ewyllysiai ef eu harwain i feddwl am ac i adnabod Crist, y Messïa, yr oeddynt yn ei ddysgwyl, fel person dwyfol a thragwyddol, yn yr hwn ystyr yr oedd ef yn "Arglwydd Dafydd," yn gystal ag yr oedd o ran ei ddynoliaeth yn hanfodi o dŷ a theulu Dafydd, ac felly yn Fab iddo. Adwaenid ef felly gan y ffyddloniaid o'r genedl. Pan ymwelodd Mair âg Elizabeth ei chares, hi a dòrodd allan, gan ddywedyd, "O ba le y mae hyn i mi, fel y delai mam fy Arglwydd ataf?" Dywedai Crist wrth yr Iuddewon dro arall, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, cyn bod Abraham yr wyf fi." Yr oedd Abraham wedi marw er's yn agos i ddwy fil o flynyddoedd cyn genedigaeth y Messïa, ond efe a dystiai fel hyn ar ei lw ei fod ef yn hanfodi cyn hanfodiad y patriarch hwnw. Ymadrodd a hòna ddwyfoldeb personol yn y modd mwyaf eglur a phendant.

Deil yr apostol y ffaith bwysig o ddyrchafiad y Messïa ar ddeheulaw y Tad o hyd o flaen llygaid yr Hebreaid yn yr epistol. Crybwyllodd hi unwaith o'r blaen yn nechreu y llythyr, ac yma drachefn, a chrybwylla hi lawer gwaith etto wrth fyned yn mlaen, gan ei bod yn dal y fath berthynas â'r amcan ymarferol sydd ganddo mewn golwg, fel un o'r prif gymhelliadau i Gristionogion ddal a glynu yn ddianwadal yn eu proffes o'r efengyl.

14 [p] Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu [q] danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt [r] etifeddu iachawdwriaeth?

p Salm 103. 21; Dan. 7. 10. q Gen. 19. 15, 16; Salm 34. 7. r Rhuf. 8. 17.

Terfyna y gangen hon o'i ymresymiad drwy nodi drachefn yn fwy neillduol nag o'r blaen sefyllfa a swyddogaeth yr angylion. Dywedasai o'r blaen mai gweinidogion a chenadau oeddynt; yma noda eu gwasanaeth neillduol—*Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?*

Tra y mae efe, y Mab, yn "eistedd ar ddeheulaw y Mawredd"—yn "Arch-offeiriad ar ei frenhinfainc," yn trefnu ac yn arolygu holl achosion y deyrnas fawr gyfryngol yn gyffredinol, fel y mae yn "Ben uwchlaw pob peth i'r eglwys," y maent hwy, yr angylion, yn awdurdodau a thywysogaethau, wedi eu darostwng iddo, i weinyddu a gwasanaethu yn nygiad yn mlaen iachawdwriaeth yr eglwys.

ADNODION.

1. Y mae y ffeithiau ddarfod i'r hwn "yn y dechreuad a seiliodd y ddaear" ymddarostwng iddi, byw ynddi, rhodio ar hyd-ddi, ei gwlychu â'i chwys a'i ddagrau, ei bedyddio â'i waed, gorwedd yn farw am dymmor yn ei chalon, disgyn i'w "pharthau isaf," ymddyrchafu oddiarni "goruwch yr holl nefoedd;" y mae y ffeithiau hyn, meddwn, wedi gwisgo y dalaeth fechan hon o lywodraeth Duw â rhyw dragwyddol gysegredigrwydd uwchlaw pob un arall. "Mor ofnadwy yw y lle hwn!" Y fath drueni ydyw fod "cyfanneddle ei ddaear ef," yn anad un man, yn cael ei anurddo a'i halogi âg aflendid ac anwiredd byth wedi hyn!

2. Y fath ddyrchafiad ac anrhydedd a roddwyd ar ein natur isel a breuol ni yn ei hundeb â pherson Mab Duw, ac yn rhinwedd yr undeb hwnw i fod yn gydgyfranog â'r Duwdod yn llywodraethiad y bydoedd, ac i dderbyn addoliad gan yr holl angylion! O ba le y daeth hyn i ni? Ai gwir yw? Yn sicr y mae yn ymddangos fel yn rhy fawr ac anhygoel i'w gredu. Ond nid yw yn fwy mawreddus nac ydyw yn wirioneddol. Y mae yn haws credu gwirionedd y dystiolaeth nac ydyw credu y gallasai meddwl dynol erioed ei dyfeisio a'i ffugio. "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb: Duw a ymddangosodd yn y cnawd."

3. Y mae, nid yn unig ein daear a'n natur ni wedi eu dyrchafu yn Nghrist, ond ein *cyflwr*—ein *hachos* ni hefyd. "Puro ein pechodau ni" oedd amcan mawr ei ymddangosiad yn ein byd ac yn ein natur. "Chwi a wyddoch ymddangos o hono ef fel y dileai ein pechodau ni." Wrth gymeryd ein natur, efe a gymerodd ein hachos: ac yn ei ddyrchafiad ei hun o barthau isaf y ddaear, efe a gododd ein cyflwr o ddyfnder y trueni a'r gollfarnedigaeth oedd arno i dir a sefyllfa o obaith ymwared a bywyd. Yr oedd cyflwr y byd yn adgyfodi megys o fedd ei golledigaeth yn ei adgyfodiad ef o fedd Joseph: yn ei ddyrchafiad ar ddeheulaw y Tad, gosodid, nid yn unig ein natur ni, ond hefyd ein hachos ni, yn y lle uchaf yn y nefoedd—fel nad oes dim yn awr a all ein hattal ninnau yn ein personau ein hunain i gael ein gosod i gydeistedd gyda Christ yn y nefolion leoedd, ond anghrediniaeth a chyndyn wrthodiad o'r bywyd a'r iachawdwriaeth a gynnygia yr efengyl.

4. Y rhaid fod ein hadferiad a'n cadwedigaeth ni â rhyw bwysigrwydd annirnadwy i ni ynddo. Edrycher arno yn nrych y dadguddiad o hono yn yr efengyl, fel y prif bwnc yn meddwl ac arfaeth Duw erioed—a'r peth y gwnaeth efe y fath aberth mawr yn Nghrist Iesu er ei ddwyn oddiamgylch. Gwaith y trosglwyddwyd yr holl fydoedd a'r creaduriaid, yn weledig ac anweledig—pob peth yn y greadigaeth ddefnyddiol ac ysbrydol, yn etifeddiaeth i Dywysog yr iachawdwriaeth fel gwobr am ei gyflawni.

5. Y fath wallgofrwydd a raid fod yn niofalwch diystyr dynion o'u hiachawdwriaeth eu hunain! Pa le arall y ceir y fath enghraifft o ynfydrwydd ysgeler a hyn? Achos y meddyliodd Duw erioed yn fwy nac am un achos arall am dano—y "llefarodd efe wrth y byd lawer gwaith a llawer modd, ac yn y dyddiau diweddaf hyn yn ei Fab," yn ei gylch—yr achos yr ymgysegrodd Mab Duw iddo, gan roddi ei hunan gorff ac enaid, gwaed a bywyd, i'w gwblhau—achos ag y mae efe yn awr yn y nefoedd yn darostwng ac yn gor-uwchreoli pawb a phobpeth er ei gario yn mlaen—gwaith ag y mae yr holl angylion yn teimlo y dyddordeb mwyaf yn ei lwyddiant. Y fath olygfa ydyw gweled dyn â'r ffeithiau hyn oll o flaen ei lygaid yn sefyll yn edrychydd didaro, anystyriol, dideimlad, a chellweirus, fel pe na byddai yr achos yn perthyn dim oll iddo ef i syniaw na phryderu dim yn ei gylch.

6. Y mae agwedd glauar, lac, a musgrell gyda chrefydd Crist yn annheilwng

i'r eithaf o'r athrawiaeth Gristionogol, fel y mae yn cael ei gosod allan yn yr epistol hwn yn neillduol; canys arddangosir hi yma yn yr arweddiad arbenigol hwn a berthyn iddi, fel athrawiaeth sydd yn llawn o dân a bywyd, ac yn tueddu yn uniongyrchol i wresogi a bywhau eneidiau ei phroffeswyr. Y mae gwasanaeth oeraidd a marwaidd yn gweddu i ddysgyblion crefyddau dynol dychymygol, pe byddai rhyw fath o wasanaeth yn gweddu i'r cyfryw gyfundraethau. Ond y mae natur yr efengyl yn galw am y gwresogfrydedd mwyaf, a'r sel fywiocaf, yn y rhai a broffesant grediniaeth ynddi. Y mae yn syndod meddwl pa fodd y gallodd neb erioed gyffesu crediniaeth o Gristionogaeth, a bod yn fusgrell, esgeulus, a difywyd yn ei gyflawniadau crefyddol. Och! yr ydym yn gallu proffesu a phregethu yr efengyl hefyd yn fynych yn rhy oer a dideimlad! A ydyw proffeswyr y dyddiau hyn yn dwyn delw a dylanwad rhai yn gwir gredu ac yn teimlo yr efengyl a broffesant mewn modd teilwng o honi? Gadewch i ni ddyfod ati yn adnewyddol â wynebau a mynwesau agored i edrych ar ei gogoniant, ac i ymdwymno wrth dân ei hathrawiaethau mawrion yn yr epistol hwn at yr Hebreaid. Agorwr ein calonau i dderbyn y dylanwad adfywiol hwnw ag y mae yr ysbrydoliaeth ddwyfol wedi ei gyfaddasu a'i fwriadu i'w drosglwyddo.

---

## PENNOD II.

1 *Y dylem ni fod yn ufudd i Grist Iesu;* 5 *gan fod yn wiw ganddo ef ei hun gymeryd ein naturiaeth ni arno,* 14 *fel yr oedd yn angenrhaid.*

AM hyny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni *eu* gollwng *hwy* i golli.[1]

[1] Neu, *redeg allan fel o lestr agenog.*

Try yr apostol yn nechreu y bennod hon oddiar lwybr ei ymresymiad blaenorol, cyn ei ddilyn i'r pen, i wneuthur cymhwysiad o'r gangen o athrawiaeth yr ymdrinasai â hi, ac a brofasai trwy ysgrythyrau o'r Hen Destament, at yr achos a'r pwrpas sydd ganddo mewn golwg. Myn gadw hwnw o hyd o flaen llygaid yr Hebreaid.

*Am hyny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom. Am hyny*—sef ar gyfrif yr oll a draethid yn flaenorol. Am ddarfod i Dduw lefaru wrthym ni yn ei Fab—Etifedd, Creawdwr, a Chynnaliwr pob peth—dysgleirdeb gogoniant y Tad—Pryniawdwr y byd—Arglwydd angylion, &c. *Am hyny*—gan ddarfod iddo lefaru wrthym yn a thrwy y fath Berson goruchel a gogoneddus, *y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau* a lefarodd efe wrthym trwyddo—dal yn fwy gafaelgar, astud, gofalus, a dyfal. Y mae ein rhwymedigaeth ni, deiliaid gweinidogaeth y dyddiau diweddaf hyn, i fod "yn esgud i wrando," a dal arni yn fwy ac yn gryfach nag ydoedd rhwymedigaeth y tadau gynt i wrando, a dal ar yr hyn a lefarodd Duw wrthynt hwy trwy brophwydi ac angylion. Wedi i'r gwinllanwyr anmherchi, llabyddio, a lladd y gweision a anfonasai perchenog y winllan atynt, "Yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd atynt ei fab ei hun, gan ddywedyd, Hwy a barchant fy mab i," Mat. xxi. 37. Yr oedd hyny yn beth a allesid yn rhesymol ei ddysgwyl oddiwrthynt. Y mae yr efengyl yn dyfod atom yn y Mab ymgnawdoledig gyda'r hawliau uchaf am ein sylw. Ni allasai Duw ei hun osod arnom reidrwydd neu rwymedigaeth foesol gryfach, nac un *mor* gref, i wrando a dal â holl egnïon ein heneidiau ar genadwri oddiwrtho, ag a esyd arnom trwy lefaru wrthym yn ei Fab. Y mae y pethau eu hunain, y pethau a *glywsom* hefyd, yn galw am i ni ddal felly arnynt. Y mae y pethau yn mawredd eu pwys a'u teilyngdod yn gweddu i fawredd ac urddas y Person a anfonwyd yn genadwr dros Dduw i'w llefaru wrthym. "Wrthym ni" y cawsant eu llefaru: y maent yn dal perthynas uniongyrchol â'n hachos ni. "Arnoch chwi wŷr yr wyf fi yn galw, ac at feibion dynion y mae fy llais," medd doethineb. "Od oes gan neb glustiau i wrando, gwrandawed," oedd llef Mab Duw yn fynych ar ei wrandawyr. Rhaid i ni ddal fel hyn arnynt—

*Rhag un amser i ni eu gollwng hwy i*

*golli*—rhag trwy ddifaterwch a difrawder, ac anystyriaeth o'u pwys a'u gwerth, i ni adael iddynt lithro heibio, llifo ymaith fel yr awel yr hon ni feddyliwn mwy am dani. Eu gollwng i golli fel chwedl wag nad yw o werth dal gafael arni; neu fel y gollynga llestr candryll y dwfr i redeg allan o hono. Archa doethineb fod i'w geiriau hi gael eu cuddio yn y galon—eu cadw yn nghanol y galon, a'u cuddio yn y modd mwyaf gofalus, ac yn y lle mwyaf diogel. Byddai eu gollwng hwy i golli y golled fwyaf o bob colled; ac nid yn unig yn golled, ond hefyd yn ymddygiad a gyfansodda yr euogrwydd mwyaf, ac a'n gesyd yn agored i'r gosbedigaeth fwyaf ofnadwy.

2 Canys os bu gadarn y gair [s]a lefarwyd trwy angylion, ac os [t]derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth;

[s]Act. 7. 53. [t]Num 15. 31.

*Canys os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angylion*—sef y deng air a lefarwyd ar Sinai ar ddydd y gymanfa—y dydd y safai y genedl ger bron Duw yn Horeb, gweinidogaeth yr hwn a draddodid iddynt trwy angylion, pan ymlewyrchodd Iehofa o fynydd Paran "gyda myrddiwn o'i saint"—ei rai santaidd—"ei angylion, a thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt"—fel y dywed Moses. "Hi a drefnwyd trwy angylion yn llaw Cyfryngwr," medd Paul.* "Y rhai a dderbyniasoch y gyfraith trwy drefniad angylion," medd Stephan. Angylion oedd y prif oruchwylwyr yn ngweinidogaeth y dydd ofnadwy hwnw. Hwynt-hwy a gasglasant elfenau y dymhestl fawr o gymylau a thywyllwch, o dân, a mellt, a tharanau, a llais udgorn, o ganol y rhai y cyhoeddid y danllyd gyfraith i'r bobl oedd yn llewygu gan ofn a dychryn wrth droed y mynydd teimladwy. "Ac mor ofnadwy oedd yr olwg ag y dywedodd Moses, Yr wyf yn ofni ac yn crynu." Os bu gadarn y gair hwnw—

*Ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth.* Nid gair ofer, dirym, a gwan, fu y gair a lefarwyd trwy angylion, ond fe brofwyd ei gadernid yn nghosbedigaeth pob trosedd ac anufudd-dod. Nid cynghor, ond deddf oedd y gair hwnw—deddf âg awdurdod ganddi, a nerth ynddi i ymaflyd yn mherson y troseddwr, a'i gosbi â chyfiawn daledigaeth. Yr hwn a ddirmygai y gair hwnw a fyddai marw heb drugaredd dan ddau neu dri o dystion. Yr oedd marwolaeth yn gysylltiedig â phob trosedd ac anufudd-dod. Os arbedid y troseddwr ei hun rhag marw, yr oedd raid cael aberth i farw drosto. Yr oedd rhai troseddau ac anufudd-dod na dderbynid aberth yn lle y troseddwr. Yr oedd raid i'r gyfraith gael rhedeg ar fywyd yr euog ei hun; ac am y troseddau eraill hyny y derbynid aberth drostynt, os esgeulusai y troseddwr ddwyn yr aberth gofynol yn ol y gyfraith, hi a ofynai fod i'r "*enaid hwnw* gael ei dòri ymaith o blith ei bobl." Y mae holl hanesyddiaeth y genedl, o'r amser y derbyniodd "y gyfraith trwy drefniad angylion," hyd ei thòriad ymaith a'i gwasgariad gan y Rhufeiniaid, yn dwyn tystiolaeth i gadernid y *gair*—y gyfraith—yn nghosbau y troseddwyr. Pan elai barnwyr y bobl, swyddogion y gyfraith, yn ddiofal ac esgeulus yn y gweinyddiad o'u swydd, ac y gadawent i droseddwyr ddianc yn ddigerydd, cymerai y Brenin mawr yr achos i'w law ei hun, gan "fawrhau y gyfraith a'i gwneud yn anrhydeddus" trwy gosbi yr anufuddion, ac ymweled â'r wlad ar lwybr barnedigaethau tymmorol. "Ei fraich ei hun a'i hachubai, a'i lidiawgrwydd a'i cynnaliai."

3 [u]Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint, [v]yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'*i* clywsant *ef:*

[u]Heb. 4. 1, 11. [v]Marc 1. 14.

*Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?* Dyma y casgliad naturiol ac anocheladwy oddiwrth holl hanes cosbedigaethau troseddwyr y ddeddf. Y mae yr holl hanesion hyny yn rhybuddion i ni. "Ac na fyddwch eulunaddolwyr, megys rhai o honynt hwy; fel y mae yn ysgrifen-

edig, Eisteddodd y bobl i fwyta ac i yfed, ac a gyfodasant i chwareu. Ac na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y syrthiodd mewn un dydd dair mil ar hugain. Ac na themtiwn Grist, megys ag y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a'u dystrywiwyd gan seirff. Ac na rwgnechwch, megys y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac a'u dystrywiwyd gan y dinystrydd. A'r pethau hyn oll a ddygwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd," 1 Cor. x. 7—11. Dyma grynodeb o'r modd y cadarnhawyd y gair a lefarwyd trwy angylion yn nghosbedigaethau yr anufuddion. Yn wyneb yr esiamplau hyn, *Pa fodd y diangwn ni?*—pa fodd y gall neb o honom feddwl bod modd—y gobaith lleiaf iddo ddianc y gosbedigaeth, os esgeulusa, os diystyra trwy ei ddifaterwch, *iachawdwriaeth gymaint*—gweinidogaeth o'r fath urddas, gogoniant, ac eglurdeb, ag ydyw yr efengyl? Y mae y dialeddau a'r cosbau a ddaliodd anufuddion a throseddwyr y "gair a lefarwyd trwy angylion" yn sicrhau tuhwnt i bob dadl na ddianga esgeuluswr a diystyrwr yr hyn a lefarodd Duw wrthym ni "yn ei Fab" yn ddigerydd.

*Iachawdwriaeth gymaint.* Y mae yr hen sylwadau a glywid ganwaith mewn pregethau ar yr ymadrodd hwn, iachawdwriaeth gymaint—*mor* fawr, yn eithaf gwirioneddol. Iachawdwriaeth "mor fawr a'i hawdwr"—"mor fawr a thrueni pechadur"—"mor fawr ag angen y byd"—"yn dyrchafu o iselder mawr i ogoniant mawr," &c. Ond meddyliem nad dyna y meddwl yma; ac yr oedd braidd yn syn genym weled esboniedydd mor graffus a galluog a Barnes yn rhedeg ar hyd yr hen lwybr sathredig hwn. Yr iachawdwriaeth yn ei gweinidogaeth, yn hytrach nag yn ei bendithion, sydd yn ngolwg yr ysgrifenydd yn yr ymadrodd, yn benaf, debygem. Y mae yn wir na ellir esgeuluso a gwneud yn fach o'r weinidogaeth—y moddion, heb ddibrisio ac esgeuluso ei bendithion ar yr un pryd. Llefaru y mae yr apostol o hyd am fawredd a gogoniant yr efengyl mewn cyferbyniad i weinidogaeth yr hen gyfammod, pa mor ogoneddus bynag oedd y gyntaf hòno, bod yr olaf hon yn llawer mwy felly ar gyfrif y Mab, yr hwn y llefara Duw wrth y byd ynddo; ac ar gyfrif y dull a'r modd y cafodd ei sefydlu, ei phrofi, ei selio, a'i chadarnhau. Gan hyny, os bu y gair a lefarwyd trwy angylion yn gadarn, os dangosodd Duw y fath eiddigedd dros hwnw, y fath ofal i amddiffyn ei awdurdod a'i anrhydedd trwy gosbi pob trosedd o hono ac anufudd-dod iddo â chyfiawn daledigaeth, yn sicr ynte, ni ddianga esgeuluswyr a dibriswyr y weinidogaeth a lefarodd efe yn ei Fab yn ddigosb. Buasai yn sarhad ar yr angylion i droseddwyr y gyfraith a drefnwyd trwyddynt hwy gael eu harbed. Ond byddai yn sarhad uniongyrchol ar y Mab ei hun i esgeuluswyr yr efengyl, a drefnwyd ac a ddatguddiwyd i ddynion trwyddo, i gael eu gadael yn rhydd a diangol oddiwrth y gosbedigaeth fwy a haedda y fath ymddygiad.

*Yr hon wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd.* Y mae y ffaith hon o'r fath bwys i ddeiliaid y weinidogaeth i'w hystyried, er eu deffroi i edrych a gofalu pa fodd y gwrandawant hi, ac yr ymddygant tuag ati, ac i broffeswyr yr efengyl er eu cadw ar eu gocheliad rhag ei gwadu, a'u cadarnhau yn eu hymlyniad dianwadal wrthi, fel y mae yr apostol yn ei chrybwyll unwaith ac eilwaith. "Gair a lefarwyd trwy angylion" oedd y gyfraith. Ond fe ddechreuwyd traethu hon, yr efengyl, i'r byd *trwy* yr Arglwydd—yr hwn sydd "wedi ei wneuthur yn well na'r angylion"—"yn etifeddu enw mwy rhagorol na hwynt-hwy"—yr hwn y maent hwy oll wedi derbyn gorchymyn i'w addoli—yr hwn a dderbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant anfeidrol uwchlaw iddynt hwy—wrth yr hwn y dywedodd efe, "Eistedd ar fy neheulaw"—efe a draethodd yr efengyl gyntaf i'r byd—a osododd, a drefnodd, ac a sefydlodd ei theyrnas a'i goruchwyliaeth yn mysg dynion. Daeth Ioan Fedyddiwr allan yn rhagredegwr iddo. Yr oedd ei weinidogaeth yn rhyw fyr gyfnod o oruchwyliaeth arbenigol rhwng y ddwy arall. Gweinidogaeth y "llef un yn llefain," &c., ydoedd yr eiddo ef,

i "barotoi ffordd yr Arglwydd." Galwai Ioan ar ei wrandawyr, "Edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." Y Messïa ydoedd sylfaenydd y deyrnas, a moddion ei sylfaeniad ydoedd pregethu yr efengyl. "I hyn (pregethu) y daethum i allan ac y'm danfonwyd," medd ef. Eneiniwyd ef "i efengylu i'r rhai llariaidd—i gyhoeddi blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd."

*A sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef*, sef yr apostolion a etholasai efe i fod yn dystion iddo yn Judea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear, y rhai a gyhoeddent yr athrawiaethau a dderbyniasent ac a glywsent o'i enau ef ei hun; yn nghyda'r efengylwyr, y rhai a ysgrifenasent hanes ei fywyd, ac a gofnodasent ei ymadroddion a'i bregethau, "wedi iddynt ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad."

4 *A* Duw[x] hefyd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glan, yn ol ei ewyllys ei hun?

x Act. 14. 3.

Dygodd y Tad dystiolaeth iddo mewn llef o'r nef fwy nag unwaith: "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd: gwrandewch arno ef." Ond tystiolaeth arall—tystiolaeth y gwyrthiau a'r rhyfeddodau, y nerthoedd a'r doniau, sydd yma. Cyfeiriai yr Arglwydd Iesu yr Iuddewon anghrediniol yn fynych at y gweithredoedd nerthol hyny a gyflawnai efe yn eu gwydd hwynt, fel profion o ddwyfoldeb ei anfoniad a'i athrawiaeth. "Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammheu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur. Yr Iesu a atebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hyny yn tystiolaethu am danaf fi." A thrachefn, "Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi. Ond os ydwyf yn eu gwneuthur, er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd: fel y gwybyddoch ac y credoch, fod y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau," Ioan x. 24, 25, 37, 38. Yr oedd tystiolaeth gwyrthiau a rhyfeddodau gan hyny yn anhebgorol angenrheidiol ar sefydliad cyntaf goruchwyliaeth yr efengyl yn y byd, fel prawf o ddwyfoldeb anfoniad y Messïa, a'i athrawiaeth. Buasai yr Iuddewon yn esgusodol, yn ol addefiad Crist, am eu hanghrediniaeth ynddo, a'u gwrthodiad o hono, yn absenoldeb y dystiolaeth hon. "Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi." Dro arall, efe a dywed, "Oni b'ai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod: ond yr awrhon hwy a welsant, ac a'm casasant i a'm Tad hefyd," Ioan xv. 24. Buasai yn gyfiawnhaol iddynt felly ymlynu wrth y gyfraith a defodau Moses, y rhai a draddodasid iddynt gyda gwyrthiau a rhyfeddodau i'w cadarnhau, a gwrthod yr efengyl, pe y cynnygiasid hi iddynt heb y dystiolaeth hon o wyrthiau a gweithredoedd nerthol; a buasai yr Hebreaid Cristionogol hyn yn esgusodol hefyd am ollwng eu gafael o honi, a throi yn ol at y ddeddf a'i gosodiadau yr un modd, gan y buasai swm y dystiolaeth o ddwyfoldeb y gosodiadau hyny yn fwy ac yn gryfach na swm y dystiolaeth a roddasid iddynt i brofi dwyfoldeb yr efengyl. Ond y mae gwyrthiau Crist a'i apostolion yn llawer mwy, amlach, a hynotach, na'r gwyrthiau a gyflawnodd Moses a'r prophwydi. Dengys yr efengyl lawer iawn mwy o rifedi o wyrthiau, a gwyrthiau llawer rhyfeddach, a mwy nerthol, fel tystiolaeth o'i dwyfoldeb hi, nag a all y gyfraith yn holl hanes ei goruchwyliaeth hi ddangos. Y mae y ddadl hon, a'r esgus yma, dros anghrediniaeth a gwrthodiad o honi, neu wrthgiliad oddiwrthi, gan hyny, yn cael eu tòri ymaith yn hollol ac am byth. Y mae hi yn "iachawdawdwriaeth gymaint"—yn weinidogaeth fwy rhagorol na'r hen yn yr ystyr hwn hefyd; gan ei bod wedi ei chadarnhau â thystiolaeth mwy o wyrthiau, a gwyrthiau mwy rhyfedd: gan hyny, y mae anghrediniaeth o honi, a gwrthgiliad oddiwrthi, y pechodau mwyaf ysgeler o holl bechodau y byd. "Beth oedd ychwaneg i'w wneuthur?" Pa dystiolaeth gryfach, eglurach, a sicrach, a allesid roddi er profi dwyfoldeb a gwirionedd y weinidogaeth? Beth a

allasai Duw roddi, neu ddyn ofyn, yn rhagor? Rhaid y bydd euogrwydd ei hesgeuluswr yn fwy, a'i gosb yn drymach, ac yn fwy anocheladwy, nag ydoedd euogrwydd a chosb yr anufuddion dan y gyfraith; a hyn a fynai yr apostol wasgu at ystyriaethau difrifolaf a manylaf y rhai yr ysgrifenai atynt, sef yr Hebreaid, yn y lle hwn.

5 Canys nid i'r angylion y darostyngodd efe y byd a ddaw, am yr hwn yr ydym yn llefaru.

Dychwela yr apostol yn awr yn ei ol i gymeryd gafael drachefn yn llinyn ei ymresymiad, ac olrhain i'r pen y cyferbyniad a gychwynasai rhwng y Mab a'r angylion. Nid iddynt hwy—yr angylion, y darostyngodd efe—y Tad, y byd a ddaw: yr oedd wedi darostwng y byd—yr oruchwyliaeth o'r blaen, mewn rhyw ystyr, iddynt hwy; rhoddasid y gyfraith trwy eu trefniad: yr oeddynt yn oruchwylwyr, a llawer ganddynt i'w wneud, yn ngoruchwyliaeth y cyfammod cyntaf. Ond traddodwyd a darostyngwyd goruchwyliaeth y byd a ddaw—un y cyfammod newydd, i'r Mab—y Messïa. Efe ydoedd Arglwydd yr un o'r blaen hefyd, y mae'n wir; ond yr oedd, yn ei ymgnawdoliad a'i ymddangosiad yn y byd, yn cymeryd holl achosion yr oruchwyliaeth newydd i'w ddwylaw ei hun yn ddigyfrwng. Nid anfon angylion i bregethu, sefydlu, a threfnu goruchwyliaeth yr efengyl a wnaed, ond y Mab ei hun. Wrth y *byd a ddaw* weithiau, golygir y byd ysbrydol a thragwyddol; megys, "Ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol." Ond yma, fel mewn rhai manau eraill, golygir yn ddiau yr oruchwyliaeth Gristionogol, "teyrnas nefoedd," "yr oes," "y dyddiau diweddaf hyn." "Yr oes," neu yr oruchwyliaeth hòno ag oedd yn dechreu ar y byd yn ngweinidogaeth bersonol Iesu Grist, yr hon sydd i barhau hyd pan rydd efe y "deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad." "Ac yna bydd y diwedd."

*Am yr hwn* (y byd a ddaw) *yr ydym yn llefaru.* Hwn yw y mater sydd genym o hyd dan sylw—natur a nodweddion priodol y byd hwn, neu y weinidogaeth ddiweddaf hon o eiddo Duw tuag at y byd.

6 Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, [y]Pa beth yw dyn, i ti feddwl am dano? neu fab dyn, i ti i ymweled âg ef?

[y] Salm 8. 4, &c.

*Rhyw un*, sef Dafydd yn yr wythfed Salm a dystiolaethodd felly. Wrth ddyrchafu o hono ei olygon i'r ffurfafen, a chanfod y "lloer a'r ser," holl lu gogoneddus y nefoedd, yn dystaw gyflawni eu gyrfaoedd aruthrol yn y gwagle, ac arolygu y ddaear fawr, a'i llwythau lluosog o greaduriaid—yn anifeiliaid, adar, a physgod—oll yn arddangos mawredd anfeidrol eu Creawdwr, llenwid ei enaid â syndod a pharch addoliadol wrth feddwl ddarfod iddo ef—y Creawdwr, ymddarostwng i feddwl, sylwi ar, a gwneud y fath gydnabyddiaeth o ddyn. Tòrodd allan, a thystiolaethodd, "Beth yw dyn, i ti i feddwl am dano? a mab dyn, i ti i ymweled âg ef?" Gofyna ddwywaith yr un peth er amlygu pa mor angerddol oedd ei syndod ato.

7 Ti a'i gwnaethost ef ychydig îs na'r angelion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw:

*Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angylion.* Dyma gyferbyniad etto o ddwy naturiaeth—yr un angylaidd a'r un ddynol. Yn y cyferbyniad o'r blaen o'r Mab—y Messïa, a'r angylion, dangosid a phrofid ei fod ef—y Mab, yn anfeidrol well a mwy urddasol na'r angylion; ond os cyferbynir y natur ddynol a'r un angylaidd â'u gilydd, yr un olaf yw yr uchaf a mwyaf ei gogoniant; ond "ychydig is" yw y flaenaf iddi. Buasem ni yn dueddol i feddwl, oddiwrth amryw bethau a ddywedir yn yr ysgrythyrau am yr angylion, eu bod hwy yn llawer iawn uwch na nyni mewn natur ac urddas.

*A gogoniant a harddwch y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw.* Cyfeiriai y Salmydd at greadigaeth y dyn cyntaf ar ddelw Duw, a'i ordeiniad i arglwyddiaethu ar "bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar

anifeiliaid y ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear," Gen. i. 26. Fel hyn, dichon fod y dyn cyntaf, er yn ychydig is na'r angylion, o ran naturiaeth, fel yr oedd yn gyfansoddedig o bridd y ddaear, o ran ei gorff, yn uwch na'r angylion o ran ei swydd, fel arglwydd creaduriaid y ddaear, yn anifeiliaid, ehediaid, a physgod, &c.

8 Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. Ond yr awrhon [z] nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo.

[z] 1 Cor. 15. 24.

*Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef.* Ar yr ymadrodd hwn o'r Salm sylwa yr apostol fel hyn: "Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo." Y mae pob peth y ddaear, a'i moroedd, a'i hawyr, yn cael eu nodi heb ddim wedi ei adael ar ol—yr holl ddaear, yr anifail, yr ymlusgiad, a'r ehediad. "Ni adawodd efe ddim."

*Ond yr awrhon nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo.* Er hyny, nid ydym yn gweled dyn yn gallu arglwyddiaethu ar bob peth felly. Nid ydym yn gweled ei fod yn dal i feddu yr awdurdod lywodraethol hon yn llawn. Os rhoddwyd hi i'r dyn cyntaf yn ei sefyllfa gyntefig, efe a gollodd raddau helaeth o honi trwy ei anufudd-dod a'i wrthryfel. Yr ydym yn gweled ei fod yn arglwyddiaethu ar y creaduriaid eraill i raddau, y mae yn wir, ond llywodraeth wan dòredig yw ei lywodraeth; y mae ei ddeiliaid yn aml yn gwrthryfela yn ei erbyn.

9 Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu, yr [a] hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, o herwydd dyoddef marwolaeth, [b] wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd; fel trwy ras Duw [c] y profai efe farwolaeth dros bob dyn.

[a] Phil. 2. 7, 8. [b] Act. 2. 33. [c] Ioan 3. 16.

*Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu.* Y mae deonglwyr yr epistol hwn wedi ei brofi yn waith anhawdd iawn i benderfynu pa un ai benthyca ymadroddion y Salmydd a'u cymhwyso at ei bwnc a wna'r apostol, ynte ai prophwydoliaeth am y Messïa ydynt yn eu cyfeiriad gwreiddiol a'u hystyr briodol. Dadleua llawer yn gryf bod y geiriau yn briodol yn golygu y ddynoliaeth, ac mai eu benthyca yn gymhwysiadol at y Messïa a wna efe. Dadleua eraill yr un mor gryf yr ochr arall mai prophwydoliaeth am Grist ydynt yn briodol, er yr addefant na buasai un darllenydd, ond odid, yn eu deall felly, oni buasai i'r apostol eu defnyddio fel y gwna: ond na chymerasai efe y rhyddid hwn arnynt heb eu bod felly, ac na buasent yn gwasanaethu ei bwnc mewn gwirionedd chwaith.

Heb gymeryd arnom yr hyfdra i geisio penderfynu mater ag y mae cynnifer o ddoctoriaid dysgedig yn anghytuno yn ei gylch, cymerwn ein cenad i ofyn, Ai nid oes tir canol rhwng y ddau olygiad? Ai ni allasai fod y Salmydd yn llefaru yn yr olwg ar eiriau y Creawdwr yn Genesis, gan olygu yr ordeiniad hwnw yn perthyn i'r dyn cyntaf yn wreiddiol, ac i'r naturiaeth ddynol yn ddeilliedig oddiwrtho ef, heb fod ganddo ef (y Salmydd) olwg ar y Messïa ar y pryd, ond bod gan yr ysbrydoliaeth, drwy yr hon y llefarai efe, olwg arno? Y mae yn eithaf amlwg i Dafydd lefaru llawer am Grist yn ei berson ei hun, yn brophwydoliaethol, ac efe yn gwybod yn dda mai am y Messïa y llefarai; megys yr ymadrodd, "Ni adewi fy enaid yn uffern; ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth," (Salm xvi. 10); ar yr hwn y sylwa yr apostol Pedr wrth ei wrandawyr ar ddydd y Pentecost fel prophwydoliaeth bendant am adgyfodiad Crist, gwel Actau ii. Hefyd ymddengys i ni y cymhwysir amryw o ymadroddion Dafydd at Grist yn y Testament Newydd, a lefarai efe oddiar ei brofiad ei hun am dano ei hun, heb ei fod yn gwybod ar y pryd ei fod yn traethu dim ag oedd yn cynnwys prophwydoliaeth am y Messïa. Yr ymadroddion a lefarai efe trwy wybod am Grist, nid ydynt yn gymhwys i neb arall ond efe; ond yr ym

adroddion ag ydynt yn gymhwysiadol i'r Salmydd ei hun, neu i Solomon, fe ddichon bod eu cymhwysder i'r Messïa hefyd yn beth cuddiedig oddiwrtho: ac felly ddarfod iddo ef a phrophwydi eraill hefyd brophwydo am Grist yn ddiarwybod iddynt eu hunain dan arweiniad yr ysbrydoliaeth hollwybodol ag oedd yn eu cynhyrfu ac yn eu dysgu hwy i lefaru, ac yn dysgu yr efengylwyr a'r apostolion i esbonio a chymhwyso eu hymadroddion. Felly yr oedd yn y cyfryw ymadroddion ystyrion cyfrinol a chuddiedig oddiwrth y prophwydi eu hunain. "Nid ydym ni yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo"—dyn. Nid ydym yn gweled ei fod yn etifeddu yr arglwyddiaeth a roddir iddo yn yr ymadroddion yn llawn a pherffaith. Yr ydym yn gweled llawer o wendid a diffygion ynddi fel y mae, fel nad yw yn dyfod i fyny â'r siarter sydd yn cynnwys y trosglwyddiad o honi iddo—"Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu," yr ail ddyn, yn ei llenwi yn berffaith ac yn llawer helaethach nag y mae yr ymadroddion yn Genesis ac yn y Salm yn gynnwys; canys y mae y *byd a ddaw*, yr amser dyfodol, a phob llywodraeth yn y nef, yn gystal ac ar y ddaear, wedi eu hymddiried iddo. Y mae efe yn arglwyddiaethu, nid yn unig ar anifeiliaid y ddaear, pysg y môr, ac ehediaid yr awyr, ond hefyd ar angylion, tywysogaethau, ac awdurdodau nef y nefoedd, yn gystal a hwythau.

Yn mhellach, meddyliem y cynnwys yr ymadrodd—"Eithr yr ydym ni yn gweled Iesu," &c., adferiad y llywodraeth—yr arglwyddiaeth gyntefig, i'r natur ddynol, trwy ac er mwyn yr Iesu; yn gystal a'i hadferiad yn helaethach o lawer nag ydoedd yn y siarter wreiddiol, fel y sylwyd, *yn* yr Iesu ei hun yn bersonol. Y mae y natur ddynol yn gyffredinol yn derbyn ac yn mwynhau myrddiynau o ragorfreintiau a bendithion tymmorol bob dydd er mwyn a thrwy yr Iesu, yn rhinwedd teilyngdod ei gyfryndod ef; ac felly y ragorfraint hon o arglwyddiaethu ar y creaduriaid eraill. Pe buasai Paul yn byw yn y dyddiau hyn gallasai yn ddiau ddweyd nad *ydyw pob peth etto* wedi ei ddarostwng i ddyn. Ond y mae llawer iawn o bethau wedi eu darostwng iddo er pan ysgrifenodd efe yr epistol hwn. Y mae wedi adennill llawer iawn o'r arglwyddiaeth hon o fewn corff y blynyddau diweddaf hyn, nid yn unig ar y creaduriaid, ond ar elfenau anian hefyd. Trwy gydnabyddiaeth ddyfnach â'r gwyddorion, trwy ei ddyfeisiau celfyddgar, trwy ymbrofion fferyllol, y mae efe yn prysur oresgyn tiriogaethau ei hen arglwyddiaeth: ac y mae yn derbyn y pethau hyn oll trwy ac er mwyn yr Iesu. Cydnabyddir y natur ddynol, a gwneir y fath gyfrif mawr fel hyn o honi ar gyfrif ei dyrchafiad yn y Mab ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd. Nid ydym yn gwybod ddarfod i un esboniwr gynnyg y golygiad hwn ar y geiriau dan sylw erioed. Yr ydym gan hyny yn ei osod ger bron y darllenydd yn wylaidd, heb hawlio unrhyw awdurdod iddo, ond yn unig bod iddo gael ei ystyried a'i brofi. Yr ydym yn cwbl gredu fod y syniad ynddo ei hun yn wirionedd, ond a ydyw yn wirionedd a ddysgir yn y gyfran dan sylw ai peidio sydd beth arall.

*Yr hwn a wnaed ychydig yn is na'r angylion, o herwydd dyoddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd; fel trwy ras Duw y profai efe farwolaeth dros bob dyn.* Fel hyn y cyfieithia Prof. Stuart yr adnod hon:—"Ond yr ydym yn gweled Iesu, yr hwn a wnaed ychydig is na'r angylion, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd, ar gyfrif dyoddef marwolaeth, pan trwy ras Duw y profodd efe farwolaeth dros bob dyn."

Cysylltir fel yna y coroni â gogoniant ac anrhydedd â'r *dyoddef marwolaeth* fel gwobr, ac nid yn ol y cyfieithiad cyffredin, ei fod wedi ei wneud yn ychydig îs na'r angylion, yn ddyn, mewn trefn iddo brofi marwolaeth. Y mae yr un syniad gan yr apostol yn Phil. ii. 41, lle y dywedir ddarfod i'r Tad dyrchafu y Cyfryngwr, gan roddi iddo enw goruwch pob enw, &c., yn wobr ei ufudd-dod hyd angeu y groes. Y golygiad hwn a rydd y rhan fwyaf o'r esbonwyr mwyaf cyfrifol ar y geiriau dan sylw, fel yr un mwyaf cydweddol âg amcan yr apostol yn y lle hwn. Y mae yn wir ddarfod ei wneuthur ef "ychydig is na'r angylion"—yn ddyn, yn gyfranog o gig a gwaed, mewn trefn iddo allu *dyoddef marwolaeth;* ac y mae

yn wirionedd hefyd ddarfod ei "dra-dyrchafu," a'i "goroni â gogoniant ac anrhydedd," yn wobr *am* ddyoddef marwolaeth.

Yr olwg ar y Gwaredwr yn "wr gofidus a chynnefin â dolur" a barai i'r Iuddewon ymrwystro ynddo, a chuddio eu "hwynebau oddiwrtho;" ac yr oedd hon yn ddadl gref gan y rhai anghrediniol o honynt i ddyrysu yr Hebreaid crediniol: a chyfarfod â'r wrthddadl yna y mae yr apostol yma, gan ddangos iddynt, nid yn unig nad oedd y ffaith ddarfod i'r Iesu ddyoddef marwolaeth yn ei wneud yn is na'r angylion, ond mai hòno ydoedd sail ei ddyrchafiad a'i goroniad "â gogoniant ac anrhydedd" uwchlaw pawb oll yn y nef a'r ddaear: a bod y farwolaeth hòno yn anhebgorol hefyd er iachawdwriaeth dyn—ei bod yn osodiad anfeidrol rasol felly yn nhrefn ddoeth Duw er dyrchafiad y natur ddynol yn Nghrist i dderbyn awdurdod ar bob peth yn y nef a'r ddaear, ac er pwrcasu bywyd ac iachawdwriaeth i fyd euog a cholledig.

10 Canys [d] gweddus oedd iddo ef, o [e] herwydd yr hwn *y mae* pob peth, a thrwy yr hwn *y mae* pob peth, wedi *iddo* ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio [f] Tywysog eu [g] hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau.

[d] Luc 24. 26, 46. [e] Rhuf. 11. 36.
[f] Esa. 55. 4. [g] Luc 13. 32.

Yr oedd y fath drefn o iachawdwriaeth trwy farwolaeth y Messïa yn weddus—yn weddus "iddo ef," y Tad, ac yn weddus i ninnau. Yr oedd yn weddus iddo wedi iddo, neu wrth iddo *ddwyn meibion lawer i ogoniant*, berffeithio, cymhwyso, Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau. Cymeryd ymaith "dramgwydd y groes" o feddyliau yr Hebreaid ydyw yr amcan. Y maen tramgwydd mawr yn ffordd yr Iuddewon i dderbyn Iesu o Nazareth fel y Messïa, fel y crybwyllwyd eisoes, ydoedd ei agwedd isel, ei wedd lygredig, a'i farwolaeth waradwyddus ar y groes. Yr oedd pregethu Crist croeshoeliedig fel Mab Duw a Messïa yn dramgwydd iddynt: ac yr oedd hyd yn nod y rhai crediniol o honynt yn methu dyfod yn gwbl dros y dyryswch hwn. Ond, medd yr apostol, yr oedd goruchwyliaeth y groes a'r dyoddefiadau yn *weddus iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth,* Creawdydd, Llywodraethydd, a Meddiannydd pob peth—yn weddus i'w ogoniant, ei ddoethineb, ei wirionedd, ei gyfiawnder, yn ei berthynas â'i lywodraeth fawr, yn ei holl hawliau a'i hiawnderau. Os dygid meibion lawer i ogoniant, yr oedd yn weddus fod i'r Adferwr, Tywysog eu hiachawdwriaeth hwynt, ddwyn eu hanwiredd—cosbedigaeth eu heddwch hwynt: heb hyny, ni buasai yn weddus eu dwyn hwy i ogoniant, gan y buasai eu gogoneddu hwy yn cymylu ei ogoniant ef. Yr iawn a dalwyd drostynt drwy ddyoddefiadau a marwolaeth Tywysog eu hiachawdwriaeth yn unig a allasai wneud eu hiachawdwriaeth yn weddus —i orwedd yn esmwyth ar holl enw ac iawnderau llywodraeth a deiliaid y Brenin mawr. Trwy ddyoddefiadau a marwolaeth y perffeithiwyd, y cymhwyswyd ef fel Tywysog iachawdwriaeth. Nid oedd ei ddyoddefiadau yn angenrheidiol er ei berffeithio i fod yn Dywysog naturiaeth, ond yr oedd felly mewn trefn iddo fod yn Dywysog iachawdwriaeth pechadur.

*Dwyn meibion lawer i ogoniant.* Yn mhell, yn mhell, y byddo yr hen dybiaeth gul, gyfyng, annheilwng hòno, mai ychydig fydd y rhai cadwedig! Y mae mor anweddus "iddo ef," ac i'r perffeithio a fu ar Dywysog ein hiachawdwriaeth trwy y fath ddyoddefiadau ac angeu, fel, pan aeth Duw i dynu allan adnoddau ei anfeidrol allu mewn creadigaeth, nid rhyw ychydig a wnaeth efe. Efe a greodd fydoedd mawrion yn aneirif. "A oes gyfrif o'i luoedd ef" —o luoedd taleithiau ei ymerodraeth? "Y mae efe yn rhifo rhifedi y ser," ond nid oes neb arall a all eu rhifo. Drachefn, meddylier am y lluaws annifeiriol o greaduriaid a bywiolion a gyfanneddant yn y bydoedd hyn oll. "Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn a fynodd oll, yn y nefoedd, ac yn y ddaear, yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderoedd." Edrycher ar y môr mawr llydan, yr hwn nid yw ond megys dyferyn

ar gledr ei law ef. "Yno y mae bwystfilod ac ymlusgiaid heb rifedi." Meddylier drachefn am ei ddarpariadau yn ei ragluniaeth er dianghenu a diwallu y creaduriaid hyn oll—yr ystorfeydd mawrion hyny o'r rhai y mae efe yn dwyn allan bob dydd bob cyflawnder i borthi pob creadur, a'i wala a'i weddill o ymborth. Y mae efe yn mhob peth yn gwneud yn deilwng o hono ei hun—o'i fawredd ac o'i enw fel Duw hollgyfoethog ac anfeidrol haelionus. Ac a fu efe yn brin a chyfyng yn y benaf o'i weithredoedd? Yn y drefn hòno y tynodd efe allan ddyfnderoedd ei ddoethineb a'i ras i'w datguddio ynddi. A anfonodd efe ei Fab i'r byd, gan ei draddodi i'r fath ddirfawr ing ac angeu er mwyn achub a dwyn rhyw ychydig nifer i fywyd a gogoniant tragwyddol? Naddo, etyb yr apostol, "Meibion lawer i ogoniant." "Tyrfa fawr na ddichon neb ei rhifo." Er y rhaid i ni wneud y casgliad galarus bod y rhan fwyaf o ddynolryw yn yr oesau a aethant heibio yn golledig; a bod y rhan fwyaf o lawer o drigolion y byd yn bresenol yn annuwiol, y mae dydd cynhauaf mawr y groes yn ol etto. Nid yw y byd ond yn ei fabandod yn bresenol. Y mae efe, yr hwn y darostyngwyd "y byd a ddaw" iddo, yn gweled ganddo ddigon o amser o'i flaen i fedi a chasglu ffrwyth ei ddyoddefiadau. "Efe a wêl ei had"—efe a fydd byw i weled o lafur ei enaid a'i ddiwallu. *Llawer* yw iaith y Beibl am y rhai cadwedig bob amser—"daw llawer"—bydd ei "had fel y tywod"—"meibion lawer i ogoniant."

Rhydd Stuart olygiad arall ar y testun. Cyfieitha efe ef fel hyn:—"Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, i roddi ar Dywysog eu hiachawdwriaeth hwy, ar gyfrif y dyoddefiadau, yr anrhydedd a'r urddas mwyaf, trwy ddwyn meibion lawer i ogoniant."

Awgryma y cyfieithiad yna, y buasai traddodi y fath berson i'r fath ddyoddefiadau ac angeu, heb ddwyn ond ychydig i ogoniant mewn canlyniad i hyny, yn anweddus i Dduw, ac yn ddianrhydedd ar Dywysog yr iachawdwriaeth. Po mwyaf o feibion a ddygir i ogoniant, mwyaf i gyd fydd yr anrhydedd a'r gogoniant i Grist. Gan hyny, gellir bod yn sicr na bydd y dyrfa golledig yn y diwedd ond bechan iawn mewn cymhariaeth â'r un gadwedig. "O lafur ei enaid y gwêl, ac y diwellir." Ni fu un llafur erioed mor fawr a llafur ei enaid ef; a bydd mawredd y wobr yn gyfatebol i fawredd y llafur, a mawredd gras a dymuniadau yr enaid mawr a fu yn y llafur. Y cyfieithiad cyffredin, feddyliem ni, sydd yn fwyaf pwrpasol i amcan yr apostol yn y lle; ac y mae hwnw yn cynnwys syniad y llall hefyd.

11 Canys yr hwn sydd yn santeiddio, a'r rhai a santeiddir, [h]o'r un *y maent* oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr;

[h] Ioan 17. 21.

*Canys yr hwn sydd yn santeiddio, a'r rhai a santeiddir.* Yr hwn sydd yn santeiddio ydyw Tywysog yr iachawdwriaeth, a'r rhai a santeiddir ydyw y meibion lawer a ddygir i ogoniant. "Er eu mwyn hwy yr wyf yn fy santeiddio fy hun, fel y byddont hwythau wedi eu santeiddio yn y gwirionedd," medd efe, (Ioan xvii. 19). Santeiddiodd, neillduodd, cysegrodd ef ei hunan i waith mawr eu hiachawdwriaeth, fel y santeiddid hwy yn y gwirionedd. Cynnwysa y santeiddiad hwn yn

1. Eu neillduad allan o'r byd, a'u cysegriad i wasanaeth Duw. Yr oedd y babell, a'r deml, a'r holl lestri perthynol iddynt yn santaidd ar gyfrif eu neillduad i wasanaeth cysegredig crefydd yn unig, ac nad oeddynt i gael eu defnyddio i ddybenion cyffredin. Felly yr allor a'r ebyrth; felly hefyd yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn santaidd i'r Arglwydd rhagor neb eraill yn Israel; a chenedl Israel yr un modd rhagor cenedloedd eraill. Y mae yr eglwys Gristionogol i fod yn santaidd yn yr ystyr hon etto—yn neillduedig oddiwrth y byd—yn gymdeithas ar ei phen ei hun, heb ei chyfrif gyda'r cenedloedd, i ddwyn arni enw Duw, ac i gyflawni ei wasanaeth ef.

2. Eu puro a'u hadferu i ddelw Duw.

"Byddwch santaidd, canys santaidd ydwyf fi." Santeiddrwydd, purdeb, a glendid moesol ac ysbrydol, ydyw coron ei ogoniant ef. Y mae llwon pwysicaf y Duwdod yn yr ysgrythyrau wedi eu tyngu ganddo i'w santeiddrwydd, fel y briodoledd y mae efe yn ymogoneddu mewn modd arbenig ynddi. Santeiddrwydd ydoedd coron gogoniant creadigol dyn—y brif elfen o ddelw Duw arno; a cholli hon ydoedd colli ei fywyd, ei ddedwyddwch, a'i holl urddas a'i ogoniant. Adferu hon yn ol arno ydoedd amcan mawr Tywysog ei iachawdwriaeth yn santeiddio, yn diofrydu ei hun yn aberth i allor cyfiawnder drosto. "O herwydd paham Iesu hefyd, fel y santeiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddyoddefodd y tu allan i'r porth," Heb. xiii. 12. Ni allasai gwaed yr aberthau cysgodol byth, o ran cydwybod, berffeithio yr addolwyr dan y gyfraith: ond y mae gwaed Crist yn puro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw.

3. Eu cymhwyso i fyw gyda Duw a'i lawn fwynhau. "Heb santeiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd." "Nid â i mewn yno ddim aflan." Nid oes dim cymundeb a all fod rhwng goleuni a thywyllwch. Rhaid geni dyn drachefn—ei droi o'r tywyllwch i'r goleuni, a'i wneud yn oleuni yn yr Arglwydd, cyn y gall efe fyned i mewn i deyrnas nefoedd, a mwynhau Duw. "Os rhodiwn yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd."

*O'r un y maent oll*, sef yr hwn sydd yn santeiddio a'r rhai a santeiddir—o'r un naturiaeth, gwaedoliaeth, a theulu. Cyn y gallasent hwy ddyfod yn ol i lun a delw foesol Duw—yn gyfranogion o'i ysbryd a'i santeiddrwydd ef, yr oedd yn ofynol iddo ef ddyfod ar eu llun a'u delw naturiol hwy—yn frawd iddynt—yn un â hwynt. Yr oedd yn anmhosibl i waed yr ebyrth dan y gyfraith santeiddio yr addolwyr, o herwydd nad oeddynt o'r un natur a'u gilydd. Nid oedd yr ŷch neu yr oen a aberthid yn frodyr i'r rhai yr aberthid hwy drostynt: a chan nad oedd perthynas naturiaeth rhyngddynt, nid oedd rhinwedd iawnol a santeiddiol yn eu hoffrymiad. Yr oedd naturiaeth yr ebyrth islaw naturiaeth y troseddwyr, ac ni allesid dyrchafu eu naturiaeth hwy i gyfartalwch â'r natur ddynol; a phe gwnaethid hyny, ni buasai y gwerth gofynol mewn aberth cymmodlawn dros bechod yn eu haberthiad. Ond fe ganfu doethineb a gras fodd i ddwyn y Cyntafanedig i'r byd i uno y natur ddynol a'r ddwyfol â'u gilydd yn Nghrist, a "thrwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein santeiddio, trwy offrymiad corff Iesu Grist unwaith;" pen. x. 10.

*Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.* Er ei urddas a'i anfeidrol uwchafiaeth ef; a'u hiselder, eu tlodi, a'u heuogrwydd hwythau, nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr. Arwydda y geiriau ei fod, nid yn unig yn foddlon i arddel ei berthynas â hwy, ond ei fod yn awyddus i wneud hyny—yn ymogoneddu yn yr arddeliad hwn o honynt, megys y geiriau hyny, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist," (Rhuf. i. 16); "Ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw," (Phil. iii. 4). Nid ar hyny yr edrychai gydag eiddigedd ac awyddfryd, canys yr oedd felly, yn ffurf Duw, ac yn wir lun ei berson ef, yn wreiddiol a thragwyddol. Ond dyfod ar ffurf dyn—agwedd gwas—yn frawd i ni, hyn oedd gwrthddrych ei eiddigedd a'i awyddfryd ef. Yr oedd yn anmhosibl iddo fyned yn uwch nag ydoedd fel Duw, ond efe a welodd y gallasai amlygu gogoniant ei ras yn helaethach nac o'r blaen trwy ymddarostwng i natur dyn, a dyrchafu meibion lawer i santeiddrwydd a gogoniant drwy hyny.

12 Gan ddywedyd, [i] Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr; yn nghanol yr eglwys y'th folaf di.

[i] Salm 22. 22.

*Gan ddywedyd, Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr.* Gan ddywedyd yn Salm xxii. 22. Dygir y dystiolaeth o brophwydoliaeth yn yr Hen Destament i brofi hyn etto. Gallasai yr apostol gael ymadroddion o enau yr Arglwydd Iesu ei hunan yn union i'r pwrpas hwn, megys yn Mat. xxviii. 10; a Ioan xvii.

6, a xxi. 17; ond yr oedd cael prophwydoliaeth i'r pwrpas o'r Hen Destament yn fwy effeithiol i'r dyben o sefydlu ffydd yr Hebreaid yn Nghrist Iesu fel y Messïa, gan fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano ef. Y mae y Salm o'r hon y cymerir yr ymadrodd hwn yn cynnwys prophwydoliaeth hynod am y Messïa a'i ddyoddefiadau: a golygid hi felly gan yr Iuddewon eu hunain bob amser. Yn hyn y mae yn wir yn rhyfedd nad adnabuant hwy yr Iesu o Nazareth fel y Messïa addawedig iddynt, wrth ystyried, nid yn unig fod pob peth am dano wedi ei ragfynegu mor fanwl yn yr ysgrythyrau, a lleferydd y prophwydi, y rhai a ddarllenid yn eu synagogau bob Sabbath, a'i fod ef yn mhob peth yn ateb i'r dysgrifiadau hyny; ond hefyd, wrth ystyried eu bod hwy eu hunain a'u hathrawon, o oes i oes, wedi deall ac esbonio llawer o brophwydoliaethau yr Hen Destament am iselder a chyflwr dyoddefus y gwrthddrych a ddynodir ganddynt, fel yn golygu y Messïa, ac nid neb arall. Yr oedd gwraidd eu hanghrediniaeth ynddo, a'u gwrthodiad o hono, yn is na'r deall—yn y galon:—"Hwy a welsant, ac a'm casasant i a'm Tad hefyd."

*Yn nghanol yr eglwys y'th folaf di.*—Yn nghanol cynnulleidfa ei frodyr. Efe a unai gyda hwynt mewn addoliad dwyfol. "Ac wedi iddynt ganu hymn, hwy a aethant allan i fynydd yr Olewydd;" Mat. xxiii. 30.

13 A thrachefn, [k] Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo. A thrachefn, [l] Wele fi, [m] a'r plant a roddes Duw i mi.

[k] Salm 18. 2. [l] Esa. 8. 18. [m] Ioan 17. 6—12.

*A thrachefn, Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo.* Neu, Mi a ymddiriedaf ynddo. Amcan yr apostol yma ydyw dangos yn mhellach unoliaeth Crist â'i frodyr. Ei fod ef, nid yn unig yn un â hwy mewn natur, ond hefyd mewn teimlad—teimlad o ddibyniad ar, ac o ymddiried *yn* Nuw. Cawn hanes fod y Gwaredwr yn fynych yn cilio o'r neilldu i weddïo, yr hyn a ddengys ei fod ef yn byw yn wastadol yn y teimlad hwn.

Bu esbonwyr yn ymofyn ac yn manwl chwilio prophwydi yr Hen Destament am yr ymadrodd hwn. Tybia rhai eu bod yn ei gael yn Salm xviii. 2. Ond dadleua eraill, gan nad oes dim yn y Salm hòno yn brophwydoliaethol am y Messïa, ac na edrychodd yr Iuddewon erioed arni yn y goleu hwnw, gan hyny nad yr ymadrodd hwnw yn ddiau sydd mewn golwg gan yr apostol, a barnant hwy mai yr ymadrodd yn Esa. viii. 17, ydyw yr un a olygir. Adrodd ei brofiad personol y mae y prophwyd yn y lle. Yr oedd wedi derbyn cenadwri i'w thraddodi wrth dŷ dirywiedig Dafydd, yn amser y brenin annuwiol Ahaz. Cenadwri oedd yn cynnwys ynddi brophwydoliaeth nodedig am y Messïa. Seliasai y dystiolaeth hon drwy ei chyhoeddi, ac i'r hon yr oedd mab a anesid iddo y pryd hwnw, yn arwydd a gwystl ei chyflawniad i'r brenin ac i dŷ Juda. Tröent hwythau y dystiolaeth a'r addewid werthfawr heibio gyda diystyrwch. Yn yr olwg ddigalon hon ar ei wrandawyr yn troi oddiwrtho ef a'r dystiolaeth, try yntau oddiwrthynt hwythau at ei Dduw, gan ddywedyd, Minnau a ddysgwyliaf am yr Arglwydd, neu a ymddiriedaf yn yr Arglwydd. Y mae y geiriau yn nghyfieithiad y Deg a Thriugain yn hollol yr un modd ag y maent yma gan yr apostol, a'r cyfieithiad hwnw a arferai yr efengylwyr a'r apostolion agos bob amser.

Daeth y Messïa ei hun at blant y tadau y buasai ei was Esaiah o'i flaen yn pregethu iddynt. Rhwymodd y dystiolaeth a seliodd y gyfraith yn eu mysg yn ei weinidogaeth bersonol. Ni chafodd yntau well derbyniad i'w genadwri gan ei wrandawyr nag a gawsai y prophwyd gynt. Gan hyny, cyfranogai yr Arglwydd o brofiad y gwas, a daeth ymadrodd Esaiah yn briodol a chymhwys iddo ef i osod allan ei deimlad drwyddo.

*A thrachefn, Wele fi, a'r plant a roddes Duw i mi.* Drachefn, yn y geiriau nesaf i'r rhai a nodwyd o'r blaen. Golygai y prophwyd, ond odid, ei ddau fab ei hunan, y rhai a roddasid iddo gan Dduw yn arwyddion a gwystlau i'r bobl, er selio a sicrhau iddynt gyflawniad y prophwydoliaethau a

draddodasai wrthynt—yr addewidion am waredigaeth Juda a Jerusalem rhag y ddau frenin—brenin Israel a brenin Syria, y rhai oedd mewn cyngrair i'w dyfetha ar y pryd—a'r addewidion am y Messïa a gymysgid â'r lleill: a dichon ei fod ef yn deall hefyd fod yr ymadrodd yn briodol i'r Messïa, ac yn gwybod ei fod ef trwy ei Ysbryd yn llefaru am dano ei hun yn ei eiriau ef. Y mae efe, yn yr ymadrodd hwn, yn eu cyhoedd arddel fel ei frodyr, plant yr un tad, y rhai yr oedd efe, y cyntafanedig o'r brodyr lawer, wedi cymeryd gofal eu hiachawdwriaeth arno. Y mae efe megys yn ymffrostio yn ei berthynas â hwy.

14 Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, [n] yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un *pethau;* fel trwy [o] farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol;

[n] Ioan 1. 14. [o] 1 Cor. 15. 54.

*Oblegid hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau.* Efe a ddaeth mewn gwirionedd i fod yn frawd iddynt mewn naturiaeth—yn gyfranog o'r un pethau, o'r un elfenau anianyddol a hwythau—cig a gwaed. Yr oedd dwy blaid yn more oes Cristionogaeth, un yn gwadu priodol Dduwdod y Gwaredwr, a'r llall yn gwadu ei wir a'i briodol ddyndod. Yr oedd ef yn wir ddyn, meddai un, ond nid yn Dduw. Yr oedd yn wir Dduw, meddai y llall, ond ymddangosiad o ddynoliaeth yn unig oedd ganddo. Gwrthwynebir y ddwy dyb gan yr apostol yn y llythyr hwn. Profasai o'r blaen fod y Messïa yn wir Dduw, yn Greawdwr, Cynnaliwr, a Llywodraethwr pob peth; a'i fod yn derbyn addoliad angylion. Ac yma drachefn, profa ei fod yn wir ddyn yn ogystal—yn gyfranog o gig a gwaed mewn gwirionedd, yn meddu naturiaeth a ddaliasai ei phrofi trwy deimlad y dwylaw; ac mai nid rhith o beth yn twyllo y llygaid ydoedd. "Nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod genyf fi," eb efe wrth ei ddysgyblion. "Yr hyn a deimlodd ein dwylaw am air y bywyd," ebe un o'r dysgyblion hyny.

*Fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol.* Heb ymgyfranogi o gig a gwaed ni allasai efe brofi marwolaeth; ac heb brofi marwolaeth ni allasai ddinystrio "yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo," sef diafol. "Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad." Efe a sefydlodd deyrnas marwolaeth yn y byd, ac efe yw ei brenin. Y mae nerth marwolaeth ganddo, fel y mae efe yn hudo ac yn arwain dynion i bechod a gwrthryfel, ac felly yn teyrnasu arnynt i farwolaeth dragwyddol. Dinystrio hwn ydoedd amcan mawr y Messïa yn dyfod yn "gyfranog o gig a gwaed." Gogwyddodd ei hunan i'r natur ddynol, farwol, fel y gallasai ogwyddo ei ben i angeu a marwolaeth, fel trwy hyny "y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo:" nid ei fodolaeth, ond ei deyrnas—ei allu, ei lywodraeth, a'i weithredoedd.

15 Ac y gwaredai hwynt y rhai trwy [p] ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed.

[p] Luc 1. 74.

*Y gwaredai efe hwynt*—deiliaid caethion yr awdurdod greulon hòno. Nid eu gwaredu rhag marwolaeth naturiol, ond o gaethiwed eu hofn, a'u gwaredu *rhag* yr ail farwolaeth hòno ag yr oedd eu cyflyrau euog yn ei gafael—eu dwyn oddidan awdurdod euogrwydd pechod, y rwymedigaeth i gosb yr oeddynt dani fel troseddwyr, trwodd i fywyd o oleuni a rhyddid—rhyddid oddiwrth yr ofn cosb sydd yn cyfodi oddiar euogrwydd; a'u gwaredu yn y diwedd o rwymau marwolaeth naturiol, pan "lyncir yr hyn sydd farwol gan fywyd" yn adgyfodiad y dydd diweddaf.

Llwybr y waredigaeth fawr a rhyfedd hon ydoedd iddo ef, y bywyd ei hunan, farw. Trodd ei angeu ef yn angeu i angeu—bu ei orweddiad ef dridiau yn y bedd yn drancedigaeth i'r

bedd. Seliwyd dedfryd marwolaeth angeu a'r bedd yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad ef. Nid ydynt ond aros dydd eu dienyddiad. Yn ei ymddangosiad yr ail waith ar gymylau y nef gosodir hi mewn gweithrediad llawn ar y collfarnedigion hyn. "Yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, Angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth. O angeu, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?"

16 Canys [1] ni chymerodd efe *naturiaeth* angylion; eithr had Abraham a gymerodd efe.

[1] Gr. *Nid yw yn cymeryd gafael ar angylion, eithr ar had Abraham y mae efe yn cymeryd gafael.*

*Canys ni chymerodd efe naturiaeth angylion.* Ni chymerodd efe afael ar, ni chynnorthwyodd efe y naturiaeth hòno. Syrthiasai diafol a'i angylion—"Ni chadwasant eu dechreuad, eithr gadawsant eu trigfa eu hun:" a gadawodd iddynt, ni chymerodd afael arnynt i'w cynnorthwyo a'u codi drachefn. *Eithr had Abraham a gymerodd efe.* Ar had Abraham y mae efe yn cymeryd gafael—y natur ddynol. Gan fod Paul yn ysgrifenu at Hebreaid, yr oedd yn naturiol iddo ddywedyd *had Abraham* yn y fan hon yn hytrach na naturiaeth dyn, neu y natur ddynol, gan fod y Messïa yn deilliaw yn ol y cnawd o had Abraham, ac yn cael ei alw ar yr enw hwnw. Efe a gymerodd afael arni drwy alw ar ol dyn, yn ei ymadawiad cyntaf, ac yn yr addewid gyntaf o had y wraig, (Gen iii. 15). Yn yr aberthau, y cysgodau, a'r prophwydoliaethau am dano yn yr Hen Destament. Daliodd afael ynddi o hyd, nes yn nghyflawnder yr amser y dyrchafodd hi i undeb gwirioneddol âg ef ei hun, pan gafwyd ef "wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf," "yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus...gan gymeryd arno agwedd gwas." Yr afael hon a gymerodd ef ar ein natur ni ydyw y wyrth benaf—y rhyfeddod fwyaf o holl wyrthiau a rhyfeddodau Duw. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb."

17 Am ba achos y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr; fel y byddai drugarog [q] ac Archoffeiriad ffyddlawn, mewn pethau *yn perthyn* i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl.

[q] Gen. 19. 5, 16.

*Am ba achos y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr.* Y dylai, yr oedd yn gweddu—yn angenrheidiol iddo fod felly er cyflawni holl oruchwyliaeth eu prynedigaeth drwyddo. Yr oedd yn angenrheidiol iddo fod yn gyffelyb iddynt, yr unrhyw â hwynt yn yr holl bethau sydd wedi cael eu nodi eisoes: ac yn mhellach,

*Fel y byddai drugarog.* Fel y byddai drugarog oddiar gydymdeimlad personol â rhai gofidus eu cyflwr. Efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau; gan hyny, efe a wyr yn brofiadol am danynt.

*Ac Archoffeiriad ffyddlawn, mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl.* Ni allasai gyflawni swydd a gwaith archoffeiriad trosom ni, heb ei fod o honom ni, yn perthyn i ni—i'n natur. Yn Archoffeiriad ffyddlawn yn y cyflawniad o holl orchwylion pwysig y swydd hòno—y pethau a berthyn i Dduw—i'n hachos ni rhyngom â Duw. "Canys pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion, a osodir dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw." Y peth mawr ydoedd gwneud "cymmod dros bechodau y bobl." Perthynai y gorchwyl hwn, yn gysgodol, i'r archoffeiriad Iuddewig ar ddydd y cymmod, pan ymddangosai efe yn y santeiddiolaf i daenellu gwaed yr aberth cymmod ar y drugareddfa. Helaethir ar y modd y gwnaeth yr Archoffeiriad mawr hyn yn sylweddol ac effeithiol yn mlaen yn yr epistol. Ni wna yr apostol ond ei grybwyll yn unig yn y fan hon.

18 Canys yn gymaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.

Efe a gafodd ei brofi—ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau. Ei brofi drwy amgylchiadau isel, ei brofi

gan ddynion, y cyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid—ei demtio gan ddiafol, trwy ddyoddefaint, &c., yn mhob peth ac yn mhob modd y temtir dynion, "etto heb bechod." Ac am hyny y efe a ddichon gydymdeimlo a chynnorthwyo y rhai a demtir. Drwy hyn oll dangosir fod y pethau hyny yn Nghrist, sef iselder ei ddarostyngiad—mawredd ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, ag oeddynt yn dyrysu ac yn gwanhau meddyliau yr Hebreaid, ac yn peri iddynt betruso yn eu crefydd, yn cynnwys y cymhelliadau cryfaf iddynt i ymgadarnhau ac ymnerthu yn eu hymlyniad wrtho, ac yn eu cyffes o hono.

Pwy, wrth sefyll yn ystyriol i edrych ar y weledigaeth fawr hon o gariad a graslonrwydd, a allai ymattal rhag tòri allan yn iaith ein hapostol mewn lle arall, gan ddywedyd, "Bendigedig fyddo Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist:" ac yn iaith a theimlad y Salmydd, pan edrychai efe ar weledigaeth lawer llai na hon—"Arglwydd, beth yw dyn pan gydnabyddit ef" fel hyn! "a mab dyn pan ymwelit âg ef?"—nid yn unig bob bore yn mendithion cyffredin bywyd; ond pan ymwelit âg ef yn dy Fab, yn bersonol yn ei natur, gan ei dyrchafu ynddo ef ar dy ddeheulaw, "yn ben ar bob tywysogaeth ac awdurdod."

---

## PENNOD III.

1 *Bod Crist yn rhagori ar Moses:* 7 *am hyny oni chredwn ni iddo ef, yr ydym ni yn haeddu ychwaneg gosbedigaeth na'r Israeliaid gwrthnysig.*

1 OHERWYDD paham, frodyr santaidd, cyfranogion o'r galwedigaeth nefol, [r] ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu;

[r] Heb. 4. 14.

*O herwydd paham, frodyr santaidd, &c.* Dyma gymhwysiad etto at yr athrawiaeth yr ymdrinasid â hi ddiweddaf at amcan yr ysgrifenydd yn y llythyr. Sylwedd yr athrawiaeth hòno ydoedd ymgnawdoliad, dyoddefaint, a marwolaeth Crist—ei gymhwysder a'i addasrwydd i ni fel Archoffeiriad ffyddlon a thrugarog, &c. Wrth ymdrin â'r pethau hyny, y mae yr apostol megys yn codi ei feini o'r gloddfa, yn eu naddu a'u cymhwyso i'r adeiladaeth; ac yn y cymhwysiad dan sylw, y mae efe megys saer cyfarwydd yn dodi y meini caboledig yn eu lle, i adeiladu ei fur, yr hwn oedd i fod yn gaer amddiffyn i'r Hebreaid, ac i'r eglwys Gristionogol yn gyffredinol, rhag tynu yn ol oddiwrth y ffydd a'r gyffes efengylaidd.

Wedi dangos fod yr hyn a draethid am Grist yn y gyfran gyntaf o'r llythyr yn gosod y rhwymedigaeth gryfaf ar Gristionogion i *ddal yn well, &c.*, dangosir yma fod yr hyn a ychwanegasid drachefn yn cadarnhau yr unrhyw rwymedigaeth. Tueddai y dysgrifiad o fawredd ac urddas anfeidrol y Gwaredwr fel Etifedd, Creawdwr, a Llywodraethwr pob peth, &c., yn y gyfran flaenaf, i gynnyrchu arswyd a gwyliadwriaeth pryderus yn eu meddyliau, rhag bod yn euog o'i ddianrhydeddu a'i ddigio trwy wneud yn fychan a dibris o'r athrawiaeth am dano; a thueddai yr hyn a draethid drachefn am ei anfeidrol raslonrwydd a'i garedigrwydd fel Archoffeiriad ffyddlon, a Thywysog eu hiachawdwriaeth, i ennill eu serchiadau, a chyffroi teimladau dyfnaf eu calonau i ymlyniad cariadlawn wrth ei enw a'i achos. Dwy elfen nerthol mewn crefydd ydyw ofn a chariad, ac y mae yn angenrheidiol eu bod yn weithgar yn yr enaid bob amser er ei gadw yn ei le. Y mae y naill yn tymheru ac yn nawseiddio y llall. Ceidw ofn y cariad rhag rhedeg yn hyfdra anweddaidd; a'r cariad yntau yr ofn, rhag iddo ddarostwng yr enaid yn gaethwas dychryn.

Newidia yr apostol ei ddull a'i lais wrth wneud yr appeliad hwn, yn gyfatebol i natur ac ansawdd y pethau yr ymdrinasai â hwy yn flaenorol. *Frodyr santaidd*, medd efe. Tynerwch ac anwyldeb oedd yn gweddu oreu yn awr i wasgu yr annogaeth adref at eu calonau. Defnydd rhybudd pwysig ydoedd yr athrawiaeth yn y bennod gyntaf, am fawredd Crist, yr hwn a lefara efe yn nechreu yr ail â llais taran gref; defnydd annogaeth dden-

iadol oedd yn y llall, am ei nodwedd trugarog a grasusol, yr hon a gyflwyna efe yma â llais dystaw main addfwynder a serchogrwydd. *Frodyr santaidd* —rhan o'r teulu, y plant, y meibion lawer y sonir o'r blaen am danynt—rhai neillduedig trwy yr efengyl a'u proffes o boni i waith a dybenion santaidd. Gellid cysylltu yr ymadrodd cymhwysiadol hwn â phob ymadrodd o'r athrawiaeth y mae efe yn gynnullddadl oddiwrthi. "Nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr." "O herwydd paham, frodyr santaidd," &c. Efe a ddaeth i fod yn "gyfranog o gig a gwaed, fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo... ac y gwaredai hwynt," &c. "O herwydd paham"—"y mae efe wedi ei wneuthur yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr—yn drugarog ac yn Archoffeiriad ffyddlon,' &c. "O herwydd paham," &c.

*Cyfranogion o'r galwedigaeth nefol*—y rhai a elwir ac a wahoddir yn yr efengyl i gyfranogi a mwynhau ei bendithion nefol ac ysbrydol—bendithion a rhagorfreintiau uwch a helaethach na'r rhai a berthynent i oruchwyliaeth y cyfammod cyntaf, i'r hwn yr oedd angylion yn weinyddwyr. Nid galwedigaeth yr efengyl fel y mae yn gyffredinol ar y byd a phob dyn a olygir yma; ond ei galwedigaeth, ei chymhellion, ar y rhai sydd yn frodyr yn y ffydd a'r broffes o honi, i edrych a gofalu am eu bod yn *actio* y ffydd hòno ar ei gwrthddrych, fel drwy hyny y cyfranogent ac y mwynhäent y nerth, y dyddanwch, a'r cysuron ysbrydol hyny sydd yn yr efengyl iddynt.

*Ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu.* Dyma y ddyledswydd y geilw yr athrawiaeth hwy ati —yr hyn y mae yr *herwydd paham* yn arwain iddi. *Ystyriwch* ef—edrychwch arno yn y cymeriadau y gosodwyd ef yn awr o'ch blaen, a'r pethau a ychwanegir am dano etto.

*Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni.* Y mae efe yn ngoruchwyliaeth y cyfammod newydd yn llenwi swyddi Moses ac Aaron yn ngoruchwyliaeth yr hen. Dyma gyferbyniad newydd o'r Messïa yn dechreu, i'r hwn yr ymlithra yr apostol yn esmwyth a naturiol. Yr oedd wedi dilyn i'r pen y cyferbyniad o hono â'r angylion—gweinidogion ysbrydol y cyfammod cyntaf, a daw yn awr i'w olygu mewn cyferbyniad â'r cyfryngwr dynol rhwng Duw a'i bobl yn ngoruchwyliaeth y cyfammod hwnw. Yn hwnw, safai Moses fel apostol yn genad dros Dduw i ddwyn ei eiriau ef at y bobl; ac Aaron yn ei swydd fel archoffeiriad dros y bobl, yn y pethau a berthynent i Dduw, i wneud cymmod drostynt. Y mae Crist Iesu, yn ngweinidogaeth y cyfammod newydd, yn llenwi swydd y ddau—yn Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni: yn Apostol, yn genad anfonedig y Tad, yn Brophwyd megys Moses, i hysbysu cynghor ac ewyllys Duw i'r byd; ac yn Archoffeiriad megys Aaron, i roddi aberth cymmod dros bechodau y byd.

2 Yr hwn sydd ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef, [s] megys *ag y bu* Moses yn ei holl dŷ ef.

[s] Num. 12. 7.

Dechreuir gyda Moses. Y mae yn sefyll yn nesaf at yr angylion, am y rhai y traethwyd o'r blaen. Saif ef ar ben rhestr enwogion yr Hen Destament—"Moses a'r prophwydi." "Ni chododd prophwyd etto yn Israel megys Moses, yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb," Deut. xxxiv. 10. Yr oedd efe yn apostol anfonedig gan Dduw at Pharaoh dros Israel, ac at Israel dros Dduw yn eu hachos eu hunain. Ymddangosodd Duw iddo ef yn y berth yn Horeb, i'w alw i'r apostoliaeth hòno. "Tyred gan hyny yn awr, a mi a'th anfonaf at Pharaoh, fel y dygech fy mhobl, plant Israel, allan o'r Aifft," Exod. iii. 10. Ond yn fwy neillduol, efe oedd apostol, neu brif oruchwyliwr cyfammod Sinai; ac fel apostol a chyfryngwr y cyfammod hwnw, yr oedd efe o ran ei swydd yn gysgod mwy arbenig o Grist na neb arall o'i flaen nac ar ei ol. Yr oedd Crist Iesu yn Apostol, neu yn Brophwyd, megys Moses, yn gymaint a'i fod yn brif oruchwyliwr y cyfammod newydd, fel yr oedd Moses yn brif oruchwyliwr yr hen.

Yr oedd gan yr Hebreaid y meddyliau uchaf am Moses, a'r parch mwyaf

iddo. "Dysgyblion Moses ydym ni," meddai yr Iuddewon yn amser Crist. At Moses a defodau ei oruchwyliaeth ef yr oedd yr Hebreaid megys yn gogwyddo i ddychwelyd yn ol: ac un o'r pethau penaf er eu sefydlu yn ffydd yr efengyl ydoedd dangos iddynt a'u perswadio fod Crist yn fwy ac yn rhagori ar Moses. Dechreua yr apostol drwy ddangos ei fod mor uchel a Moses o ran swydd fel goruchwyliwr cyfammod—yn apostol ein cyffes ni; ac yn nesaf, ei fod ef yn llenwi ei swydd cystal ag y llanwodd Moses ei swydd ef—llefara yn gynnil ar y mater i gychwyn. Bu Moses yn ffyddlon yn ei holl dŷ, ei holl wasanaeth ef, dan y cyfammod yr oedd efe yn gweini iddo; felly hefyd y mae Apostol ein cyffes ni, i'r hwn a'i hordeiniodd ef. Efe, yr hwn a ordeiniasai Moses, a'i hordeiniodd yntau.

3 Canys fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses, o gymaint ag y mae yr [t] hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ.

[t] Zech. 6. 12, 13.

*Canys fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses.* Yma symuda yr apostol gam yn mlaen, i ddangos fod Crist nid yn unig yn ogyfuwch â Moses, ond yn uwch, yn fwy nag ef—*yn haeddu mwy gogoniant.* Yr oedd Paul wedi cael y gair yn mhlith yr Iuddewon o fod yn ddiystyr o Moses, a'r gyfraith, a'r deml, a'r defodau; ac yr oedd yr Iuddewon a gredasant "yn dwyn mawr sel i'r ddeddf," ac yn edrych â golwg ammheus arno, pan ddaeth i Jerusalem wedi bod yn efengylu i'r cenedloedd. Ac felly, efe a welai bod yn angenrheidiol iddo fod yn ofalus a gochelgar wrth ymdrin â'r mater hwn yn ei lythyr atynt, rhag y buasai iddo eu tramgwyddo. Gan hyny, efe a ddyry i Moses bob parch a chanmoliaeth a oddefai gwirionedd iddo roddi. Efe a ddywedasai ar unwaith fod Crist yn rhagori ar yr angylion—"yn etifeddu enw mwy rhagorol na hwynthwy;" ond pan y daw i'w gyferbynu â Moses, efe a symuda yn fwy arafaidd a gochelgar, a dwg y gwirionedd allan o radd i radd. Addefa fod Moses yn haeddu gogoniant, parch, a chlod, o herwydd ei swydd uchel a'i ffyddlondeb yn y gweinyddiad o honi; ond "fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses"—fe'i cyfrifir ac fe'i hystyrir felly gan bawb a edrychant yn deg i'r mater, a hyny yn un peth, *o gymaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ.* Y mae yr archadeiladydd, yr hwn a gynlluniodd y tŷ, bob amser yn cael mwy o glod a gogoniant yn haeddiannol felly na'r adeiladaeth; neu y mae sylfaenydd, neu wreiddyn cyntaf tylwyth, cenedlaeth, yn cael mwy o anrhydedd na'r teulu—y tylwyth y mae efe yn wreiddyn iddo: felly yr oedd Abraham fel gwreiddyn a sylfaenydd cyntaf y genedl Hebreig; gelwid hwynt ar ei enw ef, yn blant, yn had Abraham. Pa un ai tŷ, yn yr ystyr lythyrenol gyntaf o'r gair, fel adeiladaeth dwylaw, ynte yn yr ystyr gymhwysiadol a arferir iddo—yn arwyddo teulu, ydyw y meddwl penodol yn y fan hon, sydd anhawdd i'w benderfynu yn sicr efallai. Ond gwasanaetha y naill neu y llall y pwrpas, yr hyn ydyw dangos fod Crist, nid yn unig yn ben y tŷ—yr oruchwyliaeth newydd ysbrydol; ond hefyd yn sylfaenydd o honi, tra nad oedd Moses ond aelod o'r tŷ, yn yr oruchwyliaeth hòno ag yr oedd efe o ran swyddogaeth yn ben iddi, ond nid yn sylfaenydd a pherchenog. Y mae goruchwyliwr teulu gwr mawr yn ben, yn llywodraethwr ar holl achosion a threfn y tŷ, etto nid yw ond gwas. Daw y pwynt hwn o'r cyferbyniad rhwng Crist a Moses dan sylw etto.

4 Canys pob tŷ a adeiledir gan ryw un; ond yr hwn a adeiladodd bob peth *yw* Duw.

Y mae yr adnod hon wedi peri penbleth nid bychan i ddeonglwyr yr epistol, o herwydd methu o honynt yn eu byw weled pwrpas yr ymadroddion. A ganlyn ydyw golygiad Proffeswr Stuart arni:—

"Πᾶς γὰρ οἶκος......Θεός, wyf yn gyfieithu fel hyn,—*Canys rhaid fod rhyw adeiladydd i bob tŷ, neu, ei fod wedi cael ei adeiladu gan rywun; a'r hwn a ffurfiodd bob peth yw Duw.*

Ond beth a olygir wrth y *pob peth* (τὰ πάντα) a ffurfid, neu a adeiledid? Ai y bydysawd? neu bob οἶκοι—pob goruchwyliaeth, sef yr un Iuddewig a'r un Gristionogol? Ymddengys fod y cyndestun yn gofyn ei ddeall yn yr ystyr olaf. Y blaenaf y mae arfer gyffredin yr ymadrodd yn ei ffafrio. A ydyw yn briodol ei ddeongli yn ol yr ystyr olaf? Gwasanaethai i bwrpas uniongyrchol yr awdwr i ddangos fod pob goruchwyliaeth o angenrheidrwydd a rhyw sylfaenydd iddi, ac mai y sylfaenydd hwnw yw Crist. Ond pa fodd y dangosir hyn? Nid yw dywedyd mai Duw, fel y cyfryw, ydoedd *awdwr pob peth*, yn dangos mai Crist ydoedd sylfaenydd yr οἶκοι Iuddewig a Christionogol. Yn wir, ni allaf fi weled unrhyw gysylltiad dichonadwy rhwng y gosodiad hwn a'r amcan sydd gan yr ysgrifenydd mewn golwg. Ac nis gallaf weled ychwaith y gall ei fod yn dangos Crist yn sylfaenydd o gwbl, os na olygaf ef fel yn hòni y ffaith fod Crist yn berson dwyfol, neu yn Θεός; os felly, yr ymresymiad yw hyn, 'Duw ydyw awdwr pob peth (ac o ganlyniad, yr oruchwyliaeth Iuddewig a'r un Gristionogol.) Y mae Crist yn Dduw, o ganlyniad, rhaid ei ystyried ef fel awdwr neu sylfaenydd cyntefig y goruchwyliaethau hyn.' Ni phetrusai yr ysgrifenydd yn sicr i haeru y ffaith o fod Crist yn Θεός, wedi yr hyn a ddywedasai efe yn pen. i. 8—12. Haerai Ioan (1 Ioan i. 1.) yr un peth, fel y gwna Paul hefyd, Rhuf. ix. 5, a manau eraill. Rhaid cymeryd yr ymadrodd yn y lle hwn fel un a rag-grybwyllesid yn pen. i. am y Mab. Swm yr ymresymiad, gan hyny, fe ymddengys, ydyw:—Ystyrier bod Crist fel Θεός, a lluniwr pob peth, o angenrheidrwydd, yn awdwr y ddwy oruchwyliaeth—yr Iuddewig a'r un Gristionogol; yr hyn a ddengys fod gogoniant yn perthynu iddo ef, nid yn unig yn ei swydd gyfryngol—fel pen yr oruchwyliaeth newydd, ond hefyd fel sylfaenydd yr oruchwyliaeth hon a'r hen hefyd, yn ei nodwedd dwyfol, tra nad ydyw Moses i'w anrhydeddu ond yn unig fel pen yr oruchwyliaeth Iuddewig, yn ei swydd fel arolygwr awdurdodedig, ond nid fel awdwr a sylfaenydd.

"Metha pob ffordd arall o ddeongli yr ymadrodd hwn i'w wneud neu i'w ddangos yn wasanaethgar i bwrpas yr ysgrifenydd; ac y mae hyny i mi yn wrthddadl anorfod i'w herbyn. Gwneud Θεός yn adn. 4, i olygu Duw Dad, sydd o leiaf yn peri i'r apostol lefaru rhywbeth pur anmherthynasol i'w bwrpas, os nad yw yn wrthwynebol iddo. Yr wyf yn cynnyg yr eglurhad uchod, modd bynag, fel un, wedi yr ymchwiliad manylaf, y gorfodid fi i'w ddewis, gan ymresymiad y cyndestun ac amcan yr ysgrifenydd: ac nid fel un mor anwadadwy eglur, fel na ellir dwyn gwrthddadleuon golygus i'w erbyn. Y mae yr holl ymadrodd mor dywyll, fel na all neb yn rhesymol ddysgwyl, hyd yma, am eglurhad pendant arno. Os gellir cael un *tebygol* ei fod yn cynnwys y gwir feddwl, y mae hyny, yn bresenol, yn gymaint a ellir ei ofyn yn deg."

Yr hyn sydd yn peri dyryswch a phetrusder yn nghylch yr adnod hon ydyw yr ymgais i ddangos ei chysylltiad uniongyrchol â'r mater mewn llaw gan yr apostol, yn lle ei chymeryd fel peth yn dyfod i mewn megys yn ddygwyddiadol—fel nodiad wrth fyned heibio—osgoad (*digression*) achlysurol oddiwrth y mater mewn llaw i grybwyll sylw nad oedd y mater yn galw yn neillduol am dano. Y mae llawer iawn o'r cyfryw osgoadau yn ysgrifeniadau Paul. Y mae Stuart ei hun yn addef nad oes dim anhawsdra i ddeall y geiriau ynddynt eu hunain—bod syniad y wers ynddi ei hun yn eithaf syml a dealladwy; ond mai yr anhawsdra ydyw egluro y cysylltiad rhyngddi â'r cyd-destun, a'r modd y mae yn gwasanaethu y mater mewn llaw. Pe byddai i'r adnod gael ei gadael allan yn gwbl, medd efe, a chysylltu y drydedd a'r bummed adnod â'u gilydd hebddi, ni ymddangosai fod dim yn eisieu—dim wedi ei adael allan. Yn hytrach ar gyfrif yr anhawsdra a gyfarfyddir yn adn. 4, byddai ei gadael allan yn ymwared i'r meddwl oddiwrth ddyryswch. Ond ni foddlona y Proffeswr i'w hystyried fel *osgoad* chwaith, ond ymdrecha ei chysyllu â'r cyndestun, fel rhan o ymresymiad yr apostol ar ei bwnc: ond y mae yn methu gwneud hyny er un boddlonrwydd i'w feddwl ei hun, y mae'n amlwg; ac nid ydym yn meddwl y boddlona un darllenydd craffus a meddylgar chwaith. Gan nad oes dim yn ngholl yn y mater hebddi, debygem ni fod hyny yn ddigon o esboniad arni—mai osgoad neu arnodyn (*gloss*) ydyw, ac y dylai fod rhwng cromfachau, fel y gallai y darllenydd edrych drosti, os dewisai, neu ostwng ei lais, a chyflymu, wrth ei darllen yn gyhoeddus, fel hyn—*Y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ; (canys pob tŷ a adeiledir gan rywun: ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw).*

5 A Moses [u] yn wir *a fu* ffyddlawn yn ei holl dŷ megys [v]gwas, er tystiolaeth i'r [w] pethau oedd i'w llefaru;

[u] Num. 12. 7. [v] Jos. 1. 2.
[w] Deut. 18. 15—19.

*A Moses yn wir a fu ffyddlawn yn ei holl dŷ megys gwas.* Y mae yr anrhydedd hwn yn ddyledus i Moses. Y mae yr Arglwydd ei hun, perchenog y tŷ, wedi dwyn y dystiolaeth hon am dano, pan lym geryddodd efe Aaron a Miriam am lefaru yn erbyn Moses; Num. xii. 7. Cyflawnodd Moses ei oruchwyliaeth yn onest, cywir, a gofalus, yn ei holl dŷ ef—yn holl weinidogaeth crefydd a ymddiriedwyd i'w ofal. *Megys gwas*—yr oedd yn ystyriol mai gwas, goruchwyliwr dros Dduw, ar ei dŷ, ei bethau ef, a chyfrifol iddo ef am ei oruchwyliaeth ydoedd. Ni ystyriodd efe ei hunan erioed yn uwch na gwas, pe amgen buasai hyny yn anffyddlondeb a gwrthryfel ynddo.

*Er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru.* Fel dysgawdwr y bobl mewn pethau dwyfol, i draddodi iddynt eiriau, gorchymynion, a barnedigaethau Duw—eu hyfforddi yn addysg ac athrawiaeth crefydd yr oruchwyliaeth hòno. Efe a fu yn ffyddlawn yn hyn dros Dduw, heb attal oddiwrthynt ddim a orchymynai Duw iddo ef draddodi wrthynt. Dywedir yn fynych ddarfod i Moses "lefaru wrth y bobl holl eiriau yr Arglwydd," a hyny heb ychwanegu dim atynt, na chyfnewid dim arnynt, ac felly yr oedd yn ffyddlawn i'r ymddìried a roddasid iddo.

6 Eithr Crist, megys [x] Mab ar ei dŷ ei hun: [y] tŷ yr hwn ydym ni, [z] os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.

[x] Salm. 2 7, 12. [y] 1 Pedr 2 5.
[z] Mat. 10. 22; Heb 10. 38, 39.

*Eithr Crist, megys Mab ar ei dŷ ei hun.* Y gwahaniaeth mawr rhwng Crist a Moses ydoedd, nid yn eu swyddau yn gymaint, oblegid yr oedd Moses yn flaenor yr hen oruchwyliaeth, megys ag yr oedd Crist; ond gwas dros a than un arall, ar eiddo ac yn nhŷ gwr arall, oedd Moses; ond yr oedd Crist *megys Mab ar ei dŷ ei hun*—y mae efe yn Arglwydd ac yn berchenog y tŷ, a hawl ganddo i'w adeiladu, ei lywodraethu, a'i drefnu, yn ol ei ewyllys ei hun.

*Tŷ yr hwn ydym ni.* *Ni* y credinwyr dan yr efengyl. Ein tadau dan yr oruchwyliaeth o'r blaen a gyfansoddent y tŷ yr oedd Moses yn flaenor a goruchwyliwr arno; ond yn awr, nid ydym ni mwyach yn perthyn i'r tŷ hwnw, oblegid y mae y Mab ei hun wedi adeiladu tŷ newydd, codi a sefydlu goruchwyliaeth well, wedi ei gosod ar addewidion gwell: yr ydym ni yn aelodau o'r tŷ hwn, ac fel y cyfryw dan rwymedigaethau i gadw at reolau a threfniadau y tŷ, gan ymostwng i gyfraith ac ewyllys y Mab, ei adeiladydd, ei Arglwydd, a'i berchenog.

*Os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.* Ein gwaith ni yn cadw hyder a gorfoledd ein gobaith efengylaidd yn sicr a dianwadal hyd y diwedd—diwedd gyrfa ein bywyd ar y ddaear—ydyw y prawf, a'r unig brawf a allwn roddi ein bod ni yn dŷ, neu yn aelodau o deulu Crist. Gan mai dyna ganolbwnc yr epistol, ceidw yr awdwr ei lygad arno o hyd, a cheidw ef o flaen llygaid ei ddarllenwyr yn barhaus.

Y mae ffydd yr efengyl yn cynnyrchu hyder, hyfdra, a gwroldeb yn yr enaid. "Hyder trwy Grist ar Dduw"—hyder a hyfdra i nesâu at Dduw ydyw. Gelwir ef hyder ffydd—yr hyder hwnw a gynnyrcha ffydd yr efengyl yn yr enaid, ac nad oes neb ond y credinwyr a ddichon ei feddu.

*A gorfoledd ein gobaith.* Y mae yn perthyn i'r teulu crediniol eu gobaith hefyd—gobaith priodol iddynt hwy eu hunain, na pherthyn i neb arall. Y maent wedi eu hadgenedlu i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw—"gobaith da trwy ras"—"gobaith a roddwyd i gadw yn y nefoedd—gobaith na chywilyddia—gobaith gwynfydedig." Y mae yn obaith am fwynhad o bethau dwyfol, nefol, ysbrydol, a thragwyddol; pethau nas gall ond y gobaith a gynnyrcha ffydd yr efengyl yn unig ymgodi atynt. Y mae i'r gobaith hwn ei *orfoledd*, ei fost, ei lawenydd. Y mae yn anmhosibl meithrin a gweithredu gobaith am fwynhad o'r fath bethau a sylweddau goruchel a gogoneddus, heb i'r enaid deimlo llawenydd a gorfoledd. "Yr ydym yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw," medd yr apostol mewn lle arall; a thrachefn, "Yr ydym yn gor-

foleddu yn Nuw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

Y mae o'r pwys mwyaf i'r Cristion i ofalu am gadw a diogelu yr hyder hwn, a gorfoledd ei obaith yn sicr, canys y maent yn elfenau hanfodol bywyd ei grefydd, a'i ymlyniad wrth ei broffes, a'i barhad hyd y diwedd; a'i barhad felly a rydd brawf o'i wir berthynas â theulu Crist, fel aelod gwirioneddol o hono. Os rhyw ffagliad wreichionllyd dros amser yn unig fydd gorfoledd gobaith y dyn, ac wedi hyny yn diffodd ac yn diflanu, buan y blina ar ei broffes, ac y gwrthgilia oddiwrthi; a bydd hyny yn ddigon o brawf mai gobaith y rhagrithiwr, ac nid gwir obaith y credadyn ydoedd ei obaith ef, ac nad oedd ar y goreu ond estron yn y tŷ ac i'r teulu, tra fu yn proffesu bod yn un o honynt.

7 Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glan yn dywedyd, [a] Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef,

[a] Salm. 95. 7, 8, 9.

*Am hyny.* Y mae pob gwirionedd am Grist yn tueddu yr un ffordd, yn cefnogi ac yn cadarnhau yr un rhwymedigaethau. *Am hyny*—am ei fod, fel y profwyd, yn "haeddu mwy gogoniant na Moses, yn Fab yn ei dŷ ei hun," &c. Am fod ei urddas ef yn anfeidrol fwy nac urddas yr angylion a Moses, a holl oruchwylwyr y cyfammod cyntaf, ynfydrwydd o'r mwyaf, a beiusrwydd o'r fath waethaf, fyddai troi yn ol oddiwrtho ef, a chefnu ar y tŷ a adeiladodd ac a drefnodd ef, i fyned etto i geisio lle yn yr hen dŷ yr oedd Moses yn was a goruchwyliwr ynddo—tŷ ag oedd bellach yn hen ac oedranus, ac yn barod i syrthio a diflanu.

*Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glan yn dywedyd, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef.* Megys y dywedodd yr Ysbryd Glan trwy y Salmydd (Salm xcv. 7—11), wrth ddeiliaid gweinidogaeth a goruchwyliaeth yr hen gyfammod, i'w rhybuddio o'r perygl o esgeuluso gwrando ar, ac ufuddhau i, yr hyn a leferid wrthynt hwy yn enw yr Arglwydd. Y mae yr hyn a ddywedai yr Ysbryd Glan wrthynt hwy gynt yn gymhwysiadol atom ni yn awr, ac y mae yn dyfod atom ni gyda mwy o nerth a grym, fel y dangoswyd lawer gwaith o ddechreu yr epistol hyd yma, ac y dygir llawer o ystyriaethau i'r un perwyl etto.

*Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef.* Yn awr, yr amser presenol hwn, heb oedi gwrandawiad ac ufudd-dod hyd ryw amser dyfodol. Nid yw yr Ysbryd Glan unwaith, mewn un man erioed, wedi rhoddi y caniatâd lleiaf i oedi ufudd-dod i'w leferydd ef. Yn yr amser presenol y mae efe bob amser yn galw am hyn: ni ddywed ddim yn nghylch yr amser dyfodol. Y mae yr ysbryd drwg a chalon ddrwg yr anufudd yn dweyd fel arall—yn wrthwyneb i'r Ysbryd Glan, ac yn taflu ufudd-dod hyd ryw amser dyfodol o hyd—yfory, pan gaffer amser cyfaddas, meddant hwy; a dyma ddinystr a cholledigaeth myrddiynau o eneidiau dan weinidogaeth yr efengyl.

8 Na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch:

*Na chaledwch eich calonau.* Y mae dynion yn caledu eu calonau trwy fwrw ymaith ei leferydd ef oddiwrth eu meddyliau; oedi gwrandawiad, ystyriaeth, ac ufudd-dod, hyd ryw amser dyfodol, ac felly yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glan yn ei alwad arnynt i wrando ac ufuddhau heddyw. "Caledu y galon" sydd ymadrodd ffugrol oddiwrth ddefnydd anianyddol o ansawdd anhydrin, anghymhwys i dderbyn argraff, yn gyferbyniol i ansoddau tyner, hyblyg, megys y cwyr, yr hwn a dderbyn ac a ddeil ddelw y sel a wasger arno. Y mae calon iach, anystyriol, a diofal, yr un modd mewn agwedd ac ansawdd anghymhwys i dderbyn argraff a dylanwad y gwirionedd, yn wrthwyneb i'r "galon hawddgar a da," a ganmolir yn yr eglurhad ar ddammeg yr hauwr. Y mae hòno yn *derbyn* y gair wrth ei wrando, yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth mewn canlyniad. Y mae dynion yn caledu eu calonau trwy droi eu meddyliau ymaith oddiwrth y gwirionedd at bethau eraill, fel y rhai hyny a wahoddasid i wledd y briodas,

"A hwy yn ddiystyr ganddynt a aethant ymaith, un i'w faes, ac arall i'w fasnach."

*Megys yn y cyffroad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch.* Cyfeirir yma at enghraifft neillduol o'r peth yn hanes y genedl Iuddewig yn yr anialwch, yr hon a galedodd ei chalon yn wyneb lleferydd Duw wrthi trwy Moses, a hyny lawer gwaith; ond efallai y cyfeirir yn fwyaf neillduol yn ngeiriau yr Ysbryd Glan yma at gynhen y bobl o eisieu dwfr yn Meriba, Exod. xvii. 7. Rhoddodd Moses yr enwau Marah a Meriba (cynhen a phrofedigaeth) ar y lle hwnw, "o achos cynhen meibion Israel, ac am iddynt demtio yr Arglwydd, gan ddywedyd, A ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai nid yw?"

9 Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi, ac y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.

*Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi.* Y mae y geiriau *temtio* a *phrofi* yma yn gyfystyr â'u gilydd. Yr oedd y genedl trwy ei chyndynrwydd, ei grwgnachrwydd, a'i hanufudd-dod yn temtio Duw i ddigio wrthi, a'i dyfetha, ac megys fel pe buasai yn penderfynu gweled beth oedd eithaf yr amynedd a'r dyoddefgarwch dwyfol. Gwnaethant hyn laweroedd o weithiau, megys yr edliwia Moses iddynt: "Meddwl, ac nac anghofia pa fodd y digiaist yr Arglwydd dy Dduw yn yr anialwch: o'r dydd y daethost allan o dir yr Aifft, hyd eich dyfod i'r lle hwn; gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd. Yn Horeb hefyd y digiasoch yr Arglwydd; a digiodd yr Arglwydd wrthych, i'ch dyfetha....O fewn Taberah hefyd, ac o fewn Massah, ac o fewn Beddau y blys, yr oeddych yn digio yr Arglwydd....Gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd er y dydd yr adnabum chwi," Deut. ix. 7, 8, 22, 24. Y mae y ddau air cyfystyr, *temtio* a *phrofi*, yn cael eu defnyddio ar yr achos hwn i arwyddo mawr ddwysedd eu drwg ymddygiad, ddarfod iddynt brofi Duw i'r eithaf.—*Stuart.*

*Ac y gwelsant fy ngweithredoedd,* sef ei wyrthiau a'i ryfeddodau tuag atynt yn wyneb eu holl gyndynrwydd a'u grwgnachrwydd. "Efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddyfethodd hwynt: ïe, trodd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrodd ei holl lid," Salm lxxviii. 38.

10 Am hyny y digiais wrth y genedlaeth hòno, ac y dywedais, Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn *eu* calonau; ac ni adnabuant fy ffyrdd i.

*Am hyny y digiais wrth y genedlaeth hòno,* sef am eu cyndynrwydd a'u grwgnachrwydd parhaus yn erbyn yr holl ddoniau, y rhyfeddodau, a'r gwaredigaethau a ddangosid ac a estynid iddi. O'r diwedd, wedi deugain mlynedd o brawf arni, digiodd Duw wrthi, a phenderfynodd ei thynged.

Ac y dywedais, *Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau*—yn eu barn, eu bwriadau,a'u tueddiadau—yn gŵyro, yn troi ymaith oddiar yr uniawn lwybr:—"Yn genedlaeth ŵyrog a throfaus, yn ymlygru yn ei erbyn ef trwy eu bai, heb fod yn blant iddo ef," Deut. xxxii. 5. "Yn genedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn, ac nid yw ei hysbryd ffyddlawn gyda Duw," Salm lxxviii. 8. Y mae cyfeiliornad yn y fuchedd yn ffrwyth sicr cyfeiliorni yn y galon. Yr oedd holl rwgnachrwydd a gwrthryfel y genedlaeth hòno yn erbyn Duw yn tarddu o'r ffynnonell hon.

*Ac ni adnabuant fy ffyrdd i.* Er eu gweled â'u llygaid yn y gwyrthiau mawrion o drugareddau a wneid erddynt ac iddynt yn barhaus, ni adnabuant fy ffyrdd. Ni chydnabuant mai myfi a'u meddyginiaethodd.

11 Fel y tyngais yn fy llid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.

O'r diwedd, wedi ymryson â'r genedlaeth hòno am ddeugain mlynedd, yn ei drugaredd ac yn ei dosturi, efe a benderfynodd ei thynged, gan dyngu yn ei lid na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa—i wlad yr addewid y tyngasai efe wrth eu tadau y rhoddid hi yn etifeddiaeth i'w had hwy. Cafodd y

genedlaeth hòno o had Abraham gynnyg ar fyned i mewn iddi a'i meddiannu, yr hyn na chawsai yr un genedlaeth o'r blaen, ond gwrthododd ei braint, ac anghymhwysodd ei hunan iddi, trwy ei gwrthryfel, ei hanghrediniaeth, a'i grwgnachrwydd. Llefara Iehofa yn null dyn, er dangos penderfyniad dianwadal ei feddwl ar y mater. Eiriolodd Moses yn llwyddiannus dros y genedlaeth hòno lawer gwaith wedi iddi ddigio Duw; ond wedi iddo dyngu na chaent fyned i mewn i wlad Canaan, pan ddigiasant ef trwy eu hanghrediniaeth a'u grwgnachrwydd pan ddychwelodd yr ysbïwyr a rhoddi anair i'r wlad, ni eiriolodd Moses drostynt am faddeuant iddynt; canys gwyddai yn dda, wedi i Dduw unwaith dyngu, bod eu hachos wedi ei benderfynu, ac mai rhyfyg ynddo fuasai dadleu drostynt mwyach. Yr oedd Canaan iddynt hwy yn fàth o gysgod o'r nefoedd, yr orphwysfa dragwyddol a barotodd Duw i'w bobl gydag ef ei hun; ond daw hyn dan sylw etto yn y bennod nesaf.

12 Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon [b]ddrwg anghrediniaeth, gan [c]ymado oddiwrth Dduw byw.

[b] Marc 7. 21, 23 [c] Jer 2. 13.

*Edrychwch*—Cymerwch y gofal mwyaf dyfal yn y mater hwn. Amcan dygiad yn mlaen yr enghraifft yn hanes y genedlaeth gyndyn, anghrediniol, hòno yn yr anialwch, ydoedd i wasgu at ystyriaethau yr Hebreaid y perygl o fod yn debyg iddynt—o'r un ansawdd calon â hwynt; ac felly y pwys mawr o gadw gwyliadwriaeth onest a dyfal ar y galon. "*Cadw* dy galon yn dra diesgeulus, canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod." Fel mai y galon yn y corff ydyw ffyrnonell y bywyd naturiol, felly ansawdd ysbrydol y meddwl ydyw ffynnonell bywyd a gweithrediadau moesol, yr hwn o herwydd hyny a drawsenwir y *galon*. Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydoedd y genedlaeth hòno. Nid oedd ei chalon yn uniawn gyda Duw; ac o herwydd hyny yr ydoedd o hyd yn barod i ymadael oddiwrtho, anufuddhau iddo, a grwgnach yn ei erbyn ar bob achlysur; nes o'r diwedd iddo yntau eu gollwng yn nghyndynrwydd eu calon i fyned wrth eu cynghorion eu hun. Yn awr, edrychwch, frodyr, medd yr apostol. beth a wnaethant hwy, a pha beth a wnaeth Duw iddynt hwy—edrychwch fel y gweithiodd calon gyndyn, wrthnysig ac anghrediniol, ei hunan allan yn y genedlaeth hòno; ac fel o'r diwedd y penderfynwyd ei thynged i gael ei chau allan o'r orphwysfa addawedig iddi gan Dduw, pan dyngodd efe yn ei anfoddlonrwydd cyfiawn na chaffai fyned i mewn iddi. Gofalwch gan hyny na *byddo un amser*, ar unrhyw amgylchiad, yn wyneb unrhyw brofedigaeth, yn neb o honoch y galon ddrwg anghrediniaeth hon. Y mae i chwi lawer o elynion a pheryglon o'r tu allan i chwi—y mae llywiawdwyr ac awdurdodau y byd hwn yn elynol i ch crefydd. Casëir ac erlidir chwi yn ffyrnig gan eich brodyr yn ol y cnawd oblegid cyffes eich gobaith efengylaidd; etto ynoch chwi eich hunain y mae eich perygl penaf. Calon ddrwg anghrediniaeth ydyw y gelyn mwyaf peryglus ac ofnadwy. Os byddwch yn rhydd oddiwrth hon, ni all un gelyn arall oddiallan eich niweidio.

*Gan ymado oddiwrth Dduw byw.* Dyna a wnaeth calon ddrwg anghrediniaeth erioed—ymado oddiwrth y Duw byw at dduwiau ac eulunod mudion a meirwon. Yr oedd y genedlaeth hòno dan ddylanwad y galon ddrwg anghrediniaeth hon yn wastad yn ymadael â Duw. A dyna yw tueddfryd y gyfryw galon erioed a byth. Neillduasid had Abraham gan y Duw byw iddo ei hun i fod yn dystion drosto mai efe oedd Dduw yn erbyn eulunod ac eulunaddoliaeth y cenedloedd. Sefydlasai ei gysegr, ei allor, a defodau ei addoliad a'i wasanaeth, yn eu plith. Tröent hwythau yn barhaus oddiwrtho ef i fyned ar ol oferedd y cenedloedd, gan adael ei gysegr a'i allor, ac aberthu i ddelwau meirwon yn yr uchelfeydd: a'r ymadawiad hwn oddiwrth y Duw byw a gynnwysai y cwyn trwm a ddygir yn wastad ganddo i'w herbyn, ac a dynai ei anfoddlonrwydd a'i farnau arnynt yn barhaus. Mynai yr apostol roddi ar ddeall i'r Hebreaid y buasai eu gwaith hwy yn troi yn ol oddiwrth efengyl Crist at ddefodau Moses a'r hen

gyfammod yn ymadawiad oddiwrth y Duw byw, ac yn ffrwyth calon ddrwg anghrediniaeth, yn gystal ag yr oedd gwaith eu tadau yn troi oddiwrth y defodau hyny at eulunod ac eulunaddoliaeth y cenedloedd: felly, gan fod Crist wedi myned yn ddiwedd i'r ddeddf neu yr oruchwyliaeth hòno; a'i fod ef yn awr yn llywodraethu megys Mab yn ei dŷ ei hun, ac mai yn yr eglwys efengylaidd yn awr y mae y Duw byw yn preswylio; yr oedd yr hen dŷ erbyn hyn, megys ag y rhagddywedodd Crist, wedi ei adael yn anghyfannedd. Dengys yr ymadrodd fawr ddrygedd, ynfydrwydd, ac ysgelerder, y pechod o wrthgilio. *Ymado oddiwrth Dduw byw* yw y sarhad mwyaf a all creadur daflu ar Dduw, a'r ynfydrwydd a'r creulondeb mwyaf ato ei hun; o herwydd paham geilw yr Arglwydd ar y nefoedd a'r ddaear i synu ac ofni uwchben y fath ymddygiad: Jer. ii. 12, 13.

13 Eithr [d] cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw; fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.

[d] Heb. 10. 25.

Mewn trefn i gadw gwyliadwriaeth effro rhag syrthio o honoch i'r amryfusedd peryglus hwn, cynghorwch eich gilydd—rhybuddiwch y naill y llall, a chadarnhewch bob un ei frawd, a hyny *bob dydd*, yn wastad ar bob adeg a chyfleusdra—*tra y gelwir hi heddyw*, tra fyddoch yn cael cyfleusderau a manteision i hyny. Ordeiniodd yr Arglwydd ei eglwys—fod i'w bobl ymffurfio yn frawdoliaeth gymdeithasol, fel y gallent gael gafael ar eu gilydd, a mantais i wasanaethu a chynnorthwyo y naill y llall: ac un ffordd effeithiol iddynt wneud hyny yw cynghori, rhybuddio, ac annog eu gilydd; ac y maent i wneud hyny yn wastadol—bob dydd, canys y maent mewn perygl bob dydd—yn agored i brofedigaeth bob dydd.

*Fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.* Nid ar unwaith bob amser, os un amser, y mae yr ymadawiad oddiwrth Dduw—ei dŷ, ei wasanaeth, yn cymeryd lle, ond yn raddol ac am hir amser, efallai yn ddiarwybod i'r dyn ei hun, fel y mae penwyni yn ymdaenu: y mae eraill yn craffu ac yn sylwi ar y gwallt yn troi yn wyn cyn i'r dyn ei hunan wybod hyny. Cyffelybir dirywiad Ephraim (Hos. vii. 9) i ymdaeniad diarwybod penwyni ar ddyn. Gan hyny, y mae priodoldeb mawr yn anogaeth yr apostol i'r Cristionogion gadw gwyliadwriaeth ar a thros eu gilydd, yn gystal a phob un i wylio arno a throsto ei hun, a hyny fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod; rhag i'r galon fyned o ychydig i ychydig yn annheimladwy o'r drwg a'r perygl hwn o wrthgilio, ac felly i edrych yn fychan a dibris arno, a gweithio ei hunan yn raddol i gyflwr o addfedrwydd i ymollwng iddo. Y mae twyll mewn pechod—twyll ydyw; ac y mae ei dwyll, ei swyn, a'i gyfaredd, yn caledu y galon sydd o dan ei ddylanwad. Ac y mae calon wedi ei chaledu felly trwy dwyll pechod yn rhyddredeg i bob cyfeiliorni ac aflwydd.

14 Canys fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist, [e] os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.

[e] Adn. 6.

Hyn yn unig, sef dal a pharhau hyd y diwedd, a brawf wirionedd ein crefydd, neu ein bod ni wedi ein gwneud yn wirioneddol gyfranogion o Grist—wedi ein huno âg ef trwy ffydd fywiol. Y pwynt-nod o hyd ydyw dal a pharhau yn ddianwadal hyd y diwedd—hyd derfyn gyrfa y bywyd. Wrth ddal dechreuad eu hyder yn sicr hyd y diwedd, golygir, parhau yn wastadol yn yr un ysbryd gwresog a chalonog ag yr oedd yr Hebreaid wedi cychwyn eu gyrfa grefyddol. Dwg yr apostol dystiolaeth iddynt mewn lle arall, ddarfod iddynt ar ddechreuad eu crefydd ddangos sel wresog ynddi, a dyoddef llawer yn galonog drosti; ac yma dengys iddynt mai eu parhad hyd y diwedd yn yr ysbryd yr oeddynt wedi dechreu a brofai fod yr hyder, y sel, a'r awyddfryd dechreuol hwnw, yn bethau gwirioneddol a chywir, ac mai nad rhyw iasau tymherau arwynebol yn unig oeddynt—yn diffodd, yn gwywo, ac yn diflanu yn ebrwydd drachefn yn wyneb awelon profedigaethau, fel y dysgrifir

yr had ar y graig; ac mai trwy ddal dechreuad yr hyder hyd y diwedd y sicrheid iddynt y rhagorfreintiau mawrion a berthyn i'r ffydd Gristionogol—bod yn gyfranogion o ras, dyddanwch, a gogoniant Crist.

15 Tra y dywedir, [f] Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffroad.

[f] Adn. 7.

Dychwela'r apostol at yr ymadrodd a gofnodasai o'r blaen o'r Salm mewn trefn i fyned yn mlaen at ei gysylltiadau, er gwasgu y mater yn ddwysach etto ar feddyliau yr Hebreaid, sef eu gosod ar eu gocheliad rhag bod yn debyg i'w tadau hyny gynt. Clywsent hwy ei leferydd ef, estynasai Duw ei ddwylaw atynt ar hyd y dydd, ond caledasant hwy eu calonau rhag gwrando ac ufuddhau.—Aeth eu dydd, eu heddyw, heibio arnynt—dydd eu bywyd a dydd eu gras. Troisant ef trwy eu cyndynrwydd a'u calongaledrwydd yn ddydd cyffroad—cyffroisant Dduw i eiddigedd ac anfoddlonrwydd i'w herbyn; troisant yn wrthryfelgar, a gofidiasant ei Ysbryd santaidd ef; ac am hyny trodd yntau yn elyn iddynt, ac ymladdodd yn eu herbyn, Esa. lxiii. 10. Eich dydd chwi ydyw yn awr, fel pe dywedai yr apostol, atoch chwi y mae ei leferydd ef heddyw—yr amser presenol; edrychwch ar i chwi wneud iawn ddefnydd o hono trwy wrando a dal ar ei leferydd ef, ac nid diofalhau a chaledu eich calonau megys y gwnaeth eich tadau pan y troisant ddydd eu hiachawdwriaeth yn ddydd dinystr iddynt eu hunain.

16 Canys [g] rhai, wedi gwrando, a'*i* digiasant *ef:* ond nid pawb a'r a ddaethant o'r Aifft trwy Moses.

[g] Num. 14. 2, &c.

*Canys rhai, wedi gwrando, a'i digiasant ef.*—Wedi gwrando ei leferydd ef trwy Moses, a gweled yr holl arwyddion a'r rhyfeddodau mawrion a wnaethai yr Arglwydd erddynt; ïe, wedi gwrando ei leferydd ef ei hunan yn ddigyfrwng o ganol y tân ar Sinai—wedi gwrando yr addewid am yr orphwysfa laweroedd o weithiau—a'i digiasant ef er hyny trwy eu hanghrediniaeth a'u gwrthnysigrwydd.

*Ond nid pawb a'r a ddaethant o'r Aifft trwy Moses.* Y rhan fwyaf o lawer, ond nid pawb; yr oedd yma rai eithriadau—Caleb a Josuah, o leiaf; a dichon, eraill heblaw hwy. Y mae amryw feirniaid yn hòni y dylid cyfieithu y geiriau fel hyn:—"Pwy, gan hyny, oedd y rhai, wedi gwrando, a'i digiasant ef? Onid pawb a'r a ddaethant o'r Aifft trwy Moses?" Y mae y gofyniad olaf yn atebiad i'r cyntaf. Megys pe dywedasai yr apostol, "Pwy oedd y rhai hyny a'i digiasant ef? Yn hytrach, ai ni allaf ofyn, Ai nid pawb—yr holl genedlaeth hòno a ddaethant o'r Aifft trwy Moses?"—Corff y genedl yn gyffredinol, canys er fod yno ychydig bersonau crediniol, yr oeddynt yn eithriadau mor anaml fel y mae y dull hwn o lefaru am y genedl yn gyfiawnhaol; ac y mae yn arferiad goddefol bob amser mewn cyffelyb amgylchiadau. Nid oedd eu bod yn unfrydol yn anghredu, ac yn gwrthod gwrando ar ei leferydd ef, yn cyfiawnhau dim ar eu hymddygiad, nac yn ysgafnhau dim ar eu cosb. A mynai yr apostol, trwy yr enghraifft hon yn hanes eu tadau, ddysgu i'r Hebreaid Cristionogol yr amser hwnw nad oedd fod eu brodyr yn ol y cnawd yn gyffredinol yn gwrthod Crist fel y Messïa addawedig, yn lleihau dim ar eu heuogrwydd hwythau. Ni allasai y ffaith fod y mwyafrif yn anghrediniol gyfiawnhau eu hanghrediniaeth. Yr un yw gwirionedd pe na byddai neb yn ei gredu—"Oblegid beth os anghredodd rhai, a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer? Na ato Duw; eithr bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog." Yr hyn sydd yn tawelu meddyliau llawer yn eu cyflwr o anufudd-dod i'r efengyl, ac eraill yn eu gwrthgiliad oddiwrth grefydd, ydyw fod lluaws mawr yr un fath a hwy. Ond esmwythder yr anghall, ac esmwythder sydd yn lladd ydyw; a cha'r enaid twylledig brofi na bydd ei golledigaeth ef yn ddim ysgafnach a haws ei dwyn am y bydd llawer dan yr un ddamnedigaeth.

17 Ond wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechasent, [g] y rhai y syrthiodd eu cyrff yn y diffaethwch?

[g] Num. 26. 64. 65; Judas 5.

Deugain mlynedd yr ymrysonodd efe â'r genedlaeth hòno, ac y goddefodd efe eu harferion hwy yn yr anialwch. Am y blynyddoedd hyny y dywed Moses, gwr Duw, yn ei weddi, wedi i ddedfryd anfoddlonrwydd Duw gael ei chyhoeddi uwch eu penau—"Ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di: treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl;" Salm xc. 9. Buont yn crwydro yn yr anialwch dan soriant Duw, yn dwyn cosb eu hanwiredd flwyddyn am bob diwrnod y buasai yr yspïwyr a anfonasai Moses o Cades Barnea i edrych ansawdd y wlad, ac hyd oni syrthiodd celaneddau yr holl genedlaeth rwgnachlyd ac anghrediniol hòno yn yr anialwch. Yr oedd dydd gras a gobaith y genedlaeth hòno gyda golwg ar y Ganaan ddaearol beth bynag yn darfod pan dyngodd Duw wrthi na chaffai yr un o honynt, ond Caleb a Josuah, fyned i mewn iddi; ond gallwn obeithio ddarfod i lawer o honynt, yn yspaid y deugain mlynedd hyny, edifarhau ac ymostwng ger bron yr Arglwydd, a derbyn maddeuant pechodau, a chael eu cadw i fywyd tragwyddol. Arosodd y golofn gyda hwynt i'w harwain, ac ni attaliwyd y manna oddiwrth eu geneuau. Yr oedd y babell a'r allor, yr arch a'r drugareddfa, gyda hwynt; a Moses ac Aaron yn myned o'u blaen—un i'w dysgu, a'r llall i offrymu, a'r ddau i eiriol drostynt. Llefarodd yr Arglwydd lawer trwy Moses wrthynt drachefn: felly yn ei lid yr oedd yn cofio trugaredd, ac yn dangos nad oedd wedi eu gwrthod a'u bwrw ymaith yn hollol. Bu Moses ac Aaron eu hunain feirw yn yr anialwch yr un modd, dan anfoddlonrwydd yr Arglwydd, o herwydd anufuddhau o honynt i'w air trwy daro y graig yn Horeb, yn lle llefaru wrthi. Nacäwyd iddynt eu cais i fyned i wlad Canaan, ond y mae pob sicrwydd iddynt fyned i'r wlad well, hyny ydyw, yr un nefol. Byddai yn rhy galed i ni farnu bod yr holl genedl a syrthiodd yn yr anialwch yn golledig eu cyflwr, ac iddynt oll syrthio dan anfoddlonrwydd tragwyddol Duw; a bod pob un a gauwyd allan o'r orphwysfa ddaearol wedi ei gau allan o'r orphwysfa nefol hefyd.

18 Ac [h] wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? onid wrth y rhai ni chredasant?

[h] Deut. 1. 34, 35.

Ni all dim fod yn fwy eglur, debygem, na mai gwlad Canaan sydd yn ngolwg yr apostol yn benodol wrth "ei orphwysfa ef" yn y lle hwn; canys hòno y dywed Moses am dani yn yr hanes y cyfeiria efe ati, "Etto yn y peth hyn ni chredasoch chwi yn yr Arglwydd eich Duw. A chlybu yr Arglwydd lais eich geiriau chwi, ac a ddigiodd, ac a dyngodd, gan ddywedyd, Diau na chaiff yr un o'r dynion hyn, o'r genedlaeth ddrwg hon, weled y wlad dda, yr hon y tyngais ar ei rhoddi i'ch tadau chwi. Oddieithr Caleb, mab Jephuneh, efe a'i gwel hi...a Josuah, mab Nun, efe a â i mewn yno;" Deut. i. 32—38. Pe wrth "ei orphwysfa ef" y golygai yr apostol yr orphwysfa dragwyddol o ddedwyddwch yn y nefoedd, fel y myn rhai esbonwyr haeru, ni buasai yr hanes uchod a rydd Moses yn briodol i'w bwrpas, neu buasai yn treisio yr ymadroddion allan o'u hystyr naturiol a phriodol. Amcan yr ysgrifenydd yn hyn ydyw dangos mai anghrediniaeth y genedlaeth hòno a'i dyfethodd, fel y sylwa yn mhellach.

19 [i] Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.

[i] Heb. 4. 16.

Er iddynt ddyfod yr holl ffordd o'r Aifft, trwy y Môr Coch, a thrwy yr anialwch mawr ac ofnadwy, trwy anhawsderau lawer a pheryglon dirfawr, nes y daethant i olwg ac i ymyl y wlad—yr ydym yn gweled, er hyn oll, na allent hwy fyned i mewn iddi. Nid o eisieu gallu o'r Arglwydd i'w harwain i mewn, a'i rhoddi iddynt, fel y tybiasai yr Aifftiaid. Nid am fod yr Iorddonen rhyngddynt a'r wlad—nid am fod y cewri, meibion Anac, yn y tir—nid am fod yno ddinasoedd cedyrn caerog hyd

y nefoedd, nad oedd yn bosibl eu darostwng—nac am fod yno genedloedd lluosocach a chryfach na hwy, fel nas gallasent sefyll yn eu hwyneb. Yr oedd y pethau hyn oll ar eu ffordd, y mae yn wir, ond nid hyny a barai nad allent hwy fyned i mewn. Yr oedd yr attalfa ynddynt hwy eu hunain—calon ddrwg anghrediniaeth. Nid dim arall ynddynt hwy eu hunain chwaith, ond anghrediniaeth, a'u hattaliodd. Er eu holl wrthryfel a'u cyndynrwydd ar hyd y ffordd o'r Aifft, cawsent fyned i mewn oni buasai eu hanghrediniaeth. Credasant dystiolaeth yr yspïwyr yn hytrach na geiriau ac addewidion Duw. Cawsant gynnyg teg i fyned i mewn iddi, ond troisant eu cefnau arni—gwrthodasant yr orphwysfa—ymbarotoisant i droi yn ol i'r Aifft yn eu cyndynrwydd. Ond, "â'r cyndyn yr ymgyndyni." Penderfynodd yr Arglwydd na chaent fyned i'r Aifft, gan na fynent fyned i Ganaan; a thrachefn, pan fynent hwy fyned i Ganaan, tyngodd na chaent fyned yno chwaith, ond y cwympent oll yn yr anialwch hwnw; ac y byddai y genedlaeth hòno yn gofgolofn i'r oesau a ddeuai, hyd ddiwedd amser, o o ddrwg anghrediniaeth.

# PENNOD IV.

## RHAGNODIAD.

Yr oedd dyfroedd duwinyddiaeth yr epistol yn ddyfnion yn eu tarddiad cyntaf allan, ac o gychwyniad yr afon hyd yma; ond yn y bennod hon, y maent yn ymchwyddo ac yn dyfnhau yn fawr iawn—yn ddyfroedd nofiadwy, ac yn afon nas gellir myned trwyddi. Yma yr ydym yn dechreu gweled yr holl feirniaid a'r esbonwyr yn colli gafaelion eu traed oddiar y gwaelod, ac yn gorfod naill ai nofio neu soddi. Gwahaniaethant yn fawr y naill oddiwrth y llall yn nghylch deongliad amryw ymadroddion, fel y ceir dangos wrth fyned yn mlaen.

Soniasai yr apostol yn niwedd y bennod o'r blaen am orphwysfa a addawsid i Israel gynt, o'r hon, er hyny, y cauesid y genedlaeth hòno yn yr anialwch allan, oblegid ei hanghrediniaeth. Yn nechreu y bennod hon efe a wna gymhwysiad o'r esiampl hòno at wasanaeth ei amcan yn y llythyr o annog yr Hebreaid i ddyfalwch dianwadal mewn ymlyniad wrth ac ymarferiad o'r ffydd Gristionogol. Gwasga at eu hystyriaethau fod addewid wedi ei adael i ni, dan y Testament Newydd, i fyned i mewn i'r orphwysfa; ond bod yn bosibl i ni, er hyny, syrthio yn fyr o honi, fel y collodd y genedlaeth hòno yn yr anialwch yr orphwysfa addawedig iddynt hwy. Bod yr un efengyl, o ran sylwedd, yn cael ei phregethu i ni ac a bregethwyd iddynt hwy—mai yr un ammod a ofynir i ni er myned i mewn i'r orphwysfa (sef ffydd) ac a ofynwyd iddynt hwy—ac mai y peth a'u hattaliodd hwy, sef anghrediniaeth, yr ydym ninnau hefyd mewn pergyl o gael ein hattal ganddo: adn. 1—3. Crybwylla hefyd am bob gorphwysfa o drefniad Duw i ddynion ag y mae son am dani yn yr ysgrythyrau, mewn trefn i egluro eu natur, a phrofi allan o'r Hen Destament fod gorphwysfa i gredinwyr y Testament Newydd. Myn yr apostol dystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi i brofi y mater hwn, er llawn foddhad i feddyliau yr Hebreaid.

Yr oedd yr orphwysfa addawedig i had Abraham, y soniasom am dani, yn un ddaearol, dymmorol; ac hefyd yn gysgodol o'r orphwysfa nefol ac ysbrydol. Yr oedd gan oruchwyliaeth yr Hen Destament ei chysgodau o holl bethau sylweddol ac ysbrydol goruchwyliaeth y Newydd. Yr oedd ei phabell a'i theml, ei hoffeiriaid, ei hallor, ei hebyrth, a'i holl osodiadau yn "gysgodau y daionus bethau a fyddent," "ac nid gwir ddelw," neu sylwedd y pethau hyny; felly hefyd yr oedd ganddi ei gorphwysfa, ei nefoedd gysgodol, i'r hon yr oedd yn arwain ei dysgyblion ar ddiwedd gyrfa eu pererindod. Yr oeddynt yn cael ambell orphwysfa

*hamddenol* ar eu taith yn yr anialwch. Yr oedd arch cyfammod yr Arglwydd yn myned o'u blaen hwynt daith tri diwrnod i chwilio am orphwysfa iddynt, Num. x. 33. Felly *ei orphwysfa ef* ydoedd pob un o'r gorphwysfaoedd hyny. Ond gorphwysfaoedd *yspeidiol* oeddynt. "Os deuddydd, os mis, os blwyddyn fyddai tra y trigai y cwmwl ar y tabernacl, gan aros arno, meibion Israel a arosent yn eu pebyll, ac ni chychwynent; ond pan godai efe y cychwynent," Num. ix. 22. Pan gyfodai y cwmwl oddiar y tabernacl yr oedd megys yn dywedyd wrthynt—"Cyfodwch, canys nid dyma eich gorphwysfa." Canaan, pen y daith, oedd i fod yn orphwysfa *gartrefol* iddynt—hòno oedd gorphwysfa y cyfammod a'r addewid: wedi eu sefydlu hwy yno yn eu gorphwysfa, efe a ddewisodd Seion yn orphwysfa iddo ei hun yn eu plith; a dywedodd, "Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd; yma y trigaf, canys chwennychais hi."

Yr orphwysfa nesaf y cyfeiria yr apostol ati (adn. 4) ydoedd y Sabbath, y *dydd* o orphwysfa. Yr oedd hon yn hanfodi yn hir cyn bod son am y llall—y *lle*, y wlad o orphwysfa—*ei orphwysfa ef* ydoedd hòno. Gorphwysodd ef ei hun oddiwrth ei weithredoedd creadigol, wedi bod yn gweithio dros y chwe' diwrnod, nes "gorphen y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwynt." Efe a beidiodd a gweithio mewn ffordd o grëu ar y seithfed—efe a orphwysodd. Ac efe a ordeiniodd bob seithfed dydd i fod yn adeg gorphwys i ddyn hefyd. Yr oedd yntau i efelychu ei Greawdwr drwy weithio chwe' diwrnod, ac i gadw y seithfed yn Sabbath, yn ddydd gorphwysfa, yn ol esiampl y Crëwr. Felly yr oedd hon yn orphwysfa Duw i ddyn. Ceir sylwi yn mhellach arni pan ddeuwn at eiriau yr apostol am dani.

Dychwela yr apostol drachefn (adn. 5, 6) at yr orphwysfa y soniasai efe gyntaf am dani, i seilio dadl ar yr ymadrodd am gauad allan o honi y rhai a gawsant y cynnygiad cyntaf i fyned i mewn iddi, er profi fod credinwyr yn myned i mewn, a bod gorphwysfa wrthddrychol felly yn aros yn barhaus; yr hyn a gadarnheir yn mhellach (adn. 7) oddiwrth ymadroddion yr Ysbryd Glan trwy enau Dafydd (Salm xcv. 7), yn dywedyd, "Heddyw, [ar ol cymaint o amser] os gwrandewch ar ei leferydd ef," &c.—Ar ol cymaint o amser—mwy na phum' can' mlynedd wedi pregethiad yr un efengyl i'r genedlaeth hòno yn yr anialwch; yr hyn a brawf yn eglur ddigon (adn. 8) nad oedd y genedlaeth a arweiniodd Josuah i Ganaan wedi eu dwyn i'r wir a'r briodol orphwysfa, ac nad oedd hòno ond un dymmorol a chysgodol yn unig; canys pe amgen, "ni soniasai efe"—yr Ysbryd Glan, "ar ol hyny"—ar ol i Josuah ddwyn y genedl i Ganaan, a'i rhanu wrth goelbren yn etifeddiaeth i'r llwythau, "am ddiwrnod arall." Y mae yn rhaid felly bod "gorphwysfa etto yn ol i bobl Dduw," adn. 9.

Yn mhellach, er cadarnhau yr athrawiaeth hon, efe a awgryma (adn. 10) ddarfod i'r Arglwydd Iesu Grist, wedi gorphen gwaith y prynedigaeth, fyned i'r orphwysfa hòno gyda'r Tad, megys y gorphwysasai Duw ar ol gorphen ei weithredoedd fel Creawdwr.

O adn. 11 hyd ddiwedd y bennod, efe a dry yr holl athrawiaeth am yr orphwysfa, &c., yn ddefnydd annogaethau cryfion i'r Hebreaid i fod yn ddyfal a diwyd i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno.

1 *Trwy ffydd y mae cael gorphwysfa y Cristionogion.* 12 *Gallu gair Duw.* 14 *Trwy ein Harchoffeiriad Iesu, Mab Duw, yr hwn oedd heb bechod, ond nid heb ei wendid,* 16 *y mae i ni gyrchu yn hyf at orseddfainc y gras.*

OFNWN [k] gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael *i ni* i fyned i mewn i'w orphwysfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol.

[k] Heb. 12. 15.

*Ofnwn gan hyny*—sef oddiar ystyriaeth o'r hyn a grybwyllwyd o'r blaen, yn nghyda'r hyn a chwanegir etto. Ymdriniasid yn flaenorol â'r ffaith bwysig o dramgwydd a chwymp y genedlaeth hòno a ddygasid o'r Aifft, yn yr anialwch, trwy ei hanghrediniaeth.

Y mae y ffaith hòno yn rhybudd pwysig i ni—yn dywedyd rhywbeth wrthym ni, a dylai ei lleferydd gael yr effaith hon arnom. Ofnwn gan hyny, oblegid y rheswm hwn:—

*Gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef.* Cafodd y genedl hòno addewid o orphwysfa—cychwynodd tuag ati—teithiodd lawer o ffordd—daeth yn agos iddi—ac i'w golwg; ond ni allodd fyned i mewn: syrthiodd yn fyr o honi, a darfu am dani o dan farn Duw yn y diffaethwch. Yn awr, y mae addewid o orphwysfa wedi ei adael i ninnau. Y mae yr un mor bosibl i ninnau syrthio yn fyr o honi, ag ydoedd iddynt hwy:—Ofnwn gan hyny y perygl hwn, *Rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol*—yn ol o'r orphwysfa addawedig—dyna y peth a ddylem ni ei ofni, a'i ofni yn fwy na dim arall.

Y mae ymwybyddiaeth o berygl yn cynnyrchu ofn bob amser; ac y mae ofn yn peri gofal a gwyliadwriaeth er gochelyd y perygl. Dau deimlad cryf a dylanwadol ydyw ofn a gobaith—saif y naill yn gyferbyniol i'r llall. Y mae y naill yn rhagdybio y llall. Ni bu ofn erioed yn hanfodi ond lle byddai gradd o obaith—lle y byddo y naill yn gryf, y mae y llall yn wan. Pan ddarfyddo yr ofn yn llwyr yn y fynwes, y mae y gobaith yr un pryd yn troi yn sicrwydd mwynhad o'r peth a ddymunid o'r blaen ei gyrhaedd, ac yr ofnid ei golli. Pan ymadawo gobaith yntau â'r meddwl, ac y rhoddo i fyny yn hollol allu cyrhaeddyd byth y peth y rhoddasai ei fryd arno, y mae yr ofn yntau yn darfod, ac yn troi yn ymollyngiad marwol i'w dynged yn yr enaid, yr hwn sydd bob amser yn gydymaith anobaith.

Yr addewid a adawyd i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef ydyw sail yr alwad arnom i ofni rhag bod yn debyg i fod yn ol o honi. Oni buasai bod yr addewid hon wedi ei gadael i ni, ni buasai genym un sail i obeithio am gael myned i mewn iddi; ac ofer fuasai ein cymhell i ofni rhag bod yn ol o honi ar y llaw arall. Yr addewid a agorodd i ni ddrws gobaith myned i mewn, a'r un addewid sydd yn peri i ni ofni rhag cael ein cauad allan hefyd: a chyfeirir at esiampl cenedlaeth o bobl a gawsant addewid o'r orphwysfa, ac a fethasant ei chyrhaeddyd, er cefnogi yr alwad a'r annogaeth arnom ni i ofni.

Wrth *ei orphwysfa ef* yn ddiau y golygir, gorphwysfa ysbrydol, santaidd, a nefol—gorphwysfa enaid yn a chyda Duw. Yr oedd addewid o'r orphwysfa hon wedi ei rhoddi yn fore i'r tadau dan yr Hen Destament. Yr oedd y wlad well, a'r un nefol, yn gynnwysedig ynddi, yr hon yr oedd Abraham a'r patriarchiaid eraill yn ei chwennychu. Saif y *wlad well*, a'r *un nefol*, yn gyferbyniol i'r *wlad dda*—yr un ddaearol; yr hon, yn yr addewid o orphwysfa a gawsant hwy, a safai yn ddrych anmherffaith, a chysgod tywyll, o'r orphwysfa ysbrydol a thragwyddol hòno. Tòrodd ffydd yr hen batriarchiaid trwy blisgyn yr addewid at ei chnewyllyn a'i sylwedd: aeth eu bryd trwy *y wlad dda* ar *y wlad well*—heibio i'r Ganaan o orphwysfa ddaearol, dymmorol, i'r Ganaan nefol o orphwysfa dragwyddol. Cofleidiasant yr addewid yn holl lawnder ei chynnwysiad. Daw hyn dan sylw etto.

Y mae yr addewid, yn yr ystyr ysbrydol a nefol a berthynai iddi, wedi ei *gadael i ni*, medd yr apostol—yr un addewid ag a gawsant hwy, er nad yw mwyach yn cynnwys i ni orphwysfa dymmorol a daearol, fel yr oedd iddynt hwy. Gadawyd yr addewid hon i fod yn sail i'n ffydd a'n gobaith am fywyd a gorphwysfa dragwyddol, er ein cymhell i ymdrech a dyfalwch parhaus hyd y diwedd i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno. Y mae ymollyngiad a difaterwch mewn crefydd yn argoeli tebygolrwydd o fethiant. Bydded i ni, gan hyny, ofni, ac ysgwyd ymaith y difaterwch hwn oddiwrthym.

2 Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau: eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn y rhai a'*i* clywsant.

*Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau.* I ninnau, yn y dyddiau diweddaf hyn, wrth y rhai y llefarodd Duw yn ei Fab—y pregethwyd yr efengyl, yr efengylwyd, y cy-

hoeddwyd newyddion da, megys ag iddynt hwythau—y tadau gynt y cyfeiriwyd at eu hanes a'u hamgylchiadau. Nid ydyw yr apostol am i'r Hebreaid feddwl fod yr efengyl wedi ei phregethu i'r tadau hyny gynt yn y cyffelyb fodd ag y pregethir hi i ni yn awr yn holl gyflawnder ei chynnwysiad, ei goleuni, a'i heglurder; ond bod yr addewid o orphwysfa wedi ei hefengylu iddynt hwy megys i ninnau: addewid o'r Ganaan ddaearol yn gartref a gorphwysfa dymmorol ar ol eu caethwasanaeth caled yn yr Aifft, a'u pererindod blin yn yr anialwch; a bod yr addewid o'r orphwysfa ddaearol hòno yn efengylu mewn cysgod iddynt yr un orphwysfa nefol a thragwyddol a osodir yn awr mewn addewid eglur a llawn yn efengyl Crist o'n blaen ni.

Y mae y deongliad a rydd Ebrard ar y geiriau dan sylw yn gloff a chamsyniol, debygwn i. Dywed—

"Y mae y gair a bregethwyd i ni yn anfeidrol well na'r gair a bregethwyd iddynt hwy gan Moses. Yn y lle cyntaf, ni allasai y gair a lefarwyd gan Moses ddim dwyn y gwrandawyr i'r ffydd: yr oedd yn aros yn rhywbeth o'r tu allan iddynt. Yr oedd yn dal allan addewid, y mae yn wir, ac yn cysylltu ammod â hi; ond nid oedd yn cyfranu dim nerth i gyflawni yr ammod. Ac yn ail, nid oedd yr addewid gynnwysedig yn y gair hwnw, gyda golwg ar ei hystyr, yn addewid o'r wir a'r briodol orphwysfa. Gorphwysfa ddaearol ydoedd yr un a ddelid allan ynddi, pan mai gorphwysfa ysbrydol a thragwyddol ydyw yr un a addewir i ni yn yr efengyl."

Drachefn efe a ddywed—

"Nid yw yn rhyfedd bod camddeongliad o'r adn. 1, wedi arwain y rhan fwyaf o esbonwyr i hollol gamddealltwriaeth o'r adnod hon. Tybiant hwy mai anghrediniaeth yr Iuddewon sydd i'w olygu yn y lle hwn fel yn pen. iii. 16—19, yr hwn a ddygir yn mlaen yma drachefn fel rheswm i ddangos paham na chyrhaeddasant yr orphwysfa: pan yn y lle hwn y gosodir yn hytrach *anmherffeithrwydd gwrthddrychol dadguddiad yr Hen Destament* yn rheswm dros anmherffeithrwydd cyflawniad yr addewid."

Rhydd yr esboniad yna, debygid, esgusawd gwych dros anghrediniaeth yr hen genedlaeth hòno; nid oedd ei phechod mor fawr wedi y cwbl. Os credwn ddeongliad Ebrard, rhaid i ni edrych arni yn wrthddrych i dosturio drosti, yn fwy nag i'w beio a'i chondemnio. Y mae yn peri i'n rheswm a'n cydwybod betruso yn nghylch prioldeb a chyfiawnder dedfryd y Barnwr, yn tyngu wrthi yn ei lid na cha'i fyned i mewn i'w orphwysfa ef o herwydd ei hanghrediniaeth o'r addewid, os na chawsai ond y fath weinidogaeth anmherffaith, yr hon a ddaliai allan addewid am orphwysfa o'i blaen, a gysylltai ammod â'r addewid hòno, ond heb fod ganddi y nerth angenrheidiol i'w gyfranu i'w deiliaid i gyflawni yr ammod. Y mae yr esboniad, feddyliem, yn rhedeg yn union yn wrthwyneb i amcan yr apostol yn y lle.

Am y gosodiad cyntaf—bod y gair a bregethwyd iddynt hwy yn un anmherffaith i ddwyn ei wrandawyr i'r ffydd, ac i gyfranu y nerth angenrheidiol iddynt i gyflawni ammod yr addewid, &c., gallem ofyn, Pa anmherffeithrwydd a diffyg oedd yn natguddiad neu weinidogaeth Moses *i ddwyn ei gwrandawyr i'r ffydd*, neu i gyfranu y nerth angenrheidiol iddynt i gyflawni ammod yr addewid, a myned i mewn i'r orphwysfa? Beth oedd ychwaneg i'w wneuthur nag a wnaed iddynt? Dygwyd hwy allan o'r Aifft, a thrwy y Môr, arweiniwyd hwy trwy yr anialwch â'r golofn niwl a thân, cawsant eu porthi â manna o'r nef, eu diodi â dwfr o'r graig. Cawsant y profion cadarnaf oedd yn bosibl o allu a ffyddlondeb Duw i gyflawni ei addewid iddynt, i'w dwyn i etifeddu a mwynhau yr orphwysfa. Yr oedd yr holl arwyddion a'r rhyfeddodau mawrion a nerthol a welsant yn fanteisiol i'w ffydd; fel nad oedd nac anmherffeithrwydd na gwendid, na diffyg, yn y weinidogaeth; ond cynnygiai bob nerth angenrheidiol iddynt i gyflawni ammod yr addewid, sef ei chredu, mewn trefn i feddiannu a mwynhau ei rhagorfraint, sef yr orphwysfa.

Y mae yr ail osodiad mewn perthynas i gynnwysiad yr addewid, sef nad oedd yn cynnwys *y wir a'r briodol orphwysfa—mai un ddaearol yn unig a ddaliai allan*, yn syrthio i'r llwch yn wyneb tystiolaeth yr apostol mewn lle arall yn yr epistol hwn, pan y dywed fod Abraham a'r patriarchiaid eraill a dderbyniasant yr addewid gyntaf, yn chwennychu gwlad neu orphwysfa well, *hyny ydyw, un nefol.* Ni allasent hwy goledd y fath chwennychiad neu

obaith heb addewid yn sail iddo. Yn awr, yr un addewid a efengylasai Duw i Abraham, Isaac, a Jacob, a efengylodd Moses drachefn i ddeiliaid ei weinidogaeth ef. Derbyniasai y patriarchiaid hyny yr addewid o Ganaan yn orphwysfa ddaearol i'w had hwy trwy ffydd. Buont fyw a marw yn y ffydd hòno. Coffäent am yr addewid wrth farw, rai o honynt, er cadarnhau ffydd eu had ynddi, a chadw yn fyw ynddynt y gobaith a'r dysgwyliad am dani. Ond derbyniasant yr addewid hefyd yn ei hystyr gyfrinol, fel yr oedd yn cynnwys gorphwysfa ysbrydol a nefol. Nid oedd yr ystyr hon i'r addewid wedi ei thynu allan o honi pan efengylodd Moses hi i had y patriarchiaid hyny; ond yr oedd yn aros iddynt hwy yn holl gyflawnder ei chynnwysiad, yn gystal ag y buasai i'w tadau. Ymddengys Ebrard fel pe byddai am esbonio yr efengyl allan o'r Hen Destament, a'i gwneud yn weinidogaeth dymmorol yn unig. Ond haera Paul yn bendant yn y gwrthwyneb iddo: "A'r ysgrythyr yn rhagweled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y cenedloedd, a ragefengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genedloedd." A thrachefn, "I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer, ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist." "A hyn yr wyf yn ei ddywedyd am yr ammod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yn Nghrist, nad yw y ddeddf oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymu, i wneuthur yr addewid yn ofer," Gal. iii. 8—16, 17. Yr oedd yr efengyl gan hyny wedi ei chyhoeddi a'i chadarnhau i Abraham mewn cyfammod ac addewid bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd cyn rhoddiad y gyfraith trwy Moses. Rhag-efengylasid yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd i Abraham oesau lawer cyn cyhoeddi athrawiaeth y ddeddf. Ac yn mhellach, dengys yr apostol nad oedd "y ddeddf yn erbyn addewidion Duw."—Nad oedd cyhoeddiad ei gweinidogaeth, a sefydliad ei defodau hi, yn dirymu yr addewid a gadarnhesid bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd yn flaenorol—i'w gwneuthur yn ofer. Yr oedd yr addewid felly yn aros yn ei llawn rym; yr oedd yn bob peth ag y rhoddasid hi ar y cyntaf i Abraham, i'r genedlaeth y cyfeirir ati yn yr ymadroddion sydd dan ein sylw: yn cynnwys yn mlaenaf, orphwysfa dymmorol iddi yn Nghanaan; ac yn gyfrinol, orphwysfa ysbrydol a thragwyddol yn y nefoedd; a ffydd, derbyniad crediniol o'r addewid, ymorphwysiad hyderus ar allu a ffyddlondeb Duw i'w chyflawni, oedd yr unig beth a osodid yn ammod mynediad i mewn i, a mwynhad o'r naill fel y llall.

Pe unig amcan yr apostol fuasai profi bodolaeth cyflwr dyfodol, a bod sefyllfa o orphwysiad a dedwyddwch i'w gael a'i fwynhau yn y byd a ddaw, gallasai wneud hyny mewn ffordd ferach a mwy uniongyrchol, trwy gyfeirio at ymadroddion pendant Crist, yn nghyda'i adgyfodiad a'i esgyniad, fel y mae efe yn profi yr athrawiaeth o adgyfodiad y meirw yn y bymthegfed bennod o'i lythyr cyntaf at y Corinthiaid; ond ei brif amcan yn y lle hwn ydyw profi bod yr Hen Destament yn dal allan yr athrawiaeth hon am fyd i ddyfod, ac am orphwysfa dragwyddol i'r ffyddloniaid gyda Duw—mai nid athrawiaeth newydd ddiweddar oedd hon—ei bod wedi ei hefengylu i Abraham, ac i'r genedl yn yr anialwch; a bod y credinwyr dan yr Hen Destament wedi myned trwy ffydd ac amynedd i etifeddu yr orphwysfa hòno; ac mai anghrediniaeth yn unig oedd yn cau dynion allan o honi dan bob goruchwyliaeth. Pregethwyd yr efengyl hon i ninnau megys iddynt hwythau, medd ef.

*Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyddymheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant.* Dyna oedd yr achos, a'r unig achos, na bu y gair yn fuddiol iddynt hwy, sef y genedlaeth y pregethwyd ef iddi yn yr anialwch. Nid o herwydd bod un diffyg nac anmherffeithrwydd yn y gair ei hun, ond ynddynt hwy, gwrandawyr y gair, yr oedd yr achos—y diffyg. Ni bu yn fuddiol, yn effeithiol, i'w dwyn i'r orphwysfa, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffydd ynddynt. Pe credasent ef, dygasai hwy i'r orphwysfa addawedig. Nid gair ofer a fuasai iddynt. Yr oedd yn agos atynt.

Yr oedd yr Addawr eisoes wedi gwneuthur mwy drostynt wrth eu gwaredu o'r Aifft, a'u harwain trwy yr anialwch, nac oedd yn angenrheidiol i'w wneuthur etto er eu rhoddi mewn meddiant o'r orphwysfa. Yr oedd eu hanghrediniaeth o'r addewid yn llawer mwy anesgusodol yn rhosydd Moab, nac ydoedd yn yr Aifft, pan wrthodent wrando ar Moses yno. Ni bu y gair yn fuddiol iddynt, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru — ei gydgymysgu â ffydd, neu am na dderbyniwyd ef yn ffyddiog, yn grediniol, ganddynt. Fel nad yw yr ymborth yn llesâu y cyfansoddiad naturiol oni bydd iddo gael ei dderbyn i'r cylla, ei dreulio, a'i droi yn sylwedd maethlon yno, fel ag i ddyfod yn rhan a sylwedd o hono; felly nid all y gair lesâu yr enaid, oni dderbynir ef yn grediniol, fel ag i ddyfod megys yn gyfranog o'r cyfansoddiad ysbrydol —yn fywyd, maeth, nerth, a chynnaliaeth y meddwl: "Yr hwn sydd yn credu, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun." O'r tu allan iddo yr oedd cyn ei chredu, ond wedi hyny y mae hi ynddo, fel rhan o hono; megys y mae yr ymborth a dreulir yn dyfod yn rhan o'r corff. Pa un bynag a oedd y gymhariaeth hon yn ngolwg yr apostol wrth ysgrifenu y geiriau ai peidio, fel y barna rhai, y mae yn un ddigon priodol i'r pwrpas fel eglurhad arnynt.

3 Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megys y dywedodd efe, [e]Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i: er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.

[1] Salm 95. 11.

*Canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa.* Felly hefyd yr oedd y credinwyr gynt. Yr oedd Caleb a Josuah yn myned i mewn i'r orphwysfa ddaearol, mewn ystyr, pan ddywedent, "Awn, a meddiannwn y wlad.—Nac ofnwch hwynt; canys bara i ni ydynt," &c. Dyna lais ac iaith ffydd rhai yn myned i mewn,— penderfynol i fyned a meddiannu yr orphwysfa, pan ydoedd corff y genedl yn tynu yn ol trwy anghrediniaeth, ac am osod pen arnynt i ddychwelyd i'r Aifft. Yr oedd y rhwystrau yn anorfod, yn eu golwg hwy, iddynt allu meddiannu y wlad. Yr oedd y gwŷr yr oedd *ysbryd arall* ynddynt—ysbryd ffydd, yn wrol a phenderfynol eu bryd ar fyned i etifeddu gorphwysfa yr addewid; ac aethant hefyd, yn nerth a rhinwedd y penderfyniad ffyddiog hwnw. Bu gair yr addewid yn fuddiol iddynt hwy. Felly yr ydym *ni* yn awr, y *rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa* ysbrydol a nefol, a ddelir allan o'n blaen yn yr efengyl—a bregethwyd i ni, er heb ei chyrhaeddyd a'i meddiannu yn llawn a pherffaith etto. Yr ydym *yn* myned ar ein taith tuag ati. Y mae ein hwynebau arni. Yr ydym yn cael blaenbrawf o honi, ac y mae ein bryd ar fyned i mewn iddi, a'i llawn feddiannu. "Myned yr ydym i'r lle am yr hwn y dywedodd yr Arglwydd, Rhoddaf hwnw i chwi," ebe Moses wrth Hobab, ei chwegrwn; ac felly y dywed yr apostol yma, "Yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa."

*Megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.* Ymadrodd a goffawyd amryw weithiau o'r blaen, a ddywedodd efe wrth, ac am y genedlaeth hòno. Yr oedd yr orphwysfa wedi ei haddaw a'i darparu iddynt. Cafodd y genedlaeth a ddygwyd o'r Aifft gynnyg ar fyned i mewn iddi; ond gwrthodasant hi. Troisant eu cefnau arni. Cauasant eu hunain allan o honi trwy eu hanghrediniaeth. Ond nid aeth y ddarpariaeth yn ofer, na'r addewid yn ddirym er hyny; canys aeth y genedlaeth nesaf, eu plant hwy, am y rhai y dywedasent y byddent yn yspail, i mewn iddi, yn nghyda'r ychydig gredinwyr o'r genedlaeth hòno ei hun. Felly ni wnaeth eu hanghrediniaeth hwy ffydd neu addewid Duw yn ofer, canys cyflawnwyd hi i'r ffyddloniaid.

*Er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd.* Nid oes un ymadrodd yn yr epistol hwn, nac hwyrach yn yr holl ysgrythyr, wedi peri mwy o benbleth i feirniaid ac esbonwyr, ag a roddodd yr ymadrodd hwn. Cymerwn ein cenad i ymaros yn

hwy gydag ef nag yr arferwn fod gydag ymadroddion eraill yn gyffredin. Y mae yr holl feirniaid dysgedig a fuont yn trafod yr ymadrodd, yn mron, (ac y maent yn lleng) yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall am y modd y dylid ei gyfieithu a'i ddeall. Cyfieitha Tindal ef fel hyn:—"A hyny a ddywedodd efe yn wir, lawer o amser wedi cyflawni y gweithredoedd a wnaed er seiliad y byd." Aralleiria Doddridge ef fel y canlyn:—"Hyn a bar i ni adgofio yr hyn a ddywedir mewn lle arall am ei weithredoedd ef, fel yr oeddynt wedi eu gorphen er seiliad y byd." Stuart a'i cyfieitha:—"Fel y tyngais yn fy llid na chaent (anghredinwyr) fyned i mewn i'm gorphwysfa i, (sef gorphwysfa oddiwrth y gweithredoedd a gyflawnwyd wedi seiliad y byd.") Robinson a ddywed, "Na all yr orphwysfa y sonir am dani yma fel *fy ngorphwysfa i*, olygu gorphwysfa Duw oddiwrth ei weithredoedd (Gen. ii. 2), oblegid gyda golwg ar hòno yr oedd y Sabbath eisoes yn aros er creadigaeth y byd. Gwna Tholuck yr ystyr hwn i'r ymadrodd:—"Cauwyd yr Israeliaid allan o'r orphwysfa; er hyny gorphwysodd Duw yn y nefoedd wedi gorphen gwaith y cread, fel yr oedd gorphwysfa wrthddrychol yn hanfodi." Cyflenwa Bleek feddwl yr ymadrodd yn debyg i hyn:—"Gorphwysodd Duw oddiwrth grëu; ond y mae gorphwysfa Duw yn gyfranogol yn ei natur: ac felly dyna y pryd y mae efe yn gorphwyso mewn gwirionedd, pan orpheno efe y gwaith o amlygu, neu roddi hysbysrwydd o hono ei hun i'w greaduriaid." Ond rhy faith fyddai i ni olrhain y beirniaid yn y ffordd hon. Gorphwysfa Duw ar ol gorphen ei weithredoedd fel Creawdwr a olygir, medd un, a bod yr addewid i ni i fyned i gydgyfranogi a mwynhau o'r orphwysfa hòno. Gorphwysfa oddiwrth y llafur y mae plant dynion ynddo ar y ddaear, o oes i oes, er dechreu y byd, medd un arall.

Y mae Ebrard yn diystyru holl ymgais y beirniaid eraill i egluro yr ymadrodd, ac yn eu troi heibio gan eu dwrdio yn chwerw. Haera ef yn ddibetrus fod *gweithredoedd* yn y fan hon yn sefyll yn gyferbyniol i ffydd.

"Y mae y gwir ddeongliad," medd ef, "i'w dynu o adn. 2. Sicrha yr awdwr yno am y gair a lefarwyd trwy Moses, na chymysgwyd, neu na chyd-dymherwyd ef â ffydd yn y rhai a'i clywsant; ei fod yn aros yn rhywbeth o'r tu allan, ac yn estronol iddynt: o ganlyniad, na allasai fod yn fuddiol iddynt. Yn gyferbyniol i hyn, dengys yn adn. 3, ein bod ni, aelodau Israel y Testament Newydd, yn myned i mewn i'r orphwysfa y cauwyd Israeliaid yr Hen Destament allan o honi, a'n bod yn myned i mewn trwy ffydd. * * *

"Rhaid i ni ofalu i beidio cyfyngu y meddylddrych cynnwysedig yn y ἔργα at weithredoedd da. O'r cyfryw weithredoedd yn wir nid oedd dim wedi eu cyflawni er creadigaeth y byd. Yn hytrach hyny a fwriadai yr apostol ei ddangos—er bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur o ddechreuad y byd, etto, nad aeth yr Israeliaid i mewn i'r orphwysfa; gan nad oedd y gweithredoedd hyny, yr un o honynt yn dda, ond yn ddrwg: o leiaf yn amherffaith—yn weithredoedd wedi eu llychwino â phechod.

"Yn y cyffelyb fodd, rhaid gochelyd cyfyngu yr ystyr yn ἔργα i weithredoedd y ddeddf hefyd—cyflawniadau o orchymynion cyfraith Moses. Nid oedd y rhai hyny, o angenrheidrwydd, wedi eu gwneuthur er seiliad y byd, ond yn unig wedi rhoddiad y ddeddf ar Sinai. Na; llefara yr apostol am weithredoedd dynion—gwaith yr hil ddynol—pob ymdrech, pob llafur—da neu ddrwg. Y meddwl mewn geiriau penodol ydyw hyn:—Cafodd yr oll a gynnwysir yn yr ymadrodd *gweithredoedd*, ei gyflawni o amser dechreuad y byd yn mlaen; ond ni fu erioed yn ddigonol ac effeithiol i ddwyn dyn i'r καταπαυσις—i gyflwr o orphwysfa."

Haera Ebrard yn ddibetrus mai dyna y gwir feddwl, a'i fod yn eithaf syml, eglur, a hawdd ei ganfod; a syna oblegid nad oedd neb wedi ei gael allan o'i flaen ef. Gyda phob dyledus barch i'r beirniad Ellmynaidd dysgedig hwn, rhaid i ni ddywedyd na allwn yn ein byw gredu ei fod mor eglur a syml ag yr hòna ef ei fod; ond yn hytrach ei fod yn ddeongliad aneglur, tywyll, estronol, annaturiol, a chloff iawn. Ni thycia yr attegion o haeriadau cryfion dros ei gywirdeb a esyd yr adeiladydd o dan ei fur, ddim er ei ddal i fyny. Y mae y deongliad yn seiliedig ar y camsyniad y ceisiwyd ei wrthbrofi o'r blaen, sef y deongliad a rydd y beirniad hwn o'r adnodau blaenorol. Anhawdd iawn ydyw i ysgrifenydd dinod ymyraeth â golygiadau dynion enwog mewn dysg a galluoedd, a nodi allan yr hyn a farno yn gamsyniol ynddynt, heb ymddangos fel yn hocedus a haerllug. Goddefir i'r naill feirniad dysgedig drin golygiadau y llall gyda phob hyfdra yn ddi-

wahardd, heb i neb ei feio fel un haerllug a digywilydd; ond teimla yr ysgrifenydd ei fod ef yn sefyll ar dir tra gwahanol; gan hyny, erfynia hynawsedd ei ddarllenwyr pan yr anturia gynnyg deongliad ar yr ymadrodd dan sylw, pur wahanol oddiwrth bob un a welodd ac y clywodd ef am dano. Pell oddiwrtho fyddo haeru sicrwydd cywirdeb y deongliad; ond yn unig cynnygia ef i sylw fel un sydd yn ymddangos iddo ef yn lled foddhaol.

Ein hymofyniad cyntaf ydyw, Beth sydd i'w ddeall wrth *seiliad y byd* yn y lle hwn? Pa un ai y nefoedd a'r ddaear yn llythyrenol—y greadigaeth gyntaf, fel y mae yr holl feirniaid a'r esbonwyr, hyd y gwn i, yn cymeryd yn ganiataol, a olygir; ynte ai ni allai fod ystyr arall gyfrinol, neu fenthycol, i'r ymadrodd? Yn nesaf, A oes ystyr arall felly iddo yn rhywle yn yr ysgrythyr, ac yn neillduol yn yr epistol hwn?

Rhaid i ni gymeryd yr ymofyniad olaf i fyny yn gyntaf. Yn Esa. li. 16, dywed yr Arglwydd wrth ei was Jacob fel hyn:—"Gosodais hefyd fy ngeiriau yn dy enau, ac yn nghysgod fy llaw y'th doais; fel y planwn y nefoedd, ac y seiliwn y ddaear, ac y dywedwn wrth Seion, Fy mhobl ydwyt." Y mae yn eithaf amlwg na all y nefoedd a'r ddaear yn y geiriau hyn fod yn golygu y greadigaeth ddefnyddiol (*the material world*), oblegid yr oedd y nef a'r ddaear yn yr ystyr hòno wedi eu planu a'u seilio fwy na dwy fil o flynyddoedd cyn i'r amgylchiad y cyfeirir ato yma gymeryd lle. Rhaid i ni, gan hyny, ddeall yr ymadrodd mewn ystyr arall, fenthycol, yn golygu sefydliadau gwladwriaethol ac eglwysig y genedl. Gwaith yr Arglwydd yn hysbysu ei ddeddfau a'i farnedigaethau iddi ar Sinai, ac felly yn gosod ei eiriau yn ei genau;—yn ei chysgodi ac yn ei chynnal dan y "mynydd teimladwy, oedd yn llosgi gan dân, a thywyllwch, a thymhestl, a llef geiriau," pan oedd yr olwg a'r weinidogaeth mor ofnadwy, ag y dywedodd Moses, "Yr wyf yn ofni ac yn crynu." Yno, efe a greodd y genedl megys iddo ei hun;—*planodd ei nefoedd;* hyny yw, sefydlodd egwyddorion, trefn, a defodau ei chyfansoddiad eglwysig, a'i gwasanaeth crefyddol. *Seiliodd ei daear*, sef ei deddfau a'i barnedigaethau gwladol. Dywedodd wrthi, "Fy mhobl ydwyt." Aeth dan gyfammod â'r genedl i fod o hono yn Dduw iddi, ac i fod o honi hithau yn bobl briodol iddo ef.

Wrth y nefoedd a'r ddaear yn y lle hwn, gan hyny, yr ydym i ddeall cyfansoddiad eglwysig a gwladol y genedl —"gwladwriaeth Israel" a blanwyd ac a seiliwyd gan Dduw ei hun ar Sinai. Yr oedd yn waith Creawdwr—yn greadigaeth nefoedd a daear newydd, nad oedd dim o'r fath yn hanfodi o'r blaen.

Arfera yr un prophwyd yr un ymadrodd amryw weithiau am sefydliad goruchwyliaeth y dyddiau diweddaf, neu deyrnas Crist yn y byd. Crëu "nefoedd newydd a daear newydd."

Ond y mae yr ymadrodd yn yr un ystyr yn cael ei ddefnyddio gan yr apostol yn y llythyr hwn hefyd. Yn niwedd y ddeuddegfed bennod, mewn cyfeiriad at eiriau yn mhrophwydoliaeth Haggai, efe a ddywed, "Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear: ac yn awr a addawodd, gan ddywedyd, Etto unwaith yr wyf yn cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd. A'r Etto unwaith hyny, sydd yn hysbysu symudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau wedi eu gwneuthur, fel yr arhoso y pethau nid ysgydwir." Yn awr, y mae yn eithaf eglur mai wrth y nef a'r ddaear a ysgydwir, a gynhyrfir, ac a symudir, yma, y mae i ni ddeall y corfforiaeth Iuddewig, yn eglwysig a gwladol—y nefoedd a'r ddaear a blanasai ac a seiliasai Duw ar Sinai. Ysgydwodd ei lef y greadigaeth gyntaf—y ddaear, pan ddisgynodd efe ar Sinai i gyflawni y gwaith hwnw o grëu. "Etto unwaith efe a addawodd gynhyrfu y nef a'r ddaear" hyny drachefn, y rhai a blanodd ac a seiliodd efe y pryd hwnw, mewn trefn i grëu nefoedd a daear newydd etto ar eu hadfeilion, sef y deyrnas ddisigl—goruchwyliaeth yr efengyl—yr hon sydd i aros a pharhau hyd ddiwedd amser, pan rydd y Messïah y deyrnas i Dduw a'r Tad.

Os caniateir mai wrth *seiliad y byd* yn y testun dan sylw, y golygir sefydliad yr oruchwyliaeth Iuddewig, y mae

ystyr yr ymadrodd yn eglur. Gwnaethai yr Arglwydd weithred o drosglwyddiad (*deed of gift*) o wlad Canaan, mewn cyfammod ac addewid, yn orphwysfa i had Abraham, yn ei neillduad ef o blith ei bobl, a'i alwad allan o'i wlad "i fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth." Adnewyddodd a chadarnhaodd y weithred neu yr addewid hon i Isaac a Jacob, a thrachefn dan gyfammod newydd Sinai i'r genedl, fel yr aeth y "cyfammod âg Abraham, a'i lw i Isaac," yn gyfammod a "llwon y llwythau:" ond etto, er fod "y *gweithredoedd*" fel hyn "wedi eu gwneuthur," eu cadarnhau, a'u selio lawer gwaith "er seiliad y byd"—*gweithredoedd* yn sicrhau gwlad Canaan yn etifeddiaeth a gorphwysfa iddynt, efe a dyngodd yn ei lid na chaent fyned i mewn iddi; o herwydd iddynt hwy, trwy eu hanghrediniaeth, wrthod myned i mewn, pan oedd efe yn ceisio ganddynt fyned. Cymerodd hwy ar eu gair, a gwrthododd adael iddynt fyned dros yr Iorddonen i'w meddiannu, pan aethant hwy yn daer wedi hyny am ei ganiatâd. Cyflawnwyd yr addewid, gwnaed y *gweithredoedd* yn dda i'w plant hwy—y genedlaeth nesaf, yr hon, efallai, ydoedd yr un fwyaf rhinweddol a chrefyddol o holl genedlaethau plant Israel. Bu y gair a glybuwyd felly yn fuddiol i'r genedlaeth hòno, yn eu perthynas â'r addewid o Ganaan fel gorphwysfa ddaearol. Ni bu farw y plant am anwiredd y tadau.

Yn nghyfarchiad y Barnwr i'r rhai ar ei ddeheulaw yn y dydd olaf, efe a ddywed, "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi (απο καταβολης κοσμȣ) *er* seiliad y byd." Dichon fod golwg yr apostol ar ymadrodd y Barnwr wrth ddefnyddio yr ymadrodd fu dan ein sylw. Dywed y Brenin wrth fendigedigion ei Dad, bod y deyrnas o dragwyddol orphwysfa a dedwyddwch y gwahodda hwy i'w hetifeddu, wedi ei pharotoi *er seiliad y byd;* sef, debygid, wedi ei datguddio a'i haddaw i'r ffyddloniaid er dechreuad amser, fel yr oedd wedi bod yn wrthddrych eu ffydd a'u gobaith yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth. Nid at y trefniad tragwyddol o honi yn nghynghor ac arfaeth Duw, y cyfeiria yr ymadrodd, debygid; canys blaenddodyn arall a ddefnyddia pan yn llefaru am bethau yn yr olwg hòno; megys yn Ioan xvii. 5: "A'r gogoniant oedd i mi gyda thi (προ τȣ τον κοσμιον εἶναι παρα σοί) *cyn* bod y byd." A thrachefn, adn. 24: "Canys ti a'm ceraist i (προ καταβολης κοσμȣ) er *cyn* seiliad y byd."

Yr oedd y weithred o barotoi y deyrnas wedi ei chyflawni mewn datguddiad ac addewid o honi er seiliad y byd, neu er amser boreuaf dynoliaeth ar y ddaear, yn union wedi y cwymp. Megys mewn lle arall y sonir am Grist fel "yr Oen yr hwn a laddwyd er dechreuad y byd," (Dat. xiii. 8), yr oedd yr holl aberthau a laddwyd er dechreuad y byd yn rhagosod allan ei laddiad neu ei farwolaeth ef.

Yr hyn a fynwn ei awgrymu (nid ei haeru) ydyw hyn—y gall fod cyfatebiad rhwng geiriau yr apostol â geiriau y Barnwr wrth y gwynfydedigion; sef, megys y dywed y Barnwr, fod y deyrnas wedi ei pharotoi i fendigedigion ei Dad, mewn datguddiad ac addewid o honi i'r ffyddloniaid er seiliad y byd—er cychwyniad cyntaf gyrfa dynoliaeth syrthiedig ar y ddaear, mai felly yn gyffelyb y dywed yr apostol, bod y weithred o barotoad, neu roddiad gwlad Canaan yn etifeddiaeth a gorphwysfa apwyntiedig iddynt gan Dduw, wedi ei chyflawni i'r Israeliaid mewn cyfammod ac addewid er seiliad eu byd hwythau, neu ddechreuad eu bodolaeth fel cenedl neillduedig gan Dduw, a sefydliad eu corfforiaeth eglwysig a gwladwriaethol ar Sinai: ond iddo er hyny dyngu yn ei lid na chaent fyned i mewn iddi, o herwydd iddynt eu dyfarnu eu hunain yn annheilwng o honi trwy eu hanghrediniaeth.

Y mae y geiriau yn gwasanaethu amcan yr epistol, fel dadl i gymhell yr Hebreaid Cristionogol i fod yn wyliadwrus, gofalus, a dyfal yn eu crefydd —i ofni rhag bod neb o honynt yn debyg i fod yn ol o'r orphwysfa a ddelid allan o'u blaen yn yr efengyl—drwy ddwyn ar gof iddynt ddarfod i'w tadau hyny syrthio yn fyr o gyrhaedd yr orphwysfa hòno, a ddelid allan mewn addewid a wnaethid o honi iddynt, ac a osodasid o'u blaen o

ddechreuad cyntaf eu bodolaeth genedlaethol; a bod eu methiant a'u cwymp hwy yn rhybudd o'r fath ddwysaf i ddeiliaid yr efengyl, i'w cyffroi i ofni a gwylio, rhag yn y cyffelyb fodd iddynt hwythau fod yn ol o'r orphwysfa nefol hòno, a barotowyd, a ddatguddiwyd, ac a ddaliwyd allan dan bob goruchwyliaeth o ddechreuad amser; ond yn awr dan yr efengyl, mewn modd llawer cyflawnach ac eglurach nag erioed o'r blaen, pan y mae "bywyd ac anllygredigaeth wedi eu dwyn i oleuni."

4 Canys efe a ddywedodd mewn man am y seithfed *dydd* fel hyn: [m] A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd.

[m] Gen. 2. 2.

Yr Ysbryd Glan a ddywedodd felly trwy Moses yn Gen. ii. 2. Yr ydym braidd yn synu ddarfod i wr mor ofalus a Moses Stuart fod mor anghofus ac esgeulus a gwneuthur y nodiad canlynol ar yr ymadrodd hwn: "Ni nodir y bennod a'r adnod," medd efe, "yn un lle yn y Testament Newydd, pan goffeir ymadroddion o'r Hen Destament." Pwy a wyddai yn well nag efe, nad oedd yr Hen Destament (na'r Newydd chwaith) wedi eu rhanu yn bennodau ac adnodau hyd rai oesau wedi yr amser yr ysgrifenwyd y gyfran olaf o'r datguddiad dwyfol; ac felly nad oedd yn bosibl cyfeirio at un ysgrythyr yn y dull hwnw? Gallasai yr apostol enwi y llyfr, y mae yn wir; ond cymerai yn ganiataol fod yr Hebreaid mor gyfarwydd yn ysgrythyrau yr Hen Destament, fel nad ydoedd angen am fanylrwydd felly.

Soniasai yr apostol o'r blaen am yr orphwysfa a barotoisai ac a addawsai Duw i had Abraham. Yma y mae am i'r Hebreaid gofio a deall, fod gorphwysfa o flaen hòno yn cael son am dani;—gorphwysfa oedd yn perthyn i oruchwyliaeth flaenorol, wahanol i hòno yr oedd yr Israeliaid dani, i'r hon y perthynai yr orphwysfa wladol. Gorphwysfa *ddyddiol*, neu *ddydd* o orphwysfa, ydoedd y gyntaf hòno. Y *seithfed dydd* wedi dechreuad amser, am yr hwn y dywedir ddarfod i Dduw "orphwyso oddiwrth ei holl weithredoedd" arno. Y mae y gair *gorphwyso* yn ei berthynas â'r creadur yn cyflëu y meddwl o flinder a lludded bob amser; ond yn ei berthynas â'r Creawdwr, rhaid cau y meddwl hwn allan. Canys "ni flina, ac ni ddiffygia Duw tragwyddoldeb; yr Arglwydd, Creawdwr cyrau y ddaear." Wrth ddarfod iddo ef orphwyso oddiwrth ei holl weithredoedd y seithfed dydd, yr ydym i ddeall, iddo attal ei allu creadigol, peidio gwneuthur mwy yn yr ystyr o grëu; ei fod wedi gorphen a pherffeithio yr oll a fwriadasai ei wneuthur; ac yna iddo adolygu yr oll a wnaethai, a'i weled yn "*dda iawn;*"—oll i ddybenion teilwng o hono ef ei hun—ac oll yn berffaith gymhwys i ateb y dybenion goruchel hyny. "Yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd." Dyna ei orphwysfa ef;—ymfoddlonrwydd ei feddwl anfeidrol yn yr holl weithredoedd a wnaethai. Trefnodd y seithfed dydd i fod yn orphwysfa i ddyn yntau —i gael ei gadw ganddo o'r dechreuad, ac i barhau yn wastadol yn *ddydd* o orphwyso oddiwrth lafur.

Yr oedd y dyn cyntaf yn cydgadw y Sabbath cyntaf â Duw. Megys ag y creodd Duw ddyn ar ei lun a'i ddelw ei hun, yr oedd wedi amcanu fod i'r creadur ei efelychu ef ei hun mewn llawer o bethau. Gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio a'i chadw; a dysgodd ef i ymattal oddiwrth bob gwaith a llafur ar y seithfed dydd, megys y gwnaethai efe, y Creawdwr, ei hun. Ar y dydd hwn yn neillduol yr oedd y dyn i fyned i mewn i orphwysfa Duw—i fwynhad o ddedwyddwch o'r un natur ag a fwynha Duw ei hun, trwy edrych a myfyrio ar ei weithredoedd ef. Yr ydoedd hefyd i adolygu ei waith ei hun yn ystod y chwe' diwrnod o'r blaen; a gallasai creadur ufudd, diniwaid, a pherffaith fel Adda cyn pechu, gael gorphwysfa o foddlonrwydd a llawenydd yn ei weithredoedd ei hun wrth eu hadolygu, megys yr oedd y meddwl dwyfol yn mwynhau yn yr adolygiad ar yr eiddo ef. Yr oedd y seithfed dydd felly yn orphwysfa, nid yn unig *o drefniad* Duw iddo, ond hefyd yn un

o'r un natur a gorphwysfa Duw ei hun. Yr oedd gorphwysfa y seithfed dydd, o bosibl, yn wystl i Adda o orphwysfa berffeithiach a gwastadol, wedi y cyflawnai efe ei ufudd-dod dros ystod tymmor ei brawf. Ond cyn mwynhau o hono ragor nag un Sabbath yn mharadwys, y mae yn llwyr debygol i'r oruchwyliaeth hòno derfynu yn ei gwymp.

Nid ydym yn cael gair o grybwylliad am orphwysfa y seithfed dydd drachefn hyd wedi gwaredigaeth Israel o'r Aifft; ond oddiwrth yr hyn a ddywedir yn Exod. xvi. 23—30, y mae yn ddigon amlwg fod y ddefod o gadw y seithfed dydd yn Sabbath, neu orphwysfa, wedi ei chynnal drwy yr holl oesau patriarchaidd hyd hyny, a'i bod yn arferedig gan y genedl yn yr Aifft. Casglodd y bobl o hónynt eu hunain, heb gael gorchymyn na chyfarwyddyd gan Moses i hyny, ddau cymaint o'r manna ar y chweched dydd, yn ddarpariaeth at gadw y Sabbath ar y seithfed. A phan fynegodd penaethiaid y gynnulleidfa y peth i Moses, cymeradwyodd eu gwaith, gan ddywedyd, "Hyn yw y peth a lefarodd yr Arglwydd"—neu, y mae hyn yn gyson â'r peth a lefarodd yr Arglwydd—mewn cyfeiriad, efallai, at sefydliad cyntaf y Sabbath:—"Y fory y mae Sabbath santaidd i'r Arglwydd; pobwch heddyw yr hyn a boboch, a berwch yr hyn a ferwoch; a'r holl weddill, rhoddwch i gadw i chwi hyd y bore. A hwy a'i cadwasant hyd y bore, fel y gorchymynasai Moses: ac ni ddrewodd, ac nid oedd pryf ynddo. A dywedodd Moses, Bwytewch hwn heddyw; oblegid Sabbath yw heddyw i'r Arglwydd: ni chewch hwn yn y maes heddyw. Chwe' diwrnod y casglwch chwi ef; ond ar y seithfed dydd, yr hwn yw y Sabbath, ni bydd efe." Cadarnhaodd yr Arglwydd y sefydliad cyntaf o'r Sabbath drwy attal y manna i ddisgyn ar y dydd hwnw, fel ar ddyddiau eraill; canys pan aeth rhai o'r bobl allan o'r gwersyll ar y seithfed dydd gyda'r bwriad i'w gasglu, ni chawsant ddim, fel y dywedasai Moses wrthynt. Cadarnhaodd ef eilwaith ar Sinai yn y gorchymyn olaf ar y llech gyntaf o'r gyfraith; ac yr oedd ei gysylltu felly â gorchymynion eraill y ddeddf foesol yn ei osod ar sail sefydlog a pharhaus, i barhau mewn grym, o ran ei sylwedd a'i ysbryd, (sef cadwraeth un dydd o saith yn ddydd gorphwysfa oddiwrth waith a llafur cyffredin dyddiau eraill) tra fyddai y gorchymynion eraill yn aros heb eu galw yn ol, neu eu dirymu, yr hyn ni wneir byth: "Canys haws i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nac i un iod, nac un tipyn o'r gyfraith ballu." Yn gysylltiedig â'r gorchymyn i gadw y Sabbath, a roddwyd i Israel ar Sinai, ychwanegwyd un dyben newydd i'r dydd yn ei berthynas â'r genedl, nad oedd yn perthyn iddo o'r blaen, ac na fu byth oddiar hyny yn perthyn iddo yn ei gysylltiad â neb pobl eraill. Yr oedd i barhau yn arwydd iddynt hwy mai mewn "chwe' diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear," ac mai "ar y seithfed dydd y gorphwysodd efe oddiwrth ei holl weithredoedd," fel o'r blaen, yn ol dyben cyntaf ei sefydliad, Exod. xxxi. 17. Ond yr ydoedd gyda hyny i fod yn goffadwriaeth iddynt o'u gwaredigaeth o'r Aifft. "A chofia mai gwas a fuost ti yn ngwlad yr Aifft, a'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw di allan oddiyno â llaw gadarn, ac â braich estynedig: am hyny y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Sabbath," Deut. v. 15. Yr oeddynt hwy, gan hyny, i gysylltu y ddau beth â'u gilydd yn eu meddyliau a'u myfyrdodau, wrth gadw eu Sabbath; sef gweithredoedd Duw fel Creawdwr, a'i weithredoedd nerthol fel eu Gwaredwr hwy allan o'r Aifft; ac i fwynhau felly orphwysfa i'w heneidiau yn Nuw a'i weithredoedd, yn gystal a gorphwysfa i'w cyrff oddiwrth waith a llafur. Yr ydoedd anghrediniaeth ac anghof o weithredoedd Duw yn cau anufuddion y genedl allan o orphwysfa ysbrydol y seithfed dydd, mor effeithiol ag y cauodd eu hanghrediniaeth eu personau wedi hyny allan o'r wlad o orphwysfa.

5 Ac yma drachefn, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.

Dychwela yr apostol unwaith etto at yr ymadrodd a goffasai amryw weithiau o'r blaen, gan fod y mater wedi ei

adael ganddo ar ganol ei ymdriniaeth âg ef, i grybwyll gair am yr orphwysfa gyntaf y sonia yr ysgrythyr am dani.

*Os ânt i mewn*—sef y rhai anghrediniol yn yr anialwch; neu nid ânt—ni chânt fyned i mewn—*i'm gorphwysfa i*—i'r wlad o gartref a gorphwysfa a ddarparaswn ac a addawswn iddynt; ac os parhausant oll yn eu hanghrediniaeth hyd ddiwedd eu hoes—terfyn y deugain mlynedd hyny yn yr anialwch—ni allasent fyned i mewn i'r orphwysfa ysbrydol a nefol chwaith, mwy nag i'r orphwysfa ddaearol a thymmorol.

6 Gan hyny gan fod hyn wedi ei adael, fod rhai yn myned i mewn iddi, ac nad aeth y rhai [n]y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn, o herwydd anghrediniaeth;

[n] Heb. 3. 19.

Dywedasai o'r blaen (adn. 3) "ein bod ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn." *Gan fod hyn wedi ei adael*—wedi ei brofi, fod credinwyr yn myned i mewn. Profir hyn oddiwrth y llw sydd yn cau anghredinwyr allan o herwydd eu hanghrediniaeth. Nid aethant hwy, y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn, o herwydd anghrediniaeth; y mae hyn wedi ei adael ynte, fel canlyniad sicr, fod credinwyr yn myned i mewn. Aeth credinwyr i mewn i bob gorphwysfa y sonid am dani dan bob goruchwyliaeth. Ni ddarparodd Duw un orphwysfa yn ofer ac am ddim, heb fod rhywrai yn myned iddi i'w mwynhau.

7 Trachefn, y mae efe yn penu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymaint o amser; megys y dywedir, [o] Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau.

[o] Salm 95. 7.

Ymadrodd y cyfeiriwyd ato o'r blaen (pen. iii. 13) a lefarodd Dafydd yn Salm xcv. 7. *Ar ol cymaint o amser*—sef yr amser a aethai heibio ar ol penderfynu tynged yr anghredinwyr hyny yn yr anialwch, y cyfeiriai Dafydd ato ar y pryd. Yr oedd yn agos i bum' can' mlynedd wedi myned heibio er y diwrnod y penderfynwyd achos y genedl yn eu perthynas â'r orphwysfa addawedig iddynt, cyn y diwrnod y mae efe yn ei benu yn Dafydd. Y mae efe felly yn cyfeirio golwg y rhai y mae efe yn pregethu iddynt, trwy Dafydd, at y rhai y buasai efe yn pregethu iddynt trwy Moses, mewn trefn iddynt gymeryd addysg a rhybudd oddiwrthynt, a gochelyd ymgaledu fel hwynt-hwy, a syrthio dan yr un gyffelyb farnedigaeth. Gwna yr apostol gymhwysiad arall etto oddiwrth y gweinidogaethau blaenorol hyny, at wrthddrychau gweinidogaeth "y dyddiau diweddaf" hyn, wrth y rhai y mae Duw yn llefaru yn ei Fab.

8 Canys pe dygasai Jesus hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall.

*Canys pe dygasai Jesus hwynt i orphwysfa.* Pe dygasai Josuah—Iesu yr Hen Destament, hwy—y genedlaeth arall hòno a arweiniodd efe i Ganaan, i'r wir a'r briodol orphwysfa—pe cyflawnesid yr addewid yn ei llawn ystyr iddynt hwy, pan y dodwyd hwy mewn meddiant o'r wlad hòno.

*Ni soniasai efe.* Dafydd, neu yn hytrach yr Ysbryd Glan yn ngenau Dafydd.

*Ar ol hyny am ddiwrnod arall.* Yr oedd yr orphwysfa yn cael ei dal allan felly o flaen Israel yn nyddiau Dafydd, bum' can' mlynedd wedi iddynt ymsefydlu yn eu meddiant o Ganaan, i'r hon y dygasai Jesus hwynt.

9 Y mae gan hyny orphwysfa *etto* yn ol i bobl Dduw.

Pen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn. Y mae hyn yn canlyn o angenrheidrwydd—bod gorphwysfa etto yn ol yn aros pobl Dduw—credinwyr dan yr efengyl. Y mae hyn wedi ei awgrymu droion o'r blaen; ond yma dywed yr apostol yn bendant, mai profi hyn oedd ei amcan yn ei ddadleuon blaenorol. Gallasai fod yr Hebreaid yn tybio mai ofer yn awr ydoedd son am orphwysfa wrthynt hwy, gan eu bod yn ngwlad yr orphwysfa addawedig yn trigo, ac eisoes yn ei mwynhau; ac felly fod yr addewid wedi ei

chyflawni. Na, medd yr apostol, nid ydoedd gwaith Josuah yn arwain eich tadau i Ganaan, ac yn eu sefydlu ynddi, ond cyflawniad o *lythyren* yr addewid yn unig. Am *sylwedd* ac *ysbryd* yr addewid, y mae yn cynnwys gorphwysfa na allodd Jesus arwain eich tadau iddi. Canys pe felly, ni soniasai yr Ysbryd Glan trwy Dafydd am ddiwrnod arall, yn mhen cynnifer o flynyddau wedi hyny. Y mae yn rhaid gan hyny, fod gorphwysfa etto yn ol—gorphwysfa amgen a gwell na hòno—i bobl Dduw; yr orphwysfa y mae Iesu y Testament Newydd yn arwain ei ddysgyblion iddi, yr hon a agorai efe o flaen ei wrandawyr yn ei athrawiaeth, pan alwai arnynt gan ddywedyd, "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon: a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau," Mat. xi. 28, 29. Gorphwysfa enaid ydyw—gorphwysfa y mae yr enaid yn myned i mewn iddi *yn awr* trwy ffydd, trwy ddyfod at Grist a chredu ynddo; a gorphwysfa dragwyddol a nefol, gyda Christ, mewn gogoniant wedi angeu.

10 Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnw hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys *y gwnaeth* Duw oddiwrth yr eiddo yntau.

Yn nghylch pwy a olygir wrth *yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef*, yn yr adnod hon, y mae esbonwyr yn anghytuno. "Megys y gorphwysodd Duw oddiwrth ei waith ar y seithfed dydd, ac y mwynhaodd hyfrydwch santaidd mewn adolygiad ar yr hyn a wnaethai; felly y credadyn yn y byd a ddaw, a orphwysa oddiwrth ei holl lafur a'i flinderau yn y byd hwn, ac a adolyga y llafur a'r lludded y daethai drwyddynt, yn nghyda'r ymdrechion a gyflawnodd efe dros achos Crist, gyda hyfrydwch santaidd. Neu, fel y mae Duw yn mwynhau gorphwysfa o'r hyfrydwch puraf a pherffeithiaf yn y nefoedd, felly y mwynha y credadyn y gyffelyb orphwysfa yno," medd Stuart. Felly hefyd Barnes, a'r rhan fwyaf o esbonwyr. Golyga Dr. Owen ac Ebrard mai yr Arglwydd Iesu Grist sydd i'w ddeall wrth "*yr hwn* a aeth i mewn i'w orphwysfa ef," ac y dygir ef yn mlaen yma mewn cyferbyniad i Josuah—Iesu yr Hen Destament, am yr hwn y dywedasid o'r blaen, na ddygasai efe y bobl i orphwysfa. Gwell genym y golygiad hwn na'r llall. Gorphenodd ef ei waith fel Pryniawdwr y byd yn berffaith ac am byth, pan adgyfododd o feirw y trydydd dydd; ac yna aeth i mewn i'w orphwysfa, megys y gorphwysodd Duw y Creawdwr, ar ol gorphen a pherffeithio ei weithredoedd creawl. Mwynha y Cyfryngwr yr un gyffelyb orphwysfa â Jehofa y Creawdwr, yn yr adolygiad ar fawredd, gogoniant, a pherffeithrwydd ei weithredoedd prynedigol. "Yn ei adgyfodiad, a'i esgyniad ef i'r nefoedd," medd Ebrard, "ei fynediad i mewn i'w orphwysfa ef, y dechreuodd yr ail Sabbath dwyfol—Sabbath Duw y Mab; a phan osodir i fyny 'y nefoedd newydd, a'r ddaear newydd,' dechreua Sabbath Duw yr Ysbryd Glan."

Esgyniad y Prynwr i'r nefoedd a roddodd esboniad ar gyflawn feddwl yr addewid o orphwysfa. "Canys holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ïe, ac Amen;" felly yr addewid hon. Efe yw y gwir Arweinydd i'r wir orphwysfa. Cysgod o hono ef ydoedd Josuah, arweinydd Israel; a chysgod o'r wir orphwysfa y mae efe yn ei rhoddi i gredinwyr, ac yn eu harwain iddi, ydoedd Canaan, i'r hon yr arweiniodd Josuah Israel.

Ni allodd Josuah berffeithio ei waith ef yn ei ddydd; canys pan fu farw, yr oedd etto dir lawer iawn heb ei feddiannu; llawer o elynion heb eu gorchfygu, ac o genedloedd heb eu darostwng. Cafodd y Barnwyr a godasant ar ei ol lonaid eu breichiau o waith i oresgyn y wlad; a bu Dafydd yntau mewn rhyfeloedd blinion am y rhan fwyaf o'i oes. Hyny o orphwysfa a gawsant, o werth son am dani, ydoedd ystod teyrnasiad Solomon; ac nid oedd hwnw ond byr mewn cymhariaeth. Ni fuasai Duw byth yn son am orphwysfa mewn addewid o honi, pe na buasai yn cynnwys rhywbeth gwell, mwy syl-

weddol a pharhaus, na'r hyn a fwynhaodd yr Israeliaid yn Nghanaan; a hyny a amcana yr apostol ei brofi o hyd, sef bod gorphwysfa ysbrydol a nefol yn cael ei dal allan yn ysgrythyrau yr Hen Destament; a bod hòno yn awr yn Nghrist wedi ei llawn ddatguddio. Daeth i'r byd i agor teyrnas nef i bawb a gredant, ac i agor ffordd newydd a bywiol i fyned i mewn iddi. Ni bu ef farw fel Josuah, cyn gorphen ei waith. Ni adawodd yr un gelyn heb ei orchfygu, na'r un rhwystr heb ei symud. Aeth i mewn i'r orphwysfa i'w mwynhau ei hun, i gymeryd meddiant o honi, ac i'w pharotoi i'w ganlynwyr. Mesurodd, a bwriodd ei goelbren dros yr holl nefoedd fel ei etifeddiaeth, i'w rhoddi yn etifeddiaeth i'w garedigion. Nid oes dim o'r tir santaidd heb ei feddiannu ganddo; canys "rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear" hefyd.

Yn awr, newidiwyd y dydd o orphwysfa o'r seithfed i'r dydd cyntaf o'r wythnos; a newidiwyd ei enw yn *Dydd yr Arglwydd*—y dydd yr adgyfododd efe ar ol gorphen ei waith, ac y gorphwysodd o hyny allan. Collodd y dydd ei elfen Iuddewig yn hollol; nid oedd o hyny allan yn dyst rhwng yr Arglwydd a'r genedl hòno, mwy na rhyw genedl arall, mai mewn chwe' diwrnod y gwnaeth efe y nefoedd a'r ddaear, nac i'w cadw yn goffadwriaeth am y waredigaeth o'r Aifft. Llyncodd gwaith y Cyfryngwr bob gwaith arall iddo ei hun. Gorpheniad a pherffeithiad ei waith ef bellach sydd i fod yn bwnc y dydd hwnw. Yr ydoedd ysbryd y gosodiad cyntaf, a'r pedwerydd gorchymyn, yn cael eu cadw yn ddihalog fel hyn;—sef bod un dydd o saith yn cael ei gadw yn santaidd i'r Arglwydd, er nad i'w gadw yn null ac ysbryd cadwriaeth y Sabbath Iuddewig. Nid ydyw y sect fanylaf o Gristionogion yn ceisio ei gadw felly. Nid oes neb, a'r a wyddom ni, yn peidio cynneu tân yn eu hanneddau, nac yn dadleu am labyddio halogwyr y dydd, a phethau cyffelyb, yn ol y gyfraith Iuddewig o gadw y Sabbath.

11 Byddwn [r] ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno, fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.

r 2 Pedr 1. 10.

Yma casgla yr apostol holl nerth y gosodiadau a'r dadleuon blaenorol, i wasgu ar feddyliau yr Hebreaid y pwys o ofalu, yn y modd mwyaf dyfal a phryderus, rhag i neb o honynt fod yn debyg i fod yn ol. Y mae gorphwysfa i'w chael—y mae yn bosibl myned iddi—y mae yn bosibl, o'r tu arall, ei cholli. Y mae rhai *wedi*, ac *yn*, myned i mewn iddi—y mae rhai hefyd wedi ei cholli—a rhai etto yn debyg o'i cholli.

*Byddwn ddyfal, &c.*—gofalus, egnïol, ymroddgar—*i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno.* Y mae myned i mewn iddi a'i mwynhau i'w dymuno yn fwy na dim arall. Yr "addewid i fyned i mewn i'w orphwysfa ef" ydoedd y peth penaf a gwerthfawrocaf a allasai Duw osod o'n blaen, a'i adael i ni yn ei air a'i efengyl. "Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn" iddi. "Ofnwn gan hyny rhag bod yn debyg i fod yn ol." Nid aeth ac nid â neb i mewn iddi ond trwy lafur ac ymdrech. Felly yr aeth Crist i'w orphwysfa ef, ac felly hefyd yr aeth ac yr â ei ddysgyblion i'r *orphwysfa hòno.* Y mae llawer iawn o rwystrau ac anhawsderau ar y ffordd i fyned trwyddynt; llawer o elynion yn sefyll rhyngom â hi i geisio ein hattal, a'r rhai gwaethaf o honynt ynom ni ein hunain: "Byddwn ddyfal gan hyny."

*Fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.* Y siampl hòno o anghrediniaeth y genedlaeth hòno yn yr anialwch, y cyfeiriwyd ati gynnifer o weithiau o'r blaen. Methodd hòno fyned i mewn i'r orphwysfa addawedig iddi; syrthiodd yn yr anialwch, yn ngolwg ac yn ymyl yr orphwysfa. Dywedasent lawer gwaith mai gwell fuasai iddynt farw yn yr Aifft, na'u lladd yn yr anialwch; ac yr oedd gwirionedd yn hyny hefyd; gwell yn ddiau fuasai iddynt aros yn ngwlad eu caethiwed hyd farw, na dyfod allan o honi ac ymdeithio trwy y diffaethwch i ymyl Canaan, a marw dan farn Duw yno. Ond ar bwy yr oedd y bai? Pwy a pha beth a barai hyny? Neb na dim ond eu cyndyn anghrediniaeth hwy eu

hunain. Er gweled holl fawrion weithredoedd a rhyfeddodau Duw yn yr Aifft, yn maes Zoan, wrth y Môr Coch, ac yn yr anialwch, can gynted ag y clywsant am y dinasoedd caerog, a'r cewri, meibion Anac, syrthiasant yn ysglyfaeth i anghrediniaeth; ac o herwydd eu hanghrediniaeth, syrthiasant yn ysglyfaeth i soriant cyfiawn Duw—syrthiasant yn ol o'i orphwysfa, a chladdwyd eu celaneddau yn yr anialwch. Mor afresymol oedd eu hanghrediniaeth! Mor ddiesgus oeddynt am eu pechod! Y bobl a welsent weithredoedd llaw gadarn a braich estynedig Duw gynnifer o weithiau, mewn gwyrthiau a rhyfeddodau nerthol o'u plaid, yn anghredu yn ei allu a'i ffyddlondeb i gyflawni ei addewid iddynt pan glywsant am ddinasoedd caerog a chewri! Rhoddodd eu hanghrediniaeth felly y gogoniant dyledus i Dduw i feibion Anac: credasant eu bod hwy yn fwy galluog i'w gwrthwynebu a'u hattal i feddiannu y wlad, nag oedd Duw i'w cynnorthwyo i'w goresgyn a'i meddiannu. Nid oedd un lle cymhwys i dderbyn celaneddau y fath genedlaeth ond yr anialwch. Gochelwch esiampl eich tadau, medd yr apostol wrth yr Hebreaid, ac wrthym ninnau; rhag, yn ol yr esiampl hòno, i chwithau syrthio yn fyr o'r orphwysfa a esyd yr addewid o'ch blaen. Gwir fod gelynion a rhwystrau ar eich ffordd, "llawer o orthrymderau," "ymdrech mawr o helbulon," i fyned trwyddynt; ond na ddigalonwch, bydded ynoch yr *ysbryd arall* hwnw oedd yn Caleb a Josuah, ysbryd ffydd ac ymroddiad i fyned a meddiannu gwlad yr addewid. Y mae golwg ar y rhwystrau a'r anhawsderau sydd ar y ffordd i fod yn gadwedig, wedi ac yn digaloni llawer enaid truan i geisio cychwyn arni, a llawer un i droi yn ol wedi cychwyn, gan ddywedyd yn iaith y deg yspïwyr, "Ni allaf fi fyned i fyny yn erbyn y gwrthwynebwyr hyn, canys cryfach ydynt na mi;" ac felly yn syrthio yn ol yr un siampl o anghrediniaeth. Yn erbyn y llwfrdra anghrediniol yma y milwria holl athrawiaeth yr epistol hwn, gan ei osod allan fel y pechod sydd yn taflu y sarhad gwaethaf ar Dduw, a'r un sy'n maglu eneidiau i ddinystr a cholledigaeth.

12 Canys bywiol *yw* gair [q] Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf [r] dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mêr, ac yn barnu [s] meddyliau a bwriadau y galon.

[q] Esa 49. 2. [r] Dad 1 16.
[s] Salm 139 2; Jer. 17. 10; Dad. 2. 23.

*Canys bywiol yw gair Duw, a nerthol.* Wrth *air Duw* yn y lle hwn, golyga amryw esbonwyr, hen a diweddar, yr Arglwydd Iesu Grist—y Gair personol, y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Eraill y gair datguddiedig, ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. Eraill yr efengyl yn y pregethiad o honi; ac eraill bygythion Duw yn ei air. Bod y priodoleddau a nodir yma yn perthyn i berson y Gair tragwyddol sydd amlwg oddiwrth holl dystiolaethau y gair ysgrifenedig am dano; ac y maent oll hefyd yn cael eu priodoli i'r gair datguddiedig, *fel y mae yn wir yn air Duw;* ac yn yr ystyr olaf, debygem, y mae i ni ei gymeryd yn y lle hwn; ac yn enwedig y gyfran hòno o'r gair sydd yn dal perthynas uniongyrchol â'r mater sydd gan yr apostol mewn llaw. Cyhoeddodd a thyngodd Duw na cha'i yr anghredinwyr hyny gynt fyned i mewn i'w orphwysfa ef. Y mae y cyhoeddiad a'r llw hwnw yn fywiol a nerthol, ac mewn grym yn erbyn anghredinwyr etto dan yr efengyl, medd yr apostol, er eu cau hwythau allan o'r orphwysfa sydd i bobl Dduw—credinwyr. Nid yw byth wedi ei alw yn ol, wedi heneiddio a myned yn wan a dirym, erys yr un a'r unrhyw yn barhaus: "Canys nid posibl myned gair Duw yn ddirym." Bywiol yw gair Duw: "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt," medd Crist wrth yr Iuddewon, (Ioan vi. 63). "Wedi eich aileni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd," medd yr apostol Pedr.

*A llymach nag un cleddyf dau-finiog.* Dyma briodoledd arall berthynol i air Duw, ac na pherthyn i air neb arall. Cymherir y gair i *gleddyf* yn fynych yn

**yr ysgrythyr**, Esa. xlix. 2. Dat. i. 16; a ii. 12; a xix. 15. Yr oedd cleddyfau y Rhufeiniaid, y rhai yr oedd yr Iuddewon yn amser Paul wedi profi eu llymder lawer gwaith, ac yr oedd y genedl anghrediniol yr amser yr oedd efe yn ysgrifenu ei epistol hwn ar syrthio yn ab rthau i'w llymder, yn gleddyfau dau-finiog yn fwyaf cyffredin. Yr oedd ofn y cleddyfau hyny ar y genedl. **Wel,** medd yr apostol, y mae gair Duw i'w ofni a chrynu rhagddo yn fwy; canys y mae yn llymach nag un cleddyf dau-finiog. Gosodwyd o'r tu dwyrain i ardd Eden, wedi bwriad Adda allan o honi am ei drosedd, "y cerubiaid, â chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd," (Gen. iii. 24), yn arwydd o benderfyniad y meddwl dwyfol i gyflawni y gair a lefarasai wrtho;—nad oedd y gair hwnw i gellwair âg ef, ond y gwneid ef yn effeithiol a nerthol. Felly yr un modd y mae y gair, y llw, sydd yn cau anghredinwyr allan o'i orphwysfa ef. Y mae yn gleddyf tanllyd ysgwydedig, yn cadw y ffordd, y fynedfa i mewn i'r orphwysfa, rhag yr enaid anghrediniol. Gellir cymhwyso yr ymadrodd hefyd at holl air Duw, yn ddeddf ac efengyl—yn athrawiaethau, bygythion, addewidion, a rhybuddion.

*Ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mer.* Yn treiddio at ac i ffynnonell y bywyd, megys y gwna trywaniad cleddyf trwy y corff glwyf ac archoll marwol ar yr hwn a drywenir âg ef, nes y mae yn gwahanu enaid ac ysbryd—yr enaid anfarwol a'r bywyd anianol oddiwrth eu gilydd, ac yn achosi marwolaeth; felly mae gair Duw mewn ystyr ysbrydol, yn nerthol ac effeithiol i gyrhaeddyd bywyd yr enaid, i beri archollion marwol i'w obeithion a'i hyder gau —*hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd. A'r cymalau a'r mer;*—gwneid felly yn fynych yn nghosbedigaeth troseddwyr o'r fath waethaf. Dryllid hwy â'r cleddyf yn ddarnau; gwahenid eu hesgeiriau a'u cymalau; a thòrid yr esgyrn fel y rhedai y mer allan o honynt. Dywedir ddarfod i Samuel ddarnio Agag, brenin Amalec, ger bron yr Arglwydd yn Gilgal, 1 Sam. xv. 33. Amcan yr apostol yn yr ymadrodd ydyw dangos effeithioldeb cosbawl gair Duw ar ei droseddwyr a'i ddirmygwyr, trwy eu hanghrediniaeth a'u hanufudddod; y treiddia awchlymder cosb y gair i holl ranau y cyfansoddiad ysbrydol; y myn afael ar y teimladau dyfnaf a thyneraf, canys ychwanegir:—

*Ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.* Dywed Stuart fod yr ymadrodd hwn i'w ddeall am Dduw, ac nid am y gair; ond metha ddangos cysondeb ei olygiad â chystrawen a chysylltiad y geiriau. Ymddengys yn bur amlwg mai am y gair y llefara o hyd, debygid. Ac y mae yr ymadrodd yn eithaf priodol am dano, ac yn cydweddu yn dda â'r ymadroddion blaenorol. Canys os priodol ydyw dywedyd ei fod yn "fywiol a nerthol, yn llymach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd," &c., pa anmhriodoldeb ydyw dywedyd ei fod hefyd "yn barnu meddyliau a bwriadau y galon?" Onid ydyw felly mewn gwirionedd? Neu, y mae Duw trwyddo yn gwneud hyny. Mynych yn yr ysgrythyr, yn gystal ac ar arfer gyffredin o ymddyddan, y priodolir gwaith neillduol weithiau i'r gweithydd, ac weithiau i'r offeryn a fyddo yn llaw y gweithydd yn ei gyflawni. Priodolir celanedd maes y gwaed, weithiau i'r cleddyfwyr, y gorchwylwyr; ac weithiau i'r cleddyf, yr offeryn. Y mae y gair yn "barnu meddyliau a bwriadau y galon," pan dywyno ei oleuni i mewn iddi, nes y gwelo y troseddwr ei gyflwr drwg ac andwyol; y llwyr argyhoeddir ef o'i drueni anobeithiol; megys y tair mil hyny ar ddydd y Pentecost, y rhai a ddwysbigwyd yn eu calon dan bregeth Pedr, fel y llefasant allan, gan ddywedyd, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?'

Y mae y gair yn gafaelyd yn mhethau dirgelaf yr enaid—"meddyliau a bwriadau y galon"—ac yn eu barnu yn ol yr hyn ydynt. Ewyllysiai yr apostol argraffu ar feddyliau yr Hebreaid, nas gallasent gynnwys y duedd leiaf i ogwyddo i dir anghrediniaeth a dirywiad yn eu crefydd, a chelu hyny allan o olwg, a'i gadw o gyrhaedd gafael, sylw, a barn y gair.

**13 Ac nid oes greadur anamlwg**

yn ei olwg ef: eithr pob peth *sydd* yn [t] noeth ac yn agored yn ei lygaid ef am yr hwn yr ydym yn son.

t Diar. 15. 11.

Os cymerir bod yr ymadrodd yn golygu y *Bod dwyfol,* cynnwysa y *creadur* bob bod creadigol o bob math, yn mhob man o'i greadigaeth a'i lywodraeth ef. Ond os deallwn ef am y *gair dwyfol,* yna wrth y *creadur* y golygir *dyn* yn unig; oblegid â'r *dyn* yn unig y mae a wnelo y *gair,* neu Dduw yn ei air, âg ef. Ac yn yr ystyr olaf, debygwn, y mae yr ymadrodd i'w ddeall. Y mae yn arwyddo bod y creadur, a phob peth sydd ynddo, *meddyliau* a *bwriadau* dyfnaf a dirgelaf ei galon, yn wrthddrychau sylw a barn y gair dwyfol; nad oes dim yn y creadur yn anamlwg iddo.

*Eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored yn ei lygaid ef. Yn noeth*—yn ddiorchudd, heb ddim yn sefyll rhwng ei olygon â'r gwrthddrych, fel y safai gwddf y creadur a aberthid, wedi y plygid ei ben yn ol, yn noeth i ddyrnod cyllell yr aberthwr. Felly y dywed rhai fod y geiriau, *noeth* ac *agored,* i'w deall yn y lle hwn. Felly y saif yr enaid condemniedig yn wyneb y gair, yn noeth ac agored i'r dialeddau a gyhoedda y gair ar ei gyflwr, fel nad oes dim yn sefyll yn gysgod rhyngddo â'r ergyd dialeddol. Bywyd a nerth, a gallu y gair i wneuthur hyn oll, ydyw ei ddwyfoldeb. Y mae Duw ynddo, yn gweithio trwyddo. Y mae pob peth yn noeth ac yn agored yn llygaid ei ysbrydoliaeth ddwyfol; ac fel y cyfryw yn offeryn â'r hwn y mae efe yn lladd ac yn bywhau eneidiau;—"cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw."

*Am yr hwn yr ydym yn son;* neu, â'r hwn y mae a wnelom ni; neu, i'r hwn yr ydym yn gyfrifol. Nid oes dim anmhriodoldeb mewn cymhwyso yr ymadrodd hwn hefyd at y gair, oblegid y mae y Gwaredwr ei hun wedi llefaru yn y dull hwn am y gair: "Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo un yn ei farnu: y gair a leferais i, hwnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf," Ioan xii. 48. Y mae pob dyn yn gyfrifol i'r weinidogaeth y mae ef dani, neu yn ol y manteision gwybodaeth a fwynha: "Oblegid cynnifer ag a bechasant yn ddiddeddf, a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf; a chynnifer ag a bechasant yn y ddeddf, a fernir wrth y ddeddf," Rhuf. ii. 12. Nid oes a wnelo y ddeddf, fel rheol eu barnedigaeth, ond â'r rhai hyny a'i cawsant yn rheol bywyd. Y mae yr oll o'r cyfryw yn gyfrifol iddi, ac fe'u bernir yn ol eu gweithredoedd ganddi. Siarad â ac am ddeiliaid y gair—deddf ac efengyl—y mae yr apostol; a dangos iddynt eu bod hwy yn ei afaelion, ac nad oedd modd dianc oddiarno; ac y byddent yn sefyll eu prawf olaf yn ei wyneb. Fel y mae deiliaid gwladwriaeth yn rhwym i'w chyfreithiau, ac y dygir y troseddwr i'r llys gwladol i'w farnu wrth a chan y gyfraith, felly y mae deiliaid gweinidogaeth y gair yn gyfrifol i'w awdurdod ddwyfol ef, ac y profir ac y bernir hwy o flaen ei orseddfainc.

14 Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a [u] aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, [v] glynwn yn *ein* proffes.

u Heb. 9. 12, 24. v Heb. 10. 23.

Cysyllta y rhan fwyaf o esbonwyr y geiriau hyn â'r hyn a ddywedasai yr apostol yn niwedd yr ail bennod am yr Archoffeiriad mawr; na wnaethai yno ond yn unig crybwyll am dano, ac yna myned yn mlaen ar y mater oedd ganddo mewn llaw, nes gorphen gydag ef; a'i fod yma yn dychwelyd i gymeryd gafael yn y ddadl oddiwrth swydd a chymeriad Crist fel Archoffeiriad mawr yr efengyl, i gymhell dianwadal ymlyniad wrth y broffes Gristionogol. Ond tybiem fod cysylltiad y geiriau i'w cael yn nes atynt na hyny, yn y ddegfed adnod, "Yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnw hefyd a orphwysodd," &c. Ceisiem ddangos mai yr Archoffeiriad mawr a olygir yno; ac yn awr, "Gan fod wrth hyny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd,"—yr hwn a gwblhaodd waith ei swydd a'i ymddiried yn berffaith, ac a "aeth i mewn i'r nefoedd, i'w orphwysfa ef; ac a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megys y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau," y mae

y gyfryw ffaith yn ddefnydd annogaeth o'r fath gryfaf, a'r calondid mwyaf, i ni i lynu yn ein proffes, a bod yn ddyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno. Dygasai yr apostol yn flaenorol yr ystyriaethau rhybuddiol a bygythiol yn mlaen, i ddangos dirfawr ddrwg, a dirfawr berygl gwrthgiliad; y dinystr anocheladwy a thragwyddol a dynai anghredinwyr arnynt eu hunain; bod llw Duw yn sefyll megys "cleddyf tanllyd ysgwydedig" rhyngddynt â'i orphwysfa ef; bod y gair hwnw yn fywiol a nerthol, yn aros yn ei rym a'i effeithiolrwydd yn barhaus, ac nad oes modd dianc ei sylw na'i afael. Ond un ochr i'r mater ydyw honyna; y mae ochr arall iddo. Yn gystal a rhybuddion trymion, a bygythion ofnadwy, y mae i ni hefyd yr annogaethau mwyaf cysurlawn, a'r cymhellion mwyaf deniadol, i lynu yn ein proffes, ac i barhau mewn ymdrech dyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa. A'r benaf oll o honynt ydyw hon—"Y mae i ni Archoffeiriad, yr hwn a aeth i'r nefoedd." Bu yntau ar y ddaear. Yr ydoedd ganddo waith mawr i'w gyflawni, ond gorphenodd ef. Yr ydoedd rhwystrau mawrion ar ei ffordd, ond aeth trwyddynt. Yr ydoedd iddo elynion cedyrn lawer, ond gorchfygodd hwynt; ac aeth i'r nefoedd yn ei swydd fel ein Harchoffeiriad ni, i ymddangos yno ger bron Duw trosom ni. "Iesu Mab Duw" ydyw yr "Archoffeiriad mawr" hwnw. Y mae yr ystyriaethau o'i berthynas agos â Duw, a'i berthynas agos â ninnau hefyd, yn llawn dyddanwch, calondid, ac annogaeth i ni i lynu yn ein proffes, ac i'n cymhell i ymdrech hyderus i dòri trwy bob rhwystrau ar ein gyrfa tua'r orphwysfa hòno yr aeth efe iddi, ac a ddelir allan trwyddo ef mewn addewid i ninnau.

15 Canys nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddyoddef [w] gyda'n gwendid ni; ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, *etto* heb [x] bechod.

[w] Hos. 11. 8. [x] 1 Pedr 2. 22; 1 Ioan 3. 5.

*Canys nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni.* Yn mhellach etto, y mae yr ystyriaeth hon yn gefnogol iawn; sef, cymhwysder yr Archoffeiriad mawr hwn i'n hachos a'n hamgylchiadau ni. Nid ydyw yn un heb fedru cyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni. Nid yn unig efe a fedr dosturio wrthym ni; ond efe a fedr gyd-ddyoddef—cydymdeimlo â ni, yr hyn sydd fwy. Y mae yn bosibl i un allu tosturio wrth, a thros arall, heb ei fod yn gallu cyd-ddyoddef a chydymdeimlo âg ef. Gall yr Archoffeiriad mawr gyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni, am ei fod—

*Wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau.* Yr oedd yn feddiannol ar natur ddynol wirioneddol; a chafodd ei brofi a'i demtio yn y natur hòno fel dyn arall; ac yn wir, yn fwy na neb. "Am hyny, yn gymaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gyd-ddyoddef â, a chynnorthwyo y rhai a demtir."

*Etto heb bechod.* Er ei demtio yn mhob peth, ac yn mhob modd, yr un ffunud â ninnau, yr oedd efe yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrthym ni yn hyn, sef ei fod heb bechod. "Yr hwn a ddyoddefodd yn y cnawd, a beidiodd â phechod;" a phe amgen ni allasai ei gydymdeimlad â ni yn ein profedigaethau fod o un help na chysur i ni.

16 Am hyny awn yn [y] hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol.

[y] Eph. 3. 12; Heb. 10. 19—22.

*Am hyny awn yn hyderus at orseddfainc y gras.* Sef am fod i ni y fath Archoffeiriad mawr, urddasol, a graslawn; un a fedr gyd-ddyoddef â'n gwendid ni; un wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, ac etto heb bechod;—am ei fod ef yn y nefoedd yn ymddangos drosom ac o'n plaid, i gyflwyno ein gweddïau, ac i eiriol ar ein rhan; am hyny, awn yn hyderus at Dduw yn ei enw, a thrwy ei haeddiant. "At orseddfainc y gras"—mewn cyfeiriad at y drugareddfa yn y babell a'r deml, yr hon ydoedd gorseddfainc Duw yn mhlith ei bobl gynt, lle yr addawsai ac yr arferai gyfarfod â hwynt i'w bendithio; a cher bron yr hon yr ymddangosai yr archoffeiriad Iuddewig

unwaith bob blwyddyn, i wneuthur cymmod dros y bobl, ac i gyflwyno deisyfiadau drostynt. Y mae genym ninnau yn awr dan yr efengyl Archoffeiriad a gorseddfainc y gras—trugareddfa, fel pe dywedasai yr apostol, y gwir Archoffeiriad, a'r wir orseddfainc, o'r rhai nid oedd yr archoffeiriaid a'r drugareddfa gynt ond cysgodau; ac am hyny, gallwn nesâu yn hyderus at Dduw, yr hyn ni allasent hwy dan yr oruchwyliaeth gysgodol.

*Fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol.* Rhag y buasai i feddyliau yr Hebreaid lwfrhau yn yr olwg ar y rhwystrau a'r profedigaethau a'u cyfarfyddent, ac ymollwng yn wyneb yr ymdrech mawr, y gofal, a'r llafur a ddangosasai yr apostol fod yn angenrheidiol i'w hymarfer, mewn trefn i fyned i mewn i'r orphwysfa; dengys iddynt yma fod eu crefydd yn cynnwys darpariaeth o bob peth angenrheidiol er sicrhau ei dyben; bod cymhorth cyfamserol i'w gael ond ei geisio; fod y gras hwnw yn ddigonol i'w dwyn yn fuddugol drwy bob profedigaeth, eu nerthu i orchfygu pob anhawsderau, ac i gyflawni pob dyledswydd; a'i fod wrth law, ac yn hawdd ei gael, ac y gallasent bob amser fyned yn galonog a hyderus i ymofyn am dano.

Yn awr, dyna efe wedi gosod dwy ganllaw gref iddynt i'w diogelu rhag y perygl o ymollwng a dirywio, y naill ochr na'r llall. Y rhybuddion cryfion oddiwrth esiamplau anghredinwyr a gwrthgilwyr gynt, y rhai a gauwyd allan o'r orphwysfa; y mawr berygl iddynt hwythau syrthio yn ol yr un esiampl o anghrediniaeth, &c., o un tu, er eu cadw yn effro, gwyliadwrus, a dyfal, i ofni rhag bod yn debyg i fod yn ol;—ac o'r tu arall, dengys iddynt yr Archoffeiriad mawr a aeth i'r nefoedd i bleidio eu hachos; darpariaeth gras yn gymhorth cyfamserol iddynt, ynddo a thrwyddo ef, yr hwn a fedrai gyd-ddyoddef â'u gwendid, fel na fyddai iddynt ddifateru trwy ddigalondid a llesgedd meddwl.

---

## PENNOD V.

1 ***Awdurdod a braint offeiriadaeth ein Hachubwr.*** 11 ***Y mae efe yn beio arnynt, am eu bod mor esgeulus ac mor ddiwybod yn y pethau hyny.***

CANYS pob archoffeiriad, wedi ei gymeryd o blith dynion, a [a] osodir dros ddynion yn y pethau *sydd* tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau:

[a] Heb. 8. 3.

Crybwyllwyd am archoffeiriadaeth, a chymhwysderau archoffeiriadol Crist, yn niwedd yr ail a dechreu y drydedd bennod. Yn niwedd y bennod flaenorol, dychwelai yr apostol drachefn at y pwnc, mewn trefn i sefyll arno, ac ymdrin yn fanylach âg ef, er dangos anfeidrol ragoriaeth Archoffeiriad ac archoffeiriadaeth y cyfammod newydd ar archoffeiriaid ac archoffeiriadaeth yr hen. Ystyriai hwn, y mae yn amlwg, fel y prif bwnc angenrheidiol i'w egluro, ei brofi, a'i gadarnhau, er ateb ei brif amcan yn yr epistol—sef llwyr ddiddyfnu meddyliau a serchiadau yr Hebreaid oddiwrth ddefodau gwasanaeth cysgodol y gyfraith, a'u sefydlu mewn dianwadal ymlyniad wrth egwyddorion sylweddol yr efengyl; ac felly eu rhagflaenu a'u gwaredu o'r perygl yr oeddynt ynddo i laesu dwylaw, a thynu yn ol. Gan hyny, y mae efe yn aros yn hŵy gyda'r mater hwn nac un arall yn y llythyr.

Ar ol crybwyll am urddas personol, a chymhwysderau swyddol yr "Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd," fel annogaeth gref i Gristionogion "lynu yn eu proffes, a nesâu yn hyderus at orseddfainc y gras," (pen. iv. 14, 15, 16), ymeifl yr apostol weithian yn athrawiaeth yr archoffeiriadaeth Iuddewig, mewn trefn i osod y mater yn deg a llawn o flaen ei ddarllenwyr.

*Canys pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion.* Pob archoffeiriad Iuddewig a gymerid, a neillduid, ac a gysegrid yn ol defodau gosodedig y gyfraith i'r swydd oruchel a phwysig—i sefyll dros ddynion *yn y pethau sydd tuag at Dduw*—yn brif weinidog mewn pethau perthynol i'r gwasanaeth a'r addoliad dwyfol—i fod rhwng dynion

a Duw yn mhob achos perthynol i grefydd—yn gyfrwng i'r bobl nesâu at Dduw trwyddo, ac i Dduw nesâu atynt hwythau i'w bendithio. Efe oedd i ddwyn achos y gynnulleidfa at yr Arglwydd—i ymddangos yn y cysegr santeiddiolaf y tu fewn i'r wahanlen fel eu cynnrychiolydd, wedi ymwisgo â'r ddwyfroneg, yn yr hon yr oedd deuddeg o feini gwerthfawr wedi eu gosod, ar bob un o'r rhai yr oedd enw un o lwythau Israel.

Un o orchwylion ei swydd ydoedd *offrymu rhoddion;* yr offrymau gwirfoddol o gydnabyddiaeth y bobl i'r Arglwydd am ddoniau a gwaredigaethau tymmorol, am y rhai y sonir llawer yn nghyfraith Moses. Yr offeiriad ydoedd i gyflwyno yr aberthau hyny i Dduw dros y bobl. Ni buasent yn dderbyniol a chymeradwy heb eu cyflwyno felly trwyddo ef. Mewn cyfeiriad at yr aberthau gwirfoddol hyny dan y gyfraith, y dywed yr apostol Pedr wrth Gristionogion dan yr efengyl, "A chwithau megys meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, yn offeiriadaeth santaidd, i offrymu *aberthau ysbrydol*, cymeradwy gan Dduw drwy Iesu Grist," 1 Pedr ii. 5.

Saif y "tŷ ysbrydol" yn y geiriau hyn yn gyferbyniol i'r babell yn yr anialwch, a'r deml yn Jerusalem—y tai o waith llaw. Yr "offeiriadaeth santaidd" mewn cyferbyniad i Israel gynt dan yr hen gyfammod, wrth y rhai y dywedai Duw, "Yn awr, gan hyny, os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaear. A chwi a fyddwch i mi yn frenhiniaeth o offeiriaid, ac yn genedlaeth santaidd," Exod. xix. 5, 6. Yr "aberthau ysbrydol" ydynt yn gyferbyniol i'r *rhoddion*, yr aberthau anifeilaidd, o *beilliad, olew, thus, &c.*, a offrymid yn boethoffrymau diolch dan y gyfraith Iuddewig. Ac Iesu Grist yn gyferbyniol i'r *archoffeiriad* Iuddewig, yr hwn oedd yn gysgod o hono.

*Ac aberthau dros bechodau.* Fel yr oedd y rhoddion a offrymid yn gydnabyddiaeth o rwymedigaethau y bobl i Dduw fel Duw rhagluniaeth, am fendithion a chysuron cyffredin bywyd, yr oedd yr *aberthau dros bechodau* yn gydnabyddiaeth o euogrwydd a haeddedigaeth cosb. Yr ydoedd creadur yn cael ei ladd—gwaed yn cael ei dywallt yn yr aberthau hyny; ac â gwaed yr aberthau y gwnelai yr archoffeiriad gymmod dros y bobl; a hon ydoedd y rhan benaf a phwysicaf o waith ei swydd.

2 Yr hwn a ddichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd; am ei fod yntau hefyd wedi ei amgylchu â [a] gwendid.

[a] Heb. 7. 28.

Gan ei fod wedi ei gymeryd o blith dynion, efe a allasai, ac a ddylasai dosturio—cydymdeimlo â dynion, âg anwybodaeth dynion; oblegid yr oedd i raddau yn anwybodus ei hunan mewn llawer o bethau. *Ac amryfusedd,* (Saes. *out of the way,)* allan o'r ffordd, ar gyfeiliorn. Dichon y golygir yma y gwahaniaethiad a wnai cyfraith Moses rhwng pechod drwy *anwybod*, a phechod drwy *wybod.* Darparai y gyfraith, os pechai yr offeiriad drwy anwybod, fod iddo ddwyn bustach ieuanc perffeithgwbl yn aberth dros ei bechod i'r Arglwydd, Lef. iv. 3—12. Ac os pechai yr holl gynnulleidfa yn y cyffelyb fodd, yr oedd bustach ieuanc yr un modd i gael ei aberthu drosti, Lef. iv. 13—21. Os pechai penaeth felly, llwdn oedd i fod yn aberth, Lef. iv. 22—26. Os un o'r bobl, gafr fanyw ydoedd yr aberth i fod, Lef. iv. 27, 28. Yr oedd gwahaniaeth fel hyn yn cael ei wneuthur rhwng yr un fath ar bechod, pan gyflawnid ef gan bersonau mewn gwahanol amgylchiadau. Yr un aberth a ofynid am bechod yr *holl* gynnulleidfa, ag a ofynid am yr unrhyw bechod dros *un* offeiriad. Yr oedd yr aberth dros benaeth hefyd yn fwy na'r aberth a ofynid dros un o'r bobl.

3 Ac o achos hyn y dylai, megys dros y bobl, [b] felly hefyd drosto ei hun, offrymu dros bechodau.

[b] Lef. 9. 7.

Sef o achos ei fod wedi ei amgylchu â gwendid—yn anmherffaith—yn agor-

ed i syrthio i bechod yn gystal ag eraill; gan hyny, yr oedd raid iddo gael aberth dros ei gamweddau ei hun, (fel y dangoswyd o'r blaen) yn gystal a thros gamweddau y bobl yr oedd yn offeiriad iddynt.

4 [c] Ac nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys [d] Aaron:

[c] 2 Cron. 26. 18. [d] Ex. 28. 1: Num. 16. 40.

Sef yn cymeryd y swydd archoffeiriadol. Ni oddefid i neb ymwthio iddi yn ol ei fympwy ei hunan. Nid oedd gan y bobl chwaith un llais yn etholiad archoffeiriad i'w swydd; Duw yn unig oedd i ddewis a galw y sawl a fynai efe. *Megys Aaron*—yr archoffeiriad Iuddewig cyntaf, yr hwn a neillduwyd ac a alwyd i'r swydd gan Duw erbyn ei enw. Amddiffynodd Duw ef yn ei swydd pan fynasai terfysgwyr cenfigenus hòni fod ganddynt hwythau cystal hawl i offrymu ac arogldarthu ag oedd ganddo yntau, trwy beri i'r ddaear agor ei safn a'u llyncu yn fyw i uffern; a thrachefn drwy beri i wialen Aaron flaguro a blodeuo, a dwyn almonau, yn nghanol gwiail penaethiaid y gynnulleidfa, y rhai a ddodasent yn mhabell y dystiolaeth ger bron yr Arglwydd, Num. xvi. a xvii. Sefydlodd yr archoffeiriadaeth hòno yn nheulu Aaron drwy ddeddf dragwyddol. Gorchymynodd yr Arglwydd i Moses, ar farwolaeth Aaron, wisgo Eleazer ei fab hynaf â'i wisgoedd ef, yr hyn ydoedd gyfan urddiad iddo i'r swydd archoffeiriadol.

Parhaodd yr archoffeiriadaeth yn nheulu Aaron hyd y caethgludiad i Babilon, ac am yspaid o amser wedi hyny. Ar ol uno Judea yn dalaeth o'r ymerodraeth Rufeinig, halogwyd cyfraith yr offeiriadaeth yn fawr. Cyfodai gwrth-hònwyr am y swydd, a chymerai y rhaglaw Rhufeinig yr awdurdod i'w law i osod yr un a fynai ef ynddi; ac felly dechreuodd y ffieidd-dra anrheithiol gael ei osod yn y lle santaidd. Yr oedd yr anrhaith hwn yn y cysegr yn arwydd sicr fod goruchwyliaeth y cyfammod cyntaf yn tynu yn agos i'w therfyn. Yr oedd yr offeiriadeth wedi suddo i'r cyflwr truenus hwn yn hir cyn i Paul ysgrifenu ei epistol at yr Hebreaid; ond cyfeiria ef o hyd at yr hyn ydoedd yn wreiddiol, yn ol y gyfraith osodedig. Yn ol hòno, nid oedd neb i weinyddu yn y swydd ond personau o âch ac urdd Aaron.

5 Felly [e] Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad; ond yr hwn a ddywedodd wrtho, [f] Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genedlais di.

[e] Ioan 8. 24. [f] Salm 2. 7.

Felly, yr un modd, Crist hefyd—megys nad trawsymwthio i'r offeiriadaeth Iuddewig a wnaeth Aaron, eithr derbyn y swydd ar alwad Duw, ac mewn ufudd-dod i'w ewyllys ef; felly Crist yntau, "nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad," ni chymerodd afael ynddi heb ei fod wedi ei alw a'i ordeinio iddi. Mynych iawn y dywedai y Gwaredwr na ddaethai o hono ei hun—nad oedd yn llefaru dim, nac yn gwneud dim o hono ei hun—yn ceisio ei ewyllys ei hun—ond ewyllys yr hwn a'i hanfonodd ef. Daliai hyn yn wastadol o flaen yr Iuddewon yn ei athrawiaeth; ac y mae yr apostol yntau am gadw yr un peth o flaen meddyliau yr Hebreaid.

Dichon y buasai gwrthddadl yn cyfodi yn eu meddyliau hwy yn erbyn ei hawl ef i'r swydd a'r urddas archoffeiriadol, gan nad oedd o deulu Aaron nac o lwyth Lefi; gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol manylu ar y mater hwn, er dangos nad trawshòniad anghyfreithlon ydoedd iddo ef wisgo yr enw a'r urddas archoffeiriadol. Nid gogoneddu ei hun a wnaeth Aaron wrth ymgymeryd â'r swydd; ond ei alw gan Dduw a gafodd, medd yr apostol. Felly Crist yntau, efe a alwyd, a neillduwyd, ac a osodwyd yn y swydd gan yr hwn a ddywedodd wrtho yn yr ail Salm, "Fy Mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais di." Addefai y dysgawdwyr Iuddewig bob amser mai y Messïa sydd i'w ddeall wrth y *Mab* yn y Salm. Yr oedd yr Hebreaid yr ysgrifenai Paul ei epistol hwn atynt yn proffesu y gred mai Iesu o Nazareth ydoedd y

Messïa hwnw, fel nad oedd angen am iddo, wrth resymu â hwy, aros ar y mater hwnw er ei brofi. Yr hyn oedd angenrheidiol yma ydoedd dangos fod y Messïa i fod yn Archoffeiriad, yn gystal ag yn Frenin, yn ol trefn a gosodiad Iehofa. Cymhwysa yr ymadrodd yn y Salm at y pwrpas yma. At ei osodiad gan Dduw yn Frenin ar Seion ei fynydd santaidd, y cyfeiria yr ymadrodd yn uniongyrchol; ond y mae yn gymhwysiadol at y swydd archoffeiriadol hefyd.

6 Megys y mae yn dywedyd mewn *lle* arall, [g] Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

[g] Salm 110. 4.

*Mewn lle arall*—yn Salm cx. y mae efe—Duw, yn dywedyd felly wrth y Messïa. Cymhwysai yr athrawon Iuddewig, bob amser, ymadroddion y Salm hòno hefyd at y Messïa; ac felly, dyma ymadrodd penodol at y pwrpas, i brofi ei fod ef wedi ei alw, a'i osod gan Dduw yn Archoffeiriad. Nid oedd Melchisedec yn archoffeiriad, y mae yn wir, ond offeiriad; ond nid ydoedd hyny o un pwys i'r pwnc—yr oedd yn y swydd offeiriadol, yn offrymu rhoddion ac aberthau. Yr oedd y Messïa i fod yn Offeiriad yn ol ei urdd—ei drefn ef, ac nid yn ol urdd Aaron, yr hyn a ddaw dan sylw etto. Yr ydoedd Melchisedec yn rhaglun nodedig o'r Messïa mewn un peth neillduol nad oedd Aaron a'i olynwyr ef yn dyfod i fyny âg ef ynddo; sef, yn fod y swydd frenhinol a'r un offeiriadol yn cydgyfarfod ynddo, ac yn cael eu cydweinyddu ganddo. Gwaherddid i frenhinoedd Israel weinyddu fel offeiriaid; ac nid oedd a wnelai un offeiriad chwaith â'r swydd frenhinol; ond yr oedd Melchisedec yn frenin Salem, ac yn "offeiriad y Duw Goruchaf" hefyd.

*Offeiriad wyt ti yn dragywydd.* Yr oedd yr offeiriadaeth Iuddewig yn dechreu yn Aaron, ac i barhau yn olynol yn ei deulu ef hyd ddiwedd yr oruchwyliaeth hòno. Yr oedd un Melchisedec yn dechreu ynddo, ac yn terfynu gyda'i oes ef, heb olynwr iddo o'i deulu. Yr oedd offeiriadaeth y Messïa yntau yn dechreu ac yn parhau byth ynddo ef ei hun yn bersonol. "Yr hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragwyddol ganddo."

7 Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm [h] gweddïau ac erfyniau at yr hwn oedd [i] abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth, a chael ei wrando, yn yr hyn a ofnodd;

[h] Mat. 26. 39—44. [i] Mat. 26. 53.

*Yr hwn yn nyddiau ei gnawd. Yr hwn*—Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd, *yn nyddiau ei gnawd*—tymmor ei ddarostyngiad, ei ufudd-dod, a'i waith ar y ddaear; *gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddïau ac ymbiliau.* Yr oedd y llefain a'r dagrau, y gweddïau a'r ymbiliau hyny yn elfenau yn ei aberth dros bechod; pan oedd yn gosod ei enaid yn aberth, yr offrymodd efe weddïau ac ymbiliau fel hyn. Dengys yr ymadroddion fawr angerddol wasgfeuon meddwl y Gwaredwr pan oedd megys yn nesâu at yr allor i osod ei hunan arni yn aberth ac yn offrwm i Dduw dros bechodau y byd. Gwyddai yr hyn oll oedd ar ddyfod arno dan gurfeydd dwylaw anwir dynion, malais a chynddaredd cythreuliaid, melldith y ddeddf, cuddiad wyneb ei Dad, a'r clwyfo a'r dryllio oedd i fod arno â dyrnodion cleddyf cyfiawnder wedi deffro. Yn y rhagolwg ar hyn oll, arswydodd, brawychodd, a chrynodd ei ddynoliaeth santaidd trwyddi. Yna gwelwn ef yn wir gyfranog o wendidau dibechod ein natur, megys un o honom ni; ni ddyrchafodd ei hundeb â pherson y Gair tragwyddol mo'i ddynoliaeth ef uwchlaw y gwendidau hyn; pe amgen cymerasid ef megys allan o'n cyrhaedd ni, fel na allasai gyd-ddyoddef a chydymdeimlo â ni: "Yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr." *Y mae y gweddïau a'r ymbiliau a offrymodd efe trwy lefain cryf a dagrau* yn arddangos annirnadwy bwysigrwydd ein prynedigaeth; â swm annhraethol o lafur a dyoddefaint y pwrcaswyd y ddinasfraint nefol i ni! "Trist iawn yw fy

enaid hyd angeu!" "Mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener!" oedd rhai o'r llefau cryfion hyny. Cyfeirir yma yn fwyaf neillduol at yr adeg hòno yn nyddiau ei gnawd, a ddechreuodd yn yr oruwch-ystafell, pan ddywedodd, "Yr awr hon y cynhyrfwyd fy enaid," hyd ei ymdrech meddwl, a'i weddïau dyfalach mewn chwys gwaedlyd yn Gethsemane, ac a derfynodd yn y llef hòno ar y groes, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist!" Ni ddyrchafasai y fath lefau cryfion, y fath weddïau ac ymbiliau angerddol daerion oddiar y ddaear i'r nefoedd erioed o'r blaen, ac ni ddyrchafa eu cyffelyb byth ar eu hol.

*At yr hwn oedd abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth*, sef at y Tad. Yr oedd yn abl i'w waredu ei hun y mae'n wir, ond cadwai y gallu hwnw yn ol, gan roddi ei hunan yn gwbl i fyny i law ac ewyllys y Tad: "Nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler. Hawdd y gallasai y Tad ei waredu a'i achub rhag marwolaeth, pe y mynasai; ond, "Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef;" ni allasai ei waredu rhag marw fel aberth dros bechod, heb ddiddymu cyfammod tragwyddol y brynedigaeth, a holl brophwydoliaethau yr ysgrythyr. Yr oedd yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenasid am dano; ac felly yr oedd "raid i Grist ddyoddef y pethau hyn," a myned i a thrwy farwolaeth, a chyfodi i fywyd y trydydd dydd. Pe gogoneddasai y Tad ei allu trwy ei achub rhag marwolaeth, gwnaethai hyny ar draul gogoniant ei briodoleddau moesol, a darfuasai felly am obaith iachawdwriaeth i fyd colledig.

*A chael ei wrando, yn yr hyn a ofnodd.* Pa beth ydoedd yr hyn a ofnodd—a pha fodd y cafodd ei wrando?—ydynt gwestiynau haws eu gofyn na'u hateb. Y mae cyfieithwyr ac esbonwyr yn amrywio yn eu golygiadau am y modd y mae yr ymadrodd i gael ei gyfieithu a'i ddeall. "A chael ei wrando o herwydd ei dduwiolfrydedd," ydyw cyfieithiad *Coverdale*. *Tyndal*,—"O herwydd iddo anrhydeddu Duw." *Stuart*,—"A chael ei waredu oddiwrth yr hyn o ofnai." *Luther*,—"Ac a wrandawyd o herwydd ei fod yn anrhydeddu Duw." *Beza*,—"A chan gael gwrandawiad i'w erfyniau, efe a waredwyd o'i ofn." Yr un gair a gyfieithir *ofn*, a arwydda hefyd mewn amryw gysylltiadau, *barch* a *gwylder duwiolfrydig;* ac felly y deallai amryw gyfieithwyr ei ystyr yn y lle hwn. Ond prin y meddyliem mai yn yr ystyr yna y defnyddiai yr apostol y gair yn y fan hon, ond mai ofn yn yr ystyr fwyaf cyffredin o'r gair a olygai. Ond pa beth a ofnai y Gwaredwr? Ai ofn y farwolaeth yr oedd i'w dyoddef oedd? Ofn i'w natur fethu ymgynnal dan bwys gordristwch ei feddwl yn yr ardd, ac y buasai iddo farw cyn cyrhaedd y groes, ac felly i oruchwyliaeth fawr ei gyfryngdod fethu, medd rhai. Ni allasai ofni hyny, medd eraill, oblegid ei fod yn berffaith wybyddus erioed yr aethai drwy ei waith yn llwyddiannus, ac mai o farwolaeth y croeshoeliad y byddai farw; ond mai y farwolaeth hòno ei hun ydoedd yr hyn a ofnai. Ond paham yr ofnai efe y farwolaeth hòno felly? Yfodd llawer o'i ddysgyblion ar ei ol o'r un cwpan, a bedyddiwyd hwy â'r un bedydd; hyny yw, buont feirw o'r un farwolaeth ag yntau; ac yr oeddynt hwy yn ei hwynebu ac yn myned trwyddi yn llawen, er mwyn ei enw ef. Ië, dyoddefodd llawer llofrudd a drwgweithredwr farwolaeth drwy groeshoeliad, dan hèrio a gwatwar ei phoenau. Paham, gan hyny, yr oedd efe, yr hwn oedd bur a pherffaith, ac ydoedd yn meddu mawrfrydigrwydd meddwl goruwchddynol, yn crynu, yn ofni, ac megys yn ymdoddi ymaith gan arswyd wrth wynebu angeu? Ni ddywedir i ni paham, neu pa fodd yr oedd hyn yn bod: ond cymaint a hyn—ei fod "yn gosod ei enaid yn aberth dros bechod." Yr oedd y peth ofnadwy oedd yn ei farwolaeth ef yn cyfodi oddiar *natur* aberthol y farwolaeth hòno—marwolaeth nad allasai neb arall ond efe, erioed na byth, fyned i'w gafaelion a threiddio trwyddi. Erys y peth ofnadwy hwnw yn ddirgelwch cuddiedig yn mynwes y Tad a'r Cyfryngwr ei hun. Y mae yn rhy ddwfn a chysegredig i greadur allu edrych i mewn iddo, a cheisio ei ddirnad. Dywed y *llefain cryf a'r dagrau*, a'r chwys gwaedlyd, bod rhyw "ddyfnder yn galw ar ddyfnder, wrth swn pistylloedd" y tònau a'r llifeiriaint

oedd yn myned dros ei enaid ef yr awr hôno, na ddichon i un creadur byth eu hamgyffred, ond i raddau bychain ac anmherffaith iawn.

*A chael ei wrando, yn yr hyn a ofnodd.* Pa fodd y cafodd ei wrando? Ni waredwyd ef oddiwrth farwolaeth. "Nid arbedodd y Tad ei briod Fab. . . . yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef!" Gwaredwyd ef o'i ofn, medd rhai. Cynnaliwyd ef i fyned trwy y prawf ac i orphen ei waith, medd eraill. Ond perthyn i gyfrinach Duw y mae hyn hefyd. Tybia Macknight mai aros dan awdurdod angeu yn y bedd oedd yr hyn a ofnodd, ac iddo gael ei waredu yn ei adgyfodiad y trydydd dydd; ac mai am hyny yr oedd yn offrymu y gweddïau a'r ymbiliau. Ond gwan a chloff y teimlwn y deongliad hwn, rywfodd; hwyrach mai doethineb pob esboniwr fyddai cydnabod, "Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi; uchel yw, ni fedraf oddiwrthi."

Y mae gogoniant yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb yn gynnwysedig, mewn rhan, yn ei symledd a'i heglurdeb—bod y pethau hanfodol eu credu a'u deall er iachawdwriaeth yn agos iawn atom—yn hawdd iawn eu hamgyffred; ac y mae ei gogoniant mwy ofnadwy hi yn gynnwysedig yn nyfnder diwaelod ei dirgelwch - pethau y mae lled a hyd, ac uchder a dyfnder anfesuradwy ac anamgyffredadwy yn perthyn iddynt. Y mae yn iechyd i enaid gyfarfod â phethau o'r fath hyn yn awr ac eilwaith, fel y byddo iddo gael ei lenwi â gwylder, yr ymdeimlo â'i waeledd a'i fychandra—y syno, y rhyfeddo, ac yr addolo uwchben pethau sydd yn anfeidrol uwchlaw ei ddirnadaeth. Y mae yn ddifyr gweled llu o feirniaid dysgedig, a deonglwyr craffus, yn ymdyru uwchben ambell adnod fechan, neu ymadrodd byr o'r ysgrythyr, yn llafurio ac yn trafferthu, gan ddwyn allan holl allweddau eu dysg, a holl alluoedd eu meddyliau, i geisio eu hagor a'u hegluro; ac yn methu cytuno â'u gilydd yn eu golygiadau, ac yn methu bob un foddloni ei hunan ychwaith. Y mae miloedd o bethau felly yn ngweithredoedd Duw. Y mae gan *greadigaeth* ei chyfrinion dirgel; "pethau mawrion anchwiliadwy"—uwchlaw dirnadaeth dyn. Ac felly y mae gan *ragluniaeth* hithau yr un modd. "Mi a edrychais ar holl waith Duw," medd Solomon, (Preg. viii. 17,) "na ddichon dyn ddeall y gwaith a wneir dan haul; oblegid er i ddyn lafurio i geisio, etto nis caiff: ïe, pe meddyliai y doeth fynu gwybod, etto ni allai efe gael hyny." Naturiol fyddai i ni ddysgwyl cyfarfod â'r cyffelyb bethau dyfnion yn *ngair* Duw, ag a ganfyddwn fod yn ei weithredoedd a'i oruchwyliaethau. Ac y mae y cyfryw bethau yn dystion, yn hytrach, dros ddwyfoldeb yr ysgrythyrau, nac yn eu herbyn.

8 Er ei fod yn Fab, a ddysgodd [k] ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd:

[k] Phil. 2. 8.

*Er ei fod yn Fab*—yn Fab Duw, yn berson o urddas dwyfol ac anfeidrol, yn Arglwydd a Llywodraethwr pawb oll, *efe a ddysgodd ufudd dod*—efe a ymostyngodd yn wirfoddol i agwedd a sefyllfa gwas, i ufuddhau ac i wneuthur ewyllys y Tad. O herwydd hyny, geilw y Tad y Messïa yn fynych wrth yr enw, "fy ngwas," yn y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am ei ddyfodiad i'r byd. "Ni ddaeth Mab y dyn I'w wasanaethu"—i dderbyn gwasanaeth gan eraill, "ond I wasanaethu" —i gyflawni ac i gyflwyno gwasanaeth dros eraill.

Efe a ddysgodd ufudd-dod *trwy y pethau a ddyoddefodd.* Efe a ddaeth i wybod yn brofiadol beth ydoedd ufuddhau mewn profedigaethau a dyoddefaint. Efe a ymostyngodd yn dawel i'r ewyllys ddwyfol yn y dyoddefiadau llymaf a chwerwaf. "Nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti, a wneler," ydoedd iaith ei enau a'i enaid pan yn dyoddef. Nid llwybr esmwyth tawel ydoedd llwybr ei ufudd-dod ef, ond un llawn o anhawsderau a phrofedigaethau; ond ni phallodd yn ei ufudd-dod. Efe a ddysgodd ufudd-dod i eraill yn y cyffelyb amgylchiadau; hyny yw, efe a roddodd esiampl o berffaith ymostyngiad ac ufudd-dod i ewyllys Duw o flaen y byd. "Crist yntau a ddyoddefodd, gan adael i ni esiampl, fel y canlynem ei ol ef."

Amcan yr apostol yn y crybwyllion hyn ydoedd dyrchafu Archoffeiriad mawr ein cyffes yn ngolwg yr Hebreaid fel un profiadol, tosturiol, cydymdeimladol—un a wyddai trwy brofiad ei hunan am brofedigaethau a thrallodau cyffelyb, a mwy na'r eiddynt hwy; ond na ddarfu i'r holl bethau hyny yr aeth trwyddynt ac a ddyoddefodd beri iddo ddigaloni a phallu ar yrfa ei ufudd-dod; ac fel y byddai iddynt hwythau, trwy ystyried Apostol ac Archoffeiriad eu cyffes, ymgryfhau ac ymwroli ar eu gyrfa o ufudd-dod Cristionogol, a gochelyd llwfrhau a thynu yn ol oblegid eu blinderau a'u profedigaethau.

9 Ac wedi ei [l] berffeithio, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo;

[l] Heb. 2. 10.

"Wedi ei berffeithio trwy y pethau a ddyoddefodd," fel pen. ii. 10—ei gymhwyso i'w swydd fel Gwaredwr. Nid ei berffeithio mewn ystyr *foesol* a olygir, oblegid yr oedd felly yn berffaith cyn iddo ddyoddef. Y mae dynion da yn cael eu perffeithio—eu puro felly trwy gystuddiau a dyoddefiadau; ond ei berffeithio, ei gymhwyso yn *swyddol* a gafodd ef. Yr oedd ei ddyoddefiadau yn anhebgorol angenrheidiol er ein glanhad a'n perffeithiad ni oddiwrth ein pechodau; ac felly er ei berffeithio ef yn Waredwr addas i ni. Cyfieitha Stuart yr ymadrodd, *Ac wedi ei berffeithio*, fel hyn, "Ac wedi ei ddyrchafu i ogoniant, efe a *wnaethpwyd* yn Awdwr iachawdwriaeth," &c. Ond mwy naturiol, feddyliem, ydyw y golygiad arall.

*Efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol*—yn achosydd effeithiol o iachawdwriaeth; gwaredigaeth gyflawn, berffaith, a thragwyddol *i'r rhai oll a ufuddhant iddo*—ond nid i neb arall. Ni all yr anufuddion, o angenrheidrwydd, fod yn gyfranogion o honi, canys y maent yn ei hesgeuluso a'i gwrthod. Ni all meddyginiaeth, bydded mor addas a rhinweddol ag y byddo, effeithio iachâd y rhai a'i gwrthodant. Ond y rhai oll a ufuddhant iddo fel Tywysog eu hiachawdwriaeth, a gredant ynddo ac a ymostyngant i'w awdurdod, a gyfranogant o'r holl fendithion a bwrcasodd efe trwy ei ufudddod a'i angeu.

10 Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn [m] Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec.

[m] adn. 6.

Wedi ei alw, ei gyfarch gan y Tad, yn Salm cx. felly, fel y crybwyllwyd o'r blaen. Yr oedd yr adgrybwylliad hwn yn angenrheidiol mewn trefn i arwain meddyliau y darllenwyr yn ol at y mater a adawsid heb ei drin, ond yr amcanai yr ysgrifenydd ymhelaethu arno.

11 Am yr hwn y mae i ni lawer i'w dywedyd, ac anhawdd eu traethu, o achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau.

*Am yr hwn*—sef am Melchisedec; un o'r nodweddau hynotaf a mwyaf cyfrinol yn holl hanesyddiaeth yr ysgrythyr. Un waith yn unig y mae yn dyfod i'r golwg, sef pan ddaeth allan i gyfarfod Abraham pan ddychwelai o daraw y brenhinoedd, ac y bendithiodd ef; yna efe a gilia o'r golwg drachefn, ac nid oes grybwylliad am ei enw na chyfeiriad at ei hanes hyd yr ymadrodd a fu dan ein sylw allan o'r Salm cx. Ni ddywed yr hanesyddiaeth fel yna ond ychydig iawn am dano; ond dywed Paul yma fod ganddo ef lawer i'w dywedyd yn ei gylch, a bod y pethau lawer hyny yn *anhawdd eu traethu*—eu hegluro, neu eu gosod allan yn ddealladwy. Y mae hyn yn profi yn amlwg yr ewyllysiai ac yr ymdrechai yr apostol osod allan ei feddwl yn oleu, yn syml, a hawdd i'w ddarllenwyr ei ddeall. Ond ymdeimlai yn awr ei fod yn myned at fater ag oedd yn anhawdd iawn i draethu felly arno; ac am hyny, efe a ragymadrodda etto cyn ymaflyd ynddo, mewn trefn i gyffroi ystyriaethau ei ddarllenwyr i ymdrech egnïol er deall yr hyn a draethai.

*O achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau*—yn fusgrell o feddwl, yn ddylaidd a gwanaidd o ddeall; ac yr oedd hyny yn peri fod yn anhawdd

iddo ef wneud yn ddealladwy iddynt yr hyn ydoedd ganddo i'w draethu. Yr oedd y pethau yn wir yn bethau dyeithr—yn bethau nad oeddynt wedi eu traethu erioed o'r blaen—ac yn bethau a ymddangosent braidd yn anhygoel; ac heblaw hyny, yn cynnwys rhai syniadau a fyddent, ond odid, yn annerbyniol i'w harchwaeth a'u teimladau Hebreaidd hwy, fel y ceir achlysur i sylwi pan ddelom atynt. Ond er hyny, yr oeddynt yn bethau angenrheidiol i'w traethu mewn trefn i iawn ddeall athrawiaeth fawr archoffeiriadaeth Crist. Ni allesid byth ddeall cynnwysiad a meddwl ymadrodd y Salmydd am urdd Melchisedec oni buasai i'r apostol draethu arno.

12 Canys lle dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth *ydyw* egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; ac yr ydych yn rhaid *i chwi* wrth [n] laeth, ac nid bwyd cryf.

[n] 1 Cor. 3. 1—3.

Yma llefara yr apostol yn lled arw a llym wrthynt, gan ddannod iddynt mor ddigynnydd fuasent mewn gwybodaeth yn mhethau yr efengyl. Y dylasent fod yn athrawon, yn abl i ddysgu gwybodaeth efengylaidd i eraill, o ran yr amser a'r manteision a gawsent. Nid dychweledigion ieuainc at Gristionogaeth oeddynt, gan mwyaf o honynt, fe ymddengys. Ond yn lle bod yr hyn a ddylasent fod yn ol yr amser a'r moddion a gawsent, yr oeddynt mewn angen am eu dysgu drachefn yn egwyddorion cyntaf eu crefydd. Nodir yr egwyddorion hyny yn nechreu y bennod nesaf.

*Dysgu drachefn.* Yr oeddynt wedi eu dysgu unwaith o'r blaen; ac arwydda yr ymadrodd, *dysgu drachefn*, eu bod wedi anghofio—"gollwng i golli," y pethau a ddysgasent unwaith; ac felly, eu bod yn hytrach na myned yn mlaen ar gynnydd, wedi colli tir, a myned yn ol.

*Egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw*—yr oraclau dwyfol, ysgrythyrau yr Hen Destament; ond yn neillduol, gwirioneddau y dadguddiad efengylaidd.

*Ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd cryf.* Y mae yr ymadrodd hwn, a'r rhai canlynol, yn un arwyddnod go sicr mai Paul yw ysgrifenydd yr epistol. Dywedasai yr un peth, gan arfer yr un gymhariaeth, wrth y Corinthiaid: "Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd: canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch chwaith etto yr awrhon ei dderbyn," 1 Cor. iii. 2. Cymharai y Corinthiaid, ac felly yr Hebreaid, i fabanod tyner. Yr oedd raid eu porthi â llaeth yr athrawiaeth, neu â gwirioneddau dechreuol crefydd, o herwydd eu bod yn analluog i ymborthi ar, derbyn, deall, a defnyddio ei phethau cryfion a dyfnion hi. Nid oedd hyny ond peth i'w ddysgwyl yn nechreuad cyntaf eu crefydd; ond gallesid dysgwyl iddynt fod bellach wedi gadael eu stad fabanaidd, a dyfod yn wŷr—yn gryfion mewn gwybodaeth a deall, ac yn alluog i ddirnad a mwynhau pethau trymach yr athrawiaeth.

13 Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, *sydd* anghynnefin â gair cyfiawnder: canys maban yw.

*Pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth*—â byw, ac aros o hyd gyda gwirioneddau dechreuol crefydd, *sydd anghynnefin â gair cyfiawnder*—yn analluog i ddirnad pethau anhawsach yr athrawiaeth; y pethau *anhawdd eu traethu* y crybwyllwyd o'r blaen am danynt, y rhai yr oedd efe yn awr yn awyddus i'w gosod ger eu bron. Fel y mae cylla yr hwn sydd yn byw yn barhaus ar laeth, yn rhy wan i dreulio bwyd cryf, priodol i ddyn mewn oedran, felly yr ydoedd eu meddyliau hwythau, yn rhy weiniaid i dderbyn y pethau hyny.

14 Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da.

*Bwyd cryf*—gwirioneddau uchaf yr athrawiaeth efengylaidd; *a berthyn i'r rhai perffaith*—i Gristionogion wedi

cynnyddu i nerth ac addfedrwydd deall; *y rhai o herwydd cynnefindra*—cydnabyddiaeth â'r cyfryw bethau drwy lafur, ymchwiliad, a myfyrdod, *sydd ganddynt synwyr*—galluoedd, cymhwysder, *wedi ymarfer i ddosbarthu* (i wahaniaethu rhwng) *drwg a da*, sef mewn athrawiaeth. Ni olygai yr apostol bod yr Hebreaid yn analluog i wahaniaethu rhwng *drwg a da* mewn gweithred; ond rhwng gwirionedd a chyfeiliornad mewn athrawiaeth.

Yr oedd yn eu gweled mewn mawr berygl o dynu yn ol, a syrthio oddiwrth eu proffes efengylaidd, o herwydd eu diffyg cynnydd mewn gwybodaeth o'r efengyl. Gan nad oeddynt yn myned yn mlaen, eu bod yn debyg iawn o gilio yn ol o'r diwedd; ac am hyny, efe a fynai eu cyffroi a'u codi o'r difaterwch a'r marweidd-dra peryglus hwn.

---

## PENNOD VI.

1 *Y mae efe yn eu cynghori hwy na chilient oddiwrth y ffydd;* 11 *ond bod yn ddianwadal,* 12 *yn ddiwyd, ac yn ddyoddefgar, i ddysgwyl wrth Dduw,* 13 *am fod Duw yn sicr yn ei addewid.*

AM hyny, [o]gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist, awn rhagom at berffeithrwydd; heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddiwrth [p]weithredoedd meirwon; ac i [q]ffydd tuag at Dduw.

[o] Phil. iii. 12—14; [p] Heb. ix. 14; [q] Heb. xi. 6.

*Am hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist, awn rhagom at berffeithrwydd. Am hyny*—sef am neu oblegid yr ystyriaethau a osodwyd atynt yn niwedd y bennod o'r blaen, yn nghylch hwyrdrymedd a musgrellni eu meddyliau i dderbyn a dirnad athrawiaethau mawrion eu crefydd—eu bod wedi aros eisoes cyhyd yn esgoreddfa y plant, mewn stad fabanaidd o ran eu gwybodaeth efengylaidd, fel ag yr oedd eisieu o hyd eu dysgu yn y gwersi cyntaf. *Gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist*—gan adael y stad hon, yr hon y gallasech, ac y dylasech, o ran yr amser a'r manteision a gawsoch, fod wedi ei gadael yn hir cyn hyn, a bod erbyn hyn yn athrawon, yn lle bod yn fabanod mewn crefydd. Boed i chwi bellach ymysgwyd, cyfodi, ac ymsymud o'r cyflwr yna. *Awn rhagom at berffeithrwydd*—sef y perffeithrwydd hwnw y soniwyd o'r blaen am dano: "Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da," (pen. v. 14.) Ymestynwn yn mlaen at y perffeithrwydd hwnw mewn gwybodaeth a synwyr efengylaidd—i allu deall, barnu, dirnad, a mwynhau pethau dyfnion a mawrion yr athrawiaeth Gristionogol. Y mae aros yn hir yn ddigynnydd, ac megys yn yr un fan, nid yn unig yn gywilyddus, ond hefyd yn beryglus iawn; canys onid awn rhagom—yn mlaen, yr ydym yn debygol ac yn sicr o golli tir, a myned yn ol. Yr hyn sydd i fod yn arwyddair ar faner yr eglwys Gristionogol tra y byddo yn y byd hwn ydyw, *Awn rhagom*—mewn gwybodaeth a phrofiad, a phurdeb efengylaidd.

*Heb osod i lawr drachefn sail i edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon; ac i ffydd tuag at Dduw.* Heb aros o hyd gydag "egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw;" hyny yw, "edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon;" yr hon yw y gyntaf mewn trefn yn mhregethiad yr efengyl i'r byd, a bregethwyd felly gan Grist ei hun, (Marc i. 15,) ac a orchymynodd efe i'w apostolion bregethu, (Luc xxiv. 47). *Oddiwrth weithredoedd meirwon*—gweithredoedd y fuchedd gynt, pan oeddych yn feirw mewn camweddau a phechodau; a "diwedd y pethau hyny yw marwolaeth." Y mae yn rhaid dysgu dynion yn yr athrawiaeth am y ddyledswydd o edifarhau yn gyntaf peth, ac y mae yn rhaid i grefydd ddechreu yn *nghyflawniad* y ddyledswydd o edifarhau, ac ymwrthod â'r gweithredoedd meirwon. Ond ni raid ac ni ddylai Cristionogion aros yn y stad hòno ag y byddo eisieu eu dysgu yn barhaus yn yr athrawiaeth hon. *Ac i ffydd tuag at Dduw.* Athrawiaeth ffydd tuag at Dduw ydyw y nesaf mewn trefn. Saif mewn cysylltiad uniongyrchol yn nhrefniant athraw-

iaethol yr efengyl âg edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon. Ffydd tuag at Dduw ydyw y ddyledswydd nesaf at edifeirwch y geilw yr efengyl am dani – ffydd tuag at Dduw yn ol fel y mae efe yn datguddio ei hun yn efengyl ei Fab yn ddiau a olygir yma.

2 I athrawiaeth [r]bedyddiadau, ac [s]arddodiad dwylaw, ac [t]adgyfodiad y meirw, a'r farn dragwyddol.

[r] Act. 19. 4, 5. [s] Act. 8. 17. [t] Act. 17. 31; 26. 8.

*I athrawiaeth bedyddiadau.* Tybia rhai y golygir yma yr "amryw olchiadau" Iuddewig; ond nid ymddengys y golygiad hwnw yn bwrpasol i amcan yr apostol yn y lle hwn; ond mai y bedyddiadau efengylaidd a olygai, sef y bedydd â dwfr, a bedydd yr Ysbryd, —y cyntaf yn arwyddlun *(emblem)* o'r olaf. Yn yr athrawiaeth hon y dysgodd Crist y dysgybl anwybodus hwnw, Nicodemus, pan ddaeth efe ato y tro cyntaf. Y mae athrawiaeth, neu y gwirionedd am arwyddocâd a dyben y bedyddiadau hyn yn un o elfenau cyntaf Cristionogaeth – yn rhan o'r "ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist," ac y mae o bwys mawr fod y dysgyblion yn egwyddorol yn y gwirionedd am dano; canys yr ydym yn gweled yn hanesyddiaeth foreuol a diweddar yr eglwys fel yr arweiniwyd gynt, ac yr arweinir etto, luaws mawr ar gyfeiliorn i gofleidio y tybiau mwyaf ynfyd, a'r heresiau mwyaf dinystriol, trwy gamddeall yr athrawiaeth hon.

*Ac arddodiad dwylaw.* Gellir ystyried arddodiad dwylaw yn hytrach fel *defod* arferedig yn yr eglwysi Cristionogol cyntefig, nac fel un o athrawiaethau Cristionogaeth. Cyflwynid doniau gwyrthiol trwy arddodiad dwylaw yr apostolion; ond arferent hwy a henuriaid yr eglwysi osod eu dwylaw ar y rhai a neillduid i swyddi yn yr eglwysi, ac, efallai ar y rhai a dderbynid yn aelodau i'w cymundeb. O ran dim a ellir gasglu o'r Testament Newydd, y mae yr eglwysi at eu rhyddid i arfer neu beidio arfer y ddefod; ond yr oedd mewn arferiad cyffredinol yn yr eglwysi yr amser yr ysgrifenwyd yr epistol hwn; felly gwelai yr ysgrifenydd yn ddoeth i beidio pasio heibio iddi yn ddisylw, heb ei chrybwyll, fel un o elfenau Cristionogaeth y dyddiau hyny.

*Ac adgyfodiad y meirw, a'r farn dragwyddol.* Dyma ddwy arall o'r elfenau cyntaf hyny. Dwy athrawiaeth ag y mae yr efengyl wedi eu llawn ddatguddio yn gyntaf oll i'r byd, ac y rhydd hi gyhoeddusrwydd neillduol iddynt. Safent allan yn ddynodol iawn yn mhregethau yr apostolion. Gorchymynasid iddynt yn bendant dystiolaethu i'r bobl am y Messïa, mai efe a ordeiniasid gan Dduw yn Farnwr byw a meirw. Y mae adgyfodiad y meirw, y farn, gwobr a chosb dragwyddol, yn rhedeg trwy eu holl bregethau – athrawiaethau nad oeddynt erioed o'r blaen wedi eu dwyn i lawn eglurdeb. Iesu Grist, trwy yr efengyl, a ddiddymodd angeu, ac a ddug fywyd ac anfarwoldeb i oleuni.

Gellir rhanu "yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist," neu egwyddorion dechreuol Cristionogaeth, yn dri dosbarth, pob dosbarth yn cynnwys dwy elfen.

1. Yr egwyddorion sydd a wnelont yn uniongyrchol â chyflwr, cydwybod, a chalon pechadur, yn ei berthynas â Duw, sef *edifeirwch* a *ffydd.*

2. Yr egwyddorion y mae a wnelo y deall a hwynt yn benaf, i'w dirnad yn eu hystyr, eu harwyddocâd, a'u dyben – *athrawiaeth bedyddiadau* ac *arddodiad dwylaw.*

3. Yr athrawiaethau sydd i'w derbyn a'u credu ar dystiolaeth Duw yn yr efengyl am bethau sydd etto i ddyfod, y rhai nad oeddynt wedi eu datguddio erioed o'r blaen i feibion dynion, fel y maent yr awr hon wedi eu datguddio – *adgyfodiad y meirw, a'r farn dragwyddol.* Dengys yr un apostol mewn lle arall fod ffydd yn athrawiaeth adgyfodiad y meirw, a gwobr a chosb mewn byd arall, o'r pwys mwyaf yn y fuchedd Gristionogol, gan y buasai gollwng gafael o honi yn gwneud Cristionogion y truenusaf o'r holl ddynion, 1 Cor. xv.

3 A hyn a wnawn, [u]os caniatâ Duw.

[u] Iago 4. 15.

Sef os rhynga bodd iddo estyn ein bywyd, a chyfranu i ni ei ras a chynnorthwyon ei Ysbryd.

Yn awr, ddarllenwyr, yr ydym yn nesâu at odre Sinai; y lle ofnadwy "sydd yn llosgi gan dân, a thymhestl, a thywyllwch, a llais udgorn, a llef geiriau." Y mae yn gweddu i ni ddyosg ein hesgidiau—ofni a chrynu gan mor arswydlawn ydyw y golwg, ac mor gryfion ydyw y taranau.

Gan nad ydys yn ymrwymo wrth unrhyw drefn reolaidd i fyned yn mlaen yn y gorchwyl hwn o geisio egluro yr epistol, dodwn yr holl adran i lawr yn gyntaf, a dychwelwn i gymeryd golwg drachefn ar yr amrywiol ymadroddion cynnwysedig ynddi.

Canys [v]anmhosibl *yw* i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan,

[v] Matt. 5. 13; 12. 31, 32; Ioan 15. 6; Heb. 10. 26; 2 Pedr 2. 20, 21; 1 Ioan 5. 16.

5 Ac a brofasant ddaionus air Duw, a [w]nerthoedd y byd a ddaw,

[w] Heb. 2. 5.

6 Ac a [x]syrthiant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn *ei* osod yn watwar.

[x] Esa. 1. 28.

7 Canys y ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni, ac yn dwyn llysiau cymhwys i'r rhai y llafurir hi ganddynt, sydd yn derbyn [y]bendith gan Dduw:

[y] Salm 65. 10.

8 Eithr yr hon sydd yn dwyn [z]drain a mieri, *sydd* anghymeradwy, ac agos i felldith; diwedd yr hon *yw*, ei llosgi.

[z] Esa. 5. 6.

Y peth cyntaf i sylwi arno ydyw y berthynas sydd rhwng yr adran hon â'r un flaenorol: bachir y naill wrth y llall â'r cysylltair *canys*, a dygir yr olaf i mewn fel cefnogaeth i'r cymhelliad yn y flaenaf—"*Awn* rhagom at berffeithrwydd;" hyny yw, at y perffeithrwydd hwnw mewn gwybodaeth efengylaidd y soniasid o'r blaen am dano, heb aros yn hŵy gydag elfenau cyntaf Cristionogaeth, y rhai y gwneir crybwylliad o honynt. *Canys*, megys pe dywedasai yr apostol, y mae y cyflwr y daethom ni, y rhai crediniol o had Abraham, allan o hono trwy dderbyn, credu, a phroffesu yr efengyl—y cyflwr y mae ein brodyr yn ol y cnawd, y rhai ydynt yn parhau yn eu hanghrediniaeth a'u gelyniaeth yn erbyn Cristionogaeth, yn aros ynddo, yn un rhy ofnadwy i ni, nid yn unig i feddwl troi yn ol iddo, ond hefyd i aros dim yn hŵy yn agos i'w gyffiniau, trwy ymdroi yn ddigynnydd o herwydd difaterwch ac esgeulusdra. Nid digon oedd i ni ddyfod megys i gyffiniau tir Cristionogaeth—rhaid i ni fyned rhagom i mewn i frasder y wlad dda. Yr oedd yn rhaid i ffydd Josuah a'r genedl a arweiniodd efe dros yr Iorddonen i Ganaan eu cymhell a'u cario yn mhellach na Gilgal, ar derfynau yr Iorddonen, cyn y gallasent feddiannu a mwynhau gwlad yr addewid. Yr oedd raid iddynt wneud eu meddyliau i fyny, naill ai i fyned yn mlaen i ennill y tir, neu droi yn ol dros yr Iorddonen i'r anialwch, lle y cwympasai celaneddau y genedlaeth o'r blaen o herwydd ei hanghrediniaeth. Yr oedd Lot yn hwyrfrydig iawn i fyned allan o Sodom, ac yn fwy fyth i ddianc i'r mynydd: erfyniodd am gael aros yn Zoar, yn nghymydogaeth y dinasoedd y disgynodd y gawod danllyd arnynt; ond pan welodd efe y dinystr ofnadwy mor agos ato yno, bu yn dda ganddo gael cilio i'r mynydd yn mhellach oddiwrtho drachefn. Felly yma, annoga'r apostol yr Hebreaid i ddeffroad ac ymdrech i fyned rhagddynt yn ddigon pell o gyffiniau y cyflwr hwnw ag y mae cwmwl y dinystr y sonia am dano yn crogi uwch ei ben, rhag iddynt, nid yn unig fod yn gyfranogion o hono, ond rhag fod neb o honynt yn *debyg* i hyny. Ond pa fath yw y cyflwr hwnw? Wel, y mae yr un mwyaf ofnadwy y tu yma i wlad

y golledigaeth dragwyddol: yn wir, yr un yw a hwnw mewn ystyr, canys y mae yn anobeithiol! Y mae yn anmhosibl—nid yn anhawdd, yn annhebygol, ond yn anmhosibl i'r rhai sydd wedi gweithio eu hunain iddo, ymadnewyddu i edifeirwch a dyfod allan o hono! Ond pwy ydyw y rhai hyny?

1. *Rhai a oleuwyd unwaith.* Yr oedd y genedlaeth hòno o Iuddewon wedi eu rhagorfreintio â phob moddion gwybodaeth. Yr oedd ganddynt Moses a'r prophwydi, y rhai a ddarllenid bob Sabbath yn eu synagogau. Daeth terfynau oesoedd yr hen oruchwyliaeth ar y genedlaeth hòno. Yr oedd holl hanesyddiaeth eu tadau, a'r hyn oll a lefarasai Duw wrth eu tadau drwy law ei holl weision y prophwydi, o oes i oes, o flaen eu llygaid hwy, fel yr oedd gweinidogaeth yr Hen Destament yn ei llawn oleuni yn tywynu arnynt. Ond yn—

2. *Profasant y rhodd nefol.* Gweinidogaeth Iesu Grist, yr hwn a ddaeth atynt o'r nef i lefaru wrthynt. "A chanddo un Mab ei anwylyd; efe a anfonodd hwnw hefyd atynt yn ddiweddaf." "A lefarodd wrthym ni yn ei Fab." "Oni b'ai i mi ddyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod;" hyny yw, ni buasai y pechod hwnw o'i wrthod ef ac anghredu ynddo arnynt: "ond yr awr hon, nid oes ganddynt esgus am eu pechod." Profasant ei bresenoldeb, a theimlasant awdurdod ei athrawiaeth, fel y dywedir yn fynych fod y torfeydd yn *synu*—"y bu aruthr ganddynt"—"yn rhyfeddu am y geiriau grasusol a ddeuai allan o'i enau ef." Wrth y *rhodd nefol*, gan hyny, yr wyf yn golygu y ffafr a'r rhagorfraint a gafodd y genedlaeth dan sylw o gael gweled wyneb Mab Duw yn y cnawd, a gwrando lleferydd ei enau ef—y fath ragorfraint na chafodd un genedlaeth arall o ddynion erioed o'r blaen, ac na chaiff yr un byth etto ei chyffelyb.

3. *Gwnaethpwyd hwy yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan.* Cawsant fwynhau gweinidogaeth yr efengyl yn ei llawn nerth a'i heglurder drwy bregethiad yr apostolion; yr hon, wedi dydd y Pentecost, a ddaeth i fod yn weinidogaeth yr Ysbryd mewn modd arbenig. Wedi gogoneddiad yr Iesu, anfonwyd yr Ysbryd Glan i gymeryd goruchwyliaeth y weinidogaeth dan ei awdurdod a'i gyfarwyddyd uniongyrchol ef ei hun; ac yn awr, gosodwyd peiriant y weinidogaeth efengylaidd i fyny yn y byd, wedi ei berffeithio a'i iawn gymhwyso i wneud ei waith arno. Cyflewyd pob tant o'r delyn yn ei le, ac yn ei gywair priodol. Yn ngweinidogaeth yr Ysbryd y daeth prif athrawiaeth yr efengyl i lawn oleuni ac arbenigrwydd dynodol. Efe a ogoneddodd yr Iesu drwy osod athrawiaeth fawr ei ddyoddefiadau a'i angeu fel aberth iawnol dros bechod yn ganolbwnc ac enaid Cristionogaeth—y pegwn, yr hwn y mae bywyd ac iachawdwriaeth byd euog a cholledig yn troi arno. Ychydig mewn cymhariaeth a lefarodd y Gwaredwr ei hun ar y pwnc pwysicaf hwn yn ei grefydd; canys wedi i'r aberth iawnol gael ei offrymu yr oedd yn fwyaf gweddus a phriodol i'r athrawiaeth gael ei llawn ddatguddio. Ar ol ei adgyfodiad oddiwrth y meirw yr eglurodd y Gwaredwr hi i'w ddysgyblion. Nid oeddynt erioed cyn hyny wedi deall y dirgelwch paham yr oedd raid i Grist ddyoddef; ond y "nerth o'r uchelder"—dawn yr Ysbryd Glan, a'u gwisgodd â'r cymhwysder angenrheidiol i'w chyhoeddi i'r byd. Gwnaethpwyd deiliaid y weinidogaeth hon hefyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glan yn ei ymrysoniadau â'u meddyliau—ei ddylanwad argyhoeddiadol ar eu deall a'u cydwybodau trwyddi. Dannodai Stephan i luaws o honynt eu bod bob amser yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glan. Argyhoeddwyd deall a chydwybod miloedd o honynt, a barhausant er hyny yn gyndyn ac annychweledig drwy eu hoes. Tynerwyd teimladau lluoedd dan rin y dylanwad ar y pryd, y rhai a ymddangosent eu bod yn derbyn y gair yn ebrwydd drwy lawenydd; ond gwywodd yr arwyddion gobeithiol hyny ymaith yn fuan drachefn, yn gyffelyb i egin yr had a ddisgynodd ar y creigleoedd.

4. *Profasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw.* Teimlasant rin a dylanwad y gair dwyfol i raddau helaeth, (fel y sylwyd eisoes). *A nerthoedd y byd a ddaw*—yr arwyddion oedd yn canlyn pregethiad yr efengyl

ar osodiad cyntaf ei goruchwyliaeth i fyny yn y byd. Sicrhawyd y genadwri "oedd wedi dechreu ei thraethu drwy'r Arglwydd," (iddynt hwy) "gan y rhai a'i clywsant ef." "A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu drwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glan." Yr arwyddion a'r rhyfeddodau hyny a gyflawnid gan yr apostolion yn enw Crist, drwy nerth a dawn yr Ysbryd, ydym i ddeall wrth *nerthoedd y byd a ddaw*. Cawsom achlysur o'r blaen i sylwi fod yr ymadrodd, *y byd a ddaw*, yn cael ei arfer yn fynych i ddynodi tymmor goruchwyliaeth yr efengyl: ac y mae yn ddiau genym mai yr un peth a olygir wrtho yn y fan hon ag yn pen. ii. 4.

Yn wyneb yr holl bethau hyn, y mae yn amlwg ddarfod i'r genedlaeth hòno fwynhau rhagorfreintiau a manteision digyffelyb. Ni bu cenedlaeth erioed o'i blaen, ac ni bydd yr un byth ar ei hol, yn sefyll ar dir mor uchel a hi, yn mhob ystyr, o ran manteision a rhagorfreintiau. Llefarodd Duw yn ei Fab yn bersonol wrthi. Gwelodd ef â'i llygaid—clywodd ef â'i chlustiau—a theimlodd ef â'i dwylaw. Bu yn dyst o'i fywyd, ei weithredoedd nerthol, a rhyfeddodau awr ei farwolaeth. Rhoddodd yr apostolion dystiolaeth bendant o'i adgyfodiad iddi yn y fan a'r lle, ac ar yr amser yr oedd ganddi bob mantais i brofi ei gwirionedd neu ei geudeb. Cynnygiwyd yr efengyl iddi yn gyntaf oll ganddynt. Bu dan dywalltiad mawr yr Ysbryd Glan yn holl gyflawnder ac amrywiaeth ei ddoniau. Mewn gair, yr ydoedd amgylchiadau amser y genedlaeth hòno y fath fel, o angenrheidrwydd, mai tymmor unwaith am byth ydoedd i bobl fwynhau y pethau cynnwysedig ynddo. Yr oedd y genedlaeth hòno, gan hyny, mewn sefyllfa y gallasai, drwy ddiystyru a chamddefnyddio ei manteision, bechu pechod na allasai un genedlaeth o ddynion ond y hi ei bechu. Wedi iddi gael ei dyrchafu mor dra uchel mewn rhagorfreintiau, os syrthio ymaith a wnelai drwy anghrediniaeth ac anufudd-dod, yr oedd raid y disgynai i gyflwr o golledigaeth anadferadwy: a hyny a ddywed yr apostol yn bendant, sef ei bod—

Yn anmhosibl i ddynion wedi mwynhau y rhagorfreintiau a enwyd, ac a syrthient ymaith drwy anghrediniaeth, *ymadnewyddu drachefn i edifeirwch*. Edrychai Paul ar gyflwr corff y genedl y pryd hwnw fel un hollol anobeithiol. Yr oedd yn anmhosibl—nid yn anhawdd, yn annhebygol, ond *yn anmhosibl iddynt ymadnewyddu drachefn i edifeirwch*, o herwydd y rheswm hwn—*gan eu bod yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwar*. Croeshoeliasant y Gwaredwr unwaith o'r blaen yn llythyrenol; ond yr oedd yn bosibl iddynt *ymadnewyddu drachefn i edifeirwch* ar ol hyny. Aeth yr efengyl atynt yn gyntaf rhai i'w galw i edifeirwch. Cynnygiwyd maddeuant a chymmod iddynt yn ngweinidogaeth yr Ysbryd drwy enau yr apostolion. Ni feddai y nefoedd un weinidogaeth arall ar ol hòno; ac yr oedd hòno, weithian, wedi treulio ei holl nerth arnynt yn aneffeithiol, fel nad oedd ond gweinidogaeth y felldith a'r llosgi yn eu haros. Trwy wrthod yr efengyl fel gweinidogaeth yr Ysbryd, a thrwy erlid, a charcharu, a llabyddio yr apostolion, a gwrthsefyll, gwrthddywedyd, a chablu y gwirionedd yn mhob modd ac yn mhob man, taflasant eu hunain y tu allan i gylch trugaredd a chymmod. Am danynt hwy yn unig y gellir dweyd yn briodol ddarfod iddynt ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw yn weithredol. Buasai tadau y genedlaeth hòno yn euog o ladd *prophwydi*, a llabyddio *gweision* Duw; ond y hi yn unig a fu yn euog o ladd Tywysog y bywyd—croeshoelio *Mab* Duw; ac felly am ei hanghrediniaeth hi o'r efengyl, a'i gwrthodiad penderfynol drachefn o Grist yn gynnygiedig iddi ynddi, y gellir dywedyd gyda llawn briodoldeb ei fod yn cynnwys ail groeshoeliad o hono o ran ysbryd y peth, er nad yn ol llythyren yr ymadrodd.

Ymddengys i ni fod yr ymadroddion canlynol o eiddo Paul yn ei lythyr cyntaf at y Thessaloniaid yn cadarnhau y golygiad hwn ar y gyfran hon:—

"Canys chwychwi, frodyr, a wnaethpwyd yn ddilynwyr i eglwysi Duw, y rhai yn Judea sydd yn Nghrist Iesu; oblegid chwithau a ddyoddefasoch y pethau hyn gan eich cydgenedl, megys

hwythau gan yr Iuddewon: y rhai a laddasant yr Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant ninnau ymaith; ac ydynt heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn; gan warafun i ni lefaru wrth y cenedloedd, fel yr iacheid hwy, i gyflawni eu pechodau hwynt yn wastadol: canys digofaint Duw a ddaeth arnynt hyd yr eithaf," (1 Thes. ii. 14, 15, 16). Yma sylwa yr apostol fod yr Eglwys Roegaidd yn Thessalonica yn dyoddef y cyffelyb erledigaeth yn achos yr efengyl oddiwrth eu cydgenedl ag oedd yr eglwysi Iuddewig yn Judea yn ddyoddef oddiwrth yr Iuddewon; ac ar yr un pryd, efe a ddengys fod euogrwydd yr Iuddewon anghrediniol, ac erlidus, yn llawer mwy nag ydoedd yr eiddo y cenedloedd—eu bod yn euog o bechodau, na chawsent hwy (y cenedloedd) erioed fantais i'w cyflawni, lladd yr Arglwydd Iesu, a u prophwydi eu *hunain,* &c., a'u bod, nid yn unig wedi gwrthod yr efengyl eu hunain, ac ymlid yr apostolion ymaith, ond hefyd, hyd yr oedd ynddynt, am attal i'r cenedloedd gael ei chlywed—eu bod megys wedi cyhoeddi rhyfel penderfynol yn erbyn y nefoedd a'r ddaear—*heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn,* a'u bod y pryd hwnw yn cyflawni mesur eu hanwiredd, a digofaint Duw yn dyfod arnynt hyd yr eithaf. Ysgrifenid y llythyr at y Thessaloniaid o naw i ddeng mlynedd (fel y bernir) o flaen hwn at yr Hebreaid. Gwelai Paul ei gydgenedl *yn syrthio ymaith*—yn prysur addfedu i'w dinystr y pryd hwnw. Nid oedd ganddo nemawr i ddim gobaith am dani bellach, y byddai iddi ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Mewn gair, y mae holl dôn yr ymadroddion uchod, yn y llythyr at y Thessaloniaid, yn cydgordio â'r gyfran dan sylw yn yr epistol at yr Hebreaid, yn ddysgrifiad o'r un bobl, ac o'r un cyflwr anobeithiol.

Yn awr, yr ydym yn wyneb yr holl ystyriaethau a grybwyllwyd, yn golygu ddarfod i'r genedlaeth anghrediniol hon weithio ei hun o'r diwedd i gyflwr anadferadwy; neu mewn geiriau eraill, ddarfod iddi gyflawni y pechod anfaddeuadwy: ac yn mhellach, mai y genedlaeth hòno yn unig a allasai gyflawni y pechod hwnw, a syrthio i gyflwr oedd yn *anmhosibl* iddi ymadnewyddu drachefn i edifeirwch o hono. Cyflwr y genedlaeth hon, debygaf, oedd yn ngolwg y Gwaredwr, pan y dywedai—"Pwy bynag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe faddeuir iddo; eithr i'r neb a gablo yn erbyn yr Ysbryd Glan, ni faddeuir," (Luc xii. 10). Efe a ddywedodd hyn, medd yr efengylwr Marc, "Am iddynt ddywedyd, Y mae ysbryd aflan ganddo." Yr oedd y rhai a briodolent ei wyrthiau, y rhai a gyflawnai efe trwy yr Ysbryd Glan, i ddylanwad yr ysbryd aflan, ac a haerent fod cyfathrach a chyngrair rhyngddo â Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, yn myned yn agos iawn i gyffiniau y pechod hwn—nid oedd ond un cam rhyngddynt ag ef; a chyflawnodd corff y genedlaeth hòno y gyflafan ofnadwy, pan y cablasant yn erbyn yr efengyl a'i gwyrthiau, wedi iddi ddyfod yn weinidogaeth yr Ysbryd, ar ol gogoneddu Mab y dyn. Nid ydym i feddwl fod cablu Mab y dyn yn llai drwg ynddo ei hun, na chablu yn erbyn yr Ysbryd Glan; ond y cai y rhai a wrthodent, ac a gablent weinidogaeth bersonol Crist un cynnyg drachefn, a dim ond un am byth; ac os gwrthod, a chablu y weinidogaeth hòno hefyd a wnaent, y byddai eu cyflwr yn gwbl anobeithiol, ac y selient eu colledigaeth eu hunain yn anadferadwy. Y genedlaeth hon, gan hyny, drwy ymgaledu a chablu, yn gyntaf, dan weinidogaeth bersonol Mab Duw, ac yn y diwedd, ei groeshoelio ef—ac ymgaledu a chablu wedi hyny, dan weinidogaeth yr Ysbryd Glan, yn ngeneuau cenadau ysbrydoledig, ac arddeledig, mewn modd arbenigol ganddo; a thrwy hyny, ail groeshoelio iddi ei hunan Fab Duw—a syrthiodd ymaith i gyflwr nad oedd modd i'w hadferu—a chyflawnodd bechod nad oedd yn bosibl iddi mwyach ymadnewyddu i edifeirwch, a derbyn maddeuant am dano.

Er ein bod yn golygu nad oes neb yn syrthio i'r cyflwr hollol anobeithiol hwn tra ar y ddaear, wedi yr oes a'r genedlaeth hòno o Iuddewon; etto, rhaid ystyried a dal mewn cof, fod y rhai hyny sydd yn hir fyw yn anedifeiriol ac anghrediniol dan weinidog-

aeth yr efengyl, yn ymgaledu nes syrthio o'r diwedd ymaith oddiwrth ei gwrando a throi yn gaseion calon iddi—yn myned i gyflwr anhawdd iawn, ac annhebyg iawn, y bydd iddynt byth ymadnewyddu drachefn i edifeirwch. Nid ydym yn meddwl y meiddiai neb ar y ddaear ddywedyd yn benderfynol am gyflwr un dyn byw, fod yn *anmhosibl* iddo ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; ond gellir dweyd yn ddibetrus am filoedd lawer, eu bod yn *annhebyg* iawn y bydd iddynt byth edifarhau a dychwelyd. Y maent wedi myned mor agos i'r tir nad yw yn bosibl adferu cyflwr o hono ag y mae yn ddichonadwy i un weithio ei hunan iddo yn awr. Nid oes ond ychydig iawn yn wir rhwng cyflwr yr un sydd yn *annhebyg iawn* i ddychwelyd—yr un y mae pob argoelion gobeithiol am dano wedi pallu, a chyflwr yr un y mae yn *anmhosibl* iddo ymadnewyddu.

Gosodir allan yn nesaf ddau gyflwr —cyflwr yr Iuddewon crediniol a'r rhai anghrediniol, (pa un bynag ai gelynion cyhoeddus i'r efengyl ai proffeswyr ffeilsion o honi)—drwy gymhariaeth o ddau fath o dir dan ddiwylliad—un yn dwyn llysiau cymhwys i'r llafurwr, a'r llall yn dwyn drain a mieri, (adn. 7). Y mae y tir blaenaf, (y cyflwr crediniol), *yn derbyn bendith gan Dduw*—yn wrthddrych ei gymeradwyaeth, ei ffafr, a'i ymgeledd. Y llall sydd yn dwyn drain a mieri, (y cyflwr anghrediniol), *yn anghymeradwy—yn agos i felldith; diwedd yr hon yw, ei llosgi.* Awgrymir yma, debygaf, at y farn a'r dinystr ofnadwy ar y genedl ag oedd bellach gerllaw. Yr oedd yn agos i'r felldith hòno yn awr: yr oedd tân ei llosgiad megys yn dechreu cynneu a chydio ynddi ar y pryd. Rhagfynegasid am y dinystr hwnw drwy y gymhariaeth o losgiad o'r blaen; unwaith neu ddwy gan Ioan Fedyddiwr, (Mat. iii. 11, 12):—"Myfi yn ddiau ydwyf yn eich bedyddio chwi â dwfr i edifeirwch; eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, sydd gryfach na myfi, yr hwn nid ydwyf deilwng i ddwyn ei esgidiau: efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glan, ac â thân." Aralleiria Michaelis yr ymadrodd hwn fel y canlyn:—

"Dechreua efe (Crist) ei weinidogaeth (neu ei grefydd) gyda bedydd mwy grymus na'r eiddo fi. Nid oes genyf fi ddim ond dwfr, ond y mae ganddo ef fedydd dyblyg. Efe a fedyddia â'r Ysbryd Glan; hyny yw, efe a dywallta yn y modd helaethaf ddoniau goruwchnaturiol yr Ysbryd, sef ysbryd prophwydoliaeth a gwyrthiau, (yr hwn a gymerodd le ar ddydd hynod y Pentecost): a'r rhai hyny a'i gwrthodant ef, efe a'u bwrw hwy i eigion o dân. (Aeth teml Jerusalem, a holl wlad Judea yn mron, yn ysglyfaeth i dân—yn llythyrenol felly")."

Yn yr adnod nesaf, cymhara Ioan y Messïa i nithiwr yn glanhau ei lawrdyrnu, yr hwn a gasgl ei wenith i'w ysgubor, ac a lysg yr ûs â thân anniffoddadwy. Cyfeiriai Iesu Grist ei hun hefyd at yr un amgylchiad, y mae yn debygol, yn yr ymadrodd, "Canys pob un a helltir â thân, a phob aberth a helltir â halen," (Marc ix. 49). Y mae yn ddiau fod yr ymadroddion uchod yn edrych yn mhellach na'r farnedigaeth dymmorol hòno at yr un ysbrydol a thragwyddol, yn y byd a ddaw, sydd yn aros yr holl anufuddion i'r efengyl yn ddiwahaniaeth; ond y maent, yn eu perthynas â'r genedlaeth sydd dan sylw, yn cynnwys yr un dymmorol hòno hefyd.

9 Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, a *phethau* yn nglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.

*Yn coelio am danoch chwi, &c.* Yr ydym yn dywedyd fel hyn wrthych chwi, ond yn coelio pethau gwell am danoch chwi. Am eraill yr oeddwn yn son o'r blaen, fel pe meddai; ond etto, er rhybudd ac addysg i chwi, ac fel annogaeth gref i chwi ymlynu wrth ac ymgadarnhau yn eich ffydd a'ch proffes efengylaidd. Am gyflwr eich brodyr anghrediniol, y rhai sydd yn eich casâu ac yn eich erlid o achos Crist a'r efengyl, yr oeddwn yn dywedyd y pethau hyny, gan obeithio pethau gwell am danoch chwi.

*Pethau yn nglŷn wrth iachawdwriaeth.* Pethau agos ati, cysylltiedig â hi, a hanfodol iddi. Tra yr edrychai yr apostol gydag arswyd ar gyflwr yr Hebreaid anghrediniol a gelynol i'r efengyl, fel un anobeithiol, anghymeradwy, agos i felldith a thân barnedig-

aeth dymmorol a thragwyddol, edrychai o'r tu arall gyda hyfrydwch ar gyflwr yr Hebreaid Cristionogol a gyfarchai, yn y gobaith a'r hyder a feithrinai am danynt, eu bod yn wir gredinwyr, ac y byddai iddynt barhau hyd y diwedd, a bod yn gadwedig, rhag bod yn gydgyfranogion a'r lleill yn nialeddau y farn dymmorol, y felldith a'r llosgi yr oeddynt yn agos iddynt, yn gystal a bod yn ddiogel rhag y golledigaeth ysbrydol a thragwyddol yn y byd a ddaw. Fel yr oedd y felldith, y tân, a'r dinystr yn nglŷn â'r cyflwr arall yn bethau agos iawn bellach, felly hefyd yr oedd ymwared ac iachawdwriaeth yr Hebreaid crediniol hyn yn beth agos hefyd. Yr oedd arwyddion dynesiad y farn dymmorol, am yr hon y rhagfynegodd Crist mor helaeth a manwl wrth ei ddysgyblion, i'w gweled yn eglur pan oedd yr apostol yn ysgrifenu ei epistol hwn, ac y maent o hyd o flaen ei feddwl, a chyfeiria yn aml atynt, ac felly y gwna yn y lle hwn. "A phan ddechreuo y pethau hyn ddyfod," medd Crist; sef yr arwyddion a grybwyllasai; "edrychwch i fyny, a chodwch eich penau; canys y mae eich ymwared yn nesâu," Luc xxi. 28. Dydd y melldithiad, llosgiad, a dinystr y genedl anghrediniol fyddai dydd ymwared y rhai crediniol o honi. Daliodd y dysgyblion oeddynt yn Jerusalem ar y rhagarwyddion o'i dinystr a roddasai yr Arglwydd Iesu iddynt, a dilynasant ei gyfarwyddyd trwy ddianc allan yn brydlon o honi, ac ymlechu yn ninas fechan Pella, fel Lot yn Zoar, pan yr oedd hi yn cael ei bedyddio â thân soriant Duw.

10 Canys nid *yw* Duw yn ᵃanghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini.

ᵃ Mat. 25. 40.

Yma traetha yr apostol sail, neu seiliau ei hyder gobeithiol am danynt. Seiliai ei hyder yn—

1. Eu bod hwy yn wir gredinwyr, yn blant i Dduw, ar y cariad a ddangosasant tuag at ei enw ef; yn eu gwaith yn gweini i'r saint—eu caredigrwydd tuag at saint tlodion ac erlidiedig. Ar yr un sail y traetha yr apostol Ioan yntau ei hyder am wirionedd crefydd y rhai yr oedd yn ysgrifenu atynt: "Nyni a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr," 1 Ioan iii. 14. Un o'r profion goreu fod un yn caru Duw, ydyw ei fod yn caru ei blant ef; nid yn ei broffesu *ar air yn unig*, ond yn ei ddangos mewn *gweithred a gwirionedd.* Yr oedd yr Hebreaid hyn wedi ac yn dangos y cariad hwn felly, trwy weini i'r saint anghenus.

2. Seilia yr apostol ei hyder am eu parhad hyd y diwedd, a'u cadwedigaeth yn y diwedd, etto, ar gyfiawnder Duw. *Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, &c.* Dewisa rhai gyfieithu y gair yn *anffyddlawn;* eraill, yn *angharedig.* Pa un bynag a ddewiser, nid yw y gwahaniaeth o bwys, y mae y naill yn cynnwys y llall. Y mae yr un mor anmhosibl i Dduw fod yn anffyddlawn neu yn angharedig ag ydyw iddo fod yn anghyfiawn. Y mae yr ymadrodd o angenrheidrwydd yn cynnwys y buasai eu gollwng hwy, ag oeddynt wedi rhoddi y fath brawf sicr eu bod unwaith wedi eu symud o farwolaeth i fywyd, i syrthio ymaith i golledigaeth anadferadwy, yn profi fod Duw naill ai yn anghyfiawn, yn anffyddlawn, neu yn angharedig, yr hyn nis dichon fod.

Y mae y fath dyb yn rhy annheilwng ac ysgeler i'w choleddu am foment. Y mae hyn etto yn brawf cryf iawn mai am gyflwr y lleill y llefarai yr apostol yn yr ymadroddion blaenorol; canys i ba ddyben y dywedai efe y gallai yr Hebreaid crediniol syrthio ymaith yn anadferadwy, a dywedyd drachefn yn uniongyrchol y buasai yn anghyfiawn yn Nuw eu gollwng i'r cyflwr hwnw? Y mae yr ymadrodd hwn, debygem ni yn tori esgyrn a gewynau esboniad y rhai a olygant fod yr ymadroddion blaenorol yn ddysgrifiad o wir gredinwyr.

Y mae Barnes (yn un) yn gryf iawn yn y farn hono. Etto, pan ddaw efe at y 9fed a'r 10fed adnod, efe a sylwa fel hyn:—

"Oddiwrth yr adnod hon, (9) y mae yn eglur yn (1.) Bod yr apostol yn eu golygu yn Gristionogion diffuant. (2.) Ac y credai efe na byddai iddynt syrthio ymaith. Er iddo fynegu beth a fuasai y canlyniad anocheladwy o i Gristionogion felly wrthgilio, etto, gyda golwg arnynt hwy, yr oedd ganddo gred ddiysgog na byddai i hyny gymeryd lle. Ai nid yw yr adnod hon yn brawf eglur yr ystyriai Paul ei bod yn sicr na byddai i wir Gristionogion byth syrthio ymaith i golledigaeth? Os tybiai y gallent, pa fodd y gallai efe fod mor hyderus na ddygwyddai hyny iddynt hwy? Paham nad allasent hwy yn gystal ag eraill?"

Etto, (adn. 10), efe a ddywed:—

"*Canys nid yw Duw yn anghyfiawn.* Ni wna Duw ar gam. Ni wna efe anghofio, neu ballu gwobrwyo ymdrechion ei bobl i w ogoneddu drwy wneuthur daioni. Y meddwl yma yw eu bod, drwy eu caredigrwydd yn gweinyddu i angenrheidiau y saint, wedi rhoddi prawf llawn o wir dduwioldeb. Os anghofiai Duw hyny, y byddai yn anghyfiawn, (1.) Oblegid yr oedd yn briodol i'r gweithredoedd hyny gael eu cofio. (2.) Oblegid fod addewid benodol y byddai iddynt gael eu gwobrwyo, Mat. x. 42."

Y mae yr esboniwr, yn y dyfyniadau uchod, yn dodi ei drosol dan wadn ei esboniad ar yr adnodau blaenorol, ac yn ei ddymchwelyd i'r llawr, debygem ni. Canys, os fel y dywed ef, yr ymddengys yn eglur oddiwrth yr adnodau diweddaf, yr ystyriai Paul ei bod yn berffaith sicr na byddai i wir Gristionogion byth syrthio ymaith i golledigaeth, ac y buasai Duw yn anghyfiawn pe cymerasai hyny le, ni allwn weled na rheswm na chysondeb yn y dyb ei fod yn golygu y cyfryw yn yr adnodau blaenorol. Llefara yno, nid yn unig fel pe *y gallasai* y rhai a ddysgrifir ganddo syrthio ymaith, &c., ond fel ffaith fod rhai felly *yn syrthio* ymaith. Ni allwn ni gredu fod yr apostol yn cymeryd tybiaeth o beth y credai efe nad allai byth gymeryd lle, i fyny, a helaethu arni, a dangos y canlyniadau ofnadwy o'r cyfryw ddygwyddiad, y credai efe ar yr un pryd oedd yn anmhosibl iddo byth ddygwydd.

11 Ac yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, er mwyn [b] llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd:

[b] Heb. 3. 6, 14.

Amcan neillduol yr apostol yn y geiriau o'r blaen, fel yr ymddengys yn y geiriau hyn, ydoedd annog yr Hebreaid hyn i ymroad egnïol yn eu crefydd; a bod iddynt, drwy ymadnewyddu a chynnyddu ynddi, roddi profion helaethach etto o'u cywirdeb Cristionogol, fel y buasai seiliau ei obaith a'i hyder ef am danynt yn cael eu cryfhau etto yn fwy, ac fel y caffent hwy eu hunain fwynhau llawn sicrwydd gobaith. Yr oedd yn gweled achosion i ofni am wirionedd eu crefydd ar un llaw, a seiliau i obeithio pethau gwell hefyd ar y llaw arall. Nid oedd heb ofni y gallasent fod wedi gweuthur proffes o Gristionogaeth, ac etto yn aros yn eu cyflwr o anghrediniaeth—bod rhai o arwyddion tebygolrwydd i fod yn ol arnynt. Mynai iddynt ddeall nad oedd eu cyflwr hwy ag oeddynt yn proffesu yr efengyl, os heb ei chredu a'i charu, yn ddim gwell na chyflwr y rhai hyny o'u cenedl ag oeddynt yn elynion cyhoeddus iddi; ac mai yr un fyddai eu diwedd, yr hwn a ddysgrifiai efe mor arswydlawn. Ond yr oedd hefyd yn gweled sail i obeithio *pethau gwell* am danynt.

Chwennychai *fod i bob un o honynt ddangos yr un diwydrwydd* yn y llafurus gariad a ddangosasent eisoes tuag at ei enw ef, mewn gweini i'r saint, ac yn holl rinweddau y fuchedd Gristionogol. Yr oedd rhai o honynt yn parhau i ddangos y diwydrwydd hwnw; ond yr oedd eraill wedi oeri a phallu i raddau. Chwennychai ef fod i *bob un* o honynt ymadnewyddu, "rhag bod neb o honynt yn debyg i fod yn ol." Trwy barhad gwastadol yn y diwydrwydd hwnw yn unig y gallent gyrhaedd y tir uchel mewn crefydd o fwynhau *llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd.*

Sonir am lawn *sicrwydd deall*, a llawn *sicrwydd ffydd*, a llawn *sicrwydd gobaith.* Y mae y naill yn angenrheidiol i'r llall: llawn sicrwydd *deall*, er cyrhaedd llawn sicrwydd *ffydd;* a llawn sicrwydd *ffydd*, er cyrhaedd llawn sicrwydd *gobaith.* Ni all yr enaid feddu yr olaf heb y ddau gyntaf. Y mae llawn sicrwydd *deall* yn cynnwys meddwl goleuedig, ac amgyffrediad helaeth a chywir, o athrawiaethau yr efengyl. Llawn sicrwydd *ffydd*—meddwl cwbl argyhoeddedig o wirionedd a dwyfoldeb yr athrawiaethau hyny, ac ymorphwysiad tawel yr enaid

arnynt ac ynddynt. A llawn sicrwydd *gobaith*,—hyderus ddysgwyliad yr enaid y bydd iddo yn y diwedd etifeddu a mwynhau bywyd tragwyddol.

12 Fel na byddoch [c]fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion.

[c]Diar. 15. 19; 2 Pedr 1. 10.

*Fel na byddoch fusgrell:* yr agwedd wrthgyferbyniol i ddiwydrwydd—yn esgeulus, diofal, a dilafur yn eu crefydd; yr hon agwedd, tra yr arosent ynddi, a'i cadwent yn amddifaid o'r dyddanwch o fwynhau llawn sicrwydd gobaith.

*Eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion;*—sef y ffyddloniaid oeddynt wedi eu perffeithio, a chyrhaedd yr orphwysfa nefol hòno, ag y mae addewid wedi ei gadael i ninnau i fyned i mewn iddi. Trwy ffydd ac amynedd y cyrhaeddasant hwy yr etifeddiaeth nefol. Credasant y datguddiad a gawsant o honi; buont yn ddyfal a diwyd dros eu holl fywyd i gyrchu tuag ati, gan ddysgwyl yn amyneddus a hyderus am ddiwedd eu ffydd, sef iachawdwriaeth eu heneidiau. Cawsant hwythau lawer o brofedigaethau ar eu gyrfa. Cyfarfuant â llawer o rwystrau; ond daliasant eu ffordd, gan ychwanegu cryfder hyd y diwedd.

13 Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, oblegid na allai dyngu i neb *oedd* fwy, a dyngodd iddo ei hun,

*Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham.* Ceir yr addewid y cyfeirir ati yn Gen. xiii. 16, 17. Dygir yr addewid hòno a gadarnhawyd trwy lw i Abraham i mewn yma, yn annogaeth a chymhelliad i'r Hebreaid hyn, oeddynt fel dynion yn had naturiol Abraham, ac fel Cristionogion yn had ysbrydol iddo, i gerdded llwybrau ffydd ac amynedd eu tad. Rhoddodd Duw, wrth roddi ei addewid, wedi ei chadarnhau â llw, y sicrwydd mwyaf i Abraham ag oedd yn bosibl, y byddai iddo ei fendithio. "Yn ddiau, gan fendithio y'th fendithiaf." Gwystlodd ei air a'i wirionedd ar lw yn hyn. Wrth roddi y sicrwydd hwn i Abraham, yr oedd yn ei roddi hefyd ar yr un pryd i holl etifeddion "yr un gyffelyb werthfawr ffydd" ar ei ol ef. "Felly, gan hyny, y rhai sydd o ffydd, a fendithir gydag Abraham ffyddlon," Gal. iii. 9.

*Oblegid na allai dyngu i neb oedd fwy, a dyngodd iddo ei hun.* Yr oedd yn anfeidrol ymostyngiad i'r anfeidrol a'r digelwyddog Dduw dyngu llw er sicrwydd cyflawniad ei air unwaith erioed, ar unrhyw achos; ond efe a wnaeth hyny laweroedd o weithiau. A chan iddo dyngu, yr oedd raid iddo wneud hyny iddo ei hun, gan na allai dyngu i neb oedd fwy.

14 Gan ddywedyd, [d]Yn ddiau gan fendithio y'th fendithiaf, a chan amlhau y'th amlhaf.

[d]Gen. 22. 16, 17.

Dyna gynnwysiad yr addewid hòno i Abraham. Yr oedd yn golygu, nid yn unig had naturiol, ond had ysbrydol hefyd, fel y sylwa yr un apostol mewn lle arall: "Ac efe a gymerth arwydd yr enwaediad, yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad: fel y byddai efe yn dad pawb a gredent yn y dienwaediad; fel y cyfrifid cyfiawnder iddynt hwythau hefyd: ac yn dad yr enwaediad, nid i'r rhai o'r enwaediad yn unig, ond i'r sawl hefyd a gerddant lwybrau ffydd Abraham ein tad ni, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad," Rhuf. iv. 11, 12.

15 Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, efe a gafodd yr addewid.

Efe a dderbyniodd wystl sicr o gyflawniad yr addewid yn holl lawnder ei chynnwysiad yn ngenedigaeth Isaac. Derbyniodd yr addewid yn gyntaf yn Haran, pan oedd yn fab pymtheg mlwydd a thriugain, Gen. xii. 1—4. Adnewyddwyd hi iddo drachefn yn mhen tuag wyth mlynedd, wedi iddo ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, pan oedd efe yn trigo yn ngwastadedd Mamre, yn ngwlad Canaan, Gen. xv. 4, 5. Ac wedi hyny drachefn yn mhen tua phymtheng mlynedd, pan oedd Abraham onid un mlwydd cant, Gen. xvii.

1—8. Felly efe a gafodd hirymaros, tua phedair blynedd ar hugain, ar ol rhoddiad cyntaf yr addewid, cyn iddo ei derbyn yn ngenedigaeth Isaac. Cafodd hirymaros am dani; ac yr oedd yn ymaros dan yr anfanteision mwyaf. Yr ydoedd llais natur yn erbyn llais yr addewid. Y casgliad naturiol i reswm oddiwrth drefn natur oedd, bod cyflawniad yr addewid yn beth annichonadwy. Ond, "efe yn ddiegwan o ffydd, nid ystyriodd ei gorff ei hun, yr hwn oedd yr awrhon wedi marweiddio, ac efe yn nghylch can' mlwydd oed, na marweidd-dra bru Sara. Ac nid ammheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth; eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw," Rhuf. iv. 19, 20. Cyfodir esiampl ffydd Abraham fel hyn er annogaeth i'r Hebreaid i ddal a glynu yn ddianwadal yn y ffydd, gan ddysgwyl yn hyderus fel yntau am gyflawniad addewidion yr efengyl yn eu dedwyddol ymwared ar ddiwedd eu gyrfa, allan o'u holl drallodau.

16 Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy: a [e]llw er sicrwydd, *sydd* derfyn iddynt ar bob ymryson.

[e]Exod. 22. 11.

*Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy.* Dychwela yr apostol etto at bwnc y llw. Arfer dynion yn eu cyfammodau â'u gilydd, neu ar bwnc o ymrafael, yw cadarnhau cytundeb neu dystio.aeth â llw, drwy dyngu i un a fo mwy, yr hyn ni allasai Duw, fel y dywedasai o'r blaen, gan mai efe ei hun ydyw y mwyaf o bawb. Tyngai y cenedloedd paganaidd yn enwau eu duwiau, y rhai a ystyrient yn fwy—yn uwch na hwy eu hunain. Felly Israel gynt, a Christionogion etto, i enw yr Arglwydd. Mewn llw, appèlir ato ef fel tyst, a diofryda yr hwn fyddo yn tyngu ei hunan i'w ddialedd cyfiawn ef, os tystiolaetha yn groes i'r gwirionedd, neu os na saif yn ffyddlawn i'w ymrwymiad.

*A llw er sicrwydd, sydd derfyn iddynt ar bob ymryson.* Y rhwymyn cryfaf a ddichon y naill ddyn ei roddi ar y llall ydyw rhwymyn llw. Nis gellir myned yn mhellach na hyny. Y dyn nad oes ganddo gydwybod i'w lw, gan ei ystyried yn rhwymyn rhy gysegredig i'w dòri mewn unrhyw amgylchiad, sydd yn adyn dirmygus a damniol mewn cymdeithas. Y mae efe megys ethnig a phublican iddi byth mwyach, yn hollol annheilwng o'r ymddiried lleiaf. Wedi i Abraham dyngu ei was, Eleazer, na chymerai efe ei fab Isaac i Mesopotamia, yr oedd yn dawel ei feddwl ar y mater. Pan dyngodd Joseph wrth ei dad Jacob, yr elai ag ef i wlad Canaan i'w gladdu gyda'i dadau, "Yna Israel a ymgrymodd ar ben y gwely." Gosodai ei ben lluddedig i lawr ar obenydd llw ei fab, mewn perffaith hyder y cyflawnid ei ddymuniad. "Llw er sicrwydd, sydd derfyn ar bob ymryson."

17 Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i [f]etifeddion yr addewid [g]ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw:

[f]Rhuf. 8. 17. Heb. 11. 9. [g]Rhuf. 11. 29.

Yr un modd ag y sicrha dynion eu haddewidion (ar rai achlysuron) i'w gilydd, y gwnaeth Duw hefyd sicrhau ei addewidion ef. Efe a ddaeth yn wirfoddol dan rwymyn dynol, wrth ymgyfathrachu â dynion. "Cyfryngodd trwy lw," o'i ewyllys da ei hun, heb i neb ofyn hyny ganddo. Abraham a wnaeth i Eleazer dyngu; a Jacob a geisiodd gan Joseph fyned ar ei lw; a Jonathan, yr un modd, a wnaeth i Dafydd yntau dyngu, 1 Sam. xx. 17. Ond *Duw yn ewyllysio*—rhyfyg fuasai i neb ofyn am ei lw, a sicrwydd ei air; ond ymostyngiad a gras anfeidrol ynddo ydoedd ei roddi. *Dangos yn helaethach*—yn hytrach, dangos yn helaethlawn, neu yn y modd helaethaf a llawnaf ag oedd yn bosibl; *i etifeddion yr addewid*—credinwyr. Trwy gredu yr addewid y daeth Abraham yn etifedd yr addewid a roddwyd o'i flaen; a'r un modd y mae pob pechadur byth yn dyfod yn etifedd o addewid bywyd tragwyddol yn Nghrist Iesu, sef trwy gredu. Ac y mae Duw, wrth gyfryngu trwy lw, yn dangos yn y modd cadarnaf a helaethaf sydd yn ddichonadwy, ddianwadalwch ei feddwl, neu ei gynghor, i sefyll at, a chyflawni yr addewid

hòno. Ni all efe gilio oddiwrth ei addewid heb dòri ei lw. Nis gall wrthod a chondemnio yr enaid a gredo, pwy bynag a fyddo, heb roddi esiampl o anudoniaeth ger bron ei holl lywodraeth. Pe byddai (yr hyn nis gall fod) y fath beth ag i'w *ewyllys* gyfnewid ar y mater, y mae ei lwon lawer, yn y rhai y gwystlodd efe ei fywyd, a holl briodoliaethau ei hanfod ogoneddus, yn ei rwymo i sefyll at yr addewid.

18 Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai *yr oedd* yn anmhosibl i Dduw fod [h] yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd [i] gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen:

h Titus 1. 2. i 1 Tim. 6. 12.

*Fel trwy ddau beth dianwadal*—ei addewid a'i lw. Buasai ei addewid ef heb lw wrthi o angenrheidrwydd yn ddianwadal; ond y mae y llw yn dangos yn helaethach drachefn y dianwadalwch hwn.

*Yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog.* Yn *anmhosibl* —am ei fod yn caru gwirionedd, cyfiawnder, ffyddlondeb, a santeiddrwydd, ac yn casâu anwiredd a thwyll â chas cyflawn. Ni all efe fod yn *gelwyddog;* anallu moesol ydyw, yn tarddu oddiar yr hyn ydyw egwyddorion neu berffeithiau moesol ei hanfod.

*Y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.* Y gallem ni gael *cysur,* neu yn hytrach annogaeth, cymhelliad cryf, yr un cryfaf ag oedd yn bosibl i Dduw ei hun ei roddi i ni, i ffoi, ymaflyd, a dal ein gafael yn y gobaith a osodir o'n blaen ni yn yr efengyl. *Cymeryd gafael yn y gobaith*— fel y ffoai y llofrudd yn Israel, gan gymeryd gafael yn nghyrn yr allor, fel ei unig obaith am ei fywyd. Ond hyd yn nod yno nid oedd ei fywyd ef yn ddiogel. Lladdwyd Joab yn y fan hòno; ond ni chollodd un pechadur euog ei fywyd erioed, a ffoai i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Unwaith yno, y mae y *ddau beth dianwadal*—ei addewid a'i lw, yn darianau tragwyddol i'w ddiogelu.

19 Yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r [k] tu fewn i'r llen,

k Lef. 16. 15.

*Yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr.* *Yr hwn*— sef y gobaith a osodwyd o'n blaen ni. Wedi i ni ffoi ato, a chymeryd gafael ynddo, nid gobaith *o'n blaen ni* yn unig ydyw mwyach, ond gobaith *genym ni*— ynom ni. *Megys angor yr enaid.*—Defnyddia yr apostol hen gymhariaeth arferedig gan y Groegiaid, a chenedloedd eraill yn fynych, wrth son am obaith—ei fod ef i'r enaid yr hyn ydyw angor i'r llong. Dau bwnc mawr y morwr yn nydd y dymhestl, ydyw fod ganddo angor cryf, da, a lle da i angori ynddo. Tra dalio yr angor yn gyfan, ac y dalio ei afael yn y cleidir, y mae y llestr yn ddiogel, beth bynag fyddo nerth a chynddaredd y dymhestl. Ac felly y mae bywyd yr enaid sydd ganddo y gobaith hwn, yn ddiogel a sicr, yn nghanol tymhestloedd profedigaethau a thrallodau y byd. Nid yw yn cael ei yru oddiamgylch gan wyntoedd creulon, fel llong heb angor.

*Ac yn myned i fewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen.* Yma y mae y gymhariaeth o angor yn cael ei gollwng, a lleferir am y gobaith yn syml. *Barnes.* Y mae y gobaith hwn yn myned i *mewn at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen*— sef i'r nefoedd, yr hon yr oedd y cysegr y tu fewn i'r wahanlen yn bortread o honi. Yno y preswyliai Duw, mewn arwydd gweledig o ddysgleirdeb tanllyd ar y drugareddfa rhwng y cerubiaid. Yr hyn oedd Duw yn ddatguddiedig yno, ydoedd gwrthddrych gobaith y ffyddloniaid yn Israel; ac er nas gallent hwy fyned yno i'w wyddfod yn bersonol, yr oeddynt yn gallu myned yno trwy ffydd, o ran eu meddyliau, a gobeithio yn ei enw santaidd ef. Y mae gobaith y credinwyr dan yr efengyl yn myned i'r nef ei hun.

20 I'r [l] man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, *sef* Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad

yn dragwyddol yn ol [m]urdd Melchisedec.

[l] Heb. 4. 14. [m] Heb. 7. 17.

*I'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu. I'r man*—sef i'r tu fewn i'r llen; i'r nef ei hun, nid i'r cysegr o waith llaw; *yr aeth y rhagflaenor*—y rhagredegydd; *drosom ni*—yn ein natur ni, ac yn ein hachos ni; *sef Iesu*—y Messïa, "Tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni." Trosom ni yr aeth efe i bob man y bu ynddo erioed—i'r preseb, i'r ardd, i'r llys, i angeu, i'r bedd, ac yn y diwedd i'r nefoedd i barotoi lle i ni, Ioan xiv. 2.

Defnyddia yr apostol yr un ffaith, sef bod Iesu—y rhagflaenor, wedi myned i'r nef drosom ni, mewn lle arall, (pen. iv. 14), i'r un pwrpas ag y crybwyllir hi yma; sef, fel annogaeth gref i lynu yn y broffes Gristionogol, ac i ddal hyder y gobaith efengylaidd yn sicr hyd y diwedd.

*Yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec.* Yma daw yr apostol yn ol at y pwnc a adawsai ef heb ond ei grybwyll yn



YR ARCHOFFEIRIAD IUDDEWIG.

pen. v. 11. Yno dywedai fod y Messïa "wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Offeiriad yn ol urdd Melchisedec." Ac ychwanegai, "Am yr hwn (Melchisedec) y mae i ni lawer o bethau i'w dywedyd, ac anhawdd eu traethu, o achos eich bod chwi yn hwyrdrwm eich clustiau." Ac yna á yn mlaen i'w ceryddu am yr hwyrdrymedd hwnw, ac i'w cymhell trwy lawer o rybuddion pwysig, ac annogaethau cryfion, i ymysgwyd o'r agwedd hòno. Ond yr ydoedd ei fater o hyd o flaen ei feddwl, ac efe a ymlithra yn ol ato yn esmwyth a naturiol, ac â yn mlaen bellach i draethu arno rai o'r "llawer o bethau" oedd ganddo i'w dywedyd, gan ymdrechu arwain eu meddyliau rhagddynt tuag at y perffeithrwydd hwnw a ddodasai efe yn nôd o'u blaen. Yn awr, y mae yn myned i gyflawni yr hyn a addawsai, "os caniatâi Duw," yn adn. 3; sef, ymdrin â'r athrawiaeth fawr am archoffeiriadaeth ac urdd archoffeiriadol Crist, yr hon sydd yn gorwedd yn ddyfnach yn nhrefniant yr efengyl na'r "ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist"—edifeirwch a ffydd, &c.

## PENNOD VII.

1 *Crist Iesu sydd Offeiriad yn ol urdd Melchisedec;* 11 *ac felly yn rhagori llawer ar yr offeiriaid oedd yn ol urdd Aaron.*

CANYS y Melchisedec hwn, [n] brenin Salem, offeiriad y Duw Goruchaf, yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i bendithiodd ef;

[n] Gen. 14. 18, &c.

*Canys y Melchisedec hwn, brenin Salem, offeiriad y Duw Goruchaf.* Wedi crybwyll am Melchisedec amryw droion o'r blaen fel cynddelw arbenig o'r Messïa, ar awdurdod ymadrodd yr Ysbryd Glan am dano yn ngenau Dafydd yn Salm cx. 4, ymeifl yr apostol yn awr yn y pwnc oedd ganddo mewn golwg o'r dechreu, sef profi bod offeiriadaeth Melchisedec o urdd—graddoliaeth—uwch na'r un Lefiaidd; a chan fod Crist yn Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec, bod ei offeiriadaeth ef, ar y cyfrif hwnw yn unig, yn annibynol ar ystyriaethau eraill, yn rhagori ar yr eiddo Aaron. Yr oedd, yn wir, yn eithaf amlwg na allasai efe—Crist—fod yn offeiriad yn ol urdd Aaron, gan nad oedd yn hanu o deulu Aaron, nac o lwyth Lefi; canys yr oedd deddf yr offeiriadaeth hòno yn cau allan o'r swydd bawb oll ond teulu Aaron; a dyna oedd prif elfen cyfansoddiad yr urdd hòno. Fel Brenin i deyrnasu arnynt yn benaf, os nid yn hollol, yr oedd yr Iuddewon yn dysgwyl eu Messïa. Nid oeddynt wedi meddwl am dano fel Archoffeiriad i offrymu rhoddion ac aberthau dros bechodau; gan hyny, rhydd yr apostol ddynodrwydd arbenigol i'r ymadrodd yn Salm cx., er dangos fod y Messïa wedi cael prophwydo am dano fel Archoffeiriad yn gystal ag fel Brenin. Yr oedd hon yn athrawiaeth newydd i'r Hebreaid, ac yn taro yn groes i'w hen gredo hwy, yr hyn a barai ei bod yn anhawdd i'w thraethu wrthynt, a'i dysgu iddynt.

Dengys yr apostol ddarfod i Iehofa, yr hwn, yn yr ail Salm, a osodasai y Messïa yn Frenin ar Seion ei fynydd santaidd, ac a ddywedasai, "Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd: teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy frenhiniaeth di," dyngu wrtho hefyd yn y ddegfed Salm a chant, gan ddywedyd, "Ti wyt offeiriad yn dragwyddol, yn ol urdd Melchisedec." Yr oedd Melchisedec yn gysgod mwy cyflawn o'r Messïa nag ydoedd Aaron, nac un o'i urdd ef ar ei ol, gan ei fod yn offeiriad ac yn frenin hefyd. Yr oedd urddas y ddwy swydd oruchel yn cydgyfarfod yn ei berson ef. Cedwid y ddwy swydd ar wahan yn Israel—yr offeiriadaeth yn Lefi, a'r deyrnwialen yn Judah. Yr archoffeiriadaeth yn nheulu Aaron, a'r frenhiniaeth yn nheulu Dafydd. Ni oddefai y gyfraith i neb o deulu Aaron ymaflyd yn nheyrnwialen Dafydd, nac i neb o deulu Dafydd ymaflyd yn thuser Aaron. Pan ryfygodd y brenin Uzzïa arogldarthu, tarawyd ef â'r gwahanglwyf yn ei dalcen; a bu yn wahanglwyfus hyd ddydd ei farwolaeth. Daliai Melchisedec y deyrnwialen frenhinol a'r thuser offeiriadol hefyd. Cydnabyddai Abraham ef fel brenin ac offeiriad y Duw Goruchaf; a geilw Moses a Paul ef felly.

Llawer fu o ymofyn a manwl chwilio yn nghylch pwy oedd y person hynod hwn—Melchisedec. Yr amser a ballai i grybwyll yr holl amryfal opiniynau yn ei gylch. Angel, medd rhai; Mab Duw ei hun, medd eraill, a ymddangosodd i Abraham ar yr achlysur, ac yn y dull hwnw. Yr Ysbryd Glan, medd y lleill. Sem, mab Noah, ydoedd yn ol tyb gyffredinol yr Iuddewon, a rhai duwinyddion Cristionogol, megys Luther a Grotius. Ham, mab Noah, medd eraill etto; rhyw dywysog Canaaneaidd, medd Josephus; ac âg ef y cytuna y rhan fwyaf o esbonwyr. Dywedai Mr. Gregory o Rydychain, gwr dysgedig yn byw yn yr ail ganrif ar bymtheg, ddarfod iddo ef gael y cyfrif canlynol am Melchisedec yn yr *Arabic Catena*, yr hwn a ystyriai ef o awdurdod uchel, mai mab ydoedd i Heraelium, fab Peleg, fab Eber; ac mai enw ei fam oedd Salathiel, ferch Gomer, fab Japheth, fab Noah.

O'r holl wahanol dybiau hyn, yr

un a ymddengys i mi y fwyaf resymol ydyw yr hen dyb Iuddewaidd, sef mai Sem ydoedd Melchisedec. Yn ol y cyfrif amseryddol Hebreaidd, bu Sem fyw amryw flynyddoedd ar ol yr amser y daeth Melchisedec i gyfarfod Abraham; ac, yn sicr, efe oedd y person anrhydeddusaf o lawer o bawb oedd yn byw ar y ddaear yn yr amser hwnw. Gosodwyd anrhydedd arbenig arno yn y fendith a gyhoeddodd ei dad pan y gosododd ef o flaen Japheth ei fab hynaf, gan awgrymu mai o'i linach ef yr hanai y Gwaredwr a ragefengylasid yn yr addewid gyntaf: yr hwn a eilw Noah yn y fendith hòno, "Arglwydd Dduw Sem." Pa wr arall a allasai fod ar y ddaear yn yr oes hòno heblaw Sem y buasai yn briodol dywedyd am dano ei fod yn fwy—yn anrhydeddusach—yn well, nag Abraham, ac y gwnaethai Abraham ei hun gydnabyddiaeth o hono fel y cyfryw? Neb, feddyliem yn gryf. Nid ydym yn gweled digon o rym yn y gwrthddadleuon a gyfodir yn erbyn y dyb hon oddiwrth yr enw Melchisedec; sef, paham y gelwid ef felly, os Sem ydoedd; ac oddiwrth yr hyn a ddywedir am dano—ei fod heb dad, ac heb fam, ac heb achau, &c., i beri i ni ymwrthod â hi. Gallai ddarfod i'r patriarch gael ei gyfarwyddo i fabwysiadu yr enw Melchisedec i ddyben arwyddocaol ar ddechreu ei frenhinol offeiriadaeth yn Salem, fel, o dan yr enw a'r nodwedd hwnw, y mae efe yn sefyll yn yr hanesyddiaeth heb dad, ac heb fam, ac heb achau. Ymddengys, debygem, fod llawer o debygolrwydd gwirionedd yn y dyb hon, o'r hyn y mae y lleill oll yn amddifad. Y mae, yn wir, yn syndod ddarfod i ymenydd dyn erioed gynnyrchu tybiaeth mor anhygoel a hòno, a fyn haeru mai Ham ydoedd Melchisedec, yr hwn, yn nghyda'i hiliogaeth, oedd wedi syrthio dan felldith ei dad, yn y brophwydoliaeth a gyhoeddodd efe dan gyfarwyddyd ysbrydoliaeth ddwyfol, fel y mae yn amlwg. Am y dybiaeth mai Mab Duw ydoedd y person hwn, y mae yn ymddangos yn anghydweddol â'r hanes a roddir am dano. Pa briodoldeb fuasai dywedyd am Fab Duw ei fod wedi ei wneuthur yn gyffelyb iddo ei hun, a'i fod wedi ymddangos yn gysgod o hono ei hun? Ond gan i'r ysbrydoliaeth ddwyfol weled yn ddoeth, i bwrpas a dyben priodol yn ddiau, i daenu llen dros y person dan sylw, nid doethineb yn neb fyddai cymeryd arno benderfynu pwy ydoedd. Ar yr un pryd, y mae yn eithaf cyfreithlawn, debygem, i chwilio am y dybiaeth fwyaf tebygol i'r gwirionedd ar y peth, ac i bob un fynegu ei farn ei hun fel tybiaeth yn unig.

Cytunir yn lled gyffredin mai yr un a Jerusalem, wedi hyny, ydoedd Salem, lle yr oedd Melchisedec yn frenin ac offeiriad y Duw Goruchaf. Yr oedd eulunaddoliaeth wedi cyfodi ei ben yn uchel yn y byd mor fore a hyn ar ol y diluw. Ymlygrasai hiliogaeth Cam yn ddirfawr, yn gyffelyb fel yr ymlygrasai teulu Cain o flaen y diluw. Yr oedd teuluoedd Sem a Japheth hefyd wedi gŵyro. Ymddengys fod teulu Abraham, yr hwn oedd o deulu Sem, wedi ymlygru cyn ei alwad ef allan o'i wlad. Cadwasai Melchisedec yn ddilwgr, modd bynag; a safai yn dyst yn erbyn eulunaddoliaeth y byd o'i amgylch fel offeiriad y Duw Goruchaf, i'r hwn yn unig yr offrymai efe roddion ac aberthau.

*Yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i bendithiodd ef.* Goddiweddodd Abraham y brenhinoedd, ac ymosododd arnynt, gerllaw Damascus. Yr oedd Salem ar ei ffordd wrth ddychwelyd i Mamre, gerllaw Hebron, lle yr oedd efe yn trigo y pryd hwnw. Daeth Melchisedec allan o'r ddinas, â gosgordd yn ei ganlyn, y mae yn debygol, i gyfarfod ag ef, a bara a gwin i'w groesawu ef a'i fintai, ac a'i bendithiodd ef. Y mae y fendith wedi ei chofnodi yn Gen. xiv. 19, 20; "Bendigedig fyddo Abram gan Dduw Goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear: a bendigedig fyddo Duw Goruchaf, yr hwn a roddes dy elynion yn dy law." Gellid casglu fod Melchisedec, yn ffurfymadrodd y fendith, yn amcanu iddo fod yn wrthdysteb i eulunaddoliaeth—prif bechod ei oes. Cydnabyddid Duw Goruchaf yn gyffredinol gan bawb; ond credent hefyd fod is-dduwiau a chanddynt awdurdod a llywodraeth ar y ddaear, a'u bod ar y cyfrif hwnw i'w haddoli.

Gesyd Melchisedec allan mai yr Arglwydd Dduw Goruchaf ydyw unig feddiannydd a llywodraethwr nefoedd a daear; ac felly, yr unig wrthddrych teilwng i'w addoli, a galw ar ei enw. Rhoddodd fel hyn hefyd sel ei gymeradwyaeth ar waith Abraham yn ymlid ar ol, ac yn taro y brenhinoedd hyny, a drawsruthrasant i oresgyn ac anrheithio gwledydd nad oedd eiddynt; a chyhoeddodd y gymeradwyaeth hòno yn enw Duw Goruchaf, i'r hwn yr oedd efe yn offeiriad; a phriodola lwyddiant anturiaeth filwraidd Abraham i'r Duw hwnw. Yr oedd brenin Sodom, yntau, wedi dyfod allan mor belled a hyn i gyfarfod Abraham, i'w gyfarch ac i dalu diolch iddo; ac yn sefyll gerllaw, gallem feddwl, pan oedd Melchisedec yn bendithio Abraham. Ymddengys ddarfod i'r ymadrodd a ddefnyddiasai Melchisedec wrth ei fendithio daro yn ddwys ar deimlad Abraham; canys y mae yn cymeryd gafael ynddo, ac yn tyngu iddo yn y lle ar y pryd, pan y dywedodd brenin Sodom wrtho, "Dod i mi y dynion, a chymer i ti y cyfoeth," efe a atebodd, gan ddywedyd, "Dyrchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw Goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear," &c.

2 I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham ddegwm o bob peth: yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, *yw*, Brenin cyfiawnder, ac wedi hyny hefyd, Brenin Salem, yr hyn yw, Brenin heddwch;

*I'r hwn hefyd y cyfranodd Abraham ddegwm o bob peth*—sef o'r holl anrhaith a ddygasai efe oddiar y brenhinoedd. Dyma y tro cyntaf y cawn hanes am gysegriad degwm at wasanaeth crefyddol. Cyflwynodd Abraham y degwm o'r anrhaith i Melchisedec, fel offeiriad y Duw Goruchaf, yn fwy nac fel anrheg, neu deyrnged, o barch iddo fel brenin Salem, gallem feddwl. Yr oedd, gan hyny, yn weithred o natur grefyddol, yn hytrach na gwladyddol, yn aberth diolch i Dduw—cyflwynedig iddo drwy ei offeiriad am lwyddiant yr hynt filwraidd yr oedd efe yn dychwelyd adref yn fuddugoliaethus o honi. Melchisedec, y mae yn debygol, oedd yr offeiriad cenedlaethol cyntaf erioed; ac yn wir, y cyntaf erioed a alwyd yn offeiriad mewn un ystyr: canys er y byddai y patriarchiaid yn arfer aberthu, ni elwir yr un o honynt yn offeiriad. Nid oes genym hanes am offeiriad o'r fath i'r gwir Dduw ar ol Melchisedec, os nad oedd Jethro, chwegrwn Moses, yn gyfryw, hyd oni neillduwyd Aaron i'r swydd yn Israel. Offeiriadaeth deuluaidd oedd yr un batriarchaidd hyd amser Melchisedec; ond yr oedd efe yn offeiriad i'w bobl—i'r wladwriaeth yr oedd efe yn frenin arni; ac y mae yn ddigon tebygol fod ei ddeiliaid yn arfer talu degymau iddo fel eu hoffeiriad, yn gystal a'u teyrnged iddo fel eu brenin; ac mai mewn cydffurfiad â defod y bobl hyny y cyflwynodd Abraham, yntau, ddegwm iddo; a thrwy hyny, talodd warogaeth i'w swyddau a'i urddas, ac ymgysylltodd âg ef mewn cyngrair a chymdeithas.

*Yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, yw, Brenin cyfiawnder; ac wedi hyny hefyd, Brenin heddwch.* Gwna yr apostol yma ddefnydd o ystyr enw y person—Melchisedec, ac ystyr enw y lle—Salem, fel y dygwyddiadau tarawiadol yn nodwedd y cysgod hynod hwn o'r Messïa. Arwyddocâd yr enw Melchisedec yw, "Brenin cyfiawnder;" ac ystyr yr enw Salem yw, "Heddwch." Cyfansoddai hyn Melchisedec yn gynddelw nodedig o'r hwn oedd i ddyfod. Dichon, ac ar y cyfan y mae yn debygol, mai Melchisedec oedd sylfaenydd Salem a'r freniniaeth yno. Gallai ddarfod iddo ymneillduo o blith eulunaddolwyr llygredig Caldea, gyda nifer o ffyddloniaid, i'r rhai yr oedd efe yn flaenor, ac ymdeithio hyd Ganaan, ac ymsefydlu yno yn wladwriaeth fechan annibynol, a'i galw wrth yr enw Salem, pan oedd Nimrod, a phenaethiaid eraill o'r un ysbryd traws a rhyfelgar ag ef, yn darostwng eu cyd-ddynion; ac iddo fabwysiadu yr enw *Melchisedec* ar ddechreuad ei freniniaeth a'i offeiriadaeth yno, fel arwyddair ei deyrnasiad, ac fel gwrthdystiolaeth yn erbyn uchelgais draws ac anghyfiawn y penaethiaid eraill hyny; a *Salem* i fod yn enw ei ddinas a'i wladwriaeth, i osod allan ei fod ef a'i bobl yn caru byw mewn heddwch

â'u gilydd, ac â'r byd o'u hamgylch. Brenin Cyfiawnder, a Thywysog Tangnefedd, ydynt deitlau arbenig a roddir ar y Messïa. Prophwydwyd llawer am dano dan y teitlau hyn. Cyfiawnder a Heddwch ydynt y ddwy egwyddor—y ddwy fendith fawr—y daeth efe i'r byd i'w cyhoeddi a'u hadferu yn mysg dynion. Efe yw yr un "Cyfiawn a lywodraetha yn mysg dynion," y cyfeirir ato yn ngeiriau diweddaf Dafydd,—"Y Brenin a deyrnasa mewn cyfiawnder, ac a elwir Tywysog tangnefedd, i eistedd ar orseddfa Dafydd, ac i'w chadarnhau hi â barn, ac â chyfiawnder hyd byth." "Ac ar helaethrwydd a thangnefedd llywodraeth yr hwn, ni bydd diwedd," yn mhrophwydoliaethau Esaiah. Yr oedd Melchisedec yn ei enw ei hun, ac yn enw y lle y preswyliai, yn nodwedd ei frenhiniaeth, yn gystal ac yn urdd ei offeiriadaeth, yn cysgodi y Messïa mewn modd arbenig. Gallasai nad oedd Melchisedec ei hun, a digon tebyg nad oedd, yn ymwybodol o'r anrhydedd mawr a berthynai iddo fel cysgod mor hynod o Grist. Ni ddaethai i'w feddwl, o bosibl, fod dim o natur gyfrinol felly yn yr enw a gymerasai arno ei hun, a'r enw a roddasai ar ei ddinas, ond darfod iddo gyfenwi ei hun ar y naill, a galw ei ddinas ar y llall, i ddybenion neillduol yn wyneb amgylchiadau y byd yn y dyddiau hyny, heb fod yn ymwybodol o un dylanwad goruwchnaturiol ar ei feddwl ar y pryd, yn ei gymhell i hyny. Ond nid oedd y peth yn llai o Dduw, os felly fu.

Fe genfydd y darllenydd craffus ein bod o hyd yn son am y person hwn dan y dybiaeth mai Sem, mab Noah, ydoedd; ac mai enw a gymerodd efe arno ei hun fel brenin ac offeiriad, ar ddechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus yn y swyddau hyny, ydoedd Melchisedec: ac addefwn fod y dybiaeth hòno yn cryfhau gyda phob llinell a ysgrifenwn am dano. Yr ydym yn cael ein tueddu yn gryf i olygu, naill ai mai Sem, fab Noah, neu Iesu, Fab Duw, sydd ger ein bron yn y dynsawd urddasol hwn; ond rhaid i ni ochelyd haeru dim yn rhy benderfynol ar fater fel hwn.

3 Heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes; eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn Offeiriad yn dragywydd.

*Heb dad, heb fam, heb achau, heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes*—sef heb un crybwylliad am ei dad, na'i fam, na'i achau, yn yr ysgrythyr, yr hyn sydd yn fwy nodedig fyth, wrth ystyried fod hyny o hanes sydd am dano yn y llyfr hwnw o'r ysgrythyr ag y mae gofal manwl yn cael ei gymeryd i olrhain achau y personau hynod y crybwyllir ynddo am danynt. Y mae yn eglur ddigon na fynasai yr apostol i'r Hebreaid, na neb o ddarllenwyr yr epistol, dybied fod Melchisedec heb rïeni nac achau, yn ystyr naturiol a phriodol yr ymadrodd; ond ei fod yn llefaru am dano yn ol fel y mae yn sefyll yn yr hanesyddiaeth, lle ni chrybwyllir gair am dad, na mam, nac achau, na genedigaeth, na marwolaeth iddo; nac am ragflaenor, nac olynydd chwaith iddo, fel brenin ac offeiriad. Yn frenin Salem ac offeiriad y Duw Goruchaf, y mae yr hanesyddiaeth santaidd yn ei gael gyntaf; ac felly y mae yn ei adael yn y diwedd. Saif ynddi yn ddynsawd annibynol a gwahanol oddiwrth bawb arall. Yr oedd iddo dad a mam, dechreu dyddiau a diwedd einioes, fel dyn arall; ond, ac ymresymu oddiwrth yr oll o'r hanes a rydd yr ysgrythyr am dano, fel y gwna yr apostol yma, nid oes i'w fywyd naturiol a swyddol na dechreuad na diweddiad. Yr oedd deddf urdd offeiriadaeth Lefi yn darbod fod i'w hoffeiriaid hi ddechreu gweinyddu yn eu swydd yn ddeng mlwydd ar hugain oed, a therfynu yn y ddegfed a deugain. Ugain mlynedd oedd hyd tymmor gweinyddiaeth yr offeiriaid ar yr eithaf; ond lluddiodd marwolaeth i lawer un o honynt barhau am yr yspaid hwnw o amser. Ond nid oedd deddf felly yn perthyn i urdd offeiriadol Melchisedec.

*Eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, yr hwn sydd yn aros yn Offeiriad yn dragywydd.* Wedi ei wneuthur felly yn fwy na'r un nodwedd arall yn yr ysgrythyr; yn neillduol, yr un

offeiriad o urdd Aaron. Wrth edrych arno yn nrych hyny o hanes a rydd yr ysgrythyr am dano, y mae y Melchisedec hwn, brenin Salem, ac offeiriad y Duw Goruchaf, yn yr Hen Destament, yn dwyn cyffelybrwydd mawr i Fab Duw, Brenin ac Archoffeiriad mawr y Testament Newydd. Y mae felly yn ystyr ei enw, yn y swyddau a weinyddai, a pharhad diderfyn ei einioes a'i weinyddiaeth swyddol, o ran dim a ddywedir am ei dechreu na'i diwedd.

4 Edrychwch faint *oedd* hwn, i'r hwn hefyd y rhoddodd Abraham y patriarch ddegwm o'r anrhaith.

Ystyriwch mor fawr, uchel, ac anrhydeddus oedd y person hynod hwn—Melchisedec. Y mae yn llwyr debygol nad oedd yr Hebreaid wedi meddwl dim yn neillduol am Melchisedec, ond iddynt fyned heibio i un na ddywedasai yr ysgrythyr ond ychydig iawn am dano, heb feddwl ond ychydig iawn o hono. Ond dengys yr apostol mai yn nghynnildeb yr hanes am Melchisedec, i raddau helaeth, y mae dirgelwch ei fawredd a'i urddas yn aros. Y mae yr ychydig a ddywed yr hanes am dano, yn wir, yn ei osod allan yn fawr ac anrhydeddus; ond yr hyn a gela hi mewn perthynas iddo—ei dad, ei fam, ei achau, dechreu ei ddyddiau, a diwedd ei einioes—sydd yn gosod arbenigrwydd neillduol arno ragor un dyn, brenin, nac offeiriad arall. Yr oedd gosod Melchisedec fel hyn uwchlaw Abraham yn un o'r pethau anhawdd i'r apostol eu traethu, am y buasai mor anhawdd gan yr Hebreaid dderbyn a chredu y fath beth. Ystyriai y genedl Hebreaidd Abraham bob amser fel yr uchaf a'r anrhydeddusaf o holl nodweddau yr Hen Destament. Yr oedd yr apostol, gan hyny, yn y fan hon, yn tòri ar draws hen gredo oesol y genedl; a chaled, yn ddiau, oedd yr ymadrodd yn eu tyb hwy. Yr oedd hyn, fodd bynag, yn llwyr angenrheidiol i'r pwnc oedd ganddo mewn llaw: canys os gallai ddangos a phrofi iddynt fod Melchisedec yn fwy, ac yn anrhydeddusach, nac Abraham, efe a brofai ar unwaith fod yr Arglwydd Iesu, yr hwn a gyfenwyd gan Dduw yn Offeiriad yn ol urdd Melchisedec, yn rhagori mewn urddas ar y cyfrif hwnw, heb son am ddim arall, ar yr holl offeiriaid o urdd Aaron.

Un prawf o oruwchurddasolrwydd Melchisedec ar Abraham ydyw, ddarfod i'r patriarch dalu degwm i'r brenin a'r offeiriad hwnw, yr hon weithred oedd gydnabyddiaeth o du Abraham o'i israddoliaeth ei hun i Melchisedec.

5 A'r rhai yn wir *sydd* o feibion Lefi yn derbyn swydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt [o]orchymyn i gymeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith; sef gan eu brodyr, er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham:

[o] Num. 18. 21—26.

Dygir hyn yn mlaen i gyfarfod â gwrthddadl a allasai gyfodi yn meddyliau yr Hebreaid yn erbyn grym ymresymiad yr apostol oddiwrth waith Abraham yn talu degwm i Melchisedec, fel prawf o uwchraddoliaeth Melchisedec arno, a'i offeiriadaeth ef ar offeiriadaeth Lefi, gan fod yr offeiriaid Lefiaidd hwythau yn derbyn degymau yr un modd. Felly yn wir y maent, medd yr apostol. Neillduwyd llwyth Lefi, o blith y llwythau eraill, gan Dduw, i wasanaethu pabell yr Arglwydd; ac Aaron a'i deulu hefyd, o'r llwyth hwnw, i wasanaethu yr allor fel offeiriaid. Gosodwyd fel hyn fwy o urddas ar lwyth Lefi na'r llwythau eraill, ac uwch urddas ar deulu Aaron drachefn nac ar holl deuluoedd eraill llwyth Lefi; a gwnaeth yr hwn a roddes y cyfryw urddas arnynt hi yn ddeddf i'w brodyr—holl lwythau y genedl—i dalu degymau i'r Lefiaid; a thrwy hyny gydnabod goruwchurddasolrwydd y llwyth. Megys yr oedd y genedl oll yn santaidd i'r Arglwydd, ragor un genedl arall ar y ddaear; felly yr ydoedd llwyth Lefi, ragor yr un llwyth arall yn Israel; a theulu Aaron drachefn, ragor un teulu arall yn Lefi. Crybwylla yr apostol yn y fan hon am y dosbarth hwnw o lwyth Lefi, ag oedd yn gwasanaethu swydd yr offeiriadaeth yn unig, gan

mai yr offeiriadaeth yw y pwnc dan ymdriniaeth; er fod yr holl Lefiaid yn derbyn degymau gan eu brodyr, yn gystal a'r offeiriaid. Ond pa le y mae rhagoriaeth Melchisedec a'i offeiriadaeth ar offeiriaid ac offeiriadaeth Lefi yn ymddangos? Dyna y gofyniad sydd yn cyfodi etto. Yn hyn:—

1. Derbyniodd ef ddegwm gan Abraham y patriarch, cyndad yr holl offeiriaid Lefiaidd, a'r hwn oedd fwy ac anrhydeddusach na hwynthwy oll, fel eu gwreiddyn naturiol, a'u tad yn y cyfammod y perthynai eu hoffeiriadaeth iddo. Talodd Abraham felly gydnabyddiaeth o'i du ef, o'i israddoliaeth i Melchisedec; a derbyniodd Melchisedec hefyd, o'i du yntau, y cyfryw gydnabyddiaeth oddiar law y patriarch. Ond derbyniai yr offeiriaid Lefiaidd ddegwm gan eu brodyr a ddaethant megys hwythau o lwynau Abraham; ac felly yr oedd offeiriadaeth Lefi megys yn Abraham, o'r hwn y tarddodd hi, yn talu gwarogaeth i oruwchurddoliaeth offeiriadaeth Melchisedec.

2. Derbyniai yr offeiriaid Lefiaidd ddegwm gan eu brodyr trwy orchymyn a chyfraith ddwyfol, yr hyn a osodai yr holl lwythau dan rwymedigaeth bendant i'w dalu iddynt, boddlon neu beidio. Y mae yn wir nad oedd un gyfraith wladol yn Israel (fel sydd yn Lloegr) yn rhoddi awdurdod i atafaelu meddiannau y neb a wrthodai dalu degwm; ond ceryddid y cyfryw gan Dduw ei hun yn uniongyrchol. Edliwiai yr Arglwydd i'r genedl trwy y prophwyd Malachi, ei bod yn euog o'i yspeilio ef, trwy attal dwyn y degwm i'w drysordy; a melldithiai holl waith eu dwylaw oblegid hyny. Ond nid oedd na gorchymym na chyfraith yn rhwymo Abraham i dalu degwm i Melchisedec; ond gweithred hollol rydd a gwirfoddol oedd o'i du ef, yn tarddu oddiar ei deimlad o barch i urddasolrwydd person, a swyddau goruchel Melchisedec.

**6 Eithr yr hwn, nid oedd ei achau o honynt hwy, a [p]gymerodd ddegwm gan Abraham, ac a fendithiodd yr hwn yr oedd yr [q]addewidion iddo.**

p Gen. 14. 20. q Rhuf. 9. 4.

*Eithr yr hwn, nid oedd ei achau o honynt hwy*, sef o feibion Lefi—ac nid oedd ei offeiriadaeth ychwaith o'r unrhyw urdd a'r eiddynt hwy; ond yr ydoedd yn gwbl wahanol yn mhob peth a berthynai iddi, mor belled ag y mae genym ni hanes am dani.

*A gymerodd ddegwm gan Abraham*—a ganiataodd yn ddiwrthwynebiad i Abraham y patriarch anrhydeddus dalu cydnabyddiaeth felly o ymostyngiad iddo. Ac nid yw yr ysgrythyr yn ei feio am hyny; ond dengys fod gweddusdra o bob tu yn yr amgylchiad hwnw.

*Ac a fendithiodd yr hwn yr oedd yr addewidion iddo.* Yr oedd Abraham felly yn fawr ac anrhydeddus iawn yn wir, gan fod yr addewidion iddo—ac yn neillduol addewid fawr Duw o fendithio holl genedloedd y ddaear ynddo —yn ei had, y Messïa oedd i ddyfod; ond y mae Melchisedec etto yn ymddangos yn fwy nag ef, yn gymaint a'i fod yn cymeryd arno ei fendithio.

**7 Ac yn ddiddadl, yr hwn *sydd* leiaf a fendithir gan ei well.**

Gwel pawb hyn, fel nad oes dadl yn bod ar y mater. Y mae yn sefyll, i reswm a gweddusder pethau, fod yr hwn sydd yn bendithio yn fwy, yn uwch, ac yn well na'r hwn a fendithir ganddo. Nid fod Melchisedec yn fwy mewn duwioldeb, yn well dyn, ac yn fwy santaidd nag Abraham a feddylir; ond ei fod yn fwy o ran swydd a sefyllfa, ar gyfrif oedran ac amgylchiadau eraill, fe ddichon.

**8 Ac yma y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymeryd degymau: eithr yno, yr hwn y [r]tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw.**

r Heb. 5. 6.

*Ac yma y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymeryd degymau.* Cyferbyna yr apostol etto yr offeiriaid Lefiaidd a Melchisedec â'u gilydd. *Yma*—dan y gyfraith Lefiaidd, *y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymeryd degymau*—dynion y mae crybwylliad am farwolaeth llawer o honynt yn yr hanes ysgrythyrol—dynion ag yr oedd y gyfraith a'u cyfansoddent yn offeiriaid yn eu golygu yn rhai i farw, ac yn darbod

ar gyfer yr amgylchiad hwnw drwy drefnu olyniaeth yn y swydd o dad i fab, fel na byddai i'r offeiriadaeth ballu a darfod. Yr oedd marwolaeth yn amgylchiad yr oedd ffurfdrefniad urdd offeiriadaeth Lefi yn darbod ar ei gyfer.

*Eithr yno, yr hwn y tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw.* *Yno*—yn amgylchiad Abraham yn talu degwm—yr oedd un felly, sef Melchisedec, yr hwn nad oes air o son am ei farwolaeth i'w gael, nac am ei enedigaeth a'i achau; ac nid oedd urdd ei offeiriadaeth ef yn cynnwys yr un ddarpariaeth ar gyfer yr amgylchiad hwnw. Nid am Melchisedec fel dyn y dywedir fel hyn, yr hwn yn ddiau, fel y sylwyd o'r blaen, yr oedd iddo ddechreu dyddiau a diwedd einioes fel dyn arall; ond fel offeiriad —fel person cyfrinol, yn ol y modd y traetha yr hanes santaidd am dano. Y mae ei hanes yn fath o alegori, ac yn y dull hwnw y mae yr apostol yn ei thrin. A'r hyn ydoedd Melchisedec a'i offeiriadaeth mewn alegori, ydyw yr Arglwydd Iesu Grist, a'i offeiriadaeth ef, mewn gwirionedd.

9 Ac (fel y dywedwyf felly) yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, yr hwn oedd yn cymeryd degymau.

*Fel y dywedwyf felly.* Os goddefir yr ymadrodd, neu y dull hwn o lefaru am y peth, fe dalodd Lefi, yr hwn oedd yn cymeryd degymau, ddegwm i Melchisedec yn, neu trwy Abraham ei gyndad; a gwnaed iddo felly gydnabod megys yn Abraham ei dad, ei israddoliaeth ei hun a'i offeiriadaeth, yn yr ystyr a olygir yma, i Melchisedec a'i offeiriadaeth; a dyna y pwnc y mae yr apostol o hyd yn llafurio i'w brofi.

10 Oblegid yr ydoedd efe etto yn lwynau ei dad, pan gyfarfu Melchisedec âg ef.

*Yr ydoedd efe*—Lefi, *yn lwynau ei dad* —Abraham, *pan gyfarfu Melchisedec âg ef,* ac y derbyniodd ddegwm ganddo. Yr oedd holl had Abraham ynddo ef eu tad, Lefi yn gystal a'r lleill, yn ymgrymu ger bron urddas Melchisedec a'i swydd, yn ngwaith y patriarch yn talu degwm iddo. Cymerodd yr amgylchiad hwnw le yn hir cyn geni Isaac, mab yr addewid. Pe buasai Isaac wedi ei eni ar y pryd, ni fuasai efe mewn un ystyr yn cael ei gynnwys yn ngweithred Abraham, nac o ganlyniad yr un o'i olynwyr mwy nag yntau; ond gan i'r amgylchiad gymeryd lle pan oedd yr holl genedl addawedig, Isaac yn gystal a'r holl rai a enid ar ei ol o hono, yn lwynau Abraham, yr hwn a gawsai yr addewid, yr oeddynt oll megys yn talu yr wriogaeth hòno i Melchisedec ynddo ef. Y mae rhywbeth fel hyn yn narbodaeth cyfreithiau dinesig. Pe byddai i dad, ar ol genedigaeth ei fab hynaf, dderbyn dinasfraint, ni byddai i'r mab hwnw gyfran ynddi; ond os genid iddo fab arall wedi hyny, deuai efe i mewn iddi, gan ei fod ef yn lwynau ei dad ar y pryd y derbyniodd y rhagorfraint. "A minnau a anwyd yn freiniol," medd Paul. Pe buasai Paul wedi ei eni cyn breinioli ei dad, ni fuasai wedi ei eni yn y sefyllfa hòno.

11 Os ydoedd gan hyny [a] berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (oblegid dan hòno y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl) pa raid *oedd* mwyach godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron?

[a] Gal. 2. 21; adn. 18. 19; Heb. 8 7.

Yma dygir ymresymiad newydd etto i mewn ar y pwnc, er dangos rhagoroldeb offeiriadaeth Crist, yn ol urdd Melchisedec, ar offeiriadaeth y gyfraith yn ol urdd Aaron; sef nad oedd perffeithrwydd yn ngweinyddiadau nac aberthau yr offeiriadaeth Lefiaidd dan y gyfraith, megys y dywed yr apostol etto yn mlaen—nas gallasai yr aberthau hyny byth berffeithio yr addolwyr—bod yn anmhosibl i waed teirw a geifr, ei haberthau hi, dynu ymaith bechodau, &c. Dan yr offeiriadaeth hòno y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl. Yr ydoedd y gyfraith foesol, y mae yn wir, wedi ei rhoddi ar Sinai, cyn neillduo llwyth Lefi a theulu Aaron i'r offeiriadaeth. Ond nid oes a fyno y gyfraith hòno ddim oll â'r pwnc mewn llaw. Ond rhoddwyd y gyfraith seremonïol, a

threfniadau llawer o ddefodau yr oruchwyliaeth Foesenaidd, ar ol hyny; fel yr oedd y gyfraith a'r offeiriadaeth yn sefyll mewn cysylltiad â'u gilydd, ac yn ddibynol y naill ar y llall—fel, os gwnelid cyfnewidiad yn un, yr oedd yn angenrheidiol gwneud cyfnewidiad cyferbyniol yn y llall hefyd.

Yn awr, pe buasai perffeithrwydd yn a thrwy offeiriadaeth Lefi, fel y golygai yr Hebreaid fod, gan iddi gael ei threfnu gan Dduw, ei bod i barhau yn wastadol, "pa raid oedd mwyach godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron." Ac yr oedd ymadrodd y Salmydd yn profi iddynt o'u hysgrythyrau eu hunain, fod Offeiriad arall o'r fath i gael ei godi. Yr oedd offeiriadaeth Lefi yn ei llawn nerth a'i blodau pan lefarodd yr Ysbryd Glan trwy enau Dafydd, gan ddywedyd, "Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti wyt Offeiriad yn dragwyddol yn ol urdd Melchisedec," Salm cx. 4. Profai hyn ar unwaith nad oedd perffeithrwydd yn gyrhaeddadwy trwy offeiriadaeth Lefi; ac oblegid hyn yr oedd *rhaid* am godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ac nid o urdd Aaron.

12 Canys wedi newidio yr offeiriadaeth, angenrhaid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd.

Yr oedd yr ymadrodd a goffawyd o'r Salm, oddiar yr hwn y mae yr apostol yn ymresymu, yn dangos yn eglur fod newidio yr offeiriadaeth i fod—a bod Offeiriad arall, yn ol urdd arall, i gael ei godi; y mae yn canlyn o angenrheidrwydd bod cyfnewid yn y gyfraith—sef holl gyfraith yr offeiriadaeth Lefiaidd, i gymeryd lle. Pan gyfodid yr Offeiriad arall hwnw yn ol urdd Melchisedec, yr oedd offeiriadaeth urdd Aaron, a'r gyfraith neu y cyfammod perthynol iddi yn diflanu, a gweinidogaeth cyfammod newydd yn dechreu. Y mae y mater hwn o'r pwys mwyaf yn ei berthynas â holl ddadl yr apostol yn yr epistol hwn—yn begwn ar ba un y mae hi yn troi. Os gallasai efe wreiddio a seilio meddyliau yr Hebreaid yn y gwirionedd yma, ystyriai ei fod wedi cyrhaedd ei amcan—eu gwaredu o'r perygl i ollwng eu gafael o'u cyffes Gristionogol, a throi yn ol at yr hen ddefodau Iuddewig. Helaetha lawer ar hyn etto.

13 Oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, efe a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

*Am yr hwn*—sef Crist, *y dywedir y pethau hyn*—sef ei fod wedi ei wneuthur yn Offeiriad gan Dduw yn ol urdd Melchisedec, hanai efe o lwyth arall, sef Juda, o'r hwn ni buasai neb erioed o'r blaen yn gwasanaethu yr allor, neu swydd yr offeiriadaeth. Profa hyn fod yr offeiriadaeth wedi ei newid, ac o ganlyniad bod y gyfraith hefyd, o angenrheidrwydd, wedi ei chyfnewid.

14 Canys [t] hysbys *yw* mai o Juda y cododd ein Harglwydd ni; am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth.

[t] Esa. 11. 1; Matt. 1. 3; Dat. 5. 5.

Rhoddodd Moses yr offeiriadaeth, yn ei gyfraith ef, i lwyth Lefi yn unig. Ni allasai neb o lwyth Juda, yn ol y gyfraith hono, mwy na rhywun o un o'r llwythau eraill, ymaflyd yn y swydd offeiriadol. Cyfododd ein Harglwydd ni o lwyth Juda, fel y dywedodd Duw trwy y Salmydd; ac y mae hyn yn cynnwys prawf eglur er dangos fod yr offeiriadaeth a'r gyfraith wedi eu newid—bod offeiriadaeth Aaron wedi terfynu yn offeiriadaeth Crist, ac wedi ei bwriadu o'r dechreuad i derfynu felly. Ynddo ef, yr hwn oedd yn hanu o lwyth brenhinol Juda, ac o'r teulu brenhinol (Dafydd) yn y llwyth hwnw, unwyd y ddwy swydd, y frenhinol a'r offeiriadol. Ac yn hyn yr oedd Melchisedec, "brenin Salem, ac offeiriad y Duw Goruchaf," yn gynddelw arbenig o hono, fel y dangoswyd eisoes.

15 Ac y mae yn eglurach o lawer etto; od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi,

Yr oedd y cyfnewidiad yn yr offeiriadaeth, ac yn gystal a hyny yn

y gyfraith, yn eglur brofedig yn wyneb yr ystyriaeth mai o lwyth Judah y cyfododd ein Harglwydd ni i'r offeiriadaeth, yr hwn lwyth, yn ol cyfraith Moses, nid oedd a wnelai â'r swydd; ond y mae ei fod ef, nid yn unig yn cyfodi o *lwyth* arall, ond hefyd o *urdd* arall, sef urdd Melchisedec, yn profi y cyfnewidiad hwn yn eglurach o lawer etto.

16 Yr hwn a wnaed, nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.

*Yr hwn*—y Messïa—yr Offeiriad arall, *a wnaed*—a gyfansoddwyd yn Offeiriad mewn modd tra gwahanol i'r cyfansoddiad offeiriadol dan y gyfraith; yr hwn oedd yn ol *cyfraith gorchymyn cnawdol;*—cyfraith a gorchymyn yn rhwymo yr offeiriadaeth mewn olyniaeth yn nheulu Aaron, yn annibynol ar bob ystyriaeth foesol ac ysbrydol. Gallasai yr offeiriaid fod yn ddynion llygredig a drygionus; a bu llawer o honynt yn gyfryw—meibion Eli, er engraifft; ond nid oedd y gyfraith yn eu bwrw allan o'r offeiriadaeth oblegid hyny. Ond gwnaed Crist, yr hwn na pherthynai i lwyth ac urdd offeiriadaeth y gyfraith, yn Offeiriad *yn ol nerth bywyd annherfynol;*—trwy drefniad, nerth, ac awdurdod goruwchnaturiol, ysbrydol, ac anghyfnewidiol; i barhau yn annherfynol, heb olynydd iddo byth yn yr offeiriadaeth, yn ol cyffelybrwydd offeiriadaeth Melchisedec. Yr oedd yr ordeiniad hwn uwchlaw y gyfraith, yn annibynol arni, ac ar egwyddor hollol wahanol iddi. Cyfansoddid y Messïa yn Offeiriad ar gyfrif ei urddas, ei werth personol, a'i gyfaddasrwydd perffaith i lenwi a chyflawni y swydd oruchel, er ateb ei holl ddybenion moesol ac ysbrydol yn dragywydd.

17 Canys tystiolaethu y mae, [u]Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

[u] Salm 110. 4.

Coffâ yr apostol ei destun etto, er profi y gangen hon o'r athrawiaeth a dynasai oddiwrtho, sef rhagoroldeb anfeidrol Crist a'i offeiriadaeth ar offeiriaid ac offeiriadaeth y gyfraith.

18 Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei [v]lesgedd a'i afles.

[v] Act. 13. 39.

*Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen.* Yma symuda yr ymresymiad gam yn mlaen etto, a dodir dolen newydd i mewn yn y gadwyn. *Canys yn ddiau,* neu *yn mhellach,* y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen—yr hen gyfraith, sef cyfraith y gorchymyn cnawdol, perthynol i'r offeiriadaeth Lefiaidd. Defnyddia yr apostol yma air cryfach nag a arferasai o'r blaen. Cyfnewidiad yn y gyfraith oedd yr ymadrodd blaenorol; ond daw gwirionedd y mater yn llawn a chroew allan yn awr—*dirymu*—gosod heibio yn llwyr; dilëu y peth, fel nad oedd yn bod mwyach dan unrhyw ffurf.

*O herwydd ei lesgedd a'i afles*—oblegid nad oedd yn meddu y nerth a'r cymhwysder angenrheidiol i ateb dybenion priodol offeiriad ac aberth—dilëu pechod, ac adferu dyn yn ol at Dduw.

19 Oblegid ni [w]pherffeithiodd y gyfraith ddim, namyn dwyn gobaith gwell i mewn *a berffeithiodd;* trwy yr [x] hwn yr ydym yn nesâu at Duw.

[w] Rhuf. 3. 20. [x] Rhuf. 5. 2.

*Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim,* neu yn hytrach *neb*—dim cymaint ag un erioed, trwy weinyddiadau ei hoffeiriaid, ei haberthau, a'i defodau. Gan hyny, yr oedd mewn gwirionedd yn *llesg ac aflesol,* fel y dywedasid yn flaenorol am dani. Achubwyd llaweroedd i fywyd, yn ddiau, *dan* y gyfraith, ond ni achubwyd yr un o honynt *drwy* y gyfraith; ond drwy yr Offeiriad a'r aberth mawr yr oedd ei hoffeiriaid a'i haberthau hi yn gysgodi.

*Namyn dwyn gobaith gwell i mewn a berffeithiodd*—gwell, cadarnach, a sicrach sail i obaith, nag a roddai y gyfraith—sef, y datguddiad efengylaidd, neu oruchwyliaeth y cyfammod newydd, yn yr hwn y mae Crist, yr Archoffeiriad mawr, yn holl urddas ei

berson, ei ufudd-dod, a'i aberth holl-ddigonol, yn sylfaen gobaith bywyd ac iachawdwriaeth i bechadur euog, cyd-wybod yr hwn ni allasai gweinyddiadau offeiriaid, ebyrth, a seremonïau y gyfraith ei thawelu a'i phuro, na bod yn sail i'r cyfryw obaith.

*Trwy yr hwn yr ydym yn nesâu at Dduw.* Trwy y gobaith gwell hwn yr ydym yn cael rhyddid a dyfodfa hyderus i'r presenoldeb dwyfol. Nid oedd perffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi; gan hyny, yr oedd angen am godi Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec; dyna yr haeriad. *Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim* (neb); dyna y ffaith. Ond fe gafwyd perffeithiad, adferiad, a ffordd agored, a rhyddid i ni nesâu at Dduw mewn hyder a gorfoledd drwy Grist, yr Offeiriad a wnaed yn ol urdd Melchisedec. Gan hyny, y mae offeiriadaeth lesg ac anmherffaith y gyfraith wedi ei llyncu i fyny am byth yn ei offeiriadaeth hollrinweddol, effeithiol, a thragwyddol ef.

20 Ac yn gymaint nad heb lw *y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad:*

Dyma ystyriaeth newydd etto. Y mae llw yn y testun y seilir y traethawd arno, o'r hwn ni wnaethid un defnydd hyd yn hyn. Ond ni ddylid ar un cyfrif fod yn ddisylw o hono, yn gymaint a'i fod yn elfen arbenig yn y gwahaniaeth sydd yn ffurf cyfansoddiad offeiriadaeth y Messïa, rhagor yr un Lefiaidd.

21 (Canys y rhai hyny yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw: ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti *sydd* Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd [y] Melchisedec)

[y] Salm 110. 4.

*Y rhai hyny*—offeiriaid y gyfraith, *ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw*—eithr yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol—olyniaeth deuluaidd;—*ond hwn*—Crist, *trwy lw*, ac nid trwy ddeddf olyniaeth; trwy ordeiniad uwch, mwy urddasol a phwysig, trwy lw Iehofa, yr hwn a goffeir drachefn, i arwyddo parhad diysgog a thragwyddol ei swydd, a bod yr offeiriadaeth olyniadol i derfynu a rhoddi lle i'r eiddo ef. *Tyngodd Iehofa, ac ni bydd edifar ganddo*—ni newid ei feddwl, ac ni newidia y gosodiad byth. Gwnaed yr offeiriaid dan y gyfraith heb lw, o herwydd bod eu hoffeiriadaeth hwy i gael ei newid a'i dilëu; ond hwn trwy lw, am fod yr eiddo ef i aros a pharhau.

22 Ar destament[z] gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd.

[z] Heb. 8. 6.

*Ar destament gwell*, neu, yn hytrach, *cyfammod gwell*—gwell na'r hen gyfammod, y gyfraith, yr hon na pherffeithiodd ddim; *gwell*—sicr, cadarn, a pharhaol; *o hyny*,—sef yn gymaint a'i fod wedi ei wneuthur trwy lw; *y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd*—yn ddiogelwr, sicrhäwr, parhad dianwadal a thragwyddol y cyfammod a'r drefn newydd a ddygodd y gobaith gwell i mewn. Cyn ei ymddangosiad ef yn y cnawd, yr oedd y llw yn sefyll megys yn fachnïydd i'r addewid am dano—am ei gyfodiad yn Offeiriad tragwyddol yn ol urdd Melchisedec. Wedi cyflawni yr addewid hòno ynddo ef, saif ef ei hun yn Fachnïydd am barhad digyfnewid y cyfammod, a chyflawniad ei holl addewidion mawr iawn a gwerthfawr. Fe'i gwnaethpwyd, nid i sefyll yn Fachnïydd dros ddynion i Dduw—i sicrhau diogelwch ac anrhydedd y gyfraith a'r llywodraeth ddwyfol yn nghadwedigaeth credinwyr, sydd i'w ddeall yma, debygaf yn sicr—ond yn Fachnïydd appwyntiedig gan Dduw i'r natur ddynol syrthiedig, er sicrwydd cadernid dianwadal y cyfammod. Y mae y ffaith ei fod ef yn Ben ac Archoffeiriad y cyfammod, yn fachnïaeth—yn sicrwydd penderfynol fod y cyfammod hwnw yn dragwyddol—yn hollol ac yn sicr.

23 A'r rhai hyny yn wir, llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau:

*Y rhai hyny*—yr offeiriaid hyny o urdd Aaron, (yn fwyaf neillduol yr archoffeiriaid); yr cedd llawer o honynt, sef olyniaeth o dad i fab, o genedlaeth i genedlaeth; oblegid fod angeu yn tòri ar eu traws—yn lluddio iddynt barhau, ac felly yr oedd yr offeiriadaeth yn newid dwylaw yn fynych.

24 Ond hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd âg offeiriadaeth [a] dragwyddol ganddo.

[a] 1 Sam. 2. 35.

Dyma bwynt arall o ragoriaeth Crist fel Offeiriad ar yr offeiriaid hyny; ni luddiodd marwolaeth iddo ef barhau yn ei swydd, ond y mae yn aros ynddi yn dragywydd. Y mae yr offeiriaid eraill hyny, y mae yn wir, yn fyw yn y byd ysbrydol, ac yn parhau o ran eu bodolaeth; ond yr oedd angeu yn terfynu bodolaeth swyddol pob un o honynt. Gadawai pob un ei wisgoedd a'i swydd offeiriadol ar ol i'w olynydd. Ond wedi marw yr Archoffeiriad mawr, yn ol urdd Melchisedec, efe a adgyfododd drachefn yn ei swydd, ac aeth i'r byd ysbrydol—i'r nef ei hun, yn ei swydd; cymerodd y swydd oddiar y ddaear, fel nad oes offeiriad i fod yma mwyach. Y mae efe yn awr yn eistedd yn offeiriad ar ei frenhinfainc, Zech. vi. 13. Mewn gwisg archoffeiriadol yr ymddangosodd efe i Ioan yn Ynys Patmos, Dat. i. 13.

25 Am hyny efe a [b] ddichon hefyd yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i [c] eiriol drostynt hwy.

[b] Judas 24. [c] Rhuf. 8. 34; 1 Ioan 2. 1.

*Am hyny*—y casgliad oddiwrth y cwbl yw hyn, *efe a ddichon yn gwbl iachâu*—iachâu yn berffaith. Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim (neb); ni allasai ei haberthau hi berffeithio y rhai a ddeuent ati; ond efe a ddichon achub hyd yr eithaf, i'r perffeithrwydd eithaf, *y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw*—y rhai a ddeuant yn ei enw ef, gan bwyso ar ac ymddiried ynddo; y rhai a'i defnyddiant yn ffyddiog fel y mae wedi ei osod a'i appwyntio gan Dduw. *Gan ei fod ef yn byw bob amser. Yn byw*—yn aros yn ei swydd, gyda'i waith, fel Archoffeiriad mawr y drefn achubol; *bob amser*—drwy bob cenedlaeth ac oes, *i eiriol drostynt hwy*—i gymeryd eu hachos, i estyn pob cymhorth angenrheidiol, i weinyddu pob gras a bendith, dawn a dylanwad, er dygiad eu hiachawdwriaeth yn mlaen i berffeithrwydd. Y mae yn gynnrychiolydd drostynt, ac yn trefnu holl achos eu hiachawdwriaeth, fel y cyfryw, ger bron gorsedd Duw.

26 Canys y cyfryw Archoffeiriad [d] santaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni;

[d] Heb. 4. 15; 1 Pedr 2. 22.

Gosodir yma grynodeb o ragoriaethau moesol yr Archoffeiriad mawr ar offeiriaid y gyfraith. Yr oedd efe yn bob peth mewn modd ysbrydol a gwirioneddol y gofynai y gyfraith i'r archoffeiriad Iuddewig fod yn arwyddocaol. Yn *santaidd;*—yr oedd "SANTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD" yn ysgrifenedig ar dalaith yr archoffeiriad dan y gyfraith; ond nid oedd angen am dalaith ac ysgrifen felly arni i'w gosod ar ben yr Archoffeiriad mawr, canys yr oedd efe yn berffaith santaidd ei hun mewn calon a bywyd: nid oedd y llall felly, fel y coffà yr apostol etto. Yn *ddiddrwg*—yn ddiniwaid yn ei holl ymddygiad tuag at eraill. Gofynid i'r archoffeiriad Iuddewig fod felly, yn drugarog a ffyddlawn tuag at y bobl yr oedd yn gweinyddu drostynt. Yr oedd yr Archoffeiriad mawr yn wirioneddol a pherffaith felly. Yn *ddihalog*—mewn cyfeiriad at y purdeb seremonïol gofynol i'r archoffeiriaid Iuddewig dan y gyfraith; ond golygir yma burdeb a dihalogrwydd o natur uwch—moesol ac ysbrydol. Arwyddocaol oedd hwnw, ond y peth yn wirioneddol yw hwn. *Didoledig oddiwrth bechaduriaid*—yn ansawdd ei ysbryd ac egwyddorion ei galon yn dumewnol, ac yn holl nodweddion ei fywyd cyhoeddus. Er iddo fyw yn mysg ac ymgymysgu â phechaduriaid, yr oedd megys yn rhodio ar ei ben ei hunan, yn ddidoledig oddiwrthynt. *Ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r*

*nefoedd*—yn ei ddyrchafiad ar ddeheulaw y Tad, yr hyn a brofodd ei fod ef mewn gwirionedd yn llenwi yn berffaith y nodwedd blaenorol a briodolid iddo; pe amgen, ni buasai yn deilwng o'r fath anfeidrol ddyrchafiad ac anrhydedd. Y cyfryw Archoffeiriad *oedd weddus i ni.* Yr oedd raid i'n hachos ni gael y fath un i'w drin a'i drefnu. Nid oedd yr archoffeiriaid gynt, y rhai yr oedd gwendid ynddynt, y rhai oedd yn marw, a'r rhai nad oedd eu santeiddrwydd a'u purdeb ond allanol, seremonïol, ac arwyddocaol yn unig; a'r rhai nad oedd eu haberthau chwaith ddim yn amgen, nid oeddynt hwy yn weddus —yn gyfaddas i'n hachos a'n hangen ni; ond y mae efe, yr Archoffeiriad mawr, yn mhob peth felly, ac yn weddus i Dduw hefyd yr un modd.

27 Yr hwn nid yw raid iddo beunydd, megys i'r offeiriaid hyny, offrymu aberthau yn [e] gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna dros yr eiddo y bobl: canys hyny a wnaeth efe unwaith, pan offrymodd efe ef ei hun.

[e] Lef. 9. 7.

Gosodir yma yr Archoffeiriad mawr a'r archoffeiriaid Iuddewig yn gyferbyniol etto. Y mae y cyferbyniad yn ddeublyg. Yr oedd raid iddynt *hwy* bob un offrymu aberthau yn gyntaf dros eu pechodau eu hunain; ond nid oedd raid iddo *ef* wneuthur hyny, gan ei fod yn gyfryw ag y dywedir am dano yn yr adnod flaenorol—"yn santaidd, diddrwg, dihalog," &c. Gan nad oedd eu santeiddrwydd a'u purdeb hwy ond seremonïol yn unig, ac nid yn un mewnol ac ysbrydol, yr oedd yr un angen arnynt am aberth drostynt eu hunain ag oedd ar y bobl yn gyffredin. Saif yr Archoffeiriad mawr ar dir anfesuradwy uwch na hwy yn hyn. Peth arall, yr oeddynt hwy yn offrymu beunydd—bob dydd: nis gellir meddwl bod yr archoffeiriaid Iuddewig, y rhai yn sicr a olygir yma, ar wahan oddiwrth yr is-offeiriaid, yn offrymu bob dydd, yn llythyrenol felly, er y myn rhai beirniaid haeru eu bod. Yr unig sail i'r dybiaeth hòno ydyw bod Philo, Iuddew dysgedig a chydoeswr â'r apostolion, yn dweyd hyny unwaith. Sail rhy wan i adeiladu arni, gallem feddwl. Mwy rhesymol y tybiem fod yr apostol yma yn cyfeirio at ddydd y cymmod—y dydd yr oedd y gyfraith yn darbod i'r archoffeiriad offrymu, ac ymddangos yn y santaidd santeiddiolaf â gwaed yr aberth ganddo i'w daenellu ar ac o flaen y drugareddfa; ac yn arfer yr ymadrodd *beunydd*—bob dydd, yn yr ystyr hòno—pob dydd cymmod, y naill ar ol y llall, fel y dychwelai y dydd hwnw bob blwyddyn, a hyny yn ddieithriad trwy holl genedlaethau yr oruchwyliaeth. Offrymodd efe—Crist, ei hun yn aberth—yn un aberth, am unwaith—un diwrnod, un tro am byth.

28 Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt, yn archoffeiriaid; eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, *sydd yn gwneuthur* y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

*Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt yn archoffeiriaid*—dynion âg anmherffeithrwydd moesol ynddynt. Ni feddai hi, ac nid oedd iddi i'w cael, ond dynion felly. Yr oedd raid iddi wneuthur y cyfryw ddynion gweiniaid ac anmherffaith yn offeiriaid, neu fod hebddynt. *Eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, sydd yn gwneuthur y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.* Cafodd gair y llw, sef y gair yn Salm cx. 4, un heb wendid ynddo i'w wneuthur yn offeiriad, ac y mae efe gan hyny wedi ei berffeithio—ei gadarnhau i aros yn ei swydd yn dragywydd. Ac yma terfyna y cyferbyniad rhwng offeiriadaeth y gyfraith ac offeiriadaeth gair y llw—y cyfammod newydd: ac y mae anfeidrol ragoroldeb yr olaf ar y blaenaf wedi ei brofi yn y modd egluraf a chadarnaf ag y mae yn bosibl gwneud, a'i osod y tuhwnt i bob dadl ac ammheuaeth am byth.

## PENNOD VIII.

1 *Offeiriadaeth Aaron a ddiflanodd, pan ddaeth Crist yr Offeiriad tragwyddol:*



[Bodleian library stamp]

*7 a'r ammod a wnaed â'r tadau dros amser, a roddes le i gyfammod tragwyddol yr efengyl.*

A PHEN ar y pethau a ddywedwyd *yw hyn:* Y mae genym y fath Archoffeiriad, yr [f] hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc y Mawredd yn y nefoedd;

[f] Eph. 1. 20.

*Pen ar y pethau.* Y maen clo—y prif beth—enaid y pwnc, ydyw hyn. Y mae efe yn awr yn myned yn mlaen at bwynt newydd yn y cyferbyniad o archoffeiriadaeth Crist a'r archoffeiriadaeth Iuddewig, nad oedd wedi ei grybwyll ganddo o'r blaen, a hwnw yr un mwyaf arbenig a phwysig o'r cwbl; gan hyny, efe a saif yn feithach a manylach arno nag y gwnaethai ar un o'r lleill, gan ei ddilyn drwy y ddwy bennod nesaf. Yn y bennod o'r blaen, efe a brofasai fod archoffeiriadaeth Crist o urdd uwch na'r un Aaronaidd, bod yr offeiriaid hyny yn ddynion â gwendid ynddynt—yn rhaid iddynt offrymu trostynt eu hunain yn gystal a thros y bobl—a bod yn lluddio iddynt gan farwolaeth barhau. Ond nad oedd yr un o'r pethau hyny yn perthyn i'r hwn a wnaethpwyd yn Offeiriad yn ol urdd Melchisedec — nad oedd raid iddo ef wrth aberth drosto ei hun, gan ei fod yn rhydd oddiwrth bob gwendid pechadurus—ei fod yn byw bob amser, a nerth bywyd annherfynol yn ei berson a'i offeiriadaeth. A yn awr yn mlaen i ymdrin â'r swydd ei hun yn ei natur a'i dybenion, ei haberth a'i chyflawniadau sylweddol ac ysbrydol; pethau nad oedd offeiriadaeth y gyfraith a'i hebyrth a'i chyflawniadau hi ond cysgodau yn unig o honynt.

*Y mae genym y fath Archoffeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc y Mawredd yn y nefoedd.* Dyma swm, sylwedd, maen clo, yr oruwchadeiladaeth Gristionogol—mynediad ein Harchoffeiriad mawr i'r nefoedd, ei dderbyniad cymeradwyol yno i eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc y Mawredd. I'r tabernacl daearol yr elai yr archoffeiriad Iuddewig; ac nid i eistedd, ond i daenellu gwaed o flaen y drugareddfa, ac i ddychwelyd allan at y bobl drachefn. Ond aeth Archoffeiriad mawr y testament newydd i'r tabernacl nefol, i eistedd ac i aros yno, a hyny yn y sefyllfa uchaf a mwyaf dyrchafedig. *Ar ddeheulaw gorseddfainc y mawredd.* Derbyniodd ogoniant ac awdurdod brenhinol—pob awdurdod yn y nef a'r ddaear—yn rhinwedd teilyngdod anfeidrol ei aberth a'i waith fel Archoffeiriad.

2 Yn Weinidog y [g] gysegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn.

[g] Heb. 9. 8, 12, 24.

*Yn Weinidog y gysegrfa a'r gwir dabernacl.* Y mae ganddo waith i'w wneuthur etto yn y sefyllfa ddyrchafedig yr aeth efe iddi ar ddeheulaw y Mawredd, fel Gweinidog y gysegrfa uchod, sef arolygu holl wasanaeth y cysegr nefol. Y mae holl wasanaeth ac addoliad y nefolion, a'r saint ar y ddaear, yn cael ei gyflwyno i'r Duwdod ynddo a thrwyddo ef. Saif y *gwir dabernacl* yma, yr hwn yr aeth efe i mewn iddo, ac y mae yn gweinyddu ynddo, yn gyferbyniol i'r tabernacl cysgodol, y "cysegr bydol," i'r hwn yr elai yr archoffeiriad Iuddewig ar y dydd nodedig i weinyddu ynddo,

*Yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn.* Dyn a osododd i fyny y tabernacl cysgodol hwnw; ond wrth orchymyn ac yn ol cyfarwyddyd Duw, y mae yn wir. Meddylddrych dwyfol ydoedd, ond celfyddyd ddynol a'i gweithiodd. Duw a roddodd y *plan*—y cynllun o hono, ond llaw dyn a gododd yr adeilad. Ond am y *gwir dabernacl*, y mae hwnw yn waith llaw, yn gystal ag yn gynnyrch meddwl Duw ei hunan. Y nef ei hun ydyw hwn, y lle gogoneddus hwnw y mae y Duwdod yn amlygu ei ogoniant i'r rhai dedwydd a'i preswyliant mewn modd na chanfyddir ac na fwynheir ef mewn un lle arall yn yr holl greadigaeth, ac yn dra rhagorol y tu hwnt i ddim a allodd calon un creadur erioed ddychymygu am dano. Myn rhai wadu lleoliaeth nef y gogoniant—ei bod yn gynnwysedig yn unig mewn cyflwr meddwl; ond y mae yn

bosibl, efallai, i ni geisio ffurfio tybiau rhy ysbrydoledig am bethau yn gystal a rhy anianol ac anianyddol; fel yr athronyddion hyny a wadant hanfodiad pob gwrthddrych allanol a materol, ond yn unig fel rhithiau yn mryd y meddwl. Nid oes dim gwir hanfodaeth, meddant hwy, i'r gwrthddrychau a dybiwn ein bod yn eu gweled, eu clywed, eu teimlo, &c.; tybiau yn unig ydynt! Ni ddarfu i'r un o'r athronyddion hyny erioed ymddwyn yn ol yr athroniaeth hòno, ond yn hollol fel yr ymddyga pawb arall sydd yn credu tystiolaeth eu synwyrau am y pethau hyny. Dyna athronwyr ac athroniaeth rhy ysbrydol mewn gwirionedd. Felly, debygem yn sicr, y mae y duwinyddion a wadant hanfodaeth y nef fel lle. Sonia y Beibl yn mhob man am dani fel *lle neillduol*. "y deyrnas a barotowyd er seiliad y byd"—"y wlad well"—"dinas ac iddi sylfeini, Saer ac Adeiladydd yr hon yw Duw," a llawer o ymadroddion cyffelyb. Yr oedd gan Abraham, am yr hwn y dywedir ei fod *yn dysgwyl, le* mewn golwg yn ddiau; a dywed yr apostol gystal, y buasai yn gywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddo ef a'i gydffyddloniaid pe na buasai wedi parotoi y cyfryw *le* ag yr oeddynt hwy yn dysgwyl am dano ar eu cyfer. Yn awr, i'r LLE gogoneddus hwn yr aeth yr Archoffeiriad mawr pan adawodd y ddaear wedi gorphen ei waith; i gysegr santeiddiolaf y greadigaeth, yr hwn nid oedd y cysegr santeiddiolaf yn y babell a'r deml ond cysgod gwan ac anmherffaith o hono. Aeth yno, i'r gwir bresenoldeb dwyfol, o'r hwn hefyd nid oedd y goleuni tanllyd ar y drugareddfa yn y cysegr arwyddocaol hwnw ond yn unig yn arddangosiad cysgodol. Yr oedd y tabernacl daearol, gan hyny, wedi ei fwriadu yn arwydd a chysgod o LE nefol, yn gystal ag yr oedd ei ddodrefn a'i wasanaeth wedi eu trefnu i fod yn bortreadau ac arwyddion o BETHAU nefol.

3 Canys pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau: o herwydd paham rhaid *oedd* bod gan hwn hefyd yr hyn a [h]offrymai.

[h] Eph. 5. 2; Heb. 9. 12.

*Canys pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau.* Crybwyllwyd hyn o'r blaen yn pen. v. 1, ac yma drachefn er mwyn cadw a dal y peth yn barhaus o flaen meddyliau y darllenwyr, fel elfen bwysig yn y pwnc yr ymdrinir yn fanylach âg ef rhagllaw; canys â yr apostol yn mlaen bellach at athrawiaeth yr offrymau a'r aberthau yn ei pherthynas â goruchwyliaeth y gyfraith Iuddewig, ac â goruchwyliaeth y cyfammod newydd, gan ddangos anfeidrol ragoriaeth aberth mawr yr olaf ar aberthau y cyntaf. *Pob archoffeiriad a osodir i offrymu rhoddion ac aberthau—rhoddion*, yr offrymau gwirfoddol, aberthau diolch o deisenau croew wedi eu cymysgu trwy olew, ac afrllad croew wedi ei iro âg olew, a pheilliad wedi ei grasu yn deisenau wedi eu cymysgu âg olew, &c. (Lef. vii. 12.) *Ac aberthau*—aberthau dros gamwedd o'r creaduriaid glan dan y gyfraith. Yr offeiriaid oeddynt i gyflwyno y naill a'r llall dros y bobl i Dduw. Yr oedd offrymu rhoddion ac aberthau yn perthyn yn hanfodol i swydd archoffeiriad; i hyny yn benaf dim yr ordeinid y swydd, ac y gosodid pob un ynddi.

*O herwydd paham rhaid oedd bod gan hwn hefyd yr hyn a offrymai. O herwydd paham*—o herwydd ei fod yn Archoffeiriad "wedi ei osod dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw, rhaid oedd fod gan" Grist yntau yr hyn a offrymai. Ni allasai efe lenwi enw a swydd Archoffeiriad heb offrymu. Nid oes dim cyfathrach i fod byth rhwng Duw cyfiawn â dyn pechadurus ond mewn aberth. Y mae aberth yn elfen hanfodol, a'r brif elfen, yn nghrefydd pechadur. Nid oes angen am archoffeiriad ac aberth i sefyll rhwng creadur pur a santaidd â Duw. Cyflwyna ef ei addoliad, a derbynia Duw ef ganddo, yn annibynol ar archoffeiriad ac aberth; ond cyn y cymeradwyir person ac addoliad troseddwr, rhaid cael archoffeiriad ac aberth drosto. Ni ddywedir yma pa beth a pha fath oedd yr offrwm a offrymodd Crist; daw hyny dan ystyriaeth etto wrth fyned yn mlaen ar y pwnc yn y bennod nesaf; ni wneir ar hyn o bryd ond yn unig gosod i lawr y ffaith, a'r hyn y mae y ffaith hòno yn gynnwys: hyny yw—Yr oedd pob

archoffeiriad wedi ei osod i offrymu rhoddion ac aberthau—yr oedd Crist wedi ei osod yn Archoffeiriad, ac yr oedd raid, gan hyny, fod ganddo yr hyn a offrymai; neu yr oedd yn hollol angenrheidiol iddo, yn ol ei swydd, offrymu rhyw offrwm.

4 Canys yn wir pe b'ai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith; gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ol y ddeddf:

*Canys yn wir pe b'ai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith.* Yma symudir cam yn mlaen yn y pwnc, fod yn angenrheidiol i Grist fel Archoffeiriad adael y ddaear, a myned i'r nefoedd i weinyddu yn ei swydd archoffeiriadol. Nid oedd ar y ddaear yr un cysegr iddo fyned i mewn iddo a gweini ynddo.

*Gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ol y ddeddf.* Yr oedd offeiriaid eisoes yn perthyn i'r tabernacl hwnw ar y ddaear. Perthynai hwnw i offeiriadaeth ac offeiriaid y gyfraith yn unig; nid oedd efe, Crist, yn perthyn i hòno, gan nad oedd o lwyth Lefi, nac o deulu Aaron. Gwaharddai deddf yr offeiriadaeth bawb arall i weini yn ngwasanaeth y cysegr; ond gan ei fod ef yn Archoffeiriad, yr oedd raid fod ganddo yntau ei dabernacl i fyned i mewn a gweinyddu ynddo, yn gystal a bod ganddo yr hyn a offrymai. Y tabernacl hwnw ydyw y gwir dabernacl—y nef ei hun, lle y mae efe yn offrymu rhoddion ac aberthau. Ar y ddaear, yn wir, yr offrymodd efe aberth mawr y cymmod; ond y mae efe hefyd yn y nefoedd yn offrymu—yn cyflwyno rhin a haeddiant yr aberth hwnw ger bron Duw yn ei eiriolaeth, ac yn cyflwyno aberthau ysbrydol, mawl a gweddïau y saint, yn offrwm cymeradwy gan Dduw, yn rhinwedd teilyngdod ei aberth ei hun, a offrymodd efe unwaith dros bechodau yn nyddiau ei gnawd ar y ddaear. Nid oedd un aberth yn cael ei ladd yn y cysegr santeiddiolaf dan y gyfraith; ond dygid gwaed yr aberth i'w offrymu, neu ei daenellu ynddo ger bron y drugareddfa. Felly yr un modd Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd hefyd; offrymodd ei hun yn aberth ar y ddaear, ac aeth i mewn i'r cysegr trwy waed yr aberth hwnw, i'w offrymu yno yn ei eiriolaeth dros y troseddwyr.

5 Y rhai sydd yn gwasanaethu i siampl a [i] chysgod y pethau nefol, megys y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. Canys, [k] Gwel (medd efe) ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

[i] Col. 2. 17; Heb. 10. 1. [k] Exod. 25. 40; 26. 30.

*Y rhai sydd yn gwasanaethu i siampl a chysgod y pethau nefol. Y rhai,* sef yr offeiriaid yn ol y gyfraith, sydd yn gwasanaethu felly. *Siampl a chysgod y pethau nefol,* neu o'r nef ei hun, ydoedd y tabernacl hwnw yn yr anialwch, a'r deml yn Jerusalem hefyd yr un modd, lle y byddai yr archoffeiriaid Iuddewig yn gweinyddu. Nid oedd yr un o honynt hwy yn addas i weinyddu yn y gwir dabernacl; terfynai cymeriad swyddol pob un yn ei farwolaeth. Felly, o'r tu arall, ni fuasai yn gweddu i fawredd ac urddas yr Archoffeiriad mawr i fyned i mewn i weinyddu yn y tabernacl o waith llaw, rhaid oedd iddo ef gael tabernacl mwy a pherffeithiach i fyned iddo. Nid yn unig yr oedd cyfraith offeiriadaeth Lefi yn ei wahardd, ond cyfraith gweddusder pethau yn gystal a hyny. Y lle mwyaf urddasol a gogoneddus ar y ddaear (y cysegr santeiddiolaf) oedd yr unig le na allasai yr Arglwydd Iesu fyned iddo heb dynu cwmwl ar ei urddas. Yr oedd yn weddus iddo athrawiaethu yn y deml, yn y synagogau, yn y tai, ar làn y môr, ac ar ben y mynydd, a myned i mewn i dŷ Simon y Pharisead, a Zaccheus y publican; ond ni allasai gyda gweddusder weinyddu fel archoffeiriad yn y cysegr, pe buasai deddf offeiriadaeth Lefi yn caniatâu hyny.

Gelwir y tabernacl yn *siampl*—copi, cyffelybrwydd; a *chysgod*—delweddiad o'r *pethau nefol;* y pethau, y ffeithiau sylweddol a thragwyddol. Ffugrau

oedd y babell, ei dodrefn, a'i gwasanaeth, i osod allan ffeithiau a sylweddau, egwyddorion mawrion trefn y brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, yr hon a arfaethasai Duw ynddo ei hun cyn bod y byd.

*Megys y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. Canys, Gwel (medd efe) ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread a ddangoswyd i ti yn y mynydd.* Dygir rhybudd Duw i Moses i mewn yma fel prawf mai *siampl a chysgod* yn unig oedd y tabernacl, ac nid y peth ei hun; nid y peth cyntefig a gwirioneddol, ond copi a chysgod o hono, i wasanaethu am dymmor fel arddangosiad arwyddocaol o'r drefn gyfryngol. *Yn ol y portread a ddangoswyd i ti*—yn hytrach y *cyfarwyddyd* a ddangoswyd; canys nid oes digon o sail i gredu haeriad amryw Rabbiniaid Iuddewig, ddarfod i Dduw roddi portread *(model)* bychan o goed, neu o ryw ddefnydd arall, o'r tabernacl i Moses, a bod hwnw yn aros ar fynydd Sinai hyd y dydd hwn: nac ychwaith, fel yr haera eraill o honynt, fod Moses wedi cael ei anrhydeddu â golwg ar y nefoedd ei hun oddiar y mynydd, ac iddo weled yno adeilad wedi ei osod i fyny, o'r fath ag y gorchymynid iddo ef ei chodi, yr hon sydd yn dybiaeth wylltach na'r llall; ac nid yw yr ymadrodd yn ein rhwymo i dderbyn tybiaeth amryw esbonwyr Cristionogol, bod Moses wedi cael gweledigaeth o'r portread chwaith, ond yn unig y cyfarwyddyd manwl, eglur, a syml a geir ar lawr yn yr hanes. Gwel Exod. xxv.

6 Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy [1] rhagorol, o gymaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.

[1] 2 Cor. 3. 6–9; Heb. 7. 22.

*Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol. Efe*—Crist, a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol na gweinidogaeth yr offeiriaid yn ol y ddeddf. Yr oedd hòno yn wir yn un ragorol; ond y mae yr eiddo Crist yn tra rhagori arni yn mhob peth, ond yn enwedig ar gyfrif ei fod ef yn gweini yn ei swydd yn y gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn, tra nad oeddynt hwy yn gweini ond yn y tabernacl o waith llaw, siampl a chysgod yr un nefol. Ac, yn mhellach—

*O gymaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell. Yn Gyfryngwr*—yn Brifweinydd, Arolygwr, Blaenor; *cyfammod*—testament, trefn, goruchwyliaeth; *well*—gwell na'r hen gyfammod—y testament, y drefn hòno o addoliad a gwasanaeth dwyfol, neu y modd y trafodid yr achos mawr rhwng Duw a dyn dan y cyfammod i'r hwn yr oedd yr offeiriaid Iuddewig yn gyfryngwyr neu weinidogion. Trefn gysgodol, ac i ddiflanu, ydoedd hòno: ond un sylweddol, wirioneddol, ac felly i aros a pharhau, ydyw yr un newydd. Y mae gymaint yn well ag ydyw sylwedd yn well na chysgod—y peth ei hun na delw neu gyffelybrwydd o hono. *Yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell.* Rhagora y cyfammod newydd, i'r hwn y mae Crist yn Gyfryngwr, ar yr hen yn natur y bendithion a gyfrana. *Addewidion gwell*—addewidion o ragorfreintiau a bendithion gwladol a thymmorol yn benaf a ddaliai yr hen gyfammod allan i'r rhai a ymaflent ynddo, ac a gydffurfient â'i drefn. "Os byddwch ewyllysgar ac ufudd, daioni y tir a fwytewch," oedd ei drefniad a'i addewid. Yr oedd addewid bywyd tragwyddol i'w chael dan ei weinidogaeth yn ddiau, gan ei fod yn ffurf yr un oedd ar ddyfod; ond yr oedd hòno yn dywyll ac yn aneglur; pethau tymmorol a seremonïol oedd ei bethau amlwg—y pethau y rhoddai ei addewidion ef y prif ddynodrwydd iddynt. Ond yn y cyfammod newydd y mae yr ysbrydol yn blaenori y tymmorol—bywyd tragwyddol ydyw yr addewid fawr a blaenaf ynddo. Y mae ganddo yntau addewid o'r bywyd sydd yr awr hon; ond y mae hòno yn rhyw ail beth ynddo. "Teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef" a safant yn gyntaf, yn benaf, yn *brif bethau;* yna "yr holl bethau hyn" yn canlyn. "Yr holl bethau;" nid ydynt yn deilwng i'w henwi, er eu bod yn bethau da, mewn cyferbyniad â'r pethau mawrion eraill. Y mae

gweinidogaeth Crist yn fwy *rhagorol* na gweinidogaeth yr offeiriaid Iuddewig, gan hyny, ar yr holl gyfrifon hyn:—

1. Ei ragoriaeth anfeidrol ef ei hun ar yr offeiriaid hyny, yr hyn a ddangoswyd yn y bennod o'r blaen.

2. Yn rhagoriaeth y tabernacl (daw rhagoriaeth ei aberth dan sylw yn y bennod nesaf) yr aeth efe i mewn iddo i weini ar y tabernacl y gweinyddent hwy ynddo.

3. Yn rhagoriaeth y cyfammod y mae efe yn Gyfryngwr iddo ar y cyfammod yr oeddynt hwy yn weinidogion o hono.

4. Yn rhagoriaeth addewidion a bendithion ysbrydol yr efengyl ar addewidion a bendithion tymmorol a seremonïol trefn neu gyfammod Sinai.

7 Oblegid yn wir [m]pe buasai y cyntaf hwnw yn ddifeius, ni cheisiasid lle i'r ail.

[m] Heb. 7. 11.

*Y cyntaf hwnw*—y cyfammod hwnw, y drefn, yr oruchwyliaeth hòno o grefydd; pe buasai hòno *yn ddifeius*—yn berffaith, ni *cheisiasid lle i'r ail*—ni buasai achos am ail, ac ni buasai *lle* iddo; canys ni ellir gwell na'r hyn sydd yn berffaith; ond nid oedd y cyntaf hwnw yn ddifeius a pherffaith felly. Nid am fod ynddo ddim allan o'i le, yn feiadwy, ond am ei fod yn ddiffygiol. Nid oedd yn meddu darpariaeth effeithiol er maddeuant pechodau, a phuro yr addolwr oddiwrth gydwybod ddrwg. Ni allai ei aberthau dynu ymaith bechodau; ac yn wir, ni fwriadwyd iddynt wneud hyny chwaith; ond yn unig i ragosod allan yn arwyddocaol gyfammod, trefn arall well, berffeithiach, a gynnwysai ynddi bob darpariaeth angenrheidiol i wneud hyny mewn modd effeithiol a gwirioneddol.

8 Canys yn beio arnynt hwy y dywed *efe*, [n]Wele, y mae y dyddiau yn dyfod (medd yr Arglwydd) ac mi a wnaf â thŷ Israel ac â thŷ Juda gyfammod newydd:

[n] Jer. 31. 31—34.

*Canys yn beio arnynt hwy y dywed efe.* Golygai ein cyfieithwyr mai y genedl Iuddewig, deiliaid yr hen gyfammod, ydyw y gwrthddrychau y beiir arnynt, ac felly golyga amryw esbonwyr; ond cytuna y rhan fwyaf, hwyrach, mai y *cyfammod* Iuddewig ydyw y gwrthddrych y beiir arno. Nid, fel y sylwyd eisoes, fod dim yn anweddaidd, neu o le ynddo; ond ei fod yn ddiffygiol i gyfarfod ag achos a chyflwr dyn er ei adferu. Felly Stuart, Grotius, Rosenmuller, Ebrard, ac eraill. Golyga Barnes nad yw yr ymadrodd yn cyfeirio yn neillduol at y genedl na'r cyfammod. Cynnygia ef ei ddarllen fel hyn, "Canys yn beio y dywed efe," &c. Yr oedd bai a diffyg yn bod yn rhywle, gan nad oedd y drefn yn ateb dyben, ac oblegid hyny, efe a addawai ddwyn cyfammod newydd yn lle yr hen. Cyfeirir at y brophwydoliaeth yn Jer. xxxi. 31—34. Meddyliem fod geiriau y brophwydoliaeth yn cynnwys beiad ar y genedl, ac ar y cyfammod hefyd, yn yr olwg a rydd yr apostol arnynt. Beiir ar y bobl gan y prophwyd am *na thrigasant yn y cyfammod*—ddarfod iddynt ei esgeuluso, a halogi ei ordeiniadau; ac oblegid hyny, ddarfod i'r Arglwydd eu hesgeuluso hwythau. Yr oedd yr anffyddlondeb hwnw yn y bobl yn feius, yn drosedd pechadurus yn erbyn Duw a'i gyfammod, am yr hwn yr achwynir yn drwm arnynt yn fynych iawn. O'r tu arall, y mae y dull y dygir geiriau y brophwydoliaeth i mewn gan yr apostol yma, yn cynnwys beiad ar y cyfammod hefyd, sef ei fod yn ddiffygiol o ddarpariaeth effeithiol i wella, ac adfer cyflwr ac achos ei ddeiliaid, ac i'w dal mewn ufudd-dod iddo.

*Wele, y mae y dyddiau yn dyfod (medd yr Arglwydd.)* Sef dyddiau yr efengyl —y dyddiau diweddaf. Y mae yn rhaid yr edrych llygad y brophwydoliaeth yn mhellach na dychweliad y genedl o gaethiwed Babilon am gyflawniad llawn o honi; ond yr oedd yn yr amgylchiad hwnw ryw ernes o hono.

*Ac mi a wnaf â thŷ Israel ac â thŷ Juda gyfammod newydd. Tŷ Israel a thŷ Juda*, felly y gelwir y genedl Hebreaidd ar ol rhwygiad y deg llwyth

oddiwrth dŷ Dafydd, yn nechreu teyrnasiad Rehoboam, mab Solomon. Cyr hyny yr oeddynt yn un tŷ, teulu, a gwladwriaeth. Gwnaed y cyfammod cyntaf â hwynt pan oeddynt yn un dan Moses, i'r hwn yr oeddynt oll wedi eu bedyddio "yn y cwmwl ac yn y môr." Ni chollodd y deg llwyth eu rhan a'u hawl yn y cyfammod a'i ragorfreintiau, yn eu gwaith yn ymrwygo oddiwrth frenhiniaeth Dafydd; ond trwy eu gwaith yn gadael eu Duw cyfammodol, ac yn ymlygru mewn eulunaddoliaeth.

Yr oedd y cyfammod cyntaf yn gosod neillduaeth ar had Abraham oddiwrth bob cenedl arall, i fod yn bobl briodol i'r gwir Dduw—yn "bobl yn preswylio eu hunain, ac heb eu cyfrif gyda'r cenedloedd." Trefnai y cyfammod lawer iawn o ddefodau a seremonïau crefyddol iddynt i'w hymarfer, y rhai oeddynt yn nodau gwahaniaethol arnynt. Enwir tŷ Israel a thŷ Juda, deiliaid yr hen gyfammod, yn y brophwydoliaeth am y cyfammod newydd, i osod allan yr Eglwys Gristionogol—credinwyr o Iuddewon a chenedloedd, y rhai a grëid yn y cyfammod hwn yn un dyn newydd yn Nghrist Iesu: y rhai y bydd nodau y gwahaniaeth rhyngddynt â'r byd anghrediniol, nid yn gymaint mewn defodau ac arferion allanol, fel nodau y gwahaniaeth rhwng yr Iuddewon a'r cenedloedd dan y cyfammod cyntaf, ond mewn newydd-deb buchedd a santeiddrwydd bywyd. Y mae y cyfammod newydd yn crëu *dyn* newydd, yr hyn ni allai yr hen.

9 Nid fel y cyfammod a wnaethum â'u tadau hwynt, yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aifft: oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfammod i, minnau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.

*Nid fel y cyfammod a wnaethum â'u tadau hwynt, yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aifft.* Bydd y cyfammod newydd yn wahanol i hwnw a wnaed â thadau y genedl ar Sinai, yn fuan ar ol eu dygiad allan o'r Aifft. Nid yw y *dydd* yn y fan hon yn arwyddo y diwrnod neillduol hwnw yr aeth meibion Israel allan o'r Aifft, ond y cyfnod—tymmor y waredigaeth: yn mhen tua dau fis o ddyddiau wedi eu mynediad o'r Aifft y daethant i odre mynydd Sinai, ac yno y pryd hwnw y gwnaeth Duw ei gyfammod â hwynt, sef y gosododd efe drefn a goruchwyliaeth o grefydd iddynt, ac y rhoddodd efe ddeddfau a barnedigaethau iddynt i'w cadw a'u gwneuthur, y rhai a elwir yn fynych yn gyfammod; yr oedd yn cynnwys ammodau ac addewidion. Yr oedd megys yn ymaflyd yn eu llaw i'w cynnorthwyo a'u harwain, fel yr ymafla tad yn llaw ei blentyn, drwy fyned o'u blaen mewn colofn niwl y dydd a cholofn dân y nos.

*Oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfammod i.* Dyna paham yr oedd angen am gyfammod newydd—methiant yr hen. Nid oedd yn meddu ar nerth i ddal ei ddeiliaid mewn ufudd-dod iddo. Ni thrigasant ynddo, tòrasant a halogasant ef. Yr oedd hyny yn bechadurus iawn ynddynt hwy yn ddiau, ac yr oedd yn profi fod rhyw ddiffyg yn y cyfammod hefyd. Gan hyny, bydd y cyfammod newydd yn wahanol i hwnw. Yr oedd y cenedloedd hwythau, drwy holl ddyddiau goruchwyliaeth y cyfammod Iuddewig, o dan weinidogaeth goruchwyliaeth cyfammod Noah. Yr oedd hòno. fel y buasai Noah ei hun, yn pregethu cyfiawnder i'r byd. Ni adawodd Duw mo hono ei hun yn ddidyst yn eu mysg hwythau, gan roddi gwlaw o'r nefoedd a thymmorau ffrwythlawn iddynt, a dadguddio ei ddigofaint yn fynych yn eu mysg "yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion." Ond ni thrigasant hwythau yn y cyfammod hwnw, ond ymsuddasant i bob llygredigaeth ac anwiredd. Dywed yr apostol am danynt yn y bennod gyntaf o'i lythyr at y Rhufeiniaid, eu bod "wedi eu llenwi â phob anghyfiawnder." Yr oedd gan y genedl Iuddewig fanteision gweinidogaethau cyfammod Noah a chyfammod Moses hefyd; ond profodd y ddwy yn weiniaid ac aneffeithiol i'w dal a'u cadw: "Ni thrigasant yn y cyfammod."

*Minnau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd.* Dyna eu cerydd

am dòri a halogi y cyfammod, *eu hesgeuluso*—eu gadael i fyned i afael canlyniadau eu gwrthnysigrwydd, megys y dengys eu hanes ddarfod iddynt gael eu cystuddio a'u darostwng i gyfyngderau laweroedd o weithiau am droseddu yn erbyn y cyfammod.

10 Oblegid hwn *yw* y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt: [o] a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minnau yn bobl.

[o] Hos. 2. 23; Zech. 8. 8.

*Oblegid hwn yw y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd. Hwn yw y cyfammod* —y drefn newydd a gwell; *a ammodaf* —a osodaf, a sefydlaf, rhyngof â thŷ Israel a thŷ Juda.

*Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt.* Ar lechau cèryg yr ysgrifenasai Duw y rhan foesol o gyfreithiau yr hen gyfammod, a'r rhan seremonïol o honynt mewn llyfr yn unig gan Moses. Ond yn ngoruchwyliaeth y cyfammod newydd, addawa ysgrifenu y cyfreithiau yn meddwl ac ar galonau y deiliaid. Yr ystyr yw, gweithio ynddynt trwy ei Ysbryd a'i ras egwyddor o ufudd-dod gwirfoddol i'w gyfreithiau, ac o ymlyniad ffyddlon wrth ei gyfammod; rhoddi ei ofn ynddynt, fel na chiliont oddiwrtho. Cilio oddiwrtho, ymadael âg ef, a myned ar ol eulunod yr oedd deiliaid yr hen gyfammod, y rhai yr oedd y cyfreithiau ganddynt yn ysgrifenedig ar lechau yn barhaus. Y mae wyneb yr Hen Destament yn orlawn o'r gŵyn hon yn eu herbyn. Rhagora y drefn newydd ar yr hen yn gymaint a'i bod yn cynnwys darbodaeth effeithiol i gadw ei deiliaid rhag hyn; sef dodi y cyfreithiau yn eu meddwl, yn egwyddorion bywiol o ufudd-dod i ac ymlyniad ffyddlon wrth Dduw.

*A mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw a hwythau a fyddant i minnau yn bobl.* Yn Dduw iddynt yn nhrefn ac ystyr y cyfammod newydd a wnai efe â hwynt. Yr oedd efe yn Dduw i'r genedl Iuddewig yn gyffredinol yn ol trefn y cyfammod cyntaf; ac yn Dduw yr iachawdwriaeth hefyd yn ol trefn ei ras, i'r holl ffyddloniaid dan y cyfammod hwnw; a'r ystyr hòno a olygir yma, y byddai iddo ef eu harddel, eu hamddiffyn, eu harwain, a'u bendithio, er diwallu eu holl anghenion a'u dymuniadau; a hwythau yn bobl ufudd, ffyddlon iddo, ac ymlyngar wrtho yntau, i'w ogoneddu a mynegu ei rinweddau.

11 Ac ni ddysgant bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan dywedyd, Adnebydd yr Arglwydd: oblegid hwynt-hwy [p] oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.

[p] Esa. 54. 13.

Ni olygir yma y bydd pob math o addysg grefyddol yn ddiangenrhaid yn y dyddiau y cyfeirir atynt. Ni ddaw dyddiau felly ar y ddaear, nac am a wyddom ni yn y nefoedd chwaith. Bydd gan ddynion lawer o waith dysgu eu hunain a dysgu eu gilydd yn mhethau mawrion crefydd bob amser. Ond y meddwl yw, na fydd angen dysgu dynion am y gwir Dduw fel unig wir wrthddrych addoliad, fel yr oedd o'r blaen pan oedd tywyllwch yn gorchuddio y ddaear, a'r fagddu y bobloedd. Nid oes angen dysgu neb yn Nghymru yn awr yn yr ystyr hwn. Mynegir yma y bydd i'r wybodaeth o Dduw yn nyddiau y cyfammod newydd lenwi yr holl ddaear—y bydd pawb, o'r lleiaf hyd y mwyaf, yn adnabod yr Arglwydd—pob gradd a sefyllfa, amgylchiadau ac oedran. Golygir graddau a sefyllfaoedd yn benaf, dichon; gan arwyddo y byddai i'r wybodaeth o Dduw dan yr efengyl ddringo i fyny o'r lleiaf at y mwyaf, o'r isaf at yr uchaf; yn hytrach na disgyn oddiwrth y mwyaf a'r uchaf at y lleiaf a'r isaf; ac y mae hyn yn gyson â'r holl brophwydoliaethau ar y mater, ac â hanes goruchwyliaeth y cyfammod newydd.

At y tlodion yr aeth yr Hwn a osodasid yn gyfammod pobloedd, ac yn oleuni i'r cenedloedd, ac i fod yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear, yn gyntaf oll i ddysgu. "I bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi," meddai, gan gymhwyso ato ei hun y brophwydoliaeth yn Esa. lxi. 1—11; gwel Luc iv. 18. "A'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt," oedd coron yr holl ffeithiau a grybwyllodd efe wrth ddysgyblion Ioan Fedyddiwr, gan erchi iddynt eu mynegu i'w hathraw fel profion mai efe oedd y Messïa dysgwyliedig.

12 Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.

Dyma addewid a bendith fawr y cyfammod newydd; maddeuant pechodau ac anwireddau, yn cynnwys y byddai i Dduw ymddwyn tuag atynt megys pe na buasent erioed wedi troseddu. *Anghofio eu pechodau a'u hanwireddau*—myned heibio iddynt heb eu hystyried a'u cyfrif yn eu herbyn na'u cosbi am danynt; drwy hyn y dygir hwythau i'w garu, ei dduwiol ofni, a glynu wrtho.

13 Wrth ddywedyd, *Cyfammod* q newydd, efe a farnodd y cyntaf yn hen. Eithr yr hwn a aeth yn hen ac yn oedranus, *sydd* agos i ddiflanu.

q Jer. 31. 31.

Dyna'r ddau sylw byr a wna'r apostol ar eiriau y prophwyd, neu eiriau Duw trwyddo, wrth eu gadael. *Wrth ddywedyd, Cyfammod newydd.* Duw ei hun sydd yn dywedyd felly; ac wrth ddywedyd felly y mae yn edrych ar y cyfammod cyntaf yn hen—yn hen mewn cymhariaeth â'r newydd, sydd yn cael yn awr ei ddwyn yn mlaen a'i sefydlu yn lle y llall, yr hwn nad allasai ateb y dyben a gyrhaeddid trwy y *cyfammod gwell*, ag oedd yn cael ei *osod ar addewidion gwell*, ac i'r hwn yr oedd yr Archoffeiriad mawr, "yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc y Mawredd yn y nefoedd," yn Gyfryngwr. Yr oedd y cyntaf megys wedi myned yn hen ac oedranus. Pa beth bynag sydd felly yn natur, y mae yn agos i ddiflanu. Y mae yr hen mewn dyddiau yn agos i ddiflanu o'r byd trwy farwolaeth. Syrth yr hen bren i lawr o hono ei hunan; ond rhaid cael gallu a gorthrech i dòri i lawr bren ieuanc. Y mae yr hen a'r oedranus dynol yr un modd, yn diflanu o'r byd o'r diwedd dan bwys blynyddoedd, yn dihoeni i angeu gan nychdod a gwendid yn unig, heb raid wrth unrhyw haint na chlefyd i'w dòri i lawr; tra gyda gallu a gorthrech y tòrir i lawr y gwr sydd yn nghanol ei nerth a'i ddyddiau. Y meddwl, debygaf, yw, fod y cyfammod cyntaf, ar ol hir dymmor o wasanaeth, wedi profi yn fethiant. Nid yn fethiant chwaith gyda golwg ar y pwrpas oedd i'w sefydliad, sef gwasanaethu fel cysgod ac esiampl: atebodd y dyben hwnw; ond ni allai berffeithio dim, neb o'i ddeiliaid. Yr oedd yn fethedig yn hyny. Yr oedd, fel yr hen a'r oedranus, yn analluog i'r gwaith a amcanai Duw ei wneuthur; am hyny, dygid i mewn gyfammod newydd yn ei le; a phan ddelai dyddiau hwnw, y diflanai yntau o'r golwg. Hwyrach yr ewyllysiai yr apostol awgrymu i'r Hebreaid drwy'r ymadrodd hwn bod dyddiau olaf yr hen gyfammod yn cael eu prysur rifo i fyny y pryd hwnw. Fel ac yr oedd yr Iuddewon anghrediniol a lynent wrth ddefodau yr hen gyfammod, gan wrthod goruchwyliaeth a gras y newydd, "yn agos i felldith," megys y dywedasai o'r blaen (Heb. vi. 8), felly hefyd yr oedd y cyfammod hwnw ei hun yn agos i lwyr ddiflanu, yr hyn a gymerodd le yn fuan wedi hyn yn ninystr Jerusalem a gwasgariad y genedl.

Yma diweddglöir pwynt arall yn y cyferbyniad o'r oruchwyliaeth gyntaf a'r un ddiweddaf. Profwyd yn Heb. vii. bod gan yr olaf *Archoffeiriad* anfeidrol fwy a gwell nag oedd gan y gyntaf. Drachefn, yn nechreu y bennod hon, bod ganddi *dabernacl* gwell—y gwir gysegr, i'w Harchoffeiriad hi i weinyddu ynddo. Ac, yn olaf, bod ganddi *gyfammod* gwell, ac *addewidion* gwell—yr oll yn well o gymaint ag y mae sylweddau ysbrydol a gwirioneddol yn rhagori ar gysgodau a defodau ser-

emonïol. Tuedd hyn oll sydd yn eithaf amlwg, sef argyhoeddi pob meddwl o'r ynfydrwydd a'r drygedd o lynu wrth y cysgod ac esgeuluso y sylwedd—o anrhydeddu delw y pethau, a diystyru y pethau eu hunain—neu o droi yn ol oddiwrth yr olaf at y cyntaf, fel y gogwyddai rhai o'r Hebreaid i wneud y pryd hwnw.

## PENNOD IX.

1 *Y mae yn dangos dull seremonïau ac aberthau gwaedlyd y gyfraith;* 11 *a'u bod yn llai eu teilyngdod a'u perffeithrwydd nag aberth Crist a'i waed.*

AM hyny yn wir yr ydoedd hefyd i'r tabernacl cyntaf ddefodau gwasanaeth Duw, a [r]chysegr bydol.

[r] Exod. 25. 8.

*Am hyny yn wir yr ydoedd hefyd i'r tabernacl cyntaf ddefodau gwasanaeth Duw.* I'r cyfammod cyntaf, yn ol y Saesoneg; i'r cyntaf ydyw yn y gwreiddiol. Cyflawniad a ddododd y cyfieithwyr i mewn ydyw y cyfryngair *tabernacl*, neu *gyfammod*. Dewisodd y cyfieithwyr Cymreig ddodi *tabernacl*, a'r cyfieithwyr Seisnig *cyfammod*. Cyfammod yn ddiau ydyw y goreu, canys yr un ydyw y tabernacl a'r cysegr. Y mae felly megys pe dywedid, fod i'r tabernacl cyntaf dabernacl bydol, yr hyn a wna yr ymadrodd yn wrthun, ac yn amddifad o synwyr. Yr ydoedd i'r cyntaf o'r ddau gyfammod a gyferbynid yn y bennod o'r blaen *ddefodau gwasanaeth Duw.* Perthynai i'r weinidogaeth hòno seremonïau a threfniadau dwyfol, i barhau mewn awdurdod ac ymarferiad tra y parhaai tymmor goruchwyliaeth y cyfammod. Yn wir, yr oeddynt yn rhanau hanfodol o hono.

*A chysegr bydol.* Lle, adeilad pwrpasol i gyflawni ynddo ddefodau y gwasanaeth dwyfol. Cysegr y cyfammod ydoedd; pethau y cyfammod oedd ei holl lestri a'i ddefodau; gweinidogion y cyfammod oedd yr offeiriaid a weinyddent ynddo, a'r Lefiaid a weinyddent iddo, &c. Yn ol trefn benodol y cyfammod yr oedd pob peth i gael ei gyflawni yn y cysegr. Halogiad rhyfygus arno fuasai dwyn dim i mewn iddo, na chyflawni dim ynddo, yn amgen nac oedd yn orchymynedig yn y cyfammod. Tarawyd Nadab ac Abihu, meibion Aaron, yn feirwon â barn Duw, am ryfygu gwneuthur felly. "Myfi a santeiddir yn y rhai oll a nesant ataf," medd yr Arglwydd. Ni oddefid i ddim dynol gael ei ddwyn i mewn iddo. Yr oedd raid i weinidogion y cysegr ymgadw yn mhob peth yn ol y drefn ddwyfol osodedig iddynt. Yr oedd llawer o bethau yn nefodau gwasanaeth y cysegr nad oedd y bobl, na'r offeiriaid chwaith, yn deall eu hamcan a'u dyben—pethau nas gallasent hwy roddi rheswm paham, neu i ba bwrpas yr oeddynt wedi eu trefnu felly. Ond yr oedd gorchymyn Duw yn ddigon o reswm iddynt hwy i ufuddhau; ac yr oedd eu hufudd-dod yn rhesymol wasanaeth ar y cyfrif hwnw yn unig.

*A chysegr bydol.*—yn gyferbyniol i'r *gwir gysegr*—yr un nefol y soniasid am dano o'r blaen, o'r hwn yr oedd efe yn bortread. *Bydol* yn ol ystyr briodol y gair, ac nid yn yr ystyr fenthycol sydd iddo weithiau yn y Testament Newydd. Cysegr o ddefnyddiau elfenol—o waith llaw dyn. Yr oedd yr holl wasanaeth a gyflawnid yn y cysegr yn elfenol—yn *ddefodau cnawdol*, megys y geilw ein hapostol hwynt, yr un modd a'r cysegr ei hun.

2 Canys yr oedd [s]tabernacl wedi ei wneuthur; y cyntaf, yn yr hwn *yr oedd* y canwyllbren, a'r [t]bwrdd, a'r [u]bara gosod; yr hwn *dabernacl* a elwid, Y cysegr.


[s] Exod. 26. 1, 37. [t] Exod. 40. 4. [u] Exod. 25. 30.

*Canys yr oedd tabernacl wedi ei wneuthur*—sef y cysegr bydol a grybwyllwyd o'r blaen; am bortread a gwneuthuriad yr hwn y rhydd Moses hanes llawer iawn manylach a meithach yn niwedd llyfr Exodus, nac a rydd am greadigaeth y nef a'r daear, a'u holl luoedd hwynt, yn nechreu llyfr Genesis. I'r tabernacl hwn yr ydoedd Duw, Creawdwr y nef a'r ddaear, ar fedr dyfod i breswylio mewn arwydd gweledig o'i bresenoldeb, fel Duw mewn cyfammod â'i bobl Israel—i ddatguddio ei hun,

a boddlonrwydd ei ewyllys iddynt, mor belled ag yr oedd y cyfryw ddatguddiad i gael ei wneud dan y cyfammod hwnw. Yno yr oedd y bobl i ddyfod ato, a chyflwyno eu haberthau a'u haddoliad iddo; ac oddiyno yr oedd efe, trwy dderbyn eu haberthau, yn eu bendithio â'i gyfammod a'i ffafr.

*Y cyntaf, yn yr hwn yr oedd y canwyllbren;*—y cyntaf, yr ystafell nesaf allan i'r tabernacl, yr hon yr elid i mewn iddi o'r cyntedd, yn yr hwn y safai y bobl. Yr oedd teml Solomon, a'r ail deml wedi hyny, yn ol portread a chynllun tabernacl Moses, ond eu bod yn llawer mwy a helaethach.

*Y canwyllbren.* Yr oedd y canwyllbren yn un cyfanwaith morthwyl, i gyd o aur, a chwech o geinciau yn codi o'i ystlysau, a thair padell o waith almonau, a chnap a blodeuyn ar bob cainc ar gyffelybrwydd blodeuyn y pren almon. Yr oedd ar y canwyllbren saith o lusernau i ddal goleuni yn y cysegr; y



Y CANWYLLBREN.

cwbl o aur coeth o un cyfanwaith morthwyl. Gwel Exod. xxv. 31—39. Y mae athrylith ysbrydolwyr yr ysgrythyrau wedi bod ar lawn waith gyda chanwyllbren y cysegr, ac wedi cael allan fod ei ddefnydd, ei ffurf, ei geinciau, ei gnapiau, ei bedyll, ei lusernau, ei flodau, a'i gafnau oll o arwyddocâd ysbrydol a chyfriniol—yn gosod allan Grist, ac athrawiaethau ac ordinhadau yr efengyl, doniau yr Ysbryd Glan, &c. O bob dull o ymdriniaeth â'r ysgrythyrau, mewn ffordd o'u deongli, dichon mai yr ysfa i ysbrydoli a wnaeth fwyaf o gam â hwy. Ni ddywed yr un o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig ddim o'r fath hyn am y canwyllbren a'i berthynasau: a chan nad oes i'r cyfryw ddeongliadau un sail ysgrythyrol, ni allant fod o un gwir werth. Gallant borthi cywreingarwch y dychymyg, ond ni allant borthi y meddwl â gwybodaeth a deall ysbrydol. Nid oes un maen prawf i'w gael i'w chwilio a'u profi wrtho; gan hyny, ni ellir dibynu ar eu cywirdeb. Y mae llaweroedd o honynt yn gyfryw y gellir eu galw yn ddim amgen na breuddwydion dychymyg wamal a dilywodraeth—yn bob peth sydd groes i *synied i sobrwydd.* Yr oedd llawer o'r rhai a elwir "y tadau," yn y canrifau cyntaf, yn nodedig yn yr amryfusedd hwn; a rhedai rhai o'r duwinyddion Puritanaidd yn o bell ar eu hol.

Heblaw fod y canwyllbren yn angenrheidiol i ddal goleuni yn y cysegr, yr oedd hefyd yn addurn i'r lle santaidd; a dichon ei fod, os yn arwyddlun o ddim, yn arwyddlun o'r eglwys Iuddewig dan y cyfammod cyntaf, fel yr oedd hi yn neillduedig i ddal goleuni gwybodaeth o'r gwir Dduw a'i addoliad i'r byd tywyll ac eulunaddolgar o'i hamgylch, ac felly yr eglwys Gristionogol yr un modd. Ni leferir yn un man yn y Beibl am yr Arglwydd Iesu Grist dan y gymhariaeth o ganwyllbren, ond fel Haul a Goleuni. Cymherir yr eglwys yn fynych hefyd i oleuni, weithiau i oleudy, ac yn ngweledigaeth Ioan (Dat. i.) y mae y saith ganwyllbren aur yn arwyddluniau o'r saith eglwys yn Asia. Ymddangosai "un tebyg i Fab y dyn yn rhodio yn nghanol y canwyllbreni" hyny, yn ngwisg a dullwedd archoffeiriad yn gweinyddu yn ei swydd. Tybiwn fod y canwyllbreni yn y weledigaeth hòno wedi eu benthyca fel arwyddluniau o'r eglwysi oddiwrth ganwyllbren auraidd y cysegr.

*A'r bwrdd a'r bara gosod;* neu y bara dangos. Llawer o wahanol dybiau

a ffufiwyd mewn perthynas i amcan a dyben y trefniad hwn hefyd; a phaham y gelwid ef *y bara gosod—y wyneb*—neu *y presenoldeb*. Myn rhai ei fod yn bortread o'r Arglwydd Iesu Grist, y *bara bywiol;* a bod y bwrdd hwnw yn rhagarwyddocâd o fwrdd yr Arglwydd, sacrament y swper; ond ni ellir derbyn y deongliad yna yn ddibetrusder. Wedi i'r Arglwydd roddi cyfarwyddyd i Moses yn nghylch gwneuthuriad y bwrdd, yr oll a ddywed efe am ei ddyben a'i wasanaeth ydyw hyn, "A dod ar y bwrdd y bara dangos ger bron fy wyneb yn wastadol," Exod. xxv. 23. Cawn drefn y bwrdd a'r bara dangos drachefn yn Lef. xxiv. 5—9. Deuddeg teisen groew ydoedd y bara i fod, i'w gosod yn ddwy res, chwech yn y rhes, yn goffadwriaeth ac yn aberth tanllyd i'r Arglwydd. Yr oedd y bara i gael ei newid bob Sabbath, a'r bara a gymerid oddiar y bwrdd i gael ei fwyta yn y lle santaidd gan Aaron a'i feibion, yr offeiriaid yn unig, a hyny yn y lle santaidd, sef y cysegr; a dywedir mai hwn oedd "y santeiddiolaf i'r offeiriad o holl ebyrth tanllyd yr Arglwydd." Cafodd Dafydd a'i wŷr, pan oedd chwant bwyd arnynt, eu porthi â'r bara dangos gan Ahimelech yr offeiriad yn Noph, heb eu ceryddu am droseddu y gyfraith ar gyfrif yr amgylchiad yr oeddynt ynddo ar y pryd. Esgusododd Arglwydd yr oruchwyliaeth ei hun hwynt am droseddu y gyfraith fel hyn ar yr amgylchiad hwnw, ar yr ystyriaeth fod egwyddor foesol fwy pwysig na'r rheol seremonïol hòno yn cael ei harddangos yn y tro trwy droseddu y rheol, yr hon a gawsai ei haberthu pe cadwesid y gyfraith: "Trugaredd a ewyllysiais, ac nid aberth." Yr oedd gwaith yr offeiriad yn rhoddi y bara gosod i Dafydd a'i wŷr yn weithred o drugaredd.

Yr oedd safiad y bwrdd ar gyfer yr arch a'r drugareddfa (ond ei fod o'r tu allan i'r wahanlen); ac felly yr oedd megys ger bron, o flaen wyneb yr Arglwydd. Cyhuddid y genedl ar ol ei dychweliad o'r caethiwed yn Babilon o yspeilio Duw trwy attal y degwm a'r offrwm, ac erchid iddynt ei ddwyn i'r trysordy, fel y byddai bwyd yn y tŷ. Yr oedd y bwrdd a'r bara gosod, beth bynag, yn dysgu i'r addolwyr y ddyledswydd o ofalu am amgylchiadau a gwasanaeth Duw, a bod y rhai oedd yn gweini yn y cysegr i gael eu cynnaliaeth oddiwrth y bobl y byddent yn gweinyddu iddynt mewn pethau santaidd.

3 Ac yn ol yr [v] ail len, *yr oedd* y babell, yr hon a elwid, Y cysegr santeiddiolaf;

[v] Exod. 26. 31, 33.

*Ac yn ol yr ail len.* Yr oedd llen yn gwahanu rhwng y cysegr, neu y lle santaidd, a'r cyntedd, lle yr ymgynnullai y bobl; a llen arall drachefn yn gwahanu rhwng hwnw a'r santeiddiolaf. Yr ydoedd y ddwy len o'r un defnyddiau, sef sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd o wnïadwaith. Gelwid y gyntaf, Y gauadlen, neu ddrws y cysegr; a'r ail, Y wahanlen. Yr oedd mwy o waith ac addurniadau ar y wahanlen nag oedd ar y gauadlen, megys yr oedd mwy o ogoniant yn perthyn i'r cysegr santeiddiolaf, yr hwn yr oedd hi yn orchudd iddo, nac ydoedd yn perthyn i'r cysegr nesaf allan. Addurnid y llen hon â lluniau cerubiaid mewn brodwaith cywrain, a chrogid hi ar bedair colofn o goed Sittim wedi eu gwisgo âg aur, a'u penau o aur, ar bedair mortais arian, Exod. xxvi. 31, 32.

4 Yr hwn yr oedd y [w] thuser aur ynddo, ac [x] arch y cyfammod wedi ei goreuro o amgylch; yn yr hon *yr oedd* y [y] crochan aur a'r manna ynddo, a [z] gwïalen Aaron, yr hon a flagurasai, a [a] llechau y cyfammod;

[w] Lef. 16. 12. [x] Exod. 25. 10, &c. [y] Exod. 16. 33. [z] Num. 17. 10. [a] Exod. 34. 29; 40. 20; Deut. 10. 2, 5.

*Yr hwn yr oedd y thuser aur ynddo. Yr hwn*, sef y cysegr santeiddiolaf—*yn ol yr ail len;*—padellan ydoedd y thuser aur, yn yr hon y llosgid yr arogldarth peraidd ar ddydd y cymmod gan yr archoffeiriad. Ni ddywedir un gair yn yr hanes am y babell na'r deml fod y thuser aur yn nghadw yn y cysegr santeiddiolaf; ac y mae yr ymadrodd hwn wedi peri penbleth nid bychan

i esbonwyr yr epistol hwn. Dywed Calmet mai un o gylymau annatfodadwy yr ysgrythyr, a'r un mwyaf dyrys yn yr holl Feibl ydyw; ond haera Ebrard, pe na buasai ymadroddion mwy celyd a dyrys na hwn yn yr epistol, y buasai y gyfran fwyaf eglur a hawdd ei deall yn yr holl gyfrol santaidd. Barna Dr. Owen mai yr allor aur, ac nid y thuser, a olygir; ac felly y barna Ebrard. Gwrthwyneba eraill y dyb hon, o herwydd, meddant, mai gair Groeg arall a arfera y Deg a Thriugain (θυσιαστήριον θυμιαματος) am allor y poethoffrwm; ond na arferant byth y gair θυμιατήριον ond i ddynodi y thuser. Ond nid oes nemawr o bwys yn yr wrthddadl hon, fe haera Ebrard, gan fod Josephus, Philo, Clement o Alexandria, ac Origen yn arfer y gair θυμιατήριον am allor y poethoffrwm; ac nad yw yr ysgrifenydd yn cyfyngu ei hun i ddilyn y Deg a Thriugain yn ei ddysgrifiad o ranau a llestri y cysegr, o'r hyn y rhydd efe rai engreifftiau. "Y mae yn ddigon posibl," medd Ebrard yn mhellach, "fod yr apostol yn gadael y Deg a Thriugain, ac yn dilyn Josephus a Philo yn y lle hwn. Nid yw y gair θυμιατήριον ynddo ei hun, gan hyny, yn profi dim.

Ond y mae anhawsdra arall yn cyfodi. Safai allor y poethoffrwm y tu allan i'r wahanlen, yn y cysegr, ac nid yn ol yr ail len yn y santeiddiolaf. Ac nid yw yr eglurhad a gynnygia Ebrard—ei bod yn ddigon priodol i'r apostol osod yr allor megys yn y santeiddiolaf, ar gyfrif ei pherthynas â gwasanaeth yr archoffeiriad yn y cysegr hwnw, ond cloff a gwanaidd, debygem. A'r un modd ei wrthddadl i'r dyb o fod y thuser aur yn cael ei chadw trwy y flwyddyn yn y lle santeiddiolaf, o herwydd nad lle i gadw dodrefn, neu lestri y gwasanaeth, oedd hwnw. Ac heblaw hyny, y buasai raid i'r archoffeiriad fyned i mewn i'r cysegr i gyrchu y thuser cyn arogldarthu ar ddydd y cymmod, yr hyn sydd groes i dystiolaeth yr hanes. Gan mai at arogldarthu ar ddydd y cymmod yn unig yr oedd y thuser aur wedi ei bwriadu, nid oedd un lle mor briodol, gallem feddwl, a'r cysegr hwnw i'w chadw: a gallai ei bod yn cael ei dodi mewn lle cyfleus oddimewn gerllaw y wahanlen, fel y gallesid ei hestyn â llaw allan, heb fyned i mewn. Llosgid yr arogldarth dyddiol mewn thuserau arian; gan hyny, yr oedd y thuser aur yn perthyn yn benodol, ac yn unig, i wasanaeth dydd y cymmod a'r cysegr santeiddiolaf. Modd bynag, dylem gymeryd tystiolaeth yr apostol am y peth hwn, fel pethau eraill, heb ammheu dim. Yr oedd efe yn berffaith gydnabyddus â threfniadau y cysegr; ac yr oedd yr Hebreaid yr ysgrifenai atynt yr un modd. Ac y mae y ffordd a gymer rhai esbonwyr i osgoi y dyryswch hwn, drwy hòni mai mewn camgymeriad yr ysgrifenodd yr apostol yr ymadrodd dan sylw, yn hollol annheilwng o un ystyriaeth. Y mae yn hawdd cyfeiliorni drwy orfanylwch gyda materion (cymhariaethol ddibwys) fel hwn, a llunio bwganod o anhawsderau lle nad ydynt mewn gwirionedd. Er na ddywed Moses, na hanes yr Hen Destament yn un man, fod y thuser aur yn nghadw yn y cysegr santeiddiolaf, nid ydyw y dystawrwydd hwnw yn un prawf i'r gwrthwyneb, nac yn rhoddi y sail leiaf i'r dyb fod yr apostol yn camgymeryd. Rhaid ei fod ef yn llefaru am fater o ffaith adnabyddus iddo, ac i'r rhai yr oedd yn ysgrifenu atynt. Y mae Moses Stuart yn myned heibio i'r dadlbwnc hwn heb ei gyffwrdd, na chymeryd arno ei fod yn gwybod dim am dano, yr hyn sydd braidd yn hynod. Ond yn wir, gallasem ninnau fyned heibio iddo yr un modd, o ran dim o bwys neillduol sydd ynddo; ond barnem y buasai yn ddyddorol i ambell ddarllenydd unieithog i gael gweled a gwybod barnau y doethion ar fater fel hwn. A dymunem allu gwneuthur yr hyn a draethwn ar yr epistol gogoneddus hwn yn ddyddorol, yn gystal ag yn fuddiol, i'r darllenwyr oll.

Ond cyn i ni adael y mater mewn llaw, nid anmhriodol fyddai crybwyll, os nad yr allor aur a olygai yr apostol yn y gair a gyfieithir thuser aur yn y lle hwn, yr ymddengys braidd yn hynod ei fod yn pasio heibio yr allor heb ei henwi, pan ystyriom ei bod hi yn un o brif bethau y cysegr, y cyfammod, a'r gwasanaeth dwyfol. Ond rhaid i ni gofio fod yr apostol yn gadael pethau eraill hefyd heb eu crybwyll; a'i fod yn dywedyd yn benodol nad amcanai

draethu am danynt oll bob yn rhan. Ac yr oedd yn eithaf rhesymol iddo beidio crybwyll am yr allor yn y lle hwn, gan y byddai iddi hi gael sylw mwy neillduol ganddo na dim arall a berthynai i'r cysegr, fel yr oedd efe ar fedr myned yn mlaen i draethu am yr aberthau a offrymid arni.

*Ac arch y cyfammod wedi ei goreuro o amgylch.* Am bortread yr arch, gwel Exod. xxv. 10—22. Cist fechan o goed Sittim ydoedd, wedi ei gwisgo âg aur; yn ddau gufydd a hanner (tua phedair troedfedd a hanner) ei hyd, a chufydd a hanner (tua dwy droedfedd a naw modfedd) o led, a'i dyfnder yn ogyfesur â'i lled; a choron *(cornish)* o aur yn ei hamgylchu; a'i chauad, yr hwn a elwid, Y drugareddfa, o aur pur. Yr oedd pedair modrwy aur, un ar bob congl iddi, a throsolion yn y modrwyau, â'r rhai y cludid hi ar ysgwyddau y Lefiaid yn mhererindodau y gwersyll yn yr anialwch.

Gelwir hi *arch y cyfammod,* yn benaf, tebygid, am mai ynddi hi yr oedd llechau y cyfammod a wnaeth Duw âg Israel ar Sinai yn nghadw, a hyny oedd dyben neillduol ei gwneuthuriad.

Yr arch oedd y dodrefnyn mwyaf cysegredig a berthynai i'r cysegr. Gosododd Duw fawredd arbenig arni lawer gwaith. Y mae hanes ei symudiadau, a'r pethau mawrion ac ofnadwy oedd yn ei dilyn, yn ei gwneuthur yn un o'r gwrthddrychau hynotaf yn holl hanesyddiaeth yr Hen Destament. Y hi ydoedd megys arweinydd plant Israel trwy yr anialwch o Sinai i Ganaan, yn cael ei chludo ar ysgwyddau y Lefiaid. Gosodwyd mawredd a bri neillduol ar yr arch y diwrnod yr oedd Israel yn croesi yr Iorddonen i wlad yr addewid. Pan wlychodd yr offeiriaid oedd yn ei dwyn o flaen y gwersyll eu traed yn nghŵr y dyfroedd, safodd llifeiriant yr afon, gan ymgroni yn bentwr oddiarnodd; a phrysurai y llif, ar y tu arall, i waered tua'r Môr Marw; a dynoethodd yr Iorddonen felly waelod ei gwely yn mhresenoldeb arch Duw, i roddi ffordd rydd iddi hi a'r genedl i fyned trwodd. Yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, ymgrymodd caerau Jericho hyd y llawr ger bron ei mawrhydi, wedi iddi ei hamgylchu dros saith niwrnod. Trigodd yr arch am yspaid byr yn Gilgal ar y cyntaf. Symudwyd hi oddiyno i Siloh gyda'r tabernacl; ac yno y bu am yspaid tri chan' mlynedd. Dygwyd hi oddiyno ar gais y bobl pan oedd Israel mewn rhyfel â'r Philistiaid. Tybient y buasai presenoldeb yr arch yn y gwersyll yn sicrhau buddugoliaeth iddynt ar eu gelynion; ond yr oeddynt wedi digio Duw yr arch. Ufuddhaodd dau fab annuwiol Eli i gais y bobl heb ymgynghori â Duw, nac efallai â'u tad chwaith. Dygasant yr arch i'r gwersyll—a dyna hi yn cael ei dwyn allan o gysegr santeiddiolaf y babell, lle y buasai yn nghadw am dri chant a hanner o flynyddau—byth i ddychwelyd iddi mwy. Tarawyd Israel o flaen y Philistiaid, lladdwyd dau fab Eli, "ac arch Duw a ddaliwyd," "a'r gogoniant a ymadawodd o Israel!" Dyma y trychineb trymaf a ddygwyddasai i'r genedl erioed; a hon hefyd oedd y fuddugoliaeth ddrutaf, yn y canlyniad, a ennillasai y Philistiaid hwythau erioed. Dygasant yr arch adref yn fuddugoliaethus i'w gwlad eu hunain, gan dybied eu bod, nid yn unig wedi gorchfygu Israel, ond eu Duw hwynt hefyd, gan ei gymeryd yn garcharor i'w gadw bellach yn gaeth dan awdurdod eu duw eu hunain—Dagon; ond buan y dygwyd hwy i weled eu camgymeriad; canys gorfu i Dagon eu duw ymgrymu o flaen arch Duw Israel y noson gyntaf y gosodwyd hi o'i flaen yn y deml yn Asdod. Erbyn i'r Asdodiaid fyned yn foreu i'r deml, wele eu duw ar lawr ar ei wyneb ger bron yr arch. Gosodasant Dagon eilwaith yn ei le, ac arch Duw Israel o'i flaen, i wneuthur ail brawf; ac erbyn boreu dranoeth, cawsant Dagon wedi syrthio, a'i ben a chledr ei ddwylaw wedi tòri ar y trothwy. A bu llaw yr Arglwydd yn drom iawn ar y ddinas, fel y mynai y bobl anfon oddiwrthynt arch Duw Israel gyda brys. Pa le bynag yr elid a hi, yr oedd llaw yr Arglwydd gyda hi, yn taro y bobl â heintiau blinion o fychain i fawr. Yn mhen saith o fisoedd, wedi ymgynghori â'u hoffeiriaid a'u doethion, gosododd arglwyddi y Philistiaid yr arch ar fenn newydd, a gosodasant y fenn, yn nghyda chist yn cynnwys tlysau aur yr offrwm tros gamwedd,

wrth ystlys yr arch, a'r ddwy fuwch flith, gan eu gollwng i fyned wrthynt eu hunain. "A'r buchod a aethant ar hyd y ffordd uniawn i Bethsemes; ar hyd y brif-ffordd yr aethant, dan gerdded a brefu, ac ni throisant tua'r llaw ddehau, na thua'r aswy: ac arglwyddi y Philistiaid a aethant ar eu hol hyd derfyn Bethsemes." Dyna yr arch wedi gwaredu ei hun o'i chaethiwed yn ogoneddus. Nid am ddim yr aeth i wlad y gelyn. Gadawodd goffadwriaeth am dani ar ei hol yno nad oedd yn hawdd i'w ddileu. Ni fynasai y Philistiaid byth wedi hyny weled arch Duw Israel yn eu gwlad.

Wedi y lladdfa fawr ar wŷr Bethsemes am ryfygus edrych i mewn iddi ar ei dychweliad o wlad y Philistiaid, cyrchwyd hi oddiyno gan wŷr Ciriathjearim, a dodwyd hi i gadw yn nhŷ Abinadab ar y bryn; a bu yno dros ddeg a phedwar ugain o flynyddau. Cyrchwyd hi oddiyno gan Dafydd ac etholedigion Israel, i'w dwyn i'r babell a barotoisai efe iddi gerllaw ei dŷ ei hun ar fynydd Seion. Gosodwyd yr arch ar fenn newydd, yr hon a gludid gan ychain, ac nid ar ysgwyddau y Lefiaid, fel yr oedd yn orchymynedig yn nghyfraith Moses. Tarawyd Uzza, un o'r rhai oedd yn gyru y fenn, yn farw, am estyn ei law i ddal arch Duw, fel yr oedd yr ychain yn ei hysgwyd. Tarawyd Dafydd a'r gynnulleidfa âg arswyd mawr drwy y dygwyddiad hwn, a throisant yr arch i dŷ Obed-Edom y Gethiad, yr hwn oedd gyfagos i'r lle. Cyrchodd Dafydd hi oddiyno gyda llawenydd mawr yn mhen tri mis, ar ysgwyddau y Lefiaid y tro hwn, a dodwyd hi yn y babell a barotoisai efe iddi. Yn mhen deunaw mlynedd ar hugain wedi hyny, dygodd Solomon hi o babell Dafydd i'r gafell santaidd yn y deml.

Dywed Mr. Charles, yn y *Geiriadur*, i'r arch gael ei symud i gafell teml Solomon yn mhen pedair blynedd wedi i Dafydd ei dwyn o dŷ Obed-Edom, yr hyn sydd amryfusedd go fawr, yn enwedig mewn ysgrifenydd mor fanwlgywir ag ydoedd Mr. Charles. Symudodd Dafydd yr arch o dŷ Obed-Edom tua'r drydedd flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad. Teyrnasodd ar ol hyny am saith mlynedd ar hugain. Dechreuodd Solomon adeiladu y deml yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, a gorphenodd hi yn yr unfed flwyddyn ar ddeg; felly, o'r drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Dafydd, hyd yr unfed ar ddeg i Solomon, y mae yspaid o ddeunaw mlynedd ar hugain. Symudwyd hi oddiyno drachefn gan yr offeiriaid a'r Lefiaid, y mae yn debygol, yn amser Ahaz, fe ddichon, rhag ei halogi gan y brenin eulunaddolgar hwnw. Adferwyd hi yn ol i'r gafell santaidd drachefn ar orchymyn y brenin duwiol Josiah, 2 Cron. xxxv. 3.

Pa beth a ddaeth o'r arch pan gymerwyd Jerusalem, ac y llosgwyd y deml gan Nebuchodonosor, ni ddywedir i ni. Barna llawer iddi gael ei dyfetha yn ninystr y deml. Tybia eraill iddi gael ei dwyn i Babilon gyda llestri y deml, ac iddi gael ei hadferu yn ol i Jerusalem gyda'r llestri hyny drachefn ar ddychweliad y gaethglud adref. Ond ni ellir cael dim sicrwydd am y pethau hyn. Ymddengys yn bur debygol, pe buasai wedi ei dwyn i Babilon, a'i hadferu yn ol i Jerusalem gyda llestri y cysegr, y buasai crybwylliad yn yr hanes am hyny. Dywed rhai fod arch o'r un faint ac o'r un ffurf a hi wedi ei gwneuthur i'w chadw yn nghysegr santeiddiolaf yr ail deml; ond nad oedd dim o'r gogoniant oedd yn perthyn i'r arch gyntaf yn hòno. Pa fodd bynag am hyny, dodwyd mwy o ogoniant ar y tŷ diweddaf na'r cyntaf, drwy i'r Messïa ei hun, yr hwn yr oedd yr arch hòno yn arwyddlun mor nodedig o hono, roddi ei bresenoldeb yn gorfforol ynddo.

*Yn yr hon* (yr arch) *yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo;* gwel Exod. xxvi. 33, 34. Gorchymynodd yr Arglwydd i Moses ddodi omer o'r manna mewn crochan, a'i osod i gadw ger bron y dystiolaeth, yn dyst a choffadwriaeth i genedlaethau plant Israel am borthiant gwyrthiol eu tadau âg ef, am ystod deugain mlynedd yn yr anialwch. Wedi gwneud yr arch, dodwyd y crochan a'r manna i'w gadw ynddi hi.

*A gwialen Aaron, yr hon a flagurasai.* Wedi y dinystr ofnadwy ar Corah, Dathan, ac Abiram, meibion Reuben, a'u cynnulleidfa, drwy i'r ddaear agor ei safn a'u llyncu hwy i uffern yn fyw,

am eu gwrthryfel yn erbyn sefydliad dwyfol yr offeiriadaeth yn llwyth Lefi a theulu Aaron, gan hòni mai twyll Moses ac Aaron oedd y sefydliad hwnw, a bod gan yr holl lwythau gystal hawl i offeiriadu ag oedd gan Aaron a'i feibion, gorchymynodd yr Arglwydd i Moses gymeryd gwialen gan bob un o benaethiaid y llwythau yn ol tŷ eu tadau, ac ysgrifenu enw pob un ar ei wialen, a dodi y gwiail gyda'u gilydd ger bron yr Arglwydd yn mhabell y dystiolaeth dros nos. Bore dranoeth, cymerodd Moses y gwiail allan o babell y cyfarfod, a dangosodd hwynt i'r holl bobl; a chymerodd pob un o'r penaethiaid ei wialen ei hun, yn yr un cyflwr ag yr oeddynt pan ddodasid hwy yn y babell y dydd o'r blaen: ond yr oedd gwialen Aaron dros dŷ Lefi wedi blaguro a blodeuo, a dwyn almonau. Gwnaed yr arwydd hwn er prawf mai llwyth Lefi yn unig a ddewisasai yr Arglwydd i weini gwasanaeth pabell y cyfarfod, ac mai Aaron a'i deulu yn unig o'r llwyth hwnw a ddewisasai efe i offeiriadu: a'r amcan oedd peri "i furmur meibion Israel beidio." Dodwyd y wialen hòno, ei blagur, ei blodau, a'i halmonau arni i gadw yn gysegredig yn yr arch, fel coffadwriaeth am yr amgylchiad, ac fel tystiolaeth barhaus o ddwyfol awdurdod offeiriadaeth Aaron, os byddai i'r cyfryw wrthryfel byth dòri allan drachefn.

*A llechau y cyfammod.* Llechau y gyfraith, ar y rhai yr oedd y deng air wedi eu hysgrifenu â bys Duw ei hun. Y llechau hyn yn ddiau oeddynt drysor penaf yr arch. I'w cadw hwynt y gwnaed hi; ac oddiwrthynt hwy y gelwid hi, Arch y cyfammod. Collwyd y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron o honi rywbryd, naill ai pan oedd yn ngwlad y Philistiaid, neu yn rhywle yn ystod ei symudiadau yn Nghanaan; canys pan ddygwyd hi i gafell teml Solomon, dywedir yn bendant, "Nid oedd yn yr arch ond y ddwy lech a roddasai Moses ynddi yn Horeb, lle y gwnaethai yr Arglwydd gyfammod â meibion Israel," 2 Cron. v. 10. Yr oedd y gofal a'r amddiffyn dwyfol am, a thros, yr arch yn wastadol, yn mhob man ac ar bob amgylchiad, fel y byddai raid i bawb a ddeuent i gysylltiad â hi deimlo mai gallu Duw oedd hi. Yr oedd efe megys yn arogli arogledd ei wybodaeth trwyddi yn mhob lle; i'r "naill yn arogl bywyd i fywyd, ac i'r lleill yn arogl marwolaeth i farwolaeth." Bu yn arogl marwolaeth yn ngwlad y Philistiaid, ac i wŷr Bethsemes, y rhai a ryfygasant wneuthur yn hyf arni drwy ei hagor, ac edrych i mewn iddi. Bu yn arogl bywyd yn nhŷ Obed-Edom, yr hwn a roddodd dderbyniad iddi gyda pharchedig ofn pan y dygwyd hi i'w dŷ. Ond er hyny, goddefwyd i rywun, neu rywrai rywbryd fyned iddi, a chymeryd ymaith y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron o honi, heb i farn Duw eu taro â marwolaeth am a wyddom. Yn sicr, nid damwain oedd hyn. Yr oedd i'r fath oddefiad ei ystyr a'i amcan. Ni ddygwyddodd i ni weled un esboniwr na beirniad yn cynnyg un math o dybiaeth yn mherthynas i'r dirgelwch hwn. Ac ni feiddiaf finnau gynnyg ei ddeongli, ond yn unig gofyn, Gan fod yr arch yn gysgod mor neillduol o'r "daionus bethau a fyddent" dan yr efengyl, ai ni allai fod colliant y pethau hyny o'r arch, y rhai oeddynt yn dystiolaeth goffadwriaethol o wyrthiau gynt, yn ddygwyddiad rhagarwyddol a chysgodol o derfyniad tymmor gwyrthiau yn yr eglwys Gristionogol, wedi iddynt orphen eu tystiolaeth ar ddiwedd y cyfnod apostolaidd, fel profion sicr a diymwad o ddwyfoldeb yr oruchwyliaeth efengylaidd? Gofalwyd nad aeth llechau y gyfraith ar goll gyda'r crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron. Yr oedd yn ysgrifenedig ar y llechau hyny egwyddorion anghyfnewidiol, o barhad ac awdurdod tragwyddol. Arosodd y llechau ynddi tra y parhaodd yr arch ei hun; ac nid aeth un iod o'r geiriau ar goll chwaith pan ddarfu am yr arch a'r llechau. Ac felly y mae yr efengyl a Christionogaeth yn aros ac yn parhau yr un yn y byd, wedi i dafodau a gwyrthiau beidio a diflanu. Ac megys nad dyben yr arch ydoedd bod yn gadwrfa y crochan a'r wialen, coffadwriaethau o'r gwyrthiau hyny yn yr anialwch; ond i fod yn gadwrfa llechau y gyfraith, yr hon sydd yn aros yn dragywydd: felly, nid dyben Cristionogaeth oedd arddangos gwyrthiau a ryfeddodau i'r byd, ond

cyhoeddi gwirioneddau bywyd tragwyddol iddo. Erys y gwirioneddau hyny byth yr un yn yr efengyl wedi i'r gwyrthiau ddiflanu, fel yr arosai llechau y gyfraith yn yr arch wedi i'r crochan a'r manna, a gwialen Aaron golli o honi.

5 Ac uwch ei phen [b]cherubiaid y gogoniant, yn cysgodi y drugareddfa: am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.

[b] Exod. 25. 18, 22.

*Ac uwch ei phen cherubiaid y gogoniant.* Uwchben yr arch. Cerubiaid gogoneddus ar gyfrif eu gwychder ysplenydd, medd Beza, Olshausen, M. Stuart, ac eraill. Gwrthwyneba Ebrard y golygiad hwn ar yr ymadrodd. "Yr oeddynt megys yn cyfryngu," medd ef, "rhwng y dystiolaeth—y gyfraith oedd o danynt yn yr arch, a'r cwmwl oedd yn hofian uwch eu penau, yn yr hwn y datguddiai Duw ei ogoniant ar amserau. Yr oeddynt megys yn gwylio dros lechau y gyfraith odditanodd, ac â'u hadenydd yn ffurfio yr orsedd, ar yr hon y gorphwysai cwmwl y gogoniant pan yr ymddangosai; gan hyny, fel y sylwa Tholuck yn dra phriodol, llefarir am Dduw yn llyfr y Salmau, fel yr hwn sydd yn marchogaeth ar y cerub. Ac mewn man arall, dywedir fod cymylau a thywyllwch o amgylch ei orseddfainc ef. Oddiwrth yr hyn, fe ymddengys yn amlwg, bod y cwmwl pan ymddangosai, yn aros uwchlaw y cerubiaid: gelwir hwynt *cerubiaid y gogoniant*, gan hyny, am mai arnynt hwy y gorphwysai cwmwl gogoniant yr Arglwydd."—*Ebrard.*

Am ffurfiau y cerubiaid, ni ddywed Moses, na Hanesydd y deml, na Phaul yma, ddim; gan hyny y mae'n anmhosibl penderfynu pa fath ydoedd. Dywed Josephus, mewn un man, mai anifeiliaid hedegog oeddynt, o'r fath na welwyd erioed gan ddynion ar y ddaear, ar ddull rhai a welodd Moses o amgylch gorseddfainc Duw. Mewn man arall, efe a ddywed, "Am y cerubiaid, ni all neb ddweyd na dirnad i ba beth yr oeddynt yn debyg." Yn wir, y mae yr hyn oll a ddywedir yn yr ysgrythyr am y cerubiaid yn gyfrin dwfn, anhawdd ei ddeall. Y crybwylliad cyntaf a gawn am danynt sydd yn Gen. iii. 24, lle y dywedir i Iehofa eu gosod yn warcheidwaid i gadw ffordd pren y bywyd, wedi iddo yru y dyn allan o Eden am ei drosedd. Ymddangosent yno megys yn erbyn dyn, mewn agwedd fygythiol, ryfelgar, yn dal cleddyf tanllyd ysgwydedig, i'w gadw oddiwrth bren y bywyd. Yr olwg nesaf ar gerubiaid a rydd yr hanes santaidd yw, yn sefyll ar y drugareddfa yn nghysegr santeiddiolaf y tabernacl. Y maent yn ymddangos yma mewn agwedd gymmodlawn tuag at ddyn, yn sefyll yn dawel ar drugareddfa yr euog, heb un cleddyf tanllyd ysgwydedig yn eu dwylaw i'w gadw draw. Yr oedd y beirniai l henafol, gan mwyaf, yn barnu mai ar ffurf dyn yr oeddynt, gyda'r ychwanegiad o adenydd. Tybiai eraill mai ar ffurf ŷch adeiniog yr oeddynt: ac i gadarnhau y dyb, sylwent mai prif ystyr y ferf *charabh*, yn yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r Galdaeg ydyw, aru, aredig; ac ystyr yr enw *cherubh* ydyw, creadur a ddefnyddir i aredig, yr hwn yn y gwledydd dwyreiniol, yn gyffredin, oedd yr ŷch. Dyna, ymddengys, oedd y dyb foreuol a drosglwyddid i lawr mewn traddodiad yn mherthynas i ffurf y cerubiaid â'r cleddyf tanllyd ysgwydedig, a gadwent ffordd pren y bywyd; a dichon fod chwedl Ovid am gnu auraidd Jason yn cael ei wylio gan deirw presdroediog, y rhai a anadlent dân allan o'u ffroenau, yn seiliedig ar yr hen draddodiad hwnw.* Barnai yr henafiaid felly, fod cerubiaid y drugareddfa o gyffelyb ddelw â cherubiaid Eden; ond fel y dywedwyd eisoes, ni ellir cael dim sicrwydd am y pethau hyn. Y cerubiaid nesaf ydynt wrthddrychau gweledigaethol. Rhydd Ezeciel ddysgrifiad manwl o'r *pethau byw*, y rhai a eilw efe hefyd cerubiaid, yn y weledigaeth a gafodd efe wrth afon Chebar. Yr oeddynt yn bedwar mewn nifer, â phedwar wyneb, a phedair aden i bob un, a dwylaw dyn iddynt o dan eu hadenydd, a'u traed yn uniawn, a'u gwadn fel gwadn troed llo. Y pedwar wyneb yn dwyn agweddau wynebau dyn a llew, ar y tu dehau; ac wynebau ŷch ac eryr ar y tu aswy iddynt ill

* Jennings' Jewish Antiquities, p. 348.

pedwar. Y mae pedwar anifail, neu gerubiaid gweledigaeth Ioan yn Dat. iv. 6, 7, yn dwyn cyffelybrwydd agos i gerubiaid Ezeciel; ond yn amrywio ychydig oddiwrthynt. Nid oedd ond un wyneb gan bob un o'r *pedwar anifail*, un yn debyg i lew, arall i lo, a'r llall i ddyn, a'r un arall i eryr. Yr oedd i bob un chwech aden (pedair oedd i *bethau byw* Ezeciel), yn yr hyn y maent yn gyffelyb i seraphiaid gweledigaeth y prophwyd Esaiah. Y mae yn ddigon tebygol fod cryn gyffelybrwydd rhwng cerubiaid y drugareddfa, (a cherubiaid Eden hefyd,) o ran eu ffurf, mewn amryw bethau, a cherubiaid gweledigaethau y prophwyd yn Caldea, a'r apostol yn ynys Patmos. Nid oedd iddynt ond un wyneb bob un, a'r un ffurf oedd wyneb y ddau, y mae yn llwyr debygol; ac nid oedd iddynt ond dwy aden bob un hefyd.


Yr oedd cerubiaid y tabernacl, (a'r deml hefyd,) yn ddiau yn bortread o rywbeth—rhyw wirionedd mawr efengylaidd—yn gystal ag yr oedd y cerubiaid yn ngweledigaethau Ezeciel ac Ioan felly. Bernir fod pedwar anifail Ioan yn gosod allan wir weinidogion y gair, eu gwahanol wynebau yn arwyddo gwahanol gymhwysderau a doniau y weinidogaeth; mai prynedigion oddiar y ddaear ydynt sydd eglur, gan eu bod yn uno gyda'r pedwar henuriaid ar hugain yn y gân newydd ger bron yr orseddfainc i foliannu yr Oen a laddwyd, yr hwn a'u prynasai trwy ei waed. Golygai rhai mai yr un arwyddocâd oedd i gerubiaid y tabernacl. Ni ddywed M. Stuart ddim, ond yn unig eu bod yn bortread o rywbeth. Barnes, yr hwn sydd yn dilyn Stuart yn bur agos, yn ei eglurhad ar yr epistol hwn, a ddywed yn mhellach, nas gellir deall arwyddlun neu bortread o ba beth oeddynt, ac mai doethineb ydyw peidio ceisio deall nac ymchwilio i'r mater; gan olygu, fe debygid, fod arwyddocâd y cerubiaid yn gymaint o ddirgelwch ag ydyw eu ffurflun. Dywed Ebrard, nad oeddynt ar eu penau eu hunain, yn annibynol ar bethau eraill y cysegr, yn bortread o ddim, nac o un peth neillduol. Golygai yr hen dduwinyddion, gan mwyaf, bod y cerubiaid yn bortread o'r angylion santaidd; a chyda phob dyledus barch i'r esbonwyr dysgedig diweddar a enwyd, ac eraill, nyni a ddywedwn mai gwell yw yr hen win. Derbyniasai Israel y gyfraith "trwy drefniad angylion." Yr oedd ganddynt hwy weinidogaeth bwysig iawn ar ddydd y gymanfa yn Horeb, a gallesid dysgwyl cael, yn mysg portreadau y *pethau* nefol yn y cysegr, bortread o'r *bodau* nefol a gogoneddus hyn, a'r lle tebycaf iddo fod, ydyw y lle yr ydym yn cael y cerubiaid hyn, wedi eu gosod ar yr arch, megys yn warcheidwaid y gyfraith hòno a drefnasid trwy angylion yn llaw cyfryngwr y cyfammod.

Yr oedd safiad y cerubiaid un ar bob pen i'r arch, a'u hedrychiad i waered tuag at y drugareddfa, ac yn lledu eu hadenydd tuag i fyny. Cytunai yr hen dduwinyddion, gan mwyaf, mai mewn cyfeiriad at y cerubiaid ar yr arch y dywed yr apostol Pedr am "ddyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny," "Ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych." Aralleiria Doddridge yr ymadrodd yn ol y golygiad hwn; ac mewn nodiad ar odre y ddalen, efe a ddywed, "Fel hyn y mae yn y gwreiddiol, ἐπιθυμοῦσιν παρακύψαι, yn awyddus blygu i lawr at"—mewn cyfeiriad, yn ddiammheuol, at yr agwedd ymblygol yn yr hon y portreadid hwynt ar y drugareddfa: fel y mae Saurin, Diss. vol. ii., p. 266, yn ei egluro yn brydferth, y sylwa llaweroedd eraill. Y mae genym, gan hyny, feddwl apostol ysbrydoledig ar ystyr y portread dan sylw, ei fod yn gosod allan yr angylion santaidd yn eu perthynas â threfn fawr iachawdwriaeth dyn trwy aberth ac Iawn Crist, yn awyddus edrych, yn ymblygu megys i graffu ar y dirgelwch dwfn a gogoneddus gyda syndod a dyddordeb, nad yw byth yn darfod nac yn lleihau. Gall yr angel gydganu â'r sant yr hen bennill Cymreig melus hwnw,—

"Pan f'wy'n rhyfeddu unpeth,
Peth arall ddaw i'm bryd,
O! iachawdwriaeth rasol,
Rhyfeddol wyt i gyd!"

*Yn cysgodi y drugareddfa.* Yr oedd adenydd y cerubiaid yn cysgodi, yn daenedig uwchben, y drugareddfa—cauad yr arch, yr hwn a elwir yn drugareddfa, am mai arni hi yr oedd Duw

dan y cyfammod hwnw yn ymddangos, yn datguddio ei hun yn gymmodlawn â'r bobl ar gyfrif y gwaed aberthol a daenellid yno ar ddydd y cymmod. Nis gallwn gamgymeryd yn nghylch portread o ba beth oedd y drugareddfa, buasai cymhwysiad o hono at Grist a'i aberth yn hawdd a naturiol, hyd yn nod pe na ddywedasai yr ysgrythyr ddim ar y mater. Sylwedd y drugareddfa ydyw, "Bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." "Hwn" (medd Paul) "a osododd Duw yn iawn," ἱλαστήριον—yn *drugareddfa*—"trwy ffydd yn ei waed ef," Rhuf. iii. 25.



Y DRUGAREDDFA.

*Am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.* Nid oedd crybwyll am, a thraethu ar yr holl bortreadau hyn yn y cysegr gyda manylwch, yn rhan o amcan yr ysgrifenydd santaidd, buasai hyny yn chwyddo yr epistol i faintioli gormodol; ac nid oedd hyny yn angenrheidiol chwaith i'r amcan oedd ganddo mewn golwg; ond yn unig nodi rhai o'r prif bethau, gyda chrybwylliadau byrion am eu dybenion a'u gwasanaeth.

6 A'r pethau hyn wedi eu trefnu felly, i'r tabernacl cyntaf yn ddiau yr âi bob amser yr [c]offeiriaid, y rhai oedd yn cyflawni gwasanaeth *Duw:*

[c] Num. 28. 3.

*A'r pethau hyn wedi eu trefnu felly.* Wedi cymeryd golwg ar y tabernacl, a dodrefn ei ddau gysegr, yn fyr fel yna, â yr ysgrifenydd yn mlaen bellach i draethu am y gwasanaeth dwyfol a gyflawnid yn y cysegroedd hyny.

*I'r tabernacl cyntaf yn ddiau yr âi bob amser yr offeiriaid, y rhai oedd yn cyflawni gwasanaeth Duw. I'r cysegr cyntaf*—y nesaf allan, *yr âi yr offeiriaid*—meibion Aaron, *bob amser*—bob dydd yn wastadol; arnynt hwy yr oedd holl ofal gwasanaeth y cysegr hwn yn gorphwys.*

* Yr oeddynt i offrymu bob dydd ddau oen blwyddiaid perffeith-gwbl, un yn y bore a'r llall yn yr hwyr, gyda degfed ran ephah o beilliaid, wedi ei gymysgu trwy bedwaredd ran hin o olew coethedig. "Dyma y poethoffrwm gwastadol a wnaed (neu a ordeiniwyd) yn mynydd Sinai, yn arogl peraidd, yn aberth tanllyd i'r Arglwydd," Num. xxviii. 3—6. Yr oedd yr ŵyn i gael eu dyblu ar y dydd Sabbath. Ar ddechreu y misoedd drachefn, yr oedd dau fustach ieuainc, un hwrdd, saith o ŵyn, gyda'r bwydoffrymau, i gael eu haberthu, "fis yn ei fis, trwy fisoedd y flwyddyn." Ar wyl y pasg, a gwyl y bara croew, yr hon oedd i barhau am saith niwrnod, yr oedd dau fustach, un hwrdd, a saith o ŵyn blwyddiaid, ac un bwch gafr yn bech-aberth, i gael eu hoffrymu bob dydd o'r wyl. Ar wyl y cynhauaf (pentecost), dau fustach, un hwrdd, un bwch gafr, a saith o ŵyn blwyddiaid, oedd yr offrwm. Ar wyl yr udgyrn, yr un modd: ac ar y dydd y cystuddient eu heneidiau, un bustach, un hwrdd, saith oen blwyddiaid, a bwch gafr yn bech-aberth. Ar wyl y pebyll etto, yr hon oedd yn parhau dros wyth niwrnod, yr oedd triarddeg o fustych i gael eu hoffrymu y dydd cyntaf, un yn llai bob dydd wedi hyny hyd y seithfed, a dim ond un bustach ar yr wythfed, y dydd olaf o'r wyl. Yr oedd pedwararddeg o ŵyn blwyddiaid yn cael eu hoffrymu bob dydd am y saith niwrnod cyntaf, a saith ar yr wythfed. Yr

7 Ac i'r ail unwaith bob blwyddyn *yr âi* yr [d] archoffeiriad yn unig; nid heb waed, yr hwn a offrymai efe [e] drosto ei hun, a *thros* anwybodaeth y bobl.

[d] Exod. 30. 10; Lef. 16. 2, &c. [e] Heb. 5. 3.

*Ac i'r ail unwaith bob blwyddyn yr âi yr archoffeiriad yn unig. I'r ail*—i'r cysegr santeiddiolaf, yn ol yr ail len. *Yr âi yr archoffeiriad yn unig.* Nid oedd neb arall, ar un amser nac achlysur, i fyned i mewn i'r lle santeiddiolaf hwn; na'r archoffeiriad chwaith ond unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd y cymmod. Y mae yn gwestiwn pa un a oedd efe yn myned i mewn ragor nac unwaith ai peidio ar y dydd hwnw. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig y byddai yn myned bedair gwaith i mewn—yn gyntaf gyda'r thuser a'r marwor yn un llaw, a'r arogldarth yn y llaw arall. Yn ail, gyda gwaed y bustach, yr hwn a offrymai efe drosto ei hun a'i deulu. Yn drydydd, gyda gwaed bwch y pech-aberth dros y gynnulleidfa. Ac, yn olaf, i gyrchu y thuser a'r llestr a ddaliai yr arogldarth. Dadleuai rhai mai unwaith yn unig yr elai efe i mewn, oddiwrth yr ymadrodd hwn o eiddo yr apostol; ac heblaw hyny, pe buasai yn myned ragor nag unwaith, na buasai felly yn gysgod o Grist, yr hwn a "aeth unwaith i mewn i'r cysegr," fel y dengys yr apostol yma ei fod. I hyn atebir, y gellid yn ddigon priodol ddywedyd mai unwaith yr elai yr arch-offeiriad i'r cysegr; hyny yw, ar un dydd o'r flwyddyn, er pa mor fynych bynag yr elai i mewn ar y dydd hwnw.

Modd bynag, y mae yr hanes yn Lef. xvi. yn rhoddi lle cryf i gasglu ei fod yn myned i mewn dair gwaith ar ddydd y cymmod, ac na allasai efe gymeryd yr holl bethau angenrheidiol i gyflawni gwasanaeth gosodedig y dydd gydag ef ar unwaith; ac mai un dydd o'r flwyddyn yn unig a feddylia yr apostol, ac nid unwaith ar y dydd nodedig hwnw.

*Nid heb waed, yr hwn a offrymai efe drosto ei hun a thros anwybodaeth y bobl.* Yr oedd yr archoffeiriad i ladd bustach y pech-aberth i wneud cymmod drosto ei hun a'i dŷ yn gyntaf, ac i gymeryd gwaed y bustach i'r cysegr santeiddiolaf, a thaenellu o hono saith waith â'i fys o flaen y drugareddfa. Wedi hyny, yr oedd bwch y pech-aberth dros y bobl—yr holl genedl, i gael ei ladd, ac i wneud âg ef yr un modd ag y gwnaethai â gwaed y bustach. Wedi hyny yr oedd i fyned allan at yr allor oedd ger bron yr Arglwydd, sef gyferbyn â'r drugar-eddfa o'r tu allan i'r wahanlen, yn y cysegr cyntaf, i wneud cymmod arni, a chymeryd o waed y bustach a gwaed y bwch, a'i roddi ar gyrn yr allor oddi-amgylch. Wedi hyny yr oedd i gyffesu holl anwiredd meibion Israel â'i ddwy-law ar ben y bwch diangol, yr hwn a arweinid ar ol hyny i dir neillduaeth. Gwel Lef. xvi.

Ni olyga yr ymadrodd, *tros anwybodaeth y bobl*, mai dros bechodau a wneid yn amryfus, neu mewn anwybodaeth, yn erbyn y gyfraith, yn unig y gwnai yr archoffeiriad gymmod ar y dydd hwn, ond golyga holl gamweddau meibion Israel yn eu holl bechodau, fel yr ymddengys yn amlwg yn yr hanes.

8 A'r Ysbryd Glan yn hysbysu hyn, nad oedd y [f] ffordd i'r cysegr santeiddiolaf yn agored etto, tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:

[f] Ioan 14. 6; Heb. 10. 19, 20.

oedd dau hwrdd hefyd i gael eu haberthu bob dydd o'r saith niwrnod, ac un ar yr wythfed; ac un bwch gafr yn bech-aberth bob dydd. Yr oedd yr holl aberthau hyn yn cael eu gofyn yn benodol, heblaw yr addunedau, a'r offrymau gwirfodd, a'r offrymau bwyd, a'r offrymau diod, a'r offrymau hedd, ac offrymau achlysurol eraill, y rhai oeddynt oll yn lluosog iawn. Yr oedd nifer yr ŵyn a aberthid yn flynyddol, rhwng yr aberthau dyddiol, Sab-bathol, y lloer newydd, ac ar y tair gwyl arben-ig, heb son am yr aberthau achlysurol, yn 1093; nifer y bustych yn 105; yr hyrddod yn 30; a'r bychod yn 17. Yr oedd nifer yr holl aberthau blynyddol, yn aberthau hedd, gwirfodd, pur-edigaeth, &c., yn llawer iawn mwy na chymaint arall, yn ddiau, na'r swm uchod. Offrymodd Solomon ar gysegriad y deml ddwy fil ar hugain o ychain, a chwech ugain mil o ddefaid. Offrymwyd yn y pasg a gynnaliodd Hezecia ddwy fil o fustych, a dwy fil ar bymtheg o ddefaid. Yr oedd rhif y creaduriaid a offrym-wyd ar allor y poethoffrwm, yn ystod tymmor goruchwyliaeth y cyfammod cyntaf, yn aneirif. Yr oedd y gwaith a gyflawnid gan yr offeiriaid yn y cysegr yn feunyddiol yn fawr iawn, rhwng lladd a blingo yr ebyrth, llosgi y poethoffrwm, arogldarthu, &c.

Yr oedd yr Ysbryd Glan, trwy y trefniadau hyn—holl wasanaeth y cyfammod a ddygid yn mlaen yn y dull a goffawyd, yn hysbysu—yn arwyddo yr athrawiaeth, neu y ffaith bwysig hon, nad oedd y ffordd i'r cysegr santeiddiolaf—y ffordd at Dduw, i gymundeb rhydd ac agos âg ef, yn agored etto. Yr oedd trefniad a dosbarthiad y tabernacl yn ddwy ystafell, a threfn y gwasanaeth yn mhob un o honynt—yr offeiriaid yn unig i weinyddu yn y cyntaf, a'r archoffeiriad yn unig yn yr ail, yn hysbysu neu yn arwyddocâu hyn. Yr oedd yn arwyddo hefyd bod y ffordd i'r cysegr santeiddiolaf i gael ei hagor a'i datguddio rywbryd. Yr oedd y tabernacl a'i holl wasanaeth yn sefyll yn wystl o hyn, ac fel mynegfysedd yn cyfeirio yr addolwyr at y sylweddau i ddyfod.

Yr oedd trefn gweinidogaeth y cyfammod a'r tabernacl cyntaf yn arddangosiad o gyflwr euog y byd, yn Iuddewon a chenedloedd, ger bron Duw. Trigai Duw yn y cysegr (mewn arwydd) yn nghanol y gwersyll, ond "Duw yn ymguddio" yno ydoedd. Yr oedd dwy len yn cysgodi rhyngddo a'r bobl: yr oedd raid fod aberth ar yr allor yn wastadol, rhyngddo ef a hwythau. Ni chaent ddyfod yn nes na'r cyntedd o flaen y cysegr i bresenoldeb Iehofa. Cedwid y proselytiaid o'r cenedloedd yn mhellach fyth; safent hwy mewn cyntedd arall y tu allan i hwnw y safai yr Israeliaid ynddo. Yr oedd mur yn gwahanu rhwng y ddau gyntedd yma, yr hwn a eilw yr apostol, "Canolfur y gwahaniaeth oedd rhyngom ni," (Iuddewon a chenedloedd), yr hwn a ddattododd Mab Duw, "fel y creai y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd, gan wneuthur heddwch; ac fel y cymmodai y ddau â Duw yn un corff trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi. Ac efe a ddaeth ac a bregethodd dangnefedd i'r rhai pell"—i'r cenedloedd a gedwid hyd hyny yn mhell, yn y cyntedd oddiallan; "ac i'r rhai agos"—yr Iuddewon yn y cyntedd nesaf i'r tabernacl: ac felly llwyr ddileodd bob gwahaniaeth rhyngddynt am byth.

Yr oedd gweinidogaeth a threfn y tabernacl yn arddangos mai trwy aberth a gwaed yr oedd y ffordd i'r cysegr santeiddiolaf i gael ei hagor, neu mai trwy aberth yn unig yr oedd dyn euog i gael rhyddid a dyfodfa at Dduw; ac hefyd bod yn rhaid cael aberth gwell a pherffeithiach na'r aberthau hyny i agor a chysegru y ffordd hòno. Yr oedd y pethau hyn wedi eu trefnu felly, ac yn parhau yn y drefn hòno o flwyddyn i flwyddyn, ac o oes i oes, yn dangos gwendid, llesgedd, a methiant yr holl weinyddiadau i agoryd llwybr rhydd o ddyfodfa i droseddwyr at Dduw. Yn wir, nid oeddynt erioed wedi eu bwriadu i'r pwrpas hwnw chwaith; ond i ddysgu y bobl am eu cyflwr euog ger bron Duw, ac yn athrawon at Grist. Yr oedd bod y wahanlen yn aros yn gyfan bob tro yr elai yr archoffeiriad i'r cysegr santeiddiolaf, ac yn syrthio yn orchudd rhwng Duw oedd yn preswylio ynddo a'r bobl oedd yn sefyll allan, pan ddelai yr archoffeiriad allan o hono, yn hysbysu hyn o hyd, "nad oedd y ffordd at Dduw yn agored etto"—nad oedd aberth difai a chymeradwy wedi ei offrymu etto.

9 Yr hwn *ydoedd* gyffelybiaeth dros yr amser presenol, yn yr hwn yr offrymid rhoddion ac aberthau, y rhai [g] ni allent o ran [h] cydwybod berffeithio yr addolydd,

[g] Salm. 40. 6, 7; Gal. 3. 21; Heb. 10. 1. 11. [h] 1 Pedr 3. 21.

*Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth dros yr amser presenol.* *Yr hwn*—y tabernacl a'i drefniadau. Yr oedd wedi ei fwriadu a'i godi yn bwrpasol i fod yn gyffelybiaeth, neu bortread, o bethau gwell, sylweddol i ddyfod. Yr oedd y pethau hyny yn cael eu rhagosod allan yn y tabernacl, megys mewn drych a dammeg, dros, neu hyd yr amser presenol—dyddiau yr efengyl. Sylwa Stuart, bod yr ymadrodd hwn yn profi yn eglur i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu cyn dinystr Jerusalem, tra yr oedd defodau gwasanaeth y deml mewn ymarferiad—bod yr ysgrifenydd yma yn golygu yr amser yr oedd efe yn ysgrifenu.

*Yn yr hwn yr offrymid rhoddion ac aberthau, y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd.* Yr holl offrymau dros bechod—yr offrymau hedd, a'r offrymau gwirfodd, y rhai ni allent oll gyda'u gilydd o ran cydwybod ber-

ffeithio yr addolydd; hyny yw, ni allent ddwyn tawelwch a boddlonrwydd i gydwybod euog yr addolydd, drwy roddi sicrwydd o dangnefedd Duw iddi, a dirymu awdurdod pechod arni, drwy ei glanhau a'i phuro. Yr oeddynt yn ei adael dan anesmwythder, yn ymsynied nad oeddynt yn aberthau digonol a chymeradwy dros ei bechodau, fel pwrcas ei heddwch tuag at Dduw. Yr oedd felly adseiniad yn nghydwybod yr addolwyr i'r athrawiaeth a osodai y tabernacl allan. Yr hwn, tra yr oedd yn sefyll, fel y sylwai yr apostol, oedd yn dangos, "nad oedd y ffordd i'r cysegr santeiddiolaf yn agored"—nad oedd yr holl waed aberthol a dywelltid ac a daenellid ynddo, yn meddu rhinwedd iawnol a foddlonai y Deddfroddwr.

10 *Y rhai oedd yn sefyll* yn unig ar [i]fwydydd, a diodydd, ac amryw [k] olchiadau, a defodau cnawdol, wedi eu [l]gosod *arnynt* hyd amser y diwygiad.

[i]Lef. 11. 2, &c. [k]Num. 19. 7, &c. [l]Eph. 2. 15.

*Y rhai oeddynt yn sefyll yn unig ar fwydydd, a diodydd, ac amryw olchiadau.* Yn ychwanegol at y rhoddion a'r aberthau a goffeid o'r blaen, perthynai i'r cyfammod cyntaf lawer o ordeiniadau mewn perthynas i fwydydd a diodydd. Nodai y gyfraith pa greaduriaid oedd lan, ac a ellid eu bwyta, a pha rai oedd aflan a gwaharddedig. Y creaduriaid cymeradwy yn ebyrth ar allor Duw, oeddynt hefyd yn lan a chyfreithlawn i'r bobl i'w bwyta. *Amryw olchiadau*—bedyddiadau, er glanhad a phuredigaeth allanol, corfforol, ar wahanol amserau ac achlysuron o halogiad a grybwyllir, y rhai yr oedd y bobl yn agored iddynt. Yr oll yn gosod allan y gwir santeiddrwydd moesol mewn calon a buchedd, a ofyna y Duw santaidd yn ei bobl a'i addolwyr ef.

*Wedi eu gosod arnynt hyd amser y diwygiad.* I aros a pharhau 'mewn ymarferiad hyd yr amser y gosodid i fyny gyfammod a threfn well o addoli a gwasanaethu Duw, pan y byddai i'r defodau seremonïol hyny gael eu dodi heibio.

11 Eithr Crist, wedi dyfod yn [m]Archoffeiriad y [n]daionus bethau a fyddent, trwy [o]dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma,

[m]Heb. 3. 1. [n]Heb. 10. 1. [o]Heb. 8. 2.

*Eithr Crist, wedi dyfod yn Archoffeiriad y daionus bethau a fyddent.* Yma arweinir sylwedd a gwirionedd yr holl gysgodau a'r portreadau i sylw. *Eithr Crist wedi dyfod;*—yr oedd llygaid yr ysgrifenydd arno o hyd, ac yr oedd mewn brys i ddyfod ato. Ni ewyllysiai aros yn hir i draethu bob yn rhan ar ddodrefn a gwasanaeth y tabernacl, gan ei awydd i fyned yn mlaen at y sylwedd mawr ei hun. Buasai llaweroedd o archoffeiriaid rhwng Aaron a Chaiaphas yn gwasanaethu yn y tabernacl a'r deml am yspaid pymtheg cant o flynyddau, oll yn cysgodi, ac yn dywedyd ei fod yn dyfod; ond yn awr, o'r diwedd dyma dymmor yr archoffeiriadaeth Iuddewig ar ben—Crist wedi dyfod. *Yn Archoffeiriad y daionus bethau a fyddent*—y bendithion a'r doniau ysbrydol a ddygai, ac a sicrhaai efe i'w bobl, yn rhinwedd ei waith fel Archoffeiriad—bendithion na allasai yr archoffeiriaid dan y gyfraith, trwy rinwedd eu haberthau hwy, eu sicrhau i ddeiliaid y cyfammod cyntaf; cysgodau o'r daionus bethau a fyddent oeddynt hwy.

*Trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma.* Y mae'r esbonwyr yn amrywio yn fawr ar yr hyn sydd i'w ddeall wrth y tabernacl mwy a pherffeithiach, yn y fan hon. Barnai Zwingle, Bucer, Tholuck, Bleek, a Stuart, mai y nef wybrenol—y ffurfafen—a olygir; eraill mai eglwys y Testament Newydd. Corff Crist, medd Calfin, Beza, Grotius, &c. Perffeithrwydd ufudd-dod a santeiddrwydd bywyd Crist, medd Ebrard.

"Yr oedd y lle santeiddiolaf Moesenaidd," medd yr awdwr hwn, "yn arddangosiad portreadol o'r purdeb, y cydymffurfiad allanol, tymmorol hwnw, â'r gyfraith a'r santeiddrwydd a ddysgrifir yn adn. 10. Y santeiddrwydd moesol mewnol, a gwirioneddol, a raid fod y cyferbyniol i'r lle ***santaidd ffugrol—y peth***

*i'r ffugr.* Wrth y lle santeiddiolaf i'r hwn yr aeth Crist, ni olygir y *lle* yn y nefoedd fel *lle*, ond yr *act* o'i ddyrchafiad, a'r *amser* y dyrchafwyd ef; yna, gan hyny, nid yw y πρώτη σκηνή, trwy yr hwn yr aeth efe i'w ystad o ddyrchafiad, yn golygu *lle*, ond *act*, ac amser. Yn adn. 9, gelwid y lle santeiddiolaf Moesenaidd yn *ffugr o dymmor yr hen gyfammod.* Aeth Crist trwy yr *amser* hwnw, yn ystod yr hwn y safai yr hen gyfammod a'i ddefodau, yn gymaint ag iddo gael ei wneud dan y ddeddf, ei waith yn myned drwy y sefyllfa hon, yn byw mewn ystad o ddarostyngiad; hyny yw, ei *gyflawniad mewnol perffaith o'r gyfraith*, neu ei fywyd santaidd, ydoedd y τελειοτέρα σκηνή, trwy yr hwn yr aeth efe i'w ystad o ddyrchafiad. Saif y ffaith o wir santeiddrwydd, (yn mywyd Crist ar y ddaear,) yn wrthgyferbyniol i'r *arddangosiad ffugrol* o santeiddrwydd yn y πρώτη σκηνή Moesenaidd. Cyflawnwyd yn *wirioneddol ynddo ef* yr oll a arddangosid yn ffugrol yn y lle santaidd Moesenaidd."

Fe deimla y darllenydd fel ninnau, ond odid, fod rhywbeth yn ddyeithr a thywyll yn y golygiad hwn, ac y mae yn anhawdd genym ei gymeradwyo ar y cyfrif hwnw. Gwell genym y cyntaf o'r pedwar golygiad, sef mai y nefoedd —y ffurfafen, a feddylir, trwy yr hon yr esgynodd Crist i nef y nefoedd, y gwir gysegr, fel Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd, yn ngolwg ei ddysgyblion. Yr un meddylddrych sydd gan yr apostol yma, debygem, ag oedd ganddo yn pen. iv. 14, lle y sonia am "yr Archoffeiriad mawr yr hwn a aeth i'r nefoedd," neu *trwy y nefoedd*—yr awyr, y ffurfafen. Cytuna y rhan fwyaf o'r esbonwyr mai *trwy y nefoedd* y dylid cyfieithu yr ymadrodd yn y fan hòno; ac y mae hyny, feddyliem, yn cefnogi y golygiad mai yr un meddwl sydd gan yr apostol yn yr ymadrodd dan sylw—trwy dabernacl *mwy a pherffeithiach.* Mwy a pherffeithiach na'r tabernacl bychan hwnw yr elai yr archoffeiriad Iuddewig trwyddo i'r lle santeiddiolaf. Nid oedd hwnw ond *pictiwr*, neu bortread bychan am dymmor o'r llall. Ychwanegir etto am y tabernacl hwn —*Nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma.* Gwaith llaw ac adeiladaeth ddynol oedd y tabernacl hwnw, nid felly hwn; ond gwaith llaw ac adeiladaeth ddwyfol ydyw. Hòna Ebrard fod yr ymadrodd, *Nid o waith llaw, &c.*, yn cau allan yn hollol y golygiad mai y ffurfafen a feddylir, ac yn profi nad yw'r apostol yn son am beth materol, elfenol; ond nid ydym yn gallu gweled fod grym yn yr wrthddadl hon, ond mai cyferbyniad sydd yma o waith, adeiladaeth, llaw dyn, ac adeiladaeth llaw ddwyfol. Yr oedd cysegr santeiddiolaf Moses, fel lle, yn bortread o gysegr santeiddiolaf y Duwdod; a gwaith yr archoffeiriad Iuddewig yn myned unwaith bob blwyddyn i'r cysegr portreadol, yn cysgodi mynediad Archoffeiriad mawr yr efengyl unwaith am byth i mewn i'r gwir gysegr. Trwy y tabernacl cyntaf, yr hwn a elwid y cysegr, yr âi yr archoffeiriad gynt i'r santeiddiolaf; ac felly, trwy y ffurfafen, yr hon a'i cuddiodd fel llen allan o olwg y dysgyblion, yr aeth Crist i nef y nefoedd, i ymddangos ger bron Duw trosom ni. Y mae y golygiad hwn yn ymddangos yn esmwyth a chydweddol yn mhob peth, heb fod dim yn ymddangos yn dreisiol ynddo.

12 Nid chwaith trwy waed
[p]geifr a lloi, eithr trwy ei [q] waed ei
hun, a aeth unwaith i mewn i'r
[r] cysegr, gan gael *i'ni* dragwyddol
ryddhad.

[p] Heb. 10. 4. [q] Act. 20. 28; 1 Pedr 1. 18, 19; Dat. 1. 5. [r] Heb. 10. 19

*Trwy waed*, neu â *gwaed geifr a lloi*, yr âi yr archoffeiriad Iuddewig i'r cysegr cysgodol. Cysgodol, neu arwyddocaol, oedd pob peth yn ngoruchwyliaeth y cyfammod cyntaf,—cysgodol oedd yr archoffeiriadaeth, yr aberthau, y gwaed, y cysegr, &c.,—cysgodol oedd yr archoffeiriad, yn myned â gwaed aberth cysgodol, i mewn i gysegr cysgodol; ond wedi i Grist ymddangos, wele wir Archoffeiriad, a gwir aberth, yn myned i mewn i'r gwir gysegr.

*Trwy ei waed ei hun* yr aeth efe—Crist, i mewn i'r cysegr, sef trwy rinwedd haeddiannol a holldigonol ei aberth fel Iawn am bechod. Y mae y dyb ei fod wedi cymeryd o'r gwaed naturiol a gollodd wrth farw ar y groes, gydag ef i'r nefoedd, i'w daenellu yno o flaen gorseddfainc y Duwdod, mor afresymol a gwrthun, fel y mae yn rhyfedd ddarfod i amryw esbonwyr fyned i'r drafferth o ddadleu yn ei herbyn.

*A aeth unwaith i mewn i'r cysegr.* Unwaith am byth—efe a arosodd yno. Pan soniai wrth ei ddysgyblion am ei ddyrchafiad i'r nefoedd, efe a ddywedai, "*Ni'm gwelwch i mwyach.*" Nid oedd ganddo waith ar y ddaear mwyach i'w gyflawni, yr oedd hwnw wedi ei orphen a'i berffeithio.

*Gan gael i ni dragwyddol ryddhad.* Dyma y canlyniad gogoneddus a ddeilliodd o'i fynediad i'r cysegr—prynedigaeth, rhyddhad i ni oedd yn gaethion tlodion, diymwared, a diobaith; rhyddhad oddiwrth euogrwydd a chosb pechod, ac oddiwrth lywodraeth ac arglwyddiaeth pechod, ac o tan awdurdod angeu a'r bedd yn y dydd olaf, ein hadferu ni eilwaith i fod megys yn ddynion i ni ein hunain drwy ein hadferu i Dduw—i'w heddwch, ei wasanaeth, ei ddelw, a'r mwynhad o hono. *Tragwyddol ryddhad*—yr hyn a ddengys fod parhad tragwyddol yn rhin ei aberth, gan fod y bendithion a ddeilliant trwyddo i'r credinwyr yn fendithion tragwyddol.

13 Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a [s]lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn santeiddio i bureiddiad y cnawd;

[s]Num 19. 2.—17.

*Oblegid os yw gwaed teirw a geifr...yn santeiddio i bureiddiad y cnawd.* Yr oeddynt yn santeiddio felly i bureiddiad y cnawd, nid am fod yn y pethau eu hunain y cymhwysder naturiol lleiaf i effeithio puredigaeth; yn hytrach yr oeddynt yn gymhwysach i beri halogrwydd cnawdol na phuredigaeth felly, ond ar y cyfrif eu bod yn osodiadau Duw, ac yn cael eu gorchymyn ganddo yr oeddynt yn ateb y dyben. Edrychai y Brenin mawr yn faddeugar ar yr un a halogasid yn seremonïol yn ol y cnawd, gan ei gyfrif yn rhydd oddiwrth gosb y gyfraith wedi iddo gyflawni defodau y puredigaeth.

14 Pa faint mwy y bydd i waed Crist, [t]yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, [u]buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i [v]wasanaethu y Duw byw?

[t]1 Pedr 3. 18. [u]Heb. 10. 22. [v]1 Pedr 4. 2.

Y mae cyfaddasrwydd mewnol, rhinwedd ac effeithiolrwydd, yn ngwaed ac aberth Crist i buro y gydwybod euog, yn gystal a'i fod wedi ei osod a'i drefnu gan Dduw i'r dyben. Gan hyny, pa faint mwy sicr y bydd iddo ef effeithio i buro cydwybod yr hwn a ddel ato, nac y byddai i aberthau y gyfraith santeiddio i bureiddiad y cnawd.

*Pa faint mwy?* Os atebodd gwaed yr aberthau cysgodol hyny gynt eu dybenion appwyntiedig iddynt, sef gosod neillduaeth ar ddeiliaid y cyfammod cyntaf, a'u pureiddio yn allanol o ran y cnawd, yn sicr ynte, mwy o lawer yr etyb gwaed y gwir Aberth, sylwedd yr holl gysgodau a'r portreadau dan y gyfraith, ei ddybenion mwy goruchel a gogoneddus ef, sef puro y gydwybod yn fewnol oddiwrth euogrwydd a halogrwydd pechod, trwy ei rinwedd hollddigonol, er cyfiawnhau a santeiddio yr euog, yr hyn a elwir yma yn *buro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon.* Golyga y *gydwybod* yr holl ddyn oddimewn—y meddwl, yr enaid yn ei holl alluoedd. Soniai yr apostol yn pen. vi. 3, am athrawiaeth *edifeirwch oddiwrth weithredoedd meirwon,* fel un o *egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw;* ac yma efe a ddwg allan wirionedd mawr yr efengyl, prif athrawiaeth yr ymadroddion dwyfol—effeithiol rinwedd aberth Crist i buro y gydwybod (edifeiriol) oddiwrth euogrwydd ac effeithiau y *gweithredoedd meirwon* hyn. Gelwir geithredoedd pechadurus yn *weithredoedd meirwon,* neu marwol, am eu bod yn dwyn yr enaid dan farn marwolaeth, yn teyrnasu i farwolaeth arno, ac ar gyfrif eu brynti a'u hadgasrwydd. Saif halogedigaeth y gweithredoedd meirwon hefyd, yn gyferbyniol i'r halogedigaeth cnawdol trwy gyffwrdd â chorff marw dan y gyfraith, oddiwrth yr hwn yr oedd taenelliad gwaed teirw a geifr, a lludw anner, yn puro y rhai a halogid felly. Nid oedd y buredigaeth allanol hòno ond defod gysgodol ac arwyddocaol yn unig; ond y mae y

buredigaeth fewnol ac ysbrydol hon yn un sylweddol a gwirioneddol. *Pa faint mwy...i wasanaethu y Duw byw?* Dyma amcan mawr y buredigaeth, adferu y puredigion yn ol i wasanaeth y *Duw byw.* Yr oedd yn rhaid i'r addolwyr dan y gyfraith ymlanhau ac ymburo oddiwrth bob halogrwydd allanol a chnawdol, cyn ymddangos ger bron Duw i gyflwyno eu gwasanaeth iddo. Gosodir y *Duw byw* a *gweithredoedd meirwon*, mewn gwrthgyferbyniad, er dangos fod yn anmhosibl i bechadur gyflawni un gwasanaeth derbyniol a chymeradwy gan Dduw, tra y byddo euogrwydd pechod yn aros ar ei gyflwr; rhaid ei gymmodi, ei gyfiawnhau, a'i buro trwy aberth Crist, cyn y gall ei aberthau ef fod yn gymeradwy.

Ond y mae un ymadrodd arall yn yr adnod sydd dan sylw yn hawlio ein hystyriaeth—ymadrodd y mae esbonwyr lluosog yr epistol hwn yn amrywio llawer iawn yn eu golygiadau arno: *Yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.* Rhyfygai un beirniad Almaenaidd (Welcker), ddywedyd ei fod yn anneongladwy, na wyddai yr apostol ei hun beth oedd yn ei ddywedyd! Barna Calfin, Bleek, Tholuck, Dr. Owen, a Doddridge, mai yr Ysbryd Glan a olygir. Geilw yr apostol ef, *Yr Ysbryd tragwyddol*, medd Calfin, i ddangos fod y cymmod, yr hwn y mae yn awdwr neu yn effeithydd o hono, yn gymmod tragwyddol. Oblegid ei fod ef yn sicrhau i'r hwn y mae yn preswylio ynddo fodolaeth, neu barhad tragwyddol ac anfarwol, medd Tholuck. Dywedir ddarfod i Grist offrymu ei hun trwy yr Ysbryd tragwyddol, am ddarfod ei gyfodi ef o feirw trwy yr Ysbryd. Arwydda yr ymadrodd, *Ysbryd tragwyddol*, medd Grotius, a rhai eraill, yr un peth a *bywyd* annherfynol yn pen. vii. 16—yr hwn oedd ganddo, oedd yn meddu *ysbryd tragwyddol*, neu *fywyd annherfynol*, mewn cymhariaeth, meddant, â'r aberthau marwol, terfynol, dan y gyfraith. Wrth yr *Ysbryd tragwyddol*, medd Beza, a rhai eraill, yr ydym i ddeall natur ddwyfol Crist, yr hon a roddai werth a rhinwedd hollddigonol yn ei aberth.

"Ymroddiad gwirfoddol, ewyllysgar Crist i fod yn aberth, heb gynnyg cilio a gwaredu ei hun o ddwylaw ei elynion —ei ysbryd penderfynol i ymostwng a dyoddef marwolaeth mewn ffyddlondeb i ewyllys ei Dad, ac i gyflawni y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur—Ysbryd tragwyddol o gariad perffaith yn unig a allasai fyned trwy y farwolaeth aberthol hòno," medd Ebrard.

Aralleiria Stuart y testun fel hyn, "*Yr hwn yn ei natur ysbrydol dragwyddol a offrymodd ei hun,*" *&c.* Mynediad Crist i'r cysegr nefol, trwy ei waed ei hun, a olygir, medd ef, i wneud cymmod dros bechodau ei bobl, neu i bwrcasu rhyddhad — gwaredigaeth — iddynt. "Gan hyny," efe a ddywed yn mhellach, "yn y byd nefol—*y tabernacl nid o waith llaw*, y mae offrwm ein Harchoffeiriad mawr yn cael ei gyflwyno: yno y cyflwynodd efe ei hun yn ei ystad nefol, neu o ogoneddiad, yn ei natur ysbrydol dragwyddol, fel yr Oen a laddwyd, ac yno y mae ei waed, yr hwn a dywalltwyd, yn cael ei effeithiol offrymu i wneud cymmod, nid yn llythyrenol, ond yn ysbrydol, mewn modd cydweddol â natur ysbrydol y deml yn yr hon y mae efe yn gweinyddu."

Y mae rhywbeth yn estronol a phellgyrchol yn y deongliad diweddaf, feddyliwn. Mwy dewisol genym y cyntaf, yr eiddo Calfin ac Owen, sef mai yr Ysbryd Glan a olygir; ond yr ydym yn teimlo fod gwendid a chloffni yn y rhesymau a ddwg Calfin a Tholuck, ac eraill o honynt, i attegu y dyb. Ymddengys fod yr apostol yn gosod allan yma gydgysylltiad a chydberthynas y Tri yn Un tragwyddol â threfn fawr adferiad dyn syrthiedig. Y Mab yn offrymu ei hun i'r Tad, trwy yr Ysbryd. Sonia yr ysgrythyr lawer am eneiniad y Cyfryngwr, gan y Tad a'r Ysbryd Glan, i'w swyddau a'i waith cyfryngol. Ystyr yr enw Messïa—Crist, yw Eneiniog. Dan yr enw hwnw y dygir ef i mewn yn y cysylltiad hwn. "Er tragwyddoldeb y'm heneiniwyd," medd ef yn ngenau doethineb, Diar. viii. Eneiniwyd Aaron, yr archoffeiriad cyntaf, i'w swydd, â'r olew santaidd, ac yr oedd ei feibion, ei olynwyr, yn cael eu neillduo a'u heneinio ynddo ef; ac

yn rhin yr eneiniad hwnw y gweinyddent yn eu swydd. Eneiniwyd yr Archoffeiriad mawr "âg olew gorfoledd, (yr Ysbryd Glan,) tu hwnt i'w gyfeillion"—yr archoffeiriaid o deulu Aaron, a'u holynwyr, a'r brenhinoedd eneiniedig—Dafydd a'i olynwyr yntau, y rhai oeddynt gysgodau o hono. Yr oedd yr *Ysbryd tragwyddol*, yn ei holl ddoniau, wedi ei roddi gan y Tad iddo ef, "*nid wrth fesur*," ond yn ei holl gyflawnder. Dan yr eneiniad hwn y cyflawnodd ef ei holl waith. Cymhwysa ato ei hun y geiriau yn mhrophwydoliaeth Esaiah, lle y dywedir, "Ysbryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, o herwydd iddo fy eneinio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi," &c., Luc iv. 18. Yn rhin doniau yr eneiniad dwyfol hwn yr oedd efe yn cyflawni gwaith "Pregethwr, Prophwyd, a Dysgawdwr," yn ei fywyd. "Y modd yr eneiniodd Duw Iesu o Nazareth â'r Ysbryd Glan, ac â nerth, yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni," medd Pedr yn ei bregeth yn nhŷ Cornelius, Act. x. 38. Drwy yr un eneiniad tragwyddol y darfu iddo, fel Archoffeiriad, hefyd *offrymu ei hun yn ddifai i Dduw*. Yr eneiniad tragwyddol hwn â'r Ysbryd Glan, fe ddichon, yw y rheswm paham y defnyddiai yr apostol yr ymadrodd, *Ysbryd tragwyddol*, yn y lle hwn.

*A'i hoffrymodd ei hun.* "Rhaid ydoedd bod gan hwn yr hyn a offrymai," ac efe ei hunan oedd yr offrwm hwnw. Nid oedd neb a allasai gymeryd ei einioes oddiarno; ond efe oedd yn ei dodi i lawr o hono ei hun. "Y mae genyf feddiant (awdurdod) i'w dodi hi i lawr, ac y mae genyf feddiant i'w chymeryd hi drachefn."

*Yn offrwm difai i Dduw*—mewn cyfeiriad etto at yr aberthau a'r creaduriaid glan dan y gyfraith, y rhai yr oedd yn rhaid iddynt fod yn ddianaf—yn berffeith-gwbl—fel cymhwysderau i wneuthur aberthau cymeradwy. Difeiusrwydd anianyddol a ofynai y gyfraith yn ei haberthau cysgodol hi. Mewn ystyr foesol ac ysbrydol nis gallasent fod yn feius na difeius chwaith, oblegid nad oeddynt yn meddu ar naturiaeth ysbrydol; ac felly nid oedd dim yn foesol ac ysbrydol yn eu haberthiad, ond yn unig yn arwyddocaol. Y difeiusrwydd moesol ac ysbrydol yn benaf a olygir yma, yr hwn a ofyna deddf foesol mewn trefn i wneud aberth cymeradwy dros bechod, fel drwg a halogrwydd moesol ac ysbrydol. Nid o dan gyfraith aberthau yr Hen Destament yr offrymodd Crist ei hun; ond yr ydoedd y cymhwysderau a ofynid yn yr aberthau hyny—cymhwysderau anianyddol a naturiol, yn arwyddocaol o'r cymhwysderau moesol ac ysbrydol oedd yn angenrheidiol i fod yn yr aberth a gysgodent. Ni allasai gwaed aberthau beius, anafus, a diffygiol yn wyneb deddf y cyfammod cyntaf, "santeiddio yr addolwyr" hyd yn nod *i bureiddiad y cnawd;* ac ni allasai aberth Crist chwaith "buro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon," heb ei fod yn meddu ar burdeb a pherffeithrwydd moesol ac ysbrydol. Yr oedd yr hwn a'i hoffrymodd ei hun "yn ddiddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid; ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd," ac am hyny "yn weddus i ni." Yma y terfyna yr apostol ei ddadl ar y gangen hon o'r pwnc, yr hwn sydd yn un o brif elfenau ei ymresymiad yn mherthynas â'r amcan sydd ganddo o hyd mewn golwg. Dangosai yn—

1. Nad oedd holl wasanaeth a defodau y cyfammod cyntaf yn sylweddau gwirioneddol, ond cyffelybiaethau neu arwyddion dros dymmor, o gyfammod a phethau gwell, sylweddol a gwirioneddol, oeddynt i gael eu datguddio a'u harddangos yn yr amser priodol;—na allasai y defodau, yr aberthau, a'r seremonïau hyny, ar gyfrif eu naturiaeth gnawdol, a'u diffygion hanfodol, feddu rhinwedd effeithiol er puredigaeth ysbrydol yr addolwyr; ac na osodwyd hwynt i fyny erioed i'r dyben hwnw. Dybenion cysgodol ac arwyddocaol oedd iddynt, ac yr oeddynt yn ateb y dybenion hyny yn gymhwys.

2. Bod sylweddau yr holl bethau daionus a osodid allan mewn arwyddluniau a chysgodau dan oruchwyliaeth y cyfammod a'r tabernacl cyntaf, yn awr wedi eu cael, a'u cyflawni yn berffaith ac am byth yn Nghrist, Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd.

3. Fel canlyniad anocheladwy o hyn, nad ydyw y tabernacl cyntaf yn sefyll

mwyach—bod ei holl wasanaeth a'i ddefodau wedi darfod yn hollol ac am byth, pan ddaeth "amser y diwygiad," hyd yr hwn amser yr oeddynt wedi eu gosod i fyny, a'u bwriadu i barhau.

4. Y casgliad naturiol oddiwrth hyn oll ydyw, Mai ynfydrwydd, ïe, a gwrthryfel rhyfygus, fyddai glynu wrth y cyfammod cyntaf a'i ddefodau yn hwy, gan eu bod bellach yn egwyddorion llesg a thlodion wedi i'w tymmor ddarfod, a dyben eu gwasanaeth gael ei ateb; ac y buasai gwaith yr Hebreaid yn myned i ganlyn y gogwyddiad oedd yn eu meddyliau, yn ol oddiwrth ras Crist at y ddeddf a'r seremonïau, oddiwrth lawnder cyfoethog y cyfammod newydd, at fronau hespion yr hen gyfammod, nid yn unig yn bechod ysgeler yn erbyn Crist a'i efengyl, ond yn gystal a hyny yn sarhad a dirmyg ar yr hen gyfammod hwnw ei hun, drwy wrthod ei ddysgeidiaeth fel "athraw at Grist," i'r hyn beth yr ydoedd efe wedi ei ordeinio; ac y buasent drwy hyny hefyd yn siomi ac yn colledu eu heneidiau eu hunain.

15 Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd, megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragwyddol.

*Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd.* Dygir yma ystyriaeth newydd i mewn. Y mae yr ymadrodd, *Am hyny*, yn dal perthynas, nid â'r hyn sydd wedi ei draethu yn flaenorol, ond â'r hyn a draethir etto yn ganlynol. Y mae efe—Crist, *Archoffeiriad y daionus bethau a fyddant*, yn Gyfryngwr, yn Awdwr, yn brif Oruchwyliwr cyfammod—trefn newydd o drafod yr achos mawr rhwng dynion a Duw. Moses, fel y sylwa yr apostol, (Gal. iii. 19), oedd cyfryngwr y cyfammod cyntaf. Nid oedd Crist, yr Archoffeiriad mawr, o dan y cyfammod hwnw yn gweinyddu yn ei swydd. Nid aeth efe erioed fel Offeiriad i mewn i'w dabernacl—nid ar ei allor ef yr offrymodd efe ei aberth; ac nid i'w santeiddiolaf ef yr aeth efe i wneud cymmod. Dan ei gyfammod newydd ei hun yr oedd efe yn gweinyddu, ac yn cyflawni ei holl waith cyfryngol. Yn ol trefn cyfammod newydd y gwnaed efe yn Archoffeiriad: ei waed ei hun, yn ol y cyfammod hwnw, a roddodd efe yn aberth: ac i'r nef ei hun, cysegr y cyfammod newydd hwn, yr aeth efe i mewn, trwy rinwedd hollddigonol yr aberth difai a offrymodd efe i Dduw. *Y mae efe yn Gyfryngwr cyfammod newydd.*

*Megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragwyddol.* Ymadrodd caled ac anhawdd ei ddeall ydyw hwn. Yr oedd marwolaeth yr aberthau yn dwyn ymwared—rhyddhad tymmorol i'r bobl oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf; ond ni allasai marwolaeth yr aberthau hyny ddwyn ymwared ysbrydol a thragwyddol i ddeiliaid y cyfammod hwnw, gan hyny, yr oedd angen am gyfammod newydd, (fel y dangoswyd o'r blaen yn pen. viii.) a marwolaeth aberth anfeidrol berffeithiach a gwell na'r aberthau hyny, er effeithio yr ymwared hwn; a hwn a gafwyd yn Nghrist, Cyfryngwr y cyfammod newydd. Trwyddo ef y cafodd y credinwyr dan y cyfammod cyntaf yr ymwared hwnw. Yr oedd rhinwedd ei farwolaeth aberthol ef yn cyrhaedd yn ol, yn gystal ag yn mlaen.

Ni allasai aberthau y gyfraith effeithio yr ymwared hwn i neb, "canys ni pherffeithiodd y gyfraith ddim," neb oll; ac nid yn unig ni wnaeth hi hyny, ond yr oedd yn anmhosibl, yn ol natur pethau, i waed teirw a geifr—ei haberthau hi—"dynu ymaith bechodau." Ond yr oeddynt yn gysgodau o aberth i ddyfod a allasai wneud hyn; ac yn awr, y mae yr aberth haeddiannol hwnw wedi ei offrymu gan Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd: a thrwy eu ffydd yn y Messïa a gysgodid y derbyniodd y rhai a alwyd dan oruchwyliaeth y cyfammod cyntaf addewid yr etifeddiaeth dragwyddol, sef yr etifeddiaeth addawedig ei hun.

16 Oblegid lle *byddo* testament,

rhaid *yw* dygwyddo marwolaeth y testamentwr.

Dyma un arall o'r cylymau celyd, anhawdd ei ddattod. Yr un gair (διαθηκη) a gyfieithir cyfammod yn yr adnod o'r blaen, a thrwy y bennod flaenorol, ag a gyfieithir yma yn testament—llythyr cymun—ewyllys diweddaf, a hyny o herwydd y golygai y cyfieithwyr, a lluaws o esbonwyr yn yr un modd, bod y synwyr yn y fan hon yn gofyn dodi *testament* yn lle *cyfammod,* gan na chydwedda yr hyn a ddywedir am y διαθηκη yma â'r ystyriaeth o gyfammod mewn un modd.

"Y mae yr holl gymhariaeth o destamentau (διαθηκαι) yn mysg dynion," medd Stuart, "y rhai sydd yn rhoddi hawl gyfreithlawn i *etifeddiaeth,* (adn. 16, 17), yn codi, fel y mae yn amlwg, oddiar y crybwylliad am farwolaeth Crist yn yr adnod flaenorol, a'r cadarnhad trwyddi o hawl y credadyn i'r *etifeddiaeth* nefol; cystal a phe dywedasai yr apostol, Nac edrychwch arno fel peth dyeithr, frodyr, fod marwolaeth Crist wedi rhoddi sicrwydd o fendithion addawedig i gredinwyr—wedi cadarnhau y διαθηκη newydd, o'r hwn y mae efe yn awdwr. Cadarnheir y διαθηκαι eraill trwy farwolaeth eu cymunweinyddion, a thrwy hyny yn unig." Yna â yn mlaen i ddangos fod hyd yn nod yr hen gyfammod, er na ellid ei alw yn διαθηκη yn mhob ystyr fel y newydd, etto wedi ei gadarnhau mewn modd nid annhebyg i'r newydd, sef trwy waed, yr arwydd o farwolaeth, adn. 18, 22.

Dadleua eraill yn gryf iawn yn erbyn y golygiad hwn, ac na ddylid ar un cyfrif ddwyn i mewn yr ystyriaeth o lythyr cymun yn lle cyfammod yma. Dadleua Ebrard nad oes un rhithyn o reswm dros y peth—y cydwedda yr oll a ddywedir yma am y διαθηκη yn llawer iawn gwell â chyfammod nag â thestament, neu lythyr cymun. Sonir yn yr adnod o'r blaen, medd ef, am gyfryngwr y διαθηκη; o angenrheidrwydd natur y peth, ni all fod cyfryngwr mewn testament, ond gall fod mewn cyfammod rhwng dwy blaid. Aralleiria Doddridge yr adnod fel hyn, "Canys lle y byddo cyfammod cyfatebol i'r hwn yr ydwyf yn awr yn son am dano, y mae o angenrheidrwydd yn arwyddo marwolaeth yr hwn y cadarnheir y cyfammod trwyddo; oblegid chwi a wyddoch fod aberthau yn perthyn i'r holl brif gyfammodau a wnaeth Duw â dynion erioed."

Yr achos i gyfieithwyr ac esbonwyr (lawer) wrthod *cyfammod,* a dewis *testament* yn y lle hwn, fe ymddengys, ydoedd eu bod yn golygu fod yr apostol yn llefaru am drafodion achosion rhwng dynion â'u gilydd, yn gystal ag am y goruchwyliaethau dwyfol; ac fel nad oes i'r cymundderbyniwr *(legatee)* hawl yn yr etifeddiaeth tra y byddo y cymunroddwr *(legator)* byw — bod marwolaeth Crist, y Cymunroddwr yn nhrefn iachawdwriaeth, yn anhebgorol i roddi hawl i'r credinwyr yn mendithion ysbrydol y drefn hòno.

Y mae y golygiad hwn yn eithaf cywir fel pwnc o athrawiaeth; ond peth arall ydyw ai yr ystyriaeth o lythyr cymun sydd gan yr apostol. Ymddengys yn lled eglur, debygem, mai am oruchwyliaethau dwyfol yn hollol y mae yr apostol o hyd yn llefaru, ac nad oedd na chyfammodau na thestamentau dynol yn cael eu golygu ganddo mewn un modd. Nid oedd gwaed a marwolaeth aberth yn angenrheidiol er cadarnhau cyfammodau rhwng dynion â'u gilydd; cadarnheid y rhai hyny, agos bob amser, trwy lw; ond yr oedd gwaed a marwolaeth aberth yn ofynol i gadarnhau y cyfammodau dwyfol. Cadarnhawyd cyfammod Noah felly, a'r cyfammod âg Abraham, a chyfammod Sinai hefyd yr un modd. A chyda golwg ar y cyfammodau dwyfol hyn y dywed yr apostol bod gwaed a marwolaeth aberth yn angenrheidiol i gadarnhau a selio y cyfammod newydd hefyd.

Dyma fel y dywed Mr. Charles yn y *Geiriadur* ar y lle hwn:—"Tra anaddas y gelwir cyfammod Sinai yn *destament,* yn ol priodol ystyr y gair hwnw. Testament pwy ydoedd? Duw neu Moses? Neu a fu un o honynt farw i'w gadarnhau? A oes angen am gyfryngwr mewn testament? Neu fod y testamentwr yn gyfryngwr ei destament ei hun? Neu fod testamentwr y testament newydd yn marw i roddi

ymwared oddiwrth droseddau dan destament o'r blaen? Neu fod un testament yn cael ei wneuthur drwy daenellu cymundderbynwyr â gwaed? Ond yr oedd yr holl bethau hyn yn gyffredin mewn cyfammodau. Gwir yw, mai priodol ystyr y gair Groeg διαθεκε yw *testament:* ond gan fod y Deg a Thriugain yn cyfieithu y gair Hebraeg *berith*, priodol ystyr pa un ydyw *cyfammod*, wrth y gair διαθεκε, yr Iuddewon, wrth ysgrifenu Groeg, a arferasant y gair διαθεκε yn lle συνθεκε, fel y cydnebydd ein cyfieithwyr ni, a Dr. M. hefyd yn Heb. x. 16, wrth ei gyfieithu cyfammod. Am gyfammod Sinai, ac am y cyfammod newydd, y mae yr apostol yn traethu. Cysegrwyd, neu cadarnhawyd y cyntaf trwy waed, yr un modd a chyfammod Noah ac Abraham. Ac felly y gwnaed yr ail trwy aberth anfeidrol fwy ei werth na gwaed yr aberthau oll gynt. Gan fod yr aberth wedi ei ladd, y mae y cyfammod mewn grym."

17 Canys wedi marw dynion, *y mae* testament mewn grym: oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw.

Y cyfieithwyr, yn unol â'u golygiad am destament, a ddodasant *dynion* i mewn yma. "Gellid rhoddi θυμασι—*aberthau;* neu ζωοις—*anifeiliaid*, i mewn, yn gystal a'r gair *dynion*," medd y beirniaid a olygant mai cyfammod y dylid cyfieithu y llall. Wedi marw yr aberth y mae y cyfammod mewn grym, *oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo yr aberth, marwolaeth yr hwn sydd yn angenrheidiol er ei gadarnhau, yn fyw.*" Ymddengys i mi fod dadleuon y rhai a safant dros y golygiad o gyfammod yn llawer iawn cryfach na rhesymau y rhai a bleidiant y golygiad o destament; a bod y cyntaf yn gorwedd yn fwy esmwyth a chydweddol â'r mater yr ymdrinir âg ef o lawer.

18 O ba achos ni chysegrwyd y cyntaf heb waed.

*Y cyntaf*—y cyfammod cyntaf, yr hwn y soniwyd cymaint am dano yn flaenorol, a'r hwn ni ellir, gyda'r priodoldeb lleiaf, ei alw yn destament. Cyferbynu dau gyfammod y mae yr apostol o hyd er dechreu yr wythfed bennod hyd yma; a throi yn ddisymwth oddiwrth ei bwnc, neu ddwyn meddyliau dyeithr a hollol anmherthynasol iddo, fuasai iddo neidio oddiwrth gyfammod at destament, neu lythyr cymun—meddylddrych na allasai fod o un gwir wasanaeth i'r mater. Ni chysegrwyd—ni chadarnhawyd y cyfammod cyntaf *heb waed*—heb farwolaeth aberth. A glywodd neb erioed son am y fath beth a chysegru testament (llythyr cymun) â gwaed? A yr apostol yn mlaen etto i goffâu am y cysegriad hwn o'r cyfammod cyntaf.

19 Canys [w] wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn yn ol y gyfraith wrth yr holl bobl, efe a gymerodd waed lloi a geifr, gyd â dwfr, a gwlan porphor, ac isop, ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll.

[w] Exod. 24. 6, &c.; Lef 14. a 16.

Cyfeirir yma at hanes cysegriad y cyfammod cyntaf yn Exod. xxiv. 5—8. Wedi i Moses ddyfod i waered o'r mynydd, efe a fynegodd i'r bobl holl eiriau yr Arglwydd, ac a'u hysgrifenodd hwynt mewn llyfr; ac yna efe a adeiladodd allor islaw y mynydd, ac offrymodd arni boethoffrymau ac ebyrth hedd i'r Arglwydd. Cadwodd hanner y gwaed mewn cawgiau, a thywalltodd yr hanner arall ar yr allor. Darllenodd lyfr y cyfammod drachefn lle y clywai yr holl bobl, y rhai a atebasant, "Ni a wnawn, ac a wrandawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd." Yr oeddynt, drwy y broffes hon, yn ymaflyd yn y cyfammod ac yn rhoddi eu hunain yn wirfoddol o fewn ei rwymyn i fod yn ddeiliaid ufudd iddo: ac wedi hyny taenellodd Moses y gwaed oedd yn y cawgiau arnynt hwy, ac ar lyfr y cyfammod. Ni sonir yn yr hanes yn Exodus am wlan porphor ac isop, nac am daenelliad y gwaed ar y llyfr; ond y mae Josephus yn dwyn tystiolaeth i'r pethau hyn. Yr oedd, beth bynag, yn ffaith adnabyddus i'r apostol, ac i'r Hebreaid yn ddiau, mai yn y dull hwn y cyflawnwyd goruchwyliaeth cysegriad y cyfammod.

Y mae rhai yn canfod dyryswch etto yn yr ymadrodd, *y bobl oll.* Pa fodd y gallasai Moses daenellu yr ychydig waed (mewn cymhariaeth) oedd yn y cawgiau ar yr holl gynnulleidfa fawr a lluosog? Cymerasai iddo ddyddiau lawer, a gwaed lawer, i wneud hyny. Y mae yn ddigon eglur mai rhan am, neu dros, y cyfan a feddylir. Taenellodd y gwaed ar lawer o bobl, ac yr oedd y rhai hyny yn sefyll dros—yn cynnrychioli y lleill oll. Yr oedd y cyfammod fel hyn wedi ei gysegru a'i gadarnhau i'r bobl, a hwythau wedi eu cysegru a'u selio iddo yntau, a hyny trwy waed. Yr oedd yr holl ragorfreintiau a'r addewidion a feddai y cyfammod bellach yn eiddo seliedig i'w ddeiliaid, a hwythau yn rhwym wrth ammodau a gorchymynion y cyfammod i'w cyflawni ac ufuddhau iddynt. Yr oeddynt felly yn bobl briodol, gyfammodol, i Dduw—yn genedl santaidd, neillduedig iddo o blith yr holl genedloedd eraill—wedi gwneuthur eu cyfammod âg ef trwy aberth.

20 Gan ddywedyd, Hwn yw [x] gwaed y testament a orchymynodd Duw i chwi.

[x] Mat. 26. 28.

Geiriau Moses oeddynt, "Wele waed y cyfammod yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi yn ol yr holl eiriau hyn," Exod. xxviii. 8. Adrodd eu sylwedd a wna yr apostol. Y mae testament yn lle cyfammod yn ymddangos yn chwithig iawn yn y fan hon. Cyfammod oedd gan Moses, a math o gyfammod nad ydoedd yn cynnwys dim o natur ac ansawdd testament; ac felly y mae yn rhaid mai cyfammod sydd gan Paul o flaen ei feddwl yn yr holl gyfran hon, neu ynte y mae Paul yn gŵyro Moses. Ond hawsach ydyw credu mai cyfieithwyr ac esbonwyr sydd yn gŵyro Paul na hyny.

21 Y tabernacl [y] hefyd a holl lestri y gwasanaeth a daenellodd efe â gwaed yr un modd.

[y] Exod. 29. 12, 36.

Ni ddywed Moses yn hanes cysegriad y tabernacl ddim am ei daenelliad ef a llestri y gwasanaeth â gwaed. Yr ydoedd y tabernacl heb ei godi pan gysegrwyd y cyfammod a'r bobl wrth yr allor a adeiladesid islaw y mynydd. Yn mhen amser wedi hyny y cysegrwyd y tabernacl, ac Aaron a'i feibion hefyd, i'r swydd offeiriadol. Rhoddir hanes gosodiad i fyny y tabernacl, a'i gysegriad, yn Exod. xl. 12, 15, lle ni sonir dim am eu taenellu â gwaed, ond yn unig eu heneinio âg olew yr eneiniad; a chysegriad Aaron a'i feibion i'w swydd yn yr un modd. Ond yn Exod. xxix., rhoddir hanes am gysegriad yr offeiriaid trwy ddodi peth o waed yr hwrdd-aberth ar gŵr isaf clust ddehau, ac ar fawd llaw a throed dehau pob un o honynt. Er na sonir am daenellu gwaed ar y tabernacl, a llestri y gwasanaeth, wrth eu cysegru, yn hanes Moses, y mae yn eithaf sicr ddarfod i hyny gael ei wneuthur. Rhydd Josephus, yn ei Hanesyddiaeth Iuddewig, yr un dysgrifiad yn union o'r amgylchiad ag a rydd Paul yma. Yr oedd y peth yn ddiau yn draddodiad adnabyddus i'r genedl yn gyffredinol, ac yn beth a gredid ganddynt heb ammheu dim. Gan hyny, pan y mae yr apostol yn gŵyro weithiau oddiwrth lythyren hanes Moses, nid yw efe yn rhoddi ei awdurdod dros wneud hyny, oblegid fod yr Hebreaid yn gydnabyddus â'r traddodiadau oeddynt yn seiliau ganddo, ac yn eu hystyried yn wirioneddau dilys.

22 A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith; ac heb ollwng [z] gwaed nid oes maddeuant.

[z] Lef. 17. 11.

*Gan mwyaf*—fel rheol gyffredin, yn y mwyafrif o lawer o amgylchiadau, yr oedd taenelliad gwaed yn ddefod puredigaeth; ond nid yn hollol felly ar bob achos ac amgylchiad. Purid meteloedd trwy dân, a dillad trwy eu golchi mewn dwfr; ond yr oedd puredigaeth personau, a'r rhan fwyaf o bethau hefyd, trwy waed wrth y gyfraith.

*Ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.* Yr oedd rhai troseddau nad oedd aberth yn dderbyniol drostynt dan y cyfammod cyntaf; megys eulunaddol-

iaeth, halogi enw Duw, halogi y Sabbath, dianrhydeddu rhïeni, llofruddiaeth gwirfoddol, halogiad priodas, &c. Ond derbynid aberth yn lle marwolaeth y troseddwr dros gamweddau o wendid ac anwybodaeth. Yr oedd pob un a brofid yn euog o un o'r troseddau eraill i gael ei roddi i farwolaeth heb drugaredd. Nid oedd y cyfammod cyntaf yn darpar aberth am drosedd o'r un o orchymynion y ddeddf foesol; cosbid y rhai hyny â marwolaeth, oddigerth troseddiad o'r wythfed yn unig—darbodid bod i'r hwn a geffid yn euog o ladrata, dalu ar ei bedwerydd, a mwy mewn rhai amgylchiadau, i'r hwn y lladratasai oddiarno. Os na byddai dim ar law y lleidr, yr oedd i gael ei werthu yn gaethwas. Dan rai amgylchiadau gorchymynid i'r lleidr ddwyn aberth: ond am droseddau a gyflawnid mewn anwybod ac amryfusedd, a halogrwydd seremonïol bron yn unig y derbynid aberth. Trwy waed aberth yn unig yr oedd maddeuant a rhyddhad oddiwrth y cosbau a gysylltai y gyfraith â'r troseddau hyny. Nid oedd y maddeuant a geffid trwy yr aberthau hyn ond un tymmorol—gwaredigaeth neu arbediad rhag dwyn cosb dymmorol yn unig. Yr oedd holl weinidogaeth y cyfammod yn dal allan y gwirionedd mawr, *Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.*

23 Rhaid *oedd* gan hyny i bortreadau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn; a'r pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell na'r rhai hyn.

*Rhaid oedd gan hyny i bortreadau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn. Y portreadau*—yr arwyddluniau, neu y delweddau hyny oeddynt y tabernacl, llestri y gwasanaeth, &c. Portreadau o'r pethau sydd yn y nefoedd, neu y pethau nefol, pethau teyrnas nefoedd dan oruchwyliaeth yr efengyl—pethau yr eglwys efengylaidd ar y ddaear ac yn y nefoedd. Yr oedd raid i'r pethau portreadol hyny gael eu puro—eu cysegru yn y modd a ddangoswyd, sef trwy waed yr aberthau.

*A'r pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell na'r rhai hyn. Y pethau nefol eu hunain*;—yr un oedd cyfraith cysegriad a chadarnhad y cyfammod newydd a'r eiddo y cyfammod cyntaf, sef marwolaeth a gwaed aberth; a rhaid oedd i'r aberth a gadarnhaai y "cyfammod gwell," yr hwn oedd wedi ei osod ar "addewidion gwell," yn cynnwys ynddynt fendithion a rhagorfreintiau gwell—ysbrydol, sylweddol, a thragwyddol—fod yn *aberth gwell*, yn meddu ynddo ei hun ar wir werth, a haeddiant sylweddol a thragwyddol, yn cyfateb i natur a bendithion y cyfammod a gadarnheid trwyddo.

Ond paham yr oedd *raid i bortreadau y pethau yn y nefoedd*—y tabernacl, a llestri y gwasanaeth—gael eu puro drwy eu taenellu â gwaed, gan nad allasai fod dim halogrwydd nac anmhuredd yn y defnyddiau a'u cyfansoddent? Ac yn mha ystyr y dywedir fod yn rhaid i'r *pethau nefol eu hunain* gael eu puro âg aberthau gwell, gan fod y *pethau nefol*, o angenrheidrwydd, yn bethau glan a santaidd ynddynt eu hunain? I hyn gellir ateb, Bod y tabernacl, a llestri y gwasanaeth, yn gyfryngau cyflwyniant trwyddynt athrawiaeth ac addysg ddwyfol i ddynion euog a halogedig; a gwasanaeth y cyfryw ddynion, o'u tu hwythau, i'r Duw santaidd. Dysgai iddynt mai trwy gyfrwng aberth dros bechod yn unig y gallasai y Duwdod arbed a bendithio y troseddwr euog, ac mai trwy yr un cyfrwng y gallasai yntau gyflwyno addoliad a gwasanaeth i Dduw; ac felly yr oedd yn ofynol fod arwydd gwaed aberth ar yr holl bethau a berthynent i'r drafodaeth rhwng y ddwyblaid—Duw cyfiawn a phechadur euog. Yr un modd y cyfammod newydd a'i bethau nefol yntau; yr oedd yn ofynol iddynt gael eu puro â gwaed aberth gwell, nid i'w gwneuthur yn lanach a santeiddiach, neu er eu glanhau oddiwrth unrhyw halogrwydd, canys nid oedd dim o'r cyfryw ynddynt; ond am nad ydoedd modd gweinyddu bendithion nefol, ysbrydol, a thragwyddol y cyfammod i ddynion euog heb aberth digonol drostynt. Aeth Pen mawr y cyfammod trwy oruchwyliaeth puredigaeth ei hunan. "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef," meddai, gyda golwg ar ei ddyoddefiadau a'i farwol-

aeth fel aberth dros bechod. "Ac wedi ei *berffeithio*, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo." Perffeithiwyd ef yn Awdwr iachawdwriaeth *trwy ddyoddefiadau.* Ni allasai fod yn Awdwr iachawdwriaeth i gymaint ag un pechadur heb fyned trwy y puredigaeth, neu y perffeithio hwn. Y mae arwydd gwaed yr aberth a'u pwrcasodd, megys, ar holl fendithion yr iachawdwriaeth a ddeilliant i ni trwyddo. Cyfiawnheir ni "trwy ffydd yn ei waed ef;" "yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth, sef maddeuant pechodau, trwy ei waed ef;" "fel y santeiddiai y bobl trwy ei waed ei hun;" "trwy ei waed ei hun a aeth unwaith i mewn i'r cysegr, gan gael i ni dragwyddol ryddhad." Y mae ein haddoliad, ein mawl, a'n gweddi, a'n holl wasanaeth crefyddol anmherffaith, yn gystal a'n personau euog, yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo yn y nefoedd yn unig ar gyfrif haeddiant ei waed ef, fel aberth dros ein pechodau ni. Rhaid i ni olygu a defnyddio ei waed ef yn ein holl ymwneud â Duw: ac fel hyn y mae yr holl *bethau nefol* yn cael eu puro a'u cysegru â'i aberth ef, fel y mae i ni trwyddo ddyfodfa at Dduw yn ei gysegr—i'w heddwch a'i ffafr, a mwynhad o hono.

24 Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portread y gwir *gysegr*, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i [a]ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni:

[a] Rhuf. 8. 34.

*Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portread y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn.* Nid i'r cysegr santeiddiolaf Iuddewig, un y deml yn Jerusalem, yr aeth efe, Archoffeiriad y cyfammod newydd, i mewn i offeiriadu. Ni bu efe erioed o fewn i'r un o'r ddau gysegr, ond yn unig yn y cynteddau, gyda'r bobl fel dyn cyffredin. *Portread*—arwyddlun o'r *gwir gysegr*, oedd yr un hwnw o waith llaw. Nid aeth Crist, y gwir Archoffeiriad, gan hyny, i mewn i hwnw.

*Ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni.* Fel yr elai yr archoffeiriad Iuddewig unwaith yn y flwyddyn i mewn i'r cysegr o waith llaw, i ymddangos yn y portread hwnw o'r gwir gysegr, ger bron y portread o bresenoldeb Duw oedd ynddo ar y drugareddfa; felly yr aeth Crist, ar ei esgyniad oddiar y ddaear, i'r nef ei hun —i'r lle santeiddiolaf gwirioneddol—i ymddangos ger bron Duw yn ngwir ystyr yr ymadrodd, *drosom ni*—yn ein hachos, ar ein rhan, fel ein Cynnrychiolwr a'n Dadleuwr yn y llys. Gallasem ddysgwyl, ar ol yr holl waradwydd, y dirmyg, a'r driniaeth annheilwng a gafodd ar y ddaear—wedi ei wrthod, ei ddiystyru, a'i groeshoelio gan ddynion, mai i ymddangos yn y nef ger bron Duw yn ein herbyn ni yr oedd yn myned, pan yn gadael y ddaear; ac mai y canlyniad uniongyrchol o'i dderbyniad yno fuasai iddo droi yn achwynydd i'n herbyn, ac yn annogydd ein dinystr a'n damnedigaeth dragwyddol. Ond wele, anfeidrol raslonrwydd a maddeugarwch yn wir! Ymddangos *trosom* ni a wnaeth, ac a wna efe. Efe a eiriolodd dros y troseddwyr. A'r peth cyntaf a ddaeth o'r nefoedd i'r ddaear, fel ffrwyth ei fynediad a'i ymddangosiad ef yno, ydoedd y gawod gyflawnaf o ras a bendithion a dywalltodd y nefoedd ar y ddaear erioed, sef tywalltiad yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost. "Wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glan, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled, ac yn ei glywed," medd Pedr.

25 Nac fel yr offrymai efe ei hun yn fynych, megys y mae yr archoffeiriaid yn myned i mewn i'r cysegr bob blwyddyn, â gwaed arall.

26 (Oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddyoddef er dechreuad y byd) eithr yr awrhon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe, i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun.

Yr oedd aberth Crist a'r aberthau Iuddewig yn gwahaniaethu yn fawr

iawn oddiwrth eu gilydd mewn dau beth neillduol. Yr oedd yr aberthau hyny yn cael eu mynychu yn barhaus, aberthiad am unwaith yn unig a wnaeth efe. Aberthai yr archoffeiriaid Iuddewig *waed arall*, gwaed creaduriaid, nid yr eiddynt hwy eu hunain; aberthodd Crist ei briod waed ei hun. A phe na buasai efe wedi offrymu aberth anfeidrol well, a mwy haeddiannol na'r aberthau gynt—aberth ag yr oedd ei rinwedd a'i hollddigonolrwydd fel Iawn dros bechod yn cyrhaedd yr holl oesau—yr oesau cyn ei ddyfodiad, o ddechreu y byd hyd ei amser ef, a'r holl oesau o hyny hyd ddiwedd y byd; yna, buasai yn rhaid iddo yntau ddyoddef a marw yn fynych—mynychu aberthu ei hun, fel y mynychid yr aberthau dan y gyfraith.

*Unwaith yn niwedd y byd*—yn niwedd dyddiau yr oruchwyliaeth Iuddewig, yr ymddangosodd efe ar y ddaear yn y cnawd, *i ddilëu pechod* trwy roddi ei hunan yn aberth drosto—aberth a atebodd am byth holl ddybenion cosbedigaeth pechod yn y llywodraeth ddwyfol—a roddodd fwy o anrhydedd a mawrhad ar y gyfraith nag a gawsai yn nghosbedigaeth dragwyddol ei holl droseddwyr—aberth a ddileodd bechod oddiar ffordd y Duw cyfiawn i nesâu at y byd euog yn ei gymmod a'i heddwch, ac oddiar ffordd yr euog i nesâu ato yntau—a ddileodd yr angenrheidrwydd am i'r pechadur farw dan gosbedigaeth ei anwiredd ei hun. *Adgoffa pechodau* yn unig yr oedd aberthau y gyfraith, ac nid eu *dilëu*—eu symud oddiar y ffordd; ond darfu iddo ef trwy ei aberth *ddiddymu camwedd, a selio pechodau, a dwyn cyfiawnder tragwyddol.* Hwn oedd y gwaith mawr yr *ymddangosodd efe* i'w gyflawni. Efe, yr hwn a greodd, ac sydd yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, ni allasai ddilëu pechod â gair ei nerth. Gallasai yn hawdd ddilëu pechaduriaid, a dilëu y greadigaeth felly; ond er dilëu pechod, yr oedd yn rhaid iddo ymddangos, dyoddef, a marw.

27 Ac megys y [b] gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi [c] hyny *bod* barn:

[b] Gen. 3. 19. [c] Preg. 12. 14.

28 Felly [d] Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau [e] llawer, a ymddengys yr [f] ail waith, heb bechod, i'r rhai sydd yn ei [g] ddysgwyl, er [h] iachawdwriaeth.

[d] 1 Pedr 2. 24; 1 Ioan 3. 5. [e] Es. 53. 12; Mat. 26. 28. [f] Act. 1. 11; Dat. 1. 7. [g] Tit. 2. 13; 2 Pedr 3. 12. [h] Es. 25. 9.

Dyma gyferbyniad arall newydd, yn gosod yr appwyntiad o farwolaeth Crist urwaith, fel aberth dros bechod, yn gyferbyniol â'r gosodiad dwyfol i ddynion farw unwaith, fel canlyniad y trosedd cyntaf. Ni ordeiniwyd marwolaeth ac aberth Crist i ddattroi y gosodiad hwnw, ond erys yn ei rym fel o'r blaen. Gosodiad yn tarddu o ewyllys penarglwyddiaethol y Llywydd anfeidrol, debygaf fi, oedd i ddynion farw yn naturiol mewn canlyniad i bechu, ac nid yn codi oddiar angenrheidrwydd cyfraith a llywodraeth, fel yr ail farwolaeth, neu gosbedigaeth dragwyddol yr euog. Yr oedd y gyfraith yn gofyn hòno, ac ni allasai, ac aros yn ei grym a'i hanrhydedd fel cyfraith, wneud hebddi, neu rywbeth yn ei lle a fuasai yn cyflawn ateb ei holl ddybenion. Ond am y ffordd i ddal a dwyn yr euog i afael y gosbedigaeth hòno, dibynai hyny ar ewyllys y Penllywydd: a'r llwybr a ddewisodd ei ddoethineb ydoedd, *gosod i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn*—wedi hyny eu sefydlu yn ol eu cyflwr yn eu sefyllfa dragwyddol ddigyfnewid.

Eilwaith, gosodiad yn tarddu o ras penarglwyddiaethol y Llywydd hefyd, oedd appwyntio Crist yn aberth dros bechod. Nid oedd y gyfraith yn gofyn hyn. Yr ydoedd yn osodiad uwchlaw, ond nid yn groes iddi. Bywyd yr euog a ofynai hi; ond trefnodd doethineb a gras penarglwyddiaethol osod y cyfiawn dros yr anghyfiawn i fawrhau y gyfraith, a'i gwneud yn anrhydeddus, yn rhyddhad ac arbediad yr anghyfiawn a gredai ynddo ef. Nid oedd yn un rhan o amcan y gosodiad penarglwyddiaethol olaf i droi heibio yr un cyntaf; hyny yw, i ddwyn arbediad i ddynion rhag y farwolaeth

naturiol; ond offrymodd Crist ei hun unwaith i *ddwyn ymaith bechodau lluosogrwydd—i ddwyn ymaith* angenrheidrwydd y gosbedigaeth, angenrheidrwydd cyfraith. Dygodd yr angenrheidrwydd hwn ymaith yn hollol, ac am byth, pan offrymodd ei hun unwaith. *Pechodau llaweroedd*, hyny yw, "pawb oll," medd Calfin, fel yn Rhuf. v. 15. "Y mae yn amlwg er hyny," medd yr un awdwr yn mhellach, "nad ydyw pawb yn derbyn llesâd oddiwrth farwolaeth Crist; ond y mae hyny am fod eu hanghrediniaeth yn attal."

*A ymddengys yr ail waith heb bechod.* Efe a ymddangosodd y tro cyntaf i ddilëu, i ddwyn ymaith bechodau drwy ei aberthu ei hun. Efe a ymddengys yr ail waith i ddyben ac amcan gwahanol, mewn nodwedd a dull gwahanol—yn Farnwr, i sefydlu cyflwr tragwyddol pawb. *Heb bechod*—heb bechod yn gyfrifedig arno, medd rhai; heb bechaberth, medd eraill; heb fod a wnelo â phechod yn yr un modd ag yn ei ymddangosiad cyntaf. Bydd ei ymddangosiad yr ail waith er iachawdwriaeth—er perffeithiad iachawdwriaeth y rhai sydd yn ei ddysgwyl—y rhai a gredasant ynddo, ac ydynt yn glynu wrtho am fywyd ac iachawdwriaeth dragwyddol.

---

## PENNOD X.

1 *Gwendid aberthau y gyfraith.* 10 *Aberth corff Crist a offrymwyd unwaith,* 14 *sydd byth yn tynu ymaith bechodau.* 19 *Cynghor i lynu yn lew yn y ffydd trwy amynedd a diolch.*

OBLEGID y gyfraith, yr hon sydd ganddi [1]gysgod daionus bethau i ddyfod, *ac* nid gwir ddelw y pethau, nis gall trwy yr aberthau hyny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymu yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddel ati.

[1] Col. 2. 17.

*Oblegid y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod. Y gyfraith*—deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau, o aberthau, golchiadau, a phuredigaethau; *sydd ganddi gysgod*—rhaglinelliad bras, ac anmherffaith, *o'r daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau*—nid y pethau hyny eu hunain, yn sylweddol a gwirioneddol. Yr oedd ei chysgod, ei rhaglinelliad hi o honynt yn werthfawr a defnyddiol i'r addolwyr dan ei gweinidogaeth hi, fel profion sicr fod y *daionus bethau*, a gysgodid ganddi, i ddyfod, i gael eu llawn ddatguddio rywbryd; ac fel moddion i gynnyrchu ffydd yn, a dysgwyliadau am, y pethau hyny ynddynt. Y daionus bethau a gysgodid yn y gyfraith, ydoedd Crist a'i aberth gwell, mwy a pherffeithiach, y cyfammod gwell, a'i addewidion gwell—yr holl fendithion ysbrydol a thragwyddol sydd i gredinwyr yn a thrwy Grist, pen y cyfammod, megys puro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon, rhyddid i nesâu at Dduw, a thragwyddol ymwared a rhyddhad oddiwrth euogrwydd, effeithiau, a holl ganlyniadau pechod.

*Nis gall trwy'r aberthau, (sef y gyfraith) y rhai y maent bob blwyddyn yn wastadol yn eu hoffrymu, byth berffeithio y rhai a ddel ati. Ni pherffeithiodd ddim*—neb erioed, ac *nis gall byth* wneud hyny. *Y rhai y maent yn eu hoffrymu bob blwyddyn;* cyfeiria'r apostol yma at yr aberthau a offrymai yr archoffeiriad unwaith bob blwyddyn ar ddydd y cymmod.

2 Oblegid yna hwy a beidiasent â'u hoffrymu, am na buasai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolasent, wedi eu glanhau unwaith.

*Oblegid yna*—pe gallasai y gyfraith berffeithio y rhai a ddeuent ati, trwy buro a thangnefeddu eu cydwybodau euog, hwy a beidiasent â'u hoffrymu, am y buasai dyben offrymu wedi ei gyrhaedd, fel na buasai mwyach angen am danynt; ond gan fod *cydwybod pechod* — cydwybodolrwydd o euogrwydd pechod yn aros o hyd yn yr addolwyr, yr oedd angen parhaus am offrymau. Cynnwys y glanhad oddiwrth gydwybod pechod sicrwydd yn y meddwl fod yr aberth a offrymid drosto

yn llawn ddigonol a rhinweddol, er ei ryddhad oddiwrth y gosbedigaeth ddyledus iddo am ei anwiredd, yr hyn a ddygai dangnefedd i'r fynwes, ac a barai iddo lonyddwch oddiwrth ofn drwg, yr hyn ni allai yr aberthau hyny ei effeithio.

3 Eithr yn *yr aberthau* hyny *y mae* adgoffa pechodau bob [k] blwyddyn.

[k] Lef. 16. 34.

Yn hytrach na pherffeithio a glanhau yr addolwyr oddiwrth gydwybod pechod, yr oedd yr aberthau yn ail ddwyn ar gof eu heuogrwydd iddynt yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn.

4 Canys anmhosibl *yw* i'waed teirw a geifr dynu ymaith [l] bechodau.

[l] Salm 51. 16.

Yr oedd *gwaed teirw a geifr* yn gwasanaethu y dyben o *adgoffa pechodau*, ac hefyd fel cysgod o'r aberth mwy a pherffeithiach oedd i gael ei offrymu dros bechod; ond yr oedd yn anmhosibl iddo *dynu ymaith bechodau.* Ni allasai, yn ol rheswm a chydweddiad pethau, gwaed creaduriaid amddifaid o natur a galluoedd moesol, fod yn meddu rhinwedd ac effeithioldeb i buro y gydwybod ddynol oddiwrth euogrwydd a halogrwydd ysbrydol.

5 O herwydd paham y mae efe, wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd, [m] Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corff a gymhwysaist i mi.

[m] Salm 40. 6—8.

*O herwydd paham* — o herwydd y rheswm crybwylledig, sef bod yn anmhosibl i *waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau*, o herwydd nad allasai y gyfraith trwy ei haberthau hi byth berffeithio y rhai a ddeuent ati,—y mae efe, y Messïa, wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd felly yn ngenau Dafydd yn Salm xl. 6. Yr oedd efe megys yn dyfod ar ei daith i'r byd y pryd hwnw. Yr oedd ei "fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb." Clywid ei lais, ac megys swn ei gerddediad, lawer gwaith cyn iddo ymddangos. Ac yn y Salm y cyfeirir ati, y mae efe yn sefyll megys uwchben aberthau y gyfraith, ac yn anerch y Tad fel Barnwr achos a chyflwr y byd euog, yn yr olwg ar annigonolrwydd yr aberthau hyny, gan ddywedyd, "Aberth ac offrwm nis mynaist;" sef, fel aberthau cymmodlawn a chymeradwy dros bechod, yr hyn ni fwriadwyd erioed iddynt fod; ond yr oeddynt yn dderbyniol yn eu lle a'u dybenion priodol hwy eu hunain.

Sylwasom o'r blaen nad oedd aberthau wedi eu trefnu am droseddau o orchymynion y ddeddf foesol, ond eu bod yn perthyn i farnedigaethau deddf arall—un dymmorol a chenedlaethol. Yr oeddynt yn dwyn maddeuant a glanhad allanol a thymmorol i'r bobl; ond nid oeddynt yn meddu un cymhwysder i bwrcasu maddeuant a gollyngdod i gydwybod euog oddiwrth ei halogrwydd moesol. Yn yr ystyr yma y dywedir nas mynai Duw hwy, ac y dywedir yn mhellach eiriau i'r un perwyl, "*Eithr corff a gymhwysaist i mi.*" "*Agoraist fy nghlustiau,*" ydyw yr ymadrodd yn y Salm, mewn cyfeiriad, fe ddichon, at farnedigaeth y caethwas a wrthodai ei ollyngdod yn mhen ei dymmor, gan ddewis yn hytrach aros yn rhwym dros ei oes yn ngwasanaeth ei feistr; yr hon a ddarbodai bod i'w feistr ei ddwyn ef at y barnwyr, a thyllu ei glust ef â mynawyd wrth y ddor, neu wrth yr orsin; wedi hyny, yr oedd i fod yn was i'w feistr byth, Exod. xxi. 1—6. Rhoddir ymadrodd cyffelyb yn ngenau y Messïa mewn prophwydoliaeth arall, "Yr Arglwydd Dduw a agorodd fy nghlust, a minnau ni wrthwynebais, ac ni chiliais yn fy ol," Esa. l. 5. Dewisa rhai gyfieithu y geiriau yn y Salm, "Cloddiaist fy nghlustiau." Yr un gair gwreiddiol a arferir yn yr Hen Destament am agor, neu gloddio pydew neu ffynnon, meddir. Ond y mae y ddau yn dyfod i'r un meddwl, pa un bynag ai tyllu, mewn cyfeiriad at ddefod y gyfraith gyda gwas o Hebread; neu gloddio, agor ffynnon neu bydew. Yr arwyddocâd yw, bod y Tad wedi trefnu a gosod y Messïa yn ei swydd, a'i fod yntau yn gwirfoddol ymroddi iddi, ac i gyflawni y gwaith perthynol iddi, o lwyrfryd calon.

Aralleiria yr apostol yr ymadrodd yn y Salm drwy awdurdod ysbrydoledig yn ddiau, i'w wneud yn fwy pwrpasol at wasanaeth y mater sydd mewn llaw. Nid yw drwy hyn yn gwneud un trais ar yr ymadrodd, gan ei fod, fel y mae yn y Salm, yn cynnwys y syniad a rydd geiriau yr apostol, sef fod corff dynol wedi ei gymhwyso i'r Messïa. Y mae y syniad o ymroddiad y Messïa i wasanaeth y Tad, a arwyddoceir drwy yr ymadrodd o *dyllu*, neu *agor* y glust, yn cael ei ddwyn allan mewn ymadroddion mwy eglur a phendant drachefn yn yr adnodau sydd yn canlyn.

*Corff a gymhwysaist i mi.* Aberthid cyrff yr anifeiliaid dan y gyfraith, ac ni feddai yr aberthau hyny ond cyrff a bywyd anifeilaidd yn unig. Gan hyny, yr oeddynt yn llawer is mewn bodolaeth a gwerth na dynion, dros y rhai yr offrymid hwy; ac o ganlyniad, yn anfeidrol annigonol fel aberthau cymmodlawn dros bechodau. Uwchben yr annigonolrwydd hwn yn aberthau y gyfraith, wele UN, nad oedd ganddo etto gorff, yr hyn oedd yn anhebgorol angenrheidiol i wneud aberth, yn dywedyd, wrth ddyfod i'r byd i'r dyben o offrymu aberth perffaith a digonol, "Corff a gymhwysaist i mi."

6 Offrymau poeth, a thros bechod, ni buost foddlawn iddynt.

Yr holl aberthau a'r offrymau Iuddewig o bob math, gyda'u gilydd, *ni buost foddlawn iddynt.* Nid oeddynt yn boddloni Duw fel Llywydd a Barnwr, nac yn boddloni cydwybod euog yr addolwyr chwaith.

7 Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw.

*Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf).* Gellid meddwl na allasai un esboniwr, na darllenydd chwaith, deimlo un petrusder i briodoli yr ymadroddion hyn i'r Messïa, pe na buasai i'r apostol wneud hyny. Ond er y cwbl, y mae rhai wedi llafurio i geisio profi mai am dano ei hun y llefara y Salmydd, fel brenin yn gwneuthur barn a chyfiawnder, yr hyn sydd yn fwy cymeradwy gan Dduw nac aberthau a phoethoffrymau, oddiar y rheswm mai yr un person sydd yn dywedyd yn mhellach yn mlaen, "Fy mhechodau a'm daliasant, fel na allwn edrych i fyny: amlach ydynt na gwallt fy mhen," &c.; ymadroddion, meddant, nad ydynt yn briodol i Grist mewn un modd, yr hwn ni wnaeth ac nid adnabu bechod. Yn yr ystyr o bechadur gweithredol, yn wir nis gall y geiriau fod yn briodol iddo ef, yr hwn oedd *heb bechod;* etto, fel yr ydoedd efe yn aberth dros bechod, a Iehofa wedi "rhoddi arno ef ein hanwiredd ni i gyd," y mae priodoldeb grasol a gogoneddus ynddynt iddo ef. Fel yr oedd efe yn dwyn "ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren," yr ydoedd efe megys yn eu gwneuthur hwynt yn eiddo iddo ef ei hun. Ond am briodoldeb yr ymadroddion blaenorol i Dafydd, neu i rywun heblaw i Grist, afraid fyddai treulio inc a phapyr i'w wrthwynebu, gan ei fod yn groes i ddeongliad ysbrydoledig yr apostol, ac i reswm yn gystal a hyny.

*Y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf.* Wrth y llyfr yma golygir, yn ddiau, llyfr y gyfraith, llyfrau Moses. Nid oedd ond ychydig o'r gyfrol santaidd, heblaw y llyfrau hyny, wedi ei ysgrifenu pan lefarwyd y geiriau. Y mae yr ymadrodd hwn yn andwyo y syniad mai yn ei berson neu mai am dano ei hun y llefara y Salmydd. Nid oes dim yn y llyfr—llyfr y gyfraith, yn ysgrifenedig am dano ef, y Salmydd. Y mae yr ymadrodd yn briodol i'r Messïa, ac iddo ef yn unig. "Am danaf fi yr ysgrifenodd efe," ebe Crist am Moses, wrth ymresymu â'r Iuddewon anghrediniol. Dichon y golygir yn neillduol yr addewid gyntaf o Had y wraig, a'r addewid i Abraham, Isaac, a Jacob, yn nghyda phrophwydoliaeth Jacob am y Silo; ac hefyd holl gyfraith yr aberthau a'r pasg, y rhai oeddynt yn rhagosod allan ddyfodiad y Messïa, a'i waith fel Archoffeiriad yn offrymu aberth cymmod dros bechodau.

*I wneuthur dy ewyllys di, O Dduw*—neu, *O fy Nuw.* Ni allasai aberthau ac offrymau yr hen gyfammod wneuth-

ur ewyllys Duw. "Nid ymfoddlonodd efe ynddynt," fel aberthau iawnol dros bechod. Wele y Messïa yn dyfod i gyflawni yr hyn na allasent hwy, sef i roddi ei hunan yn aberth difai, digonol, a chymeradwy dros bechodau y byd.

Y mae yn syndod fod neb erioed wedi ceisio ymaflyd yn yr ymadrodd, *O Dduw*, yn y fan hon, i gefnogi y dyb o isafiaeth personol y Mab i'r Tad, a bod y Mab ei hun yn cefnogi y farn hòno wrth gyfarch y Tad felly. Rhaid fod y pwnc yn wan a thlawd o gefnogaeth ysgrythyrol i beri hyn; canys amlwg yw mai fel Messïa wrth ddyfod i'r byd, yn was i gyflawni ewyllys y Tad, ac nid fel person dwyfol, y mae efe o hyd yn llefaru. Llefarai y Tad felly wrtho, ac am dano, cyn ei ymddangosiad yn y cnawd, yn gystal ag wedi hyny; ac felly y llefarai yntau wrth y Tad am dano ei hun wrth ddyfod i'r byd, yn gystal ag wedi iddo ddyfod. "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" oedd un o'i ymadroddion olaf ar y groes. "Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau," eb efe wrth Mair Magdalen wedi iddo adgyfodi o'r bedd.

8 Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth ac offrwm, ac offrymau poeth, a thros bechod, nis mynaist, ac nid ymfoddlonaist *ynddynt* (y rhai yn ol y gyfraith a offrymir)

9 Yna y dywedodd, Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Y mae yn tynu ymaith y cyntaf, fel y gosodai yr ail.

Profa yr apostol fel hyn yn uniongyrchol allan o'r Hen Destament hollol annigonolrwydd aberthau y gyfraith fel offrymau dros bechod, mewn trefn i lwyr ddiddyfnu meddyliau yr Hebreaid oddiwrth yr hyder hwnw ag yr oeddynt yn dueddol i'w osod arnynt—bod y Messïa wrth lefaru am dano ei hun trwy y Salmydd, yn dwyn y dystiolaeth bendant hon am aberthau y gyfraith, ac wrth dystiolaethu felly yn eu tynu ymaith—eu gosod o'r neilldu fel pethau annigonol, fel y *gosodai yr ail*—sef ail aberth, ei aberth ef ei hun, yr hwn oedd i gyflawni ewyllys Duw, trwy wneuthur iawn digonol a chymeradwy dros bechodau. Yr hyn a ddywedodd y Messïa felly yn y brophwydoliaeth *wrth ddyfod i'r byd*, neu wrth ragfynegu ei ddyfodiad, a gyflawnodd efe yn weithredol *wedi dyfod*, pan osododd efe ei enaid yn aberth dros bechod. Y mae aberthau y gyfraith, gan hyny, wedi eu *tynu ymaith*, yn hollol ac am byth. Y mae y dybenion oedd iddynt gynt wedi eu hateb: a chan i'r Messïa ei hun eu tynu hwynt ymaith, y mae eu gosod i fyny, a glynu wrthynt etto, yn weithred o wrthryfel yn ei erbyn, ac yn ddibrisdod o'r mwyaf ar ei awdurdod a'i aberth.

10 Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein [n] santeiddio, trwy [o] offrymiad corff Iesu Grist unwaith.

[n] Ioan 17. 19. [o] Heb. 9. 14.

*Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein santeiddio.* Sef trwy i Grist wneuthur—cyflawni ewyllys Duw mewn ufudddod iddi hyd angeu, yr ydym ni wedi ein santeiddio—ein cysegru i Dduw a'i wasanaeth. Y mae iawn digonol a chymeradwy wedi ei gyflwyno a'i dderbyn drosom ni, yr hwn sydd yn effeithiol er ein puredigaeth a'n hadferiad.

*Trwy offrymiad corff Iesu Grist unwaith*—y corff a gymhwyswyd iddo i'r perwyl gan y Tad, yn y corff hwnw y cyflwynodd efe ei hun, yn holl gyflawnder, urddas, a mawredd ei berson, yn aberth ac yn offrwm i Dduw, yn nyddiau ei gnawd, a chyflwynodd ei hun drachefn yn yr un corff ger bron y Tad yn y nefoedd. Yr oedd ei offrymiad ef unwaith am byth yn ddigon i ateb y dyben mawr hwn. Y mae yr apostol yn mynych grybwyll y ffaith o ddigonolrwydd aberthiad Crist unwaith, ar gyfer aberthau beunyddiol y gyfraith, er dangos i'r Hebreaid mai annigonolrwydd yr aberthau hyny oedd yr achos o'u mynychu; ac o'r tu arall, mai digonol rinwedd un aberth y Messïa oedd y rheswm paham nad oes angen am un aberth byth ar ei ol. Helaetha ar hyn etto.

11 Ac y mae pob offeiriad yn

sefyll [p] beunydd yn gwasanaethu, ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant [q] fyth ddilëu pechodau:

[p] Num. 28. 3. [q] Salm 50. 8—13. Esa. 1. 11.

Y mae y ffaith hon am offeiriaid ac aberthau y gyfraith wedi ei chrybwyll lawer gwaith o'r blaen. Deil yr apostol hi fel hyn o hyd o flaen llygaid yr Hebreaid, o herwydd ei bod mor bwysig a phwrpasol i'w amcan yn yr epistol; sef, profi aneffeithiolrwydd yr aberthau Iuddewig i ddilëu pechod, a'r angenrheidrwydd oedd am aberth mwy a gwell. Yr oedd yr offeiriaid hyny yn sefyll beunydd yn gwasanaethu, ac felly yn barhaus o genedlaeth i genedlaeth; ac yn offrymu yn fynych yr un aberthau —yr un creaduriaid, y rhai a neilluasid iddynt gan y gyfraith.

*Y rhai ni allant fyth ddilëu pechodau*—gymeryd ymaith y gosb ddyledus am bechod oddiar y personau euog. Nid oedd dim un perthynas rhwng natur y creaduriaid a aberthid â natur y personau euog, na rhwng yr aberthau hyny â'r gyfraith foesol, yn erbyn yr hon y mae pechod yn wrthryfel, a than felldith yr hon yr oedd cyflwr y troseddwyr yn aros. Yr oedd gagendor rhwng yr aberthau ag achos y byd, na allasent hwy byth ei lanw. Yr oedd yn anmhosibl i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau; gan hyny, cedwid yr offeiriaid ar eu traed o hyd i weini—angenrhaid oedd iddynt offrymu yn fynych yr un aberthau, i adgoffa pechodau ac i gadw yn fyw y syniad, bod gollwng gwaed yn angenrheidiol er maddeuant—a bod aberth gwell a mwy na'r rhai hyny wedi ei drefnu, ac i ddyfod i'r byd.

12 Eithr hwn, wedi offrymu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a [r] eisteddodd ar ddeheulaw Duw;

[r] Col. 3. 1.

*Hwn*—Offeiriad mawr y cyfammod newydd, wedi offrymu un aberth hollddigonol, yn ateb am byth i holl ofynion mawrion yr achos rhwng Duw a dynion—yn ddifai i Dduw, ac yn weddus i ni—aberth ag y mae ei rinwedd a'i effeithioldeb yn aros ac yn parhau yn dragywydd, fel nad oes ac na bydd byth angen am aberth ar ei ol—*Hwn*, wedi cyflwyno y cyfryw aberth dros bechodau, *yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.* Wedi myned trwy a gorphen ei waith. Nid eisteddodd yr un archoffeiriad Iuddewig erioed ger bron Duw yn y cysegr santeiddiolaf, portread y gwir gysegr; safai o flaen y drugareddfa tra y byddai yn gweini yno, a deuai allan drachefn at y bobl, ac felly o flwyddyn i flwyddyn, am oes ar ol oes. Ond aeth Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd, ar ol offrymu ei aberth ef, i'r nef ei hun—i'r gwir bresenoldeb, a dywedodd ar ei fynediad yno, "Ni'm gwelwch i mwyach;" yr oedd yn myned yno i *aros*, i *eistedd yn dragywydd*, wedi gorphen ei waith. *Ar ddeheulaw Duw*, i arwyddo bod ei aberth yn gymeradwy a digonol; a'i fod, fel gwobr am ei ufudd-dod, wedi ei ddyrchafu i'r sefyllfa uchaf o anrhydedd ac awdurdod.

13 O hyn allan yn dysgwyl hyd oni osoder ei [s] elynion ef yn droedfainc i'w draed ef.

[s] Salm 110. 1.

Cyfeirir yma at ymadrodd Iehofa wrth y Messia yn Salm cx. "Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn fainc i'th draed." Y mae efe yn awr, medd yr apostol, wedi myned i'r sefyllfa ddyrchafedig hòno, ar ol gorphen ei waith ar y ddaear, a ragaddawsid iddo trwy enau Dafydd; ac mor wir ag iddo fyned yno, ac eistedd ar ddeheulaw Iehofa, fe ddarostyngir ei holl elynion yn droedfainc i'w draed. Ei elynion ydyw pob awdurdod a nerth gwladol ac eglwysig, tymmorol ac ysbrydol, a safant ar ffordd lledaeniad a llwyddiant ei deyrnas a'r wybodaeth o hono yn y byd—pob twyll a gaugrefydd —pob cyfeiliornad—pawb a wadant ei berson a'i aberth—a holl anghredinwyr a gwrthodwyr yr efengyl. Y mae efe ar ddeheulaw Duw yn dysgwyl, nes y gosoder hwynt oll yn droedfainc i'w draed.

14 Canys âg un offrwm y per-

ffeithiodd [t] efe yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu santeiddio.

[t] Heb. 10 10.

Y mae ei waith ar y ddaear, gan hyny, wedi ei orphen a'i gwblhau; canys trwy ei un offrwm efe a bwrcasodd dangnefedd cydwybod, a rhyddid tragwyddol oddiwrth y gosbedigaeth ddyledus am bechod, i bawb a gredant ynddo, ac a ufuddhant iddo. Y mae efe yn awr, gan hyny, ar ol gorphen ei waith, yn eistedd yn ei sefyllfa ddyrchafedig, i fedi a mwynhau o ffrwyth ei ufudd-dod a'i aberth, yn gweinyddu ei awdurdod gyfryngol oddiar ei orsedd, er dwyn yn mlaen ei waith ar y ddaear, yn achubiaeth a santeiddiad ei bobl, a darostyngiad ei wrthwynebwyr a'i elynion.

15 *Ac* y mae yr Ysbryd Glan hefyd yn tystiolaethu i ni: canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen,

16 Dyma [u] y cyfammod yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau;

17 A'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach.

18 A lle *y mae* maddeuant am y rhai hyn, nid *oes* mwyach offrwm dros bechod.

[u] Jer. 31. 33, 34.

*Y mae yr Ysbryd Glan hefyd yn tystiolaethu i ni.* Yn yr ymadroddion blaenorol yr oedd y Messïa yn tystiolaethu wrth lefaru am yr aberthau Iuddewig, ac am dano ei hun trwy enau Dafydd; yma dygir tyst arall i'r un gwirionedd yn mlaen, yr Ysbryd Glan, yr hwn a lefarodd i'r un perwyl trwy y prophwyd Jeremiah. Coffawyd yr ymadroddion hyn o'r blaen yn pen. viii. 12, &c., ac i'r un pwrpas yno, a dygir hwynt i mewn yma drachefn fel atteg i dystiolaeth y Messïa, ac â'r ymadroddion hyn y cloa yr apostol y pwnc i fyny; dyma ben conglfaen yr ymresymiad ar y mater o ragoriaeth y cyfammod newydd ar yr hen, yn ei brif oruchwyliwr a'i oruchwyliaeth, ei addewidion, ei weinidogaeth, ei fendithion, a'i aberth. Y mae yn gosod y cyfreithiau dwyfol, nid yn gerfiedig ar gèryg, neu yn ysgrifenedig mewn llyfr, yn unig, fel yr hen; ond yn nghalonau y deiliaid, yn egwyddorion bywiol a pharhaus o ufudd-dod, yn dwyn iddynt ollyngdod llawn a thragwyddol oddiwrth euogrwydd pechod, trwy faddeuant, ar gyfrif aberth digonol a chymeradwy. Ni olygir nad oedd credinwyr dan yr hen gyfammod yn etifeddion o'r bendithion a'r rhagorfreintiau hyn; ond nid trwy y cyfammod hwnw a'i aberthau yr oeddynt yn eu derbyn, ond trwy eu ffydd yn y sylweddau a gysgodid ynddo, sef y cyfammod newydd; ac nid oeddynt chwaith yn eu derbyn yn yr un dull ag y mae credinwyr dan yr efengyl yn eu derbyn, er eu bod yn deilliaw iddynt o'r un drefn.

Yma y terfyna athrawiaeth fawr yr epistol. Y mae yr ysgrifenydd santaidd yn awr wedi trin ei bwnc yn fanwl, a'i brofi a'i gadarnhau yn llawn—wedi cau pob bwlch, a chyfarfod ac ateb pob gwrthddadl. Nid oes ganddo bellach ond tynu casgliadau o rybuddion ac annogaethau oddiwrth yr athrawiaeth yr ymdrinasai â hi at wasanaeth a phwrpas yr amcan oedd ganddo mewn golwg o'r dechreu. Gwnaethai aml gymhwysiad i'r perwyl hwn o'r blaen wrth drin y pwnc yn ei wahanol ganghenau, fel y cawsom achlysuron i sylwi; ond y mae efe bellach yn ymosod ar y gorchwyl o symio y cwbl i fyny yn fanwl a helaeth, wrth yr hyn y gwelir pa mor gryf oedd ei eiddigedd a'i awyddfryd am ragflaenu aflwydd yr Hebreaid, drwy eu diwreiddio yn gwbl o dir yr hen gyfammod, a'u planu a'u gwreiddio yn ddwfn, a'u selio yn sicr, yn y cyfammod newydd—i garthu allan o'u meddyliau weddillion yr hen surdoes deddfol oedd ynddynt, a'u gwneuthur megys yn does newydd, yn grefyddwyr gwir efengylaidd yn eu syniadau, eu teimladau, a'u hymarferion.

Bu y diffyg a'r gwendid oedd yn nghrefydd yr Hebreaid hyn yn achlysur o fendith anmhrisiadwy i'r eglwys Gristionogol o hyny hyd ddiwedd amser, canys hyny fu yn achlysur o ysgrifeniad yr epistol gogoneddus hwn.

19 Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r [v] cysegr trwy waed Iesu,

[v] Heb. 9. 8, 12.

20 Ar hyd [w] ffordd newydd a bywiol, yr hon a gysegrodd efe i ni, trwy y llen, sef ei gnawd ef;

[w] Ioan 14. 6.

21 A *bod i ni* Offeiriad mawr ar [x] dŷ Dduw;

[x] Heb. 4. 14-16.

22 Nesawn â chalon gywir, [y] mewn llawn hyder ffydd, wedi [z] glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corff â dwfr glan.

[y] Eph 3. 12. [z] Ezec. 36 25.

Cawn yma grynodeb mewn ychydig eiriau o'r athrawiaeth fawr yr oedd efe newydd ei hegluro, ei phrofi, a'i chadarnhau mor fanwl a grymus. Y mae yr athrawiaeth hòno yn dyfod i hyn—*fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu*—i ni, deiliaid gweinidogaeth y cyfammod newydd; y mae i ni trwy waed—aberth iawnol Iesu—*ryddid i fyned i'r cysegr*, nid i gysegr yr hen gyfammod, ond i'r cysegr yr aeth Iesu ei hun i mewn iddo, i'r gwir gysegr, i'r nef ei hun, sef at Dduw, i offrymu ein haberthau ysbrydol o weddi a mawl. Nid oedd rhyddid i'r addolwyr dan yr hen gyfammod i fyned i mewn i'r cysegr cysgodol hwnw yr elai eu harchoffeiriad hwy i mewn iddo unwaith bob blwyddyn i ymddangos ger bron Duw, oblegid nad oedd rhinwedd iawnol yn ngwaed yr aberthau hyny; ond gan fod rhinwedd holldigonol a thragwyddol yn ngwaed Iesu, efe a bwrcasodd i ni y rhyddid gogoneddus hwn; efe a symudodd o'r ffordd bob attalfa oedd yn aros cyn hyny. Y mae hon, gan hyny, *yn ffordd newydd a bywiol* i ni at Dduw. Yr oedd raid i'r addolwyr dan y gyfraith wrth aberthau bob tro y nesäent at y cysegr; ond yr ydym ni yn cael ein gwahodd yn awr i fyned, nid at y cysegr, megys hwy, ond i fyned iddo—i fyned yn uniongyrchol at Dduw, a hyny heb ddwyn un aberth at yr allor mwyach, gan fod yr angenrheidrwydd am dano wedi darfod am byth yn aberth y Messïa. Priodol iawn, felly, y gelwir hon yn *ffordd newydd a bywiol*, mewn cyferbyniad i'r hen drefn o nesâu at Dduw—*newydd* ei hagor a'i dadguddio yn yr efengyl. Yr oedd yn anadnabyddus ond i raddau bychain mewn cymhariaeth o'r blaen; ond yn awr y mae yn agored, yn eglur, a chyhoeddus. Y mae yn ffordd *fywiol* yn gystal a newydd—yn un wastadol a pharhaus—yn rhoddi bywyd a nerth i'r rhai a nesânt at Dduw ar hyd-ddi, ac yn arwain i fywyd a dedwyddwch mewn cymmod a chymundeb â Duw. Y mae y ffordd newydd a bywiol hon wedi ei *chysegru i ni*—wedi ei hagoryd a'i threfnu er ein mwyn ni ddynion, yn neillduol a phenodol, *trwy ei gnawd ef*—trwy ei waed a'i aberth ef. Megys ag yr oedd yr archoffeiriad Iuddewig yn myned i mewn i'r cysegr santeiddiolaf gynt, drwy godi cŵr y llen oedd yn gwahanu rhyngddo a'r cysegr nesaf allan, felly, yn gyffelyb, mewn ystyr, yr ydym ninnau i fyned i'r cysegr, i'r presenoldeb dwyfol, trwy offrymiad corff Iesu Grist unwaith, yr hwn a elwir yma *y llen*, mewn cyferbyniad at len y tabernacl a'r deml. Rhwygodd y llen hòno yn ddwy oddifyny hyd i waered pan oedd ei gnawd ef yn aberth drylliedig ar y groes, ar yr adeg yr oedd ei aberth ef yn cael ei berffeithio a'i gymeradwyo, pan y dywedodd efe, "*Gorphenwyd*," ac y rhoddodd i fyny yr ysbryd.

*A bod i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw.* Crybwyllodd yr apostol yr ystyriaeth hon droion o'r blaen, yn pen. iii. 1; iv. 14; v. 10; vii. 17, 26; a viii. 1. "Archoffeiriad ein cyffes ni"—"Archoffeiriad yn medru cyd-ddyoddef â'n gwendid ni"—"Archoffeiriad yn ol urdd Melchisedec"—"Archoffeiriad santaidd, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid"—"y fath Archoffeiriad"—ac yma, *Archoffeiriad mawr ar dŷ Dduw*, ar y tŷ ysbrydol, yr eglwys o gredinwyr yn y nefoedd ac ar y ddaear. Gan fod i ni fel hyn *ryddid i fyned i mewn i'r cysegr, ffordd newydd a bywiol, gysegredig*, i fyned i'r cysegr ar

hyd-ddi, a'r Archoffeiriad mawr, yr hwn a agorodd ac a gysegrodd y ffordd hon trwy ei gnawd, ei waed, a'i aberth, yn weinidog ar y cysegr hwnw, *nesawn â chalon gywir:* y mae pob peth yn annogaethol i ni ac o'n tu. Nid oes dim o'r tu allan i ni ein hunain i'n hattal, fel oedd ar ffordd ein tadau dan y gyfraith i'w cadw hwy rhag myned i mewn i gysegr yr oruchwyliaeth gynt. *A chalon gywir*—calon ddidwyll, onest, ac uniawn mewn egwyddcrion a dybenion. Y mae meddu y gyfryw galon yn anhebgorol i nesâu at y Duw byw, yr hwn sydd ysbryd a gwirionedd, ac yn adnabod dirgelion calonau ei addolwyr. *Mewn llawn hyder ffydd*—heb ammheu dim; llawn hyder ffydd yn rhinwedd gwaed Iesu, yr hwn a bwrcasodd i ni y rhyddid ysbrydol hwn; gyda chrediniaeth ddiysgog y derbynir ac y cymeradwyir ni a'n gwasanaeth trwy ac er mwyn yr Archoffeiriad mawr. *Wedi glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg*—oddiwrth gydwybod euog, ofnus, a chaeth. *A golchi ein corff â dwfr glan*, mewn cyfeiriad at y golchiadau Iuddewig, er puredigaeth allanol yr addolwyr, fel arwydd o'r newydd-deb buchedd—bywyd santaidd, gofynedig yn y rhai a nesânt at Dduw. Dichon fod cyfeiriad yn yr ymadrodd at yr ordinhad o fedydd, megys pe dywedasai yr apostol, Yr ydym ni wedi ein cysegru i fywyd santaidd yn ein bedyddiad i Grist; wedi ein golchi, neu, yn ngair yr addewid y tybir bod ei lygad arni wrth ysgrifenu yr ymadrodd, "wedi ein taenellu â dwfr glan, fel y byddem lan" (Ezec.) oddiwrth bob halogrwydd buchedd.

23 Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl (canys [a] ffyddlawn *yw* yr hwn a addawodd)

[a] 1 Thes. 5. 24.

Ein proffes o'r efengyl, pa beth bynag a ollyngom o'n gafael, daliwn hon. Yr oedd yr Hebreaid hyn eisoes wedi gorfod gollwng o'u gafael lawer o bethau er mwyn dal eu gafael ynddi hi: dyoddefasant ymdrech mawr o helbulon, a'u hyspeilio o'r pethau oedd ganddynt, er mwyn cyffes eu gobaith; ond yr oeddynt yn awr yn ymddangos megys yn sigledig, ac yn llacio eu gafael; a dwg yr apostol yr annogaethau cryfion hyn yn mlaen i'w hadgyfnerthu yn eu hymroad Cristionogol i lynu yn ddianwadal wrth gyffes eu gobaith. Dengys y pwys o ddal gafael felly yn y gyffes Gristionogol ar gyfrif y *gobaith* y mae hi yn gynnwys—gobaith bywyd tragwyddol—yr orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw. Yn yr efengyl yn unig y mae y gobaith hwnw i'w gael, ac ni ellir dal y gobaith os gollyngir y gyffes; ac y mae y gobaith hwn ei hunan yn annhraethol fwy ei werth na'r oll a ellir golli er ei fwyn: "Canys pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Fel cymhelliad i ddal cyffes y gobaith hwn, ychwanegir, *Canys ffyddlawn yw yr hwn a addawodd.* Y mae efe felly yn obaith da, ar sail dda, sicr a disigl. "Y mae addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef," a'i addewid ef yw hòno, ac y mae ei enw ef yn ddigon o sicrwydd am gyflawniad yr addewid; a chan hyny yn rheswm a chymhelliad o'r fath gryfaf i ni ddal cyffes ein gobaith yn ddisigl.

24 A [a]rhydystyriwn bawb ein gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da.

Yn yr ymadroddion blaenorol, cymhellir ar Gristionogion eu dyledswyddau tuag at Dduw, tuag at Grist, tuag at y byd, a thuag atynt eu hunain; ac yn yr ymadrodd hwn, eu dyledswydd y naill tuag at y llall. Gan fod i ni ryddid, a ffordd newydd a bywiol at Dduw, ac Archoffeiriad mawr ar dŷ Dduw—am hyny *nesawn.* Y mae sefyll draw yn ddibrisdod a dirmyg o'r fath waethaf ar y graslonrwydd a gyhoedda y rhyddid, ac a drefnodd y ffordd. Y mae Duw yn ei gysegr yn ein gwahodd i ddyfod ato. Rhaid i ni nesâu â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd yn yr Archoffeiriad mawr—yn nheilyngdod ei enw a'i aberth, gyda llawn sicrwydd meddwl y cawn ein derbyn a'n cymeradwyo ynddo ac er ei fwyn. Ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist yw y ffydd a ofynir fod genym, ac y mae y ffydd hon yn puro y galon oddiwrth gydwybod ddrwg. Heblaw hyn oll, y

mae newydd-deb buchedd — purdeb duwiol yn yr ymarweddiad cyhoeddus—crefydd ymarferol gcr bron dynion, yn gystal a phurdeb mewnol ger bron Duw, yn ofynol. "Daliwn gyffes ein gobaith," er mwyn sicrhau y budd a'r dyddanwch i ni ein hunain. *A chydystyriwn bawb ein gilydd:* a dyr a grefydd gyflawn yn ei holl ranau a'i pherthynasau, pob un yn teimlo gofal tyner y naill am y llall, i annog eu gilydd i gariad a gweithredoedd da.

25 Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain, megys *y mae* arfer rhai; ond annog *bawb ein gilydd:* a hyny yn [b]fwy, o gymaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.

[b] Rhuf. 13. 11.

*Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain, megys y mae arfer rhai.* Wrth y *cydgynnulliad* yma golygir defod y Cristionogion o'r dechreuad i ddyfod at eu gilydd ar amserau neillduol, yn enw Crist, ac fel ei ddysgyblion proffesedig, i alw ar ei enw a'i addoli, a chynghori ac adeiladu y naill y llall. Cadwai yr Arglwydd Iesu Grist gyfarfodydd o'r neilldu gyda'i ddysgyblion yn fynych pan oedd gyda hwynt ar y ddaear. Cydgynnulliad yr Athraw a'i ddysgyblion eu hunain oedd y cyfarfodydd hyn; ynddynt hwy y byddai efe yn egluro iddynt *ddirgelion teyrnas nefoedd,* ond i'r rhai *oeddynt oddiallan*—y cynnulliadau cyhoeddus—*ar ddammegion y gwneid pob peth.* Anrhydeddodd a chysegrodd gydgynnulliadau neillduol ei ddysgyblion ar ol ei adgyfodiad, trwy ymddangos ac egluro ei hunan iddynt ynddynt amryw droion; ac ar y cydgynnulliad hwn y disgynodd yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost. Yr oedd y sefydliad hwn mor bwysig a chysegredig yn ngolwg yr apostol Paul, fel y mae efe yn tynghedu un o'r eglwysi yr ysgrifenai atynt yn ei enw—"Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, er dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cydgynnulliad ninnau ato ef, na'ch sigler yn fuan oddiwrth eich meddwl," &c., (2 Thes. ii. 1, 2.) Yr oedd rhai o'r Hebreaid wedi myned yn esgeulus o'u cydgynnulliad Cristionogol, ac yn euog o'r arfer o'i esgeuluso, ac yr oedd y personau hyny mewn perygl neillduol o syrthio i wrthgiliad cyfangwbl. Yr oeddynt wedi gwrthgilio i raddau pell iawn eisoes, a gwelai yr apostol eu bod yn sicr o ddybenu mewn hollol ymadawiad oddiwrth eu proffes, os na adferid hwy yn fuan oddiwrth yr arferiad peryglus hwn. Yr oedd yr Hebreaid, wrth ymgynnull felly ar eu penau eu hunain, yn gosod eu personau a'u hamgylchiadau mewn enbydrwydd nid bychan—yn nodau amlwg i wawd a chynddaredd erlidus eu brodyr, yr Iuddewon anghrediniol; ond etto, nid oedd yr enbydrwydd hwnw yn ddigon o esgus iddynt i esgeuluso eu cydgynnulliad, yn marn yr apostol. Beth a feddylir ynte am luaws mawr o broffeswyr crefydd yn ein gwlad a'n dyddiau ni, sydd yn euog o'r arfer o dan sylw? Nid oes ganddynt hwy un cysgod na rhith o esgus, fel ag oedd gan yr Hebreaid, i'w gynnyg dros eu hymddygiad. Ni raid wrth brophwyd i ragfynegu beth fydd tynged yr esgeuluswyr musgrell hyn. Y maent yn tynu yn ol yn raddol, ond yn sicr; ac os na feddyginiaethir hwy yn fuan, encil tragwyddol fydd y canlyniad. O holl elfenau gwendid a nychdod yr eglwys Gristionogol, yr esgeuluso hwn, efallai, yw y penaf. Y dydd mawr a ddaw yn unig a ddengys faint o niwaid a wnaeth yn Seion; gymaint o ofid a digalondid a barodd i'r ffyddloniaid; gymaint a nychodd ar brydferthwch a grym llwyddiant yr eglwysi—yr holl ddrwg a wnaeth y gelyn hwn yn y cysegr, drwy arwain llaweroedd i gaethiwed gwrthgiliad—drwy attal cynnydd ysbrydol, a nychu eneidiau eraill, a'u cadw dros eu holl fywyd mewn tlodi a nychdod; ac os diangant yn gadwedig yn y diwedd, megys trwy dân y bydd hyny. Gorweddodd yr esgeulusdra hwn mor drwm ar gydwybod llawer proffeswr wrth farw, nes y bu yn gyfyng ac yn galed iawn arno.

*Ond annog bawb ein gilydd.* Dyma un o ddybenion cydgynnulliad y saint—cynghori, rhybuddio, annog, a chryfhau y naill y llall, a chydymdeimlo a dwyn beichiau eu gilydd. *Annog i gariad a gweithredoedd da,* medd efe yn yr adnod o'r blaen.

*A hyny yn fwy, o gymaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.* Y dydd y cyfeirir yma yn neillduol ato ydoedd, dydd dinystr Jerusalem a gwasgariad y genedl—y dydd y rhagfynegasai yr Arglwydd i'w ddysgyblion am dano. Yr oedd arwyddion amlwg iawn i'w gweled pan oedd yr apostol yn ysgrifenu y llythyr bod y dydd hwnw gerllaw, wrth y drws; ac yr oedd hyny yn galw ar y Cristionogion i fod yn fwy dyfal, diwyd, a gofalus, nac un amser, yn eu cydgynnulliadau, i gadw yn agos *at* eu gilydd, ac i fod yn ofalus iawn *am* eu gilydd, mewn trefn i gydymbarotoi i gyfarfod â phrawf tanllyd y dydd yr oeddynt yn gweled ei fod bellach yn ymyl.

26 Canys os o'n [c] gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach.

[c] Num. 15. 30; Heb. 6. 4, &c.

Y mae yn eithaf amlwg mai y pechod neillduol o wrthgilio—gwadu y broffes o'r efengyl—a olygir yma. Gwarchod a gwaredu yr Hebreaid rhag y drwg mawr hwn ydyw prif amcan yr apostol o ddechreu ei lythyr hyd ei ddiwedd—y pechod y dengys efe fod esgeuluso y cydgynnulliad Cristionogol, a grybwylla yn yr adnod flaenorol, yn ogwyddiad ato, ac yn arwain iddo, oni ragflaenid yr aflwydd mewn pryd, trwy ddiwygiad; gan hyny, annoga hwy i wylio yn ofalus y naill dros y llall, i rybuddio eu gilydd o'r perygl. Yma, drachefn, dengys ysgelerder ofnadwy y pechod hwn, a'r canlyniadau arswydus a dinystriol o hono,

*Canys os o'n gwirfodd y pechwn*—drwy bwyllog ac araf gilio—esgeuluso ein cydgynnulliad—nes o'r diwedd ymadael â'n proffes o'r efengyl; pechu o wirfodd ac o fwriad fydd hyny. Gwadodd Pedr ei Arglwydd yn ddisymwth yn ngrym profedigaeth danllyd; ac nid yn bwyllog, ac oddiar ragfwriad, fel y bradychodd Judas ef. Adferwyd Pedr yn fuan, ond ni adferwyd Judas byth. Y mae y gwrthgiliad a ddysgrifir yma yn dwyn mwy o ddelw pechod yr olaf na'r cyntaf.

*Ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd.* Yr oedd yr Hebreaid wedi derbyn y wybodaeth hon. Yr oedd eu deall a'u cydwybod wedi eu goleuo a'u hargyhoeddi o wirionedd yr efengyl, ac yr oeddynt wedi eu hennill i wneud proffes gyhoeddus o honi. Y mae bod dynion yn proffesu y gwirionedd yn rhagdybied eu bod wedi derbyn rhyw raddau o wybodaeth o hono fel gwirionedd dwyfol; ac os, er meddu y wybodaeth hon, y gwedir y broffes yn bwyllog a gwirfoddol, dywed yr apostol, nad oes *aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach.* Y mae y cyfryw yn cefnu ar yr unig aberth, yr unig drefn am fywyd ac iachawdwriaeth, sydd yn bod; canys aberth Crist a osodir allan yn yr efengyl ydyw yr unig aberth dros bechodau a fu erioed, ac a fydd byth; ni fedd, ac ni threfna Duw yr un arall yn dragywydd; gan hyny, nid oes i'r hwn a gefno ar hwn un gobaith.

27 Eithr rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac [d] angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.

[d] Seph. 1. 18; 3. 8.

Dyma gyflwr arswydus y gwrthgiliwr gwirfoddol. Bydd goleuni y wybodaeth o'r gwirionedd a dderbyniasai yn troi yn dywyllwch o'i fewn—yn golyn llym o hunangondemniad yn ei gydwybod. Cluda felly yn ei fynwes ei hun ernes o'r gosbedigaeth sydd yn ei aros mewn rhyw *ddysgwyl ofnadwy* am dani. Bwriodd ymaith *gyffes ei obaith*, fel nad oes ganddo ond y dysgwyl ofnadwy hwn *am farnedigaeth, ac angerdd tân*—dedfryd gondemniol a soriant cyfiawn Duw ar ei berson. Arwydda yr ymadrodd *angerdd tân* yr amlygiad cryfaf o'r anfoddlonrwydd dwyfol yn erbyn trosedd o'r fath waethaf, a mwyaf ysgeler. *Yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr*—nid bodolaeth, ond holl gysuron a gobeithion gelynion a gwrthwynebwyr Crist a'r efengyl.

28 Yr [e] un a ddirmygai gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion:

[e] Deut. 17. 2—7, 13.

Nac edrychwch ar yr ymadroddion hyn megys yn rhy gryfion, ac na feddyliwch fy mod yn gorliwio y mater, fel ue dywedasai yr apostol; canys onid oedd yn gyffelyb dan yr hen gyfammod? Cosbid yr hwn a ddirmygai gyfraith Moses â marwolaeth heb drugaredd pan y'i ceid yn euog ar dystiolaeth dau neu dri o dystion. Cyfeirir yma at y troseddau marwol yn wyneb deddf Moses. Nid oedd pob trosedd o'r ddeddf hòno yn bechod i farwolaeth, ond yn unig y troseddau a gyflawnid yn erbyn gwybodaeth, ac mewn rhyfyg; y dyn a gyflawnai drosedd y gwyddai ei fod yn farwol yn wyneb y gyfraith, a ruthrai felly yn benderfynol a rhyfygus iddo, nid oedd ond marw heb drugaredd iddo i'w ddysgwyl. Ni feddai y cyfammod yr un aberth i'w roddi trosto, nac un llwybr i'w arbed. Yn gyferbyniol i'r pechodau rhyfygus hyny dan y gyfraith, gesyd yr apostol yma y pechod o wrthgilio yn wirfoddol dan yr efengyl, a'r cosbau hefyd yr un modd yn gyferbyniol. Yr oedd y gyfraith yn cymeryd bywyd naturiol y troseddwr oddiarno, dyna oedd ei marwolaeth hi. Nid yw yr efengyl yn gweinyddu ei chosbau hi drwy y swyddog gwladol ar ei throseddwyr; fel goruchwyliaeth ysbrydol, y mae ei chosbau a'i gwobrwyon yn ysbrydol hefyd. Ei dynodrwydd arbenigol hi ydyw, ei bod yn dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni, ac y mae ei gwobrwyon addawedig, a'i chosbau bygythiedig, i'w gweinyddu yn y byd ysbrydol a thragwyddol hwnw y dygodd hi oleuni a sicrwydd am dano. Yno y teyrnasa y bywyd a'r farwolaeth y sonia hi am danynt.

## 29 Pa [f]faint mwy cosbedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfammod, trwy yr hwn y santeiddiwyd ef, ac a ddifenwodd [g]Ysbryd y gras?

[f]Heb. 2. 3. [g]Mat. 12. 31, 32.

*Pa faint mwy cosbedigaeth*—na marw heb drugaredd drwy labyddiad, fel y cosbid y neb a ddirmygai gyfraith Moses—*debygwch chwi?* Appelia yr apostol y mater at ymsyniaeth a chydwybodau ei ddarllenwyr. Onid yw yr hwn, trwy wrthgiliad gwirfoddol, a fathro Fab Duw, yn haeddu cosbedigaeth, neu farwolaeth, fwy ofnadwy na'r hwn a ddirmygai gyfraith Moses? Y mae yn ddiau yr addefwch ei fod. Y mae ei bechod yn fwy, yn erbyn goleuni mwy, ac yn erbyn urddas uwch; yn gymaint ag y mae Crist, y Mab, yr hwn y llefara Duw ynddo yn yr efengyl, yn haeddu mwy gogoniant na Moses, y gwas, trwy yr hwn y rhoddwyd y gyfraith.

Y mae yr hwn a becho fel hyn, o'i wirfodd, drwy wrthgilio, er gwadu yr efengyl, yn euog yn mhellach o *farnu yn aflan waed y cyfammod, trwy yr hwn y santeiddiwyd ef.* Santeiddiwyd, neu neillduwyd Israel yn bobl briodol i Dduw, dan Sinai, drwy eu taenellu â gwaed y cyfammod, ac yr oedd eu gwaith yn gŵyro drachefn at eulunaddoliaeth yn dòriad cyfammod, a'r pechod hwnw yn unig a ystyrid felly. Yr oeddynt drwy hyny yn halogi eu cysegriad i Dduw trwy waed aberth y cyfammod a daenellesid arnynt i'r perwyl, ac megys yn ei fathru drwy ei gyfrif yn beth dibris a dirinwedd. Yr un modd y dengys yr apostol, bod gwrthgilwyr gwirfoddol oddiwrth yr efengyl yn diystyru gwaed aberth y cyfammod newydd, trwy yr hwn yr oeddynt wedi eu neillduo oddiwrth y byd fel Cristionogion proffesedig, yn yr hon broffes y mae yr athrawiaeth o aberth iawnol y Messïa yn brif elfen. Y mae gwrthgiliad oddiwrth y broffes Gristionogol yn taflu y dirmyg a'r diystyrwch mwyaf gan hyny ar aberth Crist, gan fod y weithred yn cynnwys ardystiad nad oes na rhin na gwerth ynddo, ac mai ofer a difudd ydyw ffydd ynddo, a phroffes o hono.

Yr elfen arall yn y pechod ysgeler hwn ydyw, *difenwi Ysbryd y gras*—yr Ysbryd Glan, yr hwn yw Goruchwyliwr mawr teyrnas gras, yr hwn yw achosydd a chyfranydd pob gras a dawn a gynnwysir yn yr efengyl. Fel y mae efe yn brif oruchwyliwr gweinidogaeth y cyfammod newydd, yr hon a elwir ar y cyfrif hwnw, "Gweinidogaeth yr Ysbryd," rhaid fod y pechod o wrthgilio yn taro yn uniongyrchol yn

erbyn swydd a nodwedd yr Ysbryd. Y mae mewn effaith yn rhoddi y celwydd iddo, yn difenwi ei eirwiredd, ac yn taflu y diystyrwch mwyaf ar ei gariad a'i raslonrwydd.

30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd, [h] Myfi *biau* dïal, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd. A thrachefn, [i] Yr Arglwydd a farna ei bobl.

[h] Deut. 32. 35, 36. [i] Salm 135. 14.

Yr ydym yn gwybod am dano, am ei fawredd, ei allu, ei eirwiredd, a'i gyfiawnder. Ni a wyddom mai Duw eiddigus ydyw, na oddefa i drosedd ddianc yn ddigosb. Cymerir yr ymadroddion o Deut. xxxii. 35, 36.

*Myfi biau dial*—nid yw yn perthyn i neb arall. Y mae yr hawl a'r awdurdod yn perthyn yn briodol ac yn unig i'r Penllywydd mawr, yr "Un gosodwr cyfraith, yr hwn a ddichon gadw a cholli." Y mae yn wir fod awdurdod gyfreithlawn gan swyddog i gosbi troseddwyr yn erbyn iawnderau gwladol cymdeithas. Os pecha gwr yn erbyn gwr, y swyddogion a'i barnant ef; ond ni pherthyn i'r swyddog gwladol gymeryd arno gosbi troseddau o natur ysbrydol, na barnu yr achos personol rhwng dyn a Duw. *Myfi biau dial, myfi a dalaf*—iddo ef y perthyn cosb, ac efe a'i gweinydda, gan dalu i bob un yn ol ei weithred; ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod dan y gyfraith gyfiawn daledigaeth, yn sicr ynte ni ddianga y trosedd hwn o fathru Mab Duw, a barnu yn aflan waed y cyfammod, a difenwi Ysbryd y gras, heb ei gyfiawn a'i gyflawn gosbi.

*A thrachefn, Yr Arglwydd a farna ei bobl.* Y mae y peth yn cael ei sicrhau yn mhellach yn yr ymadrodd hwn. Er nad yw yr ymadroddion o gân Moses yn perthyn yn uniongyrchol i'r pwnc sydd gan yr apostol mewn llaw yma, y maent yn eithaf priodol i'w cymhwyso ato. Y maent yr un mor wirioneddol a phriodol i'r achos y benthycir ac y cymhwysir hwynt ato gan Paul, ag oeddynt yn eu perthynas â'r achos oedd mewn golwg gan Moses, pan y llefarodd efe hwynt gyntaf.

31 Peth ofnadwy *yw* syrthio yn nwylaw y Duw byw.

Terfyna yr adran gyffrous hon gyda chrochwaedd arswydlawn. Safa yr apostol megys uwchben ceudwll llosgfynydd, o ddyfnderau dirfawr yr hwn yr ymgyfyd colofnau o fwg, a thân, a llosgfal, gan droelli a rhuo yn ddychrynllyd, ac ymgyfyd y dybiaeth o syrthio dros ei ymyl i mewn i'w berfeddion berwedig yn ei feddwl, nes y try yn ddisymwth oddiwrtho mewn arswyd a dychryn, dan waeddi, "*Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw.*" Y mae yn rhy ofnadwy i geisio ei ddysgrifio, nac i sefyll uwch ei ben i ymsynio arno. Hebreaid! gochelwch ef am eich bywyd! Gwyliwch rhag y llwybr sydd yn arwain iddo. Pen y llwybr hwnw ydyw, esgeuluso eich cydgynnulliad eich hunain, arweinia hyny i wrthgiliad hollol yn y pen draw, a drwy hyny chwi a syrthiwch yn anocheladwy yn y diwedd i afael y *farnedigaeth*, yr *angerdd tân*, a'r *peth ofnadwy* hwn, *syrthio* yn nwylaw dialeddol y *Duw byw.*

32 Ond gelwch i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai, wedi eich goleuo, y dyoddefasoch ymdrech mawr o helbulon:

Arweinia yr apostol feddyliau yr Hebreaid yn awr yn ol at ddyddiau boreuol a goreu eu crefydd—eu cariad cyntaf. Pan newydd eu goleuo a'u dychwelyd trwy'r efengyl, yr oeddynt yn llawn sel, ymdrech, a diwydrwydd,—yn gryfion a dianwadal yn eu meddyliau, a'u hymlyniad wrth eu proffes, ac yn ewyllysgar a pharod i ddyoddef helbulon mawrion ac erlidiau blinion yn achos eu crefydd. Buasai tuedd cryf mewn adgofio hyny i'w hadferu a'u meddyginiaethu o'u gwendid a'u nychdod presenol, a'u gwneuthur yn gryfion ac ymroddgar fel yr oeddynt ar y cyntaf. "Cofia, gan hyny, o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf," ydoedd y cynghor a roddai Mab Duw i eglwys arall, oedd yn y cyffelyb sefyllfa ag oedd yr Hebreaid hyn ynddi, pan ysgrifenai Paul yr epistol atynt.

33 Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau; ac weithiau yn bod yn [k] gyfranogion â'r rhai a drinid felly.

[k] 1 Thes. 2. 14.

*Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau.* Yn *wawd*—yn wrthddrychau cyhoeddus o ddirmyg eu cydgenedl oblegid eu crefydd, y rhai a ddywedent bob drygair am danynt er mwyn Crist. Llwythid hwynt â gwaradwyddiadau, a phoenid a chystuddid hwynt yn mhob modd a allai malais elynol yr Iuddewon anghrediniol ei ddyfeisio. Dyoddefasant hwythau yr holl driniaeth galed a chreulon hon yn dawel ac amyneddgar.

*Ac weithiau yn bod yn gyfranogion â'r rhai a drinid felly.* Hyny yw, gosodent eu hunain yn wirfoddol yn agored i'r triniaethau hyn, drwy amlygu eu cydymdeimlad Cristionogol â brodyr oedd yn dyoddef erlidiau, pan y gallasent, drwy guddio y cydymdeimlad hwn, ymgadw rhag bod yn gyfranogion ar y pryd hwnw â'r rhai a drinid felly. Drwy ymweled â'u brodyr erlidiedig yn eu carcharau a'u cystuddiau, gosodent eu hunain yn nodau i gynddaredd y gelynion erlidus, a gwnelid hwynt yn gydgyfranogion o ddyoddefiadau y rhai yr amlygent eu cydymdeimlad â hwy.

34 Canys chwi a gyd-ddyoddefasoch â'm rhwymau i hefyd, ac a gymerasoch eich yspeilio am y pethau oedd genych yn llawen: gan wybod fod genych i chwi eich hunain olud gwell yn y [l] nefoedd, ac un parhaus.

[l] Luc. 12. 33.

*Canys chwi a gyd-ddyoddefasoch â'm rhwymau i hefyd.* Rhoddir darlleniad gwahanol o'r ymadrodd hwn, ac y mae y beirniaid yn petruso pa un ai hwnw ai yr un cyffredin ydyw yr un priodol. Dewisa Stuart yr un hwnw, sef, "*Chwi a gydymdeimlasoch â'r rhai a garcherid,*" sef yn achos yr efengyl. Ni ellir penderfynu pa un a ydyw yr apostol yma yn cyfeirio at ryw amgylchiad yn ei hanes ef ei hun, yn yr hwn yr amlygasai yr Hebreaid eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd tuag ato, neu ynte at amrywiol amgylchiadau y buasent yn gweini i gysur ac angenrheidiau y saint erlidiedig, gan roddi prawf felly o'u cariad a'u gwrolder Cristionogol.

*Ac a gymerasoch eich yspeilio am y pethau oedd genych yn llawen; gan wybod fod genych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus.* Dyoddefasant y colledion tymmorol hyn yn achos yr efengyl yn wirfoddol, ewyllysgar, a llawen, oddiar yr ymwybodaeth a roddai eu crefydd iddynt, sef bod ganddynt iddynt eu hunain yn y nefoedd olud—etifeddiaeth—well, barhaus, a thragwyddol—gwell na'r pethau a'r meddiannau bydol yr yspeilid hwynt o honynt—gwell yn eu natur, a gwell yn eu parhad, na golud anwadal y byd hwn—golud ac etifeddiaeth na allasai eu hyspeilwyr o'u pethau tymmorol eu cymeryd oddiarnynt, "trysor yn y nef," am yr hwn y dywedasai eu Hathraw na ddiflanai, ac na lygrai gwyfyn na rhwd ef, ac na allasai lladron gloddio trwodd a'i ladrata.

35 Am hyny na fwriwch ymaith eich hyder, yr hwn sydd iddo [m] fawr wobr.

[m] Mat. 5. 12.

*Am hyny*—wedi i chwi fwynhau y fath brofiad cryf, cysurlawn, trwyddo—wedi i chwi, yn ei nerth ef, ddyoddef cymaint o golledion, cystuddiau, a gwaradwyddiadau, yn achos yr efengyl, na fwriwch ef ymaith, na ollyngwch eich gafael o hono yn awr, drwy lwfrdra a digalondid o herwydd eich gorthrymderau presenol; y mae yr hyder hwn yr un mor alluog i'ch cynnal a'ch dyddanu dan eich trallodion presenol, ag ydoedd o'r blaen: y mae iddo fawr wobr, a'r neb a barhao hyd y diwedd a etifedda y wobr fawr hôno. Y mae pob peth ag oeddynt yn gweinyddu i chwi nerth a chysur dan y profedigaethau gynt, yn aros ac yn parhau yr un etto. Y mae galw i gof y pethau a fuont yn nerth a dyddanwch mewn profedigaethau blaenorol, yn gymhorth a chynnaliaeth yn wyneb y cyffelyb drallodau yn bresenol. Felly cyfarwydda yr apostol yr Heb-

reaid, ag oeddynt yn digaloni dan eu gorthrymderau y pryd hwnw, i alw i gof y dyddiau gynt—yr ymdrech fawr o helbulon a ddyoddefasent, a hyny yn llawen, a'r peth a roddasai nerth a modd iddynt i ddyoddef felly.

36 Canys rhaid i chwi wrth [n] amynedd; fel, wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.

[n] Luc 21. 19.

Rhaid i chwi yn ddiau wrth amynedd, ysbryd ymroddgar, dyoddefgar, yn wyneb y profedigaethau tanllyd yr ydych ynddynt, ac i fyned trwyddynt etto—ysbryd o ddysgwyliad hyderus wrth Dduw, ac o ymddiried ynddo, y bydd iddo yn y diwedd drefnu i chwi ddedwyddol ymwared, fel, wedi i chwi wneuthur ei ewyllys, trwy barhau yn ddianwadal yn eich cyffes o Grist, y derbynioch yr addewid, sef y wobr addawedig yn amser a llwybr Duw ei hun.

37 Oblegid ychydig bachigyn etto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid [o] oeda.

[o] Hab. 2. 3.

Ni bydd raid i chwi wrth yr amynedd hwn i ddyoddef a dysgwyl yn hir, y mae eich ymwared yn nesâu. Y mae arwyddion agosâd dydd yr ymwared yn amlhau ac yn cryfhau yn barhaus. *Ychydig bachigyn etto*—ychydig bach iawn o amser bellach, *a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.* Cyfeirir yma at ddyfodiad Mab y dyn, a ragfynegwyd ganddo ef ei hun wrth ei ddysgyblion, i dywallt ei farn olaf ar y genedl anghrediniol—i ddinystrio eu dinas a'u teml, a llwyr ddiddymu goruchwyliaeth yr hen gyfammod oddiar ffordd goruchwyliaeth y cyfammod newydd a gwell, a sefydlasai ef ei hun, trwy ei athrawiaeth, ei aberth, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw. Yn y dyfodiad hwn, efe a gymerai y cwpan o law y Cristionogion i'w dodi yn llaw y gelynion, talai gystudd i'r rhai oedd yn cystuddio ei bobl, a dygai esmwythdra iddynt hwythau y rhai a gystuddid.

38 A'r cyfiawn a fydd byw trwy [p] ffydd: eithr o thyn *neb* yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.

[p] Hab. 2. 4

*A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.* Dyfyna yr apostol yr ymadrodd hwn o brophwydoliaeth Habacuc, gan ei gymhwyso at yr amgylchiad presenol. Traethai Habacuc am ymweliad barnol oedd gerllaw y pryd hwnw, pan oedd yr Arglwydd ar ddwyn y Caldeaid—"cenedl chwerw a phrysur," a'i chymeryd yn fflangell yn ei law i geryddu Israel am eu pechodau. Erchid i'r prophwyd ysgrifenu y weledigaeth, a'i gwneud yn eglur ar lechau, fel y rhedai yr hwn a'i darllenai, ac y diangai felly mewn pryd rhag y farn. Credai y ffyddloniaid y weledigaeth, a chymerent y rhybudd i ddianc yn brydlon i le o ddiogelwch, a byddent felly byw trwy ffydd—trwy gredu a defnyddio yr unig foddion o waredigaeth, pan y trengai yr anystyriol a digred dan y farn. Felly dywed yr apostol y cedwid y ffyddloniaid rhag y farwolaeth gyffredinol a ymaflai yn y genedl anghrediniol yn y farn ofnadwy oedd yn awr gerllaw, pan oedd Mab y dyn ar ddyfod, drwy offerynoliaeth y gallu Rhufeinig, i dywallt tân y dialedd dwyfol hyd yr eithaf ar Jerusalem a chenedl yr Iuddewon. Diangodd y Cristionogion rhag y dinystr hwnw drwy ffydd—trwy ddal ar, a chredu y rhybuddion a roddasai yr Arglwydd Iesu i'w ddysgyblion, a rhedeg ymaith mewn pryd fel y cawsent eu cyfarwyddo i wneud; ond y mae diogelwch y cyfiawn trwy ffydd, rhag marwolaeth dragwyddol, yn cael ei sicrhau yma hefyd.

*Eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.* Aralleiriad o ymadrodd Habacuc ydyw hwn etto. Cyfnewidia yr apostol drefn ymadroddion y prophwyd, gan osod yr olaf yn gyntaf, a'r cyntaf yn olaf; a chyfnewidia y geiriau yn yr ymadrodd dan sylw: "Yr hwn sydd yn ymchwyddo, nid yw uniawn ei enaid ynddo," ydyw gan y prophwyd, neu fel y dewisa rhai gyfieithu yr ymadrodd, "Yr hwn sydd yn dirmygu, ni bydd dedwydd ei feddwl;" hyny yw, efe a fydd yn druenus. Yn lle "yr hwn sydd yn ymchwyddo, neu yn dirmygu," defnyddia'r apostol ym-

adrodd arall, *O thyn neb yn ol,* fel yn fwy cymhwys i'r achos mewn llaw. Ei amcan o hyd ydyw, calonogi'r Hebreaid i ddal a glynu yn y ffydd, a'u hattal rhag digaloni, llwfrhau, a chilio yn ol; a dengys yma unwaith drachefn y perygl o hyny, y byddai yr hwn a dynai yn ol yn syrthio dan anghymeradwyaeth ac anfoddlonrwydd trymaf Duw. *Nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.*

39 Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn [q] ol i golledigaeth; namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.

[q] Adn. 26.

*Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth.* Traetha yma ei obaith am barhad yr Hebreaid hyd y diwedd yn y ffydd, megys y gwnaethai rai gweithiau o'r blaen. Coeliai am danynt bethau gwell o hyd, er ei fod yn dywedyd fel hyn drachefn a thrachefn, mewn trefn i'w rhybuddio a'u gosod ar eu gocheliad. Yr oedd y rhybuddion cyffrous hyn yn angenrheidiol i'w cadw yn effro, ac ar eu gwyliadwriaeth rhag y perygl; a'r hyder a ddangosai fod ganddo ynddynt, yn galondid mawr iddynt i hyn, a pharhau yn y ffydd, megys y mae ymwybodaeth byddin o filwyr fod gan eu blaenor hyder cryf yn eu ffyddlondeb a'u dewrder, yn nerth ac yn annogaeth gref iddynt i gyflawni eu dyledswyddau milwrol; felly yr oedd yr apostol yn ofalus o hyd am roddi ar ddeall i'r Hebreaid fod ganddo feddyliau da am eu crefydd, a hyder mawr y byddai iddynt ddal a pharhau yn ffyddlon hyd y diwedd, gan wybod y buasai hyny yn annogaeth gref iddynt i barhau felly.

*Namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.* Yn hytrach na'n bod o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth dymmorol a thragwyddol, yr ydym ni o ysbryd arall, ysbryd ffydd, glynu, tynu yn mlaen yn yr yrfa Gristionogol, trwy bob rhwystrau ac anhawsderau, nes derbyn diwedd ein ffydd, sef iachawdwriaeth ein heneidiau.

---

## PENNOD XI.

1 *Beth ydyw ffydd.* 6 *Heb ffydd ni allwn ni ryngu bodd Duw:* 7 *ei ffrwythau rhagorol hi yn yr hen dadau gynt.*

FFYDD yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu [r] gweled.

[r] Rhuf. 8. 24, 25.

Rhoddir lle mawr, a'r lle penaf, i ffydd yn nghrefydd yr efengyl; â ffydd, ac â ffydd yn unig, y cysylltir cadwedigaeth pechadur, a chyfiawnhad yr euog gyda Duw. Dysgir ni nad oes, nid yn unig i weithredoedd y ddeddf, ond yn gystal a hyny, nad oes i un gras efengylaidd arall, ond ffydd, ran na chyfran fel sylfaen na moddion cyfiawnhad troseddwr ger bron ei Farnwr. Traethwyd llawer am dani yn achlysurol yn yr epistol hwn o'r blaen, a chrybwyllwyd am dani yn niwedd y bennod flaenorol. A'r apostol yn mlaen yn mhellach i draethu yn fwy penodol am dani, gan roddi darnodiad o'i natur, er dangos beth ydyw y ffydd hon y soniasai gymaint am dani, ac y rhoddir y fath bwys mawr arni. Ni amcana yr apostol yma roddi darnodiad llawn o ffydd, ond yn unig am yr agweddiad neillduol o honi sydd yn awr o dan sylw ganddo. Pe rhoddasai ddarnodiad o ffydd yn yr agweddiad y traetha am dani yn ei epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid, buasai yn ddiau rywbeth yn wahanol i'r un a rydd yma; ond hwn yw yr un sydd gymhwys a phriodol i'r pwrpas presenol. Ffydd, nid fel y mae yn cyfiawnhau yr annuwiol ger bron Duw, ond fel y mae yn gweithredu amynedd i ddyoddef erlidiau, a dysgwyliad hyderus am ddedwydd ymwared yn amser Duw, yn yr enaid crediniol, sydd ganddo yma. Ffydd mewn person—yn Nghrist, sydd yn cyfiawnhau y pechadur; ond ffydd mewn *pethau*—sylweddau anweledig, sydd dan sylw yn awr. Yr un a'r unrhyw ydyw hi; ond y mae iddi ei gwahanol agweddau a gwrthddrychau. *Sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio.* Y mae hi yn sylweddu y pethau hyny i'r meddwl, oddiar dystiolaeth ac addewidion Duw am danynt —y pethau cynnwysedig yn "y fawr wobr" y sonid am dani o'r blaen, fel yn perthyn i'r hyder Cristionogol—pethau i'w gweled a'u mwynhau yn y dyfodol. Y mae ffydd yn sail gobaith am y pethau hyny.

*A sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.* Fel y mae gweled gwrthddrychau a phethau anianyddol yn dwyn sicrwydd diymmod i'r meddwl o'u bodolaeth, felly y mae ffydd yn nhystiolaeth gair ac addewidion Duw yn dwyn sicrwydd i'r enaid am fodolaeth sylweddau anweledig y byd ysbrydol. Ymorphwysiad hyderus ydyw ar wirionedd yr oll a ddywed Duw yn ei air am bob peth. Yr un yn hollol ydyw hi o ran ei hansawdd yn ei holl weithrediadau. Credu Duw ydyw. Ei gweithrediad ar dystiolaeth Duw am ei Fab sydd yn dwyn cyfiawnhad bywyd i'r enaid; a'i hyder ar addewidion Duw am ogoniant, anllygredigaeth, a bywyd tragwyddol, yn y byd a ddaw, sydd yn gweithredu amynedd, a dyoddefgarwch dan orthrymderau a thrallodau y byd hwn, ac yn nerthu yr enaid i orfoleddu ynddynt dan obaith gogoniant Duw.

2 Oblegid trwyddi hi y cafodd yr henuriaid air da.

Trwy y ffydd hon yr ydym yn son am dani y *cafodd yr henuriaid*—yr henafiaid gynt, yn batriarchiaid, barnwyr, a phrophwydi, y coffeir am danynt yn yr Hen Destament, *air*—tystiolaeth, enw da. Yr oeddynt hwy oll yn ei meddu, ac yn ei gweithredu, fel y dangosir yn mlaen. Dygir hwy yn mlaen, a gosodir hwy yn rhestr gyda'u gilydd ger bron yr Hebreaid yma, fel esiamplau ac annogaethau iddynt i'w hefelychu. Cawsant—ennillasant, *air da*—clod, canmoliaeth, anrhydedd, trwy ffydd. Cawsant *air da* a chymeradwyaeth Duw ei hun, dygodd dystiolaeth o'i foddlonrwydd iddynt. Cawsant yr anrhydedd, trwy ffydd, o gael rhestru eu henwau a'u rhinweddau yn ngair Duw. Cawsant, ac y mae iddynt *air da* yn yr eglwys, ac yn y byd hefyd yn mhob oes. Lloffodd yr apostol enwau a rhinweddau yr henafiaid hyn oddiar faes hanesyddiaeth yr Hen Destament, a rhwymodd hwynt yn nghyd, fel y maent i'w gweled yn y bennod hon, megys swp o rawnwin, ac erys y cyfiawnion hyn byth mewn bendigedig goffadwriaeth, tra y mae enwau dynion drygionus ac annuwiol, oeddynt yn gydoeswyr â'r naill a'r llall o honynt, yn pydru mewn ebargofiant. Rhydd annuwiolion y byd yn fynych air da i'r henafiaid a grybwyllir yma, megys yn ddiarwybod iddynt eu hunain, drwy enwi eu plant ar eu henwau hwy. Y mae yr enwau Abel, Enoch, Noah, Abraham, Isaac, Jacob, a'r lleill oll, yn fynych iawn ar ddynion yn mhob gwlad lle y darllenir yr ysgrythyrau, tra nad oes neb byth yn caru dodi yr enwau Cain, Nimrod, Pharaoh, Haman, Jeroboam, a'r cyffelyb, ar eu plant. Gadewir yr enwau hyny i bydru mewn anghof. Y mae y cymeriadau drygionus a fuont yn eu gwisgo wedi rhoddi drygsawr arnynt, fel y maent yn wrthodedig byth.

3 Wrth ffydd yr ydym yn [a]deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.

[a] Gen. 1. 1; Salm 33. 6.

*Wrth*, neu trwy ffydd, yn nhystiolaeth yr ysgrythyr ar y mater hwn, *yr ydym yn deall*—yr ydym yn cymeryd y dystiolaeth noeth yn ddigonol a boddlonol i'n meddyliau am y ffaith o greadigaeth pob peth ar y dechreu trwy air, nerth, ac ewyllys Duw, gan ymwrthod â holl fympwyon y doethion a'r athronwyr am y peth, fel breuddwydion ofer, a dychymygion gweigion. Y mae yr ymadrodd cyntaf yn y llyfr dwyfol fel hyn yn rhoddi gwaith i ffydd. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwynt."

*Yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.* Nid o fater—o ddefnyddiau ag oeddynt yn hanfodi yn flaenorol—y dygwyd ac y ffurfiwyd y greadigaeth i'r drefn y mae i'w gweled yn awr. Y mae y dyb o hanfodiad tragwyddol mater yn cael ei gwrthdystio yn yr ymadrodd hwn, er y myn rhai esbonwyr mai dygiad y greadigaeth weledig i'w threfn bresenol a olygai yr ysgrifenydd; ond y mae Stuart, ac eraill, yn profi yn ddiwrthddadl, feddyliem, na oddefa y geiriad a'r gystrawen y meddwl hwnw ar un cyfrif, ac mai meddwl yr apostol ydyw, bod y defnyddiau o ba rai y ffurfiwyd y bydoedd wedi eu crëu ar y cyntaf o ddim trwy weithrediad ewyllys a gair Duw.

4 Trwy ffydd yr offrymodd [t] Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain; trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn, gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef: a thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto.

[t] Gen. 4. 4, 5.

Ar ben y rhestr anrhydeddus o ffyddloniaid gosodir Abel, y cyntaf erioed o ddynion a brofodd farwolaeth, a'r cyntaf o berchenogion y ffydd hon y gwneir sylw o hono yn yr ysgrythyr. Y mae hi yn hollol ddystaw mewn perthynas i ffydd Adda. Y mae yr hanes santaidd yn ei adael ef yn nhywyllwch ei gwymp, megys heb son dim yn benodol am ei adferiad; ond y mae genym ryw seiliau i gasglu a gobeithio oddiwrth oruchwyliaeth rasol Duw tuag ato, ei fod ef a'i wraig wedi eu hadferu trwy ffydd yn yr addewid gyntaf a dderbyniasant; ond, modd bynag, ni chododd Adda ei ben byth drachefn ar faes yr ysgrythyrau, ac ni anrhydeddwyd ei enw â lle yn mysg y ffyddloniaid a gofnodir yma.

Y mae yn naturiol iawn i gasglu ddarfod i Cain ac Abel gael eu haddysgu i offrymu i Dduw gan eu tad Adda, ac iddynt ei weled ef yn cyflawni y gwasanaeth fel tad ac offeiriad y teulu lawer gwaith, er na chrybwylla yr hanes santaidd ddim am ei offrymau ef. Dysgasid Adda ei hun yn ddiau gan Dduw i aberthu, pe amgen, ni ddaethai byth i'w feddwl ef na'i blant i gyflawni y fath wasanaeth o grefydd.

Tebygol yw mai yr amgylchiad y cyfeirir ato oedd y waith gyntaf erioed i'r ddau frawd offeiriadu drostynt eu hunain, trwy gyflwyno ebyrth â'u dwylaw eu hunain i Dduw. Offrymodd Abel i Dduw—

*Aberth rhagorach na Chain.* Dyma y crybwylliad cyntaf a gawn am aberthu yn yr ysgrythyr; er, yn ddiau, nad dyma y tro cyntaf i ddyn aberthu. Dilys yw ddarfod i'r ddau frawd fod yn dystion weled eu tad Adda yn aberthu lawer gwaith, ac iddynt gael eu dysgu ganddo i addoli yn y modd hwn, fel yr oedd efe ei hun wedi ei ddysgu gan Dduw. Tebygol mai y tro hwn oedd y cyntaf i'r ddau frawd i aberthu eu hunain, newydd iddynt ymsefydlu yn y byd, yn annibynol ar eu rhïeni ac ar eu gilydd: un yn llafurwr y ddaear, a'r llall yn fugeilydd defaid. Golwg ddymunol oedd gweled dau gyntafanedig dynoliaeth, yn nghychwyniad gyrfa gyhoeddus eu bywyd, fel hyn yn cydnabod Duw, drwy gyflwyno offrymau iddo; ond yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y naill a'r llall. Offrymodd Abel *aberth rhagorach na Chain*—rhagorach yn ei natur a'i ddefnydd. Dygodd Cain ei offrwm "o ffrwyth y ddaear;" ond Abel, ei offrwm ef "o flaenffrwyth ei braidd, ac o'u brasder hwynt." Yr oedd aberth Abel yn ddiau yn rhagorach yn yr ystyr yma; gan nad oedd yn offrwm Cain ddim ond cydnabyddiaeth o ddaioni Duw yn mendithion bywyd — rhwymedigaeth creadur i'w Greawdwr a'i Gynnaliwr, heb un olwg ar, na chydnabyddiaeth o'i sefyllfa euog fel pechadur: math o offrwm diolch yn unig am ffrwyth y ddaear oedd ei offrwm ef. Yr oedd gwaed a bywyd yn cael eu hoffrymu yn aberth Abel, yn gydnabyddiaeth o'i gyflwr fel troseddwr yn erbyn Duw. Ond y rhagoriaeth oedd rhwng yr aberthwyr a'u gilydd sydd yn ngolwg yr apostol yn fwy na'r rhagoriaeth oedd rhwng eu haberthau. Offrymai Abel mewn ffydd, a Chain heb y ffydd hòno. Offrymai Abel yn ol fel yr oedd wedi ei ddysgu yn ewyllys Duw, yn athrawiaeth yr aberthu, a Chain yn ol ei fympwy ef ei hun. Ffydd Abel a barai iddo ddwyn aberth rhagorach yn ei natur na'r eiddo Cain. Dyma'r ddau addolwr cyntaf yn cynnrychioli y ddau fath o addolwyr sydd i'w cael yn y byd o hyny hyd yn awr; un yn y cnawd a'r llall yn yr ysbryd: y ddwy athrawiaeth ydynt yn y byd o'r dydd hwnw hyd y dydd heddyw, ac mor groes a gwrthwynebol y naill i'r llall ag ydyw goleuni a thywyllwch; sef yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf, a chyfiawnhad trwy ffydd. Ceisiai Cain ffafr a chymeradwyaeth Duw trwy weithredoedd—trwy offrwm nad oedd yn cynnwys un gydnabyddiaeth o'i euogrwydd fel creadur syrthiedig; ac Abel trwy ffydd yn

Nuw fel Gwaredwr i'r euog, o'r hyn yr oedd ei aberth yn arddangosiad.

*Trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn*, sef, trwy ffydd y cafodd efe y dystiolaeth hon ei fod ef yn gymeradwy, a'i aberth yn dderbyniol.

*Gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef.* Dygwyd y dystiolaeth hon iddo trwy dân o'r nef ar ei aberth, y mae yn llwyr debygol, canys dyna oedd y dystiolaeth o dderbyniad cymeradwyol aberthau bob amser.

*A thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto. Trwyddi hi*—trwy ffydd. Cyfeirir yma, fe ddichon, at ymadrodd yn yr hanes, (Gen. iv. 10), lle y dywedir bod gwaed Abel yn llefaru ar Dduw o'r ddaear; ond nid yr un fath ar lefaru a olygir yma chwaith. Yno yr oedd gwaed y llofruddiedig yn llefaru yn dystiolaeth o flaen y Barnwr yn erbyn y llofrudd. Yma y mae ffydd yr aberthwr yn llefaru wrth yr holl genedlaethau a ddeuent, er annogaeth iddynt i ddilyn ei esiampl, a gweithredu yr unrhyw ffydd a hyder yn Nuw, trwy yr hon y derbyniodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn. Abel yw yr engraifft gyntaf oll a ddengys yr ysgrythyr o bechadur yn cael ei gyfiawnhau trwy ffydd mewn aberth, ac yn derbyn tystiolaeth gan Dduw o hyny; ac y mae dynodrwydd arbenig ar ei ffydd a'i aberth ef ar y cyfrif hwn. Dichon nad oedd gan Abel, a ffyddloniaid boreuol eraill, nemawr iawn o ddirnadaeth am aberth y Messïa i ddyfod; ond yr oedd ganddynt ffydd, neu yr ansawdd meddwl hwnw a ymostyngai i drefn ac ewyllys Duw yn mhob peth a ddadguddid iddynt. Yr oedd hanfod ffydd yn Nghrist a'i aberth ganddynt gan hyny.

5 Trwy ffydd y symudwyd [u]Enoch, fel na welai farwolaeth; ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symud ef; canys cyn ei symud, efe a gawsai dystiolaeth, ddarfod iddo ryngu bodd Duw.

[u] Gen. 5. 22, 24.

Enoch ydyw yr ail, a'r hynotaf o ffyddloniaid y cyfnod cyn y diluw, a gofnodir yma. Yr oll a ddywed yr hanes santaidd yn Gen. v. am bob un o'r patriarchiaid hyny yn mron ydyw, iddynt fyw cynnifer o gannoedd o flynyddoedd, cenedlu meibion a merched, a marw. Ond am Enoch, dywedir iddo rodio gyda Duw dri chan' mlynedd, ac yn y diwedd, ddarfod i Dduw ei symud ef. Cadwodd ysbryd duwiolfrydig a buchedd santaidd ddifwlch dros yr ystod maith hwnw o amser, a hyny yn nghanol oes lygredig a drygionus iawn, a'r hwn a anrhydeddodd Dduw mewn modd anghyffredinol fel hyn, a anrhydeddwyd yntau gan Dduw mewn modd anghyffredin, drwy ei symud oddiar y ddaear ato ei hun heb brofi marwolaeth. Nid aethai neb erioed o'i flaen, ac nid aeth neb byth ond un ar ei ol o'r byd ar hyd y llwybr hwn.

*Ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symud ef. Ni chaed*—ni welwyd ef mwyach ar y ddaear yn mysg dynion. Bu ei berthynasau a'i gyfeillion yn ddiau yn holi ac yn chwilio am dano, fel y chwiliai meibion y prophwydi am Elias ar ol ei symud; a thebyg yw mai trwy ddadguddiad o'r nef yr hysbyswyd i ffyddloniaid yr oes hòno ddarfod i Dduw ei gymeryd ato ei hun yn y corff heb brofi marwolaeth. Yr oedd symudiad Enoch fel hyn yn brawf nerthol i'r ffyddloniaid o hanfodiad byd a bywyd o ddedwyddwch tu draw i angeu; a diau iddo fod yn gyfnerthiad mawr i'w ffydd, ac yn ddyddanwch i'w meddyliau yn nghanol llygredigaeth ac annuwiaeth cyffredinol y byd yn yr oes hòno.

*Canys cyn ei symud, efe a gawsai dystiolaeth, ddarfod iddo ryngu bodd Duw.* Yn y weithred o offrymu aberth mewn ffydd y rhyngodd Abel fodd Duw, a thrwy dân o'r nef ar ei aberth y derbyniodd efe dystiolaeth o hyny. Rhyngodd Enoch fodd Duw drwy rodio a byw yn barhaus mewn cymundeb meddwl agos âg ef, a sefyll yn dyst ffyddlawn trosto yn erbyn anfoes a drygioni yr oes yr oedd yn byw ynddi, a chafodd brofiad sicr o foddlonrwydd Duw mewn mwynhad ysbrydol o hono. Yr oedd ganddo y "dystiolaeth (hon) ynddo ei hun," drwy fod Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'i ysbryd ef.

6 Eithr heb ffydd anmhosibl *yw* [v]rhyngu *ei* fodd *ef*. Oblegid

rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.

v Salm 106. 24—26.

*Eithr heb ffydd anmhosibl yw rhyngu ei fodd ef.* Yma gwna yr apostol nodiad neu ddau ar y mater hwn, er ei egluro a'i gadarnhau, cyn myned yn mhellach. Trwy ffydd y darfu i Abel ac Enoch ryngu bodd Duw, ac y cawsant dystiolaeth o hyny. Ië, a rhaid i ni ddeall hyn yn mhellach, nad yw yn bosibl i neb byth ryngu ei fodd ef mewn un ffordd arall. Gellir rhyngu bodd Duw heb lawer o bethau da a dymunol ynddynt eu hunain—heb ddysg a doniau, athrylith, a llawer cangen o wybodaeth; ond heb ffydd anmhosibl yw rhyngu ei fodd ef, oblegid y rheswm eglur hwn—

*Rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.* Os gofynir beth yw crefydd, gellir ateb yn yr ymadrodd hwn, *dyfod at Dduw*—ymgydnabyddiaeth rhwng y creadur a'r Creawdwr ydyw. Tair prif ddyledswydd dyn, medd hen driad Cymreig, ydyw, "Ymgyfarchwel â Duw, llesâu dyn, a gwellâu gwybodau." Yr oedd Abel yn dyfod at Dduw pan yn cyflwyno ei aberth iddo, ac felly Enoch yn dyfod ato, ac yn aros, yn rhodio gydag ef. Trwy ffydd y daethant hwy felly ato. Cyflwynodd Cain ei offrwm i Dduw â'i ddwylaw, heb ddyfod ato o ran ei feddwl a'i galon trwy ffydd. Rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Dduw gredu ei fod ef, heb hyny y mae yn annichonadwy iddo ddyfod ato; heb gredu ei fod ef ni bydd gan y meddwl un gwrthddrych o'i flaen i ddyfod ato, ac ni bydd ei holl gyflawniadau crefyddol ond ffurfiau difywyd, diystyr, a dieffaith.

Y mae *credu ei fod ef* yn cynnwys meddu syniadau cywir am dano yn ol y dadguddiad a rydd efe o hono ei hun yn ei air; canys y ffydd hòno sydd yn dyfod trwy glywed gair Duw ydyw yr un y sonir am dani, bod yn anmhosibl rhyngu bodd Duw hebddi. Y mae gan y pagan, a'r anghredadyn mewn dadguddiad, ryw fath o ffydd yn modolaeth Duw; ond y mae ffydd y cyntaf, yn lle ei arwain at y gwir Dduw, yn ei yru ar gyfeiliorn, i osod ac addoli y creadur yn lle y Creawdwr; ac nid yw ffydd yr olaf yn ddim amgen na mympwy farw nad ydyw yn cynnyrchu unrhyw effaith ar ei galon na'i fuchedd; ond y mae y ffydd hon yn elfen fywiol a gweithgar yn yr enaid, yn ei weithio at Dduw, ac i amcanu rhyngu ei fodd ef.

*A'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.* Y mae yn rhaid credu hyn hefyd *am* Dduw mewn trefn i ddyfod ato; canys heb y grediniaeth hon, ni allai yr enaid deimlo nerth a hyder i nesâu at Dduw. Ei fod ef yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ydyw y cymhelliad a'r annogaeth at y gwaith.

Ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef, ydyw dwy egwyddor sylfaenol crefydd. Lle nad oes ffydd neu grediniaeth o'r gwirioneddau hyn, ni all fod gan grefydd un afael ar y gydwybod a'r galon.

7 Trwy ffydd, w Noë, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid etto, gyd â pharchedig ofn, a ddarparodd arch i achub ei dŷ: trwy yr hon y condemniodd *efe* y byd, ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.

w Gen 6. 14—22.

Noah yw y trydydd a'r olaf o ffyddloniaid y cyfnod cynddiluwaidd, a'r hwn a estynodd ei fywyd trwy y dinystr cyffredinol hwnw i ail gychwyn gyrfa dynoliaeth ar y ddaear—y ddolen gydiol rhwng y ddaear oedd y pryd hwnw a ddinystriwyd â dwfr, a'r ddaear sydd yr awr hon wedi ei rhoddi i gadw i dân erbyn dydd y farn, a dystryw yr anwir ddynion.

Yr engraifft a gofnodir o ffydd Noah oedd ei waith yn credu gair rhybuddiol Duw am y farn o ddystryw cyffredinol a ddeuai ar y byd llygredig ac annuwiol, ac yn ufuddhau i orchymyn Duw, trwy barotoi arch i achub y byd.

*Y pethau nis gwelsid etto*—peth nad oedd hanes am ddim cyffelyb iddo wedi

dygwydd erioed cyn hyny, peth nad oedd un tebygolrwydd o hono i'w ganfod y pryd hwnw, a pheth y dywedasai rheswm anianol na allasai byth gymeryd lle. Y mae llygad yr ysgrifenydd ar y darnodiad a wnaethai o ffydd ar y dechreu—"sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Yr oedd y diluw yn beth sicr o gymeryd lle yn meddwl Noah wedi iddo dderbyn rhybudd Duw, er nad oedd y peth wedi dygwydd erioed o'r blaen, nac un tebygolrwydd o'r peth i'w weled. Ni cheisiodd ac ni chafodd yr un arwydd gweledig gan Dduw i gynnorthwyo ei ffydd chwaith, fel y cafodd amryw o'r ffyddloniaid a goffeir etto, ar amrywiol achlysuron, pan oedd eu ffydd yn wan a diffygiol. Daliodd Noah felly i gredu Duw am chwech ugain mlynedd, pan oedd byd cyfan o ddynion yn anghredu ac yn gwawdio; ac y mae yr holl ystyriaethau yn nghyd yn gosod enwogrwydd mawr ar ei ffydd.

*Gyda pharchedig ofn, a ddarparodd arch i achub ei dŷ.* Dyma brawf—ufudd-dod ei ffydd. Yr oedd tri pheth ynddo ag sydd yn nodweddu ufudd-dod gwir ffydd bob amser:—

1. Yr oedd yn ufudd-dod dioedi. Dechreuodd Noah barotoi at ei waith yn union wedi derbyn y rhybudd a'r gorchymyn.

2. Yr oedd yn cael ei gyflawni yn yr iawn ysbryd. "Gyda pharchedig ofn." Nid ofn y dinystr yn gymaint; ond teimlad o barch dwfn tuag at Dduw, ac arswyd ei ddigio a'i anfoddloni.

3. Yr oedd ei ufudd-dod yn cael ei gyflawni wrth yr iawn reol. "Yn ol yr hyn oll a orchymynasai Duw iddo, felly y gwnaeth Noah." Yr oedd yr arch o ran ei defnydd, ei hyd, a'i lled, a'i huchder, a'i chellau, yn gymhwys yn mhob peth fel y gorchymynasai Duw iddo ei gwneud.

*Trwy yr hon y condemniodd efe y byd.* Trwy ffydd—ei waith yn credu y rhybudd ac yn ufudd-hau i'r gorchymyn dwyfol, yr oedd yn dwyn tystiolaeth gondemniol ar anghrediniaeth y byd drygionus; ac felly yr un modd y mae ffydd ac ufudd-dod credinwyr etto yn condemnio y byd anghrediniol ac anufudd.

*Ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.* Dyma wobr ei ffydd. Atebodd yr arch ei dyben iddo, achubodd ei dŷ—efe a'i deulu, rhag y dinystr pan y daeth, a chyfiawnhawyd—cymeradwywyd ef ar gyfrif ei ffydd, yr un modd ag y dywedir ddarfod i ffydd Abraham gael ei chyfrif yn gyfiawnder iddo. Nid oedd y Messïa yn wrthddrych uniongyrchol ffydd Noah ar yr amgylchiad hwnw, er mai trwyddo, ac ar ei gyfrif ef yr oedd ei berson a'i waith yn cael eu cymeradwyo gyda Duw; ond yr oedd ysbryd y ffaith o gredu yn Nghrist yn ei ffydd a'i ufudd-dod ef pan yn darparu yr arch; canys crediniaeth o wirionedd gair, a hyder yn ffyddlondeb Duw i'w air, ydyw hanfod ffydd. Yr oedd y gair a gafodd Noah yn cynnwys bygythiad o farn a dinystr cyffredinol ar y byd, ac yn dangos trefn o ymwared iddo ef a'i deulu. Credodd yntau y bygythiad, a chrynodd wrth y gair; ac mewn hyder yn nhrugaredd a ffyddlondeb Duw, efe a ufuddhaodd i'r drefn o ymwared a ddatguddid iddo, a pharhaodd mewn ufudd-dod dianwadal i'r gorchymyn dwyfol yr holl dymmor maith y bu yn parotoi yr arch, yn wyneb holl ddirmyg a gwawd y byd digred. Nid meddwl yr apostol yn yr ymadrodd, *Ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd*, ydyw mai y pryd hwnw, pan ddechreuodd efe adeiladu yr arch, y cyfiawnhawyd Noah ger bron Duw, nac mai yr ufudd-dod hwnw oedd achos haeddiannol ei gyfiawnhad; oblegid dywed yr hanes yn bendant am Noah cyn hyny, ei fod yn gyfiawn, a'r unig un cyfiawn ger bron Duw yn yr oes hòno; ond defnyddio yr engraifft hòno o ufudd-dod y mae Paul, fel prawf o wirionedd ffydd Noah—ei fod yn etifedd o'r ffydd sydd yn cyfiawnhau dyn gyda Duw.

8 Trwy ffydd, [x]Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhaodd, gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.

x Gen. 12. 1, 4, &c.

Yma daw yr apostol yn nes adref at galonau a theimladau yr Hebreaid.

Teimlant hwy fwy o ddyddordeb yn enwau a hanes y patriarchiaid a nodir yn awr, nag yn y rhai a nodwyd yn barod, yn gymaint a'u bod yn wreiddiau a thadau eu cenedl. Ar ben y rhestr hon y saif Abraham, tad cyntaf y genedl, a'r hwn a elwir yn dad y ffyddloniaid ar y cyfrif hwnw; ac ar gyfrif enwogrwydd ei ffydd, gosodir ef yn neillduol fel blaenor ac esiampl i'r ffyddloniad ei efelychu, a dilyn llwybrau ei ffydd, ac erys yr apostol yn hŵy gydag ef na'r un arall o'r patriarchiaid. Rhoddir hanes galwad ac ufudd-dod Abraham yn Gen. xii. 1—4. Yr oedd galwedigaeth Abraham yn ddechreuad cyfnod mawr a phwysig yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth a gras Duw. Yr oedd cenedl o bobl yn cael ei neillduo ynddo o blith cenedloedd eraill, i fod yn bobl briodol a chyfammodol i Dduw—y genedl o'r hon yr oedd y Messïa, yr Had, yn yr hwn y bendithid yr holl genedloedd, i hanu yn ol y cnawd. Yr oedd llawer un wedi gadael ei wlad o flaen Abraham, a miloedd ar ei ol yr un modd, nad oedd dim o bwys i neb ond iddynt hwy eu hunain yn yr amgylchiad. Gadawent hwy eu gwlad o honynt eu hunain, yn ol eu dewisiad eu hunain, i'w hamcanion a'u dybenion eu hunain; nid felly Abraham, galwad Duw a'i cododd, ac a'i cychwynodd ef o'i wlad, amcanion a dybenion dwyfol oedd yn cael eu hateb yn ei symudiad. Nid oedd gan Abraham ei hun unrhyw fantais dymmorol mewn golwg wrth fyned allan o'i wlad, rhyngu bodd yr hwn a'i galwasai oedd yr unig beth a'i cymhellai ef. Efe a ufuddhaodd yn ddioed, heb ymgynghori â chig a gwaed, ymddattododd ar unwaith oddiwrth ei holl gysylltiadau yn ngwlad ei enedigaeth—ei berthynasau, a'i gyfeillion, a'i fanteision bydol.

*Gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth.* Cafodd addewid o *fan*, o wlad, yn etifeddiaeth, mewn cysylltiad â'r alwad i fyned allan o'i wlad ei hun.

*Ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.* Ni ddywedodd yr Arglwydd enw y wlad yr oedd efe i'w derbyn yn etifeddiaeth, na pha le yr oedd, na pha faint o ffordd oedd ganddo i deithio, na pha fath wlad ydoedd, a hyny er dangos ei ffydd a'i ufudd-dod mewn cryfach goleuni. Ni ofynodd Abraham chwaith un cwestiwn felly i Dduw; ond efe a ufuddhaodd, ac a aeth *allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.* Dyma esiampl ardderchog o ffydd. Y mae yn ddiammheu yr ymddangosai Abraham yn wallgofddyn yn ngolwg ei gymydogion yn ei wlad enedigol, gan na allai ateb eu hymofynion yn nghylch y wlad yr oedd yn cychwyn iddi—beth oedd ei henw, yn mha gyfeiriad yr oedd yn gorwedd, pa fath hinsawdd, a faint oedd pellder y ffordd iddi, &c. Nid adwaenai ei gydnabyddion gynt mo hono yn awr; yr oedd efe bellach yn wr ysbrydol, yr hwn nis bernir gan neb. Yr oedd yn awr yn gweithredu oddiar egwyddor newydd guddiedig oddiwrth y byd, yr hyn a barai i'w ymddygiad ymddangos yn afresymol ac ynfyd—egwyddor uwchlaw a chryfach na rheswm anianol, etto heb fod yn groes i reswm mewn gwirionedd, er felly mewn ymddangosiad. Aeth allan felly heb wybod cam o'r ffordd yr oedd efe i'w theithio, mewn llawn ymddiried am arweiniad yr hwn a'i galwasai.

9 Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid, megys *mewn* [y] tir dyeithr, gan drigo mewn lluestai gyd âg Isaac a Jacob, cydetifeddion o'r un addewid.

[y] Gen. 13 3, 18; 18. 1, 9.

*Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid, megys mewn tir dyeithr.* Yr oedd llygad Duw arno i'w gyfarwyddo a'i ddysgu bob cam yn y ffordd yr elai; cyfeiriodd ei lwybr yn ei holl symudiadau, nes y daeth i dir yr addewid. Dangosodd y wlad iddo, ac adnewyddodd ei gyfammod âg ef â'r addewid am y wlad yn etifeddiaeth i'w had; ond ni roddodd gymaint a lled troed o honi yn etifeddiaeth iddo ef ei hun, ond ymdeithiodd fel estron a phererin ynddi dros y gweddill o'i oes;—

*Gan drigo mewn lluestai gydag Isaac a Jacob, cydetifeddion o'r un addewid.* Symudent o'r naill le i'r llall heb feddiannu un lle, nac adeiladu tai i breswylio, ac aros mewn un man. Cymerwyd

Isaac a Jacob i mewn i'r cyfammod gydag Abraham, y naill ar ol y llall, ac ymgyfenwodd Iehofa ar yr enw, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob, cydbleidiau yn yr un cyfammod, a chydetifeddion o'r un addewid.

10 Canys dysgwyl yr ydoedd am [z]ddinas ag iddi sylfeini, saer ac [a]adeiladydd yr hon *yw* Duw.

[z] Heb 12. 22; 13. 14. [a] Dat. 21. 2, 10.

Yr oedd y dysgwyliad hwn yn ei dawelu dan holl anfanteision ei sefyllfa bererindodol yn ngwlad yr addewid, fel na cheisiodd adeiladu tŷ na dinas i gyfanneddu a chartrefu yn sefydlog, gan edrych yn mlaen at ei gartref—ei dŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd. Gelwir y cartref nefol yma yn *ddinas ag iddi sylfeini*—lle o ddiogelwch, cadernid a llawnder, parhaus ac anghyfnewidiol, mewn cyferbyniad i bob sefyllfa ddaearol, y rhai sydd yn agored i gyfnewidiadau ac anghenion, yn ansicr a therfynol. *Saer ac adeiladydd* y ddinas hon yw Duw; hyny yw, efe a barotodd y sefyllfa ogoneddus hon, ac a'i datguddiodd mewn addewid yn wrthddrych ffydd, gobaith, a dysgwyliad ei bobl. Yr oedd y dysgwyliad ffyddiog am gartref sefydlog, dedwydd, a thragwyddol, yn y byd dyfodol, yn gwneud Abraham yn dawel a boddlon i fywyd pererin ac ymdeithydd ar y ddaear; y mae yr un ffydd yn cynnyrchu yr un ysbryd yn mhawb sydd yn ei meddu, "Gan gyfrif nad yw dyoddefiadau yr amser presenol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir iddynt."

11 Trwy ffydd [b]Sara hithau yn anmhlantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddwyn had; ac wedi amser oedran, a esgorodd; oblegid [c]ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai.

[b] Gen. 21. 1, 2. [c] Heb. 10. 23.

Yr oedd Abraham a Sara ar y cyntaf yn ammheus o'r addewid y byddai iddynt had, o herwydd eu bod dros amser oedran. Yr oedd yr addewid yn wrthwyneb i drefn reolaidd natur. Chwarddodd Sara mewn anghrediniaeth pan adnewyddwyd yr addewid, a cheryddwyd hi am hyny; ac y mae yn debygol mai y cerydd a gafodd a fu yn foddion i'w dwyn i well meddwl, ac i gredu y cyflawnid iddi yr hyn a addawsid gan yr Arglwydd, ac felly derbyniodd nerth i ymddwyn had trwy gredu yn ngallu a ffyddlondeb yr hwn a addawsai, yn wyneb yr hyn a ymddangosai yn anmhosibl yn ol trefn natur.

12 O herwydd paham hefyd y cenedlwyd o un, a hwnw yn gystal a marw, [d]*cynnifer* a ser y nef mewn lluaws, ac megys y tywod ar làn y môr, *y sydd* yn aneirif.

[d] Gen. 22. 17; Rhuf. 4. 17.

*O herwydd paham*, trwy ffydd Abraham a Sara, *y cenedlwyd*, neu yr amlhawyd o *un*—o Abraham, yr hwn yn yr ystyr yma, ar gyfrif ei henaint, oedd nemawr i ddim yn amgen na marw, a Sara yr un modd. Yr oedd yn yr addewid i Abraham amlhau ei had ef, fel ser y nefoedd, ac fel tywod y môr. Credodd ef a Sara yr addewid, a sylwa yr apostol ei bod wedi cael ei chyflawni yn lluosogiad y genedl, yr hyn a gyflawnwyd yn neillduol yn nyddiau Dafydd a Solomon.

13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a [e]chyfaddef mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.

[e] 1 Chron. 29. 15; 1 Pedr 2. 11.

*Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll.* Wrth y *rhai hyn oll* y golygir Abraham a Sara, ac Isaac a Jacob. Trwy ffydd y buasent byw, ac mewn ffydd y buont feirw—mewn llawn hyder yn ffyddlondeb Duw i'w addewidion.

*Heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt.* Yr oeddynt wedi derbyn yr addewidion mewn gair—mewn datguddiad gan Dduw, ac nid hyny yn unig, yr oeddynt wedi eu derbyn yn grediniol trwy ffydd; ond buont feirw heb dderbyn y cyflawniad o honynt, ond mewn rhan fechan yn unig. Derbyniodd Abraham gyfran o gyf-

lawniad yr addewidion yn ngenedigaeth Isaac, ac Isaac drachefn yn Jacob, a gwelodd Jacob yr had yn dechreu amlhau; ond nid oedd hyn oll ond ernes o gyflawnder yr addewidion. Ni dderbyniasant hwy wlad yr addewid yn etifeddiaeth, na'r had yn yr hwn yr oedd yr holl genedloedd i gael eu bendithio; ond yr oeddynt yn gweled y pethau hyn o bell trwy ffydd, yn eu canfod yn y dyfodol, mewn llawn sicrwydd meddwl y dygid hwy i ben, ac na phallai un.

*A chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.* Dyma yr effaith a ddygai golwg ffyddiog ar yr addewidion ar galonau a bucheddau yr hen batriarchiaid anrhydeddus hyn. Y mae yn amlwg wrth yr ymadrodd hwn, a'r hyn sydd yn canlyn, y mynai yr apostol osod ar ddeall i'r Hebreaid fod eu tadau hyn yn edrych am eu daioni penaf, ac yn dysgwyl am dano mewn byd uwchlaw, a thuhwnt i hwn—mewn bywyd amgen na'r un presenol. Yr oeddynt yn canfod bendithion byd anweledig a bywyd ysbrydol yn guddiedig yn yr addewidion am fendithion tymmorol yn y Ganaan ddaearol. Nid oedd y rhai hyny yn bethau iddynt hwy eu hunain yn bersonol i'w hetifeddu byth; ond eu had hwy, mewn cenedlaethau a ddeuent, oedd i dderbyn a mwynhau y pethau. Yr oeddynt yn llawen gyfarch yr addewidion yn yr ystyr yma, ac yn neillduol yr addewid fawr am y Messïa, sylwedd mawr yr holl addewidion. Yr oeddynt yn codi ar flaenau eu traed, ac yn estyn eu gyddfau megys i edrych yn mhell yn mlaen at adeg y cyflawniad, ac yn cael eu llenwi â gorfoledd trwy gredu ac edrych felly. "Llawenydd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i, (medd Crist), ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd;" ond yr oeddynt yn edrych i fyd arall hefyd mewn hyderus ddysgwyliad am etifeddu bendithion a sylweddau ysbrydol hwnw, ac ystyrient eu hunain fel *dyeithriaid a phererinion* ar y ddaear—fel rhai ar eu taith tua'u cartref tragwyddol; gan hyny, yn rhai nad oedd amgylchiadau y byd a'r bywyd presenol o fawr bwys na dyddordeb iddynt.

14 Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad.

Y mae yr apostol fel yn cymeryd trafferth a gofal mawr i ragflaenu yr amryfusedd y syrthiodd Warburton, a rhai duwinyddion ac esbonwyr Beiblaidd eraill iddo, ac y cymerasent hwythau lawer o boen a llafur i'w gadarnhau a'i amddiffyn, sef nad oedd gan y patriarchiaid boreuol un olwg ar sefyllfa ddyfodol, ac nad oedd y sefyllfa hòno yn wrthddrych eu ffydd hwy. Llafuria Warburton yn neillduol o galed i esbonio byd arall allan o lyfrau Moses; ond rhaid bod naill ai Warburton neu Paul yn camgymeryd; ond ni raid i ni betruso dim pa un ai yr Esgob dysgedig, ai yr apostol ysbrydoledig a gredwn.

*Y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau.* Y rhai sydd yn credu ac yn cyffesu mai dyeithriaid a phererinion ydynt ar y ddaear. Cyfeiria yr apostol at ryw ymadroddion a lefarodd un neu arall o'r patriarchiaid dan sylw, yn fwyaf neillduol, fe ddichon, at eiriau Jacob wrth Pharaoh mewn atebiad i ymofyniad y brenin yn nghylch ei oedran, "A Jacob a ddywedodd wrth Pharaoh, Dyddiau blynyddoedd fy ymdaith ydynt ddeg ar hugain a chan' mlynedd: ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes, ac ni chyrhaeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau yn nyddiau eu hymdaith hwy," Gen. xlvii. 9. *Blynyddoedd* fy ymdaith — fy mhererindod. Yr oedd crefydd Jacob fel hyn yn nawsio allan wrth ateb y gofyniad syml yn nghylch ei oedran. Yr oedd yn dangos yn eglur ynddo i bob un a feddai synwyr ysbrydol i ddeall ei ymadroddion, ei fod yn ystyried ei hun yn wr dyeithr yn y byd hwn, a bod ganddo gartref mewn byd arall, y tuhwnt i derfyn yr einioes dymmorol hon, mewn golwg i gyrchu ato—*eu bod yn ceisio gwlad.*

15 Ac yn wir, pe buasent yn meddwl am *y wlad* hòno, o'r hon y daethent allan, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd:

*Y wlad hòno*—gwlad genedigaeth Abraham—o'r hon yr aeth efe a Sara allan ar alwad Duw. Buasai ganddynt gartref, preswylfa, dinas gyfanneddol i aros ynddi, yn y wlad hòno, yr hyn ni chawsant yn ngwlad yr addewid; ond symudent o fan i fan, gan drigo mewn lluestai. Pe buasent yn meddwl, yn hiraethu, ac yn gogwyddo i dynu yn ol i'r wlad hòno, hwy a allasent gael amser i ddychwelyd. Cawsant ddigon o amser a chyfleusderau i wneud hyny; ymdeithiodd Abraham ac Isaac yn yr Aifft, ac yn Gerar, ond nid aethant byth yn ol i Mesopotamia. Aeth Jacob yno, mae'n wir, ond nid i drigo fel ei gartref. Am ba wlad ynte yr oeddynt yn meddwl? Atebir yn y geiriau nesaf.

16 Eithr yn awr *gwlad* well y maent hwy yn ei chwennych, hyny ydyw, *un* nefol. O achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn [f] Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotodd [g] ddinas iddynt.

[f] Exod. 3. 6, 15. [g] Adn. 10.

*Eithr yn awr gwlad well, &c.* Fel na byddai na chamgymeriad na phetrusder ar y mater, hysbysir yn bendant nad unrhyw wlad neu gartref daearol, ond un nefol, sydd mewn golwg. Ni edy yr ymadrodd le i wahanol dybiau yn nghylch y meddwl yn y lle hwn. Yr oedd ffydd y patriarchiaid hyn yn eu codi uwchlaw y byd hwn yn eu dysgwyliadau a'u gobeithion.

*O achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotodd ddinas iddynt.* Galwodd Iehofa ei hun wrth yr enw Duw Abraham, Isaac, a Jacob; aeth yn Dduw iddynt mewn cyfammod, cynnyrchodd obeithion a dysgwyliadau ynddynt am gartref nefol a thragwyddol o ddedwyddwch, a buasai yn gywilydd ganddo ei alw yn Dduw iddynt hwy, pe na buasai wedi parotoi i ddiwallu a chyflawni y dymuniadau hyny, a chawsent hwythau felly eu siomi yn eu Duw; ond efe a barotodd ddinas—y gyfryw sefyllfa o ddedwyddwch nefol ag oeddynt yn ei cheisio, ac yn dra rhagorol tuhwnt i ddim a allasent erioed ei feddwl na'i ddymuno.

17 Trwy ffydd yr offrymodd Abraham Isaac, [h] pan ei profwyd: a'i uniganedig *fab* a offrymodd *efe*, yr hwn a dderbyniasai yr addewidion:

[h] Gen. 22. 1, &c.; Iago 2. 21.

18 Wrth yr hwn y dywedasid, [i] Yn Isaac y gelwir i ti had:

[i] Gen. 21. 12.

Yr oedd Abraham wedi penderfynu offrymu Isaac, ac wedi gwneud yr holl barotoadau, ac ar gyflawni y weithred yn llythyrenol, pan attaliwyd ef gan Dduw; ac felly, yr ydoedd wedi cyflawni y peth mewn bwriad a phenderfyniad pan ei profwyd. Profwyd ei ffydd, ei ymostyngiad, a'i ufudd-dod i ewyllys Duw yn y gorchymyn a gafodd i offrymu ei *fab*—*ei uniganedig fab*—*yr hwn a dderbyniasai yr addewidion.* Hwn ydoedd y prawf caletaf erioed a gafodd ffydd Abraham; ond daliodd ef, a daeth trwyddo yn ogoneddus. Yr oedd holl deimladau tyneraf ei natur yn ymgodi yn erbyn y gorchymyn hwnw. Ni allasai aberthu ei fab heb wneud aberth drylliedig o'i enaid ei hun. Buasai yn llawer haws ganddo gymeryd ei rwymo ei hun, a'i offrymu gan Isaac, pe buasai Duw yn gorchymyn hyny, na dodi y gyllell aberthol arno ef. I olwg rheswm, yr ydoedd yn aberthu y cyfammod a'r addewid hefyd wrth aberthu Isaac. "Gair yr addewid oedd hwn—Yn Isaac y gelwir i ti had." Ac yn awr, beth a ddeuai o'r gair hwnw pan ydoedd Isaac i gael ei ladd a'i losgi yn boethoffrwm, a hyny cyn bod iddo fab ac etifedd? Ni bu y natur ddynol, na ffydd chwaith, mewn prawf mwy tanllyd erioed nac ydoedd yn Abraham ar yr amgylchiad hwn; ond ni ddiffygiodd ffydd y patriarch dano.

19 Gan gyfrif bod Duw yn abl i'*w* gyfodi *ef* o feirw; o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.

*Gan gyfrif*—credu *bod Duw yn abl i'w gyfodi ef*—i adferu Isaac i fywyd drachefn, ar ol ei aberthu a'i losgi. Nid

oedd wedi cael addewid benodol am hyn, ond yr oedd yn credu yn ngallu Duw i'w gyflawni: ac yr oedd yn casglu oddiwrth yr addewid o godi had iddo yn Isaac, y gwnai Duw hyny hefyd. Ac yn mhellach, *o feirw mewn cyffelybiaeth*, y cawsai Isaac ar y cyntaf; gan ei fod ef ei hun, a Sarah hefyd, *cystal a marw* yn yr ystyr yma pan anwyd Isaac iddynt. O'r ystyriaethau hyn yr ydoedd ei ffydd yn tynu nerth i fyned trwy y profiad tanllyd hwn.

20 Trwy ffydd y [k] bendithiodd Isaac Jacob ac Esau am bethau a fyddent.

[k] Gen. 27. 27—40.

*Am bethau a fyddent* i hiliogaeth y ddau. Yr ydoedd gwendid yn Isaac yn ddiau ar yr amgylchiad hwnw, canys efe a ewyllysiai wneuthur Esau, ei gyntafanedig, yn etifedd addewid y cyfammod, er ei fod wedi cael awgrym trwy yr hyn a ddywedasai Duw wrth Rebecca, mai Jacob ydoedd yr etholedig. Ei dueddgarwch at Esau a fu yn achlysur i Rebecca a Jacob arfer moddion twyllodrus i beri i Isaac, mewn amryfusedd, gyhoeddi y fendith hòno a fwriadai efe i Esau ar ben Jacob. Ond modd bynag, yr oedd cyhoeddiad y fendith i Jacob, a'r hyn a draddododd efe drachefn wrth fendithio Esau, yn dangos ei ffydd yn nghyfammod Duw, ac yn nghyflawniad ei addewidion mewn amserau dyfodol.

21 Trwy ffydd, Jacob, wrth farw, a [l] fendithiodd bob un o feibion Joseph; ac a addolodd *â'i* [m] *bwys* ar ben ei ffon.

[l] Gen. 48. 5—20. [m] Gen. 47. 31.

*Wrth farw*, sef yn ei ddyddiau olaf, pan oedd ar ei glaf wely, ac yn ymwybodol fod amser ei ymddattodiad gerllaw.

Cyfyd yr ymofyniad, paham y dewisai yr apostol gyfeirio at yr amgylchiad hwnw yn unig fel engraifft o ffydd Jacob, yn meddwl pob darllenydd ystyriol. Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, fod amgylchiadau eraill yn mywyd Jacob yn llawer mwy hynod na hwn y cyfeirir ato, a bod ei ffydd i'w chanfod yn fwy amlwg a dysglaer ynddynt. Paham na ddywedasai yr apostol yn hytrach, Trwy ffydd yr ymgyfammododd Jacob â Duw yn Bethel, lle yr eneiniodd efe y golofn—neu, y gorchfygodd efe gyda Duw yn Peniel—neu, y bendithiodd efe ei feibion ei hun ar ol yr amgylchiad hwn, pan yn y fendith a gyhoeddodd efe i'w fab Judah, y traddododd un o'r prophwydoliaethau hynotaf am y Messïa o'r llwyth hwnw o'r un a geir yn yr Hen Destament? Ond detholai yr apostol yr amgylchiad o fendithio meibion Joseph yn unig. Ac erbyn craffu ar yr hanes yn Gen. xlviii. fe welir y priodoldeb o hyn—canys ar yr amgylchiad hwnw, y mae yr hen batriarch anrhydeddus yn adolygu holl amgylchiadau ei fywyd—gofal Duw am dano, a'i ffyddlondeb i'w gyfammod—yn ymddangos iddo, ac yn ei fendithio—yn ei borthi, ei arwain, ei waredu, a'i gynnal yn holl beryglon ei fywyd trafferthus. Ac hefyd, y mae yn edrych yn mlaen, gan ddatgan hyder diysgog yn nghyflawniad addewidion y cyfammod i'w had, ac yn llefaru am danynt megys pe buasent eisoes wedi eu cyflawni.

*Ac a addolodd â'i bwys ar ben ei ffon.* Efe a grymodd ei ben felly ar ei ffon, fel arwydd o barch ac ysbryd addoliadol. Yr oedd ei hen ffon, cydymaith llawer o flynyddoedd ei fywyd, ar yr hon y pwysasai ei law yn ei ymdeithiau o'r naill le i'r llall, wedi ei anfon i'w ystafell wely marwolaeth; ac yn awr, gweinydda ei chymwynas olaf iddo drwy gynnal pwys ei ben yn ei wendid a'i lesgedd, pan na allai sefyll i fyny ac ymgrymu yn y dull arferol wrth addoli.

Bernir mai nid wrth fendithio meibion Joseph yr addolodd Jacob fel y crybwyllir yma; ond mai ar amgylchiad arall y bu hyn; sef, wedi i Joseph dyngu iddo y cyflawnai efe ei ddymuniad o'i gladdu yn meddrod ei dadau, yn ogof maes Machpelah, yn ngwlad Canaan. Yr oedd hyny yn gorphwys mor ddwys ar feddwl yr hen batriarch, fel na allasai fod yn dawel heb i Joseph dyngu iddo. Mewn canlyniad i hyny, efe a grymodd ei ben ar ei ffon, gan draethu ei ddiolchgarwch i Dduw. Tyngasai Duw trwy lw iddo ef a'i dadau, Abraham ac Isaac, ar roddi gwlad Canaan yn etifeddiaeth i'w had. Yr oeddynt hwy wedi eu claddu yn

y beddrod hwnw; ac fel yr oedd yntau yn gydblaid yn y cyfammod, ac yn gydetifedd o'r addewid, yr oedd yn bwysig iawn yn ei olwg fod i'w weddillion marwol orwedd yn yr un bedd. Gan fod Duw wedi tyngu er cadarnhau ei addewid, nid rhyfedd ydoedd iddo geisio gan Joseph yntau i rwymo ei hun â llw o ffyddlondeb i'w addewid. Yr oedd ei ffydd i'w chanfod yn y gofal a'r siars ddifrifol hon yn nghylch ei gladdedigaeth; ac yr oedd tuedd neillduol ynddi i gadarnhau ffydd ei blant hefyd yn addewid Duw eu tadau.

22 Trwy ffydd, [n]Joseph, wrth farw, a goffaodd am ymadawiad plant Israel; ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.

[n] Gen. 50. 24, 25.

Dyma y ffydd ddiffuant, yr hon a drigodd yn gyntaf yn Abraham, yn blaguro yn Joseph ei orŵyr. Joseph ydyw yr olaf o dadau boreuaf y genedl a enwir yn rhestr y ffyddloniaid. Yr oedd y cyfnod cyntaf yn hanesyddiaeth y genedl yn terfynu ynddo ef.

Cadwodd Joseph ffydd a chrefydd ei dadau yn ddihalog yn nghanol yr holl fawredd a'r anrhydedd oedd iddo yn llys Pharaoh a gwlad yr Aifft. Ac yr oedd y ffydd hon yn llewyrchu ynddo wrth farw, pan y coffaodd am ymadawiad plant Israel o'r Aifft, a'u dygiad i feddiant o wlad yr addewid, ac y tyngodd hwynt i ddwyn ei esgyrn ef o'r Aifft i'w claddu yn y wlad hòno, pan ddelai dydd eu hymadawiad oddiamgylch, Gen. l. 24, 25. Yr oedd yntau, drwy hyn, yn ofalus yn ei oriau olaf am gadw cof o'r addewid, a ffydd ynddi, yn fyw yn y cenedlaethau a ddeuent ar ei ol. A diau fod cofio yr esiamplau hyn o ffydd eu tadau yn addewid Duw, yn gysur a nerth mawr i feddyliau y ffyddloniaid yn ganlynol, yn ystod hir dymmor eu hadfyd a'u cystudd yn yr Aifft. A phan ddaeth dydd eu gwaredigaeth, cyflawnasant ddeisyfiad olaf Joseph trwy ddwyn ei esgyrn o'r Aifft, a'u cadw yn ofalus yn eu hymdeithiau yn yr anialwch; ac wedi goresgyn a rhanu gwlad Canaan yn etifeddiaeth i'r llwythau, claddasant hwy "yn Sichem, mewn rhan o'r maes a brynasai Jacob gan feibion Hemor tad Sichem, er can' darn o arian," Jos. xxiv. 32.

23 Trwy ffydd, Moses, pan anwyd, a [o]guddiwyd dri mis gan ei rïeni, o achos eu bod yn *ei* weled yn fachgen tlws: ac nid ofnasant [p]orchymyn y brenin.

[o] Exod. 2. 2. [p] Exod. 1. 16, 22.

Yr oedd yspaid o ragor na thriugain mlynedd rhwng marwolaeth Joseph a genedigaeth Moses. Dechreuodd gorthrymder y genedl yn yr Aifft cyn pen hir wedi marwolaeth Joseph. Yn nghanol y nos dywell hòno y ganwyd Moses. Dywed yr hanes, (Exod. ii.), ddarfod i'w fam, pan welodd hi mai tlws oedd efe, ei guddio rhag swyddogion y brenin am yspaid tri mis, ac medd Stephan, (Act. vii. 20), "Efe oedd dlws i Dduw, ac a fagwyd dri mis yn nhŷ ei dad;" ac yma y dywedir, ddarfod ei "guddio gan ei rïeni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws." Gallem feddwl fod rhyw brydferthwch anghyffredin yn y plentyn; a bod ei rïeni wedi cymeryd hyny megys yn awgrym fod gwaith anghyffredin iddo i'w gyflawni dros Dduw, ac iddynt ddirgel obeithio mai efe a fyddai gwaredwr y genedl. Yr oeddynt yn credu addewid Duw i'w tadau am ddedwyddol ymwared o adfyd yr Aifft yn amser Duw, ac yn cyfrif oddiwrth yr amser a nodasai Duw wrth Abraham fod dydd yr ymwared gerllaw y pryd hwnw.

*Ac nid ofnasant orchymyn y brenin.* Ofn gorchymyn y brenin a barai iddynt guddio y plentyn yn ddiau; ond yr oeddynt yn hyderus, wrth ei guddio felly, yn nodded ac amddiffyn Duw drosto. Pe na buasai iddynt wneud eu goreu i guddio y plentyn, rhyfyg fuasai ynddynt hyderu yn y nodded dwyfol, tra yn esgeuluso gwneud yr oll a allasent hwy er diogelu y plentyn. Afresymol ydyw dysgwyl am fendith ac amddiffyn Duw, ar dir diofalwch ac esgeulusdra o'r moddion priodol a chyfreithlawn a fyddo yn gorphwys arnom ni i'w harfer, er cyrhaedd y dyben fyddo mewn golwg. Yr oedd gorchymyn y brenin i fwrw i'r afon bob plentyn gwrryw o'r

Hebreaid yn cynhyrfu rhïeni Moses i arfer pob dyfais a allent i'w guddio, ac yr oedd eu ffydd yn yr amddiffyn dwyfol yn eu gwneud yn esmwyth a hyderus y llwyddent yn eu hymgais i'w ddiogelu.

24 Trwy ffydd, [q] Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh;

[q] Exod. 2. 10, 11.

Amcan y byr gyfeiriadau hyn at batriarchiaid a phrophwydi yr eglwys Iuddewig ydoedd dangos i'r Hebreaid mai trwy ffydd y daliasai pob un o honynt yn ddiysgog a dianwadal dan y trallodau, y profedigaethau, a'r erlidiau a ddyoddefasant, ac y cyflawnasant y gweithredoedd nerthol a gofnodir am rai o honynt. Eu ffydd mewn sylweddau ysbrydol ac anweledig, ar addewid a thystiolaeth Duw am danynt, a'u dygasai yn fuddugoliaethus trwy yr holl anfanteision a'r gorthrymderau allanol a gyfarfuasant; fel, o dan ddylanwad y ffydd hòno, y gallasant edrych yn ysgafn a diystyr ar bob peth tymmorol a gweledig. A'r dyben o'u dwyn hwy yn mlaen yma fel hyn ydoedd calonogi yr Hebreaid dan eu trallodau a'u herlidiau presenol—i ymgalonogi drwy edrych ar siamplau eu tadau.

Wedi crybwyll am y pethau a wnaethai Abraham, ac Isaac, a Jacob, a Joseph trwy ffydd, daw Moses yn nesaf ar y rhestr, yr hwn, ar amryw gyfrifon, ydoedd y penaf o honynt oll. Ymffrostiai yr Iuddewon bob amser mai dysgyblion Moses oeddynt hwy. Efe oedd sylfaenydd a phrif athraw eu crefydd. Yr oedd cablu Moses yn nesaf peth i gablu Duw yn eu golwg. Yn awr, ewyllysiai yr apostol ddangos i'r Hebreaid fod Moses yn esiampl nodedig o'r ffydd ag yr oedd ef yn eu cymhell hwy i barhau a glynu yn ddianwadal wrthi. Trwy y ffydd hon y darfu iddo, *wedi myned yn fawr, wrthod ei alw yn ab merch Pharaoh.* Efe a wrthododd felly yr anrhydedd uchaf oedd yn meddiant y byd yn yr oes hòno i'w gynnyg iddo. Efe a wnaeth hyn, nid yn anwybodaeth ei ieuenctyd, ond *wedi myned yn fawr*—wedi cyrhaedd addfedrwydd oedran a synwyr—"yn llawn deugain mlwydd oed:" ac wedi myned yn wr mawr yn llys Pharaoh—"yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aifft—yn nerthol mewn geiriau a gweithredoedd." Gyda hyn oll, yr oedd wedi ei ddwyn i fyny o'i ieuenctyd yn n hanol rhysedd ac arferion moethus y llys, a than ddylanwad addysg a dueddai i'w wneud yn Aifftwr trwyadl mewn syniadau a theimladau, a chynnyrchu ynddo feddyliau isel a dirmygus am ei genedl ei hun. Er hyn oll, trwy ffydd, efe a wrthododd yr anrhydedd, ac a ddibrisiodd yr holl fanteision a'r gobeithion bydol oedd o'i flaen.

25 Gan [r] ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser;

[r] Salm 84. 10.

Yr ydoedd pobl Dduw (Israel) yn nyfnder nos eu hadfyd pan y daeth i "galon Moses i ymweled" â hwy, fel y sylwa Stephan, Act. vii. 23. Symudiad mawr a phwysig cyntaf ei fywyd oedd ei ymweliad hwnw â'i frodyr. Yr ydoedd yn ddyn newydd hollol o hyny allan. Dyma y pryd y gwnaeth efe y dewisiad a grybwyllir yma. Cynnyrch yr addysg dda a gawsai efe gan ei fam pan yn blentyn ydoedd y ffydd hòno a'i tueddai i wneud y dewisiad hwn. Y mae Moses yn esiampl nodedig o wirionedd geiriau Solomon, "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi." Gwreiddiodd yr addysg foreuol hòno mor ddwfn yn meddwl y plentyn fel na allodd holl ddysgeidiaeth baganaidd yr Aifft a llygredigaethau y llys ei dilëu oddiarno.

Bu llawer o ymdrechion ce yd rhwng egwyddorion y ddwy addysg—addysg ei fam ac addysg y llys—yn ei feddwl yn ystod y deugain mlynedd hyny o'i fywyd. Yr oedd holl nerth hudoliaethau y byd a'r cnawd o un tu yn cydymegnïo i ennill y dylanwad llywodraethol arno, ac argyhoeddiad cydwybod o'i rwymedigaeth i Dduw ei dadau o'r tu arall. Yr oedd ganddo i ddewis rhwng esmwythder, anrhydedd, golud,

a phob mwyniant a allai calon ddymuno o un ochr; ac adfyd, gwaradwydd, tlodi, a phob trueni tymmorol o'r ochr arall. Ni fuasai calon ddaearol a rheswm anianol yn petruso moment pa ddewisiad i'w wneuthur mewn amgylchiad fel hwn. Ond yma, wele addysg y fam dduwiol i'r plentyn yn dwyn ei ddylanwad effeithiol ar y dyn deugain oed; y ffydd a fuasai yn cael ei meithrin ynddo, drwy fendith Duw ei dadau ar yr addysg hòno, wedi dyfod i addfedrwydd nerth gydag addfedrwydd ei oedran, ac yn gorchfygu y byd—yn ennill llawn fuddugoliaeth arno, yn ei demtasiynau a'i hudoliaethau cryfaf; buddugoliaeth ag y mae ei gogoniant yn taflu i'r cysgod am byth holl fuddugoliaethau gwroniaid yr oesau ar faes gwaed a chelanedd.

Dywedir yn mhellach pa fodd a phaham y gwnaeth Moses y dewisiad hwn.

26 Gan farnu yn fwy golud ddirmyg [s] Crist, na thrysorau yr Aifft: canys edrych yr oedd efe ar [t] daledigaeth y gwobrwy.

s Heb. 13. 13. t Heb. 10 35.

*Gan farnu*—nid yn fyrbwyll a diystyr y gwnaeth efe felly; ond *gan farnu* a phwyso pethau yn ystyriol, ac yn llawn ymwybodol o'r hyn yr oedd efe yn ei wneuthur, ac o'r canlyniadau. Barnodd yn fwy golud, yn fwy gwerthfawr a dymunol, *ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aifft.* Amrywia esbonwyr gryn lawer yn nghylch gwir feddwl yr ymadrodd, *dirmyg Crist,* yn y lle hwn. "Gwaradwyddiadau y byd hwn," medd Calfin, "y rhai, megys y dyoddefodd Crist ei hun hwy, sydd raid i bob Cristion eu dyoddef yn ewyllysgar; oblegid y rhai a ddewisodd y Tad, efe a'u rhagluniodd hefyd i fod yn un ffurf a delw ei Fab. Nid ei fod yn eu dwyn oll trwy yr un profedigaethau a gwaradwyddiadau ag a ddyoddefodd Crist, ond eu bod oll i fod o'r un cyffelyb feddwl, fel na wrthodont gymeryd i fyny y groes gydag ef." "Gan ddyoddef y cyfryw waradwyddiadau ag a ddyoddefodd Crist," medd Barnes; ac medd ef yn mhellach, "Dichon fod yr apostol yn defnyddio yr ymadrodd i osod allan y gwaradwyddiadau a oddefid yn achos crefydd. Ystyriai Cristionogion yr amser hwnw, yn eithaf priodol, bob dyoddefiadau dros grefydd fel dyoddefiadau yn achos Crist. Gallai fod Paul, gan hyny, yn defnyddio yr ymadrodd i ddynodi dyoddefiadau dros grefydd, gan olygu ddarfod i Moses oddef yr hyn yn yr amser yr oedd ef (yr apostol) yn ysgrifenu a gawsai ei alw yn *ddirmyg Crist.* Nid yw yn hawdd, ac hwyrach yn bosibl, penderfynu pa un o'r deongliadau hyn ydyw yr un cywir. Gellid dwyn enwau amryw esbonwyr galluog dros y naill a'r llall, rhaid gadael i'r darllenydd, gan hyny, ddewis yr un a ymddangoso iddo ef gywiraf."

"Dirmyg cyffelyb i'r hwn a ddyoddefodd Crist," medd Stuart. "Y meddwl yn syml yw hyn," medd ef, "ddarfod i Moses ymwrthod â phleser a golud, a goddef dirmyg ac adfyd, oblegid iddo gredu yn addewidion Duw am ddaioni dyfodol, ac y gwaredai ef ei bobl o gaethiwed yr Aifft. Felly Crist, *ac efe yn gyfoethog, a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd,* mewn trefn i'n gwaredu o gaethiwed gwaeth nac un yr Aifft. Barnodd Moses felly ddirmyg cyffelyb i'r hwn a ddyoddefodd Crist, yn fwy golud na'r trysorau a'r pleserau a allasai efe eu mwynhau yn llys yr Aifft."

Yr ydym fel yn teimlo fod rhywbeth yn llac ac anmrwd yn y naill a'r llall o'r deongliadau uchod. Tybiwn yn gryf bod yr ymadrodd *dirmyg Crist* yn cael ei ddefnyddio yma i arwyddo bod Crist ei hun yn gydgyfranog â dyoddefiadau ei bobl dan bob goruchwyliaeth. Yr oedd adfyd a gwaradwydd Israel yn yr Aifft yn perthyn yn gyfranogol iddo ef fel Angel y Cyfammod, yn yr hwn y gwnaethid hwy yn bobl briodol iddo, ac yr aethai efe yn Iachawdwr iddynt—"Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd," medd Esaiah, pen. lxiii. 9, ac y mae llawer o ymadroddion i'r un perwyl yn yr Hen Destament. Dywed yr Arglwydd (Angel y Cyfammod) wrth Moses, pan yn ei anfon at Pharaoh, fel hyn:—"Gwelais gystudd fy mhobl sydd yn yr Aifft, a'u gwaedd o achos eu meistriaid gwaith a glywais; canys mi a wn oddiwrth eu doluriau," Exod. iii. 7. "Canys a gyffyrddo â

chwi, sydd yn cyffwrdd â chanwyll ei lygaid ef;" Zech. ii. 8. Ac medd y Barnwr, "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch;" Mat. xxv. 40. Y mae efe fel hyn yn gwneud achos ei bobl yn achos iddo ei hun—yn cyfrif pob caredigrwydd a chymwynas a wnelo neb iddynt hwy megys pe y'i gwneuthid iddo ef ei hun yn bersonol, a'r un modd bob cam a dirmyg. Y mae genym lawer o ddatganiadau i'r perwyl hwn o enau y Gwaredwr, ac y mae yn bur rhesymol i ni gasglu mai oddiar y rheswm hwn y defnyddia yr apostol yr ymadrodd sydd dan ein sylw.

Ystyriai a barnai Moses bod y dirmyg yr oedd Israel dano yn ddirmyg a sarhad ar eu Duw cyfammodol, a bod yn fwy braint ac anrhydedd iddo yntau ddewis bod yn gyfranog o'r dirmyg hwnw na bod yn etifedd trysorau, anrhydedd, a mwyniant llys Pharaoh. Y perygl yr oedd yr Hebreaid ynddo ydoedd troi yn ol oddiwrth ras Crist at ddeddf Moses, a hyny mewn rhan o herwydd yr erlidiau a'r gwaradwyddiadau a oddefent yn achos yr efengyl; ac yr oedd dangos iddynt fel hyn ddarfod i Moses ei hun ymwrthod â phob anrhydedd a mwyniant daearol, a dewis dyoddef y cyffelyb ddirmyg a gwaradwydd er mwyn Crist, yn rheswm o'r fath gryfaf i'w cymhell hwy i lynu yn eu proffes.

*Canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy.* Edrych o'i flaen o'r presenol i'r dyfodol. Edrych lle na edrycha rheswm y dyn anianol un amser, canys "dall yw efe, ac heb weled yn mhell." Edrychai Moses gyda hyder ffyddiog yn mlaen at waredigaeth pobl Dduw o'u hadfyd presenol, a'u dygiad allan o'u caethiwed i ryddid gwlad yr addewid. Ymddengys oddiwrth hanes ei ymweliad cyntaf â'i frodyr, a geiriau Stephan (Act. vii. 25) ei fod o dan ryw argraff ar y pryd mai efe oedd i fod yn brif offeryn eu gwaredigaeth, ac ystyriai y rhagorfraint o fod yn waredydd i'r genedl yr un benaf oll allasai ei galon ddymuno, ac y buasai llwyddiant yr anturiaeth yn y diwedd yn ddigon o dâl a gwobr iddo am bob llafur, a phoen, a dirmyg a allasai oddef gyda'r gwaith. Profodd y canlyniad pa mor gywir a doeth y barnodd efe. Daeth Moses, drwy hyny, yn un o'r dynion mwyaf anrhydeddus a fu erioed ar y ddaear. Pe dewisasai efe drysorau yr Aifft, anrhydedd y llys, a mwyniant pechod, darfuasai am ei enw a'i goffadwriaeth gyda dydd ei fywyd, yn ol pob tebygolrwydd. Yr oedd Moses yn yr amgylchiad hwn megys yn gysgod o Grist, "Yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd." "Y llawenydd a osodwyd iddo," oedd gweled llwyddiant ei waith cyfryngol yn ngwaredigaeth ei bobl o ddygn gaethiwed Satan a phechod.

Ond yr oedd Moses hefyd yn edrych yn mhellach na'r waredigaeth dymmorol o'r Aifft, yn ddiau, at y dedwyddwch a'r gogoniant nefol a thragwyddol, megys y dywedir fod Abraham a'r patriarchiaid eraill o'i flaen yn chwennych "gwlad well" nac unrhyw wlad na chartref daearol, "hyny ydyw, un nefol."

Y mae esiampl Moses yn y lle hwn yn dysgu yn—

1. Y gwahaniaeth sydd rhwng ffydd a rheswm anianol yn barnu pethau. Edrycha ffydd ar bethau a manteision yr amser presenol yn eu cysylltiad â'r dyfodol, a dewisa ymwrthod â phob manteision a mwynhad presenol, mor bell ag y byddo hyny yn angenrheidiol er sicrhau manteision y dyfodol, gan ystyried eu bod yn olud gwell a mwy parhaus. Edrycha rheswm cnawdol yntau ar y presenol yn unig, heb ofalu dim am y dyfodol, ac felly ceisia sicrhau y manteision hyny a fyddont yn ei gyrhaedd ar y pryd.

2. Bod pethau gwaelaf a gwaethaf crefydd—*adfyd* a *dirmyg*—yn fwy gwerthfawr a dymunol na phethau goreu y byd—*trysorau, anrhydedd,* a *mwyniant.*

3. Gan hyny, pa faint gwell raid fod pethau goreu crefydd—*taledigaeth y gwobrwy*—na phethau gwaethaf pechod ac annuwioldeb: "Canys diwedd y pethau hyny yw marwolaeth."

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aifft, heb ofni llid y brenin:

canys efe a ymwrolodd fel *un* yn gweled yr [v]anweledig.

[u] Exod. 10. 28, 29; 12. 31. [v] 1 Tim. 1. 17.

Gadawodd Moses yr Aifft y waith gyntaf pan ffodd efe i dir Midian, *rhag ofn llid y brenin*, am ddarfod iddo ladd yr Aifftwr a welsai yn taro Hebrëwr; etto, myn amryw esbonwyr, hen a diweddar, mai at yr amgylchiad hwnw y cyfeiria yr apostol yma. Rhaid, debygid, mai amgylchiad ei ymadawiad olaf â'r Aifft fel blaenor a gwaredydd Israel a olygir. Nid oedd ei ffydd pan adawodd efe yr Aifft y tro cyntaf ond ieuanc, tyner, a dibrofiad; ond erbyn y tro diweddaf yr oedd wedi ei dysgyblu a'i hymarfer trwy lawer o brofedigaethau, ac wedi addfedu felly mewn nerth a gwrolder. Dychwelai Moses i'r Aifft o Midian gyda llawn sicrwydd gwybodaeth bod Duw wedi ei appwyntio i fod yn waredwr i Israel, ac yr oedd y wybodaeth hòno yn rhoddi nerth a gwrolder diysgog i'w ffydd, i ddal yn ddianwadal gyda'i waith, yn wyneb yr holl anhawsderau a'r peryglon oedd yn ei amgylchynu wrth ymwneud â'r brenin creulon a chalon galed.

*Canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig.* Dyna ddirgelwch ei wrolder. Tueddai pob peth gweledig o'i amgylch i'w lwfrhau a'i ddigaloni. I bob golwg ddynol ymddangosai ei anturiaeth a waredu Israel o'r Aifft yn hollol anobeithiol. Yr oedd holl nerth awdurdod a llywodraeth yr Aifft yn ei erbyn. Yr oedd y brenin a'i weision yn parhau yn gelyd a phenderfynol yn wyneb pob goruchwyliaeth; *ond efe a ymwrolodd.* Yr oedd yn tynu ei nerth a'i gysur o'r *anweledig*—yr oedd yn gweled, yn credu, ac yn hyderu yn ngoruwch-awdurdod a llywodraeth Duw ar feddyliau, amcanion, a chynddaredd dynion, fel nad oedd yn ofni am ei fywyd ei hun, nac yn anobeithio am waredigaeth Israel. Y mae engraifft nodedig o'r gwrolder hwn yn y tro olaf y bu efe ger bron Pharaoh: "A dywedodd Pharaoh wrtho, Dos oddiwrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy; oblegid y dydd y gwelych fy wyneb, y byddi farw. A dywedodd Moses, Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy;" Exod. x. 28, 29.

28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y [w] pasg, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn ydoedd yn dinystrio y rhai cyntafanedig gyffwrdd â hwynt.

[w] Exod. 12. 21, &c.

Am ordeiniad y pasg cyntaf hwn, gwel Exod. xii. Gwnaeth Moses y pasg hwnw trwy ffydd, mewn ufudddod i orchymyn Duw, ac yn ol y cyfarwyddiadau a gawsai gan Dduw. Credai yn ddibetrus y buasai yn ateb y dyben o ddiogelu pebyll Israel rhag yr angel dinystriol oedd i dramwy y noson hòno i ladd cyntafanedigion yr Aifft. Yr oedd amryw bethau yn y pasg hwnw, yn y dull o'i gadw, nad oeddynt yn perthyn i gadwraeth un pasg ar ei ol; megys taenellu y gwaed ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan y drws, a'i fwyta ar ffrwst, a'u ffyn yn eu dwylaw, &c.

Yr oedd gwyl y pasg yn un o brif wyliau Israel; ar adeg yr wyl hon yr aberthwyd "Crist ein pasg ni trosom ni," o'r hwn yr oedd oen y pasg Iuddewig yn gysgod arbenig. Yn ei aberthiad ef dygwyd pasg Moses i derfyniad. Cadwyd y cyntaf ar y nos y cychwynodd plant Israel o'r Aifft, a'r olaf yn mhen tua phymtheg can'-mlynedd wedi hyny, "ar y nos y bradychwyd ef," yn Jerusalem, a'r nos hòno yr ordeiniwyd y swper i gymeryd ei le yn yr eglwys. Megys ag yr oedd bwyta y pasg a thaenelliad y gwaed yn foddion diogelwch i gyntafanedigion Israel rhag dinystr tymmorol ar yr amgylchiad hwnw, felly, a mwy o lawer, y mae ffydd yn ngwaed Crist, yr hyn a elwir yn "fwyta cnawd ac yfed gwaed Mab y dyn," yn diogelu yr enaid rhag dinystr tragwyddol. "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragwyddol;" Ioan vi. 54.

29 Trwy ffydd yr aethant [y] drwy y môr coch, megys ar hyd *tir* sych: yr hyn pan brofodd yr Aifftiaid, boddi a wnaethant.

[y] Exod. 14. 22, 29.

Ni amcanai yr apostol roddi ar ddeall bod yr holl rai a aethant trwy y Môr Coch yn etifeddion y ffydd y sonir am dani; canys, yn ddiau, yr oedd miloedd lawer o honynt yn amddifaid o honi. Yr oedd Moses, a llawer o flaenoriaid y gynnulleidfa, yn myned i, a thrwy y Môr Coch trwy ffydd, ac yr oedd y lleill yn eu canlyn, gan nad oedd un gobaith arall o ddiangfa rhag eu herlidwyr i'w ganfod.

*Yr hyn pan brofodd*—pan gynnygiodd, *yr Aifftiaid, boddi a wnaethant.* Rhyfyg i'r eithaf ynddynt hwy oedd cynnyg erlid ar ol Israel i'r môr, a phrofodd eu rhyfyg yn farwolaeth iddynt oll. Y mae ffydd a rhyfyg yn anturiaethus; ond y mae ffydd bob amser yn anturio tros Dduw ac wrth ei orchymyn, tra y rhed y rhyfygus yn erbyn ei holl orchymynion a'i fygythion. Y mae yr anturiaethwr ffyddiog yn wastad yn ddiogel, tra y mae y rhyfygus yn rhuthro i ddinystr. Nid oedd y rhai diffydd o Israel yn rhyfygu wrth fyned dan arweiniad Moses i'r Môr Coch, er nad oeddynt yn myned dan ymddiried yn Nuw, ond cymerent yr agorfa hòno fel yr unig un y gallent obeithio bod yn gadwedig trwyddi; ond yn nerth y rhyfyg mwyaf yr anturiai Pharaoh a'i wŷr ar eu hol, a bu eu rhyfyg yn angeu iddynt.

30 Trwy ffydd y syrthiodd caerau [z] Jericho, wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod.

[z] Jos. 6. 12–20.

Yr oedd holl oruchwyliaethau Duw tuag at y genedl—y profedigaethau mawrion yr arweiniodd hi trwyddynt —yr holl waredigaethau rhyfeddol a ddygodd iddi—yr holl weithredoedd nerthol ac ofnadwy a welodd ei llygad, yn cyd-dueddu, ac wedi eu hamcanu mewn modd neillduol i gynnyrchu ffydd ynddi—i'w dysgu i gredu Duw ac ymddiried yn ei allu, ei ddoethineb, a'i ffyddlondeb; ac etto, er hyn oll, anghrediniaeth oedd diffyg a drwg mawr y genedl o hyd, a hwn a gwympodd gelanedd y rhai a waredwyd o'r Aifft yn yr anialwch, ac a'u hattaliodd fyned dros yr Iorddonen i etifeddu gwlad yr addewid. Bu farw Moses a deiliaid ei weinidogaeth bersonol ef, ac oes arall o dan arweiniad Josuah a ddygwyd i Ganaan. Mawrhaodd yr Arglwydd Josuah yn ngolwg holl Israel yn gyffelyb fel yr oedd wedi mawrhau Moses—agorodd yr Iorddonen o'i flaen ef, fel yr agorasai y Môr Coch o flaen Moses. Yr oedd trwy hyny yn rhoddi sicrwydd i'r bobl y byddai efe gyda Josuah, megys y buasai gyda Moses, er dysgu ffydd ac ufudd-dod iddynt. Yr oedd yr un amcan mewn golwg drachefn yn y cyfarwyddyd a gawsant i ymosod ar Jericho, gan ei hamgylchynu saith niwrnod dan udganu mewn cyrn hyrddod. Nid oeddynt i guro y muriau â hwrddbeiriannau, na chloddio tanynt mewn trefn i'w dryllio a'u tynu i lawr; nid oedd y priodoldeb na'r cymhwysder lleiaf yn y moddion a orchymynid iddynt eu harfer i gyrhaedd y dyben mewn golwg. Cyfrifasai rheswm yn ynfydion y rhai a feddylient dynu caerau dinas i lawr drwy udganu mewn cyrn hyrddod o'u hamgylch; ond mynai Duw, drwy eu cyfarwyddo i arfer y moddion dyeithr hyn, ddysgu ei bobl i fyw trwy ffydd. Yr oedd llaw Duw i'w gweled yn llawer mwy amlwg fel hyn yn nymchweliad caerau Jericho, na phe buasai Israel yn cael eu cyfarwyddo i ddefnyddio moddion pwrpasol i'r perwyl.

Ond paham y dywedir mai *trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho?* Onid trwy weithrediad gallu goruwchnaturiol Duw y cymerodd y dygwyddiad le? Gwir, fel yr achos effeithiol o'r peth; ond yr oedd gweithrediad y gallu hwnw mewn cysylltiad uniongyrchol â gwaith Israel yn amgylchynu y ddinas yn ol gorchymyn Duw, a thrwy ffydd yr oeddynt hwythau yn ufuddhau i'r gorchymyn hwnw. Pe gwrandawsent ar lais eu rheswm eu hunain, ni buasent byth yn cynnyg amgylchynu y ddinas yn y modd hwnw, ac ar ol dechreu ni buasent yn parhau i wneud peth dros yspaid saith o ddyddiau, a dueddai, yn hytrach i beri i'w gelynion eu dirmygu a'u gwawdio, nac i arswydo rhagddynt. Yr oedd ffydd, gan hyny, yn achos offerynol eu llwyddiant, fel mai priodol oedd i'r apostol ddywedyd, mai *trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho.*

31 Trwy ffydd ni ddyfethwyd [a] Rahab y butain gyd â'r rhai ni chredent, pan dderbyniodd hi yr [b] yspïwyr yn heddychol.

[a] Jos. 6. 23; Iago 2. 25. [b] Jos. 2. 4, &c.

*Yr yspïwyr*—y ddau ŵr a anfonodd Josuah o Sittim i edrych y wlad a Jericho, Jos. ii. 1. Ychydig feddyliasai Josuah a'r yspïwyr y cawsid ffydd yn Jericho—ffydd yn Nuw Israel, o'r hon yr oedd llawer iawn o'r Israeliaid eu hunain, er eu holl fanteision, yn amddifaid. Ond wele! erbyn myned o'r yspïwyr yno yr oedd hi, ffydd, wedi cyrhaedd yno o'u blaen, ac wedi parotoi lletty a diogelwch iddynt; ac yn un o'r lleoedd annhebycaf yn Jericho ei hun y cafwyd y ffydd hon—yn Rahab y butain, un o'r dosbarth iselaf a gwarthusaf o bechaduriaid! Golygai rhai nad yw y gair a gyfieithir *putain* yn y lle hwn o angenrheidrwydd yn golygu y nodweddiad du hwnw, ond y defnyddir ef weithiau am un yn cadw tŷ cyffredin i dderbyn a llettya dyeithriaid, heb olygu y nodweddiad a gysylltir âg ef; ac mai llettywraig felly oedd Rahab; ond gwrthwynebir y dyb hon gan y rhan fwyaf o esbonwyr hen a diweddar. Dichon, a thebygol hefyd, fod Rahab yn cadw tŷ cyffredin i werthu ymborth, a lletty i ddyeithriaid, ac yr ydym yn cael fod merched o'r nodwedd hwnw yn cadw tai felly yn bur gyffredin yn ninasoedd y dwyrain, ac y mae yn naturiol i ni gasglu mai trwy ymofyn am dŷ lletty, wed ie udyfod i'r ddinas, y cyfarwyddwyd yr yspïwyr i dŷ Rahab. Fodd bynag, dan arweiniad rhagluniaeth eu Duw, trwy ryw foddion neu gilydd, yno daethant. Yn y gyffes a wnaeth Rahab wrth yr yspïwyr, gwelir y modd y daeth hi yn etifedd y ffydd hon, y dywed yr apostol yma, a'r apostol Iago hefyd, ei bod yn ei meddu. "*Ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw;*" hyny yw, cenedlir ffydd yn yr enaid trwy glywed gair Duw fel moddion offerynol yn llaw Ysbryd Duw, ac felly y bu yn achos Rahab. "A hi a ddywedodd wrth y gwŷr, Mi a wn roddi o'r Arglwydd i chwi y wlad; o herwydd eich arswyd chwi a syrthiodd arnom ni, a holl drigolion y wlad a ddigalonasant rhag eich ofn. Canys ni a glywsom fel y sychodd yr Arglwydd ddyfroedd y Môr Coch o'ch blaen chwi, pan ddaethoch allan o wlad yr Aifft; a'r hyn a wnaethoch i ddau frenin yr Amoriaid, y rhai oedd tu hwnt i'r Iorddonen, sef i Sehon ac i Og, y rhai a ddifrodasoch chwi. A phan glywsom, yna y'n digalonwyd, fel na safodd mwyach gysur yn neb, rhag eich ofn: canys yr Arglwydd eich Duw, efe sydd Dduw yn y nefoedd uchod, ac ar y ddaear isod," Jos. ii. 9, 10, 11. Trwy glywed am fawrwaith Duw a wnaethai efe er Israel yn yr Aifft a'r Môr Coch, gan hyny, y cenedlwyd ffydd ynddi. Yr oedd trigolion Jericho wedi clywed y pethau hyn yn gystal a hithau, ac yr oedd y clywed wedi dwyn effeithiau grymus arnynt. Yr oeddynt yn credu *ac yn crynu*, fel y dywed yr apostol Iago fod y cythreuliaid; ond etto, nid oeddynt yn credu fel y credodd Rahab. Gwelodd a chredodd hi mai Iehofa, Duw Israel, oedd yr unig wir a bywiol Dduw yn y nefoedd ac ar y ddaear. Cynnyrchodd hyny awydd ynddi am ei adnabod yn Dduw iddi hi, ac am fwrw ei choelbren yn mysg ei bobl ef, ac achubodd y cyfleusdra cyntaf a gafodd i sicrhau y ragorfraint. Nid ffydd farw oedd ganddi, yn cynnyrchu ofn a dychryn yn unig; ond dygodd ei ffrwythau mewn cyffesu â'i genau, ac mewn gweithredoedd hefyd. Gwnaeth gyfammod â phobl Dduw trwy gyfrwng yr yspïwyr, a diogelodd eu bywydau rhag gwŷr Jericho, y rhai oedd yn ceisio eu heinioes, yr hyn ni allasai wneuthur heb osod ei bywyd ei hun mewn mawr berygl. Yr oedd gwŷr Jericho, er credu a chrynu, fel y dywed Rahab eu bod, rhag ofn Israel a'u Duw, etto yn ymgaledu ac yn ymladd yn eu herbyn, tra mae ffydd Rahab yn ei dwyn hi at Dduw Israel, ac i ddewis ei bobl ef yn bobl iddi hithau. Ni ellir, hwyrach, gyfiawnhau pob peth a ddywedodd ac a wnaeth Rahab yn achos yr yspïwyr. Ni wna yr apostol yma ond yn unig cymeradwyo ei ffydd a'i gweithred, heb grybwyll dim am y *modd* y gwnaeth hi hyny. Ni wyddai Rahab etto ddim am y Messïa addawedig, ac felly ni allasai fod ei ffydd y pryd hwnw yn edrych yn mlaen ato ef; ond yr oedd wedi derbyn yn grediniol hyny o ddatguddiad am y

gwir Dduw a gawsai hi, ac yr oedd felly mewn ansawdd meddwl parod i gofleidio yn grediniol bob datguddiad ychwanegol a wneid iddi; gan hyny, yr oedd y ffydd sydd yn cyfiawnhau pechadur ger bron Duw, o ran ei sylwedd, ganddi. Nid oedd apostolion Iesu Grist eu hunain, cyn ei farwolaeth a'i adgyfodiad ef, yn meddu un ddirnadaeth am yr angenrheidrwydd oedd iddo ef farw fel aberth dros bechod; ond, er hyny, yr oeddynt yn ddiau wedi eu cyfiawnhau trwy y ffydd anmherffaith oedd ganddynt yn yr Iesu fel *Mab Duw a Brenin Israel*, yn unig heb feddu un syniad etto am ei aberth a'i Iawn.

Daeth Rahab wedi hyn yn wraig anrhydeddus yn Israel. Priododd Salmon, tad Boaz, gorhendaid Dafydd, un o benaethiaid llwyth Juda, ac felly daeth i lechres achau Gwaredwr y byd, a chofnodir ei henw yma yn mysg ffyddloniaid enwog yr Hen Destament. Dyrchafwyd hi fel hyn o'r ffos iselaf ac aflanaf, a gosodwyd hi "i eistedd gyda phendefigion ei bobl ef," i fod yn gofgolofn i ddangos i'r holl oesau ragorol fawredd golud ei ras ef yn ei hachubiaeth, ac na raid i'r pechaduriaid aflanaf anobeithio am drugaredd, ond troi at Dduw mewn edifeirwch a ffydd.

32 A pheth mwy a ddywedaf? canys yr amser a ballai i mi fynegu am [c] Gedeon, *am* [d] Barac, ac *am* [e] Samson, ac *am* [f] Jephthae; *am* [g] Dafydd hefyd, a [h] Samuel, a'r prophwydi:

[c] Barn. 6. 7. [d] Barn. 4. 6, &c. [e] Barn. 15. 16. [f] Barn. 11. 32. [g] 1 Sam. 17 45. [h] 1 Sam 7 9.

*A pheth mwy a ddywedaf?* Y mae etto lawer iawn i'w ddywedyd—lluaws mawr o ffyddloniaid eraill i'w coffâu, ond yr *amser a ballai*—chwyddai y traethawd i feithder gormodol, pe elid yn mlaen i ddywedyd am danynt oll yn y dull hwn. Gan hyny, y mae yr apostol yma yn crybwyll rhestr o enwau gyda'u gilydd, ac yn dywedyd ychydig eiriau am danynt oll yn nghyd. Nid yw yn dilyn amser a threfn reolaidd yn rhestriad yr enwau: canys yr oedd Barac o flaen Gedeon, a Jephthae o flaen Samson, o ran amser; a Samuel yn blaenori Dafydd hefyd o ran trefn. Y mae arwydd brys i'w weled ar gyfansoddiad yr adran hon, dodai yr ysgrifenydd yr enwau i lawr fel y dygwyddai iddynt daro i'w feddwl, fe ddichon, ac nid oedd eu cofrestru yn rheolaidd yn ol trefn amser o un pwys yn ei olwg.

*Am Gedeon*—efe yw y cyntaf o'r barnwyr a goffeir gan yr apostol. Yr oedd Cenaz brawd Caleb, ac Ehwd, a Debora, wedi bod yn farnwyr o'i flaen ef. Gedeon yn ddiau oedd un o'r dynion penaf o'r barnwyr. Rhoddir hanes lled faith a manwl am dano ef a gweithredoedd ei ffydd yn Barn. vi. vii. a'r viii. Porthwyd ei ffydd ef â llawer o wyrthiau, er ei barotoi i gyflawni y gwaith y galwasai Duw ef mewn modd goruwchnaturiol i'w gyflawni. Efe, o holl farnwyr a gwaredwyr Israel, oedd y tebycaf i Moses o ran y modd y galwyd ac y danfonwyd ef at y gorchwyl; ac, fel Moses o'i flaen, yr oedd yntau yn hwyrfrydig iawn i gychwyn, ac awyddus i ymesgusodi. Wedi porthi a chalonogi ei ffydd trwy amryw arwyddion hynod, profwyd hi drachefn trwy leihau ei fyddin o ddeuddeng mil ar hugain i dri chant o wŷr, i ymosod ar elynion oeddynt mor lluosog a'r tywod ar làn y môr. Yr oedd y dull y dysgid ef i wneud ei ymosodiad ar wersyll y Midianiaid yn hynod. Yr oedd y tri chanwr i ddal bob un udgorn yn ei law ddehau, a phiser gwag â lamp yn ei ganol, yn y llaw aswy; ac ar yr adeg nodedig yr oeddynt i udganu â'r udgyrn, a dryllio y piserau, a dal y lampau allan gan lefain, *Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon!* Tarawai hyny ddychryn trwy holl wersyll y gelynion, fel y tröent bob un ei gleddyf yn erbyn eu gilydd. Yr oedd llaw Duw a ffydd Gedeon yn amlwg iawn yn y fuddugoliaeth hynod hòno. Nid oedd dim a wnelai lluaws llu, a nerth arfau rhyfel â hi; buddugoliaeth a ennillwyd yn unig trwy ffydd ydoedd, a buddugoliaeth, fel y dengys y prophwyd Esaiah, (pen. ix. 4, 5), oedd yn rhyw ragddelweddiad o fuddugoliaethau ysbrydol y Messïa trwy'r efengyl yn y dyddiau diweddaf.

Mewn perthynas i *Barac*, yr hwn a enwir yma ar ol Gedeon, gallasem ni feddwl mai i Debora, yn hytrach nac iddo ef, y perthynai yr anrhydedd o

goffâd ei enw yma. Canys y hi oedd yn barnu Israel y pryd hwnw, a'r prif offeryn yn eu gwaredigaeth o dan orthrymder Jabin, brenin Canaan; Barn. iv. Nid oedd Barac ond swyddog yn gweithredu dan ei hawdurdod a'i chyfarwyddyd hi. Ond yn ddiau yr oedd ei waith yn anturio, ar annogaeth Debora, i ymosod gydag ychydig wŷr ar y fath fyddin gref ac oedd gan Jabin a Sisera, yn profi ei fod yn meddu ffydd gref yn Nuw. Safai llawer o'r llwythau o'r ymdrech mewn anghrediniaeth ac ofn, pan wynebai Barac a'i lu bychan ar y gelyn: am yr hyn yr achwynir yn drwm arnynt gan Debora yn y gân ardderchog a gyfansoddodd yn fawl am y fuddugoliaeth.

*Am Samson.* Un o'r nodweddion hynotaf yn yr holl hanes santaidd. Prin y goddefai ambell esboniwr i'r apostol osod ei enw ef yn llechres y ffyddloniaid, o herwydd y castiau direidus a chwareuai, a'i aml golliadau. Ond wedi y cwbl mynai yr Ysbryd Glan gadw pen Samson, ac wele, yma y mae yn nghanol y gymdeithas anrhydeddus. Yr oedd yntau hefyd yn gysgod o'r Messïa i ddyfod. Ni cheisiodd, ac ni chafodd neb i'w gynnorthwyo yn ei ymosodiadau ar y Philistiaid, "o'r bobl nid oedd neb gydag ef." Sathrodd a gorthrechodd hwynt lawer gwaith ei hunan. Ei fraich ei hun a'i cynnaliodd. Ni chymerodd na chleddyf na gwaewffon yn ei law; ac wrth farw ei hun, efe a laddodd fwy o'i elynion nac a laddasai yn ei fywyd. Yr oedd ffydd Gedeon yn gweithredu mewn ufudddod i'r gorchymynion a'r cyfarwyddiadau a dderbyniasai yn uniongyrchol gan Dduw; yr eiddo Barac i'r cyfarwyddiadau dwyfol a dderbyniai trwy Debora; Samson mewn ufudd-dod i gynhyrfiadau Ysbryd Duw ar ei feddwl, cyffroad y foment. Trwy ffydd yr oedd y naill yn gystal a'r llall yn ymladd, ac yn gorchfygu gelynion ac anhawsderau a ymddangosent yn anorfod i olwg rheswm.

*Ac am Jephthae.* Gwel ei hanes, Barn. xi. Ymddengys fod Jephthae yn naturiol yn ddyn o ysbryd milwraidd a gwrolfrydig; ond nid yn yr hyder ar ei fedr a'i wrolder milwraidd yr anturiodd efe gymeryd arno waredu Israel o law meibion Amon. Ni alwyd ef chwaith yn uniongyrchol gan Dduw at y gwaith, fel Gedeon a rhai eraill; ond etholwyd ef i'r swydd gan y bobl. Ystyriodd yntau y cais fel galwad oddiwrth Dduw, appeliodd at Dduw, a rhoddodd ei achos i'w law wrth fyned i'r frwydr. Gwnaeth adduned fyrbwyll, os llwyddai Duw ei anturiaeth, yr offrymai yn boethoffrwm pa beth bynag a ddelai yn gyntaf i'w gyfarfod o ddrysau ei dŷ pan ddychwelai wedi gorchfygu meibion Amon. Trodd yr adduned fyrbwyll hòno yn chwerw iawn iddo yn y canlyniad, canys pwy a ddaeth allan yn gyntaf i'w gyfarfod, ond ei unig ferch, a'i unig blentyn. Pa un a offrymodd Jephthae ei ferch yn boethoffrwm, ynte ei diofrydu i fywyd o wyryfdod am ei hoes a wnaeth, sydd wedi bod yn hen fater dadl rhwng beirniaid ac esbonwyr, ac yn aros heb ei phenderfynu etto. Ammheuir duwioldeb Jephthae yn fawr gan y rhai a farnant ddarfod iddo aberthu ei ferch yn boethoffrwm. Pa fodd bynag am hyny, gan fod yr apostol wedi dodi ei enw yma, y mae genym sail dda i hyderu ei fod yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd fry.

*Am Dafydd hefyd.* Y mae genym fwy am Dafydd a mwy o Dafydd yn yr ysgrythyrau, nac odid i un arall o'r ffyddloniaid. Y mae efe fel angel Duw yn eu mysg hwynt—yn seren o'r maintioli a'r dysgleirdeb mwyaf yn ffurfafen yr hanesyddiaeth santaidd, er yn cael ei guddio weithiau gan gymylau duon.

*A Samuel.* Un o'r nodweddau hawddgaraf a mwyaf difrycheulyd o'i febyd hyd ei farwolaeth, o holl ffyddloniaid yr Hen Destament; ni buasai ei gyffelyb yn Israel o ddyddiau Josuah hyd ei ddyddiau ef.

*A'r prophwydi.* O Samuel hyd Malachi, y rhai oeddynt bob un, a rhai o honynt yn esiamplau nodedig mewn ffydd a gweithredoedd nerthol tros Dduw.

33 Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant [i] addewidion, a gauasant safnau [k] llewod,

[i] Gen. 15. 5. [k] Dan. 6. 22.

*Y rhai trwy ffydd a oresgynasant*

*deyrnasoedd*—megys Josuah a Dafydd. *A wnaethant gyfiawnder.* A farnasant Israel yn ol cyfraith gyfiawn Moses; ac a fuont yn offerynau i weinyddu barnedigaethau cyfiawn Duw ar y cenedloedd, gelynion Duw a'i bobl. *A gawsant addewidion* A dderbyniasant gyflawniad o rai o'r addewidion a wnaethid i'r tadau gynt; ac a gawsant addewidion yn ychwanegol at yr addewidion hyny, megys y cafodd Dafydd a'r prophwydi. *A gauasant safnau llewod.* Gwel hanes Samson, Dafydd, a Daniel.

34 A ddiffoddasant angerdd y [l] tân, a [m] ddiangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.

l Dan. 3 25. m 1 Bren. 19. 3; 2 Bren. 6. 16.

*A ddiffoddasant angerdd y tân.* O hyn y mae hanes Shadrach, Mesach, ac Abednego yn esiampl hynod, Dan. iii. *A ddiangasant rhag min y cleddyf.* Diangodd y prophwydi Elias ac Eliseus—y cyntaf rhag min cleddyf Jezebel, 1 Bren. xix; a'r olaf rhag cleddyf Jehoram, mab Jezebel, 2 Bren. vi. 31, 32. Eu ffyddlondeb dros Dduw yn erbyn annuwioldeb y llys a'r bobl oedd yr achos i'r ddau brophwyd gael eu bygwth â'r cleddyf; ond ffydd Eliseus sydd yn rhagori yn yr amgylchiad. *A nerthwyd o wendid,* fel y gwelir yn hanes Samson, Barn. xv. a'r xvi; a Hezeciah, 2 Bren. xx. *A wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel.* Ymddengys hyn yn hanes y rhan fwyaf o'r rhai a enwir yma. *A yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.* Rhydd hanesyddiaeth yr Hen Destament lawer iawn o engreifftau o hyn, bob amser y pwysent hwy ar eu Duw yn eu rhyfeloedd, ni allai eu gelynion sefyll o'u blaen, "Brenhinoedd byddinog a ffoisant ar ffrwst, dychryn a ddaeth arnynt yno, a dolur megys gwraig yn esgor."

35 [n] Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad: ac eraill a ddirdynwyd, heb [o] dderbyn ymwared; fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

n 1 Bren. 17. 22; 2 Bren 4. 35, 36.
o Act. 4 19, 20.

*Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad.* Y wraig weddw o Sarepta, yr hon y bywhaodd Elias ei mab, a'r Sunamees, yr hon y bywhaodd Eliseus ei mab, 1 Bren. xvii. 17; a 2 Bren. iv. 18.

*Ac eraill a ddirdynwyd heb dderbyn ymwared.* A boenydiwyd, a arteithiwyd â'r offerynau a ddefnyddid i gosbi y drwgweithredwyr gwaethaf. Triniwyd llawer o'r ffyddloniaid yn y modd creulon hwn, fel y dynion mwyaf drygionus, yn unig o achos eu crefydd. Cyfeirir yma yn neillduol, fe ddichon, at yr erledigaethau blinion a ddyoddefodd y ffyddloniaid yn Judea o dan deyrnasiad y bwystfil hwnw, Antiochus Epiphanes, brenin Syria.

*Heb dderbyn ymwared.* Gan wrthod yr ymwared a gynnygid iddynt ar yr ammod o wadu eu Duw a chydymffurfio â defodau eulunaddolgar y cenedloedd. Gwel hanes y wraig a'i saith mab, 2 Mac. xi.

*Fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.* Gwell na'r adgyfodiad hwnw y derbyniodd y gwragedd hyny eu meirw trwyddo. Adgyfodiad yn ol i fyd trallodus ac i fywyd trancedig—adgyfodiad o feirw i farw drachefn oedd hwnw; ond adgyfodiad i fyd a bywyd o ddedwyddwch nefol didranc a thragwyddol ydyw'r *adgyfodiad gwell* hwn. Nis gall plant—etifeddion yr adgyfodiad hwn, farw mwyach, canys cydstad "ydynt â'r angylion, a phlant Duw, gan eu bod yn blant yr adgyfodiad." Nid oedd dim a allasai gynnal a dwyn y dyoddefwyr hyny trwy y fath driniaethau blinion ond ffydd—ffydd yn edrych yn mlaen at daledigaeth y gwobrwy—adgyfodiad gwell y dydd diweddaf. Cipolwg ffyddiog ar yr adgyfodiad gwynfydedig hwn a barodd i Job anghofio ei holl ofid a'i drallod unwaith, ac a drodd ei holl gwynion yn ganiadau.

36 Ac eraill a gawsant brofedigaeth trwy watwar, a fflangellau, ïe, trwy [p] rwymau hefyd a [q] charchar:

p Gen. 39. 20. q Jer. 20. 2.

*Ac eraill a gawsant brofedigaeth*—neu eu profi. Cafodd llaweroedd o'r saint eu profi mewn gwahanol oesau a gwled-

ydd trwy y pethau hyn — pethau gwaethaf a chwerwaf y byd; ond yn y pethau hyn oll yr oeddynt yn fwy na choncwerwyr trwy ffydd.

37 Hwynt-hwy a [r] labyddiwyd, a dòrwyd â llif, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf: a grwydrasant mewn crwyn defaid, a chrwyn geifr; yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr;

[r] Act. 7 59.

*Hwynt-hwy a labyddiwyd.* Dodwyd y prophwyd Jeremiah i farwolaeth trwy ei labyddio gan yr Iuddewon yn ngwlad yr Aifft; a Zechariah, mab Jehoiada yr archoffeiriad, cyn hyny, wrth orchymyn y brenin Joas, am ei onestrwydd yn ceryddu y brenin a'r bobl am eu pechodau.

*A dòrwyd â llif.* Felly, medd yr hanes, y gosodwyd y prophwyd Esaiah i farwolaeth gan Manasseh, brenin Juda.

*A laddwyd yn feirw â'r cleddyf.* Marwolaethwyd rhai mewn dull esmwythach â'r cleddyf.

*A grwydrasant mewn crwyn defaid, a chrwyn geifr; yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr.* Yr oedd cyflwr y rhai a ddiangasant heb eu lladd yn yr erledigaethau creulawn hyny yn waeth na'r eiddo eu brodyr. Yr oeddynt hwy megys yn cael eu rhoddi yn wastad i farwolaeth, fel y dywed yr apostol am dano ei hun a'i gydlafurwyr yn yr efengyl.

38 (Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt) yn crwydro mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear.

*Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt, &c.* O'r byd nid oeddynt, am hyny yr oedd y byd yn eu casâu. Nid oedd y byd yn eu hadnabod; yr oeddynt yn byw uwchlaw y byd, a than lywodraeth a dylanwad egwyddor na wyddai y byd ddim am dani, sef ffydd. Nid oedd y byd yn deilwng o'r fath ddynion.

39 A'r rhai hyn oll, wedi cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid:

*A'r rhai hyn oll, wedi cael tystiolaeth trwy ffydd.* Wedi cael tystiolaeth, cymeradwyaeth, *gair da*, trwy ffydd, tystiolaeth ynddynt eu hunain o ffafr a chymeradwyaeth Duw; a thystiolaeth, gair da gan Dduw yn ei air. *Ni dderbyniasant yr addewid*—y fendith addawedig. Ni welsant y Messïa yn y cnawd; ond buont oll feirw mewn ffydd yn yr addewid hòno, gan ddysgwyl mewn amynedd dan eu holl ddyoddefiadau am eu gwobr o ymwared a dedwyddwch mewn byd a bywyd i ddyfod—y wlad well, yr un nefol.

40 Gan fod Duw yn rhagweled rhyw *beth* gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt [s] hebom ninnau.

[s] Mat 13. 16, 17.

*Yn rhagweled*—wedi trefnu rhywbeth gwell am danom ni, neu i ni, sef cyflawniad yr addewidion a nodwyd iddynt hwy am y Messïa, a goleuni datguddiad eglurach yr efengyl. Y mae yr oruchwyliaeth yr ydym ni yn byw dani, *rywbeth yn well*—yn gyfammod gwell na'r oruchwyliaeth a'r cyfammod yr oeddynt hwy yn byw danynt. Pethau i ddyfod oedd gan eu ffydd hwy i edrych ac ymestyn atynt; ond y mae llawer o'r pethau wedi dyfod a'u cyflawni genym ni i ymaflyd ynddynt. Yr oedd yr addewid cyn ei chyflawni, fel yr oedd hi ganddynt hwy, yn *rhywbeth da*; ond y mae yr addewid wedi ei chyflawni, fel y mae hi genym ni, yn *rhywbeth gwell*. A'r un modd y datguddiad llawnach ac eglurach sydd genym ni trwy Iesu Grist. Yr hwn a ddiddymodd angeu, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl, yn *rhywbeth gwell* na'r datguddiad prinach a mwy aneglur oedd ganddynt hwy.

*Fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.* Yr oedd y manteision rhagorach, y *rhywbeth gwell*, sydd genym ni wedi ymddangosiad y Messïa, a gosodiad i fyny oruchwyliaeth y cyfammod newydd, yn angenrheidiol er perffeithiad, cyflawniad eu dedwyddwch hwy. Ni allasent fod yn berffaith ddedwydd yn

y nefoedd, heb i'r addewidion a gredasent gael eu cyflawni ar y ddaear yn eu hamser priodol, yn nyfodiad Crist i'r byd. Y breintiau a fwynheir genym ni ydyw cyflawnder eu dedwyddwch hwy, a sicrhâd eu meddiant a'u mwynhad tragwyddol o honynt.

Peth yn gwella o hyd, ac i wella byth ydyw crefydd, fel yr amlygir ei datguddiedigaethau. Yr oedd yr addewid a roddwyd i Abraham yn *rhywbeth gwell* na'r addewid yn Eden, ar yr hon yr oedd ffydd y patriarchiaid cyn y diluw yn byw. Cafodd Dafydd a'r prophwydi addewidion a manteision helaethach drachefn. Yr oedd llwybr y datguddiad fel y goleuni yn myned rhagddo yn oleuach oleuach, o'i dòriad cyntaf allan yn Eden hyd gyflawnder yr amser. Dysgwyl a gobeithio am rywbeth gwell y mae y saint ar y ddaear etto, a'r saint yn y nefoedd hefyd—dysgwyl am yr adgyfodiad gwell—dysgwyl y mabwysiad sef prynedigaeth y corff, y maent hwy yno. Nid yw eu dedwyddwch yn berffaith etto, ond mewn cymhariaeth. Y mae *rhywbeth gwell*—dedwyddwch mwy a helaethach yn eu haros etto. Myned rhagddynt o ogoniant i ogoniant y byddant yn ddiddiwedd.

---

## PENNOD XII.

1 *Cynghor i ffydd ddianwadal, amynedd, a duwioldeb.* 22 *Canmol y testament newydd rhagor yr hen.*

OBLEGID hyny ninnau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi [1] heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'*n* hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni;

[1] 2 Cor. 7. 1.

Cymhwysir yma yr hyn a ddywedasid yn y bennod o'r blaen am y ffyddloniaid dan yr Hen Destament, at wasanaeth amcan pwysig yr epistol, yn ei berthynas â'r Hebreaid, yn neillduol, ac â Christionogion yn gyffredinol. Arfera blaenoriaid milwraidd yn fynych galonogi a gwroli ysbryd eu milwyr wrth eu harwain i'r frwydr, drwy ddwyn ar gof iddynt esiamplau eu tadau gynt; ac nid oes dim a duedda yn fwy effeithiol na hyny i ateb y dyben. Felly gwna'r apostol yma, cyfeiria feddyliau yr Hebreaid at eu tadau, y rhai a wnaethant bethau mawrion dros Dduw, ac a ddyoddefasant bob math o driniaethau creulon yn wirfoddol a llawen yn achos eu crefydd, gan barhau yn wrol a dianwadal yn eu hymdrech o blaid y ffydd, nes ennill y fuddugoliaeth, gorphen eu gyrfa, a derbyn eu gwobr. Profa mai trwy ffydd yn yr un sylweddau ysbrydol ac anweledig, a osodid yn awr yn llawer llawnach ac eglurach allan yn yr efengyl, y cyflawnasant hwy, saint yr Hen Destament, y gorchestion hyn; ac nad oedd efe, gan hyny, ddim yn galw arnynt i ymwrthod â ffydd—crefydd, eu tadau, ond yn unig â'r defodau seremonïol a berthynent i oruchwyliaeth y ffydd dan y cyfammod cyntaf, yr hon oedd weithian wedi terfynu yn ngosodiad i fyny oruchwyliaeth y cyfammod newydd a gwell.

*Oblegid hyny ninnau hefyd.* Y mae a wnelo *hyny*—yr oll a ddywedasid o'r blaen am danynt hwy, â ni; y mae hyny yn dangos fod *cwmwl*—lluaws mawr o dystion, wedi eu *gosod o'n hamgylch.* Mynai'r apostol i'r Hebreaid (ac i ninnau) ddeall bod y ffyddloniaid gynt, y rhai a orphenasent eu gyrfa a'u tystiolaeth, ac a dderbyniasent wobr yr etifeddiaeth dragwyddol o ogoniant yn y nef, *yn dystion*—yn edrychwyr arnynt hwy, eu holynwyr, yn ngyrfa y ffydd ar y ddaear—eu bod yn sylwi gyda dyddordeb mawr ar y modd yr oeddynt yn dyfod yn mlaen yn eu crefydd—eu bod megys yn agos atynt, yn eu hymyl, ac o'u hamgylch. Y mae agosach cyfathrach a chymundeb rhwng y byd hwn a'r byd anweledig, nag ydym ni erioed wedi ei feddwl fe ddichon. Y mae llawer o ffeithiau anwadadwy yn hanes marwolaeth dynion da, na all un athroniaeth roddi cyfrif am danynt, ffeithiau a awgrymant yn gryf, bod rhyw un, neu ryw rai o ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, yn dal cymundeb agos ar y pryd â'r ysbryd a fyddai ar ymadael â'r corff, a bod y gydnabyddiaeth nefol ac

ysbrydol yn dechreu cyn i'r un anianol a daearol lwyr ddarfod.

Y mae golwg yr apostol yma ar y rhedegfeydd—y campau arferedig yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, y rhai oeddynt adnabyddus i'r Hebreaid hefyd, gan i un o'r Herodiaid eu dwyn i arferiad yn eu plith. Ymgynnullai tyrfaoedd yn nghyd i'r lle appwyntiedig ar yr achlysuron hyny. Llenwid y gorsafau o amgylch y cwrs gan dystion awyddus i weled y rhedegwyr yn ymryson am y gamp. Yr oedd presenoldeb cynnifer o dystion wedi eu gosod o'u hamgylch yn dylanwadu yn nerthol iawn ar y rhedegwyr i beri i bob un ymorchestu i'r eithaf i ennill y gamp. Felly *ninnau hefyd* yn yr yrfa ysbrydol, y mae lluaws mawr o dystion yn edrych arnom, y rhai a fuont eu hunain unwaith ar yr yrfa, ac a'i rhedasant i'r pen, ac a ennillasant y gamp, ac yn awr ydynt yn troi i edrych pa fodd yr ydym ni yn dyfod yn mlaen; gan hyny, bydded i ni ymroi ati o ddifrif.

*Gan roi heibio bob pwys*—pob peth a fyddo yn anghyfleusdra ac yn anfantais i ni fyned yn mlaen ar yr yrfa, megys y gwnai y rhedegwyr yn y gyrfaoedd hyny, y rhai a wisgent ddillad ysgeifn, lleicion, a chwta, fel na theimlent unrhyw rwystr oddiwrthynt yn yr ymrysonfa. Felly boed i ninnau roi heibio bob pryder a rhagofal yn nghylch pethau y bywyd presenol hwn, yn ol cyfarwyddyd ein Harglwydd i'r dysgyblion cyntaf, na byddai iddynt lwytho eu meddyliau â gofalon yn nghylch pa beth a fwytäent, neu beth a yfent, neu â pha beth yr ymddilladent; ac na fyddai i'w "calonau drymhau drwy lythineb a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn," gan y byddai y cyfryw bethau yn *bwys*, yn rhwystr, ac attalfa effeithiol i redeg yr yrfa ysbrydol.

*A'r pechod sydd barod i'n hamgylchu*—y pechod yr ydym yn fwyaf agored iddo oddiar ansawdd tymher, neu ein sefyllfa, ein hamgylchiadau, neu arferiad blaenorol—y pechod sydd megys yn wastad yn agos atom, ac yr ydym mewn awr o brofedigaeth, yn enwedig, mewn perygl neillduol o syrthio iddo, a chael ein dal yn ei fagl. Y pechod parod i amgylchu'r Hebreaid y pryd hwnw oedd, llwfrhau ac ymollwng yn eu heneidiau o herwydd yr erlidiau a'r blinderau a ddyoddefent yn achos eu crefydd. Y mae rhyw bechod neillduol yn barod i amgylchu pob Cristion, a dylai pob un adnabod ei elyn hwn, a bod ar wyliadwriaeth fanol a gwastadol rhag syrthio iddo, a chael ei attal felly ganddo ar ei yrfa tua'r nefoedd.

*Trwy amynedd rhedwn yr yrfa.* Trwy ddyfal-barhad a llawn ymroddiad ac egni, fel y rhedai y ymdrechwyr yn y campau. Os oeddynt hwy yn myned yn wirfoddol dan y fath ddysgyblaeth lem, a thrwy y fath ymarferiadau poenus, i barotoi a chymhwyso eu hunain i fyned trwy eu hymdrech i ennill coron ddiflanedig; gwobr nad oedd ei gwerth i'r ennillydd ond tâl gwael am y llafur yr aethai drwyddo, pa faint mwy y dylem ni Gristionogion fod yn barod ac awyddus i wneud pob hunanymwadiad, ac arfer pob egni ac ymdrech i dòri drwy bob rhwystrau, a dal ati yn wyneb pob gwrthwynebiadau, er mwyn y goron anllygredig o fywyd a gogoniant a sicrheir i bob rhedegwr ffyddlon ar derfyn ei yrfa. "Bydd ffyddlawn hyd angeu, a mi a roddaf i ti goron y bywyd."

2 Gan edrych ar Iesu, Pentywysog a Pherffeithydd *ein* ffydd *ni;* yr hwn, yn lle y [u] llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw.

[u] Luc 24. 26.

Cyfeiriasid o'r blaen at dadau a brodyr yn y ffydd fel esiamplau teilwng o ystyriaeth ac efelychiad. Yma cyfodir ein golwg yn uwch, at Iesu, Pen-tywysog, neu awdwr ein crefydd, a gwrthddrych mawr ffydd yr eglwys dan bob goruchwyliaeth. Efe yw yr haul, y canolbwnc, yn yr hwn y mae ffydd yr eglwys dan y ddau Destament yn cydgyfarfod ac yn cydsefyll. Gweledd Abraham ei ddydd ef o bell, a llawenychodd. Ymofynodd, a manwl chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i ni—

yn ei ymddangosiad yn y cnawd—gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhagdystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny, 1 Pedr i. 10, 11. Crist i ddyfod, Crist mewn addewid, oedd ganddynt hwy i edrych yn mlaen ato, mewn dysgwyliad am dano; ond y mae efe i ni yn awr yn Grist mewn hanes a ffaith, i edrych arno fel Awdwr a pherffeithydd y ffydd, gan ei fod wedi cyflawni a sylweddu yr holl addewidion a gerddasant o'r blaen am dano, a'r holl gysgodau a'i rhagosodasant ef allan dan y cyfammod cyntaf. Yr ydym i edrych arno ef fel *Tywysog* a *Pherffeithydd*, fel unig Arglwydd ein crefydd, ac yn gystal a hyny, fel esiampl i'w ddilyn a'i efelychu. "Gan adael i ni esiampl, fel y canlynech ei ol ef," 1 Pedr ii. 21.

*Yr hwn, yn lle y llawenydd o osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw.* Gosodwyd o'i flaen yntau, megys ninnau, yrfa i'w rhedeg, a'r un modd hefyd gosodwyd o'i flaen ef wobr i'w derbyn a'i mwynhau ar ben yr yrfa; ac *yn lle*, neu am y *llawenydd a osodwyd*—a addawyd iddo gan y Tad, *efe a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd.* Cadwodd ei olwg yn ddianwadal ar y gogoniant a'r llawenydd a osodwyd iddo. Yr oedd y groes a'r gwaradwydd ar ei lwybr i'r llawenydd, a gwnaeth ef yn fychan, yn ddiystyr o'r dyoddefaint a'r gwaradwydd, mewn cymhariaeth i'r llawenydd oedd wedi ei osod a'i addaw iddo ar ol gorphen gwaith a gyrfa ei ddarostyngiad ar y ddaear. Gosododd ei wyneb fel callestr, cuddiwyd edifeirwch o'i olwg; tòrodd trwy yr holl anhawsderau oedd ar ei ffordd, cyflawnodd ei waith mawr, gorphenodd ei yrfa o ddyoddefaint a gwaradwydd, ennillodd ei goron fel Messïa, ac a eisteddodd yn dragywydd ar ddeheulaw Duw. Yr amcan yma ydyw, arfogi yr Hebreaid dan y croesau a'r gwaradwydd a ddyoddefent "â'r meddwl oedd yn Nghrist Iesu;" i edrych yn mlaen at y gogoniant a'r llawenydd addawedig i'r ffyddloniaid ar ddiwedd eu gyrfa ddaearol, megys ag y gwnaeth eu Blaenor a'u Hathraw mawr ei hun, fel, yn yr olwg ar y llawenydd a'r gogoniant tragwyddol hwnw, y gallasent hwythau, megys yntau, edrych yn ddiystyr ar bob croes a gwaradwydd a'u cyfarfyddent yn eu cyrchfa ato. Y mae dwyn esiampl Crist fel hyn yn ymwroli dan y groes a'r gwaradwydd yn yr olwg ar y "llawenydd a osodwyd iddo," y rheswm cryfaf a mwyaf pwrpasol o'r cwbl i wroli meddyliau'r Hebreaid, a saint erlidiedig yn gyffredinol yn gystal a hwythau, dan y cyffelyb driniaethau oddiwrth y byd: gan eu bod hwythau, fel y dywed Crist ei hun, i gael eu gwneuthur yn gydgyfranogion âg ef o'r llawenydd hwnw. "A'r gogoniant a roddasit i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un," Ioan xvii. 22.

3 Ystyriwch am hyny yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; fel na flinoch, ac nac ymollyngoch yn eich eneidiau.

*Ystyriwch*—edrychwch arno yn y golygiad, yr agweddiad hwn yn neillduol—sef, fel y dyoddefydd tawel, amyneddgar, yn wyneb y profedigaethau mwyaf tanllyd—efe, "yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau," yn dyoddef felly *y cyfryw ddywedyd yn ei erbyn*—ei gyhuddo a'i gendemnio fel twyllwr a chablwr, a'r gwaethaf o ddrwgweithredwyr, a hyny *gan bechaduriaid.* Wrth edrych arno ef, a'i ystyried felly, ni allasent edrych arno yn beth dyeithr eu bod hwy yn dyoddef triniaeth gyffelyb iddo oddiwrth elynion ei enw a'i achos, a byddai y gyfryw ystyriaeth yn feddyginiaeth effeithiol iddynt rhag yr afiechyd o flino ac ymollwng yn eu heneidiau o herwydd y blinderau hyny; buasai blino ac ymollwng felly yn eu harwain o'r diwedd i fwrw ymaith eu crefydd yn gyfangwbl, fel peth ag yr oedd mwy o golled nac o fudd ac ennill i'w gael oddiwrthi. Nid felly yr edrychodd y Messïa ar yr achos; a gadael y ffrwyth deilliedig i ni oddiwrth ei ufudd-dod a'i ddyoddefiadau allan o'r cyfrif, yr oedd y llawenydd a'r gogoniant a osodwyd

iddo ef ei hun, fel rhan o'r wobr am y gwaith, yn peri iddo ddiystyru y *groes a'r gwaradwydd* er ei fwyn. Os buasai yn bechod mor ysgeler ac ofnadwy yn yr Hebreaid i ymollwng a thynu yn ol ag y gesyd yr apostol ef allan, yn wyneb y croesau a'r trallodau blinion a ddyoddefent o achos eu crefydd, beth a feddylir am euogrwydd y proffeswyr sydd yn blino, yn ymollwng, ac yn gwrthgilio, heb un esgus o'r fath dros eu hymddygiad?

4 Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

Ni wasgodd yr erledigaeth arnoch mor bell ac mor galed a hyn etto; yr oedd rhai personau, megys Stephan ac Iago, wedi dyoddef merthyrdod, y mae yn wir, ond nid oedd yr engreifftiau hyny ond eithriadau yn ffurf yr erledigaeth hyd y pryd yr oedd yr apostol yn ysgrifenu; ond y mae efe megys yn awgrymu bod hyny yn beth iddynt i'w ddysgwyl cyn hir, ac ymdrecha yn egnïol i gynnyrchu ynddynt y fath wrolfrydedd Cristionogol ag a'u galluogai hwynt i wneud yn fychan o'r blinderau presenol, mewn trefn i'w rhagbarotoi i gyfarfod â rhai mwy. Yr oedd Cristionogion yr oes gyntaf ar ol yr apostolion, lawer o honynt, yn cyfeiliorni i'r ochr arall yn ormodol, sef i awyddu am ferthyrdod yn fwy na dim arall. Aent at y swyddogion o honynt eu hunain i ymgyflwyno'n wirfoddol fel ymgeiswyr am goron merthyrdod, fel y galwent hi; ac os gwrthodai y swyddogion eu cymeryd i fyny, fel y dygwyddai weithiau, parai dristwch mawr iddynt, gan yr ystyrient y peth yn arwydd o gerydd dwyfol arnynt fel rhai annheilwng o'r anrhydedd goruchel o gael selio eu tystiolaeth â'u gwaed.

*Gan ymdrech yn erbyn pechod.* Yn erbyn y pechod o wrthgiliad, medd Grotius; pechod eu herlidwyr, medd Macknight a Stuart, gan osod pechod yn y fan hon i sefyll am bechaduriaid. "Y mae yr oll a wneir ac a ddyoddefir dros Grist yn ymdrech yn erbyn pechod," medd Calfin; ac yn mhellach, medd ef, "y mae profedigaethau a dyoddefiadau credinwyr yn foddion i ddarostwng eu llygredigaethau."

5 A chwi a ollyngasoch dros gof y [v] cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megys wrth blant, Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo.

[v] Diar. 3, 11, 12.

Dewisai amryw ddodi y geiriau mewn ffordd o holiad, *Ac a ollyngasoch chwi dros gof y cynghor?* Y mae y gair *cynghor* wedi ei gymeryd o enau doethineb yn Diar. iii. 11, 12, ac y mae yn hynod o gymhwysiadol at amgylchiadau a phrofiadau yr Hebreaid ar y pryd, gan eu bod yn digaloni ac yn ymollwng o herwydd y blinderau oeddynt yn eu dyoddef. At yr ystyriaethau calonogol a osodais o'ch blaen eisoes, fel pe dywedasai yr ysgrifenydd, y mae hwn hefyd; ac ymddengys ddarfod i chwi ei ollwng dros gof, onide ni buasech mor llesg a gwangalon—sef y cynghor caredig sydd yn dywedyd wrthych yn annogaethol a serchog iawn, megys wrth blant, "Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd." Y mae y cynghor fel dwy ganllaw dan ddwylaw credinwyr gorthrymedig i'w cynnal rhag, o un tu, syrthio i'r amryfusedd o wneud yn fychan, diystyr, a dirmygus o geryddon rhagluniaeth, fel y dywed Elihu am y rhai rhagrithiol o galon, a chwanegant ddig, ac ni waeddant pan rwymo efe hwynt; ac o'r tu arall, rhag llwfrhau, digaloni, ac ymollwng o danynt: i'r ochr hon yr oedd yr Hebreaid yn gogwyddo, ac mewn perygl drwy hyny o ddyrysu a methu ar eu gyrfa Gristionogol.

6 Canys y [w] neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu: ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.

[w] Dat. 3. 19.

Felly dywed doethineb yn nglŷn â gair y cynghor, fel dadl i'w gefnogi. Yn hytrach na blino ac ymollwng yn eich eneidiau, o herwydd y blinderau yr ydych yn eu dwyn yn achos y ffydd,

edrychwch arnynt fel arwyddion o gariad tadol Duw tuag atoch—fel moddion trwy ba rai y mae efe yn eich profi, eich dysgyblu, a'ch dysgu chwi, "gan wybod fod gorthrymder yn peri dyoddefgarwch, a dyoddefgarwch brofiad, a phrofiad obaith, a gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn eich calonau chwi." Y mae dynion da wedi bod yn rhy dueddol bob amser i edrych ar eu profedigaethau fel amlygiadau o anfoddlonrwydd Duw tuag atynt, ac nid fel gweinyddiadau Tad cariadlawn i'w dysgyblu a'u puro.

7 Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion: [x] canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?

[x] Diar. 13. 24.

*Os goddefwch*—os ymddygwch yn briodol, heb na dirmygu y cerydd, nac ymollwng dano,—os caiff y cerydd ei effaith deilwng arnoch, *y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion*—ei blant, y rhai y mae efe yn eu caru—chwi a ddeuech felly i wybod a phrofi hyn. *Canys pa fab sydd? &c.*—pa fodd y gallwch chwi ddysgwyl, er bod yn blant i Dduw, gael eich gadael yn ddigerydd, tra y byddo ynoch anmherffeithrwydd a beiau? ïe, mae yn angenrheidiol er cynnydd y gras, trwy yr hwn y'ch gwnaethpwyd yn feibion i Dduw, i chwi gyfarfod â phrofedigaethau a helbulon.

8 Eithr os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y mae pawb yn gyfranog; yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.

Pe buasech yn cael eich gadael yn gwbl ddyeithr i'r oruchwyliaeth hon, o'r hon y mae pob plant cyfreithlawn yn gyfranogion, yna, yn wir, buasai genych le i ofni ac ammheu eich perthynas â Duw fel ei blant mabwysiedig trwy ras. Y mae llawer annuwiol yn cael ei adael felly dros flynyddoedd ei fywyd, yn treulio ei ddyddiau mewn daioni, yn pesgi ar frasder bendithion rhagluniaeth Duw, ac nid *yw mewn blinder fel dynion eraill*, ac y mae yr esmwythder hwn yn ei ladd, ac yn brawf nad ydyw yn blentyn i Dduw.

9 Heblaw hyny, ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'*u* parchasom *hwy:* onid mwy o lawer y byddwn [y] ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw?

[y] Num. 16. 22; 27. 16.

Dyma reswm arall etto i gadarnhau yr annogaethau blaenorol. *Ni a gawsom dadau ein cnawd, &c.*—ein rhïeni naturiol, i'n ceryddu yn nhymmor ein plentyndod, er ein dysgyblu mewn ufudd-dod i'w hewyllysiau, ac am ein troseddau yn erbyn eu rheolau, *ac a'u parchasom hwy*—ymostyngasom i'w hawdurdod, ac ni leihaodd eu gwaith yn ein ceryddu ein serch mabol tuag atynt. Onid mwy o lawer ynte y byddwn ddarostyngedig i'n Tad sydd yn y nefoedd, *Tad ein hysbrydoedd*, o gymaint ag y mae efe yn fwy na thadau ein cnawd, ac o gymaint ag y mae ein hysbrydoedd ni yn fwy na'r cyrff y preswyliant ynddynt. Y mae y corff a'r ysbryd, a rhïeni y corff a Thad yr ysbryd, yn cael eu gosod yn gyferbyniol, er dangos fod ein rhwymedigaeth i'n Tad dwyfol yn llawer mwy a chryfach na'n rhwymedigaeth i'n rhïeni dynol. *A byw*—neu fel y byddem ni byw—dyna amcan a dybenion grasol Tad yr ysbrydoedd yn ei holl geryddon, *fel y byddom ni byw*—ein lles a'n daioni ysbrydol a *thragwyddol.* "Eithr pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n damnier gyda'r byd," 1 Cor. xi. 32.

10 Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'*n* ceryddent fel y gwelent hwy yn dda; eithr hwn er llesâd i ni, fel y byddem gyfranogion o'i santeidd-rwydd ef.

*Hwynt-hwy*—tadau ein cnawd, *dros ychydig ddyddiau*—dros dymmor byr ein bywyd plentynaidd, tra yr oeddym yn wrthddrychau priodol dysgyblaeth y wialen, *a'n ceryddent fel y gwelent hwy yn dda*, yn ol eu meddwl a'u hewyllys, ac yn fynych o bosibl yn ol nwyd y

foment, ac heb un dyben ganddynt ar y pryd ond porthi y nwyd gyffrous hòno; *ond hwn*—Tad yr ysbrydoedd, *er llesâd i ni.* Nid yw efe byth yn ceryddu felly, ond yn ol doethineb a graslonrwydd, er llesâu a diwygio ei blant—i'w puro a'u glanhau, fel y byddont gyfranogion o'i santeiddrwydd a'i ddelw ef ei hun.

11 Etto ni welir un cerydd dros yr amser presenol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd: ond gwedi hyny y mae yn rhoi [z] heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef.

[z] Esa. 32. 17; Iago 3. 18.

Yr amcan yn y geiriau hyn ydyw, dangos nad ydym i farnu ceryddon Duw wrth ein teimlad; i'r teimlad y maent o angenrheidrwydd yn boenus, yn annymunol, ac anhyfryd, fel y feddyginiaeth chwerw i'r claf, ond rhaid edrych arnynt yn eu tuedd, eu hamcan, a'u dyben; ac i'r rhai sydd yn edrych arnynt felly, *y maent yn rhoddi heddychol ffrwyth cyfiawnder*—yn effeithiol er eu puro a'u llesâu, fel y gallont ddywedyd gyda'r Salmydd, "Da i mi fy nghystuddio, fel y dysgwn dy ddeddfau," Salm cxix. 71.

12 O herwydd paham [a] cyfodwch i fyny y dwylaw a laesasant, a'r gliniau a ymollyngasant.

[a] Esa. 35. 3.

Dyma'r casgliad a'r cymhwysiad oddiwrth yr oll a draethwyd yn yr adran hon ar ymweliadau ceryddol Duw â'i bobl. Nid oedd y blinderau hyny ar yr Hebreaid yn dyfod yn uniongyrchol oddiwrth Dduw, fel y daw rhai blinderau, ond oddiwrth ddynion a gelynion Duw a'i bobl; ond etto, yr oeddynt trwy ei oddefiad, a than ei oruwchlywodraethiad ef; ac er mai eu blino a'u drygu ydoedd amcan eu gelynion ag oeddynt yn eu herlid, etto, eu llesâd ysbrydol a thragwyddol oedd mewn golwg gan yr Hwn oedd yn goddef ac yn goruwchlywodraethu y cwbl. *O herwydd paham cyfodwch i fyny y dwylaw a laesasant, &c.*—ymwrolwch, cymerwch gysur, nid yn unig *yn* eich blinderau, ond hefyd o honynt, fel, yn hytrach na blino ac ymollwng o'u herwydd, yr ennilloch nerth adnewyddol oddiwrthynt i redeg yr yrfa a osodwyd o'ch blaen. Bydded i'r ceryddon felly eich bywiocâu a'ch symbylu yn y cyflawniad o'ch dyledswyddau Cristionogol, ac nid peri i chwi wanychu a llaesu dwylaw gyda hwynt.

13 A gwnewch [b] lwybrau uniawn i'ch traed; fel na thröer y cloff allan o'r ffordd, [c] ond yr iachäer efe yn hytrach.

[b] Diar. 4 26, 27. [c] Gal. 6. 1.

Na fydded i chwi byth droi oddiar lwybr uniawn dyledswydd i geisio osgoi blinderau. Os byddwch yn feddalgalon i ofni erlidiau a gwaradwyddiadau, bydd yr ofni hwn yn sicr o ddwyn magl i chwi, a pheri i chwi gilio o'r neilldu oddiar lwybrau gwirionedd ac uniondeb. Y mae llwybr dyledswydd yn gofyn gwroldeb a phenderfyniad cryf i sefyll arno, a myned yn mlaen ar hyd-ddo yn aml. "Y rhai sydd yn dilyn yr Oen i ba le bynag yr elo," ydyw un o nodau gwir ganlynwyr Crist.

*Fel na thröer y cloff, &c.*—y petrusgar—yr ammheus—egwan—rhag i'r gwendid, a'r cloffni, a'r llesgedd yna ddybenu o'r diwedd mewn ymadawiad â ffordd a llwybr eich gyrfa Gristionogol; ac, fe ddichon, y golygir, rhag iddo fod yn dramgwydd i eraill, proffeswyr ieuainc newydd daro at grefydd, y rhai a ddigalonir ar gychwyniad eu gyrfa wrth weled hen broffeswyr yn petruso ac yn ymollwng.

14 Dilynwch [d] heddwch â phawb, a santeiddrwydd, heb [e] yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd:

[d] Salm 34 14. [e] Mat. 5. 8; Eph. 5. 5.

"Os yw bosibl hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dyn," medd yr un apostol wrth eglwys arall. Y mae yn anhawdd yn aml, ac fe ddichon, yn ammhosibl weithiau. Y mae ysbryd addfwyn, a llonydd, tawel a heddychol, yn un o brif elfenau y fuchedd Gristionogol ac o nodau plant

Duw. "Gwyn eu byd y tangnefedd-wyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw," Mat. v. 9.

Y mae yr ymadrodd, *Dilynwch hedd-wch, &c.*, yn arwyddo, ac yn caniatâu fod byw yn heddychol â phawb yn waith anhawdd, ond y mae y cyfryw fywyd yn werth ymdrechu llawer i'w fwynhau. Cynneddfau y ddoethineb sydd oddiuchod ydynt, pur, heddych-lawn, boneddigaidd, a hawdd ei thrin, Iago iii. 17.

*A santeiddrwydd*—rhaid dilyn hedd-wch â phawb ar lwybr santeiddrwydd. Ni ddylid aberthu santeiddrwydd er mwyn heddwch â neb; canys wrth aberthu santeiddrwydd, aberthir hedd-wch a boddlonrwydd Duw: hebddo ni chaiff, ac ni all neb ei weled ef, i gymdeithasu âg ef, ac i'w fwynhau. Gweled yr Arglwydd yn yr ystyr a olygir yma ydyw hanfod dedwyddwch, ac i hyn y mae santeiddrwydd yn han-fodol angenrheidiol.

15 Gan edrych yn [f] ddyfal na *bo* neb yn pallu oddiwrth ras Duw; rhag bod [g] un gwreiddyn chwerw-edd yn tyfu i fyny, *ac* yn peri blinder, a thrwy hwnw llygru llawer;

f 2 Pedr 1. 10. g Deut. 29. 18.

Wrth *ras Duw* yn y fan hon golyga rhai, y ffydd a'r broffes o efengyl Crist; na byddai i'r un o honynt ballu a di-galoni, ac felly wadu eu cred a'u cyffes Gristionogol ar gyfrif blinderau a ddy-oddefent yn achos Crist. Eraill a olygant, mai ffafr a chymeradwyaeth Duw, yr hwn yn unig a fwynheir trwy ddilyn heddwch a santeiddrwydd, yn ol yr annogaeth yn yr adnod flaenorol, sydd i'w ddeall wrth *ras Duw* yma. Gan fod *gweled yr Arglwydd*, sef mwyn-hau ei ffafr, ei foddlonrwydd, a'i gym-deithas, o'r fath bwys a gwerth, yn fwy felly na phob peth arall, edryched pob un ati gyda'r gofal a'r dyfalwch mwyaf na byddo iddo *ballu*—syrthio yn fyr o hono—methu cyrhaedd y nôd—y ragor-fraint oruchel hon: a thrwy ddilyn heddwch a santeiddrwydd yn unig y mae y gras hwn o ffafr Duw i'w fwyn-hau.

*Rhag bod un gwreiddyn chwerwedd, &c.* Y mae llygaid meddwl yr ysgrifenydd yma ar eiriau Moses, Deut. xxix. 18. Meddyliem fod yr ymadroddion yn dal cysylltiad â'r annogaeth gyntaf yn yr adnod flaenorol yn nghylch *dilyn hedd-wch*—ar iddynt ofalu rhag bod neb yn eu cymdeithas o ysbryd cynhenus, yn peri ymrysonau ac ymbleidiau, ac felly yn cythryblu undeb a thangnefedd y frawdoliaeth. Aflonyddid amryw o'r eglwysi apostolaidd yn fawr iawn gan y *gwreiddiau chwerwon* a gwenwynig hyn, a llawer eglwys yn mhob oes ar ol hyny yr un modd. Dynodir dynion o'r ysbryd hwn gan yr apostol Paul, yn mhob lle y cyfeiriai atynt, fel y rhyw-ogaeth waethaf o droseddwyr—yn rhai i graffu arnynt—i gilio oddiwrthynt—ac i'w tòri ymaith wedi un ac ail rybudd. Gwnaeth y dosbarth hwn fwy o anrhaith ac aflwydd yn eglwysi y saint, ond odid, nag un dosbarth arall o bechaduriaid. Un o'r *gwreiddiau chwerwaidd* hyn mewn eglwys a lygra lawer; os goddefir ef ynddi, efe a faga ei ysbryd ei hun yn eraill. Ymdrecha'n wastad i ennill plaid, ac yn neillduol i wenwyno ys-brydoedd dychweledigion ieuainc. Ym-lecha yn y dirgel allan o'r golwg ei hun, hyd y gallo, gan osod eraill i weithio yn gyhoeddus o dan ei gyfarwyddiadau. Gwylia yn ddyfal am adeg a chyfleus-dra i hau hadau anghydfod, a dylai yr eglwys fod ar ei gwyliadwriaeth yn barhaus rhagddo.

16 Na *bo* un [h] puteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr [i] hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

h 1 Cor. 5. 11; 6. 18. i Gen. 25. 33.

Y mae'r ymadroddion hyn etto, fe debygid, yn dal perthynas â'r annog-aeth o *ddilyn santeiddrwydd* yn adn. 14, drwy nodi y gwrthwyneb ymddygiad, a choffeir Esau fel esiampl. Nid yw yr apostol yn cymhwyso y dynodiad *puteiniwr* at Esau, ond yn unig yr *halogedig.* Golyga Stuart fod y naill a'r llall yn cael eu priodoli iddo, a chyf-eiria at y ffaith fod ganddo amryw o wragedd fel prawf. Pe felly, yr oedd mor briodol galw Jacob yn buteiniwr

ag yntau, ac amryw eraill o ffyddloniaid yr Hen Destament yr un modd. Goddefid amlwreiciaeth, o leiaf, dan yr oruchwyliaeth hòno, ac y mae deddf Moses yn cynnwys rheolau teuluaidd gyda golwg ar ddygwyddiadau a allasent gyfodi oddiar yr amgylchiad, (gwel Deut. xxi. 15—17). Credwn ynte nad oedd yr apostol yn dynodi Esau fel puteiniwr, ond yn dynodi y cymeriad aflan hwnw fel un anghymhwys o aelodaeth yn eglwys Crist. Yr oedd Esau yn yr amgylchiad a goffeir yn ateb yn gymhwys i'r cyfenwad *halogedig*, gan iddo ddibrisio a dirmygu rhagorfraint gysegredig trwy yr oesau patriarchaidd, a berthynai i'r mab cyntafanedig mewn teulu, a'i gwerthu am *un saig o fwyd*, pan oedd pabell lawn ei dad gerllaw yn gyfleus iddo ddiwallu ei angen. Na fyddwch chwi, Gristionogion, yn debyg iddo, medd yr apostol, drwy ddiystyru eich rhagorfreintiau efengylaidd—eu gwerthu a'u gwadu er mwyn unrhyw fudd neu fantais bresenol, fel yr ymwadodd ef â'i enedigaethfraint. Aberthodd ef y rhagorfraint hòno ar allor ei flys at gwpanaid o gawl coch, ac felly dibrisiodd hi fel peth o ychydig iawn o werth. Y mae y dyn sydd dan lywodraeth blysiau anianol yn actio yn wastad fel y gwnaeth Esau—yn prisio y mwynhad presenol lleiaf yn fwy na'r daioni penaf yn y dyfodol, a phleserau cnawdol yn fwy na bendithion ysbrydol; a hyn a eilw'r apostol yn rhodio yn ol y cnawd, yn gyferbyniol i rodio a byw yn ol yr Ysbryd.

17 Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi [k] hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.

[k] Gen. 27. 34—38.

*Wedi hyny*—daeth Esau yntau *wedi hyny*—wedi gwerthu ei enedigaethfraint gyda diystyrwch, i weled ei gamsyniad pan oedd yn rhy ddiweddar. Drwy werthu yr enedigaeth-fraint, yr oedd wedi fforffetu pob hawl i'r fendith a'i cyfansoddai yn etifedd addewid cyfammod ei dadau. Wrth ei gwerthu, fe werthodd yr addewid, y cyfammod a'i holl gynnwysiad o fendithion tymmorol ac ysbrydol, "am un saig o fwyd!" Ewyllysiai ei dad Isaac, y mae'n wir, o herwydd ei hoffder naturiol o hono, yn hytrach na Jacob, gyhoeddi y fendith hòno arno; ond dyryswyd ei amcan drwy ddyfais dwyllodrus Rebecca a Jacob, yn yr hyn nis gellir mewn un modd eu cyfiawnhau. Dylasent hwy adael yr achos yn llaw Duw i droi y fendith i'w hetifedd priodol yn ei ffordd ei hun; ond cymerasant hwy y mater i'w dwylaw eu hunain: bu y canlyniad yn bur chwerw iddynt, yn enwedig i Rebecca, yr hon ni chafodd olwg byth ar ei hoff fab Jacob ar ol y diwrnod hwnw, gan orfod iddo ddianc ymaith am ei fywyd rhag llid ei frawd. Gwyddai Rebecca mai Jacob oedd gwir etifedd y fendith yn ol ewyllys Duw a ddadguddiasid iddi, a dichon y tybiai fod hyny yn cyfreithloni ei dyfais dwyllodrus; ond nid yw dyben da byth yn santeiddo anwiredd a thwyll fel moddion cyfaddas i'w gyrhaedd—ni fyn Duw ei wasanaethu âg arfau anwiredd. Gwnaeth yr egwyddor Jesuitaidd fod dyben da yn cyfreithloni ac yn cyfiawnhau moddion o'r fath hyn i'w gyrhaeddyd, annhraethol ddrygau a blinderau yn y byd erioed.

*Ni chafodd efe le i edifeirwch.* Ni chafodd Isaac, wedi iddo ddeall mai Jacob a fendithiasai mewn amryfusedd yn lle Esau—*le i edifeirwch*—i newid ei feddwl—i alw yn ol y fendith a gyhoeddasai, a'i hail gyhoeddi ar Esau; deallodd mai ewyllys Duw oedd i Jacob etifeddu yr addewid.

*Er iddo trwy ddagrau, &c.* Sef er i Esau ymbil trwy wylofain a dagrau am y fendith, nid oedd modd bellach ei galw yn ol; felly, yn y diwedd, profodd chwerw argyhoeddiad o'i ffolineb yn gwerthu ei enedigaeth-fraint, a gwasanaetha yr amgylchiad fel esiampl gymhwys at amcan yr apostol, i rybuddio y Cristionogion rhag ymddwyn yn gyffelyb iddo drwy ymwrthod â chyffes eu gobaith efengylaidd er mwyn unrhyw fudd neu fantais dymmorol.

18 Canys ni ddaethoch chwi
at [l] y mynydd teimladwy sydd yn
llosgi gan dân, a chwmwl, a
thywyllwch, a thymhestl,

[l] Exod 19. 12—19.

Y mae mwy o gyferbynu personau a phethau i'w gilydd yn yr epistol hwn nac yn un rhan arall o'r ysgrythyr, fe ddichon. Rhed cyferbyniadau trwyddo o'r dechreu i'r diwedd; ac yn y gyfran nodedig hon, gwneir cyferbyniad drachefn o bethau a gyferbynasid o'r blaen droion, sef y ddau gyfammod a'u goruchwyliaethau; ond gwneir ef yma mewn dull gwahanol. Arddull yr ymresymydd yn benaf a wisgai yr ysgrifenydd o'r blaen, ond arddull y bardd a wisga efe yn benaf yma. Gosodir allan yma unwaith drachefn ragorfreintiau rhagorach Cristionogion dan yr efengyl, na'r eiddo y tadau dan y gyfraith. *Ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy, &c. Nid* ydych chwi *yn* dyfod, yn ol Macknight—myn ef mai cyflwr dyfodol y saint yn y nefoedd ar ol yr adgyfodiad a gyferbynir yma â sefyllfa yr eglwys dan gyfammod Sinai. Y meddwl, medd ef, yw,—Nid ydych chwi, Gristionogion, yn awr, yn dyfod *at y mynydd teimladwy*, dan weinidogaeth danllyd ac ofnadwy fel un Sinai, ar eich ymdaith tua'r Ganaan nefol, fel y daeth eich tadau dan y mynydd hwnw, yn eu hymdaith o'r Aifft i'r Ganaan ddaearol. O'r un ystyr yw deongliad Stuart ar y geiriau; ond nis gallwn ddygymmod â'r golygiad hwn, am nad ymddengys yn debygol i'r apostol roddi naid mor ddisymwth a dirybudd oddiwrth bwnc mawr ei epistol at sefyllfa wynfydedig y saint yn y nefoedd. Goruchwyliaethau y ddau gyfammod ar y ddaear, a rhagoriaeth breintiau y newydd ar eiddo yr hen, sydd wedi bod ganddo mewn llaw o'r dechreu, ac y mae yn ei ddilyn hyd y diwedd. Y mae y cyfeiriadau achlysurol a wna at y gwynfyd nefol yn eglur a phenodol, a dengys fod y saint dan yr Hen Destament yn etifeddion gobaith y gwynfyd nefol, yn gystal a'r saint dan y Testament Newydd, ond bod y ffordd yr oeddynt hwy, dan y cyfammod cyntaf, yn dyfod at y gobaith hwnw yn arwach a mwy cwmpasog, na ffordd y cyfammod newydd.

*Mynydd teimladwy.* Mynydd yn ystyr briodol y gair—mynydd gweledig, y gellid ei deimlo, ei ddringo, a'i rodio—mynydd Sinai, ar yr hwn y disgynodd Duw, ac y cyhoeddodd ei gyfraith, mewn llef geiriau, o ganol y tân, y tywyllwch, y dymhestl, a sain udgorn. Yr oedd yr holl weinidogaeth hono â mawredd a gogoniant anianyddol gweledig a chlywadwy yn ei hamgylchynu, ag oedd yn ei gwneuthur yn ofnadwy iawn i gnawd, ac ni allodd yr un o'i deiliaid ei dal heb ei lenwi âg ofn a dychryn; dygodd yr un effaith arnynt oll.

19 A sain udgorn, a llef geir-
iau; yr [m] hon pwy bynag a'*i* clyw-
sant, a ddeisyfasant na chwanegid
yr ymadrodd wrthynt.

[m] Exod. 20. 18, 19.

20 (Oblegid ni allent hwy odd-
ef yr hyn a [n] orchymynasid; Ac
os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd,
efe a labyddir, neu a wenir â
phicell.

[n] Exod 19. 12, 13.

*Yr hon pwy bynag a'i clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt.* Gwelodd y bobl fwy o werth Moses fel cyfryngwr rhyngddynt â Duw y diwrnod hwnw nag a welsent erioed o'r blaen, a gwaeddasant yn eu dychryn, gan ddywedyd wrth Moses, "Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandawn; ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw," Exod. xx. 19. Amlygodd Iehofa ei gymeradwyaeth o deimlad a deisyfiad y bobl ar yr achlysur pan ddywedai wrth Moses, "Clywais lais geiriau y bobl hyn, y rhai a lefarasant wrthyt: da y dywedasant yr hyn oll a ddywedasant," Deut. v. 28. Un o ddybenion gweinidogaeth ofnadwy y *mynydd teimladwy* oedd dangos i'w ddeiliaid eu hangen am gyfryngwr rhyngddynt â Duw, a mawrhau Moses fel y cyfryw gyfryngwr yn eu golwg. "Wele mi a ddeuaf atat (medd Duw wrth Moses) mewn cwmwl tew, fel y clywo y bobl pan ymddyddanwyf â thi, ac fel y credont i ti byth," Exod. xix.

9. A dyben Ysbryd Duw yn dwyn pechadur dan argyhoeddiad o'i gyflwr andwyol ac anobeithiol, yn wyneb y ddeddf a gyhoeddwyd ar Sinai, ydyw dangos gwerth Cyfryngwr y testament newydd iddo, o'r hwn yr oedd Moses fel cyfryngwr yr hen yn gysgod anmherffaith; ac felly y mae gweinidogaeth y ddeddf yn llaw Ysbryd Duw yn foddion i ogoneddu Crist, trwy ddwyn yr enaid dychrynedig i gredu ynddo byth.

21 Ac mor ofnadwy oedd y golwg, *ag* y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu)

*Ac mor ofnadwy oedd y golwg, ag y dywedodd Moses, &c.* Ni ddywedir hyn yn yr hanes yn Exodus, nac yn yr ailadroddiad o'r amgylchiadau yn Deuteronomium. Barna rhai ei fod yn draddodiad adnabyddus yn mysg yr Hebreaid ddarfod i Moses lefaru y geiriau wedi ei daro gan arswyd yn yr olwg ar yr amlygiadau o'r mawredd dwyfol ar Sinai, a cod yr apostol yn caniatâu gwirionedd y traddodiad hwnw. Dywed Ebrard mai cyfeiriad sydd yma at deimlad Moses yn achos y bobl, wedi iddynt wneuthur y llo aur, rhag y buasai i Dduw yn ei soriant cyfiawn eu dinystrio, nad oedd gan Moses achos *ofni a chrynu* oblegid ei drosedd ei hun.

Y mae y deongliad hwn yn un pellgyrchol iawn, debygid, canys dygwyddodd amgylchiad y llo aur yn mhen tua deugain niwrnod ar ol yr olygfa a ddysgrifir yma. Nid ofn troseddwr euog ger bron ei farnwr ydoedd yr ofn hwn; ond ofn naturiol creadur gwan yn wyneb amlygiadau anghyffredinol o fawredd anfeidrol ei Greawdwr, y fath amlygiadau nad allasai ysbryd pur a dibechod yn preswylio mewn cnawd eu dal heb arswydo. Dygwyddodd hyn, y mae yn llwyr debygol ynte, pan oedd y dymhestl yn ei nerth mwyaf, a Moses ar ben y mynydd ei hunan yn ei chanol. Dywed yr hanes fel hyn, "Pan ydoedd llais yr udgorn yn hir, ac yn cryfhau fwyfwy, Moses a lefarodd; a Duw a atebodd mewn llais," Exod. xix. 19. Ni ddywedir pa eiriau a lefarodd Moses; ond y mae y casgliad yn naturiol iawn oddiwrth yr amgylchiad yr oedd ynddo, mai y geiriau hyn a lefarodd ef, a darfod i Dduw ei ateb mewn llais, er llonyddu ei ofn a thawelu ei feddwl.

22 Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Seion, ac i [o] ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o [p] angelion,

[o] Dat. 3. 12. [p] Salm 68. 17.

*Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Seion.* Saif mynydd Seion yma mewn cyferbyniad i'r mynydd teimladwy. Ar fynydd Seion, yn Jerusalem, yr oedd tŷ brenhinol Dafydd, gerllaw yr hwn y parotodd efe babell i arch Duw; ac ar ran arall o hono, Moriah, yr adeiladodd Solomon y deml; ac yn y mynydd hwnw o hyny allan, hyd derfyn dyddiau yr oruchwyliaeth hòno, y preswyliai Duw yn ei dŷ rhwng y cerubiaid ar y drugareddfa, mewn arwydd gweledig o'i bresenoldeb; ond nid y mynydd hwnw yn llythyrenol a olygir yma, ond yn yr ystyr gyfrinol, arwyddocaol, a roddwyd iddo, sef goruchwyliaeth ysbrydol teyrnas y Messïa dan yr efengyl. Dodir enw y mynydd hwnw ar eglwys y testament newydd yn fenthyciol oddiwrth fynydd Seion yn Jerusalem, ac y mae hi wedi syrthio mewn cariad âg ef, ac yn ei fynych arfer yn ei gweddïau a'i chaniadau yn mhob oes ac yn mhob iaith, gan ei ddeall yn yr ystyr sydd iddo yn y Testament Newydd.

*I ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol.* O'r hon yr oedd dinas Jerusalem yn ngwlad yr addewid yn arwyddlun, yr hon a elwid "dinas Duw." Datganai Dafydd yn fynych ogoniant eglwys Dduw, gan gymeryd ei ddelweddau oddiwrth sefyllfa a chadernid dinas Jerusalem, "Ei sail sydd ar y mynyddoedd santaidd;" ac, "Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch; felly y mae'r Arglwydd o amgylch ei bobl," &c. *Dinas y Duw byw* yma yw y wir eglwys efengylaidd—lle o gryfder, diogelwch, trefn, a llawnder o bob peth at angenrheidiau a chysuron y preswylwyr. Yr ydych chwi, trwy ffydd yn Nghrist, wedi dyfod i mewn i'r ddinas hon, ac yn meddu rhagorfreintiau dinasyddion ynddi. *Y Duw byw*—y Duw sydd yn awdwr, yn ffyn-

non, ac yn rhoddi bywyd. "Yna," medd y Salmydd am Seion, "y gorchymynodd Duw y fendith, sef bywyd yn dragywydd."

*Ac at fyrddiwn o angylion.* Dywedasai yr apostol am yr angylion yn nechreu ei epistol, mai "ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth." Y maent hwy, gan hyny, megys yn warcheidwaid *mynydd Seion a dinas y Duw byw*, yn gwasanaethu ar y dinasyddion. Yr oedd myrddiwn (nifer anmhenodol yn dynodi lluaws mawr) yn gweini ar Sinai, y mynydd teimladwy; ond nid oedd y bobl yn cael myned atynt, yr oedd terfyn wedi ei osod rhyngddynt a'r mynydd, ac angeu diattreg fuasai y canlyniad i bwy bynag a ryfygasai groesi y terfyn hwnw. Ond yr ydych chwi, trwy ffydd yn awr, medd yr apostol, yn dyfod at y bodau ysbrydol hyn yn ddiberygl. Nid oes un terfyn gwaharddedig i'ch attal. Yr ydych yn ddeiliaid gofal yr ysbrydion gwasanaethgar hyn, ac y mae o werth i chwi ddeall eich bod felly, fel y mawrhaoch y rhagorfraint sydd yn perthyn i chwi yn eich perthynas â hwy, ac y mwynhaoch y cysur oddiwrthi. Y mae y saint yn derbyn mwy o wasanaeth a chymwynasau trwy angylion nag y maent yn feddwl o lawer.

**23** I gymanfa a chynnulleidfa y rhai [q] cyntafanedig, y rhai a [r] ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, [s] Barnwr pawb, ac at [t] ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

q Dat. 14 4. r Luc 10. 20. s Gen. 18 25.
t 1 Cor. 15. 49, 54.

*I gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, &c.* Yr oedd breintiau neillduol yn perthyn i'r cyntafanedigion gynt, (fel y mae etto i raddau), megys y sylwyd o'r blaen yn mherthynas i Esau. Yr oedd y cyntafanedig, yn absenoldeb y tad, yn yr oesau patriarchaidd, yn blaenori fel brenin ac offeiriad yn y teulu. Wrth y *rhai cyntafanedig* yn nheulu Duw y golyga Macknight a Stuart, a'r holl esbonwyr a olygant mai am y nefoedd y llefara yr apostol yma, y patriarchiaid a'r prophwydi, blaenffrwyth y drefn bryn-edigol, y rhai ar y cyfrif hwnw, ac enwogrwydd eu ffydd, ydynt yn meddiannu anrhydedd ac urddas uwch na'r lleill a ddynodir etto yn *ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd.* Ond ymddengys i ni nad yw yr esbonwyr enwog hyny yn traethu meddwl yr apostol yn yr ymadroddion hyn; hyny yw, nad oedd efe yn golygu yr eglwys orfoleddus yn y nefoedd ynddynt. Y rhai a *ysgrifenwyd yn y nefoedd*—a gofrestrwyd yno—a ddywed ef, megys y dywed y Salmydd wrth ddatgan y "gogoneddus bethau a ddywed r am ddinas Duw, Yr Arglwydd a gyfrif pan ysgrifeno y bobl eni hwn yno." *Cymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig* ynte ydyw yr eglwys weledig ar y ddaear, preswylwyr *dinas y Duw byw,* y rhai sydd wedi eu galw ganddo allan o'r byd trwy'r efengyl, ac y maent hwythau wedi ymneillduo oddiwrtho, gan ymgyfenwi ar enw yr Arglwydd, ac ymgysegru i'w wasanaeth. Ffrwyth tywalltiad yr Ysbryd a llwyddiant yr efengyl bob amser ydyw ychwanegu at rifedi yr eglwys: "Hwn a ddywed, Eiddo yr Arglwydd ydwyf fi; a'r llall a'i geilw ei hun ar enw Jacob; ac arall a ysgrifena â'i law, Eiddo yr Arglwydd ydwyf, ac a ymgyfenwa ar enw Israel," Esa. xliv. 5. Y mae credu yr efengyl, a gwneud proffes gyhoeddus o honi, yn cael eu cydgysylltu yn wastad yn yr ysgrythyrau fel anhebgorion cadwedigaeth i fywyd. Mae'n wir ddarfod i lawer yn mhob oes gyffesu â'r genau, heb erioed gredu â'r galon; ond y mae yn anhawdd meddwl y creda neb â'r galon heb gyffesu â'r genau hefyd, os bydd cyfleusdra iddo allu gwneuthur hyny. Rhoddir pwys mawr iawn yn ngair Duw ar wneud proffes o'r efengyl.

*Ac at Dduw, Barnwr pawb.* Ni chai Israel dan Sinai fyned yn agos at y Barnwr, y Deddfroddwr, nac ychwaith fyned i'w bresenoldeb yn y cysegr santeiddiolaf, ond yn unig trwy eu cynnrychiolwr—yr archoffeiriad—unwaith yn y flwyddyn. Yr oedd dwy len, y wahanlen a'r gauadlen, yn wastad rhwng yr addolwyr â Duw dan y cyfammod hwnw; ond y mae y cred-

inwyr dan y testament newydd yn cael dyfodfa ato drwy ffydd ar hyd "ffordd newydd a bywiol, a gysegrwyd trwy y llen, sef ei gnawd ef." Yr oedd rhwygiad llen y deml, pan ogwyddodd y Gwaredwr ei ben yn angeu ar y groes, yn arwyddo y rhyddid hwn i nesâu at Dduw o hyny allan.

*Ac at ysbrydoedd y cyfiawn, &c.* Yr holl ffyddloniaid a ddygasant eu tystiolaeth dros Grist, ac a orphenasant eu gyrfa, ag ydynt yn gorphwys gyda Christ o ran eu heneidiau, yn ysbrydoedd perffeithiedig, wedi eu llwyr buro oddiwrth bob llygredd, gwendid, ac anmherffeithrwydd. Nid yw cymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, neu y credinwyr ar y ddaear, ac ysbrydoedd y cyfiawn a berffeithiwyd yn y nefoedd, ond un teulu yn Nghrist.

24 Ac at Iesu, [u]Cyfryngwr y testament newydd, a [v]gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r *eiddo* [w]Abel.

[u]Heb. 8. 6. [v]Exod. 24 8. [w]Gen. 4 10.

*Ac at Iesu, Cyfryngwr y testament newydd.* Efe yw y canolbwnc, yn yr hwn y cydgyferfydd, y cydgysylltir, ac y cydunir, yr holl deulu mawr yn y nefoedd a'r ddaear yn un gymdeithas. Enwir ef yn ddiweddaf yma, er mai efe yw y drws, y ddyfodfa, trwy yr hwn y mae y credinwyr yn dyfod i hawl a chyfranogaeth o'r holl ragorfreintiau goruchel sydd wedi eu crybwyll. Tybia Macknight fod meddwl yr apostol wedi ei lyncu i fyny yn gymaint gan fawredd a gogoniant y pethau y traetha am danynt, fel yr anghofiai, neu na ofalai i'w gosod a'u cyflëu mewn trefn reolaidd. Yn ol y drefn hono, medd ef, gosodasid yr ymadrodd *ysbrydoedd y cyfiawn*, o flaen yr ymadrodd, *Duw, Barnwr pawb*, ac nid ar ei ol fel y mae. Y mae ystyriaeth wahanol i'r ymadrodd hwn, *dyfod at Iesu*, i bob un o'r lleill. Y mae yr enaid ffyddiog yn dyfod ato fel Cyfryngwr y cyfammod newydd am ei fywyd, a thrwyddo ef yn cael dyfodfa at Dduw ei Farnwr, i'w gymmod a'i ffafr, ac i undeb ysbrydo â holl deulu Duw, yn angylion a saint yn y nef, a'r ffyddloniaid ar y ddaear.

*A gwaed y taenelliad*—mewn cyfeiriad at daenelliad gwaed yr aberth ar y bobl dan y cyfammod cyntaf—yr arwydd am y peth a arwyddoceir. Yr arwyddocâd yw, profiad o rinwedd effeithiol gwaed Crist, Cyfryngwr ac Aberth y cyfammod newydd, i heddychu a phuro y gydwybod, Heb. ix. 23, 34.

*Yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel. Yr hwn*—sef gwaed y taenelliad; *na'r eiddo Abel*—nid gwaed aberth Abel, ond gwaed Abel ei hun, am yr hwn y dywedai Duw wrth Cain ei lofrudd, "Llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear." Gwaeddi i'r nef am gyfiawn ddialedd ar ei lofrudd yr oedd gwaed Abel; ond llefaru tangnefedd, gras, a maddeuant, y mae gwaed y taenelliad: "O Dad, maddeu iddynt," oedd llef gweddi a gwaed yr Aberth mawr tros ei lofruddwyr ar y groes.

25 Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. Oblegid oni ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer *nis diangwn* ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr hwn sydd *yn llefaru* o'r nef:

Y mae yr un rhybudd pwysig wedi ei roddi droion o'r blaen, Heb. ii. 2, 3; a x. 28, 29. Appelia trwy yr epistol, o'r dechreu i'r diwedd, at y ddau deimlad, ofn a gobaith, er sefydlu yr Hebreaid yn y ffydd, gan ddangos o un tu y dirfawr berygl o wrthgilio, ar gyfrif y gosbedigaeth ofnadwy a fyddai yn sicr o ddal y gwrthgiliwr, er cynnyrchu arswyd yn eu meddyliau rhag eu cael yn euog o'r pechod; ac o'r tu arall, gesyd ger eu bronau y wobr annhraethol ogoneddus a dderbynia y ffyddloniaid a lynant yn ddianwadal wrth gyffes eu gobaith hyd y diwedd.

*Edrychwch na wrthodoch, &c.* Cymerwch y gofal mwyaf na byddoch yn euog o hyn beth bynag, *gwrthod yr hwn sydd yn llefaru*, sef Crist, yr hwn sydd yn llefaru trwy ei air a'i weision; na ddi-

brisiwch felly y gwaed hwnw sy'n "llefaru pethau gwell na'r eiddo Abel." Dygir y ffaith na ddiangodd neb o'r rhai a wrthodasant *yr hwn oedd yn llefaru o'r ddaear,* sef Moses, oracl Duw dan y cyfammod cyntaf, unwaith etto yn mlaen, fel prawf o'r fath gryfaf na ddianga neb o'r rhai a droant ymaith yn anufudd oddiwrth *yr hwn sydd yn llefaru o'r nef,* rhag y gosbedigaeth fwy ofnadwy a haedda y trosedd, nac a haeddasai trosedd yr anufuddion i weinidogaeth yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear.

26 Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear: ac yn awr a addawodd, gan ddywedyd, [x] Etto unwaith yr wyf yn cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.

[x] Hag. 2. 6

*Llef yr hwn, &c.* Sef yr hwn sydd yn awr yn llefaru o'r nef—pan oedd efe yn rhoddi ei gyfraith ar Sinai, a *ysgydwodd y ddaear,* yn llythyrenol felly —tystiolaetha yr hanes bod mynydd Sinai yn crynu yn ddirfawr. Ni olygir bod y ddaear i gyd yn crynu ar y pryd hwnw, ond y parthau hyny o honi lle yr oedd y nerthoedd dwyfol yn cael eu hamlygu.

*Etto unwaith a addawodd, &c.*—trwy enau y prophwyd Haggai, gyda golwg ar ddyddiau y Messïa, a sefydliad goruchwyliaeth ei deyrnas ysbrydol yn y byd. Nid cynhyrfu y nef a'r ddaear yn y modd yr ysgydwodd efe y ddaear pan lefarodd ar Sinai a olygir yn y brophwydoliaeth; ond mewn ystyr gyfrinol, yn arwyddo cyfnewidiadau moesol mawrion ar bethau cydweddol â natur yr oruchwyliaeth newydd a ddygid i mewn. Ysgwyd ymaith wladwriaeth dymmorol Israel, yr hon a elwir yma y *ddaear,* a threfn gwasanaeth crefydd ac addoliad yr hen gyfammod, yr hon a elwir y *nef.*

27 A'r Etto unwaith hyny, sydd yn hysbysu symudiad y pethau a ysgydwir, megys pethau wedi eu gwneuthur, fel yr aroso y pethau nid ysgydwir.

Nid eu cynhyrfu yn unig a'u gadael yn eu lle drachefn, ac nid eu cynhyrfu mewn trefn i'w hadgyweirio a'u diwygio chwaith, a olyga yr *Etto unwaith,* ond llwyr symud ymaith y pethau a ysgydwid i wneud lle i bethau newydd a gwell—*megys pethau wedi eu gwneuthur*—pethau crëedig — gwrthddrychau anianyddol, fel y tynir oddiwrth eu gilydd ac y symudir pethau felly. Yr oedd hyn oll i gael ei wneud fel y dygid i mewn ac y gosodid i fyny oruchwyliaeth ysbrydol y testament newydd, yr hon sydd i aros a pharhau yn ddigyfnewid hyd ddiwedd amser—*fel yr aroso y pethau nid ysgydwir.*

28 O herwydd paham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn.

*Gan ein bod ni*—deiliaid goruchwyliaeth y cyfammod newydd, yn derbyn *teyrnas ddisigl,* yn gyferbyniol i'r oruchwyliaeth sigledig a chyfnewidiol o'r blaen—teyrnas sydd yn sefydlog ac anghyfnewidiol yn ei natur a'i hegwyddorion ysbrydol—*bydded genym ras,* ysbryd cydweddol â mawredd y ragorfraint a dderbyniwn—calon ddiolchgar i gydnabod yr anfeidrol raslonrwydd a amlyga yr Hwn sydd yn rhoddi y deyrnas hon; ac fel y *gwasanaethom ef wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn,* yn y mwynhad o'n manteision a'n breintiau goruchel.

29 Oblegid ein Duw ni *sydd* [y] dân ysol.

[y] Deut. 4. 24.

Dywedir hyn gyda chyfeiriad at y modd yr amlygodd Duw ei hun ar Sinai, a'r ymadroddion yn Esa. xxxiv. 14, yn gosod allan eiddigedd Iehofa dros burdeb a diragrithrwydd yn ei wasanaeth. Y mae gwylder ac ofn parchedig yn gweddu i fawredd, a phurdeb, a santeiddrwydd Duw, yn y rhai oll a nesânt ato, ac yn elfenau anhebgorol er ei wasanaethu wrth ei fodd; ac o'r tu arall, ni all fod dim mor wrthun a ffiaidd ag ysbryd ac

agwedd hyf a haerllug yn ei wasanaeth. "Na fydd ry brysur â'th eiriau, ac na frysied dy galon i draethu dim ger bron Duw; canys Duw sydd yn y nefoedd, a thithau ar y ddaear, am hyny, bydded dy eiriau yn anaml."

---

## PENNOD XIII.

1 *Amryw gynghorion; megys i garu ein gilydd:* 4 *i fyw yn onest:* 5 *i ochelyd cybydd-dra:* 7 *i berchi pregethwyr Duw:* 9 *i ochel athrawon dyeithr:* 10 *i gyfaddef Crist:* 16 *i roi elusen:* 17 *i ufuddhau i swyddogion:* 18 *i weddïo dros yr apostol.* 20 *Y diwedd.*

PARHAED [a]brawdgarwch.

[a] 1 Pedr 1. 22; 1 Ioan 4. 7, 20.

Y mae yr apostol yn awr megys yn gollwng ei hunan yn rhydd o'r rhwymau a'u daliasant yn dŷnion wrth ei bwnc o'r dechreu, nes iddo ei drafod yn ei holl ranau a'i gysylltiadau, i goffâu amryw ddyledswyddau Cristionogol, ac annog i ddyfal barhad yn yr ymarferiad o honynt. Gwna fras a byr grybwyllion o'r amryw ddyledswyddau hyny, heb un cysylltiad neillduol rhwng y naill a'r llall; ond oll yn cyfodi yn naturiol o athrawiaeth ac ysbryd yr epistol. *Parhäed brawdgarwch.* Yr oedd wedi canmol yr Hebreaid o'r blaen am y gras hwn. Yr oedd yr eglwysi cyntefig, amryw o honynt, yn enwog yn y rhinwedd hwn. Dywed yr apostol wrth y Thessaloniaid, nad oedd yn rhaid iddynt am iddo ef ysgrifenu atynt i'w hannog i garu eu gilydd. Felly yma, nid yw yr apostol yn achwyn ar ddiffyg yr Hebreaid yn y gras hwn, fel y gwna gyda golwg ar rai grasusau eraill, ond yn hytrach yn eu canmol; a seiliai ei obaith am wirionedd eu crefydd, yn benaf, ar y *llafurus gariad* a amlygent yn eu gwaith yn *gweini i'r saint*, Heb. vi. 10. Cydberthynas Cristionogion â'u gilydd fel brodyr yn Nghrist—rhai yn credu yr un athrawiaeth, wedi eu diodi i'r un *ysbryd*, yn gydfilwyr dan yr un faner, yn ymladd yn erbyn yr un gelynion, yn etifeddion yr un gobaith a rhagorfreintiau—yn annibynol ar waedoliaeth a chenedl, iaith, a gwlad, a sect—ydyw sylfaen a rhwymedigaeth y ddyledswydd hon.

2 Nac anghofiwch lettygarwch: canys wrth hyny y llettyodd [a]rhai angylion yn ddiarwybod.

[a] Gen. 18. 3; 19. 2.

Yr oedd gwirionedd eu brawdgarwch i gael ei brofi yn eu llettygarwch. Ofer a gwrthun, fel y dengys yr apostol Iago, fyddai proffesu y blaenaf yn absenoldeb yr olaf—dywedyd wrth frawd mewn angen am ymdwymno ac ymddigoni, heb roddi iddo o angenrheidiau y corff, Iago ii. 16. Yr oedd llawer o'r Hebreaid y pryd hwnw wedi eu hyspeilio o'u cartrefi, a'u meddiannau, a'u gyru ar grwydr gan yr erledigaeth a oddefent o achos eu crefydd, ac yr oedd felly alwad neillduol ar y rhai yr oedd yr erledigaeth heb syrthio arnynt i brofi eu brawdgarwch mewn llettygarwch—drwy dderbyn eu brodyr erlidiedig i'w tai, a'u hymgeleddu, a'u cysuro. Fel annogaeth, cyfeirir at esiamplau Abraham a Lot yn derbyn, a'r olaf yn llettya angylion yn ei dŷ dros nos, a hyny heb wybod mai angylion oeddynt pan y'u gwahoddwyd ganddo, Gen. xviii. 2, &c., a xix. 1. Yr oedd braint Abraham a Lot i gael croesawu a llettya angylion yn fawr; ond y mae braint yr hwn a lettyo Gristion anghenus yn fwy fyth. Gallasai yr angylion lettya allan yn mhorth Sodom, heb oddef un anghyfleusdra drwy hyny, yr hyn ni all cig a gwaed; ac un o'r pethau penaf y cannola y Barnwr *fendigedigion ei Dad* yn y dydd olaf, fydd eu caredigrwydd llettygar i'w *frodyr lleiaf*, Mat. xxv.

3 Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, [b]fel pettech yn rhwym gyda hwynt; y rhai cystuddiol, megis yn bod eich hunain hefyd yn y corff.

[b] Mat. 25. 36.

Yr oedd rhai o'u brodyr felly, yn rhwym mewn carcharau dros eu crefydd; ni allasent amlygu eu cariad mewn llettygarwch iddynt hwy, yr oll a allasent wneud oedd eu cofio, meddwl am danynt, a gweddïo drostynt; a diwallu eu hangenrheidiau hefyd mor belled ag

yr oedd modd, gan osod eu hunain, yn eu meddwl, yn yr un sefyllfa ag yr oedd eu brodyr rhwym a chystuddiol hyny ynddi, gan ystyried eu bod hwythau yn agored yn barhaus i gael yr un cyffelyb driniaethau.

4 [c]Anrhydeddus *yw* priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr [d]puteinwyr o godinebwyr a farna Duw.

[c]Diar. 5. 15–23. [d]1 Cor. 6. 9; Dat. 22. 15.

Dyma megys naid bell iawn oddiwrth yr hyn oedd mewn llaw yn flaenorol. Ymddengys yn debyg i fflachiad disymwth ar feddwl yr ysgrifenydd, a'i fod yn ei ddodi i lawr ar y pryd, yn y fan, rhag y dygwyddasai iddo ei ollwng yn anghof. Gwelai fod yr Hebreaid, o herwydd blinder yr erledigaeth, sef y rhai ieuainc, dan brofedigaeth i ymattal rhag priodi, ac felly mewn perygl o gael eu llithio i drythyllwch, a chyflawni cyfathrachau anghyfreithlawn; ac felly awgryma iddynt mai gwell fuasai dyoddef yr anfanteision cysylltiedig â'r ystad anrhydeddus o briodas, na boddloni y nwydau mewn puteindra a godineb, er mwyn gochelyd yr anfanteision a'r peryglon hyny, gan y byddent felly yn syrthio dan farn ac anfoddlonrwydd Duw.

5 *Bydded eich* ymarweddiad yn ddiariangar; gan fod yn [e]foddlawn i'r hyn sydd genych. Canys efe a ddywedodd, [f]Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr-adawaf chwaith.

[e]Mat. 6. 25, 34. [f]Gen. 28. 15; Deut 31. 6, 8; 1 Cron. 28. 20.

Dyma bechod arall, ariangarwch, neu ddymuniadau cryfion, anghymedrol, am dda bydol, ag y mae Cristionogion, fel dynion eraill, yn mhob oes, a than bob amgylchiadau, yn agored iddo; ac y mae, fe ddichon, yn un o'r rhai parotaf i amgylchu y meddwl dynol. Dywed yr un apostol mewn lle arall, mai "Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch." *Bydded eich ymarweddiad, &c.*—bydded agwedd a theimlad eich meddwl felly, a bydded yn amlwg yn eich buchedd ei fod felly, gan ymgymmodi yn dawel â'r sefyllfa y gosododd rhagluniaeth ddwyfol chwi ynddi; ac fel annogaeth i hyny, cyfeiria at addewid Duw i'w bobl, *Efe a ddywedodd, &c.*—efe a ddywedodd hyny o ran sylwedd amrywiol weithiau yn ei air, wrth ei bobl yn wyneb gwahanol angenrheidiau ac amgylchiadau, megys yn Deut. xxxi. 6; a Jos. i. 5; a 1 Cron. xxviii. 20. Ond tybiaf mai at yr ymadrodd yn Salm xliv. 14, "Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl, ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth," y cyfeirir yn fwyaf neillduol, gan fod yr apostol yn yr adnod nesaf yn dwyn ymadrodd arall o eiddo y Salmydd at wasanaeth ei fater. Yr hyn a ddysgir yma ydyw ymddiried yn ngofal a darbodaeth Duw, fel Duw rhagluniaeth, am angenrheidiau y bywyd hwn; y mae efe, nid yn unig wedi addaw ac yn gofalu am angenrheidiau bywyd ysbrydol a thragwyddol ei bobl, ond, yn gystal a hyny, am eu holl amgylchiadau perthynol i'r byd a'r bywyd presenol hwn.

6 Fel y gallom ddywedyd yn hyf, [g]Yr Arglwydd *sydd* gymhorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.

[g]Salm 118. 6.

*Fel y gallom ddywedyd*—fel y dywedodd y Salmydd o'n blaen; *yn hyf*—yn hyderus; *Yr Arglwydd sydd gymhorth i mi.* Mewn trefn i allu dywedyd felly yn hyf, yn wirioneddol, rhaid i'r ymarweddiad fod yn ddiariangar, a'r meddwl fod yn esmwyth a boddlon ar yr hyn sydd ganddo; canys ni all calon ariangar, anfoddlon ar y sefyllfa y mae ynddi, ddywedyd felly; oblegid y mae ymddiried hòno mewn golud anwadal, ac nid yn y Duw byw. *Nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.* Yr oedd *dyn*—yr erlidwyr—wedi yspeilio llawer o'r Hebreaid crediniol o'r pethau oedd ganddynt, a gallasai yr un peth ddygwydd i'r lleill drachefn: ac amcana'r apostol gadarnhau eu meddyliau yn wyneb hyny, drwy eu cyfeirio at addewid Duw, a'i ffyddlondeb ef i'w addewid, yr hyn a sicrhaai iddynt y byddai iddo ofalu am danynt yn eu holl drallodau, ac na ch'ai y rhai a ddyoddefent dros ei enw a'i achos ef eu gadael yn ddigymhorth a diymgeledd.

7 Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: [h] ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.

[h] Heb. 6. 12.

Wedi eu galw o'r blaen i gofio addewid rasol Duw i ofalu am amgylchiadau ei eiddo, geilw arnynt yma drachefn i gofio a meddwl am eu blaenoriaid—eu dysgawdwyr—y rhai a ddyoddefasent ferthyrdod dros eu crefydd, gyda chyfeiriad uniongyrchol, debygid, at Stephan, merthyr cyntaf Cristionogaeth; ac Iago brawd Ioan, yr hwn a laddodd Herod â'r cleddyf; ac Iago mab Alpheus, yr hwn a labyddiwyd gan yr Iuddewon. Gelwid yr Iago olaf, Iago Gyfiawn, ac yr oedd yn un o'r rhai mwyaf ei barch yn mysg yr apostolion. *Meddyliwch* am danynt, ac am yr athrawiaeth a draethasant i chwi; bydded eu henwau a'u coffadwriaeth yn werthfawr ac yn anwyl genych.

*Ffydd y rhai dilynwch.* Yr esiampl o ffydd a dianwadalwch hyd angeu a osodasant hwy o'ch blaen, er selio gwirionedd yr athrawiaeth a bregethasant—byddwch yn ddilynwyr iddynt megys ag y dilynasant hwy Grist. Yr oeddynt hwy, nid yn unig yn bregethwyr yr efengyl, ond hefyd yn gredinwyr ynddi, a'u ffydd ynddi a'u nerthodd i ddwyn eu tystiolaeth fel merthyron drosti.

*Gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.* Ystyriwch fel y gwnaeth eu ffydd hwynt yn angeu yn fwy na choncwerwyr. Yr oedd diwedd eu hymarweddiad hwynt, nid yn unig yn dangnefedd, ond yn llawn o orfoledd; a thrwy ddilyn eu ffydd hwynt, bydd i chwithau sicrhau y cyffelyb ddiwedd dymunol i chwi eich hunain.

8 Iesu Grist, ddoe a heddyw yr [i] un, ac yn dragywydd.

[i] Dat. 1. 4.

Dygir yr ystyriaeth felus hon yn mlaen yma fel cysur i'r Hebreaid ar ol eu blaenoriaid a gollasent. Yr oedd cofio a meddwl am eu hathrawon ffyddlon yn cynnyrchu hiraeth a galar ar eu hol. Ond cymerwch gysur, medd yr apostol, er bod diwedd wedi bod i'w hymarweddiad hwynt, y mae Iesu Grist, y Blaenor a'r Athraw mawr, yn aros—yn fyw, ac yn parhau yr un dan bob cyfnewidiad; ac ynddo ef, ac nid ynddynt hwy, y mae eich ffydd chwi yn gorphwys. Y mae efe heddyw yr un i'ch cynnorthwyo, eich nerthu a'ch noddi chwi, ag ydoedd efe ddoe, yr amser a aeth heibio, i'ch blaenoriaid hyny; ac efe a fydd felly i'r holl ffyddloniaid trwy yr oesau a ddeuant. *Yr un*—yn ddigyfnewid yn ei allu, ei ofal, a'i ffyddlondeb i'w eiddo.


9 Na'ch arweinier oddiamgylch âg athrawiaethau [k] amryw a dyeithr: canys da *yw* bod y galon wedi ei chryfhau â gras, ac nid â bwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a rodiasant ynddynt, fudd.

[k] 1 Ioan 4. 1.

Na'ch cylcharweinier gan athrawiaethau cnawdol a deddfol yr Athrawon Iuddewaidd—athrawiaethau ydynt yn amrywio, yn gwahaniaethu oddiwrth, ac yn ddyeithriol i'r athrawiaeth bur ac efengylaidd a draethodd y blaenoriaid y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. *Da yw bod y galon wedi ei chryfhau*—ei sefydlu yn yr athrawiaeth ysbrydol a grasol hono; *ac nid â bwydydd,* y rhai y gosodai yr athrawon Iuddewaidd y fath bwys arnynt yn eu dysgeidiaeth, gan ddysgu eu dysgyblion i ymarfer â rhyw fath, ac ymattal oddiwrth fath arall o fwyd, yn ol cyfraith Moses, fel peth o bwys hanfodol mewn crefydd. Nid oedd neb yn cael un budd sylweddol drwy ddilyn athrawiaeth gnawdol felly, ac nid oedd dim a wnelai Cristionogaeth â'r fath athrawiaeth. Y mae yr apostol wedi bod yn dysgu yr un wers i'r eglwysi yn Rhufain a Corinth, lle y buasai yr athrawiaethau amryw a dyeithr yn peri anghydfod, Rhuf. xiv. 17; a 1 Cor. viii. 8.

10 Y mae genym ni allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta.

Yr oedd yr offeiriaid dan y gyfraith, y rhai oedd yn gwasanaethu yr allor yn y tabernacl a'r deml, i fod yn gyfranogion o'r allor. Yr oedd rhanau o'r aberthau a offrymid, (ond yr aberth ar ddydd y cymmod, yr hwn oedd i gael ei losgi oll, gwel Lef. xiv. 16—27), yn cael eu cadw i'r offeiriaid, ac yr oedd yr aberthwyr hefyd yn bwyta o honynt ger bron yr Arglwydd, ac at yr aberthau hyny y cyfeirir yma. Y mae genym ninnau, Gristionogion, *allor,* medd yr apostol, mewn ystyr efengylaidd i'r gair, ac aberth hefyd; ond nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta, i fod yn gyfranog o'n hallor a'n haberth ni; hyny yw, ni all y rhai hyny sydd yn glynu wrth ddefodau gwasanaeth y gyfraith fwynhau y budd a'r lles ysbrydol sydd yn deilliaw oddiwrth aberth y Messïa; y mae eu gwaith yn glynu wrth allor ac aberthau y ddeddf, yn wrthodiad o'i aberth ef, ac yn taflu y sarhad mwyaf arno.



YR ALLOR AUR.

11 Canys cyrff yr anifeiliaid hyny, y rhai y dygir eu gwaed gan yr archoffeiriad i'r cysegr dros bechod, a losgir y tu [l] allan i'r gwersyll.

[l] Lef. 16. 27.

12 O herwydd paham Iesu hefyd, fel y santeiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddyoddefodd y tu [m] allan i'r porth.

[m] Ioan 19. 17, 18.

Yr oedd felly fath o gyfateboliaeth rhwng yr aberthau Iuddewig, yn ol trefn y gyfraith, ag aberth Crist yn nhrefn y prynedigaeth. Nid oedd un defnydd i gael ei wneud o gig na chrwyn yr aberthau dros bechod, ond llosgid hwynt yn ddiofryd cysegredig y tu allan i'r gwersyll; cyfeirir yma at dymmor ymdeithiad plant Israel yn yr anialwch. Dygid eu gwaed gan yr archoffeiriad i'r cysegr i wneud cymmod dros y bobl—i'w santeiddio hwynt. Felly yn gyffelyb, yr Iesu hefyd, Archoffeiriad mawr y cyfammod newydd, fel y santeiddiai—y gwnelai gymmod rhinweddol a gwirioneddol dros bechod —*trwy ei waed ei hun,* ac nid â gwaed anifeiliaid, fel yr archoffeiriad Iuddewig. *A ddyoddefodd y tu allan i'r porth* —i borth Jerusalem; yr oedd y lle y croeshoeliwyd ef y tu allan i borth y ddinas, man yr arferid gosod y drwgweithredwyr gwaethaf i farwolaeth, fel creaduriaid ysgymunedig gan gymdeithas. Rhagfynegasai y Gwaredwr yn nammeg y winllan y driniaeth hon a gai efe ar law y gwinllanwyr, Marc

**xii. 8—y bwrient ef allan o'r winllan, ac y lladdent ef.**

13 Am hyny awn ato ef o'r tu allan i'r gwersyll, gan [n] ddwyn ei waradwydd ef.

[n] Act. 5. 41

*Am hyny*—gan iddo ef ymroddi yn wirfoddol i'r gwaradwydd a'r dirmyg o ddyoddef a marw o'r tu allan i'r porth, fel y santeiddiai ni trwy ei waed ei hun, na fydded i ni betruso dwyn a dyoddef y cyffelyb waradwydd er ei fwyn yntau, nac edrych ar gael ein diystyru, a'n gwrthod, a'n bwrw allan o gymdeithas y byd anghrediniol a gelynol, o herwydd ein ffydd ynddo a'n proffes o hono. Cariad a graslonrwydd anfeidrol ynddo ef oedd iddo ymostwng i'r fath driniaeth yn ein hachos ni; ond braint ac anrhydedd o'r mwyaf yw i ni gael ein cyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn ei enw ef. Ei esiampl ef yw yr ystyriaeth gryfaf o'r cwbl i gymhell i ddianwadalwch yn wyneb gwaradwyddiadau ac erlidiau yn achos yr efengyl.

14 Canys nid oes i ni [o] yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr y'm ni yn ei dysgwyl.

[o] Mica 2. 10

Nid yw o gymaint pwys beth a fyddo ein cyflwr a'n sefyllfa bresenol, *canys nid oes i ni yma ddinas*—cartref, *parhaus.* Pe yn y byd hwn yn unig y gobeithiem yn Nghrist, yn wir, truanaf o'r holl ddynion a fyddem; ond y mae ein gobaith ni yn Nghrist yn ymestyn y tu hwnt i'r byd a'r bywyd hwn—un i ddyfod—"y ddinas âg iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw," am yr hon y dysgwyliodd Abraham a'r patriarchiaid gynt; ac o herwydd y gobaith a'r dysgwyliad hwnw ystyrient eu hunain yn ddyeithriaid a phererinion ar y ddaear, Heb. xi. 10—13. Yr un yw gwrthddrych ein gobaith ninnau. Dygasai yr apostol yr ystyriaeth o flaen sylw'r Hebreaid droion o'r blaen, ac y mae yn ei chrybwyll yma drachefn rhag iddynt golli golwg arni. Y mae am i'r gobaith hwn am gartref nefol, a thragwyddol orphwysfa o ddedwyddwch, fod yn angor enaid i'w dal yn ddiogel a sicr yn nghanol ystormydd erledigaethau yn y byd hwn.

15 Trwyddo [p] ef gan hyny offrymwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw [q] ffrwyth *ein* gwefusau, yn cyffesu i'w enw ef.

[p] Eph. 5. 20. [q] Hos 14. 2.

*Trwyddo ef*—trwy Iesu Grist, yr hwn a ddyoddefodd y tu allan i'r porth, fel aberth cymmod drosom er ein santeiddiad ni, fel y byddo ein personau a'n gwasanaeth yn aberthau derbyniol a chymeradwy gan Dduw. *Aberth moliant* a offynir genym ni; canys y mae yr aberth cymmod dros ein pechodau ni wedi ei gyflwyno ganddo ef, a'i dderbyn a'i gymeradwyo gan Dduw, "Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu santeiddio," Heb. x. 14.

*Yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau, &c. Yr hyn*—sef aberth *moliant gwastadol i Dduw trwy Iesu Grist.* Cyfeirir at yr ymadrodd yn Hosea (pen. xiv. 2), "A thalwn i ti loi ein gwefusau"—mewn golygiad at aberthiad lloi dan y gyfraith. Yn lle cwyno ac achwyn o herwydd ein blinderau a oddefwn oblegid ein crefydd, bydded i ni yn hytrach lawenhau a moliannu Duw yn wastadol â'n gwefusau am y fraint o gael dyoddef gwaradwyddiadau y byd dros ei enw ef, "gan orfoleddu mewn gorthrymderau."

16 Ond gwneuthur daioni, a chyfranu, [r] nac anghofiwch: canys â chyfryw [s] ebyrth y rhyngir bodd Duw.

[r] Rhuf. 12. 13. [s] Phil. 4. 18

Na fydded eich gwasanaeth crefyddol yn gynnwysedig yn unig mewn moliant —o ffrwyth y gwefusau—ond yn gystal a hyny mewn gweithredoedd da; os amgen, ni fydd yr aberth o foliant yn gymeradwy. *Yn gwneuthur daioni*—i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu y ffydd. A chyfranu i'r anghenus, yn neillduol i gyfreidiau y saint; *â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.* Y mae efe yn edrych arnynt, ac yn eu derbyn gyda chymeradwyaeth,

fel gwasanaeth iddo ef; canys, "Y neb a gymero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd; a'i rodd a dâl efe iddo drachefn," Diar. xix. 17. Y mae crefydd Crist yn gofyn am ffrwyth y dwylaw, yn gystal a ffrwyth y gwefusau, yn ebyrth ar ei hallor, ac nid cymeradwy y naill heb y llall.

17 [u]Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn [t]gwylio dros eich eneidiau chwi, megys rhai a fydd rhaid iddynt roddi cyfrif: fel y gallont wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi *yw* hyny.

[t] 1 Thes. 5. 12, 13. [u] Ezec. 3. 17.

Yr oedd o'r blaen wedi crybwyll am y blaenoriaid a hunasant, gan eu hannog i feithrin a chadw coffadwriaeth barchus am eu hathrawiaeth a'u bucheddau; yma drachefn gwasga arnynt eu dyledswydd tuag at y rhai oedd yn blaenori arnynt yn awr, mynai iddynt ddangos dyledus barch i swydd ac awdurdod eu blaenoriaid byw, yn gystal ag anrhydeddu coffadwriaeth y rhai a fuasent feirw. Gallai fod tuedd yn rhai y pryd hwnw, fel y mae mewn llawer y pryd hwn, i barchu a hanner addoli hen athrawon ymadawedig, ac i iselu a dirmygu y rhai byw: defnyddiant esgyrn y rhai meirw i guro a thòri esgyrn eu holynwyr yn eu swydd—fel yr Iuddewon a wyngalchent feddau y prophwydi gynt, ond a groeshoelient yr hwn y dygai "yr holl brophwydi dystiolaeth iddo." Y mae llawer o ddynion i'w cael mewn eglwysi, y byddai pregeth ar yr adnod dan ein sylw, ar y ddyledswydd o *ufuddhau* ac ymostwng i'w blaenoriaid eglwysig, yn annyoddefol iddynt. Y maent fel pe byddent yn tybio mai eu dyledswydd hwy ydyw mesur, pwyso, barnu, a beio ar eu blaenoriaid—chwilio am bob colliant a ffaeledd ynddynt y gallant gael gafael arnynt, ac yna eu dangos a'u mwynhau, a gwneud eu goreu i'w diraddio a dinystrio eu dylanwad, mewn ymddyddanion am danynt a thrwy y wasg. Gwelir cryn lawer o'r ysbryd hwn yn Nghymru y dyddiau hyn, a gwneir hyn bob amser dan y gochl o deimlad a sel dros les crefydd a gogoniant yr achos. Y rhywogaeth waethaf ac iselaf o feibion dynion sydd yn cyfansoddi y tylwyth hwn bob amser.

Nid ufudd-dod ac ymddarostyngiad dall caethwasaidd i'r blaenoriaid a gymhellir yma, ond ufudd-dod rhesymol goleuedig yn mhob peth a berthynai i oruchwyliaeth yr eglwys, a'r nas gellid ei ddangos a'i brofi yn wrthwyneb i air ac ewyllys Crist. Cymhellir hyn â'r ystyriaeth eu bod hwy, y blaenoriaid, yn *gwylio dros eneidiau* y rhai y'u gosodid yn flaenoriaid iddynt, megys y mae y bugail yn gwylio dros y praidd. Yn gwylio drostynt i'w porthi, eu rhybuddio, a'u cy.arwyddo mewn pethau ysbrydol, *fel rhai sydd yn rhaid iddynt roddi cyfrif* i'r Pen bugail mawr a pherchenog y praidd—rhoddi cyfrif o ac am yr eneidiau y maent yn gwylio drostynt—cyfrif am eu goruchwyliaeth eu hunain fel blaenoriaid, ac am ymddygiad gwrthddrychau eu gofal. *Fel y gallont wneuthur hyny*—sef rhoddi eu cyfrif i fyny, *yn llawen ac nid yn drist.* Nid at y cyfrif yn nydd y farn olaf y cyfeirir yma, ond y cyfrif a rydd y gweision—y goruchwylwyr yn feunyddiol i'w Meistr wrth ddwyn eu hachos eu hunain a phobl eu gofal at Dduw mewn gweddi. Nis gallant roddi y cyfrif hwn yn llawen (arwydda yr apostol) os na byddwch chwi yn ufudd ac ymostyngar iddynt yn yr Arglwydd; os amgen, cyfrif trist fydd ganddynt i'w roddi am danoch, a *difudd i chwi yw hyny*—trwm iawn yn wir fyddai i chwi feddwl fod eich blaenoriaid yn gorfod achwyn arnoch fel rhai anhywaith, anufudd, a chynhenus, ger bron Duw.

18 Gweddïwch drosom ni: canys yr ydym yn credu fod genym [v]gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest yn mhob peth.

[v] Act. 24. 16.

Y mae'r ysgrifenydd yn dyfod yn awr adref ato ei hun, wedi bod o ddechreu y bennod hyd yma yn cymhell yr Hebreaid yn eu dyledswyddau tuag at

eu gilydd, i fod yn frawdgar a llettygar; a thuag at eu blaenoriaid, i lynu yn ddianwadal wrth Grist dan bob croesau a gwaradwyddiadau, deisyfa ran yn eu gweddïau drosto ef ei hun. O'r blaen, yr oedd yn llefaru fel athraw a dysgawdwr, ac weithiau yn ceryddu yn llym; ond yn awr y mae yn dyfod atynt fel ymbiliwr tlawd i ofyn rhan yn eu gweddïau. Ni fynai yr apostol ystyried ei hun uwchlaw angen am gymhorth gweddïau y rhai yr oedd efe mewn gwybodaeth a deall, a phob gras a dawn ysbrydol, i raddau annhraethol yn mron, yn rhagori arnynt; ac os nad oedd efe uwchlaw angen gweddïau yr eglwysi drosto, yn sicr ynte, nid oes un gweinidog ar ei ol felly.

*Canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda.* Gosoda yr ystyriaeth hon o'u blaen fel annogaeth a chalondid iddynt i weddïo drostynt, fel y gallent fod yn hyderus yn eu gweddïau ar ei ran.

19 Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.

*Gwneuthur o honoch hyn*—sef gweddïo drosto, fel y caffai ryddid a rhwydd hynt i dalu ei ymweliad bwriadol â hwynt yn fuan. Yr oedd Paul yn grediniol yn effeithioldeb gweddïau yr eglwysi drosto, nid yn unig er llwyddiant ei weinidogaeth, ond yn gystal a hyny er trefnu dygwyddiadau allanol bywyd. Dengys yr ymadroddion hyn hefyd bod awdwr yr epistol yn hysbys i'r Hebreaid, ac nad oes dim grym yn y rheswm tybiedig o'r achos ei fod heb roddi ei enw wrtho, o herwydd rhagfarn yr Hebreaid yn ei erbyn fel apostol y Cenedloedd.

20 A [w] Duw yr heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddiwrth y [x] meirw ein Harglwydd Iesu, [y] Bugail mawr y defaid, [z] trwy waed y cyfammod tragwyddol,

[w] 1 Thes. 5. 23 [x] 1 Pedr. 1. 21, [y] Ezec. 34 23. [z] Zech. 9. 11.

Wrth derfynu, tywallta yr apostol ei enaid fel hyn allan yn y dymuniadau goreu tuag atynt a throstynt. *Duw yr heddwch*—y Duw sydd yn caru, yn gwneuthur, ac yn cyfranu heddwch—y ddawn sydd yn cynnwys ynddi holl elfenau dedwyddwch. Yr amlygiad penaf o hono fel *Duw yr heddwch* yn ei berthynas â ni oedd ei waith yn *dwyn drachefn oddiwrth y meirw ein Harglwydd Iesu*, yr hwn a fu farw fel aberth cymmod dros ein pechodau ni. Gan fod ein Harglwydd Iesu wedi ei draddodi i farwolaeth yn ein lle a throsom ni, ac mai hyny oedd yr unig reswm am ei farwolaeth, y mae y ffaith ei fod wedi ei ddwyn drachefn oddiwrth y meirw, trwy weithrediad gallu Duw, yn ddigonol brawf am byth ei fod ef yn gymmodlawn tuag atom, ac yn barod i estyn a chyfranu ei heddwch i ni yn Nghrist.

*Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragwyddol.* Llefarodd yr Arglwydd Iesu Grist lawer am dano ei hun dan yr enw neu y gymhariaeth o fugail, gwel Ioan x.: "Y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid." Yr ymadrodd yma o eiddo Crist ydyw yr eglurhad goreu a ellir gael ar yr ymadrodd hwn o eiddo'r apostol. Nid dywedyd y mae yr awdwr bod Duw wedi dwyn Crist oddiwrth y meirw trwy waed y cyfammod tragwyddol, nid oes reswm na phriodoldeb yn yr ymadrodd yn y golygiad yna; ond fod ein Harglwydd Iesu yn Fugail mawr y defaid trwy waed y cyfammod hwnw. Ni buasai ganddo braidd i'w bugeilio heb iddo roddi ei waed drostynt, i'w prynu a'u puro yn eiddo priodol iddo ei hun; dyna oedd trefn cyfammod tragwyddol y brynedigaeth.

21 A'ch [a] perffeithio yn mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef; gan [b] weithio ynoch yr hyn sydd gymeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist: i'r hwn *y byddo* y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[a] 1 Pedr 5. 10. [b] Phil. 2. 13.

*A'ch perffeithio yn mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef.* Dyna yr hyn a ddymunai yr apostol iddynt yn benaf dim gan *Dduw yr heddwch*, ar fod iddo ddwyn yn mlaen i berffeithrwydd y

gwaith da oedd wedi ei ddechreu ynddynt, gan eu cyflawni â phob gras yn gymhorth cyfamserol, yn wyneb pob amgylchiad, i gyflawni eu dyledswyddau Cristionogol—*pob gweithred dda*, ac felly gwneuthur ei ewyllys ef; gan weithio felly ynddynt, yn nylanwad ei Ysbryd a'i air, dueddfryd ac ymegnïad at yr hyn sydd *gymeradwy yn ei olwg:* "Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef," Phil. ii. 13; a thrwy rin y gweithrediad dwyfol hwn ynom yr ydym ninnau i weithio *allan* yr hyn sydd gymeradwy yn ei olwg ef.

*Trwy Iesu Grist.* Trwyddo, ar gyfrif ei deilyngdod a'i haeddiant ef drosom, y mae y gweithrediad dwyfol a grasol ynom yn cael ei ddwyn yn mlaen; ei waith ef drosom ydyw sail gweithrediadau Ysbryd y gras ynom.

*I'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. I'r hwn*—y person a enwyd yn ddiweddaf — Iesu Grist, cyfrwng gweinyddiad holl fendithion y brynedigaeth i ni. Trwyddo ef yr ydym i offrymu aberth moliant yn wastadol i Dduw y Tad; ond y mae efe, yn gystal ag yn gyfrwng cyflwyniad ein mawl a'n haddoliad i'r Tad, yn wrthddrych priodol i gyflwyno iddo ef yr unrhyw fawl ac addoliad hefyd. "Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef," Ioan v. 23.

22 Ac yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, goddefwch air y cynghor: oblegid ar fyr eiriau yr ysgrifenais atoch.

Golyga yr holl esbonwyr y gwyddom am danynt bod yr apostol yn golygu yr holl lythyr yn yr ymadrodd *ar fyr eiriau*, ac mai ei feddwl yw, er bod yr epistol hwn yn feithach na'r rhan fwyaf o'i epistolau, nad oedd ond byr mewn cymhariaeth â mawredd a phwysigrwydd y materion yr ymdrinir â hwynt ynddo, y rhai y buasai ymdriniaeth fanwl â hwynt yn ei chwyddo i faintioli llawer iawn mwy; y mae hyny yn ddigon gwir; ond cymerwn ein cenad i ammheu yr awdurdodau dysgedig mai dyna y gwir ddeongliad o'r ymadrodd. Tybiwn mai at y dosbarth o'r epistol cynnwysedig yn y bennod hon yn unig y cyfeiria, sef *gair y cynghor*, ac nid at holl gorff y llythyr. Y mae *gair y cynghor* yma yn fras, yn fyr, yn frysiog, ac weithiau yn ddigysylltiad, a gofyna yr ysgrifenydd i'w ddarllenwyr esgusodi a chyd-ddwyn â'r hyn a allasai ymddangos iddynt yn frysiog ac annhrefnus yn y cyfansoddiad, ac am iddynt beidio edrych ar *air y cynghor* yn llai ei bwys a'i werth ar y cyfrif hwnw.

23 Gwybyddwch ollwng *ein* brawd Timotheus yn rhydd; gyda'r hwn, os daw efe ar fyrder, yr ymwelaf â chwi.

Yr oedd Timotheus naill ai newydd ei ryddhau o garchar, neu wedi ei anfon ar ryw genadaeth at eglwysi pellenig. Yr olaf yw y mwyaf tebygol, hwyrach. Cyfieitha Stuart y geiriau fel hyn: *Gwybyddwch ddarfod anfon ein brawd Timotheus ymaith.* Bwriadai Paul, pan ddychwelai Timotheus ato, gychwyn yn fuan gydag ef ar ei daith i ymweled â'r Hebreaid yn Palestina.

24 Anerchwch eich holl flaenoriaid, a'r holl saint. Y mae y rhai o'r Ital yn eich anerch.

Y mae llais Paul i'w glywed yn yr ymadrodd hwn; arferai gyfarchiadau fel hyn yn gyffredin ar ddiwedd ei lythyrau, ac y mae hefyd yn rhoddi sail dda i'r dyb mai yn Rhufain, neu yn rhyw gŵr o'r Ital, yr ysgrifenwyd y llythyr.

25 Gras *fyddo* gyda chwi oll. Amen.

Talfyriad o'r ffurf gyffredin o fendithiad yn yr epistolau, yn gorchymyn y saint i nodded, cadwraeth, ac ymgeledd y ffafr ddwyfol.

Nid yw yr ol-ysgrif—"*At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd o'r Ital, gyda Timotheus*"—o un awdurdod, mwy nag olysgrifau yr epistolau eraill yn gyffredin. Nid ydynt amgen na mympwyon rhywun, neu rywrai, yn mhell wedi amser yr apostolion. "Y mae hwn," fel y sylwa

Stuart, "yn ymddangos fel gwaith rhywun a ddarllenasai y llythyr gydag ychydig iawn o ofal a sylw, neu heb ddeall ond ychydig iawn o'i gynnwysiad; canys pa fodd y gallasai Timotheus ysgrifenu yr epistol ac yntau, fel y dywed yr ysgrifenydd ar y diwedd, yn absenol ar y pryd?"

# ATDDODIAD.

## PAUL A SENECA.

Rhydd y diweddar Dr. J. Pye Smith, yn ei draethawd ar "*Offeiriadaeth ac Aberth Iesu Grist,*" tudal. 288, y dystiolaeth ddyddorol ganlynol dros mai Paul ydoedd awdwr yr Epistol at yr Hebreaid. Ar ol ysgrifenu ein rhagdraethawd y dygwyddodd i ni daro wrthi; pe amgen, dodasid hi i mewn yn ei lle priodol yn hwnw.

"Y mae y Parch. F. Christian Glepke, gweinidog yr Eglwys Lutheraidd yn Wermsdorf, yn Saxony," (medd Dr. Smith,) "yn dwyn dadl rymus dros mai Paul oedd gwir awdwr yr epistol. Y mae beth bynag yn deilwng o ystyriaeth; ac i mi, yr wyf yn cyfaddef, ei bod yn ymddangos yn dystiolaeth o awdurdod uchel.

"Yn mysg y cyfansoddiadau dychymygol a ymddangosent yn bur fynych yn y drydedd ganrif, yn mhlith paganiaid a Christionogion, y rhai oeddynt draethodau dammegol, yn hytrach nac wedi eu bwriadu i gamarwain yn nghylch eu hawduriaeth; y mae pedwararddeg o epistolau yn dwyn yr hòniad o fod yn ohebiaethau rhwng Paul a'r Athronydd Seneca, yn ystod y ddwy flynedd yr oedd Paul yn garcharor yn ei dŷ ardrethol ei hun yn Rhufain, a Seneca yntau yn mwynhau rhwysg cyfoeth ac anrhydedd yn yr un ddinas. Y mae yn unol â deddfau rheswm ac â ffeithiau hanesiaeth lenyddol bod ysgrifeniadau ffugiol yn awgrymu hanfodaeth rhyw ddygwyddiadau gwirioneddol fel sail ac achlysur iddynt. Llefara Jerome ac Awstin, yn y bedwaredd ganrif, am y gyfathrach fuasai rhwng Paul a Seneca yn y tymmor a nodwyd, fel ffaith adnabyddus. Y mae hyd yn nod Justus Lipsius, yr hwn y buasai ei ragfarnau yn debygol o beri iddo gymeryd yr ochr wrthwynebol ar y mater, yn golygu bod y cyfryw gyfathrach, naill ai yn bersonol neu trwy lythyrau, neu'r ddau, yn beth mor debygol, fel nas gellir prin ei ammheu. Gesyd Mr. Glepke allan y cyd-darawiadau, mewn *syniadau, iaith, a threfn*, rhwng yr epistol at yr Hebreaid â lluaws o ysgrifeniadau Seneca, yn enwedig ei draethawd ar Ragluniaeth, (mewn ffurf o epistol at Lucilius,) mewn modd argyhoeddiadol iawn. Gosodir y darnau cyfatebol o ysgrifeniadau yr apostol a'r athronydd ar gyfer eu gilydd, ac y maent mor lluosog, ac y mae y tebygolrwydd rhyngddynt, y naill â'r llall, mor ddynodol, fel y mae yn annichonadwy rhoddi cyfrif am y peth, ond yn unig ar y dybiaeth o fod cyfathrach agos wedi bod rhwng y ddau ysgrifenydd yn nghylch y materion yr

ymdriniant â hwynt. Yr oedd Galio, rhaglaw Achaia, ac a fuasai i ryw fesur yn noddwr i Paul yn Rhufain, yn frawd i Seneca: a phencadben y llu, i gadwraeth yr hwn y traddodwyd Paul pan gyrhaeddodd i Rufain (Act. xxviii. 16) ydoedd Burteus, yr hwn oedd gyfaill i Seneca. Fel hyn yr oedd amgylchiadau neillduol a phersonol a dueddent i ddeffro cywreinrwydd yr athronydd; ac yn gystal a hyny, teimlai annogaethau, cryfach na chywreingarwch, i ymgydnabyddu âg egwyddorion ac athrawiaeth y dyn hynod yr oedd ei ddysgeidiaeth yn cynnyrchu y fath effeithiau drwy holl daleithiau yr ymerodraeth, yn mron, yn gymaint fel yr oedd efe a'i gydlafurwyr yn cael eu cyhuddo gan eu gelynion eu bod 'yn aflonyddu y byd,' ac a gyfrifid yn rhai manau fel 'duwiau yn rhith dynion.'

"Peth arall hefyd, Athronydd Stoicaidd oedd Seneca, ac ni allai lai na chanfod yn fuan, bod athrawiaeth yr apostol yn nghylch llywodraeth foesol a naturiol y Bod Goruchaf, yn debyg iawn mewn llawer o bethau i athrawiaeth ei athroniaeth ef ei hun. Gosodir lluaws o wirioneddau ysplenydd a gynnwysai y trefniant Stoicaidd, allan yn brydferth gan y dysgedig Thomas Gatapten, yn ei ragymadrodd i'w *Antoninus.* Nad oedd athrawiaethau dynodol Cristionogaeth yn ddim amgen na ffolineb yn ngolwg yr athronydd Rhufeinaidd, sydd yn hollol debygol; ond gallai ddarfod iddo dalu mynych ymweliad â charcharor Iesu Grist, yn "ei dŷ ardrethol," a chael ei ennill i barchu ac edmygu y dyn yn yr hwn y dysgleiriai cynnifer o rinweddau ardderchog cyn iddo lwyr wrthod yr efengyl. Holldduwiaeth oedd ei gredo ef; y rhinwedd uchaf yn ei olwg ef, oedd y gallu i ddirmygu poen, neu i osod terfyn arno drwy hunanladdiad. Yr oedd ei gyfoeth yn ddirfawr; ac yr oedd yn gwrthddywedyd ei athroniaeth drwy ei fydolrwydd. Ond yr oedd yn wr o foesau prydferth a charuaidd: yr oedd ei syched am wybodaeth yn anniwalladwy, a gellir tybied ar sail dda y buasai i beth bynag a glywsai yn achlysurol am Gristionogaeth, a gaffai yn cyd-daro â'i syniadau ysplenydd ef ei hun, gynnyrchu awyddfryd cryf ynddo am wybodaeth helaethach o honi. Yn ystod yr amser y bu Paul yn garcharor yn Rhufain, cafodd Seneca lawer o gyfleusderau i ddal cymundeb âg ef, ac ni allasai lai na dysgu rhyw gymaint o wybodaeth am yr athroniaeth ddwyfol.

"Ar y dybiaeth hon, y mae rheswm digonol i'w gael am y cyd-darawiadau lawer mewn syniadau ac ymadroddion sydd i'w cael yn yr Epistol at yr Hebreaid, âg ysgrifeniadau yr athronydd, y rhai heb hyny a raid ymddangos fel pethau nas gellir rhoi cyfrif am danynt. Ysgrifena Godfrey Liss, gwr yr oedd ei ddysg a'i dduwioldeb yn gyfryw a'u cymhwysent ef i fod yn farnwr o ymddiried ar y fath achos, fel hyn am y tebygolrwydd nodedig sydd rhwng yr Epistol at yr Hebreaid, â thraethawd Seneca ar Ragluniaeth:—'Os Seneca mewn gwirionedd a ysgrifenodd y traethawd hwn, ac os na ddododd rhyw lendwyllwr ddarnau ato, rhaid ei fod wedi darllen yr Epistol at yr Hebreaid. Ac yn wir, gellir tybied yn naturiol y buasai i athronydd, gwr o'r fath ysbryd ymofyngar, ac yn byw yn Rhufain, lle yr oedd Eglwys Gristionogol ddigon dylanwadol i dynu sylw Nero, fynu gweled ysgrifeniadau y cyfryw gyfundeb.'

"Cai'r ysgolhaig Cristionogol dâl da am ei drafferth pe darllenai draethawd

Seneca yn y syniadau godidog lawer sydd ynddo, y rhai a osodir allan ganddo mewn modd hapus iawn, er gydag ychydig gymendod weithiau. Yn mherthynas i'r achos dan sylw, gwelir bod cyd-darawiadau rhwng syniadau yr athronydd â'r eiddo'r apostol yn dra hynod. Ond rhoddai darllen gwaith Mr. Glepke, os nad wyf yn camgymeryd, foddhad nid bychan i'r meddwl, drwy ei ymdriniad meistrolaidd â'r llyfrau a gymherir, a'r modd eglur a theg y mae efe yn ymresymu'r mater; ac yn gystal â hyny y mae y gwaith yn cynnwys esboniad i raddau ar yr epistol. Efe a ddengys, er boddlonrwydd i fy meddwl i, bod y pwynt a gadarnha efe, ar lawer o seiliau da, am y gyfathrach rhwng Paul a Seneca, yn symud llawer o anhawsderau a ddygid fel dadleuon yn erbyn yr epistol; ac yn brawf moesol cryf iawn, nad allasai neb ond Paul fod yn awdwr iddo."

DOLGELLAU: ARGRAFFWYD GAN W. HUGHES AND CO.

ir allan gan

Yn mhen

n yr athr

Mr. Gieph

ymdrinia

fe yn ym

iad i radd

wynta g

eneca, y

l; ac yn

BOUND BY
WESTLEYS
& Co
LONDON.